NYPL RESEARCH LIBRARIES
3 3433 06826168 8
Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# DECHREUAD

A

# CHYNNYDD

# CREFYDD YN YR ENAID:

WEDI EU HEGLURO

MEWN

AMRYWIOL O ANERCHIADAU

DIFRIFOL AC YMARFEROL.

GAN

Y PARCH. P. DODDRIDGE, D.D.

WEDI EI GYFIEITHU I'R GYMRAEG

GAN Y PARCH. JOHN GRIFFITH,

*Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Abergafenny.*

YR AIL ARGRAFFIAD,

Yn yr hwn y Diwygiwyd amrywiol o Wallau a ddygwyddasant yn yr Argraffiad Cyntaf

GAN E. GRIFFITHS, ABERTAWY.

**Abertawy:**

ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL FAWR.

1836.

Digitized by Google

THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY
619681 A
ASTOR, LENOX AND
TILDEN FOUNDATIONS
R [illegible] L

Digitized by Google

## HYSBYSIAD GYDA YR AIL ARGRAFFIAD.

Mae y llyfr gwerthfawr hwn, Dechreuad a Chynnydd Crefydd yn yr Enaid, o waith y gwr dysgedig ac enwog *P. Doddridge, D. D.* wedi cael ei Argraffu lawer gwaith yn yr Iaith Saesonig, ac wedi ei Gyfieithu i lawer o wahanol ieithoedd; a saif yn uchel iawn yn marn dynion call, duwiol, a phrofiadol. Ond nid yw wedi cael fawr o ledaniad yn yr Iaith Gymreig. Wrth ystyried ei gymhwysder i ddwyn ei Ddarllenwyr yn sobr i ystyried trueni eu cyflyrau wrth naturiaeth, ac i feithrin teimladau crefyddol yn y rhai y mae y gwaith da wedi ei ddechreu, meddyliais mai buddiol iawn i'r Cymry fuasai dwyn allan ail Argraffiad o hono. Dymunaf yn wresog am i fendith y Goruchaf ei ddilyn, fel y byddo y darlleniad o hono yn foddion i *ddechreu* crefydd mewn llaweroedd, ac wedi hyny i'w *chynnyddu*, nes iddi gael ei pherffeithio, er diogelwch a chysur ei meddiannydd, a mawl a gogoniant ei Hawdwr bendigedig.

Digitized by Google

Gan fod y copi o'r hwn y cymerwyd yr Argraffiad hwn, wedi ei Gyfieithu a'i Argraffu er ys cynifer o flynyddoedd yn ol, yn agos i 50, pan nad oedd ysgrifenu ac argraffu Cymraeg yn beth cyffredin, nid rhyfedd fod amrywiol o wallau wedi dygwydd ynddo. Y gwr parchus a'i cyfieithodd, a ddywed yn ei ragymadrodd, "Gwn fod amryw feiau yn yr iaith, rhyngof fi a'r Argraff-wasg:" ymdrechais yma ddiwygio y gwallau hyny. Yn yr Argraffiad blaenorol, er mwyn gwneyd y llyfr yn fyrach, a rhatach, gadawyd allan gynhwysiad y pennodau; rhoddwyd hwnw i mewn yn yr Argraffiad hwn, trwy yr hwn y gall y Darllenydd, mewn cylch bychan, weled y materion a drinir yn mhob pennod, yr hyn sydd yn beth cyfleus iawn mewn trefn i gael gafael ar ryw beth a fyddo yn cyffwrdd â'i amgylchiad.

Yn awr yr wyf yn ei anfon allan i'r byd, dan nawdd y Goruchaf, gan obeithio y bydd i lawer o'm cydwladwyr ei ddarllen yn ystyriol, a chael lles cadwedigol trwyddo.

E. GRIFFITHS.

*Gorphenhaf* 11*eg*, 1836.

Digitized by Google

# RHAGYMADRODD YR AWDWR.

Y MAE yr hyn a ddywedais yn y bennod gyntaf o'r traethawd hwn, yn nghylch trefn a dyben neillduol y gwaith, yn gwneyd *rhagymadrodd hir*, yn afreidiol. Fe allai fod rhai o'm darllenwyr yn cofio i mi er ys rhai blynyddoedd yn ol rhoi addewid o'r gorchwyl hwn yn y rhagymadrodd i'r ailargraffiad o'm *Pregethau ar allu a gras Crist*, &c. Fe ddarfu i fy nghyfaill tra anrhydeddus *Doctor Watts*, osod i lawr drefn y gwaith hwn, yn enwedig y rhan gyntaf: eithr oblegid yr afiechyd trwy ba un y bu dda gan Duw ymweled ag ef, (er galar mawr i'r eglwysi,) methodd chwanegu y traethawd hwn at yr amrywiol lyfrau ereill a gyhoeddodd efe er llesbad i eneidiau anfarwol; ac am hyny bu dda yn ei olwg, mewn modd taer a serchiadol, i'm hannog i i'w gymeryd ef mewn llaw. Ac yr wyf yn bendithio Duw â'm holl galon, nid yn unig am iddo fy nerthu i fyned trwy y gorchwyl hyfryd, (canys felly yn wir y bu i mi), ond hefyd am iddo arbed y person hawddgar hwnw nes ei weled ef ar ben; ac am ei alluogi ef i edrych dros gymaint o hono er mwyn ei ddiwygio. Gan iddo ef gymeradwyo y gwaith hwn, trwy y fath ymadroddion nad yw yn weddus i mi eu hadrodd, yr wyf yn gobeithio ei fod wedi ei gyflawni yn y fath fodd, ag a'i gwnelo, dan fendith Duw, o ryw faint o wasanaeth cyffredinol. Ac yr wyf yn dysgwyl y bydd efe felly, oblegid ei fod yn awr yn dyfod ar led i'r byd, nid yn unig gyda fy *ngweddiau i a'm cyfaill Doctor Watts*, eithr gyda *gweddiau cyfeillion duwiol ereill*, y rhai y bum i yn neillduol ofalus i'w ceisio er mwyn ei wneuthur yn llwyddiannus.

I ba ddwylaw bynag y delo'r gwaith hwn, rhaid i mi ddymuno arnynt ei ddarllen i gyd, cyn rhoddi barn arno; fel y gwelont y cydgordiad sydd rhwng y naill ran o hono â'r llall. Yr wyf yn dymuno hyn, oblegid i mi sylwi dros amser hir, fod cristionogion o wahanol enwau yn cymeryd gafael ar ryw ranau neillduol o wirioneddau dwyfol, ac felly yn dadleu yn eu cylch, fel pe buasai un ran y cwbl oll; neu fel pe byddai gwahanu aelodau oddiwrth eu gilydd, ac oddiwrth y pen, yn foddion i ddiogelu y corff, yn lle ei ddystrywio ef. Y



Digitized by Google

maent yn cynal ac yn amddiffyn, gyda zel mawr, anrhydedd a defnyddioldeb un rhan o wirionedd, yn neillduedig oddiwrth ran arall; ond ymddengys i mi fod buddioldeb ac anrhydedd y gwirioneddau dwyfol yn dibynu, mewn mesur mawr, ar eu cysylltiad â'u gilydd. Ac am fod un blaid yn fawr ei zel dros un rhan, a phlaid arall yn fawr ei zel dros ran arall o'r gwirionedd, y mae ammheuon a drwg-dybiau yn fynych yn cyfodi yn mysg y diffynwyr, a'r rhai hyny mor afresymol, a phe bai yr holl barotoadau i achub un rhan o long mewn ystorm, i gael eu hystyried fel bwriad i soddi y rhanau ereill. Y mae fy ngweddi ar Dduw am roddi i'w holl weinidogion a'i bobl fwy o ysbryd doethineb, o gariad, ac o bwyll, ac i symud ymaith yr holl anghydfod a'r drwg-dybiau sydd yn ein plith, y rhai sydd yn ein hatal rhag cyduno, megys y dylem, er gallu rhyfela yn llwyddiannus yn erbyn y grefydd gristionogol.—Sicr yw y bydd i'r gelynion hyny wneyd mantais o'n rhaniadau aml, a'n dadleuon creulon â'n gilydd, er mwyn enill y frwydr arnom; eto hwy a gollant dir o angenrheidrwydd, yn ol y gradd y byddo i egwyddorion cristionogaeth gael eu teimlo yn eu grym, yn uno ac yn cyfnewid calonau y sawl a'u proffesant.

Mi a arferais yr iaith fwyaf eglur ag oedd bosibl yn y llyfr hwn, fel y gallai y gwaelaf o'm darllenwyr, os yw bosibl, ddeall pob gair; ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'r dysgedigion faddeu i mi hyn o fai, gan ei fod yn ymddangos i mi yn ddarn o elusen angenrheidiol. Mewn ysgrifeniadau ymarferol, y mae gofal am lefaru yn eglur, yn ymddangos i mi yn un ffordd i anrhydeddu pawb, yr hyn beth y mae ein crefydd hawddgar a gostyngedig yn ei ddysgu i ni: ac yr wyf dan rwymau neillduol i'r parchedig *Doctor Watts* am ei waith yn byrhau fy ymadroddion ac yn gosod fy meddwl allan mewn geiriau mwy sathredig ac eglur. Eto y mae yn ddiammheu genyf, na chaiff y llyfr ei ystyried yn waeth, o herwydd myned o hono trwy ei ddwylaw ef.

Rhaid i mi ddal sylw ar un peth yn y man hwn yn mhellach, yr hyn y dymunaswn beidio ei esgeuluso yn yr argraffiad cyntaf, Sef, Er fy mod yn ystyried fy ddarllenydd yn y llyfr hwn yn myned trwy amrywiol

o amgylchiadau, gan ddechreu gyda'r pechadur diofal, a chan ei arwain trwy lawer o raddau argyhoeddiad a dychryn, &c. fel pethau angenrheidiol tuag at ei wneyd yn foddlon i dderbyn yr efengyl, ac i ymroddi i wasanaeth Duw; eto ni ewyllysiwn i mewn un modd ddywedyd fod pob un ag sydd yn cael ei ddwyn i'r penderfyniad a'r sefyllfa hapus hon, yn cael ei ddwyn trwy y camrau neillduol hyny, neu fod yn rhaid i bob un deimlo ar ei feddwl gynhyrfiadau i'r unrhyw raddau ag a ddarluniais i yma. Gwir yw fod rhyw faint o deimlad o bechod, a rhyw radd o adnabyddiaeth syml a gostyngedig o'n perygl, ac o'n trueni mewn canlyniad o hono, yn angenrheidiol i'n tueddu i dderbyn gras yr efengyl, a'r Iachawdwr sydd yno yn cael ei ddatguddio i'n ffydd. Eto y mae yr Arglwydd yn gweled yn dda i ddechreu gwaith ei ras ar galonau rhai yn mron mor gynted ag y mae rheswm yn gwawrio ynddynt; ac felly yn ei ddwyn ef yn mlaen yn y fath fodd esmwyth ac annheimladwy, fel y mae llawer o ddynion rhagorol, ac wedi cynyddu yn fawr mewn duwioldeb, y rhai na allant roddi un hanes neillduol am eu troedigaeth: ac mor bell ag y gellais i ddeall, dyma fel y mae hi fynychaf gyda y sawl a ddygwyd i fynu yn grefyddol, ac na adawyd i benrhydd-did a drygioni yn eu ieuengtyd. Na ato Duw gan hyny i neb o'r fath ddynion fod mor annheimladwy o'u dedwyddwch, a chael eu gadael i syrthio i betrusder mewn perthynas i'w cyflwr ysbrydol, a hyny am na allant gael yn eu meddyliau y fath ddechreuad o grefydd, ag oedd yn angenrheidiol i mi ddarlunio a'i amlygu yma, yn ol trefn y gwaith hwn.—Mi a osodais allan fy meddyliau ar y pen hwn mor gyflawn, yn yr wythfed o'm pregethau ar adenedigaeth, fel yr wyf yn meddwl na all neb ag a ddarllenodd y cyfryw, ac sydd hefyd yn cofio ei chynhwysiad, fod mewn perygl o gamsynied fy meddwl yn y traethawd hwn. Ond fel y mae yn dra thebygol i'r llyfr hwn ddyfod i ddwylaw llaweroedd ag na ddarllenasant y bregeth hòno, tybiais fod yn gymwys rhoddi y gocheliad hwn yma yn y rhagymadrodd; ac yr wyf yn rhwymedig iawn i'm cyfaill teilwng a rhagorol, pa un a ddygodd ar gof i mi fuddioldeb y fath ocheliad.

Digitized by Google

Y

# CYFIEITHYDD AT Y CYMRY.

FY ANWYL GYDWLADWYR,

NA anfoddlonwch wrthyf am fy ngwaith trwy fawr draul a llafur, yn ceisio gosod yn eich dwylaw y llyfr gwerthfawr a ganlyn, yn eich iaith eich hunain; canys fy amcan trwy y cyfryw orchwyl, oedd, dwyn yn mlaen eich dedwyddwch tragywyddol. Y mae yn achos o lawenydd mawr i bob dyn duwiol, i feddwl am yr aml ragorfreintiau crefyddol a roddodd yr Arglwydd i'r Brutaniaid o oes i oes: eto nis gall y sawl a ddygwyd o farwolaeth i fywyd, lai na galaru wrth edrych ar gyflwr truenus miloedd yn ein mysg; sef, y rhai sydd yn diystyru Crist a iachawdwriaeth gras, gan chwerthin a diofalhau ar geulan dystryw tragywyddol. Fe welodd Duw yn dda i ddonio a danfon ar led amryw o weinidogion ffyddlon, i gyhoeddi mewn amser ac allan o amser, fod maddeuant a chymod i bechaduriaid euog yn Nghrist; a bod pob peth yn barod i gael ei gyfranu yn rhad, er mwyn gwneyd yn dragywyddol ddedwydd y rhai oll a ddychwelant ato ef. Ond, och i feddwl! y mae torfeydd lawer yn dywedyd yn eglur, trwy eu hymddygiadau, am yr anwyl Iesu, "ni fynwn ni mo'r dyn hwn i deyrnasu arnom."—Gyda golwg at ddychweliad rhai, o leiaf, o'r cyfryw eneidiau truenus, cymerais mewn llaw y gwaith poenfawr o gyfieithu y llyfr a ganlyn; rhodded yr Arglwydd ei fendith i gydgerdded ag ef i'r dyben gogoneddus hwnw! Pa fodd bynag y meddylio ereill, yr wyf fi yn edrych ar y traethawd hwn yn un o'r llyfrau mwyaf defnyddiol ag sydd mewn bod (oddieithr y Bibl santaidd) i ddyn yn achos iachawdwriaeth ei enaid.—Y mae yma olwg eglur yn cael ei rhoddi, yn unol â'r ysgrythyr, ar y cyflwr damniol

Digitized by Google

y mae pob dyn ynddo fel troseddwr o gyfraith berffaith ac anghyfnewidiol Duw; ac hefyd ar annigonolrwydd pob ymgais o eiddo y pechadur i roddi iawn am ei droseddau gynt, i gyfnewid ei anian fewnol, nac i ryddhau ei hun o dan iau y gelyn diafol. Ac wrth ystyried pa mor hanfodol yw golwg ar, a chrediniaeth o'r pethau hyn at argyhoeddiad, edifeirwch, a dychweliad pechaduriaid, diddadl yw, mai y pregethwyr a'r llyfrau mwyaf defnyddiol, yw y rhai sydd yn eu gosod allan yn y modd mwyaf eglur. Fe ellir yn briodol alw y llyfr hwn yn *gorff o dduwinyddiaeth brofiadol;* canys y mae yr awdwr ynddo yn rhoddi darluniad o waith gras yn y cristion yn ei holl ranau, o amser ei argyhoeddiad hyd ei addfedrwydd cyflawn i ogoniant.—Gwir yw, fod llawer o'r sawl a elwir yn gristionogion yn ein dyddiau ni, yn barod i wawdio profiad neu deimlad mewn crefydd, fel pe bai y fath beth yn hollol anysgrythyrol ac afresymol: ond beth er hyny, a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer? Megys nas gall gwaith dyn dall yn dywedyd nad oes un haul, nac amryw liwiau, beri i'r hwn sydd yn gweled y cyfryw bethau gredu mai twyll ydynt; felly nis dichon gwawdiaith y cristionogion nad oes ganddynt ond *enw o fod yn fyw*, byth beri i'r sawl a aned o Dduw gredu mai peth ffugiol yw teimlad o weithrediadau Ysbryd y gras ar eu heneidiau. Pe byddai y fath beth a chael dyn na theimlodd erioed na *newyn na syched yn ei gorff*, neu un nas cafodd ei effeithio erioed yn ei feddwl, gan na galar na llawenydd, fe ellid yn rhesymol ddysgwyl i'r cyfryw gyhoeddi nad oes y fath bethau yn bod; ac felly wawdio y sawl a ddywedant eu bod yn eu teimlo. A chan fod miloedd o wŷr a gwragedd, o feibion a merched, dan *swn yr efengyl*, heb deimlo dim o'r cyfryw bethau erioed yn ysbrydol, nis gellir yn rhesymol ddysgwyl i'r cyfryw rai ddywedyd dim yn grediniol ac yn barchus am grefydd brofiadol.—Pan y mae yr ysgrythyr yn son am yr annuwiol, y mae efe yn ei chyfrif hi yn farw; ac nid oes gan y marw un teimlad o'i gyflwr: ond pan sonir am dduwiolion, y maent yn cael eu hystyried yn greaduriaid newydd, ac yn greaduriaid byw; ac y mae teimladau priodol yn perthyn i bob peth byw, ac ni all lai na gwybod eu bod hwynt.



Digitized by Google

Y mae yn eglur na all y byw mewn un modd beri i'r marw wybod y pethau y mae efe yn eu profi; felly ni all y cristion byth beri i'r dyn anianol a'r proffeswr heb ddim ond crefydd hanesiol, ddeall dim yn iawn am y profiadau sydd yn ei galon ef o weithrediadau Ysbryd Duw. Eto sylwn, er nad yw profiadau plant Duw o waith ei ras ef ar eu heneidiau o unrhyw fudd i ereill, eu bod er hyny iddynt hwy eu hunain yn brawf anffaeledig o wirionedd eu crefydd, ac o'u bod hwy wedi eu symud o farwolaeth i fywyd; ac y mae yn anmhosibl i *sicrwydd ffydd* darddu oddiar un peth heblaw yr hyn y mae y cristion yn *deimlo o air y bywyd*, canys trwy ei weithrediadau yn dychwelyd ac yn santeiddio y pryn-edigion, y mae Ysbryd Duw yn cyd-dystiolaethu â'u hysbrydoedd hwy eu bod yn blant i Dduw. Ewyllysiwn i bawb sylwi yn y lle hwn, yn mhellach, nad yw awdwr y traethawd canlynol wrth son am y rhan brofiadol o grefydd, yn edrych ar hyny y cwbl oll o honi; eithr ei fod hefyd yn golygu y rhan ymarferol yn beth o bwys mawr; ac yn beth ag sydd yn tarddu yn angenrheidiol, oddiwrth allu gras yn y dyn oddifewn. Y mae llawer o ddynion yn edrych ar yr athrawiaethau efengylaidd, a sonir am danynt yma, fel pethau yn arwain i benrhyddid pechadurus; ond nid felly yr oedd awdwr duwiol y llyfr hwn yn edrych arnynt: eithr y mae efe yn eu hystyried hwynt ar un llaw fel y gwreiddyn a'r bywyd, heb ba rai ni all neb *ddwyn ffrwyth da, na gwneuthur dim* yn gymeradwy gan Dduw, Ioan 15. 5. ac ar y llaw arall, efe a edrych ar dduwioldeb ymarferol fel cangen yn tarddu yn angenrheidiol oddiwrthynt. Canys pa le bynag y mae y fath egwyddorion wedi gwreiddio, y maent yn peri na byddo neb yn segur na diffrwyth; eithr yn *helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, ac yn awyddus i weithredoedd da.* O'r tu arall, y mae rhai wrth son am athrawiaethau gras gyda sel mawr drostynt, yn darlunio y creadur newydd fel peth wedi ei greu gan Dduw yn ddigyfrwng; ac felly yn byw ac yn cynnyddu, er esgeuluso dyledswyddau ac ordinhadau yr efengyl. Ond nid felly yr oedd y parchedig *Doctor Doddridge* yn meddwl; eithr efe a esyd allan *nad oes iachawdwriaeth*, oddieithr i'r cyflawniad o'r

Digitized by Google

*addewidion diamodol* o du Dduw, ddwyn yr enaid i ffordd Duw, i'r dyben o gael hawl yn mreintiau ac *addewidion amodol* yr efengyl. Y mae y traethawd hwn yn gosod allan yn eglur, yr angenrheidrwydd anhebgorol sydd i gristion ddysgwyl wrth yr Arglwydd yn barhaus, trwy yr *ymarferiad o bob ordinhad*, i'r dyben o fod yn gadarn a chynnyddu mewn crefydd; a bod yn anmhosibl i neb fod yn *gysurus yn eu profiad*, tra fyddont yn esgeulus o orchymynion Duw a chrefydd ymarferol.

Gellir tybied wrth glywed rhai yn darlunio cyflwr a sefyllfa y duwiolion, eu bod, trwy rinwedd eu perhynas â Christ, wedi eu gosod yn y fath gyflwr, fel na all pechod byth eu drygu mwy. Ond byddai y fath feddwl yn gyfeiliornad erchyll; am hyny, Duw a'n gwaredo ni oll rhagddo!—Gwir yw, nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu; er hyny nid yw Duw yn dywedyd nad oes cerydd iddynt pan droseddont: canys od oes neb ag sydd yn proffesu eu hunain yn ddysgyblion i Grist, heb gerydd yn fewnol neu yn allanol pan bechont yn erbyn Duw, yna basdarddiaid ydynt. Y mae pechod y gwir gredadyn mor ddamniol yn ei natur, ag yw pechod yr annychweledig; ac y mae pechodau y saint yn dwyn gyda hwynt ddyfnach euogrwydd, yn gyfatebol i'r amgylchiadau tra gogoneddus y maent ynddynt, yn eu gwaith yn tori cyfreithiau y nef: ïe, y mae pechodau y rhai a brynwyd, ac a alwyd trwy ras, o'r fath ganlyniad dinystriol, fel oni bai fod Duw, o'i drugaredd anfeidrol, a thrwy foddion effeithiol, yn atal eu parhad ynddynt, ni byddai cadwedig un cnawd oll. Y mae yr Iesu yn gwared ei bobl oddiwrth eu pechodau; nid yn unig oddiwrth yr euogrwydd damniol ag sydd yn cydfyned â hwynt, eithr hefyd rhag ewyllysgarwch i fyw yn yr ymarferiad o honynt. Ac un o'r moddion gosodedig i'r dyben mawr hwnw, yw, *Ceryddon rhagluniaeth, a cholled o gymdeithas gysurus Duw y gras yn yr enaid.* Y mae Duw yn dywedyd am bobl ei gyfamod fel hyn, pan bechont, *mi a fyddaf fel llew iddynt; cyfarfyddaf â hwynt fel arth wedi colli ei chenawon; rhwygaf orchudd eu calon hwynt*, Hos. 13. 7, 8. *Mi a gauaf eu ffordd; mi a furiaf fur, fel na chaffo hi ei llwybrau*, Hos. 2. 6.

Digitized by Google

A phan fyddo yr Arglwydd yn ymddwyn fel hyn tuag atynt, y maent yn gwaeddi gyda Dafydd, *Cuddiaist dy wyneb, a bum helbulus;* a chyda yr eglwys gynt, *Af a dychwelaf at fy ngwr cyntaf, canys gwell oedd arnaf yna nag yr awr hon*, Hos. 2. 7. Eglur yw gan hyny, nad oes dim perthynas gadwedigol rhwng y cyfryw rai â Duw, ag sydd yn cael llwyddiant ac esmwythder mewn ymarferiad o bechod yn ei erbyn ef. Gan fod pechod yn sicr o dori cysuron plant yr Arglwydd, ac o beri iddynt, gyda Phedr, i wylo yn chwerw-dost, bydded i bawb geisio ymgadw rhag pob rhith drygioni; a chan fod Duw yn taro'r plentyn er mwyn cael lladd pechod, rhag i bechod ei ladd ef, bydded i ni oll gyduno i ganu am drugaredd a barn, gan ystyried ceryddon yr Hollalluog yn foddion angenrheidiol i'n iachawdwriaeth. Wrth feddwl pa mor groes i natur Duw a dedwyddwch enaid, yw pechod, nid oes un cristion cywir yn ymfoddloni ar gael perthynas â'r Arglwydd trwy gyfiawnhad a mabwysiad, heb gael hefyd gyffelybrwydd iddo trwy santeiddhad yr Ysbryd a ffydd i'r gwirionedd; am hyny ni all y llyfr hwn lai na bod yn werthfawr yn ngolwg pob dyn gwir dduwiol, gan ei fod yn amlygu y sylfaen mor oleu, rhag i neb gael eu gadael i adeiladu ar y tywod; ac hefyd yn amddiffyn anrhydedd llywodraeth foesol Duw mewn modd tra rhagorol.

Frutaniaid hawddgar, nid rhaid i mi ymhelaethu mewn perthynas i werthfawrogrwydd y llyfr; canys wele ef yn awr yn dyfod atoch fel y llefaro drosto ei hun: Duw a roddo iddo gael syml wrandawiad, a llwyddiant mawr yn eich plith! Am y cyfieithiad, nid oes genyf ddim i ddywedyd drosof fy hun, ond yn unig i mi wneuthur fy ngoreu; eto gwn fod amryw feiau yn yn yr iaith, rhyngof fi a'r argraffwasg: am hyny rhaid i mi ddymuno ar y sawl a welont wallau, i beidio a barnu yn annrhugarog, gan gofio yn wastadol, fod yn llawer haws gweled beiau ereill, na bod ein hunain yn berffaith. Wrth gyfieithu, ni cheisiais roddi gair am air; ond fy amcan oedd, rhoddi meddwl yr awdwr yn y geiriau mwyaf eglur: ac yr wyf yn meddwl y gallaf sicrhau, nad wyf fi yn un rhan o'r cyfieithiad wedi dywedyd un peth, pan yr oedd yr awdwr yn meddwl peth

Digitized by Google

arall; am hyny gobeithiaf y bydd i bob darllenydd gydymddwyn â'r dull o ymadroddi, er ei fod weithiau yn anhyfryd.—Ni newidiais ddim ar drefn y llyfr; ond rhoddais ef i chwi fel y mae yn saesoneg, oddi eithr cynhwysiad y pennodau, yr hyn a adewais allan er mwyn gwneyd y gwaith yn fyrach a rhatach.

Dyma fi yn awr yn darfod ysgrifenu, gan ddymuno ar bob un a bryno y llyfr i beidio ei ddibrisio eithr ei ddarllain trwyddo oll.*** Gan gredu mai llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn, bum ofalus i ddeisyf gweddiau bugeiliaid amrywiol eglwysi, at ba rai y danfonais y llyfr, am i Dduw ei wneuthur yn fendith gyffredinol; ac yr wyf yn gobeithio y bydd iddynt hwy, a phawb ag a garant ein Harglwydd Iesu Grist, wneuthur felly. A chan wybod y dichon Duw wneuthur pethau mawrion trwy offerynau gwael, gobeithiaf y bydd i'r cyfieithiad hwn fod o fendith i rai o honoch, Gymry anwyl, ac yn foddlon i'ch dwyn at Iesu am fywyd; ac y caf fi eich clywed yn canmol yr Arglwydd am ei ddaioni i chwi trwyddo, pan fyddoch chwi a minau yn sefyll o flaen gorseddfainc barn,

Wyf eich ewyllysiwr da,

JOHN GRIFFITH.

*Abergafenny,*
*Hydref* 16, 1787.

# Y CYNHWYSIAD.

PEN. I. Tu dal.

Arweiniad i mewn, yn nghyd â chrybwylliad cyffredin am ddyben y gwaith - - - - - - - - - 17

PEN. II.

Y pechadur diofal yn cael ei ddeffroi - - - - - - 29

PEN. III.

Y pechadur wedi ei ddeffroi yn cael ei annog i ystyried ei gyflwr yn ddiattreg, ac i ochelyd diofalhau - - - 42

PEN. IV.

Y pechadur yn cael ei gyhuddo a'i euogfarnu - - - 52

PEN. V.

Y pechadur yn cael ei ddyosg o'i ddadleuon ofer - - - 65

PEN. VI.

Y pechadur yn cael ei brofi yn euog - - - - - 77

PEN. VII.

Analluog gyflwr y pechadur dan gondemniad - - - 87

PEN. VIII.

Newydd o iachawdwriaeth trwy Grist yn cael ei ddwyn at y pechadur euog - - - - - - - - 94

PEN. IX.

Hanes mwy neillduol am y ffordd, trwy ba un y mae cael iachawdwriaeth - - - - - - - - - - 103

PEN. X.

Y pechadur yn cael ei annog mewn modd difrifol i dderbyn iachawdwriaeth yn ffordd Duw - - - - - - 114

PEN. XI.

Anerch difrifol at y sawl ni chymerant eu perswadio i gwympo i mewn â galwad ac â dyben yr efengyl - - - 123

Digitized by Google

PEN. XII.

Gair at yr enaid a wasgwyd i lawr yn y fath fodd, gan deimlad o fawredd ei bechodau, fel nas dichon ddyfod at Grist gydag unrhyw obaith am gael iachawdwriaeth - - - 141

PEN. XIII.

Yr enaid anmheus yn cael ei gynorthwyo mewn modd mwy neillduol yn ei ymofyniadau yn nghylch gwirionedd ei ffydd a'i edifeirwch - - - - - - - - 150

PEN. XIV.

Golwg fwy neillduol ar amrywiol ganghenau y dymer gristionogol; trwy ba un y gall y darllenydd gael ei gynorthwyo i farnu yn iawn pa beth yw ei gyflwr, a pha beth a ddylai fod 159

PEN. XV.

Y darllenydd yn cael ei alw i ystyried yr angenrheidrwydd o gynorthwyon Ysbryd Duw i'w ffurfio i'r dymer uchod; a pha annogaeth sydd iddo i obeithio am danynt - - 179

PEN. XVI.

Y Cristion yn cael ei rybuddio yn nghylch, a'i galonogi yn erbyn, y rhwystrau pa rai sydd raid iddo ddysgwyl cyfarfod â hwynt yn ei yrfa grefyddol - - - - - 187

PEN. XVII.

Y Cristion yn cael ei annog i, a'i gynorthwyo yn, y weithred o hunan-ymroddiad i wasanaeth Duw - - - - 194

PEN. XVIII.

Yn nghylch mynediad y Cristion i gymundeb eglwysig, trwy dderbyniad parchus o swper yr Arglwydd - - - 204

PEN. XIX.

Rhai hyfforddiadau mwy neillduol er mwyn cynal cymundeb gwastadol â Duw, neu aros yn ei ofn ef ar hyd y dydd - 214

PEN. XX.

Annogaethau difrifol tuag at dreulio ein dyddiau yn y modd y dangoswyd yn y bennod o'r blaen - - - - - - 234

PEN. XXI.

Y Cristion ieuanc yn cael ei annog i ochelyd y temtasiynau, pa pa rai a allant ei atal i redeg yr yrfa a osodais o'i flaen - 247

Digitized by Google

PEN. XXII.

Y cyflwr o ddadfeiliad ysbrydol ac o nychdod mewn crefydd, yn cael ei ystyried - - - - - - - - 261

PEN. XXIII.

Cyflwr galarus dyn wedi syrthio i bechod adnabyddus a gwirfoddol, ar ol rhoddi ei hun mewn modd syml i Dduw, ac ar ol mesur o gynnydd mewn crefydd - - - - - 274

PEN. XXIV.

Cyflwr y Cristion wedi colli llewyrch wyneb Duw - - 288

PEN. XXV.

Y Cristion yn dyoddef dan gystuddiau dirfawr - - - 304

PEN. XXVI.

Y Cristion yn cael ei gynorthwyo yn ei ymofyniad yn nghylch cynnydd ei ras - - - - - - - - 313

PEN. XXVII.

Y Cristion, wedi mawr gynnydd mewn gras, yn cael dwyn ar gof iddo amryw drugareddau yr Arglwydd, a'i annog i'w garu ef, ac i lawenhau ynddo. - - - - - - 326

PEN. XXVIII.

Y Cristion sefydlog yn cael annogaeth i ymegnio, i'r dyben o fod yn ddefnyddiol - - - - - - - - 339

PEN. XXIX.

Y Cristion yn gorfoleddu yn yr olwg ar angau a barn - - 353

PEN. XXX.

Y Cristion yn anrhydeddu Duw trwy ei ymddygiad yn marwolaeth - - - - - - - - - - 365

Digitized by Google

# DECHREUAD A CHYNYDD

# CREFYDD YN YR ENAID.

## PENNOD I.

### ARWEINIAD I MEWN, YN NGHYD A CHRYBWYLLIAD CYFFREDIN AM DDYBEN Y GWAITH.

Fod gwir grefydd yn brin iawn, a ymddengys wrth gymharu ei nhatur â bucheddau a chymeriadau dynion o'n hamgylch, Dosparth 1, 2. Y diffyg o honi yn achos priodol o alar, 3. Diwygio y drwg hwn, yw dyben y traethawd canlynol, 4. At yr hwn, gan hyny, y geilw yr awdwr yn daer am sylw y darllenydd, gan fod y peth yn gorphwys yn neillduol ar ei galon ei hun, 5, 6. Cynllun cyffredinol y gwaith; y pymtheg pennod cyntaf o ba un a berthynant yn benaf i Ddechreuad crefydd, a'r pennodau ereill at ei Chynydd, 7—12. Y bennod a derfyna gyda gweddi am lwydd y gwaith.

1. Pan edrychom yn graff o'n cwmpas, ac yr ystyriom nodau ac ymgyrchiadau dynion, ni a welwn yn eglur fod llawer o honynt mewn modd cywilyddus yn esgeuluso crefydd; er mai hwynthwy yn unig o'r holl greaduriaid ag sydd ar wyneb y ddaear, o herwydd galluoedd eu natur, sydd wrthrychau cymwys o honi. A pheth bynag o wahanol dybiau a all dynion gymeryd i mewn am yr hyn a alwant yn Grefydd, mae pawb yn rhwym i addef nad yw hi yn beth *cyffredinol.*

2. Crefydd yn yr ystyr helaethaf, yw y cyfryw



Digitized by Google

deimlad o Dduw ar yr enaid, a'r cyfryw argyhoeddiad o'n rhwymedigaethau iddo, ac o'n dibyniad arno, ag a baro i ni wir ofalu i ymddwyn yn y fath fodd, ag y gallom yn rhesymol gredu, ei fod yn foddhaol iddo ef. Wedi rhoddi y desgrifiad hwn o grefydd, ni raid i ni fyned i chwilio yn mysg cenhedloedd gwylltion *Affrica* neu *America* am siamplau o'r sawl sydd yn *ddyeithriaid iddi*. Pan sylwom ar ymddygiad y cyffredinolrwydd o bobl gartref, yn mysg y *genedl gristionogol a phrotestanaidd*, yr hon sydd dan fwy rhwymedigaethau i Dduw na neb dynion dan y nef, a all neb ryfygu dywedyd fod gan grefydd lywodraeth gyffredinol yn ein plith? A ddichon neb feddwl ei bod yn ffynu ac yn llywodraethu yn *nghalonau a bywydau pawb?* Och i feddwl am y didduwiaeth, yr halogiad o enw a dydd Duw, y meddwdod, yr anlladrwydd, a'r anghyfiawnder, y twyll, y balchder, a'r afradlondeb, yr hunandyb, a'r annheimladrwydd hurt, o'r hyn a berthyn i'n dedwyddwch ysbrydol a thragywyddol ein hunain ac ereill, sydd yn ymddangos mor gyffredin yn ein mysg; pa rai sy yn tystiolaethu i'r gwrthwyneb!—Wrth hyn gall un dybied fod miloedd a myrddiynau yn edrych ar yr *esgeulusiad*, ïe, ar y *dibrisiad* o Grefydd, yn ogoniant, yn hytrach nac yn waradwydd. A pha le mae y gymydogaeth, y gymdeithas; ïe, pa le mae y teulu dedwydd (yn cynwys cryn rifedi) am yr hwn y gallem, wrth fanwl sylwi arno, ddywedyd, "*Wele mae crefydd yn llanw y cylch bychan hwn?*" Mae yn bosibl eu bod yn rhydd oddiwrth ddrygau mawrion a chywilyddus; hwy a allant fod o ymddygiad gweddaidd yn allanol, ac yn sylwi ar ffurfiau allanol o addoliad cyhoeddus, ac, o bosibl, (rai o honynt,) yn y teulu; ac er hyny, nid oes ynddynt ddim ag sydd yn edrych yn debyg i wir ·ithrediadau yr ysbrydol a'r ddwyfol *anian*. Nid oes

Digitized by Google

dim ymddangosiad o gariad at Dduw, o barch i'w bresenoldeb ef, na dymuniad am dano fel y *daioni penaf:* nid oes dim gwir grediniaeth yn efengyl yr iachawdwriaeth, dim cywir ofal i ffoi rhag y ddamnedigaeth a haeddasom trwy bechod, nac am sicrhau y bywyd tragywyddol yr hwn a bwrcasodd Crist i'w bobl, ac sy yn cael ei gynyg yn rhad i bawb a'i derbyniant ef. Pa beth bynag a allo serch cyfaill neu rieni wneuthur; er cryfed eu tueddiadau i obeithio pob peth, ac i gredu pob peth ag a fo'n ffafriol; eto tystiolaeth i'r gwrthwyneb a wthia ei hun i'r meddwl, ac a bair iddynt addef a dywedyd, pa beth bynag a allo fod yn ddymunol yn yr anwyl gyfaill hwn, neu yn y plentyn hoff acw, "*nid yw crefydd yn preswylio yn ei fynwes ef.*"

3. Dyma un o'r ystyriaethau mwyaf galarus yn y byd, i galon sy yn cadarn gredu yr efengyl, ac yn ystyried *personau* a *phethau* yn ngoleuni tragywyddoldeb! Ac, yn wir, i'r cyfryw, mae yr holl helbulon, a'r drygau ereill a berthynant i'r natur ddynol, yn ymddangos yn bethau distadl mewn cymhariaeth â'r drwg hwn; sef y diffyg o wir grefydd, a'r gwrthwynebrwydd hwnw iddi, ag sydd yn llywodraethu miloedd o ddynolryw! Boed i'r drwg hwn gael ei feddyginiaethu, ac fe fydd yn hawdd dwyn y lleill; ïe, daioni a dynir allan o honynt. Ond os hwn a erys, efe a ddwg *ffrwyth i farwolaeth;* (Rhuf. 7. 5.) ac mewn canlyniad o hono, torfeydd ag a wnaethpwyd yn gyfranogion o bethau dymunol rhagluniaeth, a gânt mewn ychydig flynyddoedd eu ysgubo ymaith i *hollol ddystryw,* a'u soddi mewn *llosgfeydd tragywyddol,* heb obaith am ymwared.

4. Nid wyf yn amheu nad oes llaweroedd yn mysg yr amryw enwadau crefyddol (i ba rai yr ydym ni yn y deyrnas hon wedi ymranu mor anhapus) yn galaru am y pethau hyn, nid yn unig yn *gyhoedd,* os yw eu sefyllfa

Digitized by Google

mewn bywyd yn rhoddi iddynt gyfleusdra i wneyd felly, ond hefyd yn y *dirgel* o flaen Duw; y rhai a allant alw yr hwn sydd yn chwilio y calonau, yn Dyst o uniondeb eu dymuniadau am adfywio achos gwir gristionogaeth a duwioldeb, pa un sydd mor llesg. Ac yn mhlith ereill, fe all *awdwr y traethawd hwn* mewn hyder ddywedyd, mai hyn a'i gyrodd ef at y gorchwyl presenol, yn mysg cynifer o *ofalon* a *gorchwylion* ereill. I'r dyben hwn mae efe yn rhoddi heibio yn ewyllysgar gywrain chwilio y *celfyddydau*, pa rai y mae ganddo hoffder ynddynt, ac, o bosibl, a allent ei wneuthur yn anrhydeddus yn mysg y dysgedigion. I'r dyben hwn, mae yn chwenych gadael heibio bob rhyw lafurus addurniadau ymadrodd, fel y gallo y rhan fwyaf annysgedig o ddynolryw ei ddeall; i'r dyben hwn fe chwenychai oleuo *deall*, a chyrhaedd *calon* pob darllenydd: ac, mewn gair, fe chwenychai i'r dyben hwn (heb ofni yr enw o benboethiad (*Enthusiast*), pwy bynag a'i taflo yn ei erbyn ar antur, ar yr achlysur hwn) fyned gyda chwi i'ch ystafell o ddydd i ddydd; a chyda phob eglurdeb, onestrwydd, a difrifwch, ymddyddan â chwi yn nghylch y pethau mawrion ag a ddysgodd efe allan o'r ysgrythyr, ar ba rai y mae efe yn gwybod fod eich tragywyddol ddedwyddwch yn dibynu: fel os byw fuoch hyd yn hyn heb grefydd, y caffoch eich deffroi i'r ystyriaeth o honi, a'ch addysgu i adnabod ei nhatur a'i gwerthfawrogrwydd; neu os ydych yn awr trwy ddwyfol ras yn brofiadol o honi, y bo i chwi gael eich nerthu i fyned rhagoch ar gynydd.

5. Gan ein bod yn awr yn myned yn nghylch gwaith o fawr bwys, y mae yr awdwr yn dymuno ar i'r darllenydd roddi gwrandawiad astud a difrifol. Fe ddymunai i'r cyfarchiadau a'r myfyrdodau hyn gael eu chwilio ar bob cyfleusdra, a'u dirgel ystyried. Mae efe yn mhell-

Digitized by Google

ach yn dymuno arnoch i wneuthur y cyfiawnder hwn ag ef, ac a'ch hunain, sef, credu fod y *darluniadau* a wneir. a'r *rhybuddion* a roddir yma, yn tarddu oddiar gariad ac *onestrwydd;* eu bod yn tarddu o galon, yr hon ni fynai yn fwriadol roddi poen afreidiol, tros un funud, i'r creadur gwaelaf ar wyneb y ddaear; a llawer llai i un meddwl dynol. Os yw yn *daer*, yr achos yw, ei fod *ef*, o leiaf, yn gweled rheswm cyfiawn i fod felly; ac mae efe yn ofni rhag yn mhlith y torfeydd a ddinystrir o herwydd eu hollol esgeulusdra o grefydd, ac yn mysg y rhai a golledir yn fawr o eisiau ymroddiad mwy dewr a chyson iddi, mai hyn a all fod cyflwr rhai o'r cyfryw y daw y traethawd hwn i'w dwylaw.

6. Yr hwn a allo edrych ar *ofidiau* ei gydgreaduriaid heb *ddymuniad*, o leiaf, i fod ar ei law i'w cynorthwyo, sydd *farbariad*, ac ni haeddai ei alw yn ddyn. Diammheu y byddai y ddaear yn nefoedd i'r hwn a allai fyned o gwmpas o le i le gan gyfranu hapusrwydd pa le bynag y delai, er na byddai ond y corff yn unig yn derbyn esmwythad; ac er nas gallai gyfranu dim gwell na dedwyddwch y bywyd hwn. Ond mae yr hapusrwydd yn cyfodi yn uwch yn ol *natur* a *gradd* y daioni sydd yn cael ei wneuthur. Dedwydd (yr ydym yn barod i ddywedyd) oedd y gweision anrhydeddus hyny o eiddo Crist, pa rai yn moreuddydd ei eglwys oeddynt yn offerynau cymwynasgar a chydymdeimladol i gyfranu iachad gwyrthiol i'r cyfryw ag yr oedd eu cyflwr yn ymddangos yn anobeithiol; pa rai a roddent i'r dall ac i'r byddar, y pleser o weled ac o glywed, ac a alwent y meirw i weithredu a mwynhau. Ond hapusrwydd ac anrhydedd yw hyn, nad yw yn gymwys i Dduw ei gyfranu i ddynion yn gyffredin. Eto fe fu yn mhob oes, a bendigedig fyddo ei enw, mae hyd yn hyn, y cyfryw yn ein plith ni, ag y gwelodd Duw yn dda eu gwneuthur



Digitized by Google

yn offerynau i gyfranu bendithion gwell, a mwy parhaus i'w cydgreaduriaid, na'r rhai hyny. Marwolaeth a gauodd glustiau ac a dywyllodd lygaid y rhai a dderbynient iachad gwyrthiol, er ys talm, ac fe enillodd angau ei lywodraeth dros y sawl a alwyd unwaith o'u beddau. Ond yr eneidiau hyny ag a wnaethpwyd yn foddlon i dderbyn yr efengyl, a fyddant *fyw byth.* Fe arddelodd Duw lafurwaith ei weision yn mhob oes o'r byd i ddwyn i ben yr effeithiau gogoneddus hyn; a rhai o honynt, er eu bod yn feirw, ydynt yn *llefaru eto,* (Heb. 11. 4.) gydag awdurdod a llwyddiant yn yr achos pwysfawr hwn. Na ryfeddwch gan hyny fy mod i, pa un bynag ai wrth fyw ai wrth farw, yn awyddus am yr anrhydedd hwn; na ryfeddwch fy mod yn agor fy ngenau yn ddidderbyn wyneb, pan y gallaf mewn gwirionedd ddywedyd, *fy nghalon a ehangwyd,* 2 Cor. 6. 11.

7. Wrth lunio y traethawd bychan hwn, gofelais ar iddo, hyd ag yr oedd bosibl, i gynwys rhywbeth addas i gyflwr pawb a'i darllenant. Gan hyny caf ystyried y *dyn,* a'r *cristion,* mewn amrywiol amgylchiadau. Yn gyntaf caf ystyried fy hun yn ymddyddan âg un o'r dorf anystyriol hyny o greaduriaid Duw, ag a fu hyd yn hyn yn hollol esgeulus yn nghylch crefydd; i edrych a allaf trwy gyfarchiad eglur a difrifol ei ddeffroi ef o'r cwsg dinystriol hwn, i ofal, (pen. 2.) i ofal gwresog a diatreg yn ei chylch, (pen. 3.) Mi a ymdrechaf argraffu ar ei gydwybod argyhoeddiad dwfn o'i *euogrwydd,* (pen. 4.) a'i ddyosg o'i holl wag esgusodion a'i obaith twyllodrus, (pen. 5.) Mi a ddarllenaf iddo (ac O na allwn sefydlu ar ei galon) y farn ofnadwy, ac y mae y cyfiawn, a'r hollalluog Dduw wedi ei chyhoeddi yn ei erbyn ef fel pechadur, (pen. 6.) ac mi geisiaf ddangos iddo y cyflwr analluog y mae ynddo dan y

hon, o ran unrhyw gymhwysder ag sydd ynddo ef

Digitized by Google

i wared ei hunan, pen. 7. Ond nid wyf yn meddwl gadael neb yn y fath sefyllfa ddychrynllyd: mi gyhoeddaf yn llawen y *newyddion da*, o faddeuant ac iachawdwriaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd, yr hyn yw unig gynhaliaeth a hyder fy enaid fy hun: (pen. 8.) ac mi roddaf olwg gyffredinol ar y ffordd y mae hi i'w chael (pen. 9.); gan anog y pechadur yn y modd mwyaf serchog ag y gallwyf i'w derbyn, (pen. 10.)

8. Mae yn rhy debygol ar ol hyn oll, y bydd rhai yn aros yn annheimladwy; gan hyny, fel na bo eu cyflwr athrist hwynt i sefyll yn ffordd yr erthyglau canlynol, mi a gymeraf fy nghenad oddiwrthynt yn y man hwn, yn y modd mwyaf difrifol, (pen. 11.) gan gyfeirio fy ymadrodd yn y modd mwyaf cydymdeimladol ag y gallwyf, at gyflyrau cwbl wahanol: sef, at enaid ar lawr dan deimlad o fawredd ei bechodau, ac yn crynu dan y baich, fel pe na byddai obaith mwyach iddo ef yn Nuw, (pen. 12.) Ac fel na bo dim yn cael ei adael heibio, ag a all weini didwyll gysur i'r ysbryd cystuddiedig, caf geisio ei arwain at y *nodau* hyny o wir edifeirwch a ffydd; (pen. 13.) y rhai a gaf eu hamlygu yn mhellach, trwy roddi golwg mwy neillduol ar amryw ganghenau y dymer gristionogol, yr hyn a gynorthwya y darllenydd i adnabod pa beth yw ei gyflwr presenol, yn gystal a pha beth a ddylai efe ymdrechu i fod, (pen. 14.) Hyn a'n harwain i weled yr angenrheidrwydd o ddylanwadau yr Ysbryd bendigedig, i'n cynorthwyo yn y gwaith pwysfawr ac anhawdd a berthyn i'r gwir gristion; ac hefyd i weled y sail sydd genym i obeithio am y dwyfol gynorthwyon hyn, (pen. 15.) Gyda gostyngedig ddibyniad ar y cyfryw, mi gaf ddechreu ystyried yr amryw *amgylchiadau* a ddygwyddant yn fynych yn yr yrfa gristionogol; ac yma bydd yn fuddiol ac angenrheidiol llefaru wrth y gydwybod.

Digitized by Google

9. Gan fod rhai rhwystrau neillduol yn ymddangos i'r cristion ieuanc yn ei waith yn dechreu ei yrfa gristionogol; mi a geisiaf yn flaenaf dim, ei galonogi ef yn eu herbyn, pen. 16. Ac fel y byddo i hyn gael ei wneuthur mewn modd effeithiol, caf ei anog i roddi ei hun i Ddow yn y modd mwyaf difrifol, (pen. 17.) yr hyn a ddylai gael ei gadarnhau trwy ddynesiad at y *bwrdd santaidd*, mewn cyflawn gymundeb âg eglwys Dduw, (pen. 18.) Ac fel y bo i'r rhwymedigaethau hyn gael eu cyflawni mewn modd dyladwy, rhoddaf ddarluniad neillduol o'r *yrfa*, yr hon y dylem ei rhedeg bob dydd, (pen. 19.) Ac oblegid y gall y darluniad fyned uwchlaw ymarweddiad cyffredin hyd yn nod *dynion da*, ceisiaf berswadio y darllenydd i wneuthur cynyg i'w rhedeg, er mor anhawdd y dichon ymddangos; (pen. 20.) ac mi a'i rhybuddiaf ef i ochelyd yr *amrywiol demtasiynau* y rhai os amgen, â'i tynant ef o'r neilldu i esgeulusdra a phechod, (pen. 21.)

10. Da i'r darllenydd os bydd i'r anogaethau a'r rhybuddion hyn gael eu hystyried gyda pharch dyladwy; ond gan fod yn rhy debyg, er hyn i gyd, y bydd gwendidau a llygredigaethau natur weithiau yn gorchfygu, caf ystyried y cyflwr o *farweidd-dra* ac o *nychdod* mewn crefydd, yr hwn sy yn dyfod arnom yn fynych yn ddiarwybod; (pen. 22.) o ba gyflwr, mae yn hawdd i ni fyned trwodd i'r un ofnadwy hwnw, sef i gyflwr o bechod gwirfoddol, pen. 23. Ac am fod y naill fel y llall o'r rhai hyn yn tueddu yn ol eu graddau i annog y Duw bendigedig i *guddio ei wyneb*, a'r Ysbryd Glân, yr hwn y pechwyd yn ei erbyn, i *ymadael*, caf yn enwedigol ystyried y cyflwr galarus hwnw, (pen. 24.) Caf wedi hyny ystyried y cyflwr o gystuddiau mawrion a thrymion mewn bywyd; (pen. 25.) dysgyblaeth, yr hwn y rhaid i'r goreu o ddynion ei dysgwyl, yn en-

Digitized by Google

wedig pan y gwrthgiliont oddiwrth Dduw, ac yr ymollyngont i'w gelynion ysbrydol.

11. Siamplau o'r natur hyn, a fyddant, yr wyf yn ofni, yn rhy aml; eto gobeithiaf y bydd llawer ereill, a'u llwybr fel y goleuni, *yn llewyrchu fwy-fwy hyd ganol dydd*, Diar. 4. 18. Am hyny ymdrechaf gynorthwyo y cristion i roddi iawn farn yn nghylch cynydd gras yn ei galon; (pen. 26.) fel y gwneuthum o'r blaen wrth farnu gwirionedd ei ras. Ac fel nad oes dim yn dwyn yn mlaen gynydd gras yn fwy na gweithrediadau bywiog cariad at Dduw, a llawenydd santaidd ynddo, caf ddwyn ar gof i'r cristion yn y man hwn, y trugareddau hyny ag sy yn tueddu i lenwi y galon o gariad a llawenydd; (pen. 27.) ac yn yr olwg arnynt i'w gyffroi ef i'r ymdrechiadau grymus, y rhai sy yn angenrheidiol at ddefnyddioldeb mewn bywyd; yr hyn sy yn gweddu mor dda iddo fel deiliad i Grist, ac yn effeithiol i beri i'w goron ddisgleirio tu draw i'r bedd, (pen. 28.) Gan feddwl y bydd iddo ymddwyn yn llyn, ceisiaf amlygu y *llawenydd* gyda pha un y dichon efe edrych ar y pethau ofnadwy a berthynant i *angau* a *barn*, (pen. 29.) Ac mi a orphenaf y darluniad o'r cristion trwy gydfyned âg ef hyd at gyffiniau y *dyffryn tywyll*, trwy yr hwn y bydd yn rhaid iddo fyned i ogoniant; gan roddi y cyfryw hyfforddiadau iddo ag a'i cynorthwyant ef i anrhydeddu Duw a harddu crefydd yn wyneb angau, pen. 30. Ac yr wyf yn gobeithio, trwy ddwyfol ras, y byddaf mor llwyddiannus a gadael rhai yn *buddugoliaethu* yn wyneb barn a thragywyddoldeb, ac yn gogoneddu Duw mewn bywyd ac angau; er eu bod unwaith yn crynu wrth feddwl am y trueni oedd i ddyfod; neu mewn amgylchiad llawer mwy peryglus a thruenus na hyny; sef wedi soddi i annheimladrwydd hurt, ac

Digitized by Google

angof o'r pethau a berthynant i ddedwyddwch y meddwl ar ol darfod y bywyd hwn.

12. Diameu y bydd yn rhaid i mi drin yr amryw benau hyn mor fyred ag y byddo bosibl, gan fy mod yn meddwl eu cynwys mewn llyfr o faintioli cymhedrol. Ni chaf gan hyny eu hagor yn y modd y gallai *pregethwr* mewn pregethau yn briodol wneyd, yn mha rai y mae gwirioneddau crefydd mewn modd enwedigol yn cael eu hegluro a'u dysgu, eu hamddiffyn a'u defnyddio, mewn modd tra helaeth, trwy amryw benau, rhesymau, gwrthddywediadau, atebion, a chasgliadau, wedi eu cyfrif a'u trefnu dan eu priodol destunau. Ond caf yma lefaru mewn modd mwy rhydd a didrefn, fel y naill gyfaill wrth y llall; fel y gwnawn pe bawn yn *ymddyddan yn ddirgel* âg un a garwn yn gu, *cymeriad*, ac amgylchiadau pa un y gwyddwn eu bod yn debyg i'r rhai a ddesgrifir yn y traethawd hwn. Ac wedi ymddyddan âg ef enyd fach, yr hyn nis bydd ond anfynych dros *haner awr*, caf fyned o'r neilldu, a'i adael i fyfyrio ar yr hyn a glywodd, neu ynte ei gynorthwyo ef i dywallt *erfyniadau* gwresog ger bron Duw, ag a fyddo yn gymwys i gydfyned â'r cyfryw *fyfyrdodau*. Yn y cyfamser, cymeraf fy rhyddid yn y fan hon i *weddio* dros y darllenydd, ac am lwyddiant i'r gwaith hwn; gan ei orchymyn i *fendith ddwyfol*, fel *arwydd* o'm dibyniad hollol ar yr unrhyw. Ac yr wyf yn cwbl gredu fod y fath feddyliau â'r rhai hyn, yn perthyn yn gyffredinol i bob gweinidog ffyddlon, ac i bob cristion gwirioneddol.

GWEDDI *am lwyddiant y Gwaith hwn, er mwyn dechreu a chynhyddu Crefydd.*

O ARGLWYDD! tydi wyt Ddechreuad tragywyddol, Awdwr mawr pob bod creuedig, a phob ded-

Digitized by Google

wyddwch! Mi a ddymunwn dy addoli di, yr hwn a greaist ddyn yn greadur cymwys at grefydd, ac a gyfrenaist i'n natur ni yr anrhydedd a'r dedwyddwch hyn, fel y byddai i ni gael ein dysgu i ddywedyd, *pa le mae'r Duw a'n gwnaeth?* Job 25. 10. Mae yn alar genyf i feddwl am y dirywiad sydd wedi ymdanu dros yr holl hiliogaeth ddynol, yr hwn a *newidiodd ein gogoniant yn warth,* (Hos. 4. 7.) ac a barodd anghof o Dduw (er mor annaturiol) i fod mor eang a chyffredin yn ein plith. O Dad santaidd, gwyddom mai dy addysg a'th bresenoldeb di yw yr unig foddion a allant ddychwelyd dy blant afradlon; tydi yn unig a elli beri fod teimlad ac argraff effeithiol a pharhaus o bethau dwyfol ar y galon. Oddiwrthyt ti y tardd dymuniadau a bwriadau daionus; ac yn benaf y dymuniad o allu taenu doethineb, duwioldeb, a dedwyddwch yn y byd; yr hwn (er ei fod wedi syrthio i'r fath ddwfn wrthgiliad) y mae dy anfeidrol drugaredd heb ei hollol adael. Tydi, O Arglwydd, a adwaenost galon meibion dynion (2 Cron. 6. 30.); ac y mae yr enaid duwiol yn mysg pob rhyw *senau* a *drwgdybiau*, yn llawenhau wrth feddwl dy fod di yn gwybod ei *feddyliau* mwyaf dirgelaidd, a'r *egwyddorion* oddiar ba rai y tarddodd ei holl weithredoedd. Tydi a wyddost ddymuniadau cywir a gwresog dy *annheilwng wasanaethwr,* i allu lledu gwybodaeth o'th enw, ac arogl dy efengyl yn mysg pawb y daw y gwaith hwn atynt. Pe buasit yn rhoddi i mi helaethrwydd o'r byd hwn, tydi a wyddost, mai y pleser mwyaf a allasai hyny roddi i mi, fuasai cael bod dy *elusenwr,* i ranu dy fendithion daionus i'r rheidus a'r anghenus, ac felly peri i'r galon athrist lawenhau yn dy ddaioni di. Ti a wyddost pe derbyniaswn oddiwrthyt ti y dalent o *iachau* mewn ffordd arferol neu anarferol, y buasai yn hyfrydwch bob dydd i mi allu

Digitized by Google

esmwythau poenau, doluriau, a gwendidau corfforol dynion; llawenydd fuasai genyf weled yr wyneb nychlyd yn disgleirio trwy adferiad iechyd a sirioldeb, a mwy o lawer i weled y meddwl gwibiog a gwallgofus yn cael ei ddwyn i dawelwch ac esmwythder, yn yr arferiad o'i alluoedd rhesymol; eto llawer mwy dedwydd y cyfrifaf fy hun, yn yr amgylchiadau isel y gosododd dy ragluniaeth fi, os bydd i ti anrhydeddu fy ymdrechiadau gweinion hyn â'th fendith, at esmwythau a chyfoethogi eneidiau dynion; i'w dwyn yn ol o wallgofrwydd pechadurus, i adnabyddiaeth a mwynhad o honot ti, ac i'th wasanaethu; neu i gynhyddu y sawl ag a ddygwyd yn barod.

O caffed y fath effaith ar bwy bynag a ddarlleno, neu a glywo y llinellau hyn! *Na ddigied fy Arglwydd*, os anturiaf ofyn, er gwaeled yr ymddangoso y gwaith hwn i blant y byd, ac er mor anmherffaith yw efe mewn gwirionedd, ac er annheilynged yr awdwr o hono, iddo er hyny *gael byw ger dy fron di;* a thrwy ddwyfol allu, boed yn effeithiol i ddechreu a chynyddu crefydd yn nghalonau llaweroedd, mewn manau pell o'r byd, a chenhedloedd eto i ddyfod. O Dduw, na chyfrif yn feius fy awydd hwn, sef, i'r gwaith yn nghylch pa un yr wyf yn myned yn dy nerth di, gael ei gyflawni a'i daenu yn helaeth, doed a ddelo o'm enw i. Boed iddo gyrhaeddyd y rhai sydd eto heb eu geni, a dysgu iddynt *dy enw a'th fawl*, pan bo yr awdwr wedi hir aros yn y pridd. Ac felly pan yr ymddangoswyf o'th flaen yn y dydd mawr o gyfrif, y byddo fy *llawenydd* yn cynhyddu, a'm coron yn llewyrchu yn fwy, wrth weled llaweroedd yn dyfod i'r bywyd, ag oeddynt o'r blaen yn ddyeithr i ti ac i'w gilydd! Ond os yw y deisyfiad hwn yn ormod i'w roddi i un nad oes ganddo 'i ddim, dyro i mi gael bod yn offeryn bendigedig

Digitized by Google

yn dy law hollalluog i ddychwelyd ac achub *un enaid*. Ac os ddim ond *un*, a hwnw y gwaelaf o'r sawl a dderbyniant y traethawd hwn, derbyniaf hyny yn y modd mwyaf diolchgar, fel cyflawn daledigaeth am fy holl lafur; ac er miloedd o siomedigaethau, fe fydd hwn yn destun o fawl diddiwedd i ti, O Dduw bendigedig, gan bob enaid a achubaist trwy *waed Iesu a gras dy Ysbryd santaidd;* a thragywyddol anrhydedd a roddir, *gan y myrddiwn o angylion, a chan gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig yn y nefoedd, i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân.* Amen."

## PENNOD II.

### Y PECHADUR DIOFAL YN CAEL EI DDEFFROI.

**Mae yn beth tebygol iawn, y daw y traethawd hwn i ddwylaw y cyfryw, Dosparth 1, 2. gan fod llawer ag nad ynt yn erchyll o ddrygionus, yn syrthio dan y cymeriad hwnw, 3, 4. Eglurhad mwy neillduol o'r cyflwr hwn, gydag appeliad at y darllenydd, pa un a berthyna efe iddo ef, 5, 6. Ymliwiad â'r cyfryw, 7, 9. Yn fwy neillduol, (1.) Oddiwrth egwyddorion addefedig, perthynol i natur Duw, ei bresenoldeb cyffredinol, ei weithrediad, a'i berffeithderau, 10—12. (2.) Oddiwrth olwg ar rwymedigaethau personol iddo, 13. (3.) Oddiwrth y perygl o'r esgeulusdod hwn, pan ystyrir ef yn ei olwg ar gyflwr dyfodol, 14. Appeliad at y gydwybod, fel eisioes wedi ei hargyhoeddi, 15. Trosiad at destun y bennod nesaf, 16. Myfyrdod pechadur, yr hwn, wedi bod yn hir yn anystyriol, a ddechreua gael ei ddeffroi.**

1. Er mor gywilyddus y mae crefydd yn cael ei hesgeuluso yn y byd, eto, bendigedig fyddo yr Arglwydd, y mae iddi rai dysgyblion dihocced; *plant doethineb*, gan ba rai (yn yr oes ynfyd a dirywiedig hon) y mae hi yn cael ei *chyfiawnhau* (Mat. 11. 19.); y rhai wedi eu dwyn trwy ddwyfol ras i'r adnabyddineth o Dduw



Digitized by Google

yn Nghrist, a roddasant eu calonau yn ffyddlon iddo, ac yn ganlynol eu bywydau i'w wasanaeth. A phe bawn yn sicr na syrthiai y traethawd hwn i ddwylaw neb ond y cyfryw, fe fyddai fy ngwaith yn fyrach, yn hawddach, ac yn fwy pleserus.

2. Ond yn mysg y miloedd ag ydynt yn esgeuluso crefydd, mae yn debygol iawn y bydd rhai o honynt yn darllain y gwaith hwn: ac y mae eu cyflwr anhapus yn cael y fath effaith arnaf, fel ag y mae *tymer fy nghalon*, yn gystal a *threfn y gwaith*, yn fy arwain yn y lle cyntaf i ymddyddan â hwynt, ac i gyfeirio fy ymadrodd at bob un o honynt; ac felly atat *ti*, O ddarllenydd, pwy bynag wyt, ag sydd dan yr enw *pechadur diofal*.

3. Na fydd ddig wrth yr *enw*, yr wyf yn atolwg arnat. Canys rhaid i *feddygon eneidiau*, lefaru yn eglur, rhag iddynt *ladd* y sawl a chwenychent *iachau*. Ni ewyllysiwn letya meddyliau sarug ac afresymol am danat. Ni chwenychwn gyhuddo ddim pellach nac y byddo yn hollol angenrheidiol er peri i ti gredu mai *wrthyt ti* yr wyf yn llefaru. Ni thybiaf gan hyny dy fod di yn un halogedig, echryslon, ac anfad. Mi a feddyliaf nad wyt yn rhydd i gablu Duw trwy dyngu a chywilyddus halogi ei sabboth, na thrwy esgeuluso yn gyffredin ei addoliad cyhoeddus ac arbenig. Ni thybiaf i ti ddrygu dy gymydogion, yn eu purdeb, meddiannau, na'u bywydau, trwy na thrais na thwyll; neu i yn gywilyddus ddarostwng natur resymol dyn trwy anghymedrolder aflan; yr hyn sydd yn ein gwneyd yn gyffelyb i'r creaduriaid a ddifethir, neu yn waelach o ryw radd nac un o honynt.

4. Ond i'r gwrthwyneb, mi a gymeraf yn ganiataol dy fod ti yn credu fod Duw, a rhagluniaeth, a gwirionedd y grefydd gristionogol fel datguddiad oddi-

Digitized by Google

wrtho ef. Ond os oes un amheuaeth yn nghylch y pethau hyn, rhaid i mi ddymuno arnat, yn ddiatreg, i ymofyn am foddlonrwydd mewn lle arall.* Yr wyf yn dywedyd, yn ddiatreg, oblegid bod heb gredu y pethau hyn yw eu gwadu mewn effaith, ac fe wna dy ddystryw yn hollol mor *sicr* a phe bai diystyrwch a gwrthwynebiad yn cydfyned ac amheuaeth, ac esgeulusdra; er y gall dy *gosp* fod yn *llai ei phwys.* Ond gan feddwl dy fod yn gristion mewn enw, ac nid yn *ddeist,* nac yn amheuwr (*sceptic*);† mi a gymeraf yn ganiataol fod dy fuchedd yn mysg dynion, nid yn unig yn *ddifai,* ond hefyd yn *hardd;* a bod y sawl a'th adwaenant oreu yn gorfod addef, dy fod yn gyfiawn ac yn sobr, yn ddynol ac yn fwynaidd, yn drugarog ac yn haelionus; eto, fe all fod yr *un peth hwnw yn eisiau* (Marc 10. 21.) ar ba un y mae dy dragywyddol ddedwyddwch yn ymddibynu.

5. O ddarllenydd, pwy bynag wyt, mi a attolygaf arnat yn awr i ofyn y gofyniad hwn i'th galon mewn modd difrifol, sef, *A ydwyf fi yn wir grefyddol?* A ydyw cariad Duw yn egwyddor lywodraethol yn fy mywyd? A ydwyf fi yn rhodio dan deimlad o'i hollbresenoldeb ef? A ydwyf fi yn dal cymdeithas âg ef o ddydd i ddydd, yn yr ymarferiad o weddi a mawl? Ac a ydwyf fi, ar y cwbl, yn gwneuthur ei wasanaeth ef fy neges a'm hyfrydwch penaf, gan ei anrhydeddu ef fel fy nhad a'm llywodraethwr?

* Mae'r awdwr yn cyfeirio y darllenydd at dair pregeth, o'i eiddo ef, *ar brawf o wirionedd y Grefydd Gristionogol;* ac at yr un ddiweddaf a bregethodd efe *ar allu a gras Crist,* i'r dyben o gael boddlonrwydd am y gwirioneddau uchod.

† *Deist* yw y dyn sy yn gwadu dwyfol ddatguddiad; *amheuwr* yw un yn gwadu rhagluniaeth.

Digitized by Google

6. Fy ngwaith presenol yw ymddyddan â'r hwn ag y mae ei gydwybod yn ateb i'r gwrthwyneb. Ac mi a chwenychwn gyfeirio fy ymadroddion gyda yr unrhyw ryddid ac eglurdeb, at yr uchel a'r isel, y cyfoethog a'r tlawd; ac atat ti, yr hwn, fel y dywed yr ysgrythyr, wyt yn *byw heb Dduw yn y byd* (Eph. 2. 12.); a thra yr ydwyt yn addef, trwy eiriau a ffurfiau, fod Duw, yr ydwyt ar *weithredoedd yn ei wadu ef*, (Tit. 1. 16.) ac yn byw, ar y cwbl, os rhoddwn heibio ychydig o seremoniau allanol, fel pe byddit yn *credu nad oes un Duw*. O greadur annedwydd, pwy bynnag wyt, mae dy *galon* dy hun yn dy gondemnio yn ddiatreg; a pha faint mwy y Duw hwnw, pa un sy yn fwy na'th galon, ac a *ŵyr bob peth*, 1 Ioan 3. 20. Mae efe yn y *dirgel* yn gystal ac yn yr amlwg (Mat. 6. 6.); ac ni all geiriau byth osod allan yr hyfrydwch gyda pha un y mae ei blant yn cymdeithasu âg ef o'r neilldu: ond nid ydwyt ti yn ei gydnabod ef yn y dirgel, nid wyt nac yn ei *glodfori ef*, nac yn *gweddio* arno yn dy ystafell. Fe all cyfrifon, ysgrifeniadau, a myfyrdodau dy ddwyn yn aml i'r ystafell, ond pe byddit heb ddim i wneyd yno ond *addoli Duw*, fe fyddai y lle yn gwbl *ddyeithr i ti*. Fel hyn yr wyt yn myned yn mlaen o ddydd i ddydd, mewn angof o Dduw, ac mor ddiofal yn nghylch crefydd, a phe buasit er ys talm wedi eglur brofi i ti dy hun, nad oedd hi ond *breuddwyd* yn unig. Os claf a fyddi, ti a elwi ar Dduw, o bosibl, am iechyd; ac os byddi mewn rhyw berygl mawr, ti a godi dy lygaid tua'r nef, ac a lefi am waredigaeth: ond am faddeuant pechod a bendithion ereill yr efengyl, nid oes ynot ymofyniadau mewnol am danynt, er dy fod yn proffesu fod yr efengyl yn ddatguddiad dwyfol, a'i bendithion yn dragywyddol werthfawr. Mae dy *oriau* a'th *feddyliau* yn cael eu rhanu rhwng *gorchwylion* a *phleserau* y

Digitized by Google

bywyd hwn; ac er y gall rhyw ragluniaeth, neu bregeth ddifrifol, neu lyfr da dy ddeffroi ar amserau, eto ni bydd hyny ond dros ychydig o *ddyddiau*, ïe, mae yn bosibl, ond dros ychydig o *oriau*, ag yr wyt yn ymddangos yn greadur mor *ddiofal* ag erioed! Ar y cwbl, yr ydwyt yn ymddwyn fel pe byddit wedi penderfynu i adael y peth ar *antur*, ac i dreio ar dy gost dy hun, pa un ai bod y *canlyniadau* o esgeuluso crefydd mor ofnadwy ag y mae gweinidogion ac ereill yn dywedyd eu bod. Mae y darluniadau a roddant, yn gwthio eu hunain weithiau yn dy ffordd, ac (wrth ystyried yr *oes* a'r *wlad* yr ydwyt yn byw ynddynt) maent bron yn anocheladwy ar bob amser; ond yr wyt, o bosibl, fel gwrandawyr *Esay*, am ba rai y dywed yr Arglwydd, "*gan glywed clywch, ond na ddeallwch; a chan weled gwelwch, ond na wybyddwch; brasaodd dy galon, trymhaodd dy glustiau, a chauodd dy lygaid,*" (Esay 6. 9, 10.) fel y mae dy *feddyliau* (hyd yn nod pan fyddo dy gorff yn yr addoliad ac mewn ymarferiad o ordinhadau) *yn nghyrau'r byd*, Diar. 17. 24. Yr ydwyt yn croesawi pob difyrwch o eiddo y dychymyg, os bydd i hyny ond arwain dy feddwl ymaith oddiwrth beth mor ddiflas ac annymunol ag yw crefydd. Tydi a ymddygaist yn yr addoliad y tro diweddaf, o bosibl, fel pe buasit yn meddwl na wyddai Duw ddim am danat; neu fel pe buasit yn credu nad oedd o ddyben da yn y byd i ofalu yn y mesur lleiaf, a oedd efe yn cael ei *foddloni* neu nid oedd, trwy y fath ymddygiad.

7. Och ddyn! A wyt ti wedi dyfod i'r penderfyniad hwn, sef (er dy fod yn credu y bod o Dduw, rhagluniaeth, a gwirionedd yr ysgrythyr) *nad yw crefydd yn beth o werth i feddwl am dani!* Na thal i ti roddi un awr i ddifrifol ystyried "beth yw *Duw* a *Christ*; beth wyt *ti dy hun*, a pha beth sydd raid i ti fod tros



Digitized by Google

byth?" Pa le gan hyny y mae dy alluoedd rhesymol? Pa fodd y maent yn cael eu harfer, neu yn hytrach, pa fodd y maent mor farw a dideimlad?

8. Mae *sicrwydd* a *phwys* y pethau yr wyf yn ymddyddan yn eu cylch mor amlwg oddiwrth dy egwyddorion di dy hunan, fel y gellit braidd roddi *plentyn*, neu *hurtyn* (idiot) i ymresymu yn eu cylch mewn modd cymwys; ac eto maent yn cael eu hesgeuluso gan y sawl ag sydd wedi tyfu i fynu i ddealltwriaeth; ac o bosibl i'r fath *ragorol wybodaeth*, fel y meddylient eu hunain y cael mawr gam, os na chyfrifid hwynt yn mysg y rhan wychaf, a mwyaf dysgedig o ddynolryw.

9. Ond nis dichon eu *hesgeulusdra* hwynt o'r pethau hyn ddiddymu na'r bod o honynt, na'u gwerthfawrogrwydd; er y gall hyny eu dystrywio *hwynt*. Caniata i mi, fel un a ddeffrowyd, i ddyfod atat ac i ddywedyd wrthyt fel y dywedodd y morwyr wrth *Jonah*, yr hwn oedd yn cysgu mewn tymhestl o lawer llai perygl na'r sefyllfa yr ydwyt ti ynddi, *Pa beth a ddarfu i ti, gysgadur? Cyfod, galw ar dy Dduw*, Jonah 1. 6. A oes ynot amheuaeth yn nghylch y rhesymoldeb a'r angenrheidrwydd o hyny? Yr wyf yn gofyn, *mynega yr hyn a ofynwyf i ti* (Job 38. 3.): ateb i foddlonrwydd dy gydwybod dy hun, fel un a raid rhoddi cyfrif mwy manol ar fyr.

10. Yr ydwyt yn addef fod Duw; ac y mae yn resymol i ti wneyd felly; oblegid nis gelli agor dy lygaid heb weled prawf eglur o'i fod, o'i bresenoldeb, ac o'i weithrediad. Ti a'i gweli ef yn mhob gwrthrych o'th amgylch. Yr ydwyt yn ei brofi ef (os gallaf felly ddywedyd) yn mhob gwythen, ac yn mhob gewyn. Ti a weli nid yn unigiddo dy *wneuthur* trwy y fath ddoethineb gywrain, yr hon nis gall un dyn ei hamlygu na'i hamgyffred, ond ei fod ef yn wastad *gyda thi:* pa le

Digitized by Google

bynag yr ydwyt, a pha beth bynag wyt yn ei wneuthur, nos a dydd, *ynddo ef yr wyt yn byw, yn symud ac yn bod*, Actau 17. 28. Rheswm a dystia mai nid dy ddoethineb, dy allu, a'th ofal *di*, yw yr *achos* i'th galon guro, i'th waed gylchynu, ac a bâr i'th *anadl* ansicr fyned i mewn ac allan yn dy *ffroenau*, Esay 2. 22. Mae y pethau hyn yn cael eu gwneyd pan yr wyt ti yn *cysgu*, yn gystal a phan yr wyt yn effro; ïe, hyd yn nod pan nad wyt yn *meddwl* am gylchyniad y gwaed na'r angenrheidrwydd o anadlu, a phan nad ydwyt yn *cofio* fod ynot galon ac ysgyfaint. Onid yw hyn yn profi fod *llaw Duw*, yr hon a wnaeth y peiriannau rhyfeddol hyny mewn dyn, yn eu cyffroi ac yn eu cynal yn wastadol?

11. Nid am danat ti y mae efe yn gofalu yn unig; ond pan yr edrychech o'th amgylch hyd yr eithafoedd, ti a weli fod ei ofal yn ymdanu ar bob tu: ac O! pa faint mwy mae ei ofal daionus yn ymdaenu tu hwnt i'th amgyffred di! Ystyria y goleuni a'r gwres ag y mae yr haul yn gyfranu i bob lle; i'r awyr, ag sy yn cylchynu ein daear ni, ar *dymheroldeb* pa un y mae bywyd holl ddynolryw yn ymddibynu, a bywyd yr holl greaduriaid ereill a breswyliant ar y ddaear. Ystyria y rhagddarbod addas a daionus a wnaeth efe er cynhaliaeth *dyn* ac *anifail;* sef yr ydau, y borfa, a'r amrywiol ffrwythau, llysiau, a blodau; ystyria bob peth a wnaeth er ein magwraeth a'n hyfrydwch, ac yna dywed, onid ynt yn cyhoeddi yn uchel ac yn eglur, fod ein Gwneuthurwr hollalluog yn agos atom, ac yn ofalus am danom, ac yn gymwynasgar i ni? A thra mae y pethau hyn yn cyhoeddi ei ddaioni ef, onid ydynt yn yr un modd yn gosod allan ei allu! Canys pa allu a ellir gyffelybu i'r gallu ag sy yn cyfranu y fath fendithion ardderchog? Ac yn ddiflino yn dwyn oddiamgylch effeithiau mor ardderchog a rhyfeddol, dros wyneb yr holl ddaear, a

Digitized by Google

thrwy holl ardaloedd y nefoedd o ddydd i ddydd, ac o oes i oes?

12. Eglur yw gan hyny fod Duw yn *bresenol*, ie yn bresenol gyda thydi y *funud hon;* y Duw, a'th wnaeth, ac sy yn dy gynal; y Duw a wnaeth ac sy yn cynal pob peth gweledig ac anweledig. Ac onid yw efe yn bresenol i'r dyben o sylwi yn fanol ar dy ymddygiadau di? *Oni wel yr hwn a luniodd y llygad? Oni chlyw yr hwn a blanodd y glust? Yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn* (yn rhoddi iddo ei alluoedd rhesymol, ac yn tywallt ar ei feddwl yr holl oleuni ag y mae efe yn dderbyn trwyddynt) *oni wyr efe? Sal.* 94. 9, 10. Efe, yr hwn sy yn gweled holl ddiffygion ei greaduriaid, ac sy yn parotoi mor amserol ar eu cyfer, oni wel efe eu *gweithredoedd* hwynt hefyd? A chan weled, oni farna efe hwynt? A roddodd efe i ni adnabyddiaeth o dda a drwg, o'r hyn sydd wir ac o'r hyn sydd anwir, o'r hyn sydd ddymunol ac annymunol mewn tymer ac ymarweddiad; ac a ydyw efe yn ymddifad o'r wybodaeth hon ei hunan? Paid a chellwair â'th gybwybod, yr hon sydd yn dywedyd i ti ei fod ef yn profi pob peth, ei fod yn eu cymeradwyo neu yn eu condemnio, fel ag y maent yn weddus neu yn anweddus, yn rhesymol neu yn afresymol, ynddynt eu hunain; ac i fod y farn y mae efe yn roddi, o ganlyniad anfeidrol i'w holl greaduriaid.

13. Ac yn awr, er mwyn cymhwyso hyn oll atat dy hun, rho genad i mi ofyn i ti yn ddifrifol, A ydyw yn beth gweddaidd a rhesymol i fod y fath Gymwynaswr mawr a gogoneddus yn cael ei ddiystyru gan ei greaduriaid? Gan y sawl ag ydynt gymwys mewn rhyw radd i'w adnabod, a'i addoli? A yw yn beth gweddaidd a rhesymol *i ti* ei anghofio a'i esgeuluso ef? A ydwyt ti, o holl weithredoedd ei ddwylaw, yn cael dy esgeuluso

Digitized by Google

a'th anghofio ganddo ef? O bechadur! er mor anystyriol, nis beiddi ddywedyd na meddwl dy fod. Nid rhaid i ti fyned yn ol at yr amser ag yr oeddit yn *faban* analluog, er mwyn cael sicrwydd i'r gwrthwyneb. Ac nid oes achos i ti i'r dyben hwn i adgofio y gwaredigaethau rhyfeddol a gefaist flynyddoedd a aethant heibio: canys y mae yr orphwysfa a gefaist y nos ddiweddaf, yr ymborth a'r cysur a gefaist y dydd hwn; ïe y trugareddau pa rai ydwyt y funud hon yn eu derbyn, oll yn tystiolaethu fod Duw yn cofio am danat; er hyny nid ydwyt ti yn ei ystyried nac yn ei barchu! O greadûr anniolchgar! A allasit ymddwyn fel hyn tuag at ryw gymwynaswr da o blith dynion? A ydyw yn ddichonadwy i ti allu diystyru unrhyw gyfaill neu rieni tirion a haelionus, y rhai a ymddygasant yn dirion tuag atat dros ychydig o fisoedd? A ellit ti fod yn ddisylw o'th gyfaill tra yn ei bresenoldeb; yn anniolchgar yn y mwynhad o'i roddion; yn ddiymdrech i allu gwneyd rhyw gydnabyddiaeth iddo am ei holl ddaioni. Er maint yw dirywiad y *natur ddynol*, nid yw wedi syrthio mor ddwfn a hyn. Ië nid yw y *natur anifeiliaidd* gynddrwg. Os wyt yn byw yn ddideimlad o ddaioni Duw, sicr yw fod pob anifail o'th gwmpas er cywilydd i ti. Os ymddygi yn dirion tuag at dy *gi* dros ychydig o ddyddiau, gan ei borthi ef a'r briwsion oddiar dy fwrdd, efe a'th wasanaetha, ac a gar fod yn agos atat; fe fydd yn chwanog i'th ganlyn o le i le; a phan ddychwelech wedi bod oddicartref dros ychydig, efe a ymdrecha trwy filoedd o ffyrdd i ddywedyd pwy mor dda ganddo dy weled drachefn. Ië ysgrubliaid, o lawer llai eu deall a'u hamgyffred na chwn, mae ganddynt deimlad o'n daioni tuag atynt; ac yn eu ffordd, y maent yn ceisio gwneyd cydnabyddiaeth: fel y mae y Duw bendigedig yn dywedyd, *Yr ŷch a edwyn ei*

Digitized by Google

*feddiannydd, a'r asyn breseb ei berchenog,* Esay 1. 3. Y fath ddirywiad galarus yw, gan hyny, dy fod *ti heb wybod,* dy fod *ti,* yr hwn a gyfrifwyd yn mysg pobl broffesedig yr Arglwydd, heb ystyried dy rwymedigaethau iddo ef!

14. Os oes ynot ryw deimlad, rhaid dy fod yn galaru ac yn cywilyddio wrth edrych yn ol ar dy ymddygiadau; ond os amgen, caniata i mi ymresymu â thi yn mhellach ar y pen hwn, gan geisio gosod pethau mewn goleuni gwahanol. A elli di olygu dy hun mewn cyflwr diogel tra yr ydwyt yn ymddwyn yn llyn? A wyt ti ddim yn credu yn dy gydwybod fod barn i ddyfod? A bod cyflwr tragywyddol ac anweledig? Fel cristionogion proffesedig yr ydym bawb yn credu y pethau hyn; canys nid pethau *dadleugar* yw y rhai hyn; ond pethau ag sy yn cael eu gosod allan mor eglur yn yr ysgrythyr, fel, er mor gywrain a manwl yw dynion mewn cyfeiliornadau, nis gallasant er hyny gael allan ffordd i wadu y gwirioneddau hyn. Gan gredu hyn oll, a wyt ti ddim yn gweled, tra yr ydwyt yn crwydro yn llyn oddiwrth dy Dduw, fod *dystryw ac aflwydd yn dy ffyrdd?* Rhuf. 3. 16. A fydd y dymer fusgrell ac esgeulus hon yn rhyw ddiogelwch i ti? A ddichon hi dy gadw rhag angau a barn? Mae yn fwy rhesymol i ti feddwl y gwna dy waith yn *cau dy lygaid* dy gadw rhag cynddeiriogrwydd *llew* ag a fynai dy ysglyfaethu; ac y gwna dy waith yn *troi dy wyneb* oddiwrth y gwn neu y cleddyf, achub dy gorff rhag cael ei *niweidio.* Duw, pan y mae yn llefaru am ynfydrwydd mawr ei greaduriaid anystyriol, ac na fynant wrando ar unrhyw rybudd mewn dydd o ras, a ddywed, "*Yn y dyddiau diweddaf y deallwch hyny yn eglur,*" Jer. 13. 20. Ac oni ellir cymhwyso y geiriau hyn *atat ti?* Oni orfydd i ti ryw amser, naill ai o fodd neu o anfodd, ystyried y peth-

Digitized by Google

au hyn? Ac onid yw yn eglur mai difrifol ystyriaeth o honynt mewn pryd, yw yr unig ffordd, trwy ddwyfol ras, i ragflaenu dy golledigaeth?

15. O bechadur, nid rhaid amlhau geiriau am y peth hwn; canys y mae dy gydwybod yn dufewnol yn gweled y gwirionedd eisioes, er y gall fod dy *falchder* yn anfoddlon i addef hyny. Ac, er y prawf o hyn, mi a ofynaf i ti un gofyniad yn mhellach, sef, a wyt ti yn *awr*, ar unrhyw amodau ac ystyriaethau, wedi hollol fwriadu rhoddi heibio bob rhyw feddwl a gofal pellach yn nghylch crefydd o'r dydd a'r awr hon, ac i dderbyn y canlyniadau o'r fath esgeulusdra? Yr wyf yn meddwl fod yn anhawdd cael dyn byw yn meddu hyfdra digonol i ddyfod i'r fath benderfyniad: ïe, yr wyf yn credu y byddai *meddwl* am y fath beth, yn foddion i beri i'r rhan amlaf o'm darllenwyr grynu.

16. Ac os oes achos i feddwl ryw amser am y pethau a berthynant i dduwioldeb, angenrhaid yw eu cymeryd dan dy ystyriaeth ar frys; canys nid yw y bywyd ei hun cyhyd a chyn sicred, ag y byddai i un dyn *doeth* anturio llawer ar ei barhad. Ac yr wyf yn gobeithio ar yr osteg nesaf, y gallaf dy argyhoeddi o'r angenrheidrwydd sydd i ystyried y pethau a berthynant i grefydd, yn *ddiatreg;* canys y peth nesaf i'r ynfydrwydd o fwriadu *peidio meddwl byth am grefydd*, yw dywedyd *mi a feddyliaf am dani ryw amser i ddyfod.* Yn y cyfamser, myfyria ar y pethau a goffawyd yn barod, a hwy a'th gymhwysant i dderbyn yr hyn a ganlyn.

MYFYRDODAU *y Pechadur a fu yn anystyriol, ond sydd yn awr yn dechreu deffroi.*

'O fy enaid anghofus, deffro, deffro o'th freuddwydion yn y rhai y crwydraist. Dychwel o'r yrfa hon o wagedd, a chymer dy berswadio. dros funud o leiaf,

Digitized by Google

trwy yr holl ystyriaethau hyn, i edrych o'th *flaen*, i edrych i fynu. Canys digon yw yr oriau a'r diwrnodiau a roddaist eisioes at drafferthion a digrifon y bywyd hwn. Na rwgnach wrth roddi rhai munudau, i chwilio dy hunan, ac i ystyried yr hyn a berthyn yn fwy neillduol i'th ddedwyddwch tragywyddol; wrth ystyried pwy a pha beth ydwyt; pa fodd y daethost fel hyn i fod ar y ddaear; a pha ryw un y rhaid i ti fod ar frys!

'A ydyw y peth fel ag y darluniwyd uchod? O fy enaid, creadur Duw ydwyt? Efe a'th wnaeth, ac efe a'th ddiwallodd; efe a'th roddodd yn y corff a wnaeth er dy fwyn, ac y mae yn gynal; corff, yn yr hwn, ni arfaethodd i ti fyw ond dros enyd fach. O! meddwl pa mor gynted y rhaid i'r *babell hon ymddatod*, (2 Cron. 5. 1.) ac i tithau *ddychwelyd at Dduw*, Preg. 12. 7. Ac a fydd i ti barchu y Bôd anfeidrol, tragywyddol, y y byth-fendigedig, a'r byth-ogoneddus yn llai na neb? A wyt ti yn foddlon marw yn cyflwr hwn, gan ddywedyd bob dydd, trwy bob rhyw weithred, *wrth* Dduw, *Cilia oddiwrthyf, canys nid ydwyf yn chwenych gwybod dy ffyrdd*? Job 16. 14. Mae genyt esgusodion y bore a chanolddydd, yr hwyr, y nos, a phob rhan o'th amser dros dy esgeulusdra. Ond, O fy enaid, pa fath a fyddant o flaen Duw? Hwy a allant fy hudo i, ond nis gallant ei dwyllo ef.

O Arglwydd, fy Nghymwynaswr da, mi a wneuthum gamwedd yn dy erbyn, mi a'th anogais i lid ac a'th esgeulusais! A phan ystyriwyf dy *fawredd* a'th *ddaioni*, yr wyf yn synu oblegid annheimladrwydd fy nghalon. *Y mae arnaf gywilydd a gorchwyledd i godi fy llygaid atat ti*, Ezra 9. 6. Pan edrychwyf yn ol yn y mesur lleiaf, yr wyf yn gweled i mi wneuthur yn ynfyd, ac i mi gyfeiliorni yn ddirfawr, 1 Sam. 26. 21.

Digitized by Google

Ac eto mae fy nghalon ddrwg am wneyd fy ngwaith yn dy esgeuluso cyhyd, yn rheswm i fyned rhagof i'th ddiystyru eto yn mhellach. Yr wyf yn gweled y gellit yn gyfiawn ddysgwyl i bawb o'th greaduriaid rhesymol fod yn llawn o ufudd-dod a chariad: fod pob calon yn llawn teimlad o'th hollbresenoldeb; ac i ofal am ryngu dy fodd, lwyr lyncu pob gofal arall. Er hyny *nis cefaist le yn fy holl feddyliau i*, Salm 10. 4. A chrefydd, yr hon yw dyben a gogoniant fy natur, a gafodd mor hynod ei gosod o'r neilldu, fel na ddarfu i mi yn iawn ofyn i'm calon, pa beth ydoedd.—Mi a welaf, os parhaf yn y cyflwr hwn, mai colledig a fyddaf; ac eto yr wyf yn profi yn fy natur gyndyn, anewyllysgarwch dirgel i feddwl am bethau crefyddol; y mae tuedd ynof os nid i roddi heibio yn hollol, eto i roddi heibio meddwl am y fath bethau *yn awr*. Y mae fy meddyliau yn derfysglyd, eto mae yn sicr genyf y gwyddost ti, yr hwn a'm gwnaethost, pa beth sydd oreu er fy lles. Gan hyny, yr wyf yn atolygu arnat fy nhywys er mwyn dy enw, Salm 31. 3. Na âd i mi oedi hyd oni byddo yn rhy ddiweddar.—*O tyn fi fel pentewyn allan o'r gyneu dân*, Amos 4. 11. Tyn ymaith y swyngyfaredd dinystriol ag sydd yn cadw fy *serch* ar wrthrychau, y rhai yr wyf mewn cymhariaeth yn ddibrisio yn fy *neall:* a dwg fi o'r diwedd i'r fath gyflwr hapus, fel na bo arnaf ddim ofn meddwl am danat ti, nac am danaf fy hunan; fel na bo i mi gael fy nhemtio i chwennych, i ti fod heb fy nghreu, neu i ti allu fy anghofio byth; ac fel na bo fy ngobaith penaf, i mi allu *darfod* fel y creaduriaid direswm.

"Os bydd yr hyn a ddarllenwyf ym mhellach, yn unol â'r gwirionedd, ac â rheswm; ac os bydd yn tueddu i ddwyn ym mlaen fy nedwyddwch, ac yn arwyddocâd o'th ewyllys di tuag ataf; O Dduw! boed



Digitized by Google

i mi allu gwrando ac ufuddhau. Pâr i eiriau dy wâs, pan fo yn dadleu dy achos, fod fel symbylau i drywanu fy meddwl, fel y bo i mi deimlo a dolurio, yn hytrach na marw: ië pâr eu bod fel hoelion wedi eu sicrhau mewn lle diogel; (Preg. 12. 11.) fel, pa ddirgeledigaethau bynnag sydd eto heb eu gwybod, a pha anhawsderau bynnag sydd mewn Crefydd, os yw yn angenrheidiol, na bo i mi mwyach ei hesgeuluso; ac os buddiol yw ymwneyd a hi yn ddioed, na bo i mi yn hwy oedi yr ymwneyd hwnw! O boed i'th ras ddysgu i mi y wers, yr hon yr yr wyf mor hwyrfrydig i'w dysgu; a gorchfyga y gwrthwynebiad cryf ag wyf yn deimlo yn fy nghalon yn erbyn, hyd yn nôd y *meddwl* am grefydd! Gwrando yr annrhefnus weddiau hyn, er mwyn dy Fâb, yr hwn a ddysgodd ac a achubodd lawer creadur mor wrthnysig ag wyf fi; ac a all o'r *meini hyn godi plant i Abraham!* Amen.

## PENNOD III.

### Y PECHADUR WEDI EI DDEFFROI YN CAEL EI ANNOG I YSTYRIED EI GYFLWR YN DDIATTREG, AC I OCHELYD DIOFALHAU.

Pechaduriaid, pan wedi eu deffroi, yn dueddol i fwrw ymaith argyhoeddiadau am yr amser presenol, Desparth 1. Gofal dioed am grefydd yn cael ei wasgu, 2. (1.) Oddiwrth ragoroldeb a hyfrydwch y peth ei hun, 3. (2.) Oddiwrth ansicrwydd yr amser dyfodol hwnw ar yr hwn y pwysa pechaduriaid, yn gymharedig â'r canlyniadau athrist o i un gael ei dori ymaith mewn pechod, 4. (3.) Oddiwrth anghyfnewidioldeb gofyniadau presenol Duw, 5. (4.) Oddiwrth y tuedd sydd mewn oediad, i wneuthur cydsyniad â'r gofyniadau hyn yn anhawddach nac ynt yn bresenol, 6. (5.) Oddiwrth y perygl i Dduw gymeryd ymaith ei Ysbryd, yn gymharedig â chyflwr arswydus pechadur wedi cael ei roddi i fynu ganddo, 7. Yr hwn, tebygol, yw cyflwr llawer yn awr, 8. Gan

Digitized by Google

**hyny, ar y cwbl, pa beth bynag fo y canlyniad yn gymaint ag y gall oediadau fod yn achos o alar, 9. Y bennod a derfyna gyda chyngor yn erbyn ymollwng iddynt, 10. A gweddi yn erbyn profedigaethau o'r fath hyny.**

1. YR wyf yn gobeithio i'r hyn a ddywedais eisioes ddeffroi fy narllenydd mor bell a bwriadu cymaint a hyn, sef, Y bydd iddo ryw bryd ystyried yr hyn a berthyn i grefydd. Ond gâd i mi yn ddifrifol ofyn i ti, "Pa bryd y bydd hyny?" *Dôs ymaith yn awr, a phan gaffwyf amser cyfaddas mi alwaf am danat,* oedd iaith, a dystryw *Ffelix* annedwydd, (Act. 24. 25.) pan grynodd trwy ymresymmiadau yr apostol. Ni ryfygodd y temtiwr ei annog ef i roddi heibio bob rhyw feddyliau pellach yn nghylch edifeirwch a diwygiad; ond yn unig wrth ystyried yr amrywiol bethau oedd yn galw am eu sylw, (ac yr oeddynt yn llawer yn ddiamheu) i fod yn angenrheidiol iddo roddi yr ystyriaeth o honynt heibio hyd ryw *ddydd pellach,* a mwy addas. Fe lwyddodd y ddichell, a *Ffelix* a gollwyd!

2. O ddarllenydd, a fydd i ti fy anfon i ymaith yn llyn? O gariad atat, ac o dosturi tyner at dy enaid anfarwol, nid allaf yn ewyllysgar gymeryd y fath esgus, a myned ymaith; ïe, pe enwit *amser,* a dywedyd, y flwyddyn nesaf, y mis, yr wythnos, neu y diwrnod nesaf, nis gallwn dy adael. Fel cyfaill mi ewyllysiwn droi atat gyda y taerni a'r tynerwch eithaf, a dymuno arnat i ddwyn y peth i benderfyniad *yn awr.* Canys os dywedi, 'Mi a ystyriaf y pethau hyn y *foru,*' ni bydd gennyf ond gobaith gwan,' ac mi a allaf benderfynu, fod yr hyn a 'sgrifenais i, a'r hyn a ddarllenaist dithau, *oll yn ofer.*

3. Pan yr wyf yn dy alw i ofal am, ac ymarferiad o, grefydd, fe ellid rhyfeddu fod achos i mi yn y modd mwyaf serchog i hîr-ddadleu â thi, tuag at dy wneuthur yn foddlon i'w pharchu, a chydsynio â hi! Mae yr hyn

Digitized by Google

yr wyf yn dy alw ato, mor wych a rhagorol ynddo ei hun, mor addas, ac mor 'gymwys i ti fel creadur rhesymol, yn beth mor ddoeth a gwrol, fel y gellid meddwl y byddai yr hanes cyntaf am dano, yn peri dy fod megis ar dân am ei fwynhau; ïe, y byddai i'r fath olwg hyfryd yn ddioed lanw dy holl enaid â math o ddigllonedd yn dy erbyn dy hun, am na buasit cyn hyn yn ei cheisio. Rhesymol fyddai i ti ofyn, 'A feiddiaf fi godi fy llygaid a'm henaid at Dduw? Rhoddi fy hun iddo? A ydyw yn bosibl i mi *yr awr hon* ddechreu cyfeillach âg ef? Cyfeillach pa un a bâr byth, ac a fydd yn hyfrydwch, yn ddiogelwch, ac yn ogoniant fy enaid anfarwol?' Ac a gaf fi dynu yn ol a dywedyd, 'Na fydded i mi ddechreu y gyfeillach hon yn *rhy fuan:* boed i mi o leiaf fyw rhai wythnosau, neu rai dyddiau eto, *heb Dduw yn y byd!*' Diamheu ei bod yn llawer mwy rhesymol i ti droi i mewn a dywedyd, 'O fy enaid! ar ba *gibau* aflan y buost yn *ymborthi,* gan anghofio, a phechu yn erbyn dy *nefol Dad*? Ac a gâf fi geisio amlhau dyddiau fy nhlodi, fy ngwaradwydd, a'm trueni?' Ar yr olwg hon, sicr yw ei bod yn rhesymol i ti ddewis dychwelyd yn ddioed at Dduw, yn hytrach na *bod yn annoeth yn hwy,* gan fyned rhagot ychydig yn mhellach i'w anfoddloni ef, ac i newynu, ac archolli dy enaid dy hun: pe byddai genyt sicrwydd o barhad dy fywyd dros flynyddoedd lawer, ac o allu i droi at Dduw a'th ddyledswydd, yn awr, a phob munud eto i ddyfod; diamheu mai dy ddyledswydd a'th fraint yw ymadael â'th ffyrdd pechadurus yr awr hon.

4. Ond pwy, a pha beth ydwyt ti i gyfrif blynyddoedd neu fisoedd eto i ddyfod? Pa beth yw dy *einioes*? Onid yw megis *tarth, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn diflanu,* Iago 4. 14. Pa beth

hyny yw dy sail i ddibynu mor belled ar ei barhad,

Digitized by Google

ag i wystlo dy enaid ar hyny? Ti a ddywedi o bosibl, 'Yr wyf eto yn ieuanc, yn mlodau a grym fy amser: ac mi welaf gannoedd o'm cwmpas yn fwy na chymaint arall fy oedran i; ac y mae y rhan amlaf o *honynt hwy* yn ei gweled hi yn rhy fuan eto i feddwl am grefydd. Yr ydwyt yn golygu y *byw*, ac yn ymddiddan fel hyn; ond yr wyf yn atolygu arnat i ystyried y *meirw* hefyd. Dychwel yn dy feddyliau at y beddau hyny lle y gadewaist rai o'th gymdeithion a'th gyfeillion ieuainc. Ti a'u gwelaist hwynt yn ddiweddar yn fywiog ac yn daclus; yn wresog mewn bywyd, yn llawn o obaith ac amcanion. Hwy a'i cymerasent yn beth chwithig, mewn unrhyw gyfaill a fynasai atal eu gorchwylion a'u pleserau, trwy ymddyddan difrifol â hwynt yn nghylch angau a thragywyddoldeb; er eu bod ar eu cyffiniau hwynt. Ti a welaist wedi hyny, eu cyrff, yn eu heirch (*coffins*); ac yr ydwyt o bosibl yn dwyn o'th amgylch *arwyddion galar*, pa rai a gefaist ar eu claddedigaeth. Y cyrff bywiog a theg hyny o'u heiddo, ydynt yn awr yn pydru yn y pridd; a hyny mor analluog a dideimlad a neb o'r rhai a ddygwyd yno yn bedwar ugain oed. A pheth sy yn haeddu ei ystyried yn anfeidrol fwy yw hyn, sef, fod eu heneidiau, parod neu anmharod erbyn y cyfnewidiad mawr hwn, wedi gorfod ymddangos ger bron Duw; ac y maent y funud hon wedi eu sefydlu naill ai yn y nefoedd neu yn uffern! Yn awr gâd i mi ofyn i ti mewn modd difrifol, a fyddai efe yn beth *dieithr* a *gwyrthiol*, pe bai yr un ddamwain yn dy gyfarfod dithau? Pa fodd y gelli fod yn sicr, nad oes rhyw glefyd marwol yn dechreu gweithio yn dy waed y dydd hwn? Pa fodd y gwyddost y byddi ar ol y *funud hon* yn abl darllen a myfyrio, os esgeulusi yr hyn wyt yn awr yn ddarllen, ac os na wnai ystyried yr hyn sydd yn ymgynyg i'th feddwl y funud hon? Mae o leiaf yn



Digitized by Google

bosibl i'r fath gyfnewidiad disymwth gymeryd lle; ac os felly, fe fydd mewn gwirionedd, yn gyfnewidiad *ofnadwy* i ti! Cael dy yru yn ddisymwth i bresenoldeb Duw ag yr anghofiaist ei *fod ef;* cael dy dori ymaith ar unwaith oddiwrth y byd, wrth yr hwn yr oedd dy holl galon a'th enaid wedi ymlynu; byd ag a aeth â'th holl feddyliau, â'th ofalon, dy lafur, a'th serchiadau; cael dy sefydlu mewn cyflwr, yr hwn ni chymeraist dy berswadio erioed i feddwl am dano, mor belled a threulio *un awr* yn ddifrifol i ymbarotoi ar ei gyfer: O! pa fodd y gelli lai na chrynu wrth feddwl am y fath gyfnewidiad? Onid yw yn llanw y galon â dychryn? Mae yn beth i'w ryfeddu na byddit yn y fath amgylchiad yn barod i *wallgofi*, wrth ystyried ansicrwydd bywyd; ië, na byddit yn marw o *ofn* marwolaeth! Fe fyddai dy waith yn byw ym mhellach yn yr esgeulusdra o Dduw, ar ol yr holl rybuddion difrifol hyn, yn beth a gyffroai ei lid yn fwy; yr hyn wedi dy bechodau o'r blaen, a allai fod yn foddion i'th ddystrywio: canys nis gelli ddysgwyl llai, nac iddo dy dori i lawr yn ddiatreg, a'th wneuthur yn siampl i'th gydgreaduriaid anystyriol ag sydd yn byw fel tithau.

5. Ac a fydd i ti, er hyn oll, anturio byw yn y fath gyflwr yn mhellach? I ba ryw ddyben y gwnai felly? A wyt ti yn meddwl y daw crefydd, o oedi, yn llai *angenrheidiol*, neu yn *hawsach*? Ti a wyddost yn well nas gelli feddwl y fath bethau. Ti a wyddost pa beth bynag y mae y Duw bendigedig yn ei ofyn yn awr, y bydd iddo ofyn hyny oddiwrthyt yn mhen ugain a deng mlynedd ar hugain eto i ddyfod, os byw a fyddi i weled yr amser hwnw. Mae y *drefn* a osododd Duw i dderbyn pechaduriaid, ac i faddeu iddynt eu pechodau, wedi ei sefydlu mewn modd anghyfnewidiol yn yr efengyl. A fydd iddo byth gyfnewid y ffordd hòno?

Digitized by Google

Ac onis gwna *efe*, a ddichon *dyn* ei chyfnewid hi? Nid wyt yn foddlon i ostwng dy hun mewn edifeirwch o flaen Duw, fel y derbynit gyfiawnder a bywyd trwy ei rad ras yn Nghrist; ac yr wyt yn anfoddlon uwchlaw pob peth i ddychwelyd at Dduw trwy *ufudd-dod santaidd*. Ond a fydd iddo un amser roddi heibio y pethau hyn, a chyhoeddi *efengyl arall*, gan addo bywyd ac iachawdwriaeth i *bechaduriaid anedifeiriol*, *anghrediniol*, os *galwant* eu hunain yn gristionogion, ac ymostwng i rai *defodau allanol*? Dros ba hyd yr wyt yn tybied y gelli ddysgwyl am y fath gyfnewidiad yn natur pethau? Ti a wyddost y deil angau afael ynot; ac nis gelli lai na chredu yn dy galon, y bydd i'r holl fyd ymollwng, cyn y bo i *Dduw* yn llyn *wadu ei hun*, a gwrthddywedyd ei holl briodoliaethau, a'i ddatguddiedigaethau.

6. Os bydd Duw yr un byth yn ei ofynion, fel y mae yn sicr y bydd, a wyt ti yn meddwl y bydd rhyw beth ag sydd yn awr yn anhyfryd i ti ynddynt, yn fwy dymunol ryw amser i ddyfod? A fydd dy gariad at bechod yn llai ar ol iddo reddfu yn mhellach ynot, a phan y bo cydwybod wedi myned yn fwy llesg a halogedig? Os wyt yn *blino rhedeg* gyda y *gwŷr traed*, pa fodd yr *ymdarewi â'r gwŷr meirch*? Jer. 12. 5. Ni ddywedit ddim mewn rhyw afiechyd a fyddai yn debyg i fyned a'th fywyd ymaith, 'Mi oedaf hyd onid elwyf beth yn *waeth*, ac wedi hyny ymofynaf am y meddyg; fe gaiff y clefyd wreiddio yn mhellach yn y rhanau hanfodol i fywyd, a chwedi hyny, edrychaf beth ellir wneyd tuag at ei symud ymaith.' Nid felly, canys yn nghylch yr hyn a berthyn i fywyd yr *enaid*, y mae dynion yn ymddwyn yn y fath fodd ynfyd â hyn: oblegid y mae iechyd a bywyd y corff, yn ymddangos yn rhy werthfawr i'w taflu ymaith yn y fath fodd.

7. Pe byddit byth yn cael dy achub ar ol y fath

Digitized by Google

ymddygiad peryglus, fe fyddai hyny trwy weithrediad dwyfol ras ar dy enaid, mewn modd mwy galluog a mwy rhyfeddol, yn gyfatebol i gynydd a pharhad dy heintiau ysbrydol. Ac a elli di feddwl y bydd i'r Ysbryd Glân fod yn fwy *parod* i'th nerthu ar ol i ti mewn modd cywilyddus gellwair ag ef a'i ddigio? Mae efe hyd yma mewn rhyw fesur yn ymsymud ar dy galon; ac os wyt yn teimlo rhyw dynerwch tufewnol ynddi tra yr ydwyt yn darllen y pethau hyn, mae yn arwydd dy fod heb dy roddi i fynu yn hollol. Ond pwy a all ddywedyd llai nad dyma y tro diweddaf y bydd iddo byth gyffwrdd â'r galon, pa un a ymgaledodd cyhyd yn ei erbyn ef? Pwy a ŵyr na bydd i Dduw y dydd hwn *dyngu yn ei lid na chai di byth fyned i mewn i'w orphwysfa ef*? Heb. 3. 18. Mi a ddywedais i ti y gellit *farw yn ddisymwth*, ac yr ydwyt yn addef fod hyny yn ddichonadwy. Ac a wyddost ti am un peth mor ofnadwy? O bechadur, mi a ddywedaf i ti un peth sy yn *fwy ofnadwy na marwolaeth a damnedigaeth sydyn;* sef y gall y Duw bendigedig ddywedyd am danat, 'Boed i'r creadur truenus acw, pa un a'm diystyrodd ac a'm digiodd i dros gyhyd o amser, boed iddo eto *fyw;* boed iddo fyw mewn *llawnder a llwyddiant:* boed iddo fyw hefyd dan ordinhadau mwyaf pur a grymus yr efengyl; fel y bo iddo eu camddefnyddio hwynt er mwyn gwneyd ei farn yn drymach, ac y byddo farw dan *saith gymaint o euogrwydd a melldith.* Ni roddaf iddo ddim gras i ystyried ei ffyrdd yn ddifrifol, dros funud yn hwy; ond fe gaiff fyned rhagddo o ddrwg i waeth, i gyflawni mesur ei anwireddau, hyd oni ddalio marwolaeth ef mewn awr annysgwyliadwy; ac hyd oni *ddelo digofaint Duw arno hyd yr eithaf,* 2 Thes. 2. 16.

8. Ti a elli feddwl fod hyn yn beth anghyffredin; ond yr wyf yn ofni i'r gwrthwyneb am lawer. Yr wyf

Digitized by Google

yn ofni nad oes fawr gynulleidfaoedd lle y cafodd gair Duw ei bregethu yn ffyddlon, a lle y cafodd ei hir-ddibrisio, yn neillduol gan y sawl a ddeffrowd unwaith, nad yw *llygaid Duw* yn gweled llaweroedd o'r fath eneidiau truenus; er fod yn annichonadwy i ni benderfynu pwy ydynt.

9. Nis gallaf fi ddywedyd pa fodd y bydd i Dduw wneuthur â thi, O ddarllenydd, pa un a fydd iddo dy dori ymaith yn ddiatreg, neu ynte dy roddi i fynu yn hollol i anedifeirwch a chaledwch calon: neu a fydd iddo yn y diwedd trwy ras dy ddeffroi i ystyried dy ffyrdd, ac i ddychwelyd ato ef, a hyny pan fo dy galon wedi ymgaledu eto yn fwy. Canys nid oes dim yn rhy anhawdd i hollalluog ras; fe all droi y graig fynor (*marble*) yn ddyn ac yn sant. Ond hyn a ddywedaf yn hŷ, os esgeulusi yn hwy, y daw amser, pan yr *edifarhei di yn chwerw* am y fath esgeulusdra; a hyny trwy alar calon ger bron Duw yma, neu ynte trwy felldithio dy ffolineb a'th ynfydrwydd yn uffern isod. Ac os colledig, byddi yn dymuno, er mor ofnadwy yw uffern i ti allu syrthio iddi yn gynt, yn hytrach na byw yn mysg cynifer o drugareddau ag a wnaethant radd dy gosp yn fwy annyoddefol, a'r teimlad o honi yn llawer mwy poenus, oblegid i ti eu camddefnyddio hwynt.

10. Yr wyf gan hyny yn dy gynghori yn ddifrifol, yn *enw ein Harglwydd Iesu Grist*, a thrwy yr ystyriaeth o *werth*, ïe, os gallaf ddywedyd felly, trwy *waed dy enaid anfarwol*, pa un sydd ar geulan dystryw, na bo i ti esgeuluso *diwrnod*, nac *awr* yn hwy. Na ddyro *gwsg i'th lygaid na hûn i'th amrantau*, (Diar. 6. 4.) mewn diofalwch pellach am y pethau pwysig hyn; ond *cymer eiriau gyda thi, a dychwel at yr Arglwydd;* (Hos. 14. 2.) ac os yw yn ddichonadwy, cwymp ar dy liniau yn y man yr wyt, yn

Digitized by Google

ei bresenoldeb santaidd, a thywallt dy galon allan yn y geiriau hyn, neu o leiaf i'r perwyl hwn :—

GWEDDI *i un sy yn cael ei demtio i esgeuluso Crefydd, er ei fod yn gweled ei gwerthfawrogrwgdd mewn rhan.*

O ARGLWYDD, tydi wyt Frenin cyfiawn a santaidd nefoedd a daear! Mae fy *anadl yn dy law, a'm holl ffyrdd yn eiddo i ti,* Dan. 5. 23. Yr wyf yn cyfaddef fy mod yn mhell yn ol o dy ogoneddu, ac o rodio yn ol rheolau dy ewyllys ddatguddiedig. Mae genyf achos i ryfeddu dy hir-amynedd a'th ddaioni, na buasit er ys llawer dydd yn atal fy anadl, ac yn fy nhori ymaith o *dir y rhai byw.* Yr wyf yn dy glodfori, na buaswn er ys misoedd a blynyddoedd a aethant heibio, yn un o ddeiliaid uffern; lle mae miloedd o bechaduriaid yn awr, a thros byth, yn griddfan ac yn galaru am eu ffolineb yn esgeuluso iachawdwriaeth. Ond, O Dduw! pa mor bosibl yw y bydd i'm calon ofer yn y diwedd fy mradychu, a'm dwyn inau i'r unrhyw ddistryw! Ac och i feddwl! i ddistryw gwaeth, ar ol dy holl amynedd a'th hir-ymaros. Mi a welaf fod yn rhaid i mi ryw bryd ofalu yn ddifrifol am grefydd, neu gael fy ngholli byth. Er hyny mae fy nghalon ynfyd am dynu yn ol o dan yr iau, eto yr wyf yn ymestyn ar y gwely o ddiogi, gan waeddu am ychydig *ragor o gysgu, o heppian, ac o blethu dwylaw i gysgu,* Diar. 7. 10. Dyma fel y mae fy nghalon lygredig yn dadleu dros ei *diogi,* yn wrthwyneb i'm *deall* ag a ŵyr yn well. Pa beth a ddywedaf? O *Arglwydd, gwared fi rhagof fy hun!* Gwared fi rhag twyll a dichellion pechod; gwared fi rhag brâd fy natur gyndyn a dirywiedig, ac argraffa ar fy meddwl yr hyn a ddarllenais yr awr hon!

O Arglwydd, nid oedd y gwirioneddau hyn guddiedig rhagof o'r blaen. Llawer gwaith y cefais fy rhybuddio

Digitized by Google

yn nghylch ansicrwydd amser, a dydd iachawdwriaeth. Mi a ffurfiais rai bwriadau ysgafn, ac mi a ddechreuais rai camrau anwadal i ddyfod atat ti. Ond och, ni bum ond megys yn *bwhwman yn nghylch crefydd*, heb allu erioed *sefydlu arni*. Fy holl fwriadau a wasgarwyd fel mwg, ac fel tarth o flaen y gwynt. O na byddai i ti ddwyn y pethau hyn at fy nghalon gydag argyhoeddiad mwy gallnog, nac a brofais erioed o'r blaen! O na bai i ti fy nghanlyn â hwynt, hyd yn nod pan byddwyf yn ffoi oddiwrthynt, os bydd i mi byth fod mor ynfyd a cheisio dianc rhagddynt mwyach. Bydded i dy ysbryd lefaru wrthyf mewn modd effeithiol a dychrynadwy; ac arfer y moddion mwyaf galluog, pa rai a wyddost ti sy yn angenrheidiol i'm deffroi o'r cysgadrwydd hwn; yr hwn, os amgen, a fydd yn achos o'm distryw tragywyddol. Boed adsain y pethau hyn yn fy nghlustiau *pan elwyf allan a phan ddelwyf i mewn, pan orweddwyf i lawr a phan gyfodwyf i fynu*, Deut. 6. 7. Ac os bydd i'm gorphwysdra y nos, a'm galwedigaethau y dydd gael eu hatal dros amser trwy hyny, boed felly, O Dduw, os bydd i mi ond dwyn yn mlaen yn well, yr hyn a berthyn i'm dedwyddwch tragywyddol; a chael yn y diwedd orphwysfa ynot ti, yn lle yr holl ddychryn yr wyf yn awr yn brofi, *pan gofiwyf am Dduw ac y'm cythryblir*, Sal. 76. 130.

O Arglwydd, *dychrynodd fy nghnawd rhag dy ofn, ac ofnais rhag dy farnedigaethau*, Salm 119. 120. Yr wyf yn ofni, rhag i ti yr awr hon, tra yr wyf yn dechreu meddwl am grefydd, fy nhori i lawr, cyn y bo i'm meddyliau ddyfod i unrhyw addfedrwydd; ac i beri i'r blaen-darddiad o honi yn fy meddwl, wywo mewn tragywyddol farwolaeth. O *arbed* fi, yr wyf yn taer ymbil arnat; er mwyn dy drugaredd, arbed fi ychydig yn mhellach: ac mae yn bosibl i mi trwy dy ras allu

Digitized by Google

dychwelyd atat. Os bydd i'th amynedd eto barhau tuag ataf, fe allai y bydd i mi, yr hwn wyf *ddiffrwythwr dy dir*, (Luc 13. 7, 8.) ddwyn peth ffrwyth gwell. A boed coffadwriaeth o'th hirymaros tuag ataf yr amser a aeth heibio, i'm hatal rhag cellwair â thydi, nac â'm henaid, fy hun, yn hwy. O Arglwydd, boed i mi o'r dydd hwn, ïe o'r awr a'r funud hon, brofi argraffiadau mwy parhaus o grefydd ar fy nghalon, nac a fu erioed o'r blaen, trwy yr hyn oll a glywais ac a ddarllenais! Amen.

## PENNOD IV.

### Y PECHADUR YN CAEL EI GYHUDDO A'I EUOGFARNU.

**Argyhoeddiad o bechod yn angenrheidiol, Dosparth 1. Cyhuddiad o wrthryfel yn erbyn Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen, 2. Lle y dangosir, (1.) Fod pawb dynion wedi eu geni dan gyfraith Duw, 3. (2.) Na wnaeth un dyn ei chadw hi yn berffaith, 4. Apeliad at gydwybod y pechadur ar y pen hwn, na wnaeth efe, 5. (3.) Fod ei thori hi yn ddrwg annhraethol fawr, 6. Yn cael ei egluro trwy olwg fwy neillduol ar amgylchiadau trymhaol yr euogrwydd hwn, yn codi, (1.) Oddiwrth wybodaeth, 7. (2.) Oddiwrth ffafrau dwyfol a dderbyniwyd, 8. (3.) Oddiwrth argyhoeddiadau o eiddo cydwybod a drechwyd, 9. (4.) Oddiwrth ymrysoniadau Ysbryd Duw a wrthwynebwyd, 10. (5.) Oddiwrth addunedau ac addewidion a dorwyd, 11. Y cyhuddiad yn cael ei grynhoi yn nghyd, ac yn cael ei adael ar gydwybod y pechadur, 12. Cyfaddefiad y pechadur dan argyhoeddiad cyffredinol o euogrwydd.**

1. Gan fy mod yn ceisio dy ddwyn at *wir* grefydd, ac nid at ffurf allanol o honi yn unig, yr wyf yn gweled nas gallaf lwyddo yn hyn, ond trwy dy ddwyn i *ddwfn ostyngeiddrwydd*. Gan feddwl fod yr hyn a ddarllenaist eisioes, dan fendith Duw, wedi dy berswadio i gymeryd crefydd at dy ystyriaeth, mi a ymdrechaf yn y modd mwyaf difrifol ag y gallaf, i'th wneuthur yn wir

Digitized by Google

deimladwy o'th *euogrwydd* o flaen Duw. Canys yr ydwyf yn sicr, oddieithr i ti gael dy argyhoeddi yn *effeithiol* o hyn, y bydd i holl ddarpariadau gras yr efengyl gael ei dibrisio, a'th enaid gael ei dystrywio yn anocheladwy, yn mysg y moddion mwyaf rhagorol ag a drefnwyd er ei ddychweliad. Yr wyf yn hollol gredu fod miloedd yn *byw* ac yn *marw* mewn gyrfa o bechod, heb *deimlo* yn eu calonau eu bod yn bechaduriaid; er nas gallant lai, rhag cywilydd, na chyfaddef mewn geiriau eu bod yn bechaduriaid. Caniata i mi gan hyny i ymddwyn yn *ffyddlon* tuag atat, er y gall fod fy ymadrodd yn ymddangos yn *erwin;* canys ni ddylai mwyneidd-dra reoli ymadroddion yn yr hyn a berthyn i fywyd dy enaid.

2. Rhaid i ti, O bechadur, roddi cenad i mi i ystyried fy hun yn *eiriolwr dros Dduw;* fel un a anfonwyd i ddadleu yn dy erbyn di yn ei enw ef, ac i'th gyhuddo o ddim llai na bradwriaeth a gwrthryfelgarwch yn erbyn Llywydd mawr y nefoedd a'r ddaear. Pa beth bynag yw dy sefyllfa yn mysg dynion; pe bai y gwaed gwychaf yn rhedeg trwy dy wythenau; pe bai dy eisteddfod yn mysg tywysogion, a'th fraich *yn arswyd i'r cedyrn yn nhir y rhai byw;* Ezec. 32. 27. rhaid i mi ddywedyd wrthyt, a dywedyd yn eglur hefyd, i ti dori cyfreithiau BRENIN Y BRENHINOEDD, a'th fod trwy hyny wedi dyfod yn agored i'w gyfiawn farn ef.

3. Mae dy gydwybod yn dywedyd i ti gael dy *eni* yn *ddeiliad naturiol i Dduw;* a hyny dan rwymedigaethau anhebgorol i gadw ei gyfreithiau ef. Mae yn eglur fod y galluoedd rhesymol, pa rai sy yn dy wneuthur yn gymwys i dderbyn cyfraith oddiwrth Dduw, yn dy rwymo i roddi ufydd-dod i'r unrhyw. Ac onid yw mor eglur a sicr, na ddarfu i ti hollol ufyddhau i'r gyfraith hon; ie, i ti ei thori amrywiol weithiau mewn modd erchyll.



Digitized by Google

4. Ac a feiddi di wadu hyn? A elli di haeru dy fod yn ddiniwed? Cofia fod yn rhaid i'th ddiniweidrwydd fod yn gyfangwbl: rhaid cael cyfiawnder perffaith hefyd, cyn y gallo fod o ddim defnydd i ti, yn mhellach na phrofi, er dy fod yn bechadur dan farn, nad wyt yn hollol gynddrwg ag ereill o'th gwmpas, ac na fydd dy le di gan hyny yn uffern, yn gwbl mor boethed a'u lleoedd hwynt. Pan ystyriech hyn, a elli di ddywedyd, dy fod yn ddieuog? Chwilia goflyfrau dy gydwybod, canys mae Duw yn eu chwilio hwynt: gofyn yn brysur, 'A bechaist ti erioed yn dy fywyd, yn erbyn Duw?' *Solomon* a ddywedodd am y rhai oeddynt yn byw yn ei ddyddiau ef, *nid oes un cyfiawn ar y ddaear, a wna ddaioni, ac ni phecha*, Preg. 7. 20. Ac mae yr Apostol *Paul*, yn llefaru yr un peth, pan ddywed, *pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw*, Rhuf. 3. 23. fod *Iuddewon a Chenhedloedd* (yr hyn sy yn cynwys holl ddynolryw, *oll dan bechod*, Rhuf. 3. 9. Ac a oes unrhyw reswm i gredu fod y byd wedi dyfod gymaint yn well ar ol eu dyddiau hwynt, fel y gallai un ddywedyd, *nid dyma fy nghyflwr i?* Neu a fydd *i ti* gyfodi yn rhyfygus yn erbyn y Duw hollwybodol a dywedyd, "*myfi yw y dyn dibechod?*"

5. Gan farnu, fel o'r blaen, dy fod yn rhydd oddiwrth weithrediadau anfoesol, pa rai ydynt niweidiol i'r wladwriaeth, ac am hyny yn gospadwy gan gyfreithiau y tir; a elli di ddywedyd, er hyny, na thoraist ti trwy reolau *duwioldeb, dirwest a chariad*? A oes neb o'th *gyfeillion* ag a'th adwaenant oreu, ag na allai dystio i ti ddywedyd neu wneuthur rhyw beth allan o le? Neu, os na allant hwy, onid all dy *galon dy hun*? Onid yw hi yn dy euogfarnu o falchder, o nwydau drwg, ac o drythyllwch, o ormod cariad at y byd a'i fwyniant, ac o rwgnachrwydd, o leiaf yn ddirgel, yn erbyn Duw, pan yr

Digitized by Google

oedd it dan ddyrnodiau rhyw ragluniaeth orthrymus; o gamddefnyddio llawer o'th amser: o wastraffu llawer o roddion haelionus Duw i ddybenion ofer, os nid rai gweithiau i ddibenion pechadurus; o'i watwor ef, pan gymeraist arnat ei wasanaethu ef, *gan nesau ato â'th enau ae â'th wefusau, tra yr ydoedd dy galon yn ymbellhau oddiwrtho*? Esay 29. 13. Onid yw dy gydwybod yn dy gondemnio o ryw *un bai*, o leiaf yn erbyn y gyfraith? Ac onid wyt ti gan hyny mewn ystyr, ïe ystyr ysgrythyrol hefyd, yn *euog o'r cwbl*? Iago 2. 10. Ac onid yw mor anhawdd i ti gael dy gyfiawnhau trwy dy ufudddod dy hun; a phe buasit yn euog o ddeng mil o feiau? Ond mewn gwirionedd y mae deng mil, a llawer rhagor, yn cael eu rhoddi yn dy erbyn. Pan edrychech yn ol ar dy bechodau o *omeddiad*, yn gystal a'r pechodau o droseddiad; pan sylwech ar y prydiau yr *ataliaist wneuthur daioni, pan yr oedd ar dy law ei wneuthur*, (Diar. 3. 27.); ar dy esgeulusdra o ddyledswyddau crefydd, yn enwedig yn y *dirgel;* ac ar yr holl bethau hyny, trwy ba rai y dangosaist esgeulusdra hurt o geisio anrhydeddu Duw, a dwyn yn mlaen ddedwyddwch amserol a thragywyddol dy gydgreaduriaid: pan yr ystyriech yr holl bethau hyn, meddaf, onid yw y *swm* uwchlaw cyfrifiad? Ac yn peri i ti waeddi allan, *amlach yw fy anwireddau na gwallt fy mhen*, Sal. 40. 12. Hwy a ymddangosant yn y fath fodd ger dy fron, fel y bydd i'th *galon dy hun* dy gyhuddo o feiau aneirif; a pha faint mwy y cyhuddir di *gan Dduw, yr hwn sy yn fwy na dy galon, ac a ŵyr bob peth*? 1 Ioan 3. 20.

6. O bechadur! a yw yn beth *bach* yn dy olwg i ti ddiystyru awdurdod Duw y nefoedd, a thori ei gyfreithiau ef, pe buasit yn gwneuthur felly ond yn unig trwy esgeulusdra a diofalwch? Pa faint mwy atgas gan hyny, yw dy euogrwydd, gan i ti wneuthur felly lawer

Digitized by Google

gwaith o'th wirfodd, ac yn erbyn goleuni? Caniata i mi yn ddifrifol ofyn i ti, ac yr wyf yn atolwg arnat ti i ofyn i'th enaid dy hun, *pwy a ddifenwaist, ac yn erbyn pwy y dyrchefaist dy lef,* (Bren. 19. 22.) neu y codaist dy law wrthryfelgar? Ar gyfraith pwy y sethraist ti yn y fath fodd rhyfygus, O bechadur? A thrwy hyny, cyfeillgarwch pwy a gollaist, a digofaint pwy a haeddaist? Ai rhyw lywydd daearol yn unig, *yr hwn ni all ond lladd y corff, ac wedi hyny heb ddim mwy ganddo i'w wneuthur?* Luc 12. 4. O bechadur, ni feiddiasit ymddwyn tuag at frenin amserol, fel yr ymddygaist tuag at y *Brenin tragywyddol, anfarwol* ac *anweledig,* 1 Tim. 1. 17. Nis cymerasit dy gyflogi am unrhyw bris, i ryfela yn erbyn dy frenin daearol, yn y modd y gwnaethost yn erbyn y Duw hwnw, o flaen pa un y mae y cerubiaid a'r seraphiaid yn ymgrymu yn wastadol. Nid oes *un gair* gwrthwynebus, dadleugar, na grwgnachgar, i'w glywed yn mysg y nefolion luoedd pan mae ei ewyllys ef yn cael ei chyhoeddi iddynt. A phwy wyt ti, O ddyn truenus! pwy wyt ti, meddaf, fel y dadleuit yn ei erbyn ef? Pa beth wyt ti pan yr wyt yn gwrthwynebu ac yn cyffroi llid y Duw hwnw, ag sy yn *anfeidrol ofnadwy a galluog*? Duw ag a allai, pe ewyllysiai, dy dori ymaith oddiwrth dy holl feddiannau; oddiwrth bob gobaith; ïe ac a allai, mewn munudyn, dy droi allan o fodoliaeth: neu (yr hyn sy yn anfeidrol waeth) dy roddi trosodd i'r poenau mwyaf dirfawr a pharhaus. Er hyn oll, dyma y Duw y pechaist yn ei erbyn; dyma y bod a ddigiaist, trwy dori ei gyfreithiau hyd yn oed yn ei bresenoldeb: a thyma y Duw o flaen pa un yr ydwyt yn sefyll yn euog. Tydi a euogfarnwyd, nid am un neu ddau o feiau yn unig, ond am filoedd a myrddiynau; ïe, o *yrfa* o wrthryfelgarwch, a hyny yn barhaus mewn mesur mwy neu lai, er pan yr ydwyt mewn bod; a

Digitized by Google

phob amgylchiad yn yr hon yr oeddit yn pechu, sydd yn trymhau dy euogrwydd, ac yn gwneuthur dy feiau yn fwy. Edrych yn ol ar dy ffyrdd, a gwad y cŵyn, os beiddi.

7. Os yw *gwybodaeth* yn trymhau euogrwydd, wele dy euogrwydd di, O bechadur, a drymhawyd yn ddirfawr! Ti a gefaist dy *eni* ar dir *Emmanuel;* a Duw a ysgrifenodd atat ti *bethau mawrion ei gyfraith, a thi a'u cyfrifaist hwynt fel dyeithr beth,* Hos. 8. 12. *Ti a wybuaist wneuthur daioni, ac nis gwnaethost* (Iago 6. 27.); ac am hyny mae y *gomeddiad* ynot *ti* yn bechod mawr. *Oni wgddost? Oni chlywaist?* Esay 6. 28. Oni ddysgwyd i ti ewyllys Duw yn fore, yn mlynyddoedd dy ieuenctyd? Oni chefaist addysgiadau ar addysgiadau, yn y cyhoedd ac yn y dirgel, trwy bregethiad a darlleniad gair Duw, pa rai drachefn a thrachefn oeddynt yn tueddu i'th anog i wneuthur ei ewyllys ef? Mewn rhai pethau, onid oedd dy ddyledswydd mor eglur (pe buasit heb unrhyw gyfarwyddiadau), ag y gallasai dy reswm dy hun ei dangos allan yn hawdd? Oni chefaist hefyd dy rybuddio o'r *canlyniadau* o anufydd-dod? Ac oni wyddit ti *gyfiawn farn Duw, fod y rhai sy yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth?* Rhuf. 1. 32. Er hyny mae yn bosibl i ti, nid yn unig wneuthur y cyfryw bethau ond hefyd i ti *gydymfoddloni* â'r rhai oedd yn eu gwneuthur hwynt; ti a'u dewisaist hwynt i fod dy gyfeillion mwyaf agos a neillduol; ac felly, trwy siampl a chydymddyddan, yr ydych yn cryfhau dwylaw y naill y llall mewn anwiredd.

8. Mwy na hyn oll, os yw *dwyfol gariad* a *thrugaredd,* yn achos o drymhau pechodau, mae yn rhaid, O bechadur, fod dy feiau di wedi erchyll drymhau ac ymhelaethu! Ac a wyt ti ddim yn rhwym i gydnabod hyn, O greadur ynfyd ac anghall? Oni chefaist dy



Digitized by Google

feithrin a'th ddwyn i fynu gan *Dduw fel ei blentyn*, ac er hyny ti a *wrthryfelaist yn ei erbyn*? Esay 1. 2. Onid Duw a'th dynodd o'r groth? Salm 22. 9. Oni wyliodd efe drosot yn nyddiau dy fabandod, ac oni chadwodd efe di rhag lliaws o beryglon, pa rai na allasai y *rhieni*, na'r *fammaeth* fwyaf ofalus, eu gweled, na'u cadw ymaith? Onid efe a roddodd i ti dy alluoedd rhesymol? Ac onid oddiwrtho ef y cefaist bob rhyw gyfleusdra i allu eu diwygio a'u iawn arfer hwynt? Oni ddarfu i Dduw bob dydd ddiwallu dy angenrheidiau di mewn modd haelionus a diflino; ac mewn perthynas i lawer ac a ddarllenant y traethawd hwn oni chwanegodd efe roddi iddynt lawer o *foethau*, yn gystal ag angenrheidiau y bywyd hwn? A ddarfu iddo ddim gwrando ar dy lef pan fu *cyfyngder arnat* (Job 27. 9.); a'th waredu yn fynych, pan yn nhrallodion natur y gelwaist arno am gymorth? A fu iddo ddim dy waredu o ddinystr pan yr ydoedd yn barod i'th lyncu? ac hefyd feddyginiaethu dy glefydau, pan yr ymddangosai i bawb o'th gwmpas, y byddai i ti gael dy *dori ymaith yn nghanol dy ddyddiau*? Salm 102. 24. Os na bu hyn, onid yw hir barhad dy iechyd yn ddidor tros gynifer o flynyddoedd, yn dy osod dan yr un fath rwymedigaethau? Edrych o'th amgylch ar dy holl feddiannau, a dywed, A oes *unrhyw beth* genyt yn y byd, heblaw yr hyn a roddodd ei ddaioni ef i ti, ac a gadwodd efe yn dy feddiant hyd yma? At hyn oll chwanega y wybodaeth a roddodd efe i ti o'i ewyllys; yr ymresymiadau tyner a arferodd tuag atat, i'r dyben o'th ddwyn i ddoethach a gwell tymer; ac addysgiadau, a galwedigaethau yr efengyl, yr hon a wrandewaist ac a ddibrisiaist: ac ar ol ystyried hyn oll, dywed, pa un a ydyw dy wrthryfelgarwch wedi ei drymhau trwy yr anniolchgarwch mwyaf atgas, ai nid

Digitized by Google

yw? ac a ellir ystyried y pechod hwnw yn y goleu hwn, yn beth o *ychydig bwys*?

9. Yn mhellach, os yw pechu yn erbyn cydwybod yn trymhau pechod, fe gafodd dy feiau di o bechadur, eu trymhau felly. Chwilia ei *choflyfrau*, ac yna amheu y peth, os gelli. Y mae *ysbryd mewn dyn, ac ysbrydoliaeth yr Hollalluog sy yn gwneuthur iddo ddeall* (Job 32. 8.); ac fe fydd i'r deall hwnw weithredu; ac y mae dirgel gred ein bod ni yn gyfrifol i'n Gwneuthurwr a'n Cynhaliwr, yn anwahanol oddiwrth ei weithrediadau. Mae yn hawdd dadleu yn erbyn rhesymiadau dynol, a rhoi lliwiau gau ar bethau o flaen dynion; ond mae y *galon* yn aml yn barnu yn euog, pan fo y *tafod* yn esgusodi. O ddarllenydd, oni phrofaist ti hi felly? Oni ddarfu i'th gydwybod ddywedyd yn erbyn dy fuchedd gynt, ac oni fu y dywediadau hyny yn boenus iawn hefyd i ti? Gwr bonheddig geirwir a sicrhaodd i mi, iddo ef, pan yr oedd efe yn canlyn holl bleserau trythyll y bywyd hwn, ac yn cael ei gyfrif yn un o'r *dedwyddaf o ddynolryw*, weled ci yn dyfod i mewn i'r ystafell lle yr oedd efe yn mysg ei gyfeillion llawen, ac ar yr olwg, iddo orfod ocheneidio yn dufewnol, a dywedyd, "*O na buaswn i y ci yna!*" O bechadur, a deimlaist ti ddim yn gyffelyb i hyn? A gafodd dy gydwybod di ei syfyrdanu gymaint, a'i serio gymaint â haiarn poeth, (1 Tim. 4. 2.) fel na ddarfu iddi erioed waeddi allan, am y trais a wnaed iddi? A ddarfu iddi erioed dy rybuddio di yn nghylch y canlyniadau dinystriol o'r hyn a wnest mewn gwrthwynebiad iddi? Y rhybuddion hyn, ydynt mewn effaith, *lais Duw;* cynghorion ydynt, pa rai a roddodd efe i ti trwy ei *raglaw* yn dy fynwes. A phan fo ei farn ef yn dy erbyn am dy weithredoedd drwg, yn cael ei rhoddi mewn grym arnat mewn tragywyddol farwolaeth, ti a gei glywed y llef hon yn

Digitized by Google

dywedyd wrthyt drachefn, mewn modd uwch, a chreulonach, nac erioed o'r blaen; a thi a boenir gan ei dannodiau dros dragywyddoldeb, am na wrandawsit mewn amser, ar ei rhybuddion.

10. Caniata i mi chwanegu yn mhellach, os yw pechod yn fwy, oblegid ei gyflawni ar ol bod ysbryd Duw yn ymsymud ar y meddwl, diau fod dy bechod di wedi ei drymhau trwy *hyn hefyd.* Tan y weinidogaeth Iuddewig, er mor dywyll ac anmherffaith ydoedd, ysbryd Duw a weithredai ar yr Iuddewon; pe amgen, nis gallasai *Stephan* ddwyn y fath achwyniad yn eu herbyn, trwy eu holl genhedlaethau, gan ddywedyd, *Yr ydych chwi yn wastadol yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân,* Actau 7. 51. Yn awr yn sicr, ni a allwn yn fwy rhesymol feddwl, ei fod ef yn gweithredu ar bechaduriaid dan yr efengyl. O bechadur, a brofaist ti ddim yn debyg i hyn, hyd yn oed pan nad oedd dim amgylchiadau allanol i'th ddeffroi, nac un pregethwr duwiol yn agos atat? A fu ddim erioed i ti brofi unrhyw ddirgel gymhelliad ar dy feddwl, yn tueddu i'th arwain i feddyliau yn nghylch crefydd; gan dy anog i feddwl yn ddifrifol yn ei chylch ar frys; yn dy alw i wneuthur prawf o honi, gan dy rybuddio i alaru am dy fod mor fusgrell yn ei chylch yr amser a aeth heibio? O bechadur, paham na ystyriaist y fath gynhyrfiadau dedwydd? Paham na buasit megys yn lledu allan holl hwyliau dy enaid, i'r dyben o gael dy ddwyn yn mlaen gan y fath awel dirion a nefolaidd? Ond mewn modd difraw, ti a'i hesgeulusaist: ti a ataliaist y cyfryw ddylanwadau: a pha mor rhesymol gan hyny, y gallasit ddysgwyl i'r ddedfryd fyned allan mewn cyfiawn anfoddlonrwydd yn dy erbyn, gan ddywedyd, *Ni chaiff fy Ysbryd ymryson ag ef mwy,* Gen. 6. 3. A phwy a all ddywedyd nad yw y fath farn yn barod wedi myned allan? Os

Digitized by Google

nad ydwyt ti yn teimlo dirgel gyffroad meddwl, dim euogrwydd, dim deffroad, tra yr ydwyt yn darllen y fath ymddyddanion a hyn, mae achos mawr i ofni fod hyn yn wir.

11. Un peth yn chwaneg ag sy yn gwneuthur pechod yn dra pechadurus, ag y dichon nad ydwyt ti yn euog o hono; sef ei fod yn cael ei gyflawni yn erbyn difrifol rwymedigaethau cyfamod: yr hwn amgylchiad, a bwysodd yn drwm ar gydwybodau llaweroedd, pa rai, efallai, ar y cwbl, a wasanaethasant Dduw gyda mawr onestrwydd trwy y rhan fwyaf o'u bywyd. Ond os nad ydwyt ti yn euog o hyn, gâd i mi ofyn i ti, pa fodd y mae hi felly? Ai o herwydd na ddarfu i ti mewn modd syml a phersonol broffesu rhoddi dy hunan i Dduw erioed mewn cyfamod? Na fu i ti erioed wneuthur un peth ag a ymddangosodd i ti yn weithred trwy ba un y cyfamodaist ag ef; er i ti glywed llawer am ei gyfamod, a chael dy alw mewn modd tyner a phrysur i'r unrhyw? Yn awr yn y goleu hwn, pa mor ofnadwy y mae yr amgylchiad hwn yn ymddangos, yr hwn a gafodd ei grybwyll ar y cyntaf i'r diben o ysgafnhau dy euogrwydd? Eto rhaid i mi 'chwanegu, nad ydwyt ti mor rhydd oddiwrth euogrwydd ar y pen hwn, ag mae yn bosibl i ti feddwl dy fod. Ni châf fi ddim aros i sylwi ar y cyfamod a wnaeth dy rieni drosot ac yn dy enw, pan roddasant di i Dduw trwy fedydd; er fod hyn mewn gwirionedd yn *beth o bwys;* a thrwy alw dy hun yn *gristion,* yr wyt yn proffesu cyfaddef, ac yn cadarnhau yr hyn a wnaethant hwy y pryd hwnw. Ond mi a alwaf i'th gôf, bethau ag oeddynt yn weithredoedd o'th eiddot ti yn fwy neillduol a phersonol. A fu i'th galon o'th ieuenctid, ymgaledu i'r fath râdd anghyffredin, fel na bu i ti erioed lefain ar Dduw mewn un amser o berygl ac anhawsdra? Ac a fu i ti ddim un amser gym-

Digitized by Google

ysgu *addunedau* â'th weddiau? A ddarfu i ti ddim addo os byddai i Dduw dy wrando a'th waredu, yn yr awr hòno o galedi, y byddai i ti adael dy bechodau, a'i wasanaethu ef trwy dy holl fywyd? Efe a'th wrandawodd ac a'th gynorthwyodd, pe amgen, ni buasit ti yn darllain y llinellau hyn yn awr; a thrwy y fath waredigaeth, efe a rwymodd dy addunedau arnat; ac am hyny yr ydwyt yn euog ger ei fron ef yn y toriad o honynt, er dy fod di mor hurt a'u hanghofio. Nid yw Duw yn anghofio un peth, nac yn myned heibio i un peth; ac mae dydd yn dyfod, pan orfydd i tithau edrych ar y gôfresr.

12. Yn awr, O bechadur, dwys ystyria ynot dy hun, pa fath amddiffyniad a elli wneuthur i'r pethau hyn? Galw yn nghyd dy dystion; appelia oddiwrtho ef, yr hwn y pechaist yn ei erbyn, at ryw farnwr uwch, os oes y fath un. Och ddyn, mae y fath esgusodion mor wan ac annigonol, fel y gallai un o'th gydgreaduriaid yn hawdd eu diddymu; fel ag y ceisiaf ddangos i ti yn fuan. Ond mae dy gydwybod ddaroganus yn barod yn gweled y diwedd. Yr ydwyt ti wedi dy gael yn euog, yn euog o bechodau mawrion. Ni ddarostyngaist ti dy galon, eithr *ymddyrchefaist yn erbyn Arglwydd y nefoedd* (Dan. 5. 22, 23.); *a'th farn a ddaw oddiger ei fron ef*, Salm 17. 2. Ti a doraist ei gyfraith, yr hon oedd hysbys i ti; ti a ddiystyraist, ac a gamddefnyddiasit ei aneirif drugareddau, ti a dramgwyddaist dy gydwybod, yr hon yw ei raglaw ef yn yr enaid; ti a wrthwynebaist ac a dristeaist yr Ysbryd Glân; nid oeddit ond megis cellwair âg ef yn dy rith ymostyngiadau: mewn gair, a hwnw ei air ef ei hun, *ti a wnaethost yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaist*, Jer. 3. 5. Mae yn ddiamheuol fod miloedd yn barod yn uffern, euogrwydd pa rai ni bu erioed yn gymaint a'th euogrwydd

ac y mae yn beth i'w ryfeddu, iddo dy arbed di i

Digitized by Google

ddarllain y darluniad hwn o'th gyflwr, neu i fyfyrio yn ei gylch. Oh! na threulia y funud werthfawr hon yn ofer, ond dos yn y modd mwyaf astud a gostyngedig, at y cyfryw fyfyrdodau ag sy yn berthynol i gyflwr mor alarus ac ofnadwy ag yw dy gyflwr di.

CYFADDEFIAD PECHADUR, *yr hwn a argyhoeddwyd mewn rhan o'i euogrwydd.*

O DDUW! tydi ydwyt y Penllywydd, yn erbyn pa un y gwneuthum gamwedd. Tydi yw yr hwn sydd yn treiddio trwy yr holl greadigaeth, a'r Barnwr hollalluog! Pa beth a ddywedaf am yr achwyniad hwn yn fy erbyn? A gaf fi geisio dywedyd fy mod yn cael cam, ac felly sefyll i amddiffyn fy hun yn dy bresenoldeb? Nis beiddiaf wneyd felly, canys ti a *adwaenost fy ynfydrwydd, ac nid yw fy nghamweddau yn guddiedig rhagot,* Salm 69. 5. Mae fy nghydwybod yn dywedyd wrthyf, na wnai fy ngwaith yn gwadu fy meiau, ond eu hamlhau hwynt, ac felly chwanegu tanwydd i enyn tân dy ddigofaint yn fy erbyn, yr hwn wyf yn gyfiawn haeddu. Os ymgyfiawnhaf, fy ngenau a'm barn yn euog; os perffaith y dywedaf fy mod, *efe a'm barn yn gildyn,* Job 9. 20. *Canys drygau anifeiriol a'm cylchynasant o amgylch; fy mhechodau a'm daliasant, fel na allwn edrych i fynu. Amlach ydynt* (medd dy air) *na gwallt fy mhen, am hyny y pallodd fy nghalon genyf,* Salm 64. 12. Yr ydwyf yn fwy euog nac y mae yn bosibl i neb arall wybod, ac i osod allan; mae fy *nghalon* yn dywedyd mwy nag un cyhuddwr arall; *ac yr ydwyt ti, O Arglwydd, yn llawer mwy na'm calon, ac a wyddost bob peth,* 1 Ioan 3. 12.

Pa beth oedd fy holl fywyd, ond gyrfa o wrthryfelgarwch yn dy erbyn di, O Dduw? Nid yw yn ddigon i mi alaru o herwydd y weithred hon ac arall canys ni

Digitized by Google

fu dim yn iawn, yn fy egwyddorion, fy ngolygiadau, na'm dybenion. Fy holl enaid a anhwylwyd. Fy holl feddyliau, fy serchiadau, a'm dymuniadau, a gawsant eu dieithrio a'u troi oddiwrthyt ti, yn y modd mwyaf truenus. Fy ngweithredoedd a fuant ddrwg, a'm geiriau a fuant waeth na hyny; ond, O Arglwydd santaidd, pa faint mwy llygredig yw fy *nghalon* na'r cwbl! Y fath ffynon ddihyspydd o bechod sydd ynddi? Ffynon o lwgr gwreiddiol, ffrydiau chwerwon pa un a ymgymysgasant â'm meddyliau ac â'm gweithredoedd cyntaf, pan yn blentyn; a pha rai ydynt yn rhedeg trwy y cwbl o'm heiddo, hyd y dydd hwn. Mae hyn yn ymddangos yn wirionedd eglur mewn perthynas i'r hyn oll ag *wyf fi* yn allu ddirnad am fy nghyflwr. Ond O! pa gynifer o fisoedd, a blynyddoedd o'm bywyd a anghofiais i? Am ba rai nid oes genyf ond hyn i ddywedyd, sef eu bod yn gyffredin, yn gyffelyb i'r rhai yr wyf yn eu cofio; oddieithr hyn, sef fy mod yn myned yn waeth-waeth, ac yn cyffroi dy amynedd fwy-fwy, er fod pob ymddangosiad newydd o hono yn fwy-fwy rhyfeddol.

O fel yr wyf yn synu, fod dy ddyoddefgarwch eto yn parhau! Yr achos o hyn yw, dy fod di yn *Dduw* ac nid yn *ddyn*, Hos. 11. 9. Pe buaswn i, abwydyn pechadurus, yn cael fy anog yn llyn, nis gallaswn ei ddyoddef. Pe buaswn i yn dywysog, myfi a roddaswn gyfiawnder er ys llawer dydd yn erbyn gwrthwynebwr, beiau pa un, ni haeddent eu cyffelybu i'm beiau i. Pe tad a fuaswn, mi a fwriaswn ymaith er ys amser hir, y cyfryw blentyn anniolchgar, yr hwn a ymddygasai tu ag ataf, fel y bu i mi ymddwyn tuag atat ti trwy fy holl fywyd, *tad yr ysbrydoedd!* Fe fuasai y fflam o serchiadau naturiol wedi diffodd; ei enw, a'r olwg arno, a fuasent yn ffiaidd genyf. Paham gan hyny, O Arglwydd, nad wyf

Digitized by Google

fi wedi fy mwrw allan o'th olwg? Jer. 52. 3. Paham na chauwyd fi i fynu dan farn ddigyfnewid i ddystryw? Dy dynerwch di yw yr achos fy mod i yn fyw. Ond, O Arglwydd, os oes eto ffordd o ymwared, os oes eto unrhyw obaith i'r fath greadur euog, boed iddo ymagor i mi trwy yr efengyl a'th ras! Ac os oes chwaneg o gyffroad, dychryn, a gostyngeiddrwydd, yn angenrheidiol er fy niogelwch a'm iachawdwriaeth, boed i mi gyfarfod â hwynt, a'u dyodddef hwynt oll! Clwyfa fy nghalon, O Arglwydd, os bydd i ti wedi hyny ei hiachau; boed i ti ei dryllio, os bydd i ti yn y diwedd ond ei meddyginiaethu, Hos. 6. 2.

## PENNOD V.

### Y PECHADUR YN CAEL EI DDYOSG O'I DDADLEUON OFER.

Oferedd y dadleuon hyny, y rhai y gall pechaduriaid yn ddirgel hyderu ynddynt, mor amlwg, fel y cywilyddiant yn y diwedd eu coffâu ger bron Duw, Dosparth 1, 2. Megys, (1.) Eu bod wedi disgyn oddiwrth rieni duwiol, 3. (2.) Eu bod wedi sylwi ar y rhau olygiadol o grefydd, 4. (3.) Eu bod yn dal tybiau iachus, 5. (4.) Eu bod wedi dangos parch gwresog i grefydd, ac wedi ymwneuthur â'r ffurfiau allanol o addoliad gyda y rhai a farnent hwy yr eglwysi puraf, 6, 7. (5.) Iddynt fod yn rhydd oddiwrth anfoesoldeb erchyll, 8. (6.) Na feddyliasant y buasai y canlyniadau o esgeuluso crefydd mor angeuol, 9. (7.) Na allasent wneuthur yn wahanol i'r modd y gwnaethant, 10. Diweddglo, 11. Gyda myfyrdod pechadur argyhoeddedig, yn rhoi heibio ei ddadleuon ofer ger bron Duw.

1. Yn fy ymddyddan ddiweddaf, mi a adawais y pechadur mewn amgylchiad dychrynllyd a thruenus; yn ddrwgweithredwr euog wrth orsedd Duw, wedi ei ddyosg o bob rhyw beth ag oedd ganddo yn cael ei



Digitized by Google

gyfrif yn ufydd dod dibechod, ac yn ddiniweidrwydd perffaith, ac felly yn agored i farn y gyfraith santaidd, yr hon ni all esgusodi unrhyw drosedd, hyd yn oed y lleiaf; ond sy yn cyhoeddi melldith, a marwolaeth, yn erbyn pob gweithred o anufydd-dod: a pha faint mwy, gan hyny, yn erbyn y gweithroedd mawrion ac aneirif o wrthryfelgarwch, pa rai, O bechadur, y mae dy gydwybod di yn dy euogfarnu o flaen Duw o'u plegid? Mi a obeithiaf y bydd i rai o'm darllenwyr mewn modd onest blygu dan yr argyhoeddiad, heb feddwl gwneuthur unrhyw amddiffyniad: canys yr wyf yn sicr, mai gwaeddi *euog*, wrth orsedd-fainc Duw yw y peth mwyaf gweddus, ac, ar y cwbl, y peth doethaf ag a ellir wneyd yn y fath amgylchiad anhapus. Er hyny, mi a adwaen *dwyll*, a hunan-weniaith y galon bechadurus a llygredig. Mi a wn pa ryw esgusodion y mae hi yn eu gwneuthur, a pha fodd, wedi ei gyru allan o un *noddfa*, y mae hi yn ffoi i un *arall*, i'r dyben o sicrhau ei hun yn erbyn argyhoeddiad; ac felly i geisio perswadio, nid yn unig arall, ond ei *hunan*. "Os bu hi mewn rhai pethau i'w beio, eto nid yn gymaint ag y gosodwyd allan: fod rhai ystyriaethau yn dadleu o'i thu, pa rai os na allant ei chyfiawnhau, a allant ei hesgusodi." Esgusodion dirgel o'r fath hyn, er nad ydynt wedi eu llunio i ystyriaethau neillduol, ydynt er hyny, yn tori grym argyhoeddiad, ac yn mynych atal ymostyngiad dwfn o flaen Duw; yr hyn yw yr arwydd mwyaf neillduol o fod dihangfa yn agos. Mi a gaf gan hyny, chwilio ychydig i mewn i'r pethau hyn; ac i'r dyben hwnw mi a ewyllysiwn ofyn yn ddifrifol i ti, O bechadur, pa beth sydd genyt *ti* i ddadleu yn erbyn y farn? Pa beth sydd genyt i ddywedyd drosot dy hun, i brofi na ddylai barn Duw gael ei chyhoeddi allan yn dy erbyn, ac na ddylit syrthio yn llaw cyfiawnder?

Digitized by Google

2. Ond dywedaf hyn yn mlaen llaw, mai nid fy ngofyniad yw, pa fodd yr atebit *i mi*, bryfyn gwan a phechadurus, fel dy hunan, yr hwn y rhaid iddo ar fyr sefyll gyda thi wrth yr un fainc, *(rhodded yr Arglwydd i mi gael trugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw!* 2 Tim. 1. 18.) ond pa beth a atebi di i'r Barnwr mawr? Pa beth a ellit ddywedyd pe byddit yn awr o flaen ei orseddfainc; yn mha le, ni wnelai amlhau geiriau ofer, a llunio esgusodion gwag, ond ychwanegu at dy euogrwydd? Diamheu yw, fod *meddwl* am ymddangos yn ei ŵydd, yn diddymu miloedd o'r esgusodion disylwedd, ag a dwyllant y genhedlaeth, pa un sydd lân yn ei golwg ei hunan, *er ei bod heb ei glanhau oddiwrth ei haflendid,* Diar. 3. 30. Neu, tra y maent yn profi eu bod yn aflan, ydynt yn ymddiried mewn geiriau ni wnant les, (Jer. 7. 8.) ac yn *hyderu ar ffon gorsen ddrylliedig,* Esay 36, 24.

3. Mi a obeithiaf yn sicr, na fydd i ti yn y fath amgylchiad ddywedyd, "Mi a ddisgynais o rieni duwiol." Yr ydoedd hyny yn wir yn rhagorfraint; a gwae di, ddarfod i ti gamddefnyddio y cyfryw un, *a gwrthod Arglwydd Dduw dy dadau,* 2 Cron. 7. 22. Fe ddaeth *Ishmael* o lwynau *Abraham*, cyfaill Duw; ac *Esau* oedd fab i *Isaac,* pa un a anwyd yn ol yr addewid: eto ti a wyddost iddynt gael eu tori ymaith oddiwrth y *fendith,* i ba un y barnasent fod ganddynt fath o hawl dreftadol. Ti a elli weled a chofio, fod ein Harglwydd nid yn unig yn llefaru am un ag a allasai alw *Abraham* yn dad, yr hwn oedd er hyny yn y fflamiau (Luc 16.24.) :ond hefyd yn cyhoeddi mewn modd diamheuol y bydd i lawer o blant y *deyrnas* gael eu cau allan o honi; a thra bo ereill o ranau pellaf y byd yn dyfod i eistedd i lawr ynddi, hwynthwy a gânt eu gwahaniaethu oddiwrth eu cym-

Digitized by Google

deithion mewn trueni, trwy y screchau o alarnad uwch, a rhincian dannedd mwy cynddeiriog, Mat. 8. 11, 12.

4. Ni bydd i ti y pryd hwnw ddadleu gan ddywedyd, 'Mi a ymarferais fy meddyliau yn nghylch rhanau golygiadol crefydd:' canys pa ddyben a all hyn ateb, oddieithr ychwanegu at dy ddamnedigaeth! Gan i ti dori cyfraith Dduw, a gwrthddywedyd rhwymedigaethau mwyaf eglur crefydd; ymresymmu, a bod yn ymofyngar yn ei chylch, sy yn amgylchiad ag a brawf fod dy bechod yn fwy haerllug, a'th euogrwydd yn waeth. Pa beth? a feddyliaist ti nad oedd Crefydd wedi ei rhoddi i ddim ond i ymarfer y *deall* yn unig, ac felly bod yn foddion i ddifyru cywreinrwydd dynion? Pe buasit yn ymresymmu yn ei chylch oddiwrth egwyddorion synwyr naturiol, rhaid fuasai i ti farnu a phrofi ei bod yn beth *ymarferol:* ac os felly, paham nas arferaist hi? Ti a adwaenit y canghenau neillduol a berthynent iddi: paham gan hyny na sylwaist ar bob un o honynt? Pe gellit ddadleu anwybodaeth *anhebgorol*, dyna y ddadl oreu i ti wneyd; ïe, buasai anwybodaeth gweithredol yn lleihau, er yn un beius, dy euogrwydd mewn rhyw ran. Ond os, (yn ol dy gyfaddefiad dy hun, *y gwyddit feddwl dy Feistr, ac ni's gwnaethost*, yr ydwyt yn dwyn tystiolaeth yn dy erbyn dy hun, dy fod yn haeddu *cael dy guro â llawer o ffonodiau*, Luc 12. 47.

5. Ni lesha i ti ddywedyd, yn mhellach, "Mi a iawn-gredais athrawiaethau a gorchymynion yr efengyl:" canys yr ydoedd yn haws o hyny i ti *ymarferyd* â hi: ond iawn-ddeall, ac iawn-ymarfer, ni ymddangosant byth yr un peth yn marn Duw, na dynion. Yn dy waith yn credu fod un Duw, yr oeddit yn gwneuthur yn dda; ond mae y *cythreuliaid hefyd yn credu, ac yn crynu*, Iago 2. 19. Da yr oeddit yn gwneyd i addef fod

Digitized by Google

Crist yn Fab ac yn Sant Duw; ond, gwel, fod yr ysbrydion aflan yn addef yr un peth (Luc. 4. 34.), ac er hyny *maent mewn cadwynau tragywyddol, dan dywyllwch, i farn y dydd mawr,* Iudas ad. 6. Ac a fydd i ti orphwys yn ddirgel ar yr *hyn* ag a allai yr ysbrydion uffernol ddadleu yn gystal a thithau? Na ato Duw.

6. Ond fe allai y bydd i ti ddadleu 'I ti *wneuthur* rhywbeth mewn crefydd.' Wedi barnu beth oedd iawngred, a pha eglwys oedd buraf yn ei haddoliad, 'Ti a roddaist dy hun i'r gymdeithas, lle yr oedd erthyglau gwir ffydd yn cael eu proffesu, a'r ffurfiau o addoliad mwyaf pur yn cael eu harfer; yn mysg y cyfryw, ti a ragoraist ar lawer, trwy gadw yn fanol ac astud at dy le trwy dy zel yn achos y cyfryw gymdeithas, a thrwy dy waith yn dadleu mewn modd difrifol dros y cyfryw egwyddorion ac ymarferion.' O bechadur, yr wyf yn ofni i'th zel hon, yn nghylch pethau *amgylchiadol* mewn crefydd, chwyddo dy gyfrif, yn hytrach na'i leihau: efe, yr hwn sy yn gweled dy galon, a ŵyr o ba le y tarddodd, a pha mor bell yr ymdanodd. Mae efe, o bosibl, yn gweled, nad yw dy gwbl ond *rhagrith*; ïe, llen gyfrwys tan ba un yr oeddit yn dwyn ym mlaen dy ddybenion gwael, am bethau y *byd hwn*; a hyny, tra yr oedd enw santaidd Duw, a chrefydd, yn cael eu cablu a'u sathru, yn y modd mwyaf ffiaidd: ac os felly, yr ydwyt yn neillduol felldigedig, am dy waith fel hyn yn taflu *dirmyg* mor hŷ ar hollwybodaeth, yn gystal a chyfiawnder Duw. Neu, o bosibl, nid oedd y difrifwch, trwy ba un yr oeddit yn ymdrechu dros y ffydd a'r addoliad, a rodded unwaith i'r saint, (Iudas ad. 3.) neu yr hyn yr oeddit ti yn fyrbwyll yn gyfrif yn ddifrifwch, ond balchder a chwerwder ysbryd: a'r holl zel a ddangosaist, efallai iddi gyfodi oddiar ormod hyder ar dy ddealldwriaeth dy hun, neu dy waith yn methu dyoddef



Digitized by Google

byddai i haelioni dyn at ei *gymydog* ei ryddhau, pan wedi ei farnu yn euog o fradwriaeth yn erbyn ei *lywydd*.

9. Ond fe allai dy fod yn barod i ateb, a dywedyd, 'Nid oeddwn i ddim yn meddwl fod y canlyniadau o esgeuluso crefydd mor ddinystriol.' Pa fodd nad oeddit? Pa fodd na holaist yn fwy manol a diduedd? Paham y dyoddefaist i falchder a ffolineb dy galon ymfoddloni yn y fath ymddangosiadau twyllodrus, ac yr ymddiriedaist i ddychymygion dy feddwl rhagfarnllyd, yn groes i dystiolaeth eglur gair Duw? Pe buasit yn ystyried yr Arglwydd fel Penllywydd y byd, fe fuasai yr angenrheidrwydd o ddydd barn yn ymddangos i'r dyben o wobrwyo dynion. Pe gwrandawsit ar lais yr ysgrythyr, awdurdod dwyfol pa un yr wyt yn proffesu ei gredu, fe fuasai pob rhan o honi yn dy ddysgu i ddysgwyl am y fath ddydd. Yr wyt yn dywedyd, 'Nas meddyliaist am grefydd.' Am ba beth yr oeddit yn meddwl, pan yr anghofiaist ac yr esgeulusaist hi? A oedd genyt ormod o bethau ereill i feddwl am danynt? Pa ryw bethau, atolwg? A oedd rhyw ddyben yn dy olwg o gyffelyb bwys? Y mae cydwybod yn dywedyd, er dy holl ofalon, fod dy fywyd a'th amser yn faich arnat, o eisiau cymeryd pleser ar amserau mewn *myfyrdod:* er hyny yr oeddit yn gwylied rhag y fath beth fel rhag dy elyn, yr hwn a fuasai yn ceisio dy oresgyn ar bob tu. Fe wyddai Duw dy fod yn anystyriol, ac am hyny yr anfonodd atat *orchymyn ar orchymyn, llin ar lin*, (Esay 28. 10.); mewn iaith mor eglur, fel y gellit yn hawdd ei deall. Fe dy brofodd hefyd trwy gystuddiau yn gystal a thrugareddau, i'r dyben i'th ddeffroi o'th gysgadrwydd dinystriol: ac er dy ddeffroi, yr ydwyt yn chwenych gorwedd drachefn ar y gwely o ddiogi. Ac er mor ddymunol yw dy freuddwydion yn awr, cofia, *mewn gofid y gorweddi*, Esay 50. 11. Myfyr-

Digitized by Google

dod o'r diwedd a'th oddiweddodd di, a rhaid gwrando ar y gydwybod yn awr fel poenwr, gan na wrandawsit arni gynt yn llefaru fel cyfaill.

10. Ond efallai y tybia rhai fod un amddiffyniad o fawr bwys eto heb ei glywed, a bod lle i ddywedyd am bechaduriaid, fod eu *hanian* yn eu gyru o angenrheidrwydd at y pethau sy yn cael eu rhoddi yn eu herbyn yn awr fel beiau; pan nad oedd yn eu gallu hwynt i gilio rhagddynt yn y fath amgylchiadau ag y gosodasid hwynt. Os yw y fath esgus yn dda i ddim, mae yn eglur ei fod yn *addaw* gormod; yr hyn sy yn ei wneuthur yn gwbl ddiles. Pe bawn yn ateb yn ol dy egwyddorion ynfyd dy hunan, mi a allwn brofi, fod yr ystyriaethau, y rhai a'th *rwymodd di i droseddu*, hefyd yn *rhwymo Duw i gospi;* ac nis gall efe lai na chospi. Ym mhellach, mi a allwn ddywedyd gydag ysgrifenydd rhagorol* yn yr oes hon, 'fod y cyfryw bethau ag sy yn dystrywio *anghyfiawnder pechod*, hefyd yn dystrywio *anghyfiawnder y gosp am bechod.* Ond er hyn oll, efallai i ti ateb, ei fod yn anghyfiawnder dy gospi di am weithred, yr hon oedd yn anmhosibl ei gochelyd; ond, trwy y fath ateb, yr ydwyt yn gwrthddywedyd dy hun, fel ag y sylwais uchod. Gad i gydwybod farnu, pa fath athrawiaeth fyddai hòno, ag a farnai *bob rhyw gosp yn anghyfiawn*, pa un bynag ai dwyfol neu ddynol a fyddo. Yr wyf yn sicr pe bai un o'th weision yn dy yspeilio, ac yn llosgi dy dŷ, nas gellit ddim credu yn dufewnol, ei fod yn rhwym i wneyd felly; nis gellit feddwl wrth ei waith yn dywedyd, 'Nis gallaswn lai,' ei fod ef gan hyny yn ddifai ac ddim yn haeddu cosp. Yr wyf yn credu dy fod mor belled o ryfygu dwyn y fath esgus ger bron Duw yn y dydd mawr, fel nas gelli anturio ymorphwys

* *Butler's (Bp. of Bristol) Analogy, &c. p.* 135. *8vo Edition.*

Digitized by Google

arno yn awr mewn gweddi. Dychymyg dy fod yn gweled drwgweithredwr yn marw â'r fath eiriau â hyn yn ei enau; 'O Dduw, mae yn wir i mi yspeilio a lladd fy nghydgreaduriaid; ond ti a wyddost fod fy amgylchiadau i wedi eu trefnu yn y fath fodd, fel nas gallaswn wneyd yn amgen: yr oedd fy ewyllys wedi ei thueddu mewn modd anwrthwynebol, trwy yr anogaethau y rhai a osodaist ti ger fy mron; a chystal y gallaswn ysgwyd sylfaenau y ddaear, neu dywyllu yr haul yn y ffurfafen, a gwrthwynebu y cymhelliad ag oedd yn fy ngyru yn mlaen.' Yr wyf yn gofyn i'th gydwybod, oni fyddai i ti edrych ar y fath araeth atgas, fel un drwg mawr yn cael ei chwanegu at y llall. Eto, os byddai y fath esgus o bwys yn dy enau di, fe fyddai o gymaint yn ei enau yntef; ac fe fyddai yn iawn ei wneyd ar bob rhyw achos. Ond mae hyn mor groes i reswm, fel nas gallaf feddwl y bydd i un dyn yn drwyadl, ac mewn modd difrifol, ei gredu; ac mi a feddyliwn fod yr amser yn cael ei gamdreulio yma, pe rhoddwn fy hun i ymladd â'r cyfryw ag sy yn llunio rhyw fath o resymau dros y fath esgus, ac yn ceisio eu tecau trwy dwyll a drygioni natur.

11. Ti a weli, gan hyny, O ddarllenydd, wagder dy holl esgusodion, a pha mor hawdd i ddyn marwol fel dy hunan, yw rhoddi taw ar y goreu o honynt oll; pa faint hawsach gan hyny iddo ef, yr hwn sy yn chwilio y calonau, ac a all, mewn munud, beri i'r argyhoeddiad mwyaf grymus ac anwrthwynebol, i fflamychu ar y gydwybod? Pa beth a elli wneuthur, tra yn sefyll yn euog o flaen Duw? Pa beth a ddylit wneuthur yn awr ond sefyll yn fud dan deimlad o'th euogrwydd anesgusodol, a pharotoi dy hun i glywed y ddedfryd, yr hon y mae ei gyfraith yn ei chyhoeddi i'th erbyn. Rhaid i ti ddyoddef y cyflawniad o honi, os na bydd i'r efengyl

Digitized by Google

dy waredu: rhaid i ti deimlo rhan o'i dychryn, cyn y bo i ti gael dy gyffroi i ymofyn am waredigaeth trwy yr efengyl.

MYFYRDOD *y Pechadur a euogfarnwyd, yn rhoddi heibio ei esgusodion diles ger bron Duw.*

O gyflwr truenus i ba un y'm dygwyd! Mi a bechais; pa beth a wnaf i ti, O *geidwad dyn?* Job 7. 20. Pa beth a feiddiaf ddywedyd? O! y fath ynfyd oeddwn, gan i mi ddifyru fy hun â'r fath esgusodion ofer, a meddwl y byddent o bwys yn dy bresenoldeb ofnadwy di; i mi dybied y gallwn eu crybwyll hwynt yno! O! ni allaf ryfygu eu henwi. Yr ydwyf yn fud, ac wedi fy nghywilyddio. Och! mae fy ngobaith wedi darfod, ac mae fy enaid ei hun yn barod i drengu, mor belled ag y mae yn bosibl i enaid anfarwol fod felly: ac yr ydwyf yn barod i ddywedyd, O na allwn hollol farw! Yr ydwyf yn greadur euog yn llaw cyfiawnder, gwedi fy nghwbl ddyosg o'r arfau i ba rai yr ymddiriedais. Ni wna rhagrith ond rhoi anogaeth at anogaeth i gyffroi dy lid. Mi a addefaf gan hyny fy mai yn rhydd ac yn eglur. Mi a weithredais, fel pe tybiaswn fod *Duw yn gwbl fel fi fy hun:* ond efe a ddywedodd, *mi a'th argyhoeddaf ac a drefnaf dy bechodau o flaen dy lygaid,* Salm 50. 20. O y fath lu dychrynllyd y maent yn ymddangos! Ac, O fel y maent yn amgylchynu fel nad oes posiblrwydd i ddianc rhagddynt! O! fy enaid, yr ydwyt megys carcharor ganddynt; ac maent yn dy ddwyn ymaith tuag at orseddfainc barn.

Rhaid i ti ymddangos o'i blaen! Rhaid i ti sefyll ger bron y Barnwr ofnadwy a thragywyddol, (Jer. 17. 10.) yr hwn a brawf hyd yn oed yr arenau; ac ni raid iddo wrth dyst arall, canys yr oedd efe ei hun yn

Digitized by Google

gwybod, ac yn dyst o'th holl wrthryfelgarwch, Jer. 29. 23. Ti a gei ei weled ef, O! fy enaid, yn eistedd mewn barn yn dy erbyn: a phan *graffo ar anwiredd* (Salm 130. 3.), pa fodd yr atebi iddo am *un o fil*, Job 9. 3. Ac os na elli ateb iddo, yn mha rhyw iaith y llefara efe wrthyt! O Arglwydd, wrth ystyried fy nghyflwr presenol, nid oes genyf le i ddysgwyl am ddim ond barn! A pha ryw farn! O! fy enaid, myfyria arni; darllen dy ddedfryd cyn y byddo i ti glywed ei chyhoeddi mewn modd anghyfnewidiol yn dy erbyn! Mi a welaf y farn yn ysgrifenedig yn llyfr Duw, ac mi a welaf fod y datguddiad o honi wedi ei roddi i ddybenion graslawn. Mi a welaf fod y mawrhydi nefol am ein deffroi, rhag ein dystrywio. Llefara wrthyf fi gan hyny, O Dduw, tra yr ydwyf ar derfynau gobaith. Llefara mewn modd dychrynadwy ac effeithiol, ond boed i ti fy ngwared rhag anobaith hollol. A boed i'th air (er poeni yn ei weithrediadau) fod fel cleddyf llym dau-finiog, Heb. 4. 12. Na âd im i wenieithio yn ofer i mi fy hun: na âd fi yn ysglyfaeth i'r cyfryw rai ag a ewyllysiant broffwydo i mi *bethau esmwyth*, hyd oni bo i mi gael fy *nghauad* i fynu dan ddigofaint, a theimlo cyfiawnder yn trywanu fy enaid, *a gwenwyn dy saethau di, yr Hollalluog, yn yfed i fynu fy ysbryd*, Job 6. 4.

Cyn y caffwyf olwg neillduol, mi a wn mai *peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw*, Heb. 10. 31. O Dduw, yr ydwyf mewn rhan yn barod wedi syrthio i'th ddwylaw. Yr ydwyf yn agored, yn gyfiawn agored, i'th anfoddlonrwydd; a pha beth bynag fo dy farn pan ddelo allan yn y diwedd oddi ger dy fron (Salm 17. 2.), rhaid i mi gondemnio fy hunan, a'th gyfiawnhau di. Nis gelli ymddwyn tuag ataf mewn modd mwy ·lon nac y mae fy anwireddau yn haeddu: a pha

Digitized by Google

mor chwerw bynag fo y *cwpan erchyll* (Esay 51. 17.), pa un a drefnaist i mi, yr ydwyf yn euogfarnu fy hun ac yn addef fy mod yn haeddu cael *gwasgu allan, ac yfed ei waelodion*, Salm 75. 8.

## PENNOD VI.

### Y PECHADUR YN CAEL EI EUOGFARNU.

Y pechadur yn cael ei alw i glywed ei ddedfryd, Dosparth 1, 2. Cyfraith Duw yn awr yn gyffredinol a gyhoedda felldith, 3. Hi a gyhoedda farwolaeth, 4. A throad i uffern, 5. Daw dydd y farn, 6. Difrifoldeb yr erlyniad mawr hwnw yn cael ei ddarlunio, yn ol arddangosiadau ysgrythyrol o hono, 7, 8. Gydag eglurhad neillduol o'r ddedfryd, *Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig*, &c. 9. Y cyflawniad a ganlyn yn sicr a dioed, 10. Y pechadur yn cael ei rybuddio i barotoi i'w dyoddef, 11. Adfyfyrdod y pechadur wedi ei daraw â dychryn y ddedfryd hon.

1. GWRANDO, O bechadur, ac mi a lefaraf unwaith eto yn enw Duw, yn enw Duw dy Farnydd hollalluog; yr hwn, oni wrandewi ar lais ei weision, a lefara ar frys wrthyt mewn modd mwy digyfrwng, ac mewn modd mor nerthol a dychrynadwy ac y bydd yn rhaid i ti wrando.

2. Ti a euógfarnwyd, megys ger ei fron, a'th esgusodion a aethant yn ddiles. Mae yn eglur o flaen Duw, yn eglur o flaen dy gydwybod hefyd, nad oes genyt ddim i ddywedyd yn ychwaneg yn erbyn gafaeliad y farn; gan hyny gwrando y ddedfryd, a galw ar holl alluoedd dy enaid i edrych a elli di ddyoddef y cyflawniad o honi. Gwir yw, cael ein barnu gan farn *dyn*, peth bychan ydyw; ond efe yr hwn sy yn dy farnu di yw yr ARGLWYDD, 1 Cor. 4. 3, 4. Gwrando, gan hyny, a chryna, tra byddwyf yn gosod ger dy fron yr hyn a

ddywed efe wrthyt; neu yn hytrach, tra y dangoswyf allan trwy ysgrythyrau eglur, yr hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthyt yr awr hon; efe, yr hwn a ddywedodd yr â y *nef a'r ddaear heibio, ond nad â un iot nac un tipyn o'r gyfraith heibio,* Mat. 5. 18.

3. Nid yw cyfraith Duw yn llefaru wrthyt *ti* yn unig, O bechadur, ond yn yr iaith fwyaf helaeth wrth ei holl droseddwyr; ac y mae hi yn cyfeirio ei bygythion yn erbyn pob rhyw drosedd, mawr a bach, heb *arbed un*. A dyma ei llais, MELLDIGEDIG YW POB UN NID YW YN AROS YN YR HOLL BETHAU A YSGRIFENWYD YN LLYRF Y DDEDDF I'W GWNEUTHUR HWYNT, Gal. 3. 10. Hyn y mae hi yn gyhoeddi uwch ben yr holl fyd, a hyn y mae hi yn gyhoeddi uwch dy ben *di*, O bechadur. Mae yn perthyn i ti yn bersonol, O ddarllenydd, i ystyried ei chynwysiad ofnadwy; ac y mae dy gydwybod yn addef hyn. Yr wyt mor bell o aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd ynddi i'w gwneuthur hwynt, fel na elli lai na theimlo *fod drygau aneirif wedi dy amgylchynu o amgylch,* Salm 40. 12. Mae yn eglur am hyny mai tydi yw y dyn, y mae hi yn ei farnu; melldigedig ydwyt trwy felldith (Mal. 3. 9.); trwy felldith y Duw goruchaf: mae hyd yn oed yr holl felldithion a ysgrifenwyd yn llyfr y gyfraith wedi eu cyfeirio i'th erbyn, Deut. 29. 20. Fe all Duw, a hyny yn gyfiawn, eu gosod i'th ran y funud hon; ac er nad ydwyt yn awr yn teimlo yr un o honynt, eto os na bydd i drugaredd anfeidrol ragflaenu hyny, mae yr amser ar ddyfod, pan ddelont *i'th berfedd fel dwfr, ac fel olew i'th esgyrn,* Salm 109. 18.

4. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, *Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw* (Ezec. 18. 4); tydi a bechaist, ac am hyny yr ydwyt dan ddedfryd marwolaeth. O greadur anhapus, pa ryw farwolaeth! Pa beth fydd diwedd y

Digitized by Google

pethau hyn? Gorfod dyoddef gloesion y rhai a'th gylchynant ar ollyngiad natur; i'th enaid orfod cael ei dori ymaith oddiwrth dy gorff egwan, a thithau ddychwelyd i'r pridd o'r lle y'th gymerwyd (Salm 104. 29.), sy yn effeithiau ofnadwy pechod: a thrwy y pethau hyn y dangosodd Duw, trwy holl genhedlaethau ac oesoedd y byd, ei gyfiawn anfoddlonrwydd yn ei erbyn. Ond, och! ddyn, nid yw dychrynfeydd marwolaeth, ond megys agoriad drws i olygiadau mwy ofnadwy. Nid ydynt ond megys ergyd trwm trwy ba un y mae y llyffetheiriau yn cael eu tynu ymaith, pan fo y carcharor yn cael ei arwain allan i artaith a dienyddiad.

5. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, *Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw*, Salm 9. 17. Er bod o honynt deyrnasoedd cyfain, ni bydd eu rhifedi na'u gallu o un dyben er eu hamddiffyn. Hwy a gânt eu dychwelyd i uffern yn nghyd; i'r carchar hwnw o dân, a barotodd dialedd dwyfol; i'r *Tophet* a ddarparwyd er doe, hyd yn oed i bechaduriaid o fawredd brenhinol, yn gystal âg ereill; ni all mawredd dynol roi y diffyniad lleiaf. *Efe a'i dyfnhaodd hi, ac a'i ehangodd; ei chyneuad hi sydd dân a choed lawer; anadl yr Arglwydd, megys afon o frwmstan, sydd yn ei henyn hi* (Esay 30. 33.); ac fe fydd i'r ffrwd losgedig redeg iddi mor gyflym, fel y bydd yn fuan yn fôr o dân berwedig; neu fel y dywed yr ysgrythyr, *yn llyn sy yn llosgi â thân a brwmstan yn oes oesoedd*, Dat. 21. 8. Dyma yr ail farwolaeth; a'r farwolaeth, i ba un yr ydwyt *ti*, O bechadur, yn agored, medd gair Duw.

6. A fydd i'r farn a roddwyd arnat, sefyll ar lyfr Duw yn ofer? A fydd i'r gyfraith a'r efengyl ei chyhoeddi, ac heb byth gael ei chyflawni? A fydd i Dduw byth ddwyn i ben y gosp? O bechadur, efe a dery, er ei fod yn oedi dros amser. Canys ti a wyddost

Digitized by Google

yn dda iddo osod diwrnod, yn mha un y barna efe yr holl fyd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe, gan roddi llawn ffydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw, Actau 17. 31. A phan farno Duw y byd, O ddarllenydd, pwy bynag wyt, y pryd hwnw bernir *dithau*. *A chan wybod ofn yr Arglwydd* (2 Cor. 5. 11.), mi a chwennychwn ymdrechu yn y modd mwyaf eglur ac onest, i waredu fy enaid fy hun, a'th enaid dithau.

7. Yr ydwyf gan hyny yn ailadrodd y rhybudd, gan ddywedyd wrthyt, O bechadur, fod yn rhaid i ti sefyll o flaen brawdle Crist, 2 Cor. 5, 10. Ti a gai weled yr ymddangosiad gogoneddus; darluniad o ba un sy wedi myned yn beth mor gyffredin genyt, fel nad yw yr adroddiad yn cael dim argraff ar dy feddwl. Ond cofia er mor gysglyd ydwyt yn awr, fe fydd i grochlef udgorn yr archangel dy ddeffroi ac ysgwyd dy enaid: ac os nad oes dim arall a'th ddihuna, cei dy ddeffroi trwy y dirdyniadau a'r fflamiau ag a fo yn peri i'r greadigaeth ymollwng. Duw a baro i ti ddihuno yn gynt, ac a roddo i ti feddiannu ei iachawdwriaeth.

8. A wyt ti yn hollol gredu mai unig ddyben Crist pan yr ymddangoso y dydd diweddaf, fydd galw ei bobl ei hun allan o'u beddau, a'u cyfodi i ogoniant a gwynfyd? Pa sicrwydd bynag sydd genyt, y bydd adgyfodiad i'r cyfiawn; mae yr unrhyw sicrwydd wedi ei roddi, y bydd adgyfodiad i'r anghyfiawn, Actau 24. 15. Wedi cyfodi y meirwon, y *Barnwr a'u didola hwynt oddiwrth eu gilydd, megys y didola y bugail y defaid oddiwrth y geifr*, Mat. 25. 32. Neu a wyt ti yn tybied, pan ddywedir, y bydd i'r *meirw fychain a mawrion sefyll ger bron Duw*, (Dat. 20. 12.) nad oes i ni feddwl dim rhagor na'i fod ef yn bwriadu cospi rhai pechaduriaid ...us yn unig; sef y sawl a wybuasant feddwl eu

Digitized by Google

Harglwydd, &c. ac nis gwnaethant? Cofia iddo ef, yr hwn *ni wybu feddwl ei Arglwydd* (ac am hyny yn fwy esgusodol) gael ei *guro,* er cael llai o ffonodiau, Luc 12. 48. A elli di feddwl y bydd i'r farn a gaiff ei chyhoeddi gyda y fath frenhinol fawredd; dedfryd, trwy ba un yr amlygir cyfiawn farn Duw; a fydd hon meddi di yn ddisylwedd? Neu a fydd y gosp, i ba un y rhydd hi y pechadur, yn ysgafn? Buasai rhyw le i dybied hyny, pe gadawsai Duw ni wrth oleu rheswm yn unig i ystyried ei natur. Ond nid felly y gadawyd ni: ein Harglwydd Iesu Grist, o'i anfeidrol ymostyngiad a'i dosturi, a welodd yn dda roddi i ni gopi o'r farn, (a diamheu ei fod yn gywir,) ac mae y geiriau a'i cynwysant, yn haeddu cael eu hysgrifenu ar bob calon. Y brenin (o ganol y gogoniant yn mha un yr ymddengys) a ddywed wrth y rhai ar ei ddeheulaw, *Deuwch, chwi fendigedigion blant fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd,* Mat. 25. 34. A lle y byddo gair y brenin, y mae gallu, Preg. 8. 4. Ac y mae gallu yn y geiriau hyn, ag sy yn ddigon i adfywio calon y cristion gostyngedig, yn y tristwch mwyaf, gan ei lenwi â llawenydd *annhraethadwy a gogoneddus,* 1 Pedr 1. 8. Cael eu galw yn wynfydedigion yr Arglwydd! cael eu galw i deyrnas! cael eu galw i dragywyddol fwynhad o'r fath deyrnas gyflawn, ogoneddus, ac mor hollol addas i ateb hòll angenrheidiau creaduriaid a luniwyd ac a adnewyddwyd mor rhagorol, fel y mae yn ymddangos yn deilwng o ragderfynedig gyngor Duw ei pharotoi, ac o'i gariad i'w rhoddi i'w bobl! O y breintiau mawrion! Wele obaith, ïe yn wir, gobaith gogoneddus a bywiol, i ba un ein hadgenhedlwyd trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw, (1 Pedr 1. 3.) ac a weithiwyd trwy santaidd ddylanwadau Ysbryd Duw ar ein meddyliau. Ond gobaith yw, oddiwrth ba un, O



Digitized by Google

bechadur, yr ydwyt *ti* yn bresenol wedi dy gau allan: ac mi a feddyliwn ei fod yn beth gofidus i ti orfod dywedyd, "Crist a lefara yn y geiriau grasol uchod wrth rai; ïe, wrth dorfeydd, ond nid *wrthyf fi*: nid oes dim gwynfydedigrwydd yn cael ei gyhoeddi i *mi*, nag un deyrnas wedi ei pharotoi ar fy nghyfer." Ai dyna y cwbl, O bechadur? Och, nage! mae cyflwr ofnadwy yn y byd a ddaw yn wrthwynebol i wynfyd y saint. Ac mae ein Harglwydd wedi amlygu pa beth a ddywedir wrthyt ti yn nydd barn, os arosi yn y cyflwr presenol; wrthyt ti, ac wrth holl genhedloedd anedifeiriol ac anghrediniol y byd, pa mor aml a gwych bynag y byddont. Yr Arglwydd a ddywed wrth *frenhinoedd* y ddaear, ag a wrthryfelasent yn ei erbyn; wrth y *gwŷr mawr a chyfoethog; y pen-capteniaid a'r gwŷr cedyrn; yn gystal a phob gwr caeth a phob gwr rhydd*, o sefyllfa îs (Dat. 6. 15.); *ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion*, Mat. 25. 41. O bechadur, myfyria ychydig ar y geiriau pwysig hyn, hyd oni byddo i ti weled rhan o'u cynwysiad mawr.

9. Fe ddywed, Ewch oddiwrthyf! Ti gai dy fwrw allan o'i ŵydd gyda chywilydd; o'i ŵydd Ef, yr hwn yw Ffynon bywyd a gwynfydedigrwydd; yn yr agosrwydd ato, y mae trigolion y nefoedd yn llawenhau yn wastadol: rhaid i ti ymadael yn felldigedig. Ti a doraist gyfraith Dduw, ac mae ei melldith hi yn syrthio arnat; yr ydwyt, a byddi byth, dan y felldith hòno. O'r dydd hwnw allan fe fydd Duw a'i greaduriaid yn edrych arnat fel peth atgas, a'r peth mwyaf truenus a ffiaidd yn yr holl greadigaeth! Rhaid i ti fyned ymaith i'r tân. Ac O! ystyria i ba fath dân! Ai rhyw fflam angerddol ydyw, pa un a'th ddifa mewn munud awr, er

ddirfawr boen? Fe fyddai hyny yn ofnadwy.

Digitized by Google

Ond O! nid yw hwnw yn haeddu cael ei gyffelybu i'r poenau a raid i ti ddyoddef. Y tân i'r hwn y'th deflir di, O bechadur, sy yn dân tragywyddol. Ac am hyny y dywed ein Harglwydd, wrth rybuddio pechaduriaid, dair gwaith am uffern, ei bod yn lle nad yw y pryf byth yn marw, na'r tân byth yn diffodd, Marc 9. 44, 46, 48. Ni pharotowyd y tân hwn i ti yn unig, ond yn flaenaf i ddiafol a'i angylion; ond gan i ti gyduno â hwynt mewn gwrthgiliad, rhaid i ti soddi gyda hwynt i'r dystryw tanllyd; ie, soddi yn ddyfnach na hwynt, o gymaint ag i ti *ddibrisio* Iachawdwr, yr hwn ni chawsant hwy gynyg arno. Y cythreuliaid gan hyny, fydd dy gyfeillion a'th boenwyr di, gyda pha rai y gorfydd i ti breswylio byth. Ai myfi yn unig sy yn dywedyd hyn, onid yw y gyfraith a'r efengyl yn dywedyd yr un peth? Onid yw yr Arglwydd Iesu Grist, y Tyst ffyddlon, yn cyhoeddi hyn (Dat. 3. 14.), efe yr hwn sy yn barnu y byw a'r meirw?

10. A phan y mae efe yn cyhoeddi y ddedfryd, oni chyflawnir hi? Pwy a all feddwl yn amgen? Pwy a all ddychymyg fod y fath farn yn cael ei datguddio er llanw y meddwl o ddychryn, a'r cwbl wedi hyny yn diflanu fel mwg? Ti a elli yn hawdd weled y byddai hyn yn dwyn mwy o waradwydd ar lywodraeth ddwyfol Duw, na phe buasai y ddedfryd erioed heb ei rhoddi. Ni a allwn gan hyny gasglu oddiwrth gyhoeddiad y farn, y bydd iddi gymeryd lle. Ond rhag ofn i galon ddrwg y pechadur ei dwyllo trwy obaith gwag, mae sicrwydd o'i chyflawniad yn cael ei osod o'n blaen mewn geiriau amlwg; *Y drygionus a ant i gospedigaeth dragywyddol* (Mat. 25. 46.): a thithau, O ddarllenydd, pwy bynag wyt, gan dy fod yn un o'r rhif, a gai fyned gyda hwynt, y torfeydd truenus, i dragywyddol ddystryw. Pyrth llydain uffern a ymagorant i'th dderbyn;

Digitized by Google

a hwy a gauant arnat i'th garcharu byth; a'u barau a ddiogelir gan law hollalluog cyfiawnder dwyfol, er atal pob gobaith, a phob posiblrwydd o ddihangfa, i dragywyddoldeb.

11. Yn awr, parotoa dy hun i gyfarfod â'r Arglwydd dy Dduw (Amos 4. 12.); galw yn nghyd dy holl alluoedd, i glywed, ac i ddyoddef eu cyflawniad o'r farn hon: canys nid fel dyn y cyferfydd efe â thi (Esay 47. 3.), calon yr hwn a dawdd ynddo, pan fo yn nghylch rhyw weithred greulon angenrheidiol, ac felly y gall tosturi lywodraethu yn erbyn cyfiawnder a rheswm. Nid felly, ond fe gyferfydd â thi fel Duw, arfaethau pa un, sy yn ddigyfnewid. Yr wyf gan hyny yn dwyn tystiolaeth i ti y dydd hwn yn ei enw ef, sef, os yw Duw yn wirionedd, efe a lefara wrthyt fel hyn ryw ddydd; ac os yw yn alluog, efe a wna fel y dywedwyd uchod. Ac yn awr, O bechadur, ar y dyb y bydd i ti barhau yn anedifeiriol ac yn anghrediniol, yr ydwyt wedi dyfod i'r amgylchiad truenus hwn; sef, os yw Duw yn eirwir, ac yn hollalluog, yna yr ydwyt ti wedi dy ddystrywio, a'th ddystrywio dros byth!

MYFYRDODAU *y Pechadur wedi ei daro â dychryn y cyfryw Farn.*

O y fath ddyn truenus ydwyf! Pa beth a wnaf! neu i ba le y ffoaf? Fe a'm pwyswyd yn y clorian, ac a'm cafwyd yn brin, Dan. 5. 27. Dyma fy marn; barn a raid i mi ddysgwyl allan o enau Crist ei hun; o'i enau ef, a fu farw er prynedigaeth ac iachawdwriaeth dynion. O ddedfryd ofnadwy! Yn fwy ofnadwy yn gymaint a'i bod yn cael ei chyhoeddi gan y Cyfryngwr mawr! At ·y y troaf fy llygaid am waredigaeth? Ar ba beth y

Digitized by Google

galwaf? A gaf fi alw ar y creigiau, Syrthiwch arnaf, ac ar y bryniau, Cuddiwch fi? Luc 23. 31. Pa les oddiwrth hyn? Pe bawn wedi fy ngorchuddio gan greigiau a mynyddoedd, eto ni'm *cuddir* rhag ei lygaid ef; ac fe fyddai mor hawdd iddo fy nghyraedd â'i law oddiyno, ag o unrhyw le arall.

Truenus yn wir wyf fi! O na buaswn heb fy ngeni erioed! Gwae fi feddiannu galluoedd rhesymol erioed! Yr hyn sy yn fy ngwneuthur i yn agored i farn Duw a'i lid! Gwae i mi gael fy addysgu yn ewyllys Duw, gan i mi fel hyn ei diystyru a'i throseddu hi! Och Dduw na buaswn yn dwyn perthynas â'r rhai gwaelaf o ddynolryw, ag sy yn nesaf at y creaduriaid afresymol, yn lle cael fy rhan gyda y rhai a wrteithiwyd trwy fanteision ac ymarferiad rheswm! Ac och i feddwl, cael fy rhan gyda y sawl a feddiannent gynifer o ragorfreintiau crefyddol hefyd! Ac felly gŵyrdroi y cwbl fel hyn, i'm dystryw fy hun! O na byddai i Dduw gymeryd yr enaid rhesymol hwn a'i ddiddymu! Ond, och! fe fydd byw yn dragywydd; efe a fydd byw i deimlo gloesion marwolaeth dragywyddol. O paham y cefais weled harddwch a gogoniant y byd hwn, gan fod yn rhaid myned o honof i'r carchar tanllyd? Paham y cefais gynifer o roddion da fy Nghreawdwr, gan y bydd yn rhaid i mi yn y diwedd yfed gwaelodion ei ddigofaint ef! Paham y cefais wybod am yr hyfrydwch sydd yn cyfodi oddiwrth ymddibyniad, a chyfeillach cariadus â'm cydgreaduriaid, gan y bydd yn rhaid i mi fyned i blith cythreuliaid ac ysbrydion colledig yn *Tophet!* O pwy a all fyw gyda hwynt yn y tân ysol! Pwy a all orwedd gyda hwynt yn y tragywyddol, tragywyddol, tragywyddol losgfeydd, Esay 33. 14.

Ond pwy sydd i mi feio am hyn oll, ond fy hunan? Beth sydd genyf i ddywedyd, ond beio ar fy ynfyd-

Digitized by Google

rwydd fy hun? Yr achos fy mod yn y cyflwr ofnadwy a dinystriol hwn yw, fy mod wedi tori cyfraith Duw; a chwedi gwrthod ei efengyl ef hefyd!

Eto, fy enaid, aros yn mysg yr holl achwynion galarus hyn. A allaf fi ddywedyd i mi yn hollol, a thros byth wrthod yr efengyl? Onid wyf hyd y dydd hwn o fewn ei swn hi? Nid yw y farn eto wedi myned allan yn fy erbyn, mewn modd safadwy ac anghyfnewidiol. Trwy ganol yr holl gymylau, mae un pelydr o obaith yn tori i mewn, sef, fod yn *bosibl* i mi gael fy ngwared.

O feddwl cysurus! O fy enaid, er crynu, eto llawenha yn hyn; a dychwel yn fuan at y Duw hwnw, pa un a anogaist i ddigofaint trwy filoedd o weithredoedd drwg, ac er hyny, mae efe eto heb dyngu yn ei lid, na chai di byth ddyfod i mewn i'w orphwysfa ef, Heb. 4. 3.

Yr ydwyf gan hyny, O Ddaw, yn ymostwng yn y llwch o'th flaen di. Yr wyf yn addef fy mod yn greadur euog a thruenus. Ond yr ydwyf o'r un iaith a'r publican, *Duw bydd drugarog wrthyf fi bechadur*, Luc 18. 13. Mae genyf ryw olwg anmherffaith ar y ffordd trwy ba un y mae yn bosibl i mi fod yn gadwedig. O Dduw, gad i mi adnabod y ffordd hòno mor eglur, fel na chyfeiliornwyf. Ac, O, cymoda fy nghalon â hi, pa boen, pa ostyngeiddrwydd bynag a fyddo yn angenrheidiol. Sicr yw fod genyf lawer i'w ddysgu, ond, O Arglwydd, dysg di fi! Dal dy law dros enyd fach; ac yn dy anfeidrol dosturi oeda y ddyrnod, hyd oni wypwyf yn well pa fodd i'w gochelyd byth. Amen.

Digitized by Google

## PENNOD VII.

### AN ALLUOG GYFLWR Y PECHADUR DAN GONDEMNIAD.

**Y pechadur yn cael ei anog i ystyried, pa fodd y gall efe gael ei achub rhag y dinystr mawr hwn, Dosparth 1, 2. (1.) Nid trwy unrhyw beth a all efe gynyg, 3. (2.) Ac nid trwy unrhyw beth a all efe oddef, 4. (3.) Ac nid trwy unrhyw beth a all efe wneuthur yn llwybr dyledswydd ar ol hyn, 5. (4.) Ac nid trwy unrhyw gyfathrach â chydbechaduriaid, ar y ddaear, nac yn uffern, 6—8. (5.) Na thrwy unrhyw gyfryngiad neu eiriolaeth o eiddo angylion na saint o'i du, 9. Awgrym am yr unig ffordd, i gael ei egluro yn helaethach yn ol llaw, *ibid.* Galarnad pechadur yn y cyflwr truenus hwn.**

1. O BECHADUR, ti a glywaist y farn a roddodd Duw arnat, ac y mae hi yn sefyll ar gofrestr ei air anghyfnewidiol ef. Ac a wyt ti yn bwriadu trwy anobaith aros dani byth? Ac a fydd i ti ddim ceisio ymdrechu rhywfaint i gael rhyddhâd, gan nad yw hi yn cyhoeddi dim llai na thragywyddol farwolaeth i'th enaid? Pe byddai gan ddrwgweithredwr a farnwyd i farw, hyd yn oed gan gyfreithiau dynion, y cysgod lleiaf o obaith o ymwared, efe a ymegniai lawer i ddal gafael ar y cyfleusdra. Os bydd ganddo ryw gyfaill ag a all fod o ddefnydd iddo, O, gyda pha daerni y deisyfa efe ei gynorthwy! A thra y byddo o flaen y barnwr, pa mor anhawdd ei yru ymaith tra fo yn gobeithio, ac yn llefain am gael trugaredd, trugaredd, trugaredd, er yn anamserol? Y *posiblrwydd* yn unig y bydd i'w lef gael rhyw ychydig o argraff ar y barnwr, a'i gwna yn eon, ac yn anfoddlon i ymadael, a dystewi.

2. A fydd i ti ddim, O bechadur, cyn yr elo y farn allan yn dy erbyn yn y cyflwniad o honi, yr hyn a all fod y dydd hwn, a fydd i ti meddaf, ddim ymofyn am

Digitized by Google

ryw foddion i dy waredu? A pha foddion! Ystyria yn brysur, canys mae y peth o bwys mawr. Ni elli arfer dy ddoethineb, dy allu, dy araethyddiaeth, na dy gynorthwy i dy gyfeillion, mewn un peth o gymaint pwys. Os gelli achub dy hun, brysia at y gwaith. Os oes genyt unrhyw allu dirgel o ymwared, na ddos allan o honot dy hun am gynorthwy. Pa aberthau, pa gyfeillion, a pha allu bynag sydd genyt ar y ddaear, neu yn y byd anweledig, ag a ddichon dy achub, gwna ddefnydd o honynt, er mwyn atal dy golledigaeth. Ond, O bechadur, dywed o flaen Duw, pa aberth, pa allu, a pha ryw gyfathrach, a elli ddwyn ar y fath achlysur? Nid oes genyt un sail i obeithio am waredigaeth trwy y fath bethau.

3. Mae cyfiawnder Duw wedi ei anfoddloni: a oes genyt ti ryw iawn i'w roddi dros dy bechod? Beth pe yr ymofynit, gyda y pechadur deffroedig gynt, a dywedyd, "A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymau, ac â dyniewid? A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew?" Mic. 6. 6, 7. Pa beth a ellit ddywedyd gan na feddi y fath gyfiawnder? Ond pe byddit dywysog mawr a chyfoethog fel *Solomon* ei hun, a phe gellit ddwyn y fath aberthau, eto euog a fyddit. Canys nid digon *Libanus i gyneu tân;* nid digon ei fwystfilod chwaith *yn boeth-offrwm,* Esay 40. 16. Dan yr oruchwyliaeth gynt, ag oedd mewn mesur mawr yn gofyn ebyrth, ni allasai gwaed teirw a geifr (er y gwaredai y troseddwr rhag cosp amserol) *dynu ymaith bechodau* (Heb. 10. 4.); nac mewn un modd buro y gydwybod ger bron Duw. A'r dyn a wnai bechod mewn rhyfyg, ni chaffai ddwyn unrhyw aberth, ond rhaid oedd iddo ·v heb drugaredd Num. 15. 30. Gŵyr Duw, a'th

Digitized by Google

gydwybod dithau, na bu dy feiau di yn unig trwy anwybodaeth ac anystyriaeth, ond i ti bechu mewn amryw amgylchiadau â llaw uchel ac â braich estynedig, megys y cyfaddefaist yn barod. Pe rhoddit dy gyntaf-anedig dros dy anwiredd, a ffrwyth dy groth dros bechod dy enaid (Mic. 6. 6, 7.), ni wnai gwaed dy anwyl blentyn yn y fath achos, ond lliwio dy feiau yn ddyfnach; a'u gwneuthur yn fwy dychrynllyd nac o'r blaen. Ti a bechaist yn erbyn Bod o anfeidrol fawredd, ac os trwy waed yr heddychir ef, rhaid ei fod yn waed, nad yw yn rhedeg yn dy wythenau di, na'th blentyn mwyaf anwyl a diniwed.

4. A elli di ddyoddef cosp, hyd oni bo iawn wedi ei roddi? Ond yn mha le y gwneir y cyfryw iawn? A fydd hyn trwy ddyoddef rhyw drallodion yn y bywyd byr a marwol hwn? A ydyw cyfiawnder Duw gan hyny yn beth mor fach, ag y gall gofidiau dros rai diwrnodau, ateb ei ofynion?—Neu a wyt ti yn meddwl am ddyoddefiadau i ddyfod yn y byd anweledig? Os wyt, nid gwaredigaeth yw hyny; eto mi a ddywedaf yn hŷ, pa bryd bynag y gwnelych gyflawn daledigaeth, y cei ryddhad: pan dalech y ffyrlling eithaf o'th ddyled, yr agorir drysau dy garchar: ond, yn y cyfamser, rhaid i ti wneuthur dy *wely yn uffern,* (Salm 139. 8.): ac a elli di orwedd i lawr yno, O greadur anhapus, gyda gobaith dirgel y daw amser, yn mha un ni all cyfiawnder dwyfol chwanegu dim rhagor o gosp nac a ddyoddefaist eisioes, a phan y gallech ddysgwyl dy ryddad mewn ffordd o ddyled? Pe gellit ddwyn gyda thi y fath obaith, er mor dwyllodrus, da fyddai y peth; ond, och! ddyn, os i uffern y disgyni, cei weled na fydd i'r fath feddyliau, ond dy adel mewn tragywyddol anobaith. Yr un gair hwnw yn dy ddedfryd, tân TRAGYWYDDOL; yr un cyhoeddiad hwnw, "nid yw y *pryf byth* yn marw,



Digitized by Google

na'r tân *byth* yn diffodd;" a ladd bob gobaith o ymwared, ac a leinw dy feddwl â dychryn ac ing diddarfod.

5. A wyt ti yn meddwl y bydd dy *ddiwygiad* rhagllaw, a'th *ddiwydrwydd* mewn dyledswydd yn yr amser i ddyfod, beri rhyddhad i ti o dan y farn? O bechadur, ystyria yn fanwl pa fath ufudd-dod a fwriedi roi i'r Duw santaidd. Rhaid ei fod yn gyflawn ac yn ddifrycheulyd: nid oes dim anwadalwch, anghof, nac unrhyw gymmysgedd o bechod i gyd-fyned ag ef; os amgen, nis derbyn Duw, sy yn anfeidrol santaidd, mo hono. Ac a elli di, yr hwn a wanhawyd trwy lygredd gwreiddiol, a chynnifer o reddfau pechadurus, ag a ddaethant i'th enaid trwy weithredoedd drwg heb rifedi, ac a elli di meddaf, yn y fath gyflwr, roddi y fath ufudd-dod; a hyny trwy dy holl fywyd? Yn ofer y ceisi hyny dros un diwrnod. Euogrwydd newydd, a'th daflai yn ddioed i ddystryw newydd. Ond pe na byddai felly; pe gellit o'r funud hon hyd awr dy farwolaeth, roddi ufudd-dod mor berffaith ag oedd cyfraith Duw yn ofyn oddiwrth Adda yn mharadwys; a wnelai hyny dalu yr hen ddyled, a symud yr hen euogrwydd? Cynyg hyn i'th gymydog, edrych a dderbyn efe dy *fwriad da rhagllaw*, yn lle tâl o'th ddyled; ac oni wna, pa fodd y gelli ryfygu cynyg y fath beth i Dduw?

6. Ond ni chwanegaf amlhau geiriau ar beth mor eglur; canys tra yr wyf yn llefaru fel hyn, mae amser yn myned heibio, ac angau yn agoshau; ïe mae y farn gerllaw: a pha beth a'th wared rhag y fath amgylchiadau arswydus, neu a all dy gynal ynddynt? A all y byd, yr hwn yw y ddelw dwyllodrus ag sy yn myned â'th serch a'th holl ddymuniadau ar ei ol, ac i ba un yr ydwyt yn aberthu, hyd yn oed y byd tragywyddol? Da gwyddost na wna; ond y bydd iddo dy adael pan fo

Digitized by Google

arnat fwyaf o'i eisiau. Da y gwyddost na ddaw un o'i bethau dymunol gyda thi i'r byd anweledig; hyd yn oed y peth lleiaf, er mwyn ei gofio, pe bai cyfaill mor anwadal a thwyllodrus yn haeddu ei gofio.

7. Pan fyddych yn marw, neu wedi marw, a all dy gyfeillion pechadurus dy wared? A oes un o honynt, pe ewyllysiai, a allai roddi iawn i Dduw drosot (Salm 49. 7.), i'th wared rhag myned i lawr i'r bedd, ac i uffern? Pan ddelych i lan y bedd, byddi mor bell o feddwl y gall y fath rai dy wared, fel na chwennychit weled y cyfryw ag a fuant unwaith dy gyfeillion mwyaf cu. Byddai i'r olwg arnynt dy boeni, yn hytrach na'th ryddhau: pa faint mwy analluog a fyddant i'th wared o flaen gorseddfainc Duw, pan fyddont eu hunain dan farn!

8. Ac am alluoedd y tywyllwch, gwyddost eu bod hwy ym mhell o feddiannu gallu nac ewyllys i'th wared. Bu Satan yn ymdrechu dwyn yn mlaen dy ddystryw, ac efe a lawenhâ pan ddêl i ben. Pe bai rhyw gytundeb cariadus rhyngoch, ni byddai efe ond cyfaill mewn colledigaeth. Canys dydd barn yr anwir ddynion a fydd hefyd yn farn i'r ysbrydion gwrthryfelgar; a'r tân i ba un y bwrir di, O bechadur, mae wedi ei barotoi i ddiafol a'i angylion, Mat. 25. 41.

9. A fydd i'r ysbrydion gogoneddus, trwy eu gallu a'u gweddiau gynyg dy achub? Na fydd; canys wedi i'r farn fyned allan i'th erbyn, ni byddai y fath ymdrech ond gwrthryfel yn erbyn Duw; yr hyn y mae y creaduriaid gogoneddus a santaidd yn y nef yn ffieiddio. Pan fyddont yn deall ewyllys y Barnwr, yn hytrach nac erfyn yn ofer dros y pechadur truenus, ymbarotoant, mewn zel mawr dros ogoniant eu Harglwydd, a chydsyniad â'i ddoethineb a'i gyfiawnder, i gyflawni yr unrhyw. Bydd gweision Crist, a'th berthynasau agosaf ag sy yn awr yn y modd tyneraf yn dy garu, ac yn ceisio dy iachawdwriaeth,

yn rhoddi Amen gyda dy farn. Mae hyn yn anhawdd ei gredu eto; canys mae eu perfedd yn rhuo am danat, a'u llygaid yn tywallt dagrau yn dy achos: yn awr tra yr wyt ar dir gobaith, dadleuant â Duw ar dy ran; i edrych a fydd iddo trwy ryw foddion, dy gipio fel pentewyn o'r gyneu dân, Amos 4. 11. Nid ydwyt ti yn gwneuthur cyfrif o'u cynghorion; ac am eu gweddiau, pa beth a allant ofyn, ond hyn, sef cael o honot weled dy hun yn golledig? I ti gael dy ddwyn i anobeithio am achubiaeth trwy dy allu dy hun, neu unrhyw allu creadigol; fel y bo i ti syrthio ger bron Duw mewn modd drylliedig a gostyngedig, gan gyfaddef ei farn gyfiawn; fel y bo i ti allu, megys o waelodion uffern, godi dy olygon tuag ato ef, yr hwn a ddichon gymeryd tosturi arnat; ac felly dy dywys at ffordd iachawdwriaeth; pa un yn dy amgylchiadau presenol, ni all na daear, uffern, na'r nef ei rhoddi.

GALARNAD *y Pechadur yn ei Gyflwr truenus.*

O GYFLWR galarus, anghysurus, a digymorth! Gwae fi ddwyn o honof fy hun i'r fath amgylchiad! O greadur gwag, tlawd, anfad, a thruenus! Pa le yn awr y mae fy malchder, a'm ucheldrem? Pa le yn awr y mae fy nuwiau gau, y rhai a gerais, a wasanaethais, y rhodiais ar eu hol ac a geisiais (Jer. 8. 2.), gan amlhau fy anwireddau yn erbyn mawrhydi y nefoedd? A oes un galon a gymer dosturi arnaf? A oes un llaw a all fy achub? *Trugarhewch wrthyf, trugarhewch wrthyf, fy nghyfeillion; canys llaw Duw a gyffyrddodd â mi* (Job 19. 21.), a'm daliodd! Y mae yn fy ngwasgu; a *pha beth a wnaf?* Os oes unrhyw gymorth, unrhyw noddfa o fewn y greadigaeth, dywedwch pa le; dangoswch y

Digitized by Google

ffordd iddi; ïe yn hytrach tywyswch fi erbyn fy llaw i mewn.

O chwi weinidogion yr Arglwydd, gwaith pa rai yw tywys a chysuro eneidiau trallodedig, trugarhewch wrthyf fi! Yr ydwyf yn ofni nad wyf ond anghraifft o lawer o greaduriaid analluog ereill mewn diffyg o'ch cymorth. Rhoddwch heibio eich gofalon daearol, fel y gofaloch am eneidiau; fel y gofaloch am fy enaid anfarwol i, pa un (os cymwys yr ymadrodd) sydd yn gwaedu i farwolaeth, tra yr ydych chwi yn myned heibio o'r naill du, heb braidd edrych arnaf, Luc 10. 31. Ond beth dal yr hyn a ellwch chwi ei wneuthur yn yr achos hwn; oni achub yr Arglwydd fi, pa fodd yr achubwch chwi fi? 2 Bren. 6. 27. O Dduw, *Duw ysbrydion pob cnawd* (Num. 16. 22.), yr ydwyf yn codi fy llygaid tuag atat, ac yn gwaeddi arnat megys o fol uffern, Jonah 2. 2. Yr ydwyf yn llefain arnat, o leiaf, o gyffiniau uffern; a thra yr wyf o'th flaen, yn y fath orthrymder annhraethadwy, gwn y gall dy ras anfeidrol, a'th law hollalluog, drefnu ffordd o ymwared i mi.

Tydi yw yr hwn a ddrygais ac a ddigiais yn fwy na neb; eto arnat ti yn unig y rhaid i mi lefain am gymorth. Yn dy erbyn di, *tydi dy hunan y pechais, ac y gwneuthum y drwg hwn yn dy olwg* (Sal. 51. 4.); ac am hyny fe'th gyfiawnhaer pan lefarych, a byddi bur pan farnech, er bod i ti y funud hon fy marnu i i drueni tragywyddol. Eto, Arglwydd, yr wyf yn teimlo ynof ogwyddiad dirgel tuag atat, fel pe byddai fy nedwyddwch i godi o'r lle y gallaf ddysgwyl yn gyfiawn y dystryw mwyaf erchyll. O Dduw bendigedig, mi a ddystrywiais fy hun, ond ynot ti y mae fy nghymorth (Hos. 13. 9.), os oes i mi gymorth i'w gael.

Gwn mai nid ein meddyliau ni yw dy feddyliau di,



Digitized by Google

at ei greaduriaid erioed: a chan dy fod yn byw mewn gwlad gristionogol, nid wyf yn amheu na chlywaist hyn, filoedd a miloedd o weithiau o'r blaen; eto, dygaf ef ar gof i ti mewn modd difrifol ac eglur, fel pe buasit erioed heb fod dan swn yr efengyl. Os bydd i ti yn awr ond ei theimlo, O bechadur, er ei bod yn gyffredin yn dy glustiau, hi a ymddengys megys efengyl newydd yn dy olwg; am hyny nid yw yn ffin i mi adrodd yr hyn sy yn hysbys eisioes, gan ei fod yn ddiogel ac angenrheidiol i' ti, Phil. 3. 1. Y rhai sy yn ei hadnabod oreu, a'i gwrandawant gyda hyfrydwch neillduol, ac ni bydd iddynt ymlenwi yn y fath fodd ag i ddiflasu ar y fath ymborth iachusol: ac am y rhai y darfu iddynt ei hesgeuluso hyd yn hyn, sicr yw fod achos iddynt hwy ei chlywed drachefn a thrachefn. Dichon y bydd i ryw un enaid o leiaf, ddarllen y traethawd hwn, yr hwn ni addysgwyd yn eglur ac yn gyflawn yn yr athrawiaeth bwysfawr hon; er bod ei ddedwyddwch tragywyddol yn ymddibynu ar yr adnabyddiaeth a'r derbyniad o honi. Cymeraf ofal gan hyny, na chaffo y cyfryw un ymesgusodi o flaen gorseddfainc Duw, gan ddywedyd, 'Er i mi fyw mewn gwlad gristionogol, eto ni chlywais i erioed osod allan yn ffyddlon ac yn eglur, yr ATHRAWIAETH O IACHAWDWRIAETH TRWY GRIST, y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd, trwy yr hwn yn unig y mae i ni ddyfod at y Tad,' Ioan 14. 6.

4. Yr wyf y dydd hwn yn tystio ger dy fron, na ddarfu i Frenin santaidd a grasol nef a daear, ar ei ragweliad o gwymp holl ddynolryw, fwriadu ymweled â ni mewn ffordd o greulondeb, gan ein rhoddi drosodd i ddystryw hollol a damnedigaeth anocheladwy; ond i'r gwrthwyneb, efe a fwriadodd sefydlu cyfamod o hedd- a chyhoeddi i bawb, lle danfonai yr efengyl, y iad o fywyd a gogoniant, trwy y cyfryw fodd ag y

Digitized by Google

barnodd ei anfeidrol ddoethineb yn addas i amddiffyn purdeb ei natur, ac anrhydedd ei lywodraeth. Y ffordd trwy yr hon y mae iachawdwriaeth dyn yn cael ei dwyn i ben, sydd ryfeddol; yr hon, er ei bod yn beth cyffredin yn ein meddyliau, ac ar ein tafodau, ni allaf lai na synu wrth feddwl, ac wrth son am dani. I agor y ffordd hon, Duw a ddanfonodd ei uniganedig FAB i'r byd, disgleirdeb ei ogoniant, a gwir lun ei berson (Heb. 1. 3.), yr hwn oedd yn ogyfuwch ag ef mewn priodoliaethau ac anrhydedd dwyfol. Ac efe a ddaeth i fod, nid yn unig yn ddysgawdwr cyfiawn, ac yn gyhoeddwr gras, ond hefyd yn ABERTH dros bechodau dynion! Ac am na allasent gael eu hachub ar unrhyw delerau amgen, rhaid oedd i Grist, nid yn unig fyw, ond hefyd *farw* yn eu hachos.

5. Yn ganlynol yn yr amser y gwelodd doethineb anfeidrol yn iawn, yr Arglwydd Iesu Grist a ymddangosodd yn y cnawd; ac wedi iddo fyned trwy y gofidiau a'r drygau parhaus, y rhai a allasai llid ac anniolchgarwch dynion roddi yn ei ffordd, o'i wirfodd ymostyngodd i angau, ïe angau y GROES (Phil. 2. 8.); ac wedi ei draddodi dros ein pechodau, adgyfododd er ein *cyfiawnhad*, Rhuf. 4. 25. Ac ar ol ei adgyfodiad, arosodd amser digonol ar y ddaear, i'r dyben o roddi tystiolaeth sicr i'w ganlynwyr iddo orchfygu angau; esgynodd i'r nefoedd yn eu golwg hwynt (Actau 1. 9—11.); a danfonodd i lawr oddiyno yr *Ysbryd Glân*, er nerthu ei apostolion i bregethu yr efengyl yn y modd mwyaf awdurdodol a llwyddiannus (Luc 24. 40.); a rhoddodd orchymyn iddynt hwy, a'r sawl a'u canlynent yn mhob oes yn eu swydd, i'w chyhoeddi i bob creadur (Marc 16. 15.), gan ddywedyd, y ca y sawl a'i credant, eu hachub trwy rinwedd ei gallu mewnol, a thrwy allu

Digitized by Google

gras anghyfnewidiol ei Hawdwr dwyfol yr hwn sy yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd, Heb. 13. 8.

6. Yr efengyl hon gan hyny, wyf yn awr yn gyhoeddi ac yn bregethu i ti, O ddarllenydd, gan wir ddymuno ei bod y dydd hwn trwy ras dwyfol, yn iachawdwriaeth i'th enaid, Luc 19. 9. Gwybydd gan hyny, ac ystyria, pwy bynag wyt, mor sicr a bod y geiriau hyn yn awr o flaen dy lygaid, i Fab Duw yn y cnawd, gael ei wneuthur yn ddrych i'r byd, ac i'r angylion, ac i ddynion (1 Cor. 4. 9.): i'w gefn gael ei archolli trwy ffiangellau, a'i ben gan ddrain, ei aelodau a ddirdynwyd ac a hoeliwyd wrth y pren melldigedig. Bu farw fel hyn, dan sarhad a gwawd ei elynion creulon, pa rai oeddynt yn sychedu am ei waed; a mwy na hyn oll, dybenodd y bywyd mwyaf diniweid, perffaith, a defnyddiol ag a dreuliwyd erioed ar y ddaear, trwy yr arteithiau mwyaf, heb fwynhau y cysuron dwyfol ag a deimlodd dynion pechadurus, pan oeddynt yn dyoddef yn achos cydwybod dda. Dynion a dorasant allan lawer gwaith mewn llawenydd, caniadau o glod, a gorfoledd anarferol, tra yr oedd eu dienyddwyr yn gosod allan eu llid uffernol yn eu herbyn, ac yn llunio y poenau trymaf a allent roddi arnynt; ond wele yr *Iesu croeshoeliedig* yn llefain allan yn chwerwder ei enaid difrycheulyd, "*Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?* Mat. 27. 4.

7. Gwel ein Prynwr anwyl! Edrych i fynu ar y drych galarus, ofnadwy, ac eto, mewn ystyr, y drych dymunol hwn; ac yna gofyn i'th galon, 'A wyf fi yn credu i'r Iesu ddyoddefa marw fel hyn? I ba ddyben y bu efe farw? Gad i mi ateb yn ngeiriau Duw ei hun? *Efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y iachawyd ni: Yr Ar-*

Digitized by Google

*glwydd a fynai ei ddryllio, a'i glwyfo, pan osododd ei enaid yn aberth dros bechod; canys yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd,* Esay 53. 5, 6, 10. Am hyny gallaf ddywedyd yn ngeiriau yr apostol wrthyt ti, mai trwy hwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau, (Actau 13. 38.); megys y gorchymynodd efe wedi adgyfodi o feirw, i edifeirwch a maddeuant pechodau gael eu pregethu yn ei enw ef yn mhlith yr holl genhedloedd, gan ddechreu yn Ierusalem (Luc 24. 47.); y lle y tywalltwyd ei waed ef mewn modd creulon. Atoch chwi y danfonwyd gair yr iachawdwriaeth hon (Actau 13. 26): i ti, O ddarllenydd, y mae Duw yn awr mewn modd difrifol yn cynyg ei bendithion hi; ac felly, er dy fod yn euog o dori ei gyfraith, fel y profais o'r blaen, ni'th ddystrywir, os na bydd i ti wrthod yr efengyl. Canys yr wyf yn tystio yn ngeiriau yr apostol, i Grist gael ei wneuthur yn BECHOD (hyny yw yn *bech-aberth)* drosom ni, er nad adnabu bechod, fel y'n gwnelid ni yn GYFIAWNDER Duw ynddo ef, (2 Cor. 5. 21.); hyny yw, fel y caem ni, trwy y cyfiawnder a weithredodd a'r iawn a roddodd efe, ein derbyn yn gyfiawn ger bron Duw: a chael, nid yn unig faddeuant, ond ein derbyn i'w ffafr, a bod yn gyfeillion. Ni all y llengoedd hyny o bechodau (pa rai sy yn byddino i'th erbyn) dy ddystrywio, os na fydd i anghrediniaeth eu dwyn yn mlaen; a hollol anedifeirwch eu cynorthwyo yn y frwydr. Gwn fod euogrwydd yn peri i ti ddychrynu; am hyny llefaraf wrthyt yn ngeiriau Duw ei hun, ac ni all dim fod yn fwy cysurus; *yr hwn sy yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol* (Ioan 3. 36.); ac ni ddaw i farn (Ioan 5. 24.): nid oes gan hyny yn awr ddim DAMNEDIGAETH, dim unrhyw na gradd, i'r rhai, i neb o honynt, sydd yn NGHRIST IESU; y rhai sy yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr

619681 A
Digitized by Google

ysbryd, Rhuf. 8. 1. Ti a fuost yn wir yn bechadur mawr; er hyny, a elli lawenhau gan fod yn sicr, mai lle yr amlhaodd pechod, rhagor yr amlhaodd gras (Rhuf. 5. 20.), lle y teyrnasodd pechod i farwolaeth (lle y cafodd lywodraeth gyffredinol, a'r oruchafiaeth fwyaf anwrthwynebol) y bydd i gyfiawnder deyrnasu i fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, Rhuf. 5. 2. Y cyfiawnder hwnw, y bydd genyt hawl iddo trwy gredu ynddo ef, a fydd nid yn unig i dori y cadwynau hyny, trwy ba rai y mae *pechod* yn dy lusgo megys wrth olwynion ei gerbyd yn dra ffyrnig i dragywyddol ddystryw; ond hefyd i dy wisgo â gwisgoedd iachawdwriaeth, i dy osod ar orsedd o ogoniant, lle y bydd i ti fyw a theyrnasu yn mhlith tywysogion y nefoedd. Yno cei deyrnasu mewn harddwch a llawenydd diddarfod, heb un graith yn aros arnat o anfoddlonrwydd Duw; heb unrhyw nôd, trwy yr hwn y gellir deall i ti fod un amser yn ddarostyngedig i'w felldith a'i lid, oddieithr y *gân* hono o *fawl i'r Oen a fu farw ac a'th olchodd oddiwrth dy bechodau yn ei waed ei hun*, Dat. 1. 5.

8. Ac nid oes angen tuag at gael dy ryddhau o dan euogrwydd, a chael hawl i'r gwynfyd mawr a chyflawn hwn, i ti, cyn dy ddyfod at yr *Iesu*, ddwyn unrhyw *weithredoedd da o'th eiddo dy hun*, er mwyn cael derbyniad ger ei fron. Sicr yw os yw dy ffydd yn wirioneddol, y bydd hi yn gyflawn o honynt: eto, mae genyf awdurdod *gair Duw* i ddywedyd wrthyt, os *credi* y dydd hwn yn enw *Mab Duw*, y cai y dydd hwn dy ddwyn dan ei ofal ef, a'th gyfrif yn un o'i *ddefaid*, wrth ba rai y dywedodd yn rasol, y rhoddai iddynt *fywyd tragywyddol*, ac na chyfrgollant *byth*, Ioan 10. 28. Nid oes achos i ti gan hyny ofyn, pwy a esgyn i'r *nef*, neu pwy a ddisgyn i'r *ddaear* yn fy enw i? Canys mae y [gair] yn agos atat, yn dy *enau* ac yn dy *galon* Rhuf. 10.

Digitized by Google

6, 7, 8. Gan gyhoeddi y newyddion gorfoleddus hyn, pa rai sy yn haeddu pob *derbyniad* (1 Tim. 1. 15.); gan gyhoeddi yr *efengyl* hon, pa un yw fy *mywyd* i, a'r hon os na wrthwynebi di hi, a fydd yn *fywyd i tithau*, yr wyf yn dy adael dros enyd.

ADFYFYRDOD *y Pechadur ar y newyddion da uchod.*

O fy enaid, y fath genadwri ryfeddol a ddanfonwyd atat y dydd heddyw! Clywais ef yn wir lawer gwaith cyn hyn; ac mae yn beth mor *gyffredin*, fel nad wyf yn teimlo ei werth megys y dylwn. O fy enaid, ystyria pa *beth* a glywaist; a dywed i mi, onid yw enw yr IACHAWDWR, cenadwri pa un a dderbyniaist, yn deilwng o gael ei alw yn *Rhyfeddol, Cynghorwr* (Esay 9. 6), gan ei fod yn gosod ger dy fron y fath *gariad rhyfeddol*, ac yn cynyg y fath *gynghorion o heddwch?*

O Iesu bendigedig, a ydyw hyn oll yn wirionedd! Neu ynteu rhyw ddychymyg dynol ydyw? A ydyw yn beth eglur a gwirioneddol i ti o dosturi at y fath greadur truenus a myfi, i adael gogoniant a llawenydd y byd nefol! Pe buasit ond edrych unwaith i lawr o'th *ddedwyddwch* ac uchder dy *ogoniant* dros funudyn, a danfon ataf ryw air grasol trwy y gwaelaf o'th weision, er fy hyfforddiad a'm cysur, cyfiawn fuasai i mi ymostwng ger dy fron gyda diolchgarwch rhyfeddol, ac i gusanu camrau yr hwn a gyhoeddasai yr *Iachawdwriaeth*, Esay 52. 7. Gwirionedd yw i ti dy hun ymostwng i ddwyn y genadwri nefol! O y fath *ras*, pe buasit ond dyfod yn *bersonol unwaith* i gyhoeddi y fath bethau a dychwelyd yn ddiatreg i'th orsedd, oddiar ba un y parodd tosturi dwyfol i ti ddisgyn! Ond nid hyn oedd y cwbl a wnaeth dy dosturi a'th ras. Dy gariad at bechaduriaid,



Digitized by Google

nid yn unig a'th ddygodd i lawr, ond a'th gadwodd ar y ddaear mewn adail frau a thruenus, dros flynyddoedd lawer; ac yn y diwedd, a'th dueddodd i roddi i lawr dy *fywyd* fel drwg-weithredwr ar y groes, wedi dyoddef *dirmyg* a *chreulondeb;* mae *meddwl* am y fath bethau yn ddigon i archolli fy nghalon. Fel hyn ti a foddlonaist *gyfiawnder*, ac a'm *prynaist* i Dduw trwy dy waed dy hun, Dat. 5. 9.

Pa beth a ddywedaf? Arglwydd, yr wyf yn *credu*, cymorth fy anghrediniaeth! Marc 9. 24. Mae yr hyn a wnaethost ar ran fy enaid yn wir yn mhell uwchlaw yr hyn a all *rheswm* ei ddychymyg; ac mae yn orchest i *ffydd* eu derbyn a'u credu. Bendigedig byth fo dy *enw, O Dad y trugareddau*, am agor ffordd i *fywyd!* Tragywyddol glod i'r Oen a fu *farw*, ac i'r hwn a ddanfonodd air yr *iachawdwriaeth* hon hyd ataf fi! O na ad i mi, er mil o fydoedd, i dderbyn *gras Duw yn ofer!* 2 Cor. 6. 1. O argraffa yr efengyl hon ar fy enaid, hyd oni bo i'w rhinwedd meddyginiaethol gael ei wasgaru trwy bob cyneddf. Par i mi, nid yn unig glywed a phroffesu yr efengyl, ond hefyd ei *theimlo.* Gwna hi yn *allu Duw er fy iachawdwriaeth* (Rhuf. 1. 16.); a chyfod fi i'r diolchgarwch gostyngedig hwnw, a'r sêl hòno yn dy wasanaeth, ag a weddai fod yn meddiannu yr hwn y maddeuwyd cymaint iddo (Luc 7. 47.), ïe y maddeuwyd ar y fath *delerau* a hyn!

Yr ydwyf yn teimlo *tân* yn enyn yn fy nghalon, tra y mae y fath newyddion hyfryd yn swnio yn fy nghlustiau! O na ad fy llawenydd hwn i fod yn ddiflanedig! O na fydded i'r hyn a fynwn ei alw fy llawenydd cristionogol, fod fel *chwerthiniad dyn ynfyd*, pa un sy yn darfod fel clindarddach drain dan grochan! Preg. 7. 6. O dysg fi i allu diogelu y fendith fawr hon, a'r gobaith gogoneddus o iachawdwriaeth, yn y ffordd a drefnaist

Digitized by Google

di; a chadw fy enaid rhag camgymeryd *llawenydd natur*, tra y mae hi yn cael golwg ar ei gwaredigaeth o ddystryw, am y gras hwnw o *ffydd*, pa un sy yn sicrhau ac yn cofleidio iachawdwriaeth! Amen.

## PENNOD IX.

### HANES MWY NEILLDUOL AM Y FFORDD, TRWY BA UN Y MAE CAEL IACHAWDWRIAETH.

Ymofyniad yn nghylch ffordd iachawdwriaeth trwy Grist yn cael ei dybied, Dosparth 1. Mae y pechadur yn gyffredinol yn cael ei gyfarwyddo at edifeirwch a ffydd, 2. ac yn cael ei anog i roi i fynu bob hunan-ddibyniad, 3. ac i geisio iachawdwriaeth trwy rad ras, 4. Cynygir crynodeb o gyfarwyddiadau mwy neillduol, 5. (1.) Fod i'r pechadur ddyfod at Grist, 6, gyda chasineb mawr at ei bechodau blaenorol, 7. a phenderfyniad cadarn i'w gadael, 8. (2.) Fod iddo yn ddifrifol roi ei enaid i ddwylaw Crist, y weithred fawr fywiol o eiddo ffydd, 9. Yr hyn a eglurir yn helaeth, 10. (3.) Fod iddo wneuthur ufuddhau ac efelychu Crist yn brif ofal ei fywyd dyfodol, 11. Dyma yr unig ffordd i gael iachawdwriaeth yr efengyl, 12. Y pechadur yn ystyried y budd-ioldeb o'i derbyn hi.

1. O DDARLLENYDD, mi a debygwn fy mod yn dy weled yn dyfod ataf yn awr gan ymofyn gyda yr Iuddewon gynt, y rhai a ddywedasant wrth ein Harglwydd, 'Pa beth a wnawn ni fel y gweithredom *weithredoedd Duw?*' Ioan 4. 28. 'Pa ffordd a gymeraf i'r dyben o sicrhau y brynedigaeth a'r iachawdwriaeth ag wyf yn glywed i Grist ddwyn oddiamgylch i'w bobl?' Mi a atebaf dy ofyniad mor ddifrifol a gofalus ag a ellir; fel un sy yn gwybod yr *angenrheidrwydd* i ti gael dy hyfforddi yn iawn yn y peth hwn; ac fel un sydd hefyd yn gwybod y *cyfrif manol* a raid iddo roddi i Dduw, am y *cywirdeb* a'r *gofal*, trwy ba rai y rhodd-

Digitized by Google

odd ei *ateb*. Boed i mi allu *llefaru* megis *geiriau Duw*, (1 Pedr 4. 11.); hyny yw, yn y fath fodd ag a baro *adsain* cywir i'r hyn y mae ei santaidd eiriau ef yn *ddysgu*.

2. Ac fel y byddo i mi allu bod yn sicr o ganlyn yr arweinwyr mwyaf diogel, a'r siamplau mwyaf difrycheulyd, rhaid i mi bregethu i ti iachawdwriaeth mewn ffordd o *edifeirwch* tuag at Dduw, a *ffydd* yn ein Harglwydd Iesu Grist, Act. 20. 21. Dyma yr hen athrawiaeth a bregethodd yr apostolion, yr hon nis dichon *un dyn* gymeryd arno ei *gŵyrdroi* heb *beryglu* ei enaid, ac eneidiau y sawl a wrandawant arno.

3. Yr wyf yn barnu dy fod, erbyn hyn, wedi dy argyhoeddi o'th euogrwydd a'th ddamnedigaeth; ac hefyd o'th anallu i achub dy hun. Dyoddef i mi, er hyny, i'th anog i ymofyn am *deimlad* mwy dwfn o hyn ar dy enaid; i ti *ddystrywio* dy hun, ac nad yw dy *gymorth* ynot dy hun, Hos. 13. 9. Cymer dy berswadio gan hyny mewn modd syml a diragrith, i roddi heibio bob rhyw ddibyniad arnat *dy hun*; yr hyn, os na wyli yn ei erbyn, a ddaw arnat drachefn yn ddiarwybod, ac a'th arwain i geisio *adeiladu* yr hyn a ddinystriaist.

4. Bydd sicr, os cadwedig byth a fyddi, y rhaid i ti gyfrif yr iachawdwriaeth hòno i rad ras Duw. Euog a thruenus fel yr ydwyt, os bydd i ti gael dy dderbyn a'th goroni, rhaid i ti fwrw dy goron i lawr ger bron yr orseddfainc gyda y diolchgarwch a'r gostyngeiddrwydd mwyaf, Dat. 4. 10. Nis dichon un cnawd *orfoleddu* ger ei fron ef; gan hyny, yr hwn sy yn *ymffrostio*, rhaid iddo ymffrostio yn yr *Arglwydd:* canys o hono ef yr ydych chwi yn Nghrist Iesu, *yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw, yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn santeiddrwydd, ac yn brynedigaeth*, 1 Cor. 1. 29,

Digitized by Google

30, 31. Rhaid i ti deimlo nad yw y pethau hyn ynot dy hun, fel y bo i ti allu ymofyn am danynt mewn un arall. Rhaid i ti deimlo dy fod yn anwybodus, yn euog, yn gaeth, ac aflan; neu, fel y dywed ein Harglwydd, am rai ag oeddynt yn proffesu y grefydd gristionogol, dy fod fel pechadur, *yn druan, yn resynol, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth*, Dat. 3. 17.

5. Os yw y pethau hyn wedi eu dwys argraffu ar dy feddwl, yr ydwyt yn barod i dderbyn yr hyn sydd genyf i lefaru wrthyt. Clyw, gan hyny, mewn ychydig eiriau, dy ddyledswydd, dy feddyginiaeth, a'th ddiogelwch; y rhai ydynt gynwysedig yn hyn; sef yn dy waith yn *ymroddi* i Grist, gan ddwys *ffieiddio* dy *bechodau* gynt, a chyda bwriad cryf i *ymadael* â hwynt; gan lunio y bwriad hwnw yn nerth ei *ras* ef, ac ymorphwys arno am dderbyniad gyda Duw, hyd yn oed pan fyddech yn bwriadu, ac yn gweithredu *oreu*.

6. Y cyngor cyntaf o fawr bwys, a chwennychwn ei roddi i ti yn dy *amgylchiadau* presenol, yw, *edrych* ar a *ffoi* at Grist. Ac na ddywed yn awr yn dy galon, Pwy *a esgyn* i'r nef, i'w ddwyn ef i lawr ataf? (Rhuf. 10. 6.) neu pwy a'm *cyfyd* i, ac a'm gesyd ger ei fron ef? Canys y bendigedig Iesu, yn yr hwn y mae *pob peth yn cydsefyll* (Col. 1. 17.), er ei fod mewn angof gan lawer ag sy yn arddel ei enw, nid yw neppell oddiwrth bob un o honom (Actau 17. 27.); ac oni buasai ei fod ef yn meddu ar y briodoledd ddwyfol o *holl-bresenoldeb*, ni allasai roddi yr *addewid* o fod lle byddai dau neu dri wedi cyfarfod yn ei enw ef, Mat. 18. 20. Os ydwyt ti gan hyny, O bechadur, yn chwennych cael *Iachawdwriaeth*, ffo at yr Iachawdwr; ac er cael dy orchuddio gan euogrwydd, cywilydd, ofn, a dychryn, fel na elli agor dy enau o'i flaen, er hyny cwymp wrth ei orsedd, ac *edrych*



Digitized by Google

arno fel *Oen Duw*, yr hwn sy yn tynu ymaith *bechodau* y byd, Ioan 1. 29.

7. Edrych arno gyda llygad astud, a dywed, onid yw yr *olwg* yn *effeithiol*, ac yn *toddi* dy galon! Onid ydwyt yn *teimlo* y fath greadur ynfyd a thruenus a fuost; fel, er mwyn y pleserau daearol a gwael y buost yn eu dilyn, ddarfod i ti *ladd Tywysog y bywyd*? Actau 3. 15. Gwel y *clwyfau* dyfnion a gafodd wrth ddyoddef drosot ti; edrych arno *ef*, yr hwn a *wânaist*, a diamheu y bydd i ti *alaru* (Zec. 12. 10.), os nad yw dy galon wedi caledu fel y graig. Ar ba un o'th bechodau y gelli edrych gan ddywedyd, 'Yr oedd yn fuddiol er mwyn *hwn*, i mi yn llyn *ddrygu* Mab Duw, a'i osod i *ddyoddef*?' A pha ryw brofedigaeth a all ymosod arnat ar ol hyn, fel y bo yn iawn i ti ddywedyd, '*Er mwyn y pechod hwn, mi a ailgroeshoeliaf fy* ARGLWYDD?' Heb. 6. 5. O bechadur, rhaid i ti *edifarhau;* ac edifarhau am *bob* pechod, a'u gadael: ac os myni edifarhau yn gywir ac yn *efengylaidd*, rhaid i ti sefyll wrth *droed y groes*. Rhaid i ti aberthu pob rhyw *nwyd*, hyd yn oed yr *anwylaf*, pe bai fel y *fraich a'r llygad dehau* (Mat. 5. 29, 30.): ac fel y bo i ti allu gwneuthur fel hyn, mi a'th arweiniais at yr allor, ar ba un yr aberthodd Crist ei hun, drosot ti, yn *offrwm peraidd*, Eph. 5. 2. Rhaid i ti *roddi dy hunan i* DDUW, *fel un o farw yn fyw* (Rhuf. 6. 13.); am hyny y dangosais â pha ryw *werth y'th brynodd; nid â phethau llygredig, megis arian ac aur*, ond *â gwerthfawr* WAED MAB DUW, yr Oen difeius a difrycheulyd, 1 Pedr 1. 18, 19. Yn awr gofynaf i ti ger bron yr Arglwydd, pa beth a ddywed dy galon? A wyt ti yn gofidio am dy anwireddau gynt? A wyt ti yn foddlon i ddyfod yn wasanaethwr diolchgar ac ewyllysgar iddo ef, *yr hwn a'th brynodd â'i waed ei hun*?

8. Mi a debygwn fod y fath fwriadau, yn awr yn

Digitized by Google

cyfodi yn dy galon. Pa mor drwyadl ac effeithiol, ni wn. Ond hyn sy yn sicr, na rydd Duw byth achos i ti newid dy fwriad; canys er y gelli di fod yn gyfnewidiol, mae IESU GRIST yr *un* ddoe, heddyw, ac yn dragywydd, Heb. 13. 8. A'r rheswm sy yn galw am edifeirwch a ffydd yn *awr*, fel pethau cymwys ac angenrheidiol, a bâr mewn *grym*, tra y bo priodoliaethau y bendigedig Dduw a Christ yr un.

9. Ond er bod genyt y fath olygiadau a bwriadau, eto rhaid i mi ddwyn ar gof, mai nid hyn yn unig sy yn angenrheidiol er dy iachawdwriaeth. Rhaid i ti nid yn unig *fwriadu*, ond fel ag y rhoddo Duw nerth a chyfleusdra, rhaid i ti hefyd *weithredu*, fel un sydd wedi ei argyhoeddi o bechod, a'r angenrheidrwydd o santeiddrwydd. Ac fel y bo i ti allu cyflawni pob peth, rhaid i ti yn gyntaf, fel *gwaith penaf* Duw, (fel y dywed ein Harglwydd,) *gredu* yn yr hwn a anfonodd efe (Ioan 6. 29.): rhaid i ti ymddiried ynddo, a rhoddi dy hun i ddwylaw Crist, i gael dy achub yn y ffordd a drefnodd efe. Dyma *brif* weithred ffydd gadwedigol; a Duw a roddo i ti yn brofiadol ei hadnabod, fel y gellych gyda yr apostol *Paul*, hyd yn oed yn wyneb angau, ddywedyd, Mi a wn i bwy y *credais*, ac y mae yn ddiamheu genyf ei fod yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y *dydd hwnw*, 2 Tim. 1. 12. I hyn yr wyf yn dy anog; ac o na allwn fod mor ddedwydd, wrth geisio eglurhau y gwirionedd, a'th wneyd yn foddlon i dderbyn Crist a'i iachawdwriaeth! Gwybydd, nad oes *dyfod at* Dduw a'i ystyried ynddo ei hun, yn yr esgeulusiad o'r Cyfryngwr. Nid yw nac yn ogoniant i Dduw, nac yn ddiogelwch i tithau, i ddyfod i'w bresenoldeb trwy un ffordd arall, ond trwy Grist, yr hwn a *ordeiniodd* efe i ddwyn *pechaduriaid* ger ei fron. Ac os deui ryw ffordd arall, deui fel un nad yw yn *bechadur*. Fe

Digitized by Google

fydd dy waith yn ymddangos o flaen yr orsedd allan o'r Cyfryngwr, yn arwyddo dy fod yn *gwadu* yr euogrwydd, yr hwn y mae Duw yn gwybod ei fod yn gorwedd arnat: ac am hyny ni dderbyn efe dy *weddi*, ac ni edrych arnat. O herwydd hyn y dywedodd ein Iachawdwr (yr hwn a wyddai gyflwr pob *dyn byw*, a'r ffordd o iachawdwriaeth) yn y geiriau helaethaf, 'Nid yw *neb* yn dyfod at y TAD, ond trwof fi,' Ioan 14. 6.

10. Tyred gan hyny at y Prynwr gogoneddus, yr hwn sy yn hardd (i bob llygad *ffydd)* yn y gwaed a gollodd, a'r clwyfau a dderbyniodd ar y groes. Dos ato, O bechadur! y funud hon, â'th holl bechodau o'th amgylch. Dos yn *anghyfiawn*, fel yr wyt; canys oni ffoi ato hyd oni byddech yn *gyfiawn* ac yn *santaidd*, ni byddi byth yn gyfiawn ac yn santaidd; canys pe bai unrhyw ffordd i gyfiawnder a santeiddrwydd, heb trwy Grist, ni byddai raid byth i ddyfod ato *ef*. Fe fyddai hyn fel pe bai dyn claf yn esgeuluso myned at y meddyg nes ei iachau, ac wedi hyny myned. Na thramgwydda wrthyf, am dy anog drachefn i fyned at Grist *fel yr wyt*, a dywed, (ac O na allit y funud hon ddywedyd o'th galon!) *Iesu* bendigedig, myfi yw un o'r creaduriaid mwyaf truenus a phechadurus, ag a ymgrymodd erioed o'th flaen: eto wele fi yn dyfod atat, am i mi glywed i ti unwaith ddywedyd, *Deuwch ataf fi bawb sy'n flinderog ac yn llwythog, ac mi a esmwythaf arnoch,* Mat. 11. 28. Wele yr wyf yn dyfod, am i ti gyhoeddi yn rasol, a dywedyd, *pwy bynag* a ddel ataf fi *nis bwriaf ef allan* ddim, Ioan 6. 37. O Frenin y gogoniant! O Dywysog heddwch! Wele fi, bechadur truenus a damniol, wedi dinystrio fy enaid byth, oni rynga bodd i ti fy nghymorth a'm hachub. Mi a dorais gyfraith y Tad, a'th gyfraith dithau, canys *un* ydwyt â'r Tad, Ioan 10. 30. Mi a haeddais lid a damnedigaeth; ac yr wyf y *funud hon*

Digitized by Google

dan farn o dragywyddol ddystryw: dystryw a drymheir yn gyfatebol i'r diystyrwch a roddais i arnat ti, O Oen Duw, yr hwn a waedaist dros bechod: mi a bechais yn dy erbyn, ac ni allaf, ïe ni cheisiaf, wadu; mi a bechais yn dy erbyn fel *Iachawdwr*, yn gystal ag *Arglwydd*. Ond wele fi yn awr yn foddlon i ymostwng i ti; am hyny yr wyf yn dwyn fy enaid atat, yn *dlawd* a *dychrynedig* fel y mae, i gael ei achub; ac os na achubi di fi, colledig byth a fyddaf! O Arglwydd, wele fi yn gorwedd wrth dy *draed;* estyn allan y deyrnwialen *aur* fel y byddwyf *byw*! Esther 4. 11. Ac os rhynga bodd i'r Brenin, rhodder i mi fy einioes, Esther 7. 3. Nid oes ynof allu i'w phrynu; am hyny, os yw yn *bleser* i'th galon dosturiol achub un o'r creaduriaid mwyaf *truenus* tan y nefoedd, wele yma gyfleusdra. O Arglwydd, myfi (trwy fy ffolineb) a geisiais fod yn *hunan-iachawdwr;* ond gwelaf fod yr ymgais yn *ofer;* am hyny yr wyf yn codi fy llygaid atat *ti*. Arnat ti, O Iesu bendigedig, yr hwn wyt *sicr a diogel*, y dymunwn daflu fy *angor*. Arnat ti, yr unig *sylfaen ddiogel*, y dymunwn adeiladu fy ngobaith am fywyd tragywyddol. I'th *addysgiadau di*, yr hwn wyt *Broffwyd* oddiwrth yr *Arglwydd*, y chwennychwn ymostwng; er bod dy athrawiaethau yn bethau dirgel, eto, digon i mi yw i ti eu cyhoeddi hwynt. I'th *iawn, ufudd-dod*, a'th *eiriolaeth*, yr hwn wyt *Arch-offeiriad* mawr a chymeradwy, yr ymddiriedaf. Ac i'th *lywodraeth*, O Lywydd dyrchafedig, yr ewyllysiwn, gyda y parodrwydd a'r hyfrydwch mwyaf, ymostwng; ac fel arwydd o gariad a pharch, mi a ewyllysiwn *gusanu y Mab*, Salm 2. 12. O fy anwyl Iachawdwr, mi a ddymunwn dy dderbyn a'th roesawu gyda llawenydd annhraethadwy, i orsedd fy nghalon. Ymddyrchafa a llywodraetha ynddi byth; darostwng fy ngelynion, O Arglwydd, canys dy elynion di ydynt; a gwna fi yn

Digitized by Google

wasanaethwr ffyddlon a gwresog i ti dy hun; *ffyddlon hyd angau, a gwresog i dragywyddoldeb.'*

11. Hyn a ddylai fod *iaith* dy galon ger bron yr Arglwydd. A chofia mewn canlyniad i hyn, mai hyn a ddylai fod lleferydd dy fywyd yr un modd: pe amgen ni byddai geiriau dy wefusau, ond *gwawdiaith ofer.* Nid yw y cynwrf mwyaf serchogaidd yn y nwydau, os na bydd ond *trancedig a dieffaith,* ond megys *ffagl o wellt* yn cael ei gynyg ar yr allor, yn lle *arogldarth.* Gyda pha fath ostyngeiddrwydd, cariad, a gwir ymroddiad ac ymostyngiad enaid, y rhaid i ti ymgrymu yn fynych o flaen Crist; a phan yr ymadawech â'r orsedd, rhaid i ti gadw dy olwg arno, i fyw i Dduw trwyddo, gan ymwadu ag annuwioldeb a chwantau bydol, ac ymddwyn yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd ofer a phrofedigaethus hwn, Tit. 2. 12. Rhaid i ti ofalu dangos dy gariad i Dduw trwy *ufudddod;* gan gydymffurfio hyd y byddo bosibl â'r *Iesu,* yn ei dymer a'i fuchedd, yn yr hwn yr ydwyt yn credu. Rhaid i ti *ymgais* yn benaf, i fod yn *ddelw fywiol o Grist;* fel, mor bell ag y dyoddefo amgylchiadau, y gallo y sawl na chlywsant ac na ddarllenasant fawr am y bendigedig *Iesu,* weled mewn *mesur* ynot ti; pa fath oedd ei *fywyd* ef ar y ddaear: ac fe ddylai hyn fod dy ofal pênaf trwy dy holl fywyd yn y byd. Rhaid i ti ei *ganlyn* ef i ba le bynag yr elo; ei *ganlyn,* gan gymeryd y *groes* ar dy ysgwydd, pa bryd bynag y byddo iddo ef orchymyn i ti ei chymeryd i fynu; ac felly bod yn ffyddlon hyd *angau,* gan ddysgwyl *coron y bywyd,* Dat. 2. 13.

12. Hyn, mor bell ag y gellais ddysgu o *air Duw,* yw y *ffordd* i ddiogelwch a gogoniant; ïe yr *unig* ffordd, a mwyaf *diogel,* a elli gymeryd. Hon yw y *ffordd* y cerddodd holl weinidogion *ffyddlon* Crist, ac a gerddant; ac i'r ffordd hon y maent am dywys ereill, fel y

Digitized by Google

caffont iachawdwriaeth. Nis gallwn, ie ni chwennychwn ni ei chyfnewid am unrhyw ffordd *arall*, er boddio ein hunain, na'n cyfeillion anwylaf. Hon yw yr *unig* ffordd, mor bell ag y gallwn ni farnu, trwy ba un y mae yn *weddus* i Dduw achub ei greaduriaid *syrthiedig*. Am hyny, ddarllenydd, yr wyf yn atolygu arnat ei hystyried yn ddifrifol; a boed i'th gydwybod ateb, fel ger bron Duw, pa un a ydwyt yn ewyllysgar i gydfyned â *hi*, neu nad wyt. Ond gwybydd, mai dy *farwolaeth dragywyddol* yw ei gwrthod. Canys megys nad oes *enw* arall tan y *nef*, wedi ei roddi yn mhlith *dynion*, trwy ba un y gallwn fod yn gadwedig, ond enw Iesu o *Nazareth* (Actau 4. 12.), felly nid oes un ffordd arall trwy ba un y gall Iesu ein hachub, ond yr hon a enwais.

*Y Pechadur yn* YSTYRIED *yn* BWYLLOG *y buddioldeb o gydsyniad â'r ffordd hon o iachawdwriaeth.*

Ystyria, O fy enaid, pa ateb a roddi i'r fath *gynygiadau?* Pe llefarwn yn ol llais cyntaf fy nghalon lygredig a dirywiedig, dywedwn, *caled* yw yr *ymadrodd*, pwy a ddichon wrando arno? Ioan 6. 60. Cael fy narostwng, fy marweiddio, a'm iselu fel hyn! Cymeryd y iau arnaf, a'i dwyn, tra parhao fy mywyd! Rhoddi heibio bob rhyw nwyd, er bod mor anwyl a'm *llygad dehau*, ac yn ymddangos mor angenrheidiol a'r *llaw ddehau!* Rhoddi i fynu, nid yn unig fy *mywyd*, ond hefyd fy *nghalon*, i fod dan orchymyn a dysgyblaeth un arall! Cael y fath *feistr* arni, ag a arglwyddiaetho ar lawer o'i *nwydau* anwylaf, gan beri iddynt weithredu yn gwbl wahanol! Llywydd, ag sy yn gosod allan fod ei orchymynion yn gofyn codi y *groes* a'i *ganlyn ef!* Cadw at y rheolau llymaf o *dduwioldeb*, *sobrwydd*,

Digitized by Google

*cyfiawnder, a gwirionedd;* heb ymadael â hwynt un amser yn *ewyllysgar,* trwy unrhyw *brofedigaeth,* er mwyn unrhyw *fudd,* nac er mwyn dianc rhag unrhyw *ddrwg;* ïe, pe trwy hyny y gallwn achub fy *mywyd;* ond i'r gwrthwyneb, ymddwyn, ar *alwad* rhagluniaeth, fel pe bawn yn *câshau* fy *einioes* fy hun! Luc 14. 26. O Arglwydd, mae hyn yn groes, ac yn anhawdd i gig a gwaed: ond gwelaf fod *un peth* yn fwy anhawdd na hyn oll; sef rhoddi i fynu y *cwbl* o'm heiddo fy hun, fel *pethau diles* i fy iachawdwriaeth. Er yr holl bethau uchod, fe gai *balchder* fy nghalon ryw radd o bleser mewnol, pe gallwn ond dirgel feddwl, i mi fedru *achub fy hun;* i'm bwriadau a'm doethineb, *dori* rhwymau a chadwynau y gelyn; ac i mi dynu allan o'm trysorau fy *hun,* y gwerth a bwrcasodd fy ngwaredigaeth. Ond a raid i mi gwympo o flaen un arall, yn wan, yn analluog, yn euog, ac yn ddamnedig? Ac a raid i'm rhwymedigaethau fod eto yn fwy, a raid i *Gyfryngwr* wneuthur rhan yn fy iachawdwriaeth? A raid i mi fyned at y *groes* i gael achubiaeth, ac ymofyn fy ngogoniant trwy ei *gwaradwydd hi?* A raid i mi gymeryd fy *nyosg* o bob rhyw hunan-gyfiawnder, ac felly ystyried fy hun yn yr unrhyw gyflwr â'r *gwaethaf* o ddynion? A raid i mi hefyd sefyll yn *euog* o flaen y *frawdle* yn mysg y drwgweithredwyr mwyaf, ac ymofyn gwaredigaeth trwy *ras* fel y cyfryw rai?

Ni allaf ddywedyd mewn modd pwyllig, fod y drefn hon o iachawdwriaeth yn *afresymol;* canys mae fy nghydwybod yn tystio i mi *bechu,* ac am hyny ni allaf gael fy nghyfiawnhau o flaen Duw, fel creadur *ufudd* a *diniwed.* Mae *hi* yn cyhoeddi fod yr holl *amgylchiadau* uchod ag sy yn tueddu i'm darostwng i, yn *addas,* ac *angenrheidiol:* fod yn *iawn* i ddrwgweithredwr gael ei ddwyn ar ei liniau: ac y dylai gwrthryfelwr roddi

Digitized by Google

heibio ei arfau o wrthryfelgarwch, ac ymostwng o flaen ei lywydd, os dysgwyl efe am ei fywyd. Mae fy *rheswm* yn gystal a'm *cydwybod* yn dywedyd i mi, fod yn *iawn* ac *angenrheidiol,* os caf *oll* fy achub, i mi gael fy achub rhag *arglwyddiaeth* pechod, a *chariad* ato, yn gystal ag oddiwrth y ddamnedigaeth sy yn ei ganlyn; ac os rhydd trugaredd i mi gael *bywyd newydd,* wedi haeddu *marwolaeth dragywyddol,* fod yn gymwys i mi roddi fy *hun* Dduw, fel un o farw yn fyw, Rhuf. 6. 13. Ond, Ys truan o ddyn wyf fi, yr wyf yn profi *deddf* yn fy aelodau yn gwrthryfela yn erbyn *deddf* fy meddwl (Rhuf. 7. 24.), ac yn atal argyhoeddiad fy rheswm a'm cydwybod. Pwy a'm gwared allan o'r caethiwed hwn? Pwy a'm galluoga i gyflawni yr hyn y mae fy enaid yn weled sy yn iawn? O Arglwydd, darostwng fy nghalon, ac na âd iddi gael ei thynu gyda y fath rym *un ffordd,* tra mae galluoedd mwyaf *gogoneddus* y meddwl yn chwennych ei thywys *ffordd arall!* Gorchfyga bob rhyw egwyddor *bechadurus* ynof, fel y bo yn *llawen* genyf gael fy atal a'm harwain mor ddoeth! Yn enwedigol, darostwng fy malchder, y *llygredd arglwyddiaethol* hwnw, pa un sydd mor anweddus i'r fath greadur *llwm* ac *euog* ag wyf fi; fel y byddo *ffordd* iachawdwriaeth yn dyfod yn *ddymunol* yn fy ngolwg, yn ol y gradd y byddo hi yn tueddu i'm *darostwng!* Yr wyf yn teimlo tueddiad ynof i drigo yn *Sodom;* ond, O Arglwydd, bydd drugarog wrthyf, ac arwain fi allan o honi (Gen. 19. 16.), cyn y delo *ystorm* dy ddialedd tanllyd arnaf, pan na byddo dihangfa!



Digitized by Google

# PENNOD X.

## Y PECHADUR YN CAEL EI ANOG MEWN MODD DIFRIFOL I DDERBYN IACHAWDWRIAETH YN FFORDD DUW.

**Gan fod llawer ag y gwnaeth y pethau hyn argraff arnynt, yn goddef i'r argraff gael ei wisgo ymaith yn ofer, Dosparth, 10. Er fod y mater yn llefaru yn uchel ynddo ei hun, dylid deisyf ar bechaduriaid dderbyn yr iachawdwriaeth, 2. Yn ganlynol, deisyfir ar y darllenydd, (1.) Er mwyn mawredd a thrugaredd Duw, 3. (2.) Er mwyn cariad ein Harglwydd Iesu Grist wrth farw, 4. (3.) Er mwyn y parch dyledus i gydgreaduriaid, 5. (4.) Er mwyn gwerth ei enaid anfarwol ei hun, 6. Gadewir y mater yn ddifrifol gyda y darllenydd, fel o flaen Duw, 7. Y pechadur yn cydsynio â'r deisyfiadau hyn, ac yn cyhoeddi ei dderbyniad o iachawdwriaeth trwy Grist.**

1. Mi a welais *argraffiadau* ac *argyhoeddiadau* o'r fath hyn lawer gwaith (os gallaf farnu yn ol yr olwg), ac wedi y cwbl yn gwisgo ymaith drachefn. Rhyw amgylchiadau a phrofedigaethau anhapus oddiallan, a gwrthwynebrwydd y galon aflan oddi mewn i'r *drefn* ostyngedig a santaidd hon o brynedigaeth, a fu yn achos o ddystryw *torfeydd* o bechaduriaid. A thrwy *dwyll* pechod, hwy a *galedwyd* (Heb. 3. 13.), hyd oni *ddrylliwyd* hwynt yn hollol, yn ol pob arwyddion, heb *feddyginiaeth,* Diar. 29. 1. Am hyny, O greadur anfarwol, yr hwn wyt yn awr yn darllain y llinellau hyn, tra y mae pethau yn y fath *sefyllfa beryglus;* tra mae y meddwl megis yn y clorian, yn *tafoli* rhwng *gwrthod* a *derbyn* yr efengyl ogoneddus, yr hon trwy gywirdeb fy nghalon a fum i yn awr yn osod ger dy fron, dymunaf arnat unwaith yn chwaneg i roddi syml wrandawiad, tra yr wyf yn dadleu ar ran Duw, neu yn hytrach ar dy ran di dy hun: tra yr wyf, megys *cenad* dros Grist, ac fel pe

Digitized by Google

byddai Duw yn deisyf arnat trwof fi, yr wyf yn erfyn dros Grist, *cymoder di â Duw* (2 Cor. 5. 20.); ac na bo i ti wedi y *deffroadau* a'r *ymofyniadau* hyn, trwy ffolineb, wrthod cyngor a thosturi Duw tuag atat, rhag mai dy waith gofidus, mewn tragywyddoldeb o drueni, fydd galaru am y fath ynfydrwydd.

2. Fe ellid meddwl yn wir na byddai yn angenrheidiol arfer *taerni* yn y peth hwn. Fe fyddai yn rhesymol i un benderfynu, mor gynted ag y bo i bechaduriaid colledig glywed fod y Duw a ddigiasent trwy eu pechodau, yn barod i gymodi, ei fod yn cynyg maddeuant llawn o'u *holl* bechodau, ïe, ei fod ef yn foddlon eu mabwysiadu yr awr hon i'w deulu, fel y byddo iddo eu derbyn yn y diwedd i'w bresenoldeb nefol; y byddai iddynt *oll* gyda y parodrwydd a'r pleser mwyaf gofleidio y fath genadwri dirion, a chwympo wrth ei draed mewn syndod, diolchgarwch, a llawenydd. Ond, och i feddwl, yr ydym yn cael pethau yn hollol wrthwyneb. Ni a welwn dorfeydd yn gwbl *ddigyffro;* a'r argraffiadau sy yn cael eu gwneyd ar lawer mwy, ydynt weinion, ac yn myned heibio. Rhag ei bod felly gyda thi, O ddarllenydd, gad i mi *gymell* arnat y genadwri, yr hon y cefais yr anrhydedd o'i dwyn: gâd i mi *erfyn* arnat i *gymodi* â Duw, a derbyn maddeuant ac iachawdwriaeth, yn y ffordd y mae efe yn ei chynyg i ti mor *rhad.*

3. Mi a'th gymhellaf trwy fawredd y Duw hwnw, yn enw pa un y deuaf atat; llef yr hwn sy yn llanw y nefoedd o barch ac ufudd-dod. Nid yw yn llefaru yn ofer wrth lengoedd o angylion; ond pe gallai fod unrhyw ddadl yn mysg yr ysbrydion gogoneddus hyny, byddai yn nghylch pwy a gai yn *gyntaf* gyflawni ei orchymynion ef. O na fydded iddo lefaru yn ofer wrthyt ti, O ddyn truenus a marwol! Yr wyf yn dy gymell trwy *ddychrynfeydd ei lid,* yr hwn a all lefaru wrthyt trwy

Digitized by Google

daran; yr hwn a allai, trwy un weithred o'i ewyllys, dy dori ymaith o'r bywyd brau hwn, a'th anfon i waelod uffern. Atolygaf arnat, trwy ei *drugareddau*, trwy ei *dyner drugareddau;* trwy ymysgaroedd ei dosturiaethau, pa rai sydd hyd yn hyn yn rhuo am danat; megys eiddo tad am ei *anwyl fab*, ei *dyner blentyn*, yr hwn (er ei wrthryfelgarwch gynt) y mae efe yn ei *gofio yn ddifrifol*, ac yn ei *garu o hyd*, Jer. 31. 20. Yr wyf yn erfyn arnat trwy holl *ddaioni tadol* Duw, na bo i ti, megys, ei *gymell* ef, i roddi heibio ei dynerwch tadol, ac ymddangos yn dy erbyn fel Barnydd cyfiawn; ac (yn ol ei fygythion mewn perthynas i'r sawl a alwodd yn ddiweddar ei *feibion a'i ferched)* i dân gynneu yn ei lid, a llosgi hyd yn uffern isod, Deut. 32. 19, 22.

4. Yn mhellach, erfyniaf arnat trwy *enw* a *chariad* yr Iachawdwr a fu farw dros bechaduriaid. Trwy ei ymostyngiad a'i gnawdoliaeth; trwy y *tlodi*, i ba un yn ewyllysgar y plygodd, fel y byddai i ti gael dy gyfoethogi â thrysorau tragywyddol (2 Cor. 8. 9.); trwy y *galwedigaethau* grasol a roddodd, ac sydd hyd yn hyn yn swnio yn ei air, hyd yn hyn yn dyfod megys yn gynes o'i galon ef, ac am hyny yn *felusach* na mêl, neu ddiferiad diliau mêl, Salm 19. 10. Erfyniaf arnat trwy ei *weithredoedd* galluog a rhyfeddol, y rhai oeddynt hefyd yn weithredoedd o *gariad*. Yr wyf yn erfyn arnat trwy goffadwriaeth o'r hyn a *ddyoddefodd*, yn gystal a'r hyn a wnaeth ac a ddywedodd; trwy yr *ing* a ddyoddefodd yn yr *ardd*, pan orchuddiwyd ei gorff gan *ddefnynau gwaed*, Luc 22. 44. Atolygaf arnat trwy yr holl ofid a deimlodd, pan *adawodd* ei gyfeillion anwylaf ef (Mat 26. 56.), ac y sychedai ei elynion am ei *waed*, y llusgent ef ymaith, fel y caethwas gwaelaf, a'r drwgweithredwr mwyaf ffiaidd. Yr wyf yn erfyn arnat trwy yr ergydion, a'r cleisiau, trwy y ffrangellau

Digitized by Google

a'r clwyfau, pa rai a ddyoddefodd y Llywydd nefol ar gam, tra yn nwylaw gwrthryfelwyr; trwy y gwaradwydd a'r poeredd, oddiwrth ba bethau ni *chuddiodd* ei *wyneb* hawddgar, Esay 50. 6. Yr wyf yn erfyn arnat, trwy y *wisg o borphor*, y deyrnwialen o gorsen, a'r goron ddrain, y rhai a wisgodd Brenin y gogoniant, fel y gosodid ni yn mysg tywysogion y nefoedd, Salm 113. 8. Yr wyf yn atolygu arnat, trwy ystyriaeth o'r baich trwm ar ei ysgwyddau, sef y *groes*, dan yr hon y dyheuodd, y trafferthodd ac y llesgaodd, yn y ffordd ofidus tuag at *Golgotha* (Ioan 19. 17.), fel y gwaredai ni rhag y *baich o bechod*. Mi a atolygaf arnat, trwy yr *hoelion garw* a dorasant wythenau, rhedweliau, a gewynau, ei *ddwylaw a'i draed santaidd*; a thrwy y cariad anorchfygol, a buddugol, yr hwn, tra yr oedd yr *haiarn* yn tyllu ei gnawd, a'i rhwymodd ef i lefain allan, *O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur*, Luc 22. 34. Yr wyf yn atolwg arnat, trwy yr *ing* annhraethol a ddyoddefodd, pan gyfodwyd ef i fynu ar y *groes*, dros chwech awr boenus, ar i ti agor dy galon i'r dylanwadau hyny pa rai a fuant yn foddion i dynu miloedd *ato ef*, Ioan 12. 32. Yr wyf yn atolygu arnat trwy y dirmyg a'r gwatwar a ddyoddefodd Arglwydd y gogoniant ar y groes (Mat. 27. 39—44.); trwy y *syched llosgedig*, i dori pa un prin y cafodd ychydig o *finegr* (Ioan 19. 28, 29.); trwy y llef alarus hòno, pa un oedd mor rhyfeddol yn ngenau unig-anedig Fab y Tad, *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gădewaist*, Mat. 27. 46. Yr wyf yn erfyn arnat, trwy y *gras* a ddarostyngodd y *drwgweithredwr wrth farw*, ac a faddeuodd ei holl bechodau (Luc 23. 42, 45.); trwy y *tosturi* hwnw at bechaduriaid, trwy y *tosturi* hwnw tuag atat ti, pa un oedd yn gweithredu yn ei galon, tra y parhaodd bywyd ynddi, a'r hwn ni ddarfu pan ogwydd-



Digitized by Google

odd ei ben, gan ddywedyd, *Gorphenwyd, ac y rhoddodd i fynu yr ysbryd*, Ioan 19. 30. Yr wyf yn erfyn arnat, trwy ei *adgyfodiad* gorfoleddus, trwy ba un yr amlygwyd ef yn Fab Duw mewn gallu trwy yr Ysbryd Glân, yr hwn a weithredodd er dwyn hyn oll i ben, (Rhuf. 1. 4.); trwy y tynerwch grasol oedd yn cydfyned â hyn oll, pan ddywedodd efe wrth y wraig, o ba un *y bwriodd allan saith o gythreuliaid*, mewn perthynas i'w *ddysgyblion*, y rhai a ymddygasent tuag ato mor *dwyllodrus*, gan ddywedyd, *Dos, a dywed wrth fy mrodyr, yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, ac at fy Nuw i a'ch Duw chwithau*, Ioan 20. 17. Mi a atolygaf arnat, trwy yr ymostyngiad, trwy ba un y dywedodd wrth *Thomas*, (pan ryfygodd ei anghrediniaeth geisio y fath bethau,) *Moes yma dy fys, a gwel fy nwylaw, ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys; ac na fydd anghredadyn, ond credadyn*, Ioan 20. 27. Yr wyf yn atolwg arnat, trwy y gofal ffyddlon hwnw am ei bobl, ag a aeth gydag ef i ardaloedd gwynfyd, ac a'i rhwymodd i anfon i lawr ei Ysbryd yn ei holl ddoniau gwyrthiol, i'r dyben o ledu ei air achubol, Actau 2. 33. Trwy y *llais* hwnw o gydymdeimlad, ac o allu, trwy yr hwn y dywedodd wrth *Saul*, pan yn *drygu* ei eglwys, *Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i*, Actau 9. 4. Trwy y daioni hael yr hwn a arbedodd y fath elyn, pan yn *crynu* wrth draed ei Arglwydd, ac a'i cyfododd ef i'r cyfryw *radd* uchel o anrhydedd, fel na bu yn ol mewn *dim* i'r apostolion *penaf*, 2 Cor. 12. 11. Trwy goffadwriaeth o'r hyn oll a wnaeth *Crist* eisioes ar ran ei bobl, a'r hyn oll ag y maent yn ddysgwyl iddo wneyd *rhagllaw* erddynt. Yr wyf yn erfyn arnat, mewn gair, trwy deyrnwialen ei ras, a chleddyf ei gyfiawnder, trwy ba un y *lleddir ger ei fron ef*, ei holl *elynion* gwargaled (Luc 19. 27.), na bo i ti wastraffu dy *amser gwerthfawr*,

Digitized by Google

yn yr hwn y mae ei ysbryd yn *anadlu* arnat; na bo i ti adael y cyfleusdra hwn i fyned ymaith, ar y iawn ddefnydd o ba un, y mae dy ddedwyddwch tragywyddol yn dibynu.

5. Yr wyf yn dy gymell, trwy yr *ymysgaroedd o dosturiaethau* yr wyt yn rhwym i'w dangos at *weinidogion ffyddlon Crist;* y rhai sy yn myfyrio ac yn llafurio, yn pregethu ac yn gweddio, yn gwisgo allan eu hamser a'u nerth, ac mae yn bur debyg, yn *byrhau* eu *heinioes*, wrth geisio dwyn oddiamgylch dy *iachawdwriaeth di*, a'th fath. Trwy y *serch*, pa un sy yn peri i bawb ag a *garant ein Harglwydd Iesu Grist* mewn gwirionedd, i hiraethu am dy weled di yn cael dy ddwyn yn ol ato ef. Yr wyf yn erfyn arnat trwy *gyfeillgarwch* y byw, a *choffadwriaeth* o'r meirw; trwy *ddystryw* y rhai a gamddefnyddiasant eu *dyddiau*, ac a *gollwyd* trwy eu *pechodau;* hefyd trwy *ddedwyddwch* y sawl a gofleidiasant yr efengyl, ac a *achubwyd* trwyddi hi. Mi a'th anogaf trwy *ddysgwyliad* o'r dydd mawr, yn yr hwn yr *ymddengys* yr Arglwydd Iesu o'r *nef* (2 Thes. 1. 7.); trwy y *dychrynfeydd* a fyddant yn cydfyned ag *ymollyngiad a thoddiad* yr *elfenau* (2 Pedr 3. 10, 11.); trwy *sain udgorn yr archangel* (1 Thes. 4. 16.); a thrwy y *farn* hòno, pa un sydd yn anfeidrol fwy ofnadwy na'r cwbl oll allan o enau y Barnwr, trwy yr hon y penderfynir gwaith y dydd mawr, sef, *Deuwch* chwi *fendigedigion*, ac, *ewch* chwi rai *melldigedig*, Mat. 25. 34, 41.

6. Yn ddiweddaf oll, mi a atolygaf arnat, trwy yr ystyriaeth o *werth dy enaid anfarwol dy hun;* trwy olwg ar *wely angau*, neu fynediad *disymwth* i'r byd anweledig; ac, yn enwedig, os dymuni deimlo un wreichionen o gysur yn dy ysbryd ar ei ymadawiad, pan fo dy *gnawd a'th galon yn pallu*. Trwy yr ystyriaeth o ymddangosiad *personol* o flaen gorseddfainc Crist,

Digitized by Google

(canys ymddangosiad personol y rhaid ei fod, hyd yn oed i'r sawl sydd yn awr yn eistedd ar *orseddfeinciau* eu hunain;) trwy *lawenydd* y rhai *gwynfydedig*, a *phoenau* y *damnedigion*, y naill neu y llall fydd dy *ran* dragywyddol di. Yr wyf yn garedigol yn erfyn arnat trwy *rym* yr ystyriaethau hyn, fel yr atebych i mi, pan gaffwyf fy ngalw ar y dydd mawr i dystiolaethu i'th erbyn, (a'r hyn sy yn annhraethol fwy,) fel y gallech ateb i dy gydwybod, ac i'r Barnwr tragywyddol, na bo i ti adael i'r meddyliau, y gofalon, a'r myfyrdodau hyn fyned ymaith, nes dwyn pethau i benderfyniad dedwydd; hyd oni byddo i ti wneuthur dewisiad o Grist, a'i ffordd ef o iachawdwriaeth; ïe hyd oni roddech dy hunan yn syml i fynu i Dduw trwy *rwymau cyfamod tragywyddol*.

7. Dyma fi yn gadael y cwbl o'th flaen, a cher bron Duw. Dywedais i ti fy *neges*, cyflawnais fy *nghenadwri*. Cadarnach rhesymau ni allaf eu harfer; ystyriaethau mwy anwyl, a mwy ofnadwy ni allaf eu dwyn ar gof i ti. Dewis gan hyny pa un a wnei, myned allan megys mewn *sachliain*, gan daflu dy hun wrth draed yr hwn sy yn awr yn danfon atat y teleran uniawn a grasol hyn o faddeuant a heddwch; neu a sefi di allan, hyd oni ymddangoso *â'i gleddyf yn ei law*, i gyfrif â thi am dy *fradwriaethau* a'th ddrwgweithredoedd, ac yn mhlith pethau ereill, am dy waith yn *diystyru y genadwri hon*. Mi a ewyllysiwn feddwl y goreu, ac ni allaf gredu y bydd fy *llafur* hwn o *gariad*, mor hollol ddieffaith, fel na byddo i un enaid gael ei ddwyn at draed Crist, trwy ymostyngiad calonog iddo, a ffydd ostyngedig ynddo. Cymer *eiriau* gan hyny gyda thi, a dychwel at yr Arglwydd (Hos. 14.2.); ac O na byddai y geiriau canlynol, o leiaf mewn effaith, yn wir iaith pob un a'u darlleno hwynt!

Digitized by Google

*Y Pechadur yn ymroddi i'r erfyniadau uchod, ac yn cyhoeddi ei hun yn ewyllysgar i dderbyn iachawdwriaeth trwy Grist.*

O Arglwydd, bendigedig, digon yw! Ië mwy na digon! Nid yw yn bosibl fod angen yr holl resymau hyn, y fath erfyniadau taer â hyn, i'm gwneuthur i yn foddlon i dderbyn maddeuant, hapusrwydd, bywyd, a gogoniant tragywyddol. O Iachawdwr trugarog, mae fy enaid wedi ei ddarostwng; fel yr wyf yn gobeithio fod iaith dy ofid di, wedi dyfod yn iaith fy edifeirwch i, ac y gallaf ddywedyd, Fy nghalon sydd fel cŵyr, *hi a doddodd yn nghanol fy mherfedd,* Salm 22. 14.

O Brynwr grasol! Mi a'th esgeulusais yn ormodol yn barod. Mi a'th anfoddlonais yn rhy fynych, mi a'th *ailgroeshoeliais* di trwy fy euogrwydd a'm hanedifeirwch, fel pe cymeraswn bleser wrth dy *osod yn watwor*, Heb. 6. 6. Ond mae fy nghalon yn awr yn plygu ger dy fron gan ymostwng i ti mewn modd diragrith. Nid wyf yn chwennych unrhyw amodau amgen na'r rhai hyn, sef bod o honof yn eiddo i ti yn hollol. Wele fi yn rhoddi fy nghalon i ti mewn modd ewyllysgar, gan ddymuno arnat fy anrhydeddu ag adnabyddiaeth o'th ewyllys, yn ysgrifenedig arni. Dysg i mi, O Arglwydd, adnabod pa beth a fyni *di* i mi ei *wneuthur;* canys yr wyf am ddysgu y wers hòno, a'i dysgu i'r dyben o'i *harferyd.* Os wyt yn gofyn oddiwrthyf fwy nag a all fy ngalluoedd gweinion i ei ateb, yr wyf yn hyderu y cyfreni i mi fwy o nerth; ac yn y gallu hwnw, mi a'th wasanaethaf. O derbyn yr enaid, yr hwn a wnaethost, yn foddlon i fod yn eiddo i ti!

O Iesu bendigedig, nid yw mwyach yn angenrheidiol i atolwg arnaf ac i'm hanog. Caniata i mi, yn hy-

Digitized by Google

trach allu o honof ymbil arnat *ti* gyda y *taerni* hwnw, a weddai i bechadur colledig, pa un sy yn gweled, ac o'r diwedd yn gwybod, nad oes iachawdwriaeth yn neb arall! Actau 4. 12. Caniata i mi, O Arglwydd, i ddyfod atat, ac i daflu fy hun wrth dy draed, yr hwn wyf megys *alltud* analluog, heb *le* ganddo i ymgysgodi ond yn dy fawr dosturi di! Fel un yn cael ei *ganlyn* gan *ddialydd y gwaed*, yn dwys ymofyn am dderbyniad i'r *ddinas noddfa*, Jos. 22. 2, 3.

Dysgwyliaf wrth yr *Arglwydd*, dysgwyl fy *enaid*, ac yn ei *air* ef y gobeithiaf (Salm 130. 5.), y bydd iddo ef yn *rasol* fy nerbyn, Hos. 14. 2. Mae fy enaid yn ymddiried yn dy *ddaioni*, gan dy addoli. Yr wyf yn dymuno anrhydeddu dy *hiramynedd* a gyd-ddygodd â mi hyd yn hyn; a'r gras pa un sy yn awr yn fy ngwneuthur i yn ewyllysgar o'r galon i fod yn eiddo i ti; i fod yn eiddo i ti ar dy *delerau* dy hun; ïe, ar unrhyw *delerau*. O diogela y galon dwyllodrus hon i ti dy hunan! O una fi â thi dy hun, yn y fath anwahanol rwymau, fel ná allo hudoliaethau *cig a gwaed*, teganau y *byd* peryglus hwn, nac erfyniadau taer fy ngbyfeillion pechadurus, fy nhynu yn ol oddiwrthyt, a'm *soddi* mewn euogrwydd newydd, a dystryw tragywyddol! Bydd yn *fachniydd* dros dy was er daioni, O Arglwydd (Salm 119. 122.); fel y gallwyf o hyd ymafaelu ynot ti, a thrwy hyny ar fywyd tragywyddol; hyd oni byddo i mi yn y diwedd adnabod yn fwy hollol, trwy *brofiad* gorfoleddus a thragywyddol, pa ryw Iachawdwr cyflawn ydwyt ti. Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XI.

## ANERCH DIFRIFOL AT Y SAWL NI CHYMERANT EU PERSWADIO I GWYMPO I MEWN A GALWAD AC A DYBEN YR EFENGYL.

Nad yw llwydd cyffredinol i'w ddysgwyl, Dosparth 1. Eto, fel yn anewyllysgar i roi neb i fynu yn hollol, mae yr awdwr yn anerch, (1.) Y rhai a amheuant wirionedd Cristionogaeth, gan annog ymofyniad i'r profion o honi, a chyfarwyddo at ffyrdd priodol i'r perwyl hwnw, 2—4. (2.) Y rhai a benderfynant ei rhoi heibio heb ymofyniad pellach, 5. Ac a ryfygant ymosod i'w gwrthwynebu, 6. (3.) Y rhai mewn tyb a gydsyniant â Christionogaeth fel yn wirionedd, ac eto a eisteddant i lawr heb un parch ymarferol i'w gwirioneddau addefedig. Gollyngir y cyfryw ymaith gyda darluniad o afresymoldeb eu hymddygiad ar eu hegwyddorion eu hunain, 7, 8. gyda rhybudd difrifol am ei ganlyniadau angeuol, 9, 10. a gweddi ddwys yn cael ei dwyn i mewn.

1. Mi a obeithiaf yn ostyngedig, y bydd i'r pennodau blaenorol fod yn foddion i ddeffroi rhai pechaduriaid difraw, ac annheimladwy; yn foddion i'w hargyhoeddi o'r angenrheidrwydd o feddiannu iachawdwriaeth yr efengyl; ac i'w gwneuthur yn ewyllysgar i wneud derbyniad calonog o honi. Eto ni allaf wenieithio i mi fy hun mor belled, a meddwl y bydd y peth felly gyda phawb, i ddwylaw pa rai y daw y llyfr bychan hwn. Pa beth wyf *fi*, Och! pa beth wyf *fi* well na'm *tadau* (1 Bren. 19. 4.), neu *fy mrodyr*, y rhai *yn mhob oes*, a fuant yn *achwyn*, mewn perthynas i dorfeydd o bechaduriaid, *Ar hyd y dydd ni a estynasom ein dwylaw at bobl anufudd, ac yn gwrthddywedyd?* Rhuf. 10. 21. Llawer o'r fath a geir, mae yn bosibl, yn mysg fy narllenyddion inau; llawer, ar ba rai, efallai, ni chaiff yr ystyriaethau o *ddychryn* nac o *gariad* ddim *effaith* ddwfn a pharhaus,

Digitized by Google

llawer o'r rhai, fel y dywedodd ein Harglwydd trwy *brofiad, y canasom bibell iddynt, ni ddawnsiasant; a phan ganasom alarnad iddynt, ni chwynfanasant*, Mat. 11. 17. Ni allaf ddywedyd chwaneg i'w perswadio hwynt; ac os gwnant yn *ysgafn* o'r hyn a ddywedais yn barod, rhaid i mi a hwythau yn y fan hon gan hyny ymadael: ac, O na allwn wneud hyny yn y fath *fodd*, ag y bo rhyw raddau o argyhoeddiad yn cael ei sefydlu ar eu calonau; fel, er ymadael dros ychydig, (gan eu danfon hwynt yn *ol i ail edrych* y pennodau o'r blaen, fel yr unig rai a berthynant iddynt yn eu cyflwr presenol,) y bo iddynt ar frys, megys, fy *ngorddiwes* drachefn, a phrofi y rhan sy yn ol o'r traethawd hwn yn *addas;* yr hyn nid yw bosibl iddynt yn eu cyflwr presenol. O greaduriaid anhapus! Yr wyf yn eich gadael fel y gad meddyg y claf, yr hwn y mae yn ei *garu*, ac er hyny yn nghylch ei roddi i fynu fel dyn yn marw: wele efe yn dychwelyd drachefn a thrachefn, ac yn chwilio yr amrywiol arwyddion, i edrych a fydd un o honynt yn well na'r llall; ac yn rhoddi anogaeth i wneud cymhwysiad o foddion o *newydd.*

2. Dyma fel y dymunwn inau ddychwelyd atat ti *unwaith* eto. Nid wyt yn profi ynot dy hun unrhyw dueddiad i gofleidio yr efengyl, i ffoi at Grist, i roddi dy hunan i wasanaeth Duw, ac i wneud crefydd yn waith penaf dy fywyd. Eto os na allaf dy wneud yn foddlon i hyn, boed i mi o leiaf allu dy rwymo i ateb i mi, neu yn hytrach i'th gydwybod, 'Paham na wnai y pethau uchod?' A ydyw dy anufudd-dod yn tarddu oddiwrth anghrediniaeth yn egwyddorion crefydd? Os felly, mae y *clwyf* yn wahanol i'r hyn a fu hyd yma dan fy ystyriaeth, ac mae yn rhaid fod y *feddyginiaeth* yn wahanol. Nid dyma y *lle* i ymladd ag amheuon didduwiaeth: er hyny ewyllysiwn i ti ymholi yn sobr, pa

Digitized by Google

mor bell y mae yr amheuon hyn yn myned? A ydynt yn unig ynghylch rhyw athrawiaethau neillduol o eiddo yr efengyl, ynghylch pa rai yr ymresymais â thi; neu a ydynt yn nghylch y cwbl o'r datguddiad Cristionogol? Neu a ydynt yn myned eto ym mhellach, sef at grefydd natur, yn gystal a'r un ddatguddiedig; fel na wyddost yn iawn pa un a oes *Duw*, *rhagluniaeth*, a *byd* ar ol *hwn*, ai nid oes? Gan fod y pethau hyn oll yn wahanol, fe fydd o fawr ganlyniad i ti allu *gweled* y gwahaniaeth; fel y bo i ti wybod ar ba egwyddorion y gelli *adeiladu* yn ddiogel, tra y byddech yn profi y pethau hyny, yn nghylch pa rai yr ydwyt yn *amheus*. Pa amheuon bynag sydd yn dy feddwl, gofynaf i ti ym mhellach, pa hyd y buont yn aros; a pha *foddion* a arferaist tuag at eu *symud* hwynt? A ydwyt ti yn meddwl mewn *pethau* o gymaint *pwys* y dyoddefir i ti fyned yn mlaen mewn *ysgafnder*, gan esgeuluso chwilio i mewn i *wirionedd* pethau; a wyt ti yn tybied y bydd hyn yn esgus dros dy waith yn peidio bucheddu yn ol y gwirionedd datguddiedig? Onid yw *rheswm* yn sicrhau i ti, os yw y pethau hyn yn wir (fel wrth dy waith yn *amheu* yn eu cylch, yr wyt yn addef y posiblrwydd o honynt, o leiaf) eu bod yn anfeidrol fwy eu *pwys* na holl *achosion* y bywyd hwn; pa un bynag ai trafferthion neu bleserau, er mwyn pa rai yr wyt yn eu hesgeuluso hwynt? Paham gan hyny yr wyt yn aros yn *ddifraw*, ac yn *ddioglyd*, o wythnos i wythnos, ac o fis i fis, yr hyn, mae yn debygol, yw llais cydwybod am danat.

3. A wyt ti yn barod i ofyn, 'Pa *ffordd* a gymeraf i'r dyben o symud fy *amheuon*?' Nid yw y gofyniad yn galed ac anhawdd i'w ateb. Agor dy lygaid; rho dy hunan i ystyried: dyoddef i gydwybod lefaru; ac yr wyf yn gwir gredu, os nad yw hi wedi caledu i radd anghyffredin, y bydd i ti gael rhagddywediadau call,



Digitized by Google

er mwyn *profi* gwirionedd crefydd natur a'r un ddatguddiedig; ac hefyd o'r angenrheidrwydd hollol, o wir edifeirwch, ffydd, a santeiddrwydd, tuag at gael bywyd o ddedwyddwch ar ol hwn. Os wyt yn meddu ar *ddysgeidiaeth*, ni elli lai na gwybod gan ba awdwyr, ac yn mha lyfrau, y mae y *gwirioneddau* mawrion hyn yn cael eu hamddiffyn. Ac os amgen, gelli gael yn mhob tref ac yn mhob cymydogaeth, gan mwyaf, rai dynion cymwys i'th addysgu yn y pethau sy yn *profi* gwirionedd Cristionogaeth, ac i ateb y gwrthddadleuon ag y mae meddyliau annysgedig yn godi yn eu herbyn. Rho dy hunan gan hyny yn ddiatreg, yn enw yr Arglwydd, i ystyried y pethau uchod. Os wyt yn myfyrio oll, plyg dy fyfyrdodau at y pethau hyn; ac na wastraffa dy amser yn myfyrio *celfyddydau*, *prydyddiaeth*, *hanesion*, *cyfraith*, *neu physygwriaeth*, (y rhai ydynt oll mewn cymhariaeth mor ysgafn a *phluen*,) tra yr wyt yn esgeuluso *cristionogaeth*. Myfyria y gwirionedd o honi, fel am dy *fywyd;* canys mae llawer mwy na'r bywyd yn gorphwys arni. Hola pa mor bell yr ydwyt wedi derbyn *boddlonrwydd;* a phaham nad yw y boddlonrwydd a gefaist yn cyrhaeddyd yn mhellach.

Cymhara y tystion o bob *tu*. Ac uwchlaw y cwbl, ystyria *ddyben* a *thueddiad* y TESTAMENT NEWYDD. Edrych i ba le yr arwain efe di, a phawb a ufuddhant iddo o'r galon, ac wedi hyny, dywed, onid *da* yw. Ystyria hefyd, pa mor gysylltedig yw gwirionedd a daioni cristionogaeth. Olrhain athrawiaethau a buchedd ei hawdwyr; *delw fywiol* pa rai (os goddefi yr ymadrodd) sydd byth yn cael ei chadw yn eu hysgrifeniadau: ac yna gofyn i'th galon dy hun, a elli di feddwl fod hyn oll yn *dwyll*? Yn *ffug* creulon, ac annuwiol? Canys felly y rhaid ei galw, os yw mewn un modd yn dwyllodrus; peth wedi ei lunio i watwar *Duw*, ac i

Digitized by Google

ddystrywio *dynion;* ïe, y goreu o ddynion; sef y sawl a wrandawsant yn barchus ar gydwybod, ac oeddynt yn foddlon i ddyoddef y *cyfyngderau* mwyaf, yn eu gwaith yn canlyn yr hyn oeddynt yn ei olygu yn *wirionedd.* Gosod y gofyniad at dy galon, a gofyn, 'A allaf fi yn fy nghydwybod gredu fod cristionogaeth y fath dwyll a hyn? Allaf fi edrych i fynu ar *yr hollwybodol Dduw,* gan ddywedyd, O Arglwydd, ti a wyddost mai o barch i ti, ac o gariad at wirionedd a rhinwedd, yr wyf yn gwrthod y *llyfr* hwn, a'r *ffordd* a ddengys i ddedwyddwch?'

4. Ond dichon yr atebi fod *rhwystrau* yn y ffordd.—Beth er hyny; a gawsant hwy erioed eu hegluro? Dos at y cristionogion hyny o'th gydnabyddiaeth, yn awr mewn bywyd, am dduwioldeb, hynawsedd, a dysgeidiaeth, pa rai yr wyt yn meddwl *oreu;* os dyoddef dy ragfarnau i ti feddwl yn *dda* am rai o'r fath ddynion: mynega iddynt dy anhawsderau: gwrando ar eu hatebion: pwysa hwynt yn ddifrifol, fel un a raid ateb i Dduw: a thra y byddo *amheuon* yn parhau, canlyn y gwirionedd hyd ag yr elo, a gwylia rhag ei *garcharu* mewn *anghyfiawnder,* Rhuf. 1. 18. Nid oes un peth yn fwy *gwrthun* ac *anghyson,* na bod dyn yn cymeryd arno mewn modd difrifol ei fod yn cael anfoddlonrwydd yn y *tystion* dros wirionedd yr efengyl, ac yn gwneyd hyny yn *rheswm* paham na all yn gydwybodol fod yn gristion trwyadl, pan y byddo ar yr *un pryd,* yn myned yn groes i'r addysgiadau egluraf o eiddo rheswm a chydwybod, trwy fyw mewn *arferion pechadurus,* ag sy yn cael eu ffieiddio hyd yn oed gan y cenhedloedd eilunaddolgar. O ddarllenydd, am y fath barnodd *Crist* yn *gywir,* pan ddywedodd, 'Maent yn gwneuthur *drwg,* ac am hyny, maent yn *cashau* y goleuni, ac nid ydynt yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder eu *gweithredoedd* hwynt,

Digitized by Google

Ioan 3. 20. Ond y mae *goleuni*, pa un a *eglura* ac a *argyhoedda* eu *gweithredoedd*, i ba un y bydd yn *rhaid* iddynt ddyfod; a rhwymir hwynt i ymostwng i gael eu chwilio yn fanol er mor boenus.

5. Yn y cyfamser, os wyt wedi hollol fwriadu i beidio chwilio yn mhellach yn nghylch y *mater*, o wir ddymuniad na byddo i ti ddwyn eto am dy ben ddystryw gwaeth, rho genad i mi o leiaf i atolygu arnat, i fod yn wagelog, rhag gwneuthur dy hun yn agored i fwy o berygl, trwy yr hyn sydd raid i ti addef yn afreidiol, sef dy *waith yn cynyg atal ereill i gredu gwirionedd yr efengyl*. Er mwyn Duw, ac er dy fwyn dy hunan, gad lonydd iddynt i fwynhau y gobaith a'r pleserau hyny, na all dim eu rhoddi, ond *cristionogaeth;* ac na fydded i ti ymddwyn fel pe bait yn ewyllysio chwanegu at euogrwydd yr anghredadyn, y ddamnedigaeth ddengdyblyg hòno, pa un sydd raid i'r sawl a lygrant ac a ddystrywiant eneidiau ereill, ddysgwyl, os yw yr efengyl a wrthwynebasent mor hŷ, yn wirionedd, fel yn ddiamheu y mae hi; ac iddynt hwy yn wirionedd dychrynllyd.

6. Os na lwyddaf yn hyn, ond y bydd y balchder o ddangos *uwch graddau o ddealldwriaeth* i ddwyn yn mlaen y darllenydd yn groes i'w ddaliadau hoff, (sef nad oes dim *niwed* mewn *barn gyfeiliornus;* fod pob rhyw grefydd yn gydradd ag a fo yn cydfyned â rhinwedd cymdeithasol,) i wneyd ei oreu i sathru dan draed ac i ddirmygu yr efengyl; mi a'i gollyngaf ef ymaith, trwy osod ger ei fron un peth, ag wyf yn olygu yn gymwys wrth ystyried pwys yr hyn sydd ger ein bron. Os wyt, O ddarllenydd, wedi bwriadu yn hollol beidio chwilio dim pellach i mewn i gristionogaeth; ac ymddwyn fel pe byddit yn *sicr* ei bod yn dwyll, eistedd i lawr gan hyny, a gwna "-"fr *(memorandum)* o'r *bwriad* hwnw. Ysgrifena i

Digitized by Google

fawr, gan ddywedyd, 'Ar y cyfryw ddiwrnod o'r cyfryw flwyddyn, mi a *fwriedais yn bwyllig* wrthwynebu cristionogaeth dros fy holl fywyd, gan wneuthur a allwyf i'w *diddymu*. Y dydd hwn penderfynais, nid yn unig ymwrthod â phob rhyw *ymostyngiad* i, a *dysgwyliad* oddiwrth, *Iesu o Nazareth*; ond hefyd i'w wneyd ef yn rhan o'm gofal penaf mewn bywyd, i ddystrywio, mor bell ag y gallwyf, bob rhyw *barch* iddo yn meddyliau ereill; ac i ymegnio hyd yr eithaf, mewn ffordd o ymresymu, neu wawdio, i'r dyben o atal ei grefydd ef rhag cael parch; ac, os yw bosibl, ei diwreiddio hi allan o'r byd; a hyn trwy ddiystyrwch tawel a sefydlog o'r *dydd*, yn mha un y mae ei ganlynwyr yn dywedyd yr ymddengys efe, mewn mawredd a dychryn, i gyflawni y *dial* a fygythiodd ar ei elynion.' A feiddi di yn llyn ei ysgrifenu a'i selio? Yr wyf yn hollol gredu fod llawer o ddynion, a chwennychent gael eu hystyried yn *ddeistiaid* (sef rhai yn gwadu dwyfol ddatguddiad), a gallu chwanegu *rhif* y *deistiaid*, ac na allant ysgrifenu yn y modd uchod. Ac os na elli di, O ddarllenydd, wneuthur hyn, pa beth sydd yn dy atal? Mae yr achos sydd yn peri i ti fod yn wagelog yn y peth hwn yn eglur. Mae yn dy gydwybod ryw gred ddirgel, fod yn bosibl i'r *efengyl* hon ag sydd yn cael ei gwrthod, ei gwrthwynebu, a'i dirmygu, ymddangos yn *wirionedd*. Ac os oes y fath *dyb* ynot, boed i *gydwybod* gyflawni ei *gwaith*, a'th argyhoeddi o'r ynfydrwydd annuwiol o weithredu, fel pe byddai hi yn *ddiamheuol* yn *dwyllodrus*. Boed iddi ddywedyd wrthyt mewn modd helaeth ac eglur, pa mor bosibl yw dy gael yn y diwedd yn gwrthryfela yn erbyn Duw (Actau 5. 39.): fod yn bosibl (er maint dy hyfdra yn cyffroi *dychrynfeydd* yr Arglwydd) i ti syrthio yn ei ddwylaw *ef*; a dygwydd clywed y *farn a ddibrisiaist*, yr hon pan glywech hi o enau



Digitized by Google

y Barnwr tragywyddol, ni elli ei diystyru: er dy holl ddirmyg, myfi a ddywedaf drachefn wrthyt, fe allai y bydd i ti glywed y *Brenin* yn dywedyd WRTHYT TI, *Dos ymaith un melldigedig i'r tân tragywyddol a barotowyd i ddiafol a'i angylion*, Mat. 25. 44. Yn awr dos rhagot i ŵyrdroi ac i oganu yr ysgrythyr; dos i oganu ei *gwroniaid*, ac i chwerthin am ben ymadroddion dyrchafedig ei *phroffwydi* a'i *hapostolion;* fel y gwnaeth rhai, ac na adawsant fawr ar eu hol, ond coffadwriaeth o'u hanwybodaeth, eu halogrwydd, a'u cenfigen. Dos, a lleda luman *(banner)* anghrediniaeth, ac ymfalchia yn *rhif* y sawl a ymroddant eu hunain dani. Ond cymer ofal, na byddo i *saeth* ddirgel oddiwrth y GALILEAN *diystyredig (Iesu)* gael ei danfon i'th galon, er atal dy anadl afreolus cyn gallu dybenu yr ymadrodd a ewyllysiech osod allan yn ei erbyn *ef*.

7. Yn awr ymadawaf â'r *deist* a'r *anffyddiad*, ac a gyfeiriaf fy ymadrodd at y *cristion mewn enw;* os gellir mewn un modd alw y fath yn *gristion*, yr hwn, er cymaint a ddywedais, nid yw yn *teimlo* unrhyw *dueddiad* ynddo i ymostwng i lywodraeth a gras yr Iachawdwr, enw pa un y mae efe yn ddwyn. O bechadur, yr wyt yn troi ymaith oddiwrth fy Arglwydd, yn achos pa un yr wyf yn llefaru; ond gad i mi ofyn yn brysur, a dymuno arnat i ddwys ystyried, paham yr ydwyt yn troi ymaith, ac at *bwy* yr ai di oddiwrtho ef, yr *hwn* y cyfaddefi fod *ganddo eiriau y bywyd tragywyddol*? Ioan 6. 68. Yr wyt yn galw dy hunan yn gristion, ac eto ni ellir dy wneyd yn foddlon mewn modd yn y byd, i ymofyn iachawdwriaeth mewn modd difrifol oddiwrth, a thrwy IESU GRIST, yr hwn wyt yn ei alw dy Feistr a'th Arglwydd. Pa fodd yr atebi i gydwybod am yr esgeulusdra hwn dros un funud? Fe fuasai y peth yn wahanol, a buaswn yn dy anog i dderbyn rhyw athrawiaeth

Digitized by Google

ddadleugar. Pe buaswn yn llafurio i geisio dy wneuthur yn *ddysgybl* o ryw *sect neillduol* o gristionogion, fe fuasai dy waith yn *oedi* yn fwy rhesymol: nid yn unig hyny, ond fe fuasai dy waith yn gwrthod cwympo i mewn, o bosibl, yn weithred o *ddyledswydd* i'n Meistr mawr. Ond ai pèth *dadleugar* yn mysg cristionogion yw fod Duw mawr, santaidd a chyfiawn, a pha un a ddylai y fath Fod gael ei barchu a'i garu; neu ynte ei esgeuluso, a'i ddianrhydeddu? ai peth dadleugar yw pa un a ddylai pechadur edifarhau yn ddwfn am ei bechodau, neu ynte myned yn mlaen ynddynt? Ai athrawiaeth ddadleugar yn ein plith yw, i Iesu ddyfod yn y cnawd a marw ar y groes er prynedigaeth pechaduriaid? Os nad peth dadleugar yw hyn, a fydd i neb ag sy yn credu mai efe yw Mab Duw, a Iachawdwr dynion, ddadleu pa un a ddylai pechadur ddyfod ato am fywyd neu ei esgeuluso ef? Neu, pa un sy fwyaf rhesymol, i un sy yn proffesu ei hun yn *gristion*, i *ymadael ag anghyfiawnder*, neu roi ei hun i fynu i'r ymarferiad o hono? A yw gorchymynion ein Meistr mawr wedi eu rhoddi mor dywyll yn ei air, fel y mae lle i amheu yn sobr, pa un a ydyw efe yn dysgwyl i'w ddeiliaid fyw bywyd duwiol, santaidd, gostyngedig, ysbrydol, gwyliadwrus, a hunan-ymwadol, neu ynte i'r gwrthwyneb? A ddarfu i *Grist*, wedi cymeryd arno ddwyn *bywyd ac anllygredigaeth i oleuni*, adael y peth yn fwy ansicr nac o'r blaen, sef, pa un a oes ar ol y byd hwn gyflwr o ddedwyddwch ac o drueni; ac ar fedr pwy *fath*, y mae y gwahanol sefyllfaoedd hyny wedi eu trefnu? A ydyw yn beth amheus pa un a fydd, neu ni bydd, i *Dduw ddwyn pob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg?* Preg. 12. 14. Neu a fydd yn rhaid wedi y farn hòno, i'r rhai drygionus orfod myned ymaith i *gospedigaeth dragywyddol*, a'r rhai cyf-

Digitized by Google

iawn i *fywyd tragywyddol*? Mat. 25. 46. Nis gelli, rhag cywilydd, ddywedyd dy fod yn amheus yn nghylch y *pethau hyn*, ac eto alw dy hun yn *gristion*. Paham, gan hyny, na roddi hwynt at dy ystyriaeth, ac na ymddygi fel y mae dy ddyledswydd a'th fantais dy hunan mor eglur yn gofyn? O bechadur, mae yr *achos* yn rhy amlwg; achos yw yn wir ag sy yn gwbl annheilwng o gael ei alw yn rheswm. Hyny yw, bod dy *wagedd* a'th *nwydau pechadurus* wedi dy ddallu a'th ynfydu. Mae genyt ryw beth diflanedig ag sy yn llygad-dynu dy ddychymyg a'th synwyrau, ïe, sy yn anwylach genyt na Duw a Christ; na dy enaid dy hun, a iachawdwriaeth. Mewn gair, yr achos yw, dy fod hyd yn hyn dan lywodraeth syniad *cnawdol*, yr hyn, pa beth bynag o ffurf duwioldeb a gymero, ac a brofleso rai gweithiau, sydd er hyny yn *elyniaeth yn erbyn Duw, ac nid yw yn ddarostyngedig i ddeddf Duw, ac ni all chwaith*, Rhuf. 8. 7. Ac am hyny yr wyt yn nghyflwr y trueniaid hyny, am ba rai y dywedodd ein Harglwydd yn nyddiau ei gnawd, ni *fynwch ddyfod ataf fi fel y caffoch fywyd* (Ioan 4. 40.); am hyny *y byddwch feirw yn eich pechodau*, Ioan 8. 24.

8. Ni welaf fi yr ateb efe un dyben yn yr *achos hwn*, i mi adnewyddu yr ymresymiadau a'r erfyniadau, pa rai a arferais yn y pennodau o'r blaen. Fel y dywedodd ein Prynwr bendigedig am y sawl a wrthodent yr efengyl, *Chwi a welsoch ac a'm casasoch i a'm Tad hefyd* (Ioan 15. 24.); felly y gallaf finau ddywedyd am danat ti; mi a ddangosais i ti Grist a'r Tad, yn y geiriau a'r modd egluraf; dangosais y rhwymau yr ydwyt danynt i'r naill a'r llall; gosodais ger dy fron dy euogrwydd a'th farnedigaeth; mi a'th gyfeiriais at yr unig feddyginiaeth; mi a'th gyfeiriais at y Graig, ar ba un yr adeiledais i fy ngobaith tragywyddol, a'r unig ffordd

Digitized by Google

trwy ba un yr wyf yn dysgwyl iachawdwriaeth. Mi a orchymynais i ti y pethau hyny, pa rai os rhydd Duw y cyfleusdra, a orchymynaf yn y modd mwyaf difrifol a serchiadol, i'm plant, a'm holl gyfeillion anwylaf ar y ddaear, hyd yn oed yn wyneb angau; gan gyfrif hyny yr arwydd goreu o'm cyfeillgarwch, a'r prawf mwyaf sicr o'm cariad atynt. Ac os gan gredu bod yr efengyl yn wir, yr wyt yn bwriadu ei *gwrthod*, nid oes genyf ond dy adael i ddysgwyl y *canlyniad*. Er hyny, fel y bu i Moses, pan yr ydoedd yn myned allan y tro diweddaf o bresenoldeb Pharaoh, ac yn gweled ei galon ef yn ymgaledu fwy-fwy trwy y barnedigaethau a'r gwaredigaethau a gyfarfuasent âg ef gynt, gyhoeddi iddo fwriad *Duw i dramwy trwy y tir* mewn modd dychrynadwy *i daro y cyntaf-anedig ag angau*, a'i rybuddio ef o'r alarus lef, yr hon a barai cleddyf yr angel dinystriol ei chyfodi trwy ei holl deyrnas, Ecsod. 11. 4—6. Felly finau, O bechadur, gan fy mod yn awr yn dy adael, a lefaraf eto yn mhellach wrthyt, *gwrando neu baid* (Ezec. 2. 7.); ac mi a gyhoeddaf y farn hòno ag sydd yn llawer mwy ofnadwy, pa un y mae *cleddyf dialedd Duw* eisioes wedi ei hogi, ei dynu, a'i drochi, megys yn y nef (Esay 34. 5.) yn barotoi ar dy gyfer; barn pa un a ddybena mewn gwaedd llawer mwy ofnadwy, na'r waedd hòno yn yr Aifft, er bod o honot yn fwy dy anrhydedd, ac yn fwy ystyfnig, na'r penadur balch hwnw! Ië, O bechadur, fel y gallwyf, gyda yr apostol Paul, pan yn troi at ereill, ag sy yn fwy tebyg i wrando arnaf, *ysgwyd fy nillad a dywedyd, Glân ydwyf fi oddiwrth dy waed* (Actau 18. 6.); mi a ddywedaf wrthyt unwaith eto *pa beth fydd diwedd y pethau hyn*. Ac, O na allwn lefaru yn effeithiol! O na allwn daranu yn dy glustiau yn y fath fodd uchel a dychrynadwy, ag a barai i ti ddeffroi; yn rhy uchel i gael ei foddi

Digitized by Google

gan swn llawenydd cnawdol, neu ei farweiddio gan y pethau peryglus trwy ba rai yr ydwyt yn ceisio syfrdanu cydwybod!

9. Ymofyn y digrifon a'r gwleddoedd a fynech, O bechadur, yr wyf yn dywedyd i ti, pe byddit gymaint mewn urddas, gallu, ac ardderchogrwydd ac archdeyrn Babilon, "y disgyn dy falchder i'r bedd, a thrwst dy nablau; tanat y taenir pryf, pryfed hefyd a'th doant," Esay 14. 11. Ië, bechadur, "diwedd y pethau hyn yw *marwolaeth*" (Rhuf. 6. 21.), marwolaeth yn yr ystyr mwyaf ofnadwy i ti, os parhei yn y dymer hon ag sy yn awr yn dy lywodraethu. Mae yn bosibl i ti ei gochelyd; ac nis cei di ei hanghofio os yw bosibl dy atal trwy unrhyw beth a allaf fi ei ddywedyd. Nid yw dy *gryfdwr* yn gryfdwr cerig, ac nid yw dy *gnawd o bres*, Job 6. 12. Yr ydwyt ti yn agored i glefydau, yn gystal ag ereill; ac os na thorir di i lawr trwy angau disyfed, ceir gweled ar fyr, pa mor wrol yr ymddygi ar wely marwolaeth, ac mewn golwg agos ar dragywyddoldeb. Tydi, yr hwn wyt yn awr yn diystyru *Crist* a'i efengyl, a welir ar fyr yn llesgâu ac yn ymollwng; dy flas ar dy bleserau cnawdol a'th gyfeillion ofer, a dderfydd. Ac os bydd i un neu chwaneg o honynt ddyfod atat yn benuchel, ac mewn modd anifeilaidd a chreulon geisio difyru dyn marwol â rhyw chwedl lawen, neu gellwair halogedig, ceir gweled pa mor ddymunol fydd y fath bethau yn dy olwg. Ceir gweled y pryd hwnw pa ryw gysur fydd i ti edrych yn ol ar dy fuchedd gynt; a pha obaith wrth edrych yn mlaen ar yr hyn sydd eto i ddyfod. Mae yn bosibl y byddi y pryd hwnw mewn syndod, ac yn ymofyn yn grynedig, mewn modd syml, pa beth i *wneyd i fod yn gadwedig;* gan alw am *weinidogion Crist*, y rhai a ddibrisiaist am eu *difrifwch*, ..isio achub dy enaid; ac er hyn, efallai, yn syrthio

Digitized by Google

i ymleferydd neu lewygon marwol cyn y gallo un ddyfod atat. Ceir dy weled, o bosibl, mewn afiechyd hir yn gwenieithio i ti dy hun, gan ddywedyd, y bydd i ti er hyn oll iachau; ac felly yn rhoddi heibio bob rhyw fyfyrdod syml, ac ymddyddan crefyddol, rhag ofn dy wneyd trwy hyny yn isel dy ysbrydoedd. Meddygon a'th gyfeillion trwy gymwynas greulon, fel pe baent mewn cyngrair â Satan er mwyn gwneyd dystryw dy enaid mor sicr ag sy bosibl, a allant geisio cynal yn mlaen y cyfryw dwyll angeuol.

10. Ac os dygwydd un o'r pethau hyn, hyny yw, yn fyr, os na bydd i weithred wyrthiol o ras dy gipio fel pentewyn o'r gyneu dân, fflamiau yr hwn, megys, a ddechreuasant afaelu eisioes ynot; nid yw yr holl amgylchiadau galarus perthynol i ystafelloedd afiechyd a gwely angau, ond rhagarwyddion o bethau tragywyddol mwy ofnadwy. O pwy a all roddi darluniad o honynt! Pwy a all eu dychymygu! Pan fyddo dy gyfeillion byw yn galaru yn dyner uwchben y corff difffûn, ac yn cymeryd cenad hoff oddiwrtho cyn ei osod i bydru yn y *bedd* tywyll a dystaw, i ba ddwylaw, O bechadur, y syrthia dy *enaid!* Pa ryw ymddangosiadau a agorant o flaen dy ysbryd, cyn y byddo i'r cnawd a adawodd *oeri*, neu i lygaid tywyll gael eu canad! Y pryd hwnw dy enaid a ddeall beth yw *dychwelyd at Dduw*, i gael ei wrthod ganddo, am i ti wrthod ei efengyl a'i Fab ef, a diystyru yr *unig drefn* o gymod, yr hon oedd mor hynod ostyngedig a grasol. Y pryd hwnw y cai di wybod, pa beth yw cael dy ddiarddel gan *Grist*, yr hwn ni fynit ei dderbyn i'th galon; a pha beth (fel canlyniad sicr a ddiatreg o hyny) yw cael dy adael yn nwylaw ysbrydion drwg uffern. Ni bydd dim *cyfeillgarwch* mwy: ni bydd neb i'th gysuro, neb i ysgafnhau dy ing a'th drueni: ond i'r gwrthwyneb, *pawb* o'th amgylch a ym-

Digitized by Google

drechant eu trymhau a'u chwanegu. Rhaid i ti dreulio y blynyddoedd rhwng angau a'r adgyfodiad, mewn rhyw ddysgwyl ofnadwy, ac mewn bloeddiadau chwerwon dan euogrwydd a dychryn: ac yna cai glywed udgorn yr *archangel*, yn mha ogof bynag o'r byd tywyll y byddych. Ei swn a dreiddia trwy dy garchar; ac er mor alaethus ac erchyll y byddo, dymunit er hyny, gael aros ynddo er mwyn cuddio dy *ben euog*, yn hytrach na'i ddangos o flaen wyneb y Barnwr ofnadwy hwnw, oddiwrth ba un y bydd y *nefoedd a'r ddaear yn ffoi ymaith*, Dat. 20. 11. Ond rhaid fydd i ti ddyfod allan, a chael dy ailuno â chorff yn awr wedi ei wneyd yn gymwys i ddyoddef dros byth y fath *boenau*, pa rai yn y cyflwr marwol hwn a'i dryllient mewn *munudyn*. Nis mynit ddyfod at Grist o'r blaen: ond yr oeddit mewn modd syn yn ei esgeuluso ef, a hyny yn wrthwyneb i reswm, cydwybod, a gwahoddiadau mwyaf tyner yr efengyl, yn nghyd â rhybuddion parhaus ei gweinidogion mwyaf ffyddlon. Ond yn awr, O bechadur, rhaid i ti ddyfod wyneb yn wyneb ag ef, os gellir galw y cyfarfod hwnw felly, yn mha un nis meiddi gyfodi dy ben i edrych yn wyneb dy Farnwr ofnadwy anymbilgar. Yno o leiaf, pa mor bell bynag y buom oddiwrth y naill a'r llall o ran *amser*, a *lleoedd ein preswylfod*, cawn gyfarfod, a gweled pa mor wrol y *pery dy galon*, a pha mor *gryf fydd dy ddwylaw, pan fyddo i'r Arglwydd wneuthur hyn*, Ezec. 22. 14. Y pryd hwnw y caf fi dy weled, O ddarllenydd, pwy bynag wyt ag sy yn myned yn mlaen yn dy anedifeirwch, yn mysg miloedd a degau o filoedd o drueiniaid diobaith, yn grynedig ac wedi dy orchuddio gan gywilydd. Pryd hwnw y caf glywed dy floedd yn mysg ereill, yn hollti hyd yn oed y nefoedd, ond yn *ofer* oll. Canys y Barnwr a gyfyd oddiar orsedd barn yn y fath fawredd brenhinol, ac a'th âd di i gael dy yru

Digitized by Google

ar ffrwst i'r *llosgfeydd tragywyddol*, i ba rai y barnodd ei ddialedd cyfiawn ef di, am nas *mynasit* gael dy achub rhagddynt. Wedi hyn, uffern a gaua ei safn arnat dros *byth*, ac *adsain* dy lefau a'th riddfanau ni chlywir mwy yn mysg *caniadau* y nefoedd, gan neb o'r sawl a gânt *drugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw*.

11. Dyma, yn ddiamheuol, fydd *diwedd* y pethau hyn: ac megys cristion, yr ydwyt ti yn proffesu gwybod a chredu hyn oll. Mae y cyfryw bethau yn cyffroi fy nghalon i o leiaf, os na bydd i ti gael dy effeithio ganddynt. Yr wyf yn hollol gredu, y bydd i bob un a dderbynio iachawdwriaeth a gogoniant, ddwyn cymaint o ddelw yr Iachawdwr, mewn doethineb a daioni, mewn zel dros Dduw, a gwir ymgais i ddwyn yn mlaen hapusrwydd yr holl greadigaeth, fel y bydd yn abl edrych ar yr olwg alarus hon, gyda chydsyniad tawel, heb un cynhyrfiad poenus yn y meddwl. Ond yr ydwyf fi eto yn meddiannu *cig a gwaed;* ac am hyny *fy ymysgaroedd a gythryblwyd*, a'm llygaid a ddiferasant gan ofid, wrth feddwl am bechaduriaid truenus, ag na thosturiant wrth eu heneidiau anfarwol eu hunain; wrth feddwl eu bod mewn modd ystyfnig, yn wrthwyneb i bob rhyw rybuddion, yn *rhedeg* i ddystryw tragywyddol. Ni ateb efe un dyben yma i chwanegu *gweddi* neu *fyfyrdod* er mwyn i ti ei defnyddio. O greadur tlawd, nid wyt ti yn foddlon i fyfyrio! Ac nis gwnai weddio! Eto fel ag y tywalltais fy nghalon lawer gwaith mewn gweddi dros gyfaill wrth farw, pan yr oedd grym ei glefyd yn ei wneyd ef yn anghymwys i gyduno â mi; felly mi a drof fy hun at Dduw ar dy ran di, O greadur anhapus! Ac os ffieiddi hyd yn oed ddarllen yr hyn y mae fy nhosturi yn adrodd; eto gobeithiaf y bydd i'r sawl a deimlant allu yr efengyl ar eu heneidiau eu hunain, (megys na allant lai na



Digitized by Google

thosturio wrth y fath ag wyt ti) gyduno â mi yn y fath orfyniadau calonog a hyn er yn annhrefnus.

*Gweddi yn achos Pechadur anedifeiriol, yn y cyflwr a ddarluniwyd uchod.*

Hollalluog Dduw! "gyda thi pob peth sydd bosibl," (Mat. 19. 26.): atat ti gan hyny yr wyf yn cyfeirio fy ngweddi ar ran yr enaid anwyl ac anfarwol hwn, ag sydd yn ymgaledu yn erbyn yr efengyl dragywyddol, pa un a fu yn *allu Duw er iachawdwriaeth* miloedd a myrddiynau; ac felly trwy ei bechodau, sydd ar y ffordd i golledigaeth. Wele, yr ydwyt ti yn dyst, O Dduw bendigedig, yr ydwyt ti yn dyst o'r eglurdeb a'r symlrwydd gyda pha rai y traddodais fy nghenadwri. Ger dy fron di yr ysgrifenais y geiriau arswydus hyn; ac yn dy bresenoldeb di y darllenwyd hwynt. Boed da yn dy olwg gan hyny ysgrifenu yn llyfr dy goffadwriaeth, os bydd i'r dyn *anwir* hwn farw yn ei *anwiredd*, wedi ei rybuddio mewn modd mor brysur ac eglur, *na bo ei waed ef yn cael ei ofyn ar fy llaw i*, (Ezec. 33. 8, 9.), nac ar law y cyfaill cristionogol hwnw, pwy bynag a fo, ag a allo roddi y llyfr hwn iddo, o wir ddymuniad i ddwyn oddiamgylch iachawdwriaeth ei enaid. Bydd dyst, O *Iesu* bendigedig, *yn y dydd y barnech ddirgeloedd dynion*, (Rhuf. 2. 16.), i'th efengyl gael ei phregethu i'r dyn truenus hwn a galedwyd, ac i iachawdwriaeth yn dy waed gael ei chynyg iddo, er iddo barhau i'w dibrisio. A boed dy genad annheilwng *yn ber arogl Crist* i'r enaid hwn, er bod o hono yn *golledig* yn y diwedd! 2 Cor. 2. 15.

Ond, O na ryngai bodd i ti, wedi ei holl galedwch a'i anedifeirwch, trwy allu anorchfygol dy ras effeithiol, ei ddeffroi a'i ddychwelyd ef! Da y gwyddom y

Digitized by Google

gelli di, O Arglwydd mawr, yr hwn a wnaethost yr enaid, beri i *gleddyf argyhoeddiad* agosâu ato a'i drywanu. O na byddai i ti yn dy gariad a'th ddoethineb anfeidrol drefnu ffordd i achub y pechadur hwn rhag angau; ïe, rhag marwolaeth dragywyddol! O na byddai i ti yn ddiatreg ei achub! Ti a wyddost, O Dduw, ei fod ef yn greadur marwol: ti a wyddost gan hyny, os oes dim ag a ellir wneyd ar ei ran, fod yn rhaid ei wneuthur ar *frys:* gweli fod mannd wedi ei nodi yn llyfr dy *arfaethau* doeth a grasol, yn mha un y sefydlir ef yn ei gyflwr anghyfnewidiol; o na afaelit ynddo, tra fo *yn nghymdeithas y rhai byw*, a thra bo *gobaith*, Preg. 9. 4. Ni chaniata dy gyfreithiau anghyfnewidiol, wrth reol pa rai y mae gras yn cael ei weinidogaethu, i enaid gael ei ddychwelyd a'i adnewyddu, wedi myned i'r byd anweledig: o boed i'th ysbryd santaidd weithredu gan hyny, tra y mae, megys, o fewn cylch ei weithrediadau! Gweithreda, O Dduw, yn y modd ag y byddo boddlon genyt; ond yn unig cymer drugaredd arno! O Arglwydd, cymer drugaredd arno, fel na soddo i waelodion damnedigaeth a dystryw, ar gyffiniau pa rai y mae yn ymddangos yr awr hon! O na ddygit ef, (os yw yn angenrheidiol, ac os dyna y ffordd gymwysaf yn dy olwg,) trwy waelodion blinfyd a gorthrymder! O na byddai iddo, fel *Manasseh*, gael ei ddal mewn *dyrysni;* llwyther ef â chadwynau cystudd, os bydd hyny yn foddion i'w ddwyn i ymofyn am Dduw ei dadau, 2 Cron. 33. 11, 12. Ond nid wyf fi yn pennodi i'th anfeidrol ddoethineb; canys ti a amlygaist dy *allu* yn y fath fodd rhyfedd a gogoneddus, fel yr wyf yn rhwym i ddiolch i ti am i mi gael ei brofi mor neillduol; oblegid trwy hyn cadarnhawyd fi yn erbyn *coel byrbwyll* y sawl a ddywedant yn ddisail ac yn rhyfygus, fod y cyfryw beth

yn *anmhosibl*, er ei fod mewn gwirionedd *wedi ei wneuthur*. Mi a wn i ti wneuthur gwaith yn y dirgel trwy un weithred o eiddo y meddwl, pan yr oedd y dyn hapus a ddychwelwyd felly yn mhell oddiwrth foddion ac ordinhadau, yr hyn ni allodd y rhybuddion mwyaf arswydus, yr erfyniadau mwyaf tyner, y trallodion mwyaf ofnadwy, na'r gwaredigaethau mwyaf rhyfeddol, ei wneuthur.

Gogonedda dy enw, O Arglwydd, a gogonedda dy ras, yn y ffordd y gwelo dy anfeidrol ddoethineb yn fwyaf addas! Yn unig dyro, yr wyf yn atolwg, gydag ymostyngiad isel i'th ewyllys, i'r pechadur hwn gael ei gadw! Neu os amgen, na byddo i'r llafur hwn o'm heiddo fyned oll yn ofer; ond er i rai ei wrthod, ac felly gwneyd eu dystryw yn drymach, y bo i ereill wrando, a byw! Dyro i'th weision hyny a ymdrechasant i ddwyn oddiamgylch eu gwaredigaeth a'u hapusrwydd, eu gweled hwynt yn ardaloedd gwynfyd, fel ysglyfaeth, â pha rai yr anrhydeddaist hwynt fel offerynau o'u dychweliad; ac i uno â hwynt yn *nghaniadau* y nefoedd, gan ddywedyd, *Iddo ef yr hwn a'n carodd ac a'n golchodd oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni* (y rhai oeddym yn wrthryfelwyr damniol ac yn bechaduriaid aflan a melldigedig) *yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw; iddo ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd.* Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XII.

## GAIR AT YR ENAID A WASGWYD I LAWR YN Y FATH FODD, GAN DEIMLAD O FAWREDD EI BECHODAU, FEL NAS DICHON DDYFOD AT GRIST GYDAG UNRHYW OBAITH AM GAEL IACHAWDWRIAETH.

**Desgrifiad helaeth o'r amgylchiad, Dosparth 1—4. Fel y mae yn dygwydd yn fynych, 5. Gan ganiatau y cwbl a all enaid proddaidd ei osod i'w erbyn ei hun, 6. Mae gwahoddiadau ac addewidion Crist yn rhoi gobaith, 7. Y darllenydd yn cael ei anog dan ei holl feichiau a'i ofnau, i ddyfod yn ostyngedig ato ef, 8. Yr hyn yn ganlynol a eglurir yn yr adfyfyrdod a'r weddi yn y diwedd.**

1. Gan fy mod wedi darfod â'r creaduriaid anbapus hyny, pa rai sydd yn dibrisio ac yn esgeuluso yr efengyl; yr wyf yn troi gyda phleser at y cyfryw ag a wrandawant arnaf yn fwy parchus. Yn mysg yr amrywiol achosion ag sydd yn ymgynyg i fy meddwl yr awr hon, ac yn galw am fy nhyner, caredigol, a'm parchus ofal, nid oes un yn deilwng o fwy o dosturi, na'r hwn a enwais yn *nhitl* y bennod hon; nid oes un yn gofyn ymdrech mwy diatreg i'r dyben o geisio cyfranu cysur iddo.

2. Mae yn bosibl fod rhai creaduriaid trallodedig yn barod i waeddi allan, 'Digon yw: na chwanegwch drymhau fy ngofid a'm trallod, ond hyny. Y farn y buoch yn ei darlunio mor ofnadwy, yr hon a gaiff ei rhoddi a'i chyflawni ar yr anghredíniol a'r anedifeiriol, yw y farn a berthyn i mi; a'i dychrynfäau ydynt fy ofnau i. Canys fy mhechodau a gyrhaeddasant hyd y nefoedd, a'm hanwireddau hyd y cymylau, Dat. 18. 5. Mae fy nghyflwr yn neillduol athrist. Sicr yw na fu erioed bechadur mwy na myfi. Mi a dderbyniais gy-



Digitized by Google

nifer o fendithion, mwynheais gynifer o ragorfreintiau, clywais gynifer o wahoddedigaethau grasol yr efengyl; ac eto fy nghalon a barhaodd mor galed, a'm hanian sydd mor bechadurus, rhifedi fy mhechodau a'm hamgylchiadau ydynt o'r fath, fel na feiddiaf *obeithio*. Digon yw i Dduw fy nghynal i hyd yn hyn; digon yw fy mod i ar ol treulio cynifer o flynyddoedd mewn anwiredd, allan o uffern. Yr arbediad o ddydd i ddydd sydd yn drugaredd fawr; wrth feddwl am hа un, yr wyf yn synu! Yr wyf yn gorwedd i lawr, ac yn rhyfeddu na buasai marwolaeth a damnedigaeth wedi fy ngorddiwes yn fy ffyrdd y dydd a aeth heibio. Yr wyf yn cyfodi ac yn synu na buasai fy ngwely wedi ei wneyd yn fedd i mi; na buasai fy enaid wedi ei neillduo oddiwrth fy nghnawd, ac wedi ei amgylchynu cyn hyn gan gythreuliaid ac ysbrydion damnedig!

3. Mi a glywais y genadwri o iachawdwriaeth; ond nid oedd yn ymddangos yn genadwri o iachawdwriaeth i mi. Y mae rhai eneidiau hapus, ac y mae ganddynt obaith; ac y mae eu gobaith yn wir yn Nghrist, a gras Duw, yr hwn a amlygwyd ynddo ef. Ond maent hwy yn teimlo anogaethau, yn eu calonau i agosâu ato ef, yr hyn nis beiddiaf fi. Crist a gras sydd bethau ym mha rai yr wyf yn ofni, nad oes i mi gyfran yr awr hon, na lle i ddysgwyl y bydd byth. Y mae addewidion mawr iawn a gwerthfawr yn ngair Duw; ond y maent i mi fel llyfr seliedig, ac wedi eu cuddio oddiwrthyf *fi* o ran un defnydd personol a allaf wneuthur â hwynt. Mi a wn y gall Crist *achub*: ac mi a wn ei fod ef yn *foddlon* i achub *rhai*. Ond nis gwn pa fodd y gallaf gredu ei fod ef yn foddlon i'm hachub *i*, y fath greadur aflan a phechadurus, ag y mae Duw a chydwybod yn weled a fum i; ïe, ag wyf hyd y dydd hwn; ni wn pa fodd i gredu hyn: a'r hyn oll a allaf ei wneuthur er mwyn credu hyn yw, cyfaddef nad yw

yn gwbl anmhosibl, ac nad wyf eto, yn gorwedd mewn cyflawn anobaith: er fy mod hyd yn oed ar y cyffiniau; ac yn dysgwyl bob dydd ac awr i syrthio iddo.'

4. Ni buaswn, o bosibl, yn sylwi mor fanwl ar y cyflwr hwn, oni buasai i mi weled llawer ynddo; ac mi a chwanegaf ddywedyd er dy anogaeth di, O ddarllenydd, os dyma yw dy gyflwr di, i mi weled llawer ynddo, ag sy yn *awr* yn rhifedi y cristionogion mwyaf sefydlog, cysurus, a defnyddiol. Ac mi a obeithiaf y bydd i ras dwyfol dy wneyd di yn un o honynt, os bydd i ti ond gallu *llefain* o'r dyfnderoedd hyn ar *Dduw*, Salm, 130. 10.); ac er dy fod yn ymddangos fel Jonah wedi dy fwrw allan o'i bresenoldeb ef, i ti er hyny gyda Jonah allu *edrych tu a'i deml santaidd*, Jonah 2. 4.

5. Na thybia fy mod wrth geisio dy *resymu* di allan o'r cyflwr anghysurus hwn, yn dibrisio yr Ysbryd santtaidd, swydd pa un yw bod y *Diddanydd* mawr: canys, fel ffynon fawr o *reswm*, y mae efe yn gweithredu ar greaduriaid rhesymol; ac yn yr ymarferiad o foddion rhesymol, ac ystyriaethau, y mae yn fwyaf cymwys i ddysgwyl y bydd iddo weithredu. Caniata i mi gyfeirio fy ymadrodd atat, gan hyny, mewn modd difrifol, a gofyn, pa reswm sydd genyt i roddi dros yr achwyniadau ewydwyllt hyn yn dy erbyn dy hunan? Pa reswm sydd genyt i ddywedyd fod dy *gyflwr* di yn waeth nac eiddo neb; pan mae cynifer yn dywedyd iddynt deimlo yr unrhyw bethau? Beth yw dy reswm i farnu mor galed am danat dy hun, gan fod yr efengyl yn llefaru mewn geiriau mor rasol? Neu paham yr wyt yn barnu nad yw y pethau grasol am ba rai y mae hi yn sôn, wedi eu trefnu er dy fwyn di? Gwyddost fwy yn sicr am lygredigaethau dy galon dy hun, nac am galonau ereill; ac yr wyt yn barod i roddi mil o esgusodion caredigol dros eu beiau a'u gwendidau amlwg hwynt, y rhai nis

Digitized by Google

gwnai dros yr eiddot dy hun. Ac y mae yn bosibl fod rhai o'r sawl ag wyt ti yn eu golygu yn seintiau rhagorol, wrth gymharu eu hunain â thi, yn ymostwng i'r llwch o flaen Duw, fel rhai yn gwbl annheilwng o gael eu cyfrif yn mysg y gwaelaf o'i bobl ef; ac yn dymuno eu bod yn debyg i ti, ym mha un y maent yn meddwl eu bod yn gweled llawer mwy o ddaioni a llawer llai o ddrwg nac a welant ynddynt eu hunain.

6. Ond, i dybied y gwaethaf, beth pe byddit mewn gwirionedd y pechadur mwyaf ffiaidd a fu erioed ar wyneb y ddaear? Beth os bu i'th *bechodau gyrhaeddyd bob dydd hyd y nef, a'th anwireddau hyd y cymylau* (Dat. 18. 5.); gyrhaeddyd yno wedi eu trymhau yn y fath fodd, fel y buasai yn rhesymol i ddaear a nefoedd dy ffieiddio, fel yr anghenfil gwaethaf mewn annuwioldeb? Er addef hyn oll, *a oes dim yn anhawdd i'r Arglwydd*, Gen. 18. 14.? A oes rhyw bechodau am ba rai y gall pechadur fod yn edifarus, o'r fath liw dwfn, fel na all *gwaed Crist* eu golchi ymaith? Er y byddai yn anwiredd dirfawr ac yn ynfydrwydd creulon, i neb *bechu fel yr amlhao gras* (Rhuf. 6. 1.), eto pe bai rhif dy bechodau uwchlaw yr hyn oll ag a faddeuodd gras dwyfol hyd yma, pwy a all roddi *terfyn i Sanct yr Israel*? Salm 78. 41. Neu pwy a gymer arno ddywedyd, nad yw yn bosibl i Dduw dy ddewis di o blith eraill, *o herwydd dy fawr drueni*, i'r dyben i fod yn *goffadwriaeth o drugaredd*, ac yn arwydd buddugoliaethol o ras digymar? Mae yr apostol *Paul* mewn modd cadarn yn mynegi mai felly y bu mewn perthynas iddo ef: a phaham na elli di, er bod o honot y *penaf* o bechaduriaid, gael *trugaredd*, fel ynot ti, *y penaf o bechaduriaid*, y gall *Iesu Grist ddangos pob hiroddef, er siampl i'r rhai a gredant rhagllaw ynddo ef i fywyd tragywyddol*? 1 Tim. 1. 26.

Digitized by Google

7. Er mor ddrwgdybus wyt, mi a chwennychwn ofyn i ti yn eglur, a wyt ti yn dy gydwybod yn meddwl nad yw Crist yn *abl i'th achub di?* Beth, onid yw efe yn *abl i achub hyd yr eithaf, y rhai trwyddo ef sy yn dyfod at Dduw?* Heb. 7. 25. Yr wyt yn addef ei fod yn ddigon abl, ond ni elli gredu ei fod ef yn foddlon! Pa fodd y gwyddost nad yw? Efe a gynorthwyodd y pechaduriaid mwyaf ag a ddaethant ato hyd yn hyn: ac efe a wnaeth gynygiad o ras ac iachawdwriaeth ar y teleran mwyaf dymunol ac anogaethol, gan ddywedyd, "Od oes ar neb syched, deued ataf fi ac yfed (Ioan 7. 37.): a'r hwn sydd a syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered o ddwfr y bywyd yn rhad (Dat. 22. 17.): deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog a llwythog, a mi a esmwythaf arnoch" (Mat. 11. 28): ac un peth yn chwaneg, "a'r hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim," Ioan 6. 37. Gwir, yr wyt yn barod i ateb, ni fwrw efe un allan o'r hyn oll y mae y Tad yn ei roddi iddo; a phe gwypwn fy mod i yn un o'r rhifedi hyny, yna mi a allwn ddyfod ato yn llawen. O ddarllenydd, mi a atolygaf arnat i edrych i'r testun ei hun, a gwel a oes yno y fath derfyniad. A wyt ti yn darllain yno, nis bwriaf allan un o'r sawl a roddodd y Tad i mi? Mae y geiriau wedi eu rhoddi mewn modd llawer mwy anogaethol: paham gan hyny y dianrhydeddi ei ddoethineb a'i ddaioni, trwy y fath chwanegiad o'th eiddo dy hun? "Na ddyro ddim at ei eiriau ef, rhag iddo dy geryddu," Diar. 30. 9. Cymer hwynt fel y maent, ac yf y cysur y maent yn gynyg. Fe wyddai ein Harglwydd i ba ryw gyfyng-gyngor y byddai yn bosibl i rai meddyliau syml gael eu taflu trwy yr hyn a ddywedodd o'r blaen, "Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi i mi, a ddaw ataf fi;" ac, am hyny, megys, i'r diben o'u dal i'r lan, y mae y geiriau grasol hyn wedi eu

Digitized by Google

chwanegu, yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim, mewn un modd, ar unrhyw gyfrif yn y byd.

8. Os wyt ti, gan hyny, wedi dy wangaloni a'th ddychrynu trwy olwg ar fawredd dy bechodau, na chwanega at eu pwys a'u rhif yr un hwnw, sy yn fwy ac yn waeth na'r lleill oll, sef amheuaeth o ffyddlondeb a gras y Prynwr bendigedig. Na wrthwyneba ddybenion ei gariad tuag atat. O enaid trallodedig, pwy yr wyt yn ei ofni? Pwy yw yr hwn yr wyt yn crynu wrth feddwl am agosâu ato? A oes rhyw beth dychrynadwy yn y Prynwr croeshoeliedig, yn yr Oen a laddwyd? Os dygi dy enaid ag sy mron soddi dan y baich o euogrwydd, i gael ei roddi i lawr wrth ei draed ef; pa beth wyt yn ei roddi, ond yr yspail y gwaedodd ac y bu efe farw er mwyn ei feddiannu a'i achub? Ac a brynodd efe mor ddrud, er mwyn ei wrthod mewn modd dirmygus? Dos ato, yn ddiatreg, a chwympa yn ei bresenoldeb, a dadleu dy gyflwr truenus, yr hwn yn awr a fuost yn ddadleu yn dy erbyn dy hun, fel anogaeth i'th enaid i ddynesu ato, ac fel rheswm i gyffroi y Gwaredwr tosturiol i'th dderbyn di. Dos, gan wir gredu, "lle yr amlhaodd pechod, y bydd i ras ragoramlhau," Rhuf. 5. 20. Bydd sicr o hyn, sef, os gall unrhyw bechadur addo iddo ei hun, dderbyniad mwy sicr a chroesawus nac arall, mai nid yr un lleiaf euog a thruenus yw; ond yr hwn sydd wedi ei ddarostwng fwyaf dan deimlad o'r trueni a'r euogrwydd hyny, ag sy yn gorwedd isolaf yn yr ystyriaeth o honynt.

*Myfyrdodau y Pechadur ar yr anogaethau uchod, yn dybenu mewn dyfodiad difrifol a gostyngedig at Grist am drugaredd.*

O fy enaid, pa beth a ddywedi am y pethau hyn? ...id oes o leiaf bosiblrwydd i gael cymorth trwy

Digitized by Google

Grist? Ac a oes posiblrwydd o gymorth yn unrhyw ffordd arall? A oes enw arall dan y nef wedi ei roddi, trwy yr hwn y mae yn rhaid i mi fod yn gadwedig? Mi a wn nad oes, Actau 4. 12. Rhaid i mi gan hyny ddywedyd, fel y gwahangleifion yn Israel, "Os trigaf yma, mi a fyddaf marw: ac os ofer yr ymofynaf am drugaredd, ni bydd i mi ond marw," 2 Bren. 7. 4. Fe allai y bydd iddo gadw yn fyw fy enaid; am hyny mi a gyfodaf, ac a âf ato; neu yn hytrach gan gredu ei fod ef yma trwy ei bresenoldeb ysbrydol, er mor bechadurus a thruenus ydwyf, mi a syrthiaf ar fy wyneb y funud hon o'i flaen ef, ac a dywalltaf fy enaid ger ei fron.

O Iesu bendigedig, yr wyf yn rhoddi fy hunan i ti, fel creadur truenus, ag a yrwyd gan angenrheidrwydd i wneuthur felly. Ac oni buasai fy angenrheidrwydd mawr, ni allaswn gan gywilydd ymddangos yn dy bresenoldeb gogoneddus a santaidd. Yr wyf wedi cael fy argyhoeddi yn drwyadl, fod fy ynfydrwydd a'm pechodau yn fawr ac anesgusodol; yn fwy nac y gallaf ddywedyd na meddwl. Yr wyf yn teimlo ffynon o bechod yn fy natur ddirywiedig ac aflan, yr hon sy yn bwrw allan anwiredd, fel y mae ffynon yn bwrw allan ei dwfr, ac yn fy ngwneuthur yn faich a dychryn i mi fy hun. Mae fy mhechodau wedi trymhau yn y fath fodd, fel yr ymddengys fel yn rhyfyg, i mi gymaint a gofyn maddeuant am danynt. Ac eto, oni byddai yn fwy o ryfyg i ddywedyd eu bod yn fwy na dy drugaredd di, a rhinwedd dy waed di; i ddywedyd fod genyt ddigon o allu ac o ras i faddeu ac achub pechaduriaid o radd lai, tra y mae fy math i yn gorwedd allan o'th gyraedd? Gwared fi rhag y fath dyb gableddus! Achub fi rhag y fath ddrwgdybiaeth afresymol! O Arglwydd, ti a elli wneyd pob peth, ac ni atelir un meddwl rhagot ti,

Digitized by Google

Job. 42. 2. Yr ydwyt yn wir, fel y tystia dy air, "yn abl i achub hyd yr eithaf," Heb. 7. 25. Am hyny, gan dori trwy yr holl rwystrau o gywilydd ac ofn, pa rai a fynent fy nghadw oddiwrthyt, yr wyf yn dyfod atat, gan ymostwng megys yn y llwch ger dy fron. "Ti a adwaenost, O Dduw, fy holl ynfydrwydd, ac nid yw fy mhechodau guddiedig rhagot," Salm 69. 5. Ni allaf, ac yr wyf yn gobeithio y gallaf ddywedyd na chwenychwn, eu cuddio rhagot, na rhoddi esgusodion am danynt. Cyhudda fi, O Arglwydd, fel y bo da yn dy olwg; ac mi a addefaf fy hun yn euog o'th holl gyhuddiadau. Mi a addefaf fy hun yn gymaint o bechadur ag y bo da genyt fy ngalw: ond eto pechadur wyf ag sy yn dyfod atat ti i ofyn maddeuant. Os rhaid i mi farw, mi a fynaf farw, mewn ymostyngiad a chyfaddefiad o gyfiawnder y ddyrnod farwol. Os fy ngholli a gaf, mi a afaelaf megys yn nghyrn yr allor; gan ymostwng wrth dy stoldraed di, er bod o honof y fath wrthryfelwr yn erbyn dy frenhiniaeth. Llawer a dderbyniasant gyflawn faddeuant yno; ïe, a gawsant ffafr uwchlaw eu gobaith. Ac a ddarfu dy holl dosturiaethau di, O Iesu bendigedig? A wnai di yn awr wrthod creadur gostyngedig, sy yn rhedeg atat am ei fywyd, ac nad yw yn dadleu dim ond trugaredd a rhad ras? *Cymer drugaredd arnaf*, O drugarocaf Brynwr, *cymer drugaredd arnaf, a bydded fy einioes yn werthfawr yn dy olwg di*, 2 Bren. 1. 14. O na fydded i ti benderfynu fy anfon i wared i'r cyflwr hwnw o drueni ac anobaith tragywyddol, rhag pa un yr arfaethaist yn rasol achub llaweroedd!

O Arglwydd, na fwrw fi allan o'th bresenoldeb, ac na ddigia am fy mod yn anturio ymaflyd yn dy wisg frenhinol, a dywedyd, ni wnaf, ni allaf, dy ollwng ymaith oni'm bendithiech! Gen. 32. 26. O cofia fod fy holl obaith o gaffael gwynfyd tragywyddol, ac o ochelyd

Digitized by Google

dystryw tragywyddol, yn angori ynot ti; mae dy wenau yn fywyd i'm gobaith, ond, wele efe yn marw dan dy ŵg. O, er mwyn fy enaid anfarwol, cymer drugaredd arnaf! Ond os na thrugarhei er mwyn fy enaid i, eto gwna felly er mwyn llawer ereill, pa rai ar y naill law, a allant gael anogaeth oddiwrth dy drugaredd i mi, neu ar y llaw arall, eu mawr glwyfo a'u gwangaloni trwy fy anobaith a'm dystryw! Yr wyf yn atolwg arnat, O Arglwydd, er dy fwyn dy hun, er mwyn amlygu gras rhydd a chyfoethog y Tad. Mi a atolygaf arnat er mwyn y gwaed a gollaist ti ar y groes; yr wyf yn atolwg arnat trwy y cyfamod o ras a heddwch, yr hwn y cytunwyd arno rhyngot ti a'r Tad, er mwyn iachawdwriaeth pechaduriaid edifeiriol a chrediniol, gwared fi! Gwared fi! O Arglwydd, yr hwn wyf yn gwir ddymuno edifarhau a chredu ynot. Gwir yw, mai pechadur wyf, yn nystryw tragywyddol pa un, y mae yn bosibl i'th gyfiawnder gael ei ogoneddu: eto os maddeui i mi fy anwiredd, bydd arwyddnod i gael ei gyfodi er anrhydedd i'th ras, ac effaith dy werthfawr waed, yn gyfatebol i'r gradd o drueni ac o waeledd, yn yr hon yr oedd yr hwn y daeth trugaredd hyd ato, pan oedd yn ymddifad o honi. Llefara, O Arglwydd, trwy dy Ysbryd gogoneddus, fel y byddo i'm holl ofnau gael eu gyru ymaith! Edrych arnaf, gyda gras a chariad yn dy wyneb, a dywed wrthyf, fel wrth lawer gweddiwr gostyngedig gynt yn nyddiau dy gnawd, *Dos mewn heddwch, maddeuwyd i ti dy bechodau.* Amen!



Digitized by Google

# PENNOD XIII.

## YR ENAID AMHEUS YN CAEL EI GYNORTHWYO MEWN MODD MWY NEILLDUOL YN EI YMOFYNIADAU YN NGHYLCH GWIRIONEDD EI FFYDD A'I EDIFEIRWCH.

**Argraffiadau byr eu parhad yn agored i gael eu camgymeryd am droedigaeth, yr hyn a fyddai yn gyfeiliornad angeuol, Dosparth 1. Ffyrdd cyffredinol at hunanymholiad, 2. Ymofyniadau neillduol, (1.) Pa olygiadau a fu am bechod? (2.) Pa olygiadau a fu am Grist? 4. Gyda golwg ar angen yr enaid am dano, 5. A'i barodrwydd i'w dderbyn, gydag ymroddiad priodol o eiddo y galon at ei wasanaeth, 6. Nad oes dim yn fyr o hyn yn ddigon, 7. Yr enaid yn plygu i chwiliad dwyfol gyda golwg ar ddidwyll-edd ei ffydd a'i edifeirwch.**

1. Mewn canlyniad o'r holl bethau difrifol y soniwyd am danynt yn y pennodau o'r blaen, yr wyf yn gobeithio mai nid rhyfyg twyllodrus yw meddwl, y bydd i ryw fath o argraffiadau crefyddol gael eu gwneuthur ar galonau, na theimlasant y cyfryw bethau erioed o'r blaen; neu y cânt eu hadfywio, lle yr oeddynt wedi marweiddio ac oeri. Eto yr wyf yn hollol hysbys, a chwennychwn i tithau fod yn hysbys, o'r perygl mawr sydd mewn *hunan-weniaith*, yn y mater pwysfawr hwn; a pha mor angenrheidiol yw rhybuddio dynion yn erbyn penderfyniad rhy fuan eu bod wedi eu gwir ddychwelyd, am eu bod wedi teimlo cyffroadau cynes ar eu meddyliau, ac am eu bod wedi diwygio o ran pechodau mawrion eu bywyd gynt. Camsyniad yn y peth hwn, a ddichon fod o niwed anfeidrol. Gall fod yn achos o'r heddwch twyllodrus hwnw, ag a bâr i ddyn fendithio ei hunan yn ei galon, gan feddwl ei hun yn ddiogel, tra y mae bygythion a melldithion cyfraith Duw yn swnio yn ei glustiau, ac yn sefyll yn ei erbyn: yn y cyfamser y mae yn cymhwyso ato ei hun fil o

Digitized by Google

addewidion disail, pa rai gan hyny a fyddant iddo fel gwin cadarn i ddyn mewn twymyn, neu ddiod-gwsg i'r hwn fyddo mewn hun-glwyf. Y creig-leoedd a dderbyniasant y gair gyda llawenydd, a chan addo cynhauaf, efe a eginodd yn y man; er hyny gwywodd yn fuan (Mat. 13. 5, 6.), ac ni chafodd un medelwr ei goflaid oddiwrtho. Yn awr rhag mai hyn a all fod dy gyflwr di, rhag i'm holl lafur i a'th eiddo dithau gael eu colli, ac i freuddwyd ofer am ddiogelwch a hapusrwydd dy soddi eto yn ddyfnach mewn trueni a dystryw, caniata i mi dy arwain i chwilio yn ddifrifol gyflwr dy galon; fel y gallech yn well farnu am danat dy hun, a gwybod y gwahaniaeth rhwng bod o fewn i ychydig i deyrnas nefoedd, a dyfod yn wir aelod o honi.

2. Ac y mae hyn yn ymddibynu ar ddiragrithrwydd dy ffydd yn Nghrist, pan y cymerir hi yn ei bystyr helaethaf, fel yr eglurwyd uchod; hyny yw, pan fo yn cynwys edifeirwch a bwriad diysgog o ufudd-dod newydd a thrwyadl, yr hwn, pa le bynag y mae mewn gwirionedd, y mae ffydd yn wreiddyn bywiol o hono. I'r dyben gan hyny i'th gynorthwyo i roddi iawn farn ar gyflwr dy enaid, rho genad i mi i ofyn i ti, neu yn hytrach i ddymuno arnat i ofyn i ti dy hun, pa ryw olygiadau a gefaist, ac wyt yn awr yn gael, ar *bechod* ac ar *Grist?* Pa fath yw dy fwriadau yn nghylch dy fuchedd am yr hyn a all fod yn ol o'th fywyd? Nid ymresymaf fi yn helaeth am y pethau hyn, ond yn hytrach cyfarwyddaf di at yr hyn wyt yn ddarllain ac yn sylwi arno dy hun; ac felly i farnu a yw dy olygiadau ar y cyfryw bethau, yn cydfyned â gair Duw, y rheol fawr wrth yr hon y profir ni oll ar frys, ac wrth ba un y sefydlir ein cyflwr tragywyddol mewn modd anghyfnewidiol.

3. Chwilia yn ddifrifol yn gyntaf, pa ryw olygiadau

Digitized by Google

a gefaist ar bechod, a pha beth a deimlodd dy galon mewn perthynas iddo. Fe fu amser pan yr oedd yn ymddangos yn deg, fel yr oedd dy galon yn cael ei llygad-dynu ganddo, ac yr oedd y cyflawniad o hono yn waith penaf dy fywyd. Ond ti a gefaist wedi hyny dy ddidwyllo. Tydi a'i teimlaist ef yn *brathu fel sarff, ac yn pigo fel neidr,* Diar. 23. 32. Ti a edrychaist arno gyda mwy o ffieidd-dra, nac a roddodd o bleser i ti erioed. Hyd yma y mae pob peth yn dda. Mae pob dyn gwir edifeiriol yn teimlo fel hyn; a rhai nad ydynt, yr wyf yn ofni, o'r nifer hyny. Gad i mi ofyn, gan hyny, yn mhellach i ti, O ba le y cyfododd y casineb hwn? A darddodd efe yn hollol oddiar hunan-gariad? Ai o herwydd i ti gael dy glwyfo ganddo yn unig? A ydwyt ti yn casbau pechod yn unig am iddo ddwyn barn a dystryw ar dy enaid? A oedd dim anharddwch, diffeithder, a drygioni, yn ymddangos ynddo, fel yr oedd yn cael ei gyflawni yn erbyn y Duw bendigedig, fel Bôd gogoneddus, haelionus, a thrugarog? A gefaist ti erioed dy archolli gan olwg ar yr anniolchgarwch gwarthus sydd ynddo? Ac mewn perthynas i'r bwriadau hyny a gyfodasant yn dy galon yn ei erbyn ef, yr wyf yn erfyn arnat i edrych y modd y cawsant eu ffurfio a'u cyflawni. A oeddynt yn helaeth yn erbyn pob pechod? A oeddynt hefyd yn ddianwadal? Ac yn mysg hyn oll, a oeddynt yn fwriadau gostyngedig? Pan gyhoeddaist ryfel yn erbyn pechod, a oedd yn erbyn pob rhyw bechod? A yw yn rhyfel anghymodlon, pa un yr wyt yn fwriadu, trwy ras dwyfol, ei ddwyn yn mlaen hyd oni bo i ti naill ai gorchfygu, neu farw yn yr ymgais? Ac a wyt ti gan hyny yn fywiog yn dy ymdrechiadau, i ddarostwng ac i ladd pechod? Os felly, pa *ffrwythau addas i edifeirwch ydwyt yn eu dwyn*?

Digitized by Google

Luc 3. 8. Gobeithio nad yw y cwbl yn rhedeg ymaith, mewn llifeiriant o dristwch: *A beidiaist ti a gwneuthur drwg?* Ac a *ddysgaist ti wneuthur da?* Esay 16. 17. A ydyw dy ddiwygiad yn dangos dy fod yn edifarhau am dy bechod; neu a ydyw dy syrthiadau o newydd i bechod, yn profi dy fod yn edifarhau, hyd yn oed am yr hyn a elwi yn *edifeirwch?* A oes ynot gasineb mewnol at bob pechod, a zel wirioneddol yn ei erbyn ef? Ac a yw hyny yn peri gofal i wylio yn erbyn yr achlysur o hono, a themtasiynau iddo? A wyt ti yn gwylio rhag yr amgylchiadau ag a fuant yn faglau i ti? Ac a wyt ti yn neillduol yn gwylio yn ddauddyblyg yn erbyn y pechod hwnw ag sydd yn fwyaf *parod* i'th amgylchu? Heb. 12. 1. A wyt ti yn rhoi hwnw heibio, fel y rhedech yr yrfa gristionogol; yn ei roddi heibio trwy y fath fwriad cadarn, na bo i ti ddychwelyd ato mwy, na gwneyd cyfeillach pellach ag ef, na rhoddi un cam mwyach tuag ato?

4. Caniata i mi ofyn hefyd, pa olygiadau sydd genyt ar Grist? Pa beth wyt yn dybied am dano, ac am dy berthynas ag ef? A gefaist ti dy argyhoeddi yn gyflawn, fod yn rhaid sefydlu cyfeillgarwch rhwng dy enaid ag ef? A wyt ti yn gweled ac yn teimlo dy fod yn rhwym, nid yn unig i dalu iddo ef ryw fath o addoliad o hirbell, ac anerchiad darfodedig, fel un doeth, haelionus, a rhagorol, i enw a choffadwriaeth pa un y mae genyt barch; ond hefyd fel y mae efe yn byw ac yn teyrnasu; fel y mae efe bob amser yn agos atat a phob amser yn dy weled di; fod yn rhaid i ti godi dy olygon tuag ato; agoshau at ei orsedd; a dal masnach ag ef; ïe, masnach o'r canlyniad mwyaf, ar ba un y mae dy iachawdwriaeth yn ymddibynu?

5. Ti a ddygwyd i ymofyn, "A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymaf ger bron yr



Digitized by Google

uchel Dduw?" Mic. 6. 6. Ac yr oeddit unwaith, o bosibl, yn meddwl am offrymau o'th eiddo dy hun; ac a wyt ti yn awr yn gweled nad ydynt yn ddigonol, a bod yn rhaid i ti ddyfod at yr *Oen a drefnodd Duw?* A gefaist ti olwg ar yr IESU *yn tynu ymaith bechodau y byd?* Ioan 1. 29. Wedi "ei wneuthur yn bech-aberth drosom ni, er nad adnabu bechod, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef?" 2 Cor. 5. 21. A edrychaist ti arno yn berffaith gyfiawn ynddo ei hun; a chan anobeithio am gyfiawnhad trwy unrhyw gyfiawnder o'th eiddot ti dy hunan, a ymostyngaist ti i gyfiawnder Duw? Rhuf. 10. 3. A gafodd dy galon ei hargyhoeddi o'r gwirionedd pwysfawr hwn, sef, os cai di byth dy achub, y rhaid mai trwy GRIST y bydd hyny? Os estyn Duw drugaredd i ti oll, y rhaid ei bod er ei fwyn ef; os cai di byth dy sefydlu yn nheml Dduw fry, y bydd raid i ti sefyll yno fel arwydd tragywyddol o'r fuddugoliaeth a enillodd Crist ar alluoedd uffern; y rhai, pe amgen, a fuddugoliaethasent arnat ti?

6. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, *Trowch eich wynebau ataf fi, fel y'ch achuber* (Esay 45. 22.): ac y mae yn dywedyd, *Os dyrchefir fi, mi a dynaf bawb ataf fy hun*, Ioan 12. 32. A droaist ti dy wyneb ato, fel yr UNIG IACHAWDWR? A dynwyd di ato, trwy y tynfaen santaidd hwnw, dylanwad dengar ei gariad, yn marw dros bechaduriaid? A wyddost ti beth yw dyfod at Grist fel pechadur tlawd, blinderog a thrwmlwythog, i'r dyben o gael gorphwysdra? Mat. 11. 21. A wyddost ti beth yw *bwyta cnawd ac yfed gwaed Mab y dyn* yn ysbrydol (Ioan 6. 53.); hyny yw, edrych ar Grist croeshoeliedig fel Cynhaliwr mawr dy enaid, a theimlo dymuniad am ei fwynhau, gyda yr unrhyw ddifrifwch ag y gwna blys natur am ei ymborth angenheidiol? A wyddost ti beth yw rhoddi dy hunan i

Digitized by Google

Grist mewn modd calonog, fel creadur tlawd, yr hwn y gwnaeth ei gariad ef yn eiddo iddo ei hun? A roddaist ti dy enaid anfarwol iddo, i gael ei buro a'i achub; fel y byddo iddo gael ei lywodraethu gan ei air a'i Ysbryd; fel y byddo iddo ei drefnu er ei ogoniant; i fod yn y gwaith, a than y ddysgybliaeth, a welo efe yn dda, tra byddo yn y cnawd; fel y byddo iddo ef ei dderbyn yn angau, a'i sefydlu yn mysg yr ysbrydoedd hyny, ag y mae eu caniadau o fawl yn amgylchu yn wastadol ei orsedd, ac y maent yn weision iddo byth? A fu i ti yn llyn gydsynio yn galonog? Ac a wyt ti wrth olygu hyn oll, yn foddlon adnewyddu dy gydsyniad? A wyt ti yn awr mewn modd pwyllog a sefydlog yn adnewyddu, ac yn teimlo dy holl enaid megys yn dywedyd, AMEN, tra yr ydwyt yn darllen hyn oll? Os felly, mi a allaf gyda phleser roddi i ti ddeheulaw cymdeithas, dy anerch a'th gofleidio fel gwir ddysgybl i'r ARGLWYDD IESU GRIST; fel un a *waredwyd allan o feddiant y tywyllwch, ac a symudwyd i deyrnas anwyl Fab Duw*, Col. 1. 13. Os felly, mi a allaf dy anerch yn yr Arglwydd, fel un ag y mae gweinidog Iesu Grist wedi ei awdurdodi a derbyn gorchymyn i ddywedyd yn gysurus wrtho; ac yr wyf yn mynegi i ti, nid fy mod i yn dy ryddhau di oddiwrth dy holl bechodau, canys bychan yw cael ein barnu gan farn dyn; ond fod y Duw bendigedig ei hun, yn dy ryddhau di; dy fod yn un o'r rhai y dywedodd wrthynt, ac y mae yn barhaus yn dywedyd wrthynt yn yr efengyl, *Maddeuwyd i chwi eich pechodau* (Luc 7. 48.); am hyny dos ymaith mewn heddwch, a chymer gysur.

7. Ond os wyt yn ddyeithr i'r profiadau hyn, ac i'r dymer y bum i yr awr hon yn ei darlunio, mae y gwaith mawr eto heb ei ddechreu; yr wyt ti yn bechadur anedifeiriol ac anghrediniol, ac y mae *digofaint Duw yn*

Digitized by Google

*aros arnat*, Ioan 3. 36. Pa fodd bynag y cefaist dy ddeffroi a'th ddychrynu, pa fwriadau bynag a ffurfiaist yn nghylch gwellâu dy fuchedd, pa mor uniawn bynag yw dy ddaliadau crefyddol, er mor bur y gall fod ffurfiau dy addoliad, er mor boethed y gall fod dy sel, er mor llym y gall fod dy ymdrechiadau i farweiddio gweithredoedd y cnawd, pa mor hynaws bynag y gall dy dymer fod, pa mor ddiddrwg bynag yw dy fywyd, ni allaf lefaru dim cysur wrthyt. Ofer yw dy holl obaith crefyddol, os na bu gwir a mewnol ymostyngiad ger bron Duw am dy holl bechodau; os nad oes rhyfel wedi ei gyhoeddi yn erbyn pob peth a anfoddlona Dduw; os na bu y teimlad hwn o'th eisiau o Grist, ac o'th golledigaeth hebddo; yr ymroddiad hwn o'th enaid i'w ddwylaw ef trwy ffydd; os na fu gwir ymofyniad am dano, ac ymwadiad â thi dy hun, fel y byddai i ti sicrhau angor dy obaith ynddo ef; os na roddaist dy hun yn hollol, i fod bob amser, ac yn mhob modd, yn ffyddlon wasanaethwr Duw trwyddo ef; ac os nad wyt gyda hyn oll yn cyfaddef dy hun yn was anfuddiol, heb unrhyw ddysgwyliad am dderbyniad ac am heddwch, ond yn unig trwy ei gyfiawnder a'i waed ef, a thrwy ddwyfol ras ynddo ef; os nad wyt yn profi y pethau hyn, rhaid i mi drachefn ddywedyd wrthyt, fod dy holl obaith yn ofer, a bod dy adeiliadaeth ar y tywod, Mat. 6. 26. Y tŷ a gyfodaist yn barod, rhaid ei dynu i lawr i'r gwaelod, a rhaid i'w sylfaen gael ei symud, a'i gosod o newydd, os amgen, tydi a'th holl obaith a ysgubir ymaith gydag ef, a chleddir di mewn dystryw tragywyddol.

*Yr Enaid yn rhoddi ei hun i gael ei brofi gan Dduw yn nghylch gwirionedd ei ffydd a'i edifeirwch.*

O Arglwydd Dduw, yr wyt yn chwilio calonau ac yn profi arenau holl feibion dynion, Jer. 17. 10.

Digitized by Google

*Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a gwybydd fy meddyliau; a gwel a oes ffordd annuwiol genyf; a thywys fi yn y ffordd dragywyddol*, Salm 139. 23, 24. Onid yw fy nghydwybod yn tystio yn dy bresenoldeb, O Arglwydd, fod fy ffydd a'm hedifeirwch y fath ag a ddarluniwyd uchod, neu o leiaf fod gwir ddymuniad fy enaid eu bod felly? Tyred, gan hyny, O Ysbryd santaidd, yr hwn wyt Awdwr pob gras a chysur, a gweithia y dymer hon yn fwy cyflawn yn fy enaid! O dyro i mi y fath olwg ar bechod yn ei liwiau mwyaf ffiaidd, fel y teimlwyf elyniaeth marwol ac anghymodlon ato! Gosod ger fy mron fawredd a thrugaredd y Duw bendigedig, yn y fath fodd, ag y byddo i'm calon ddychrynu a thoddi ger ei fron! Taro y graig fel y byddo i'r dyfroedd lifo (Salm 78. 20.); dyfroedd o wir, didwyll, a mabol edifeirwch! *Argyhoedda fi*, O Ysbryd bendigedig, *o bechod, o gyfiawnder, ac o farn!* Ioan 16. 8. Dangos i mi fy mod wedi dystrywio fy hun, a bod fy nghymorth yn unig o Dduw (Hos. 13. 9.), o Dduw trwy Grist, yn yr hwn yn unig yr estyn efe ei drugaredd i'm hachub. Yn ol dy swydd arbenig, cymer o eiddo Crist a mynega hwynt i mi! Ioan 16. 15. Mynega ei allu i achub; mynega ei ewyllysgarwch i ymarferyd y cyfryw allu! Dysg fy ffydd i edrych arno wedi ei estyn ar y groes, â breichiau agored, ac ystlys waedlyd a thrywanedig; ac felly yn dywedyd wrthyf fi yn y modd mwyaf awdurdodol, fod lle yn ei galon i mi! Boed i mi wybod beth yw cael fy holl galon wedi ei darostwng trwy gariad, wedi ei darostwng yn y fath fodd ag y byddo i mi gael fy nghroeshoelio gydag ef (Rhuf. 6. 6.); fel y byddwyf farw i bechod ac i'r byd, ond byw i Dduw, trwy Iesu Grist! Rhuf. 6. 11. Boed i mi allu ymddiried yn ei gariad a'i allu ef! Iddo ef boed i mi allu rhoddi fy

Digitized by Google

ysbryd yn drwyadl! Boed i mi allu gwisgo ei ddelw, ac ufuddhau i'w gyfreithiau! Boed i mi allu canlyn ei wasanaeth, a bod mewn amser ac i dragywyddoldeb yn arwydd o effeithioldeb ei efengyl, ac yn gof-nod o'i ras gorchfygol!

O Dduw bendigedig, os oes un peth yn eisiau tuag at fy ngwneuthur yn gristion cywir, amlyga ef i mi, a gweithia ef ynof! Bwrw i lawr, yr wyf yn atolwg arnat, bob gobaith twyllodrus a rhyfygus ag sydd ynof, pa mor ddrud bynag y gallo yr adeiladaeth fod, ac a gaffo yn llyn ei ddystrywio, a pha mor falch bynag y bum i o'i haddurniadau ofer! Dyro i mi adnabod y gwaethaf o'm cyflwr, pa mor ofidus bynag y gallo y fath wybodaeth fod; ac od oes unrhyw berygl yn aros, boed fy nghalon yn gyflawn deimladwy o hono tra y mae meddyginiaeth i'w chael!

Os oes unrhyw bechod dirgel yn lletya ynof, yr hwn nid wyf wedi ymadael yn gywir ag ef, datguddia ef i mi, a thyn ef allan o'm calon, er gwreiddio o hono yn ddwfn, a phlethu ei wreiddiau o'm cwmpas oll, fel y bo pob gwythen yn cael ei dolurio wrth ei dynu ymaith. Tor ef ymaith, O Arglwydd, â llaw lem drugarog! Ac yn raddol, ïe, Arglwydd, dos yn mlaen mewn modd buan, i gyflawni yr hyn sydd hyd yma yn ddiffygiol yn fy ffydd i, 1 Thes. 3. 10. Cyflawna ynof holl foddlonrwydd dy ddaioni (2 Thes. 1. 11.): cyfoethoga fi, O Dad nefol, â holl rasau dy Ysbryd: ffurfia fi i gyflawnder delw dy anwyl Fab: ac er ei fwyn ef, tyred ataf ac amlyga dy bresenoldeb grasol yn fy enaid (Ioan 14. 21, 23.) hyd oni byddo yn addfed i gyflwr o ogoniant, i ba un y mae y gweithrediadau hyn yn tueddu i'w gymhwyso ef! Amen.

Digitized by Google

## PENNOD XIV.

### GOLWG FWY NEILLDUOL AR AMRYWIOL GANGHENAU Y DYMER GRISTIONOGOL; TRWY BA UN Y GALL Y DARLLENYDD GAEL EI GYNORTHWYO I FARNU YN IAWN PA BETH YW EI GYFLWR, A PHA BETH A DDYLAI FOD.*

**Pwys y mater yn galw am chwiliad manylach, o ba fath ysbryd yr ydym, Dosparth 1, 2. Yn ganlynol desgrifir y dymer gristionogol, (1.) Trwy rai golygiadau cyffredinol am dani, fel tymer newydd a duwiol, 3. Fel yn tebygoli i dymer Crist, 4. Ac fel yn ein rhwymo ni i fod o feddwl ysbrydol, a rhodio wrth ffydd, 5. Cynllun o'r gweddill, 6. Lle yr ystyrir y dymer gristionogol yn fwy neillduol, (2.) gyda golwg ar y Duw bendigedig; fel yn cynwys ofn, serch, ac ufudd-dod. 7. Ffydd a chariad ato ef, 8. 9. Llawenydd ynddo ef, ad. 10. A thymer briodol at yr Ysbryd Glân, yn enwedig fel Ysbryd mabwysiad a glewder, 11—13. (3.) Gyda golwg arnom ein hunain; fel yn cynwys gofal mwy am yr enaid nac am y corff, gostyngeiddrwydd, purdeb, 14. Cymhedroldeb, 15. Boddlonrwydd, 16. Ac amynedd, 17. (4.) Gyda golwg ar ein cydgreaduriaid; fel yn cynwys cariad, 18. Addfwynder, 19. Heddychlondeb, 20. Trugaredd, 21. Gwirionedd, 22. A hynawsedd wrth farnu, 23. (5.) Cymhwysderau pob cangen, 24. Megys didwylledd, 25. Diysgogrwydd, 26. Tynerwch, 27. Brwdfrydedd, 28. A challineb, 29. Dylai y pethau hyn gael eu hystyried yn fynych, 30. Adolygiad ar y cwbl mewn gweddi ysgrythyrol.**

1. PAN ystyriwyf bwys anfeidrol tragywyddoldeb, yr wyf yn gweled anhawsdra i foddloni fy hunan, trwy unrhyw beth ag a allaf ddywedyd wrth ddynion, yn

* *Nodwch.* Mae y bennod hon braidd yn dalfyriad o'r llyfr rhagorol hwnw o waith y Dr. Evans, a elwir y *Dymer Gristionogol,* mor belled ag y perthyn i'r darluniad o honi. Ac i'r dyben o gael anogaethau i bob rhan o'r dymer hon, rhaid i mi gyfeirio y darllenydd at y llyfr ei hun.

Digitized by Google

nghylch y pethau a berthynant i'w daioni tragywyddol. Mi a roddais i ti olwg, yr wyf yn gobeithio y gallaf yn wirioneddol ddywedyd, i mi roddi i ti olwg gywir yn gystal ag un ffyddlon ar dymer wir ysbrydol. Er hyny, tuag at dy gynorthwyo yn mhellach, mi a'i dangosaf hi i ti yn ei hamrywiol ganghenau, ac mewn gwahanol oleuni, fel y gallech farnu pa beth ydwyt o ran dy gyflwr, a pha beth a ddylit fod. A thrwy hyn, yr wyf yn bwriadu, nid yn unig dy argyhoeddi, os wyt hyd yn hyn yn ddyeithr i wir grefydd, ond hefyd dy adeiladu, os wyt yn awr trwy ras Duw mewn gradd yn brofiadol o honi. Dedwydd a fyddi, ïe dedwydd uwchlaw darluniad, os wrth fyned o un erthygl at un arall, y gelli ddywedyd, 'Dyma fy nghymeriad a'm tymer i.' Nid bychan dy hapusrwydd, os gelli ddywedyd, 'Hyn wyf yn ddymuno gael, ac yn weddio am fod; dyma yr hyn wyf yn ymofyn ar ei ol, yn fwy nac unrhyw beth arall i'r gwrthwyneb, er nad wyf eto mewn meddiant o heno i'r radd y dymunwn fod.

2. Chwilia a phrawf gan hyny, o ba ysbryd yr ydwyt, Luc 9. 55. A boed i'r hwn sy yn chwilio y calonau, gyfeirio dy ymofyniad, a'th gynorthwyo i iawn farnu dy hun, fel na'th *ddamnier gyda'r byd*, 1 Cor. 11. 31, 32.

3. Gwybydd yn gyffredinol, os wyt yn gristion mewn gwirionedd, ti a *adnewyddwyd yn ysbryd dy feddwl* (Eph.4. 23.), a hyny yn y fath fodd, fel yr wyt wedi dy aileni. Nid yw yn ddigon i ti gymeryd arnat enw newydd, cael dy ddwyn dan ryw fath o ataliadau, neu wneuthur math o gyfnewidiad rhanol, mewn rhai pethau neillduol yn dy fuchedd. Rhaid fod y cyfnewidiad yn fawr ac yn gyffredinol, trwy dy holl enaid a'th holl fywyd. Edrych, gan hyny, pa un a gefaist olygiadau newydd ar bethau, neu a oes genyt farn ymarferol,

Digitized by Google

wahanol i'r hôn oedd genyt o'r blaen; a yw y dybenion sydd yn dy olwg yn dy weithrediadau, y serchiadau wyt yn deimlo yn gweithredu yn dy galon, a'r arferion i ba rai y mae y serchiadau hyny yn dy dywys, ar y cwbl, yn hen neu yn newydd?* Ym mhellach, os wyt yn gristion mewn gwirionedd, yr wyt yn meddiannu dwyfol anian (2 Pedr 1. 4.); dwyfol yn ei dechreuad, yn ei thueddiad, ac yn ei chyffelybrwydd. Chwilia gan hyny, pa un a blanodd Duw egwyddor yn dy galon, ag sydd yn tueddu ato, ac yn dy wneuthur yn gyffelyb iddo. Prawf dy enaid yn ddifrifol, i edrych a oes ynddo mewn gwirionedd ran o ddelw foesol Duw; sef ei ddaioni, ei gyfiawnder, ei santeiddrwydd, a'i ffyddlondeb; canys mae y dyn newydd wedi ei *greu yn ol delw Duw, mewn cyfiawnder a gwir santeiddrwydd* (Eph. 4. 24.), ac wedi ei *adnewyddu mewn gwybodaeth yn ol delw yr hwn a'i creodd ef*, Col. 3. 10.

4. Er mwyn i ti adnabod dy hun yn mhellach, ymofyn, a yw yr "un meddwl ynot ti ag oedd hefyd yn Nghrist" (Phil. 2. 5.); pa un a ydwyt yn dwyn delw Mab Duw yn y cnawd; yr hon sy yn dwyn y gyffelybiaeth egluraf a mwyaf rhagorol o'r Tad, ag a welodd daear na nefoedd erioed. Fe ddaeth yr Iesu bendigedig i'r byd i fod yn gynllun i'w holl ganlynwyr; a sicr yw mai efe yw y cynllun goreu i ni ganlyn ar ei ol: canys y mae efe yn siampl yn ein natur ni, ac mewn amgylchiadau o ddefnyddgarwch cyffredinol; siampl yn cael ei chynnyg i ni o herwydd ei pherffeithrwydd difrycheulyd, ac o herwydd y berthynas anwyl y mae Crist yn sefyll ynddi tuag atom ni, fel ein Cyfaill, ein Hathraw, a'n Pen; fel y person, a sefydla ein cyflwr tragywyddol, ac mewn

* Fe all y darllenydd weled y pethau hyn yn cael eu heglure yn helaeth, yn y tair pregeth gyntaf o'm heiddo ar *Adenedigaeth*.



Digitized by Google

cyffelybrwydd i ba un y bydd yn rhaid i'n hapusrwydd tragywyddol fod yn gynwysedig, os hapus byth a fyddwn. Edrych gan hyny i fywyd a thymer Crist, fel yr amlygir hwynt yn yr efengyl, ac ymofyn a oes dim yn debyg iddo yn dy fywyd di. A oes ynot ti radd o'i dduwioldeb ef, ei gariad, a'i ymostyngiad i ewyllys Duw? A oes ynot ddim o'i ostyngeiddrwydd, ei addfwynder, a'i gymwynasgarwch i ddynion? Dim o'i burdeb, ei ddoethineb, ei ddifaterwch am y byd, ei amynedd, ei ddianwadalwch, a'i zel? Ac yn wir yr holl ganghenau ereill o'r dymer gristionogol, a allant gael eu galw i mewn i'r dyben o eglurhau a chynorthwyo dy ymofyniadau dan y pen hwn.

5. Mi chwanegaf ddywedyd yn mhellach, os wyt yn gristion cywir, yr wyt yn synied yn ysbrydol, gan wybod mai bywyd a thangnefedd yw, ond syniad y cnawd, marwolaeth yw, Rhuf. 8. 8. Am hyny, er dy fod yn byw yn y cnawd nid wyt yn milwrio yn ei ol, (2 Cor. 10. 3.); nid wyt yn derbyn dy reolau a'th orchymynion oddiwrtho. Yr ydwyt yn gofalu yn ewyllysgar am ei angenrheidiau ef, fel yr hyn sy yn ddyledswydd arnat; ond y mae hyn oll gyda golwg at ddaioni yr enaid rhesymol ac anfarwol. Dy ddewisiad, dy ymofyniadau, dy feddyliau, a'th serchiadau ynt oll yn cael eu heffeithio gan gariad at bethau ysbrydol, yn hytrach na phethau cnawdol. Mewn gair, yr wyt yn rhodio wrth ffydd ac nid wrth olwg, 2 Cor. 5. 7. Gwrthrychau i ddyfod, anweledig, ac mewn mesur uwchlaw amgyffred, ydynt yn llanw dy feddwl. Mae dy ffydd yn gweithredu ar y bod o Dduw; ei briodoliaethau, a'i ragluniaethau, ei fygythion, ei orchymynion, a'i addewidion. Y mae hi yn gweithredu tuag at Grist, yr hwn er na's gwelaist, yr ydwyt yn ei garu ac yn ei anrhydeddu, 1 Pedr 1. 8. Mae hi yn gweithredu tuag at y byd anweledig, yr hwn

Digitized by Google

y gŵyr hi ei fod yn dragywyddol, ac am hyny, yn deilwng o fwy o'th ymofyniad serchog, na'r pethau a welir, ac ydynt ond yn unig dros amser, 2 Cor. 4. 18.

6. Dyma olygiadau cyffredinol wedi eu rhoddi i ti o'r dymer gristionogol, wrth ba rai yr wyf yn atolwg arnat i holi dy hunan. Ac yn awr mi a âf rhagof, i roddi i ti olwg ar ei hamrywiol ganghenau, perthynol i Dduw, ein cymydogion, a'n hunain; ac o'r cynheddfau hyny ag a raid gydfyned â phob un o'r canghenau hyn, megys diragrithrwydd, tynerwch, dianwadalwch, zel, a doethineb. Ac yr wyf yn erfyn dy astud wrandawiad tra byddwyf yn ceisio gosod rhai pethau perthynol i bob un o'r pennau uchod ger dy fron, trwy ba rai y bydd i ti allu barnu yn well am dy gyflwr a'th ddyledswydd.

7. Chwilia, yr wyf yn atolwg arnat, gan hyny, dymer dy galon tuag at y bendigedig Dduw. A wyt ti yn cael yno ofn parchus, cariad goruchel at, a pharch i'w briodoliaethau anghydmariaethol ogoneddus, dymuniad am ei fwynhau fel y daioni penaf, a diolchgarwch calonog iddo fel dy Gymwynaswr goruchel? A elli di ymddiried i'w ofal? A elli di gredu ei dystiolaeth? A wyt ti yn dymuno rhoddi ufudd-dod parhaus i'w holl orchymynion, ac ymostyngiad i holl drefniadau ei ragluniaeth? A wyt ti yn golygu ei ogoniant fel dy ddyben penaf, ac a yw efe yn orchwyl mawr dy fywyd i gyflwyno dy hun yn gymeradwy ger ei fron? A ydyw gofal i debygu iddo, a'i wasanaethu ef mewn ysbryd â gwirionedd (Ioan 4. 24.) yn llywodraethu yn dy enaid?

8. Mi a roddais ddarluniad helaeth yn barod o ffydd yn Nghrist; gan hyny ni ddywedaf ddim chwaneg yn nghylch crediniaeth yn ei allu a'i ras, y rhai ydynt sylfaen gadarn iddi; nac yn nghylch derbyniad o-

Digitized by Google

Grist yn ei holl swyddau, neu ymroddiad yr enaid i'w law ef, yn yr hyn bethau y mae natur ffydd yn gynwysedig.

9. Os yw y ffydd hon yn Nghrist yn wirioneddol, diameu y bydd iddi weithio *cariad* tuag ato ef; yr hwn a ddengys ei hun, mewn meddyliau parchus a serchiadol am dano; mewn gwir ffyddlondeb iddo; mewn cyflawniad gofalus o'i orchymynion; mewn parch i'w achos, ei ysbryd, a'i gyfeillion; mewn parch i'r ordinhadau a drefnodd efe yn ei eglwys, er mwyn cofio am ei gariad yn marw; ac mewn dymuniad cynes am y byd nefol, lle mae efe yn preswylio, a lle y preswylia ar fyr ei holl bobl gydag ef, Ioan 17. 24.

10. Yn gytunol â gair Duw, gallaf chwanegu dywedyd, y bydd i'r ffydd hon yn Nghrist, a gwir gariad ato, beri i'th enaid lawenhau ynddo; yn y dyben gogoneddus i ba un y daeth i'r byd; a'i hollol gymwysder i ddwyn i ben ei ddyben; yn addewidion ei air, ac yn rhagorfreintiau ei bobl. Fe fydd yn fater o orfoledd genyt, i'r fath Brynwr ymddangos yn ein byd ni; ac fe fydd y llawenydd hwnw ynot ti, yn ol y gradd o eglurdeb, trwy ba un y gweli dy hawl ynddo, a'th berthynas ag ef.

11. Caniata i mi dy arwain i fyfyrio ychydig ar dymer dy galon, tuag at yr Ysbryd santaidd. Os nad yw ysbryd Crist genym, nid ydym yn eiddo ef, Rhuf. 8. 9. Os nad ydym yn cael ein harwain gan Ysbryd Duw, nid ydym yn blant i Dduw, Rhuf 8. 14. Gan hyny os wyt yn wir gristion, yr wyt yn dymuno cael dy lenwi â'r Yspryd (Eph. 5. 18.); cael o honot holl alluoedd dy enaid wedi eu darostwng i'w awdurdod ef; bod ei weithrediad ef ar dy galon yn fwy diysgog, nerthol, a dymunol. Ac i'r dyben o feithrin y dylanwadau santaidd hyn, byddi yn treulio rhywfaint o amser yn aml, mewn ystyriaethau a myfyrdodau duwiol: byddi yn defnyddio

Digitized by Google

yn iawn yr amserau ag y bo yn anadlu ar, ac yn tyneru dy enaid; ac yn chwennych ymgadw rhag y pechodau trwy ba rai y gall gael ei dristâu. Byddi yn ymdrechu yn ddifrifol â Duw mewn gweddi, am iddo gael ei dywallt arnat yn fwy helaeth, trwy Iesu Grist (Tit. 3. 6.); a byddi yn ewyllysgar i gwympo i mewn â dyben mawr ei anfoniad ef, sef gogoneddu Crist (Ioan 16. 14.), a sefydlu ei deyrnas.—Ti a fyddi yn chwennych ei ddylanwadau fel *Ysbryd mabwysiad*, fel y bo dy addoliad yn fwy ewyllysgar a serchiadol, dy ufudd-dod yn fwy gwrol, a'th alar am bechod yn fwy teimladwy; fel y bo dy ymroddiad yn fwy addfwyn, a'th gariad yn fwy gwresog; mewn gair, fel y bo i ti gael dy ddwyn trwy fywyd a marwolaeth, mewn tymer plentyn, yr hwn a fo yn hoffi ei dad, ac yn hiraethu am ei bresenoldeb digyfrwng.

12. Yn mhellach, os wyt yn gristion mewn gwirionedd, yr wyt yn chwennych yr Ysbryd fel ysbryd o wrolder. Yn mysg yr holl ostyngeiddrwydd enaid a weithredir ynot, ti a chwennychi allu bod yn gawr yn achos Crist; i wrthwynebu, gyda bwriad gwrol, ymdrechiadau mwyaf grymus galluoedd y tywyllwch, llygredigaeth mewnol dy galon dy hun, a phob anhawsder a'th gyfarfyddo yn ffordd dy ddyledswydd, tra byddech yn myned rhagot *yn gorchfygu ac i orchfygu*, yn achos a thrwy nerth Crist.

13. Yr holl bethau hyn a allant gael eu hystyried, fel canghenau o dduwioldeb; ac o'r fath dduwioldeb ag sy yn *fuddiol i bob peth*, ac y mae *iddi addewid o'r bywyd sy yr awr hon, ac o'r hwn a fydd*, 1 Tim. 4. 8.

14 Gad i mi eto yn mhellach osod ger dy fron rai canghenau o'r dymer gristionogol, ag a berthynant yn fwy neillduol i ni ein hunain. A rhaid i mi ddywedyd dan y pen hwn, os wyt yn gristion mewn gwirionedd,



Digitized by Google

diameu dy fod yn gwerthfawrogi yr enaid yn fwy na'r corff; a phethau tragywyddol yn fwy na phethau amserol. Gan wybod gwerth ac anrhydedd y rhan anfarwol, yr wyt wedi dyfod i fwriad cadarn i sicrhau ei dedwyddwch, pa bethau bynag sydd raid eu dyoddef, neu ymwadu â hwynt i'r dyben hwnw.—Os wyt yn wir gristion, rhaid dy fod wedi dy wisgo â gostyngeiddrwydd, 1 Pedr 5. 5. Y mae ynot deimlad dwfn o'th anmherffeithrwydd moesol a naturiol; o fyrdra dy wybodaeth; o wendid ac anwadalwch dy fwriadau; o'th ymddibyniad gwastadol ar Dduw, ac ar bob rhyw beth o'th amgylch. Cefaist deimlad neillduol o'th euogrwydd; y coffadwriaeth am yr hwn a'th leinw o drallod a chywilydd, hyd yn oed pan mae genyt ryw reswm i obeithio fod dy bechod wedi ei faddeu. Hyn a atal bob ucheldrem a balchder, yn dy ymddygiad tu ag at dy gydgreaduriaid. Hyn a'th ddysg, dan bob rhagluniaeth gystuddiedig, gyda phob ymostyngiad santaidd, i ddyoddef dig yr Arglwydd, fel un a bechodd yn ei erbyn ef, Mic. 7. 9.—Hefyd, os gwir gristion ydwyt, yr wyt yn llafurio am burdeb enaid, gan gynal casineb parhaus at bob peth gwaharddedig. Y coffadwriaeth am dy bechodau gynt a leinw dy feddwl o gywilydd a gofid; ac felly ti a ymdrechi rhagllaw i wylio ar dy feddyliau a'th chwantau, yn gystal ag ar dy eiriau a'th weithredoedd; ac i ymgadw nid yn unig rhag gwneuthur drwg, ond hefyd oddiwrth bob rhith drygioni (1 Thes. 5. 22.), ac achlysuron tebygol o hono; a hyny oblegid dy fod yn ymwybodol o santeiddrwydd perffaith y Duw hwnw yr wyt yn cyfrinachu âg ef, ac o natur burawl y gobaith hwnw (Ioan 3. 3.), y dysgodd efe i ti ei fynwesu trwy yr efengyl.

15. Yn nglŷn â hyn oll, y mae y rhinwedd hardd no, cymedroldeb; yr hon sy yn dy ddysgu i arfer

Digitized by Google

bwydydd a diodydd yn y fath fodd, ag na bo y corff yn cael ei anhwylusu at wasanaeth yr enaid; hi a'th ddysg i ochelyd y fath ymgais atynt, ag a ladratao dy amser gwerthfawr, neu a fyddo yn achlysur o draul uwchlaw yr hyn a allo dy amgylchiadau ddyoddef; uwchlaw yr hyn a fo yn cydfyned â'r elusenau hyny i'r tlawd, ag y mae eu perthynas hwy a thithau â Duw, ac â'u gilydd, yn eu gofyn. Mewn gair, hi a'th ddysg i wylio yn erbyn pob rhyw beth ag sydd a thuedd ynddo i gynyddu nwydau anianol; yn erbyn pob peth a allo dori cymundeb dy enaid â Duw; ac a fo yn lleihau dy fywiogrwydd a'th zel yn ei wasanaeth.

16. Fe fydd i philosophyddiaeth ddwyfol yr Iesu bendigedig ddysgu i ti y dymer o foddlonrwydd hefyd. Hi a gymedrola dy ddymuniadau ar ol y pethau bydol hyny, am ba rai y mae llawer yn profi y fath syched didor, yr hwn sydd bob amser yn myned ar gynydd gydag esmwythder a llwyddiant. Hi a bar i ti wylio yn erbyn gofal anghymedrol am y pethau hyny a allo dy dynu i anghofio dy etifeddiaeth nefol. Os bydd i ragluniaeth dy siomi yn yr hyn a gymerech mewn llaw, byddi yn foddlon i ymostwng; os bydd eraill yn fwy llwyddiannus, ni eiddigeddi wrthynt, ond byddi yn hytrach yn ddiolchgar i Dduw, am yr hyn a wel yn dda ei gyfranu iddynt hwy, yn gystal ag i tithau. Ni ddyoddef hi i ti arferyd unrhyw foddion anghyfreithlon, er mwyn newid dy amgylchiad presenol; a pha beth bynag yw, ti a ymdrechi wneuthur y goreu o hono, gan gofio, mai dyna yr hyn a drefnodd anfeidrol ddoethineb a daioni Duw i ti; a bod y cwbl, tu hwnt i bob cymhariaeth, yn well nac yr haeddaist; ïe, fod yr anghyfleusderau a'r diffygiadau perthynol i'th gyflwr oll yn tueddu i ddwyn yn mlaen dy ddedwyddwch cyflawn a thragywyddol.

Digitized by Google

17. Ac at foddlonrwydd, os wyt ddysgybl i Grist, ti a chwanegi amynedd hefyd; ac *mewn amynedd ti a feddiennai dy enaid*, Luc 21. 19. Gwir yw, ni elli lai na theimlo y drygau a'r cystuddiau a'th gyfarfyddo; eto bydd dy feddwl yn dawel a llonydd danynt; ac yn ddiysgog yn y canlyniad o'th ddyledswydd, er bod cystuddiau yn gwasgu, a'r hyn wyt yn obeithio fwyaf am dano, yn cael ei atal yn hir oddiwrthyt. Amynedd a'th atal i dynu casgliadau byrbwyll ac afresymol, ac a'th gadarnha yn erbyn ymofyniad am ryddhad trwy foddion afreolaidd; gan dy dueddu yn y cyfamser, i fyned yn mlaen yn sefydlog yn ffordd dy ddyledswydd, nes gwelo Duw yn dda i ymddangos ar dy ran, ac i *orchymyn dy hun iddo gan wneuthur yn dda*, 1 Pedr 4. 19. Ti a fyddi hefyd yn ofalus am i *amynedd gael ei pherffaith waith* (Iago 1. 4.), ac i lwyddo yn gyfatebol i'r amgylchiadau hyny pa rai sy yn galw am ymarferiad neillduol o honi. Mewn ffordd o siampl, yr wyf yn dywedyd, pan fo cystuddiau yn ddibaid yn dyfod arnat, o amrywiol natur a thros hir amser, fel y gallech, gyda y proffwyd, ddywedyd, *dyfnder a eilw ar ddyfnder, a holl donau a llifeiriant Duw a aethant trosof fi*, (Salm 42. 7.); pan fo Duw yn cyffwrdd â thi yn y man mwyaf tyner; pan na allech mewn un modd ddeall ei ddyben yn ei ymddygiad yn llym tuag atat; pan fo dy ysbrydoedd naturiol yn weinion a methedig; pan fo rhyw ffordd anghyfreithlon o esmwythad yn ymddangos yn hawdd ac yn agos; er hyn oll, bydd i barch i ewyllys dy Dad nefol dy ddwyn yn mlaen yn erbyn yr holl bethau hyn, a'th gadw mewn dysgwyliad llonydd am waredigaeth, yn ei ffordd a'i amser ef.

[*D. S.* Os ymddengys y bennod hon yn rhy faith i'w darllen ar unwaith, gellir yn briodol ei rhanu yma.]

Digitized by Google

18. Mi a'th arweiniais i gael golwg fer ar y dymer gristionogol mewn perthynas i Dduw a'th hunan; gad i mi chwanegu dywedyd, fod yr efengyl yn dysgu gwersi pwysfawr ereill, perthynol i'n cydgreaduriaid. Ac y maent oll yn gynwysedig yn hyn, *Câr dy gymydog fel ti dy hun* (Rhuf. 13. 9.); a pha beth bynag a elli (ar gyfnewidiad amgylchiadau, yn iawn a rhesymol) ewyllysio i ddynion ei wneuthur i ti, felly gwna dithau iddynt hwy, Mat. 7. 12. Crefydd yr Iesu bendigedig, pan yn arglwyddiaethu yn dy enaid, a orchfyga lywodraeth afreolaidd hunan-gariad, ac a'th ddysg mewn modd hynaws a thyner, i edrych ar dy gymydog fel rhan o honot dy hunan. Ac fel yr wyt yn synied yn nghylch yr eiddot dy hun, yr wyt yn synied am yr eiddo yntau hefyd; ac fel yr wyt yn amddiffyn dy enw da dy hunan, ti amddiffyni yr eiddo yntau hefyd. Ti a ddymuni ei ddaioni ef, ac a fyddi barod i gyflawni ei ddiffygion, fel y chwennychit i arall wneud â thithau. Ti a roddi y farn fwyaf dyner ar ei eiriau a'i weithredoedd; ti a ymbleseri yn ei hapusrwydd, ac a gydymdeimli â'i ofid ef, mewn rhyw fesur fel pe byddai dy ofid di dy hun. A'th ddedwyddwch penaf fydd cael y rheol hon yn hysbys i'th feddwl, y gyfraith auraidd hon wedi ei hargraffu ar dy galon; a gallu o honot yn reddfol a diduedd ei hystyried a'i chanlyn ar bob achlysur, pa un bynag ai mawr ai bychan.

19. Yr efengyl a'th ddysg yn mhellach i *wisgo amdanat addfwynder* (Col. 3. 12.); nid yn unig at Dduw, gan ymostwng i'w air ef, a threfniadau ei ragluniaeth, fel y dangoswyd o'r blaen; ond hefyd at dy frodyr yn mysg dynolryw. Ei haddysgiadau tawel a'th ffurfia i arafwch tymer, dan niweidiau a chyffroadau; fel na byddo i ti ddigio heb, neu uwchlaw, achos. Hi a'th ddysg di i wylio ar dy eiriau, fel na byddont yn cyffroi

Digitized by Google

bwriadau yn ddrwg uwchlaw yr hyn yn eglur yr ymddengys eu bod; gan farnu cyflwr dynion yn ol rhyw un weithred neillduol; ac wrth hyny cymysgu yr euog a'r diniwed yn nghyd. Y mae cymhedrolder gwahanol i'r pethau hyn, yn cael ei ddysgu gan yr efengyl; ac os daw yr efengyl i'th galon yn ei gallu, hi a rydd y fwyall at wraidd y fath ddrygau a'r rhai hyn.

24. Wedi egluro yn fyr y canghenau mwyaf neillduol o'r dymer gristionogol, diweddaf y darluniad o honi, trwy ddwyn ar gof i ti rai o'r cynheddfau cyffredin, y rhai y rhaid eu cymysgu â'r holl bethau hyn; sef, uniondeb, tynerwch, zel, a doethineb.

25. Cofia bob amser, mai enaid gwir grefydd yw uniondeb, neu ddiragrithrwydd. Dyben unigol i ryngu bodd Duw, ac i gael ein hunain yn gymeradwy ger ei fron, a ddylai ein cyffroi a'n llywodraethu ni yn y cwbl a wnelom ynddi. Dan ddylanwad yr egwyddor hon, ti a ymofyni yn ddiduedd i bob rhyw ddyledswydd, ac a ymroddi i'r cyflawniad o honynt, mor bell ag y caffech adnabyddiaeth arnynt. Fe fydd dy galon ar waith yn yr hyn oll a wnelech. Fe fydd dy ymddygiad yn y dirgel a'r tywyllwch yn cydfyned â'th rodiad mwyaf cyhoeddus. Teimlad o'r awdurdod dwyfol a'th ddysg *i gyfrif gorchymynion Duw yn iawn am bob peth; ac i gasâu pob llwybr gau*, Salm 119. 128.

26. Fel hyn y bydd dy *ymddygiad yn y byd mewn purdeb duwiol a symlrwydd*, 2 Cor. 1. 12. Rhaid i ti hefyd orchymyn i'th enaid fod yn sicr, a diymod, a helaeth yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, 1 Cor. 15. 58. Rhaid fod dy grefydd, nid yn unig yn beth disymwth, ac ar amserau, ond yn reddfol a pharhaus. Rhaid fod ynot fwriad i rodio yn grefyddol bob amser. Rhaid i ti wneuthur crefydd yn waith cyffredin a pharhaus. Rhaid i ti ochelyd pechodau bwriadol a rhy-

Digitized by Google

fygus; a chynal gwyliadwriaeth yn erbyn gwendidau cyffredinol y bywyd hwn; rhaid fod ymostyngiad o flaen Duw yn gyfatebol i bob cwymp, a bwriad newydd i barhau yn ei wasanaeth ef. Yn y modd hwn y mae yn rhaid i ti fyned yn mlaen trwy dy holl fywyd, heb wangaloni o herwydd hŷd nac anhawsdra y ffordd; heb gymeryd dy ddenu ar y naill law na'th ddychrynu ar y llaw arall, gan yr holl a'r amrywiol demtasiynau a allant dy gylchynu ac ymosod arnat. Rhaid i'th enaid gael ei sefydlu ar y sylfaen hon, ac yr wyt o hyd i ymddwyn fel un yn gwybod ei fod yn gwasanaethu Duw anghyfnewidiol, ac fel un sydd yn dysgwyl *derbyn* oddiwrtho *deyrnas ddisigl*, Heb. 12. 28.

27. Yn mhellach, yn ol y radd y bo i'r efengyl lywodraethu yn dy galon, bydd dy ysbryd yn dyner, a'r gareg a droir yn gnawd. Fe fydd ynot chwennychiad am gael amgyffred iawn a chyflym o bethau dwyfol; am i'th serchiadau fod yn barod i dderbyn argraffiadau cymwys; am i'th gydwybod bob amser fod yn dyner; ac, ar y cwbl, am gael dy fwriadau yn ddarostyngedig i'r awdurdod dwyfol, ac ewyllysio yn galonog am fod a gwneuthur yr hyn a fyno Duw. Fe fydd genyt barch mawr i air Duw, a gwyliadwriaeth difrifol yn erbyn pechod; gwyliadwriaeth yn erbyn y maglau sy yn cydfyned â llwyddiant bydol; ac ymostyngiad tyner i gerydd yr Arglwydd: mewn gair byddi yn ofalus am beth bynag a berthyn i anrhydedd Duw; yn ofalus rhag gwneuthur dim dy hunan, a rhag dyoddef un peth mewn eraill a allech atal, ag a fyddo yn tueddu i ddigio Duw, neu i ddirmygu yr efengyl.

28. A mwy na hyn oll, mor bell ag y bo i gristionogaeth lywodraethu dy feddwl, byddi yn llawn o zel santaidd yn ngwasanaeth dy Brynwr a'th Dad nefol. Byddi yn *dwyn mawr zel mewn pob peth da* (Gal. 4. 18.),



Digitized by Google

yn ol fel yr ymddangoso y peth yn ddaionus ac yn bwysfawr. Byddi yn zelog neillduol i ddiwygio yr hyn sy afreolaidd ynot dy hun, ac i weithredu hyd eithaf dy allu yn achos Duw. Ac nid yw bosibl i ti allu edrych gyda llygad diofal ar ymarweddiad eraill o'th amgylch yn yr hyn a berthyn i dduwioldeb; ond mor bell ag y bo yn unol â chariad, addfwynder, a doethineb, ti a amlygi dy anfoddlonrwydd i bob peth ynddynt, ag a fyddo yn dianrhydeddu Duw, ac yn drygu dynion. A thi a ymdrechi, nid yn unig i ddiwygio dynion yn eu moesau, ond hefyd i'w dwyn at wir grefydd, a'u bywhau yn yr ymarferiad o honi.

29. Ac heblaw hyn, ti a chwennychi arfer y ddoethineb a roddodd Duw i ti, i farnu pa beth yn dy amgylchiadau presenol, yw dy ddyledswydd i Dduw, i'th gymydog, ac atat dy hun; pa fodd i gyflawni dy ddyledswydd yn gymeradwy ger bron Duw, ac yn y modd mwyaf buddiol i ti dy hun; gan gofio mai y dyn mwyaf doeth a mwyaf dedwydd, yw yr hwn, trwy fyfyrdod parhaus, sy yn cael allan y cyfleusderau mwyaf i wneuthur daioni, a thrwy fwriad bywiog a gwresog sy yn tori trwy bob gwrthwynebiad, fel y bo iddo allu defnyddio yn iawn y cyfleusderau hyny.

30. Dyma y fath olwg ar y dymer gristionogol wedi ei roddi i ti, ag oedd yn bosibl o fewn terfynau y gwaith bychan hwn; ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn gynorthwy i lawer yn y gwaith mawr o hunan-ymholiad. Gad i'th gydwybod ateb, pa mor bell y cyrhaeddaist, ac yr wyt yn dymuno y cyfryw dymer; a boed i'r pethau neillduol y soniwyd yma am danynt, gael eu sefydlu yn dy gof ac yn dy galon, fel y bo i ti eu crybwyll o flaen Duw yn dy weddiau wrth orsedd gras o ddydd i ddydd, fel y derbyniech bob cynorthwy angenrheidiol er mwyn eu gosod mewn ymarferiad.

Digitized by Google

*Gweddi, yn fwyaf neillduol, yn iaith yr ysgrythyr, yn mha un y mae amrywiol ganghenau y dymer gristionogol yn cael eu hailadrodd yn y drefn ag y gosodwyd hwynt i lawr uchod.*

Arglwydd bendigedig, yr wyf yn dy addoli di mewn modd gostyngedig, fel Tad y goleuni, a Rhoddwr pob rhodd dda a pherffaith, Iago 1. 17. Oddiwrthyt ti, gan hyny, yr wyf yn ymofyn pob bendith, yn enwedig y rhai a'm dygant atat ti, ac a'm cymhwysant i'th fwynhau yn dragywyddol. O Dduw, yr wyf yn ymostwng ger dy fron, fel yr hwn sy yn chwilio calonau ac yn profi arenau plant dynion, Jer. 17. 10. *Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a gwybydd fy meddyliau: gwel a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol*, Salm 139. 23, 24. Gad i mi wybod o ba ysbryd yr ydwyf (Luc 9. 55.), a chadw fi rhag camsynied, yn yr hyn y bo cyfeiliornad ynddo yn ddystryw tragywyddol! Boed i mi, O Dduw, gael fy *adnewyddu yn ysbryd fy meddwl*, Eph. 4. 23. Dyro i mi galon ac ysbryd newydd, Ezec. 36. 26. Gwna fi yn gyfranog o'r *dduwiol anian* (2 Pedr 1. 4.); ac megys y mae yr hwn a'm galwodd i yn santaidd, gwna finau yn santaidd yn mhob ymarweddiad, 1 Pedr 1. 15. Boed ynof yr un meddwl ag oedd hefyd yn Nghrist Iesu (Phil. 2. 5.); boed i mi allu rhodio megys y rhodiodd yntau, 1 Ioan 2. 6. Gwared fi rhag synied yn gnawdol, yr hyn sy yn farwolaeth, a gwna i mi synied yn ysbrydol, gan fod hyny yn fywyd ac yn dangnefedd, Rhuf. 8. 6. A boed i mi allu *rhodio* (tra byddwyf yn rhodio y byd gweledig hwn) *wrth ffydd ac nid wrth olwg* (2 Cor. 5. 7.) a chael fy nerthu yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw, Rhuf. 4. 20.

Digitized by Google

Boed dy ras, yr hwn a ymddangosodd i bob dyn, yr hwn a ymddangosodd i mi gyda y fath dystiolaeth ac eglurdeb, yn effeithiol i'm dysgu *i ymwadu ag annuwioldeb a chwantau bydol, ac i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol*, Tit. 2. 11, 12. Gweithreda yn fy nghalon y duwioldeb hwnw ag sy yn fuddiol i bob peth (1 Tim. 4. 8.); a dysg fi, trwy ddylanwadau dy Ysbryd bendigedig, i'th garu di, yr Arglwydd fy Nuw, â'm holl galon, â'm holl enaid, â'm holl feddwl, ac a'm holl nerth, Marc 12. 30. Nertha fi i roddi fy hun i ti megis o farw yn fyw (Rhuf. 6. 13.); i roddi fy nghorff yn aberth byw, santaidd a chymeradwy yn dy olwg di, yr hyn yw fy rhesymol wasanaeth, Rhuf. 12. 1. Boed i mi barchu yn serchiadol a ffyddlon yr Iesu bendigedig, Iesu dy anwyl Fab, yr hwn a wisgodd gnawd, *dysgleirdeb dy ogoniant a gwir lun dy berson*, Heb. 1. 3. Ac er nas gwelais ef, boed i mi allu ei garu ef; yn yr hwn, *heb fod yr awr hon yn ei weled, ond yn credu, boed i mi allu llawenhau â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus* (1 Pedr 1. 8.): a boed i mi allu byw bob dydd yn y cnawd trwy ffydd Mab Duw, Gal. 2. 20. Llanw fi â'th Ysbryd (Eph. 4. 18.); a boed iddo fy arwain (Rhuf. 8. 14.); a gwna yn eglur, yn enwedig i'm henaid fy hun, fy mod yn blentyn Duw, ac yn etifedd y gogoniant! Rhó i mi nid yn unig dderbyn ysbryd caethiwed i beri ofn, ond ysbryd mabwysiad, i'm galluogi i lefain Abba Dad, Rhuf. 8. 15. Bydded iddo weithredu ynof fel ysbryd nerth, cariad, a phwyll (2 Tim. 1. 7.); fel y chwanegwyf at fy ffydd rinwedd, 2 Pedr 1. 5. Bydded i mi allu ymgryfhau ac ymwroli yn lew (Josua 1. 7), fel dyn (1 Cor. 16. 13.), ac fel cristion, yn y gwaith i ba un y'm gelwi, ac yn y filwriaeth ag oedd genyf mewn golwg pan ymrestrais dan faner Cadpen mawr fy iachawdwriaeth. Dysg i mi, O Arglwydd, ystyried yn

Digitized by Google

ddifrifol natur a gwerth fy enaid! Ac na âd i mi lafurio yn unig ac yn benaf am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol, Ioan 6. 27. Bydded i mi ymostwng dan dy alluog law, gael fy ngwisgo â gostyngeiddrwydd (1 Pedr 5. 5, 6.); a chael fy harddu âg ysbryd addfwyn a llonydd, *yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr*, 1 Pedr 3. 4. Rho i mi fod yn bur o galon, fel y gallwyf weled Duw (Mat. 5. 8.); nertha fi i farweiddio fy aelodau y rhai sy ar y ddaear (Col. 3. 5.), fel, os bydd i lygad deau, neu law ddeau, fy rhwystro, y gallwyf dynu y naill a thori y llall ymaith, Mat. 5. 29, 30. Bydded i mi allu ymgadw yn mhob peth (1 Cor. 9. 25.), gan ddysgu bod yn foddlon i'r hyn sydd genyf (Heb. 13. 5.), a hyny yn mha gyflwr bynag y byddwyf, Phil. 4. 11. Caffed amynedd ei pherffaith waith ynof, fel y byddwyf berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim, Iàgo 1. 4.

Ffurfia fi, O Arglwydd, yr wyf yn atolwg, i dymer iawn tuag at fy nghydgreaduriaid. Bydded i mi garu fy nghymydog fel fi fy hun (Gal. 5. 14.); a gwneuthur i ddynion yr hyn a ewyllysiwn wneuthur o honynt hwy i minau, Mat. 7. 12. Bydded i mi allu gwisgo addfwynder a hirymaros, yn mysg y drygau a'r profedigaethau mwyaf (Col. 3. 12.); ac, os yw bosibl, hyd y bo ynof fi, i fyw yn heddychlon â phob dyn, Rhuf. 12. 18. Nertha fi i fod yn drugarog megys y mae fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd yn drugarog, Luc 6. 36. Boed i mi allu dywedyd y gwir o'r galon (Salm 15. 2.), ac mewn cariad (Eph. 4. 15.), gan wylio yn erbyn pob tymer ddrwg ac enllibus; gan ofalu peidio barnu yn greulon, rhag fy marnu inau trwy greulondeb annyoddefol, Mat. 7. 1.

O Arglwydd, yr wyf yn atolwg arnat i weithredu ynof yr holl gynneddfau perthynol i'r dymer gristionogol,



Digitized by Google

y rhai a'i gwnant hi yn gymeradwy yn dy olwg di, ac yn harddwch i'm proffes inau yn y byd. Adnewydda ysbryd uniawn o'm mewn (Salm 51. 10.); a gwna fi yn Israeliad yn wir, heb unrhyw dwyll gwirfeddol! Ioan 1, 47. A thra y byddwyf yn gwledda ar Grist fel fy mhasg a aberthwyd drosof, boed i mi allu cadw yr wyl gyda bara croyw o burdeb a gwirionedd, 1 Cor. 5. 7, 8. O Dduw, yr hwn wyt yn hollalluog ac anghyfnewidiol, yr wyf yn atolygu arnat, gwna fi yn sicr a diymod, ac yn helaeth yn dy waith yn wastadol, *fel un yn gwybod na bydd fy llafur i yn ofer yn y diwedd!* 1 Cor. 15. 58. Boed fy nghalon yn dyner fel y byddo i'th air a'th ragluniaeth gael argraff arni; boed ynddi (dan weithrediad dy Ysbryd) wir ofal am dy ogoneddu di. Boed ynof zel dros fy Nuw (Num. 25. 13.), a hyny yn ol gwybodaeth (Rhuf. 10. 2.), a chariad (1 Cor. 16. 14.); dysg fi yn dy wasanaeth i uno *doethineb y sarff* â *gwroldeb y llew*, yn nghyd â *diniweidrwydd y golomen*, Mat. 10. 16. Gwna fi trwy dy ras yn ddelw ddysglaer o'm Gwaredwr; a dwg fi yn y diwedd, i wisgo cyffelybrwydd hardd o'i santeiddrwydd a'i ogoniant, yn y byd lle mae efe yn preswylio; fel y gallwyf roddi anrhydedd tragywyddol iddo ef ac i ti, O Dad y trugareddau, dawn gwerthfawr pa un yw efe, ac i'th Ysbryd santaidd, trwy ddylanwadau grasol pa un yr wyf yn gobeithio yn ostyngedig, y gallaf dy alw di FY NHAD, a'r IESU FY IACHAWDWR! Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XV.

## Y DARLLENYDD YN CAEL EI ALW I YSTYRIED YR ANGENRHEIDRWYDD O GYNORTHWYON YSBRYD DUW I'W FFURFIO I'R DYMER UCHOD; A PHA ANOGAETH SYDD IDDO I OBEITHIO AM DANYNT.

Dichon penderfyniadau hyderus droi allan yn aneffeithiol, Dosparth 1. Eto nid yw crefydd i'w rhoi i fynu mewn anobaith, ond dylid ceisio gras, 2. Golwg ar ei sylweddolrwydd a'r angen o honi oddiwrth reswm, 3. a'r ysgrythyrau, 4. Yr Ysbryd i'w geisio fel Ysbryd Crist, 5. Ac mai efe, yn yr olwg hòno, yw nerth yr enaid, 6. Y calondid sy i obeithio am y cyfraniad o hone, 7. Cyngor wrth derfynu i weddio am dano, 8. Ac anerchiad gostyngedig at Dduw, yn ol y cyngor hwnw.

1. O ddarllenydd, mi a roddais i ti yn awr ddarluniad o'r dymer y mae yr efengyl yn ei gofyn; yr hon (os wyt gristion cywir) yr wyt yn hiraethu am ei chael, ac yn ymofyn am dani. Sicr yw, fod rhywbeth hyd yn oed yn yr olwg arni yn effeithio ar bob meddwl sydd â blâs ganddo ar bethau hardd a rhagorol. Ac nid wyf yn amheu na bydd i tithau, fy anwyl ddarllenydd, deimlo rhywfaint o'i hargraff ar dy galon. Ië, byddi yn bwriadu yn fywiog, o bosibl, ymofyn am dani yn ddiatreg, gan feddwl ei chael yn fuan. Yr wyt yn gweled y rhesymoldeb o honi, a'r canlyniadau dymunol sy yn cydfyned â hi, perthynol i'th ddedwyddwch amserol a thragywyddol; ac am hyny yr ydwyt yn bwriadu gweithredu yn unol â hi. Er hyny, dyoddef i mi, mewn modd difrifol, adgoffa i ti y rhai na bu eu mwynder ond fel gwlith boreol, yr hwn sy yn fuan yn ymadael, Hos. 6. 4. Ni allaf gymhwyso geiriau Josua, a dywedyd wrthyt, *ni elli wasanaethu yr Arglwydd*, Jos. 24. 19. Er hyny anturiaf ddywedyd na

Digitized by Google

elli yn hawdd ei wneuthur. Och! ni wyddost pa anhawsderau a themtasiynau o eiddo Satan y rhaid i ti dori trwyddynt yn dy ffordd; ni wyddost pa mor daer y gall dy gyfeillion pechadurus fod, yn ceisio dy dynu yn ol i'r fagl a fyddech yn geisio dori; ac yn benaf oll, ni wyddost pa mor ddichellgar y gweithreda dy lygredigaethau ynot, i'r dyben o arglwyddiaethu arnat. Ti a elli feddwl yn awr y bydd i'r golygiadau hyn am bethau fod yn barhaus, gan fod yr egwyddorion a'r gwrthrychau i ba rai y perthynant, yr un byth; ond fe allai y bydd i'r dydd y foru dy ddidwyllo, neu yn hytrach dy dwyllo yn hyn o newydd; a hyny trwy osod ger dy fron ryw beth distadl mewn gwisg newydd, ag a all dy arwain ymaith i angof o hyn oll. Ië, cyn gorwedd o honot ar dy wely heno, fe all yr argraffiadau yr wyt yn awr yn deimlo, wisgo ymaith. Fe all fod dymuniadau llygredig dy galon wedi eu denu yn awr i ychydig o ddystawrwydd, ac yn ymddangos megys yn feirw; er hyny mae yn bosibl y codant mewn modd ffyrnig o newydd, fel pe buasent yn cysgu yn unig i'r dyben o adnewyddu eu grym: ac os na fydd i ti gael dy gynal trwy ryw allu heblaw dy eiddo dy hun, ni wna yr ymgais hwn am ryddid, ond peri i'th gadwynau fod yn fwy cywilyddus, trymion, a dinystriol rhagllaw.

2. Pa beth a wneir, gan hyny? A raid i'r pechadur a argyhoeddwyd orwedd i lawr dan anobaith, a dywedyd, 'Yr wyf fi yn garcharor digymorth, ac os ceisiaf ymdrechu i ryddhau fy hun trwy drais, mi a allaf dori fy aelodau yn gynt na fy rhwymau, ac felly, cynhyddu y drwg a chwennychwn ei symud?' Na ato Duw! Ni all dy adnabyddiaeth o gristionogaeth fod mor lleied, yr wyf yn credu, fel na wyddost fod yr athrawiaeth o gynorthwyon dwyfol, yn rhan fawr o honi. Nid wyf yn amheu nas darllenaist yn fynych am *ddeddf ysbryd y*

Digitized by Google

*bywyd yn Nghrist Iesu, yn rhyddhau oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth* (Rhuf. 8. 2.); a dywedwyd i ti, mai trwy yr Ysbryd yr ydym yn *marweiddio gweithredoedd y corph,* Rhuf. 8. 13. Ti a glywaist fod Paul yn *gallu gwneuthur pob peth trwy Grist* (Phil. 4. 13.), gras pa un sy yn ddigonol, a'i *nerth a berffeithir mewn gwendid,* 2 Cor. 11. 9. Caniata i mi gan hyny dy alw i ystyried hyn, fel y gwirionedd mwyaf eglur, a mwyaf ei bwys.

3. Mae rheswm yn gystal a'r holl ysgrythyr yn cytuno â hyn. Mae yr holl greadigaeth yn ymddibynu ar Dduw o angenrheidrwydd: oddiwrtho ef y mae ein gwybodaeth o bethau naturiol (Salm 94. 10.), a'n cywreinrwydd ynddynt sydd o hono ef, Ecsod. 30. 3—6. Pa faint mwy y mae y gwaith mawr a rhagorol o adnewyddu enaid, yn gosod allan ei Awdwr dwyfol. Pan yr ystyriech pa mor amrywiol yw canghenau y dymer gristionogol, a pha mor wrthwynebol yw llawer o honynt i'r dymer ag oedd yn llywodraethu dy galon a'th fywyd gynt, rhaid i ti weled fod dylanwadau dwyfol mor angenrheidiol i'w creu a'u cynyddu, ag yw effeithiau yr haul a'r gwlaw, i beri i'r amrywiol blanhigion a blodau, yr ydau, a'r ffrwythau, i darddu a thyfu, pa rai sydd yn gwisgo y ddaear â harddwch, ac yn cynal bywyd dyn ac anifail. Ymddengys hyn eto yn fwy amlwg, pan yr ystyriech y gwrthwynebiad mawr sydd i'r gwaith hwn, am yr hyn beth y soniaf yn fwy helaeth yn ol hyn; ac os na theimlaist hyn yn barod, yr achos yw, am nad oes fawr er pan ddechreuaist feddwl am grefydd.

4. Gan hyny, os gwnei di yr ysgrythyr yn ŵr o'th gyngor ar y pen hwn, (gan fyw fel cristion, rhaid i ti ei chwilio bob dydd, a ffurfio dy feddyliau a'th weithredoedd yn ei hol;) cei weled ei bod trwyddi oll yn dysgu y fath ymddibyniad ar Dduw, ag wyf fi yma yn osod ger dy fron. Cei weled yn neillduol, fod ymdaniad cref-

Digitized by Google

ydd yn yr enaid yn fater o addewid ddwyfol; fod dechreuad a chynydd gras a duwioldeb yn y galon, yn cael eu gosod allan fel gwaith Duw, yr hwn sydd yn cael ei ddechreu a'i *ddwyn yn mlaen hyd ddydd Crist*, Phil. 1. 6.

5. Mewn canlyniad i hyn, rhaid i ti osod yr egwyddor hon i lawr fel peth sicr, sef, nad oes dim mewn crefydd i gael ei gynyg yn dy nerth dy hun. Os bydd i ti un amser anghofio hyn, a Duw yn bwriadu dy achub, efe a'th ddarostwng trwy siomedigaethau aml, hyd oni ddysgech hyn yn well. Cei achos i gywilyddio am y bwriad hwn ac arall, hyd oni bo i ti sefydlu ar yr iawn a'r wir sylfaen. Fe fydd iddo, nid yn unig ddangos i ti yn gyffredinol fod dy nerth o'r nefoedd; ond yn neillduol, mai gwaith yr Ysbryd bendigedig yw puro y galon a chryfhau bwriadau santaidd; a'i fod yn ei holl weithrediadau i'w ystyried fel Ysbryd Crist; yn gweithio yn ol ei gyfarwyddiadau ef, ac fel cyfraniad bywiol oddiwrtho ef, fel PEN YR EGLWYS, Trysorwr a Chyfranwr mawr y dylanwadau santaidd a rhinweddol hyn. Am hyny gelwir hwynt *cynorthwy Ysbryd Iesu Grist* (Phil. 1. 19.), yr hwn a ddyrchafodd deheu-law Duw Dad, *i fod yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau*, (Actau 5. 31.); ac yn ei ras ef yn unig y rhaid i ni ymnerthu (2. Tim. 2. 1.), o gyflawnder pa un yr ydym yn *derbyn gras am ras*, Ioan 1. 16.

6. Boed i ti, gan hyny, fwriadu yn lew, i wasanaethu Duw, a gofalu am dy enaid; eto mewn modd gostyngedig a diymffrost: "Canys yr ieuenctyd a ddiffygia ac a flina, a'r gwŷr ieuainc gan syrthio a syrthiant; ond y rhai a obeithiant yn yr ARGLWYDD yw y bobl *a adnewyddant eu nherth*, Esay 40. 30, 31. Pan y mae yr enaid braidd (trwy olwg ar ei wendid) yn ofni dywed-

Digitized by Google

yd, o flaen yr Arglwydd, y gad efe y pechodau trwy yr rhai y digiodd efe efgynt; y cyflawna efe y dyledswyddau a esgeulusodd, yn barhaus ac yn fywiog; pan y mae yn methu gwneyd dim amgen na thywallt ei ddymuniadau gostyngedig a gwresog am ras i'w nerthu i adael y naill ac i gyflawni y llеill; mor bell ag y sylwais ac y prof-ais i, dyna y pryd y gellir dywedyd ei fod ar y ffordd i orchfygu temtasiynau a chyflawni dyledswyddau.

7. Ar y llaw arall, na fydded i deimlad o'th ymddibyniad ar Ysbryd Duw, ac o'th anallu i gyflawni unrhyw beth da ysbrydol hebddo ef, dy wangaloni, yn dy waith yn ymroddi i Dduw a chrefydd; ond ystyria y sail sydd genyt i obeithio y bydd i'w gynorthwyon gael eu cyfranu i ti yn ol dy eisiau.—Goleuni natur, tra mae yn dysgu i ni yr angenrheidrwydd o gael nerth oddiwrth Dduw, yn yr yrfa o rinwedd, a ddengys hefyd, y bydd i'r Bôd daionus ag sydd yn cyfranu cy-nifer o fendithion i'r rhan waethaf a mwyaf annheilwng ac anystyriol o ddynolryw, gymeryd pleser i gyfranu y cynorthwyon grasol hyny i'r sawl sydd yn eu gofyn yn ostyngedig, er mwyn ffurfio eu heneidiau anfarwol i'w ddelw, a'u cymhwyso i fwynhau y dedwyddwch hwnw ag y mae eu nhatur resymol yn eu gwneuthur yn gymwys iddo.—Mae gair Duw mewn modd mwy neillduol yn cadarnhau y gobaith hwn. Yno ni a glywn ddoethineb dwyfol yn gwaeddi ar y rhai a ddiystyrasant yn hir ei haddysgiadau, gan ddywedyd, *Dychwelwch wrth fy ngherydd, ac mi a dywalltaf fy Ysbryd i chwi*, Diar. 1. 23. Ti a glywi yr apostol yn dywedyd, *Awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caff-om ras yn gymorth cyfamserol*, Heb. 4. 16. Ie, yno ti a glywi ein Harglwydd ei hun yn ymresymu yn felus ac yn gadarn, gan ddywedyd, *Os chwychwi gan hyny, y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant chwi*,

Digitized by Google

*pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofynant ganddo?* Luc 11. 13. Y rhodd, a'r addewid o'r Ysbryd, a roddwyd i Grist, pan gyfododd efe oddiwrth y meirw, fel Pencyfamodwr ei holl wir ddysgyblion. A Duw a'i tywalltodd ef arnom ni yn helaeth trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr, Tit. 3. 6. A gallaf chwanegu a dywedyd, fod y dymuniadau sydd ynot am fwy o'i gyfraniadau yn tarddu oddiar y blaenffrwyth a dderbyniaist yn barod: am hyny gelli edrych arnynt yn alwad arnat, i agor dy safn fel y byddo i Dduw ei llanw, Salm 31. 10. Yr ydwyt yn sychedu, ac am hyny gelli yn gysurus ddadleu fod Iesu wedi dy wahodd ato ef i yfed; gan addo, nid yn unig i ti gael yfed, os deuit ato ef, ond hefyd, y bydd i afonydd o ddwfr bywiol ddylifo o'th groth di, er mwyn disychedu ereill, Ioan 7. 37, 38. Dos yn mlaen gan hyny yn llawen, i gyflawni dyledswyddau y fuchedd gristionogol. Dos a llwydda yn nghadernid yr Arglwydd, gan gofio ei gyfiawnder ef yn unig, Salm 71. 16. Ac fel arwydd o fwy o gyfraniadau, boed yn dy galon ddymuniadau gwresog am fwynhau y bendithion yr anogais di i ymofyn ar eu hol! Rhodded Duw i'th enaid anadlu yn santaidd tuag ato, a thywallt ei hun o'i flaen bob dydd, yn y modd canlynol.

*Gweddi ostyngedig am* RAS DWYFOL, *i adnewyddu yr enaid, a'i alluogi mewn crefydd.*

O DDUW bendigedig! Yr wyf yn gwir gyfaddef ger dy fron di fy ngwendid a'm hanallu i gyflawni un peth da yn ysbrydol. Yr wyf wedi profi hyn fil o weithiau; eto y mae fy nghalon ffol yn rhy barod i *ymddiried ynddi ei hun* (Diar. 28. 26.), gan fwriadu pethau yn ei nherth ei hun. Am hyny boed hyn yn flaenffrwyth dy weithrediad grasol arni, sef ei dwyn i anobeithio yn

ostyngedig ynddi ei hun, ac i ymorphwys ynot ti! Yr wyf yn mawr lawenhau, O Arglwydd, yn y sicrwydd a roddaist i mi o'th barodrwydd i gyfranu y fath ragorfraint. Yr wyf gan hyny, yn ol dy alwad rasol, yn *dyfod yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y caffwyf ras yn gymorth cyfamserol*, Heb. 4. 16. Nid wyf, O Arglwydd Dduw, yn chwennych *troi dy ras i drythyllwch* (Iudas 4.), na gwneuthur fy anallu yn esgus dros fy esgeulusdra a'm diogi. Yr wyf yn cyfaddef i ti roddi i mi yn barod, fwy o nerth nac a ddefnyddiais i; ac yr wyf yn beio arnaf fy hun, ac nid arnat ti, na buaswn cyn hyn yn derbyn cynorthwyon mwy helaeth. Yr wyf yn dymuno, am yr amser sydd yn ol, i rodio yn yr ymarferiad o bob rhyw foddion gosodedig; yn yr esgeulusdra o ba rai, nid yw y fath erfyniadau a'r rhai hyn ond gwawdiaith halogedig, ac yn tueddu i'th anog i gymeryd ymaith yr hyn sydd genyf, yn hytrach na llwyddo ger dy fron am chwaneg. Ond gan fwriadu ymdrechu hyd yr eithaf, yr wyf yn dymuno yn ddifrifol am gyfraniadau dy ras, fel y byddo i mi allu cyflawni y bwriad hwn.

Machnia dros dy was er daioni, O Arglwydd, Salm 119. 122. Taena ar led dy ddylanwadau santaidd yn fy enaid, fel y gallwyf gyflawni pob dyledswydd ag wyt yn ofyn oddiwrthyf! Plana bob gras a rhinwedd yn ddwfn ynof; a chynal y dymer hapus hon, yn nghanol gwrthwynebiadau, oddifewn ac oddiallan, i ba rai yr wyf yn agored yn wastadol, tra yn y byd hwn, a thra byddwyf yn dwyn o'm hamgylch gynifer o wendidau. Yr wyf yn atolygu arnat i lanw fy nghalon â serchiadau da tuag atat ti fy Nuw, a thuag at fy nghydgreaduriaid! Gwna i mi allu cofio fy mod bob amser yn dy bresenoldeb di, a'th fod yn gweled pob meddwl yn fy enaid! A boed i mi, gan hyny, allu gwylio yn



Digitized by Google

erbyn blaendarddiad pechod yn fy nghalon. Ac fel na chaffo Satan le i'm llenwi â meddyliau drwg, yr wyf yn dymuno ar i ti, O Arglwydd, lanw fy nghalon â'th Ysbryd santaidd, a gwna dy drigfan ynddi! *Aros, a rhodia ynof* (2 Cor. 6. 16.); a boed fy *nghorff yn deml i'r Ysbryd Glân!* 1 Cor. 6. 19.

Bydded fy enaid wedi ei uno yn y fath fodd â Iesu Grist fy Arglwydd, fel y byddwyf o'r un ysbryd ag ef (1 Cor. 6. 17.); a boed i mi deimlo ei ddylanwadau bywiol yn wastadol yn fy nwyn yn mlaen, ac yn fy ngwneuthur yn goncwerwr ar bob profedigaeth a llygredd! Fel tra byddo yr *ieuenctyd yn diffygio, a'r gwŷr ieuainc yn syrthio,* y gallwyf fi trwy *ddysgwyl wrth yr Arglwydd adnewyddu fy nerth* (Esay 40. 30, 31.); a myned yn mlaen o radd i radd mewn ffydd, a chariad, zel a santeiddrwydd, hyd oni ymddangoswyf yn *berffaith ger dy fron yn Sion* (Salm 84. 7.), i yfed oddiwrthyt ti lawenydd diddarfod, yr hwn wyt ffynon dragywyddol o bob cysur trwy Iesu Grist fy Arglwydd, yn yr hwn y mae i mi *gyfiawnder a nerth* (Esay 45. 24.); i'r hwn yr wyf yn dymuno rhoddi, dros byth, y clod am fy nghynnydd yn y naill a'r llall! Amen.

Digitized by Google

## PENNOD XVI.

**Y CRISTION YN CAEL EI RYBUDDIO YN NGHYLCH, A'I GALONOGI YN ERBYN, Y RHWYSTRAU PA RAI SYDD RAID IDDO DDYSGWYL CYFARFOD A HWYNT YN EI YRFA GREFYDDOL.**

**Mae Crist wedi dysgu ei ddysgyblion i ddysgwyl gwrthwynebiad ac anhawsderau yn y ffordd i'r nef, Dosparth 1. Am hyny, [I.] Cymerir golwg fwy manol arnynt, fel yn codi, (1.) Oddiwrth weddillion pechod yn trigo o fewn, 2. (2.) Oddiwrth y byd, ac yn enwedig oddiwrth gydymeithion pechadurus blaenorol, 3. (3.) Oddiwrth brofedigaethau a lledgrybwylliadau Satan, 4. [II.] Calonogir y cristion trwy amrywiol o ystyriaethau i'w gwrthwynebu; yn neillduol o herwydd presenoldeb Duw,—cynorthwyon Crist,—esamplau ereill,—y rhai, er yn wan, a orchfygasant,—a'r goron o ogoniant sydd i'w dysgwyl, 5, 6. Am hyny, er y byddai gwrthgiliad yn anfeidrol angeuol, gall y cristion wasgu yn mlaen yn siriol, 7. Yn ganlynol, mae yr enaid, yn frawychedig gan y golygiadau hyn, yn cael ei ddarlunio fel yn rhoddi ei hun i Dduw yn y weddi a derfyna y bennod.**

1. Y MAE ein Harglwydd, gyda yr addasrwydd mwyaf, yn gorchymyn i ni *ymdrechu i fyned i mewn trwy y porth cyfyng* (Luc 13. 23.); a thrwy hyny yn dangos, nid yn unig fod y ffordd yn gyfyng, ond hefyd wedi ei hamgylchu â gelynion cryfion a chyfrwys, ar bob llaw. A bydd sicr, O ddarllenydd, beth bynag yw dy sefyllfa mewn bywyd, y bydd yn rhaid i ti gyfarfod ac ymdrechu â hwynt. Doethineb gan hyny, yw i ti roddi golwg neillduol arnynt yn dy fyfyrdodau, fel y gwypech y pethau sydd i'th gyfarfod; ac ystyried pa ryw arfogaeth a raid fod am danat er mwyn ennill y fuddugoliaeth. Ti a glywaist am danynt yn fynych megys dan dywysiad y tri gelyn hyn, y BYD, y CNAWD, a'r DIAFOL; ac mi a ddymunwn dy alw i ystyried gallu

Digitized by Google

y naill a'r llall fel y maent yn ymosod i'th erbyn. O na byddai i ti gael dy gyffroi i *gymeryd atat holl arfogaeth Duw* (Eph. 6. 13.), ac ymwroli fel dyn (1 Cor. 6. 13.), ac fel cristion!

2. Boed i'th gydwybod ateb, onid ydwyt yn dwyn o'th amgylch natur lygredig a dirywiedig? Nid wyf yn amheu nad ydwyt yn teimlo ei heffeithiau hi. Yr wyt yn teimlo (fel y dywed yr apostol yn ol iaith y cristionogion eu hunain) y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr ysbryd, a'r ysbryd yn erbyn y cnawd, fel na elli bob amser wneuthur yr hyn wyt yn ewyllysio, Gal. 5. 17. Ti a ddygaist dueddiadau pechadurus gyda thi i'r byd; a thi a'u porthaist hwynt yn y fath fodd, fel y mae eu grym wedi cynyddu yn fawr; ac yn y canlyniad, cei weled nad oes tori trwy y greddfau hyn heb lawer o anhawsdra. Diamheu y bydd i ti gofio yn fynych y modd y mae y proffwyd yn darlunio cyflwr sydd yn debyg i'th gyflwr di; ïe ei fod ef yn dywedyd yn gymwys pan y mae yn gofyn, *A newidia yr Ethiop ei groen, neu y llewpard ei frychni?* Jer. 13. 23. Y mae yn bosibl i ti brofi y fath daerineb yn dy ysbryd, ag a allo beri i ti dybied, y gorfydd i bob gwrthwynebiad gwympo o'th flaen yn ddiatreg. Ond yr wyf yn ofni y bydd i'r gelynion, ag sydd yn awr fel yn feirwon wrth dy draed, adfywio i gymeryd eu harfau, ac ymosod i'th erbyn mewn rhyw fodd neu gilydd. Ac fe allai mai y rhai yr oeddit yn edrych arnynt hawsaf i'w gorchfygu, a rydd i ti fwyaf o boen; ac fe fydd y perygl mwyaf o bosibl oddiwrth y gelynion oeddit yn edrych arnynt leiaf; yn enwedigol, balchder a diogi ysbryd, ymadawiad dirgelaidd y galon oddiwrth Dduw, ac anewyllysgarwch i ymgyfeillachu ag ef, trwy ormod serch at bethau gweledig, y rhai a allant fod yn fynych yn beryglus i'th iachawdwriaeth, er nad ydynt wedi eu

Digitized by Google

gwahardd yn hollol. Rhaid i ti ddysgu ymwadu â thi dy hun, mewn miloedd o bethau a allant fod ynddynt eu hunain yn ddiniwed, cyn y gelli fod yn *ddysgybl i Grist*, Mat. 16. 24.

3. Rhaid i ti hefyd ddysgwyl llawer o anhawsderau oddiwrth y byd; sef, oddiwrth ei arferion, a'i siamplau. Fe fydd i *bethau* y byd dy atal yn y naill ffordd, a *dynion* y byd yn y ffordd arall. Y mae yn bosibl i ti gael llai o gymorth mewn crefydd oddiwrth ddynion da, nac wyt yn awr yn barod i ddysgwyl. Y mae y genedl bresenol o honynt, yn gyffredin, yn ofalus iawn i ochelyd pob peth ag sydd yn debyg i ymffrost; ac y mae cyhuddiad o benboethder yn beth mor anoddefol, fel y cei di weled llawer o'th frodyr cristionogol yn myfyrio pa fodd i guddio eu duwioldeb a'u rhinwedd, yn fwy nac y mae ereill yn ceisio cuddio eu hannuwioldeb a'u drygioni. Ac oddieithr fod dy sefyllfa yn neillduol ddedwydd, tra byddech yn cael ond ychydig o gymorth o'r naill du, diamheu y cyfarfyddi â gwrthwynebiad mawr o'r tu arall. Bydd gelynion crefydd yn hŷ a bywiog yn eu rhuthriadau, tra bo llawer o'i chyfeillion yn ymddangos yn ddifater: ac fe wna un pechadur fwy, o bosibl, er dy lygru, nac a wna deg o gristionogion at dy ddiogelu a'th achub. Y rhai oeddynt gynt dy gyfeillion mewn pechod, a geisiant, trwy filoedd o ffyrdd, dy ddenu yn ol drachefn i'w cymdeithas, yr hon a adawaist; rhai o honynt, o bosibl, trwy ymddangosiad o gariad atat; a llawer mwy trwy y ddichell hòno o wawd, pa un sydd agos yn anwrthwynebol. Fe allai y cai di dy watwar gan y rhai y mae yn naturiol i ti ddymuno rhan yn eu serchiadau; a chei weled mwy yn y dywediad hwnw o eiddo yr apostol, nac a feddyliaist fod ynddo, *profedigaeth trwy watwar* (Heb. 10. 36.), yr hon y mae rhai yn ofni yn fwy na'r cleddyf neu y



Digitized by Google

fflamau. Rhaid i ti ddysgwyl myned trwy erledigaeth y tafod; a chael dy alw yn *lloerig*, neu allan o'th bwyll, a hyny yn unig oblegid dy fod yn dechreu arfer dy reswm i ddyben iawn; ac o herwydd na's mynit uno â'r sawl sydd yn dystrywio eu heneidiau, yn y ffordd o ynfydrwydd a phechod.

4. Ac nid oes amheuaeth na fydd i Satan wneuthur a allo er mwyn dy flino a'th wangaloni. Efe a rydd i'th ddychymyg y fath olwg ddengar ar y pleserau, y cyfeillion, &c. yr ydwyt yn rhwym i'w gadael; a'r olwg fwyaf ofnadwy a gwangalonus ar yr anhawsderau, y caledi, a'r peryglon, pa rai ydynt (fel y myn efe dy berswadio) yn anwahanol oddiwrth grefydd. Ni bydd iddo ymatal rhag darlunio Duw ei hun, Ffynon pob daioni a dedwyddwch, yn *feistr caled*, anmhosibl i'w foddhau. Efe a'th leinw â'r ofnau mwyaf truenus, ac efe a gais, yn y modd mwyaf creulon, orfoleddu arnat fel ei gaethwas, er ei fod yn dy weled yn ddeiliad rhydd i'r Arglwydd. Efe a ymdrecha, ar rai amserau, i'th rwystro yn dy ddyledswyddau, trwy feddyliau aflan; ar brydiau ereill efe a ymdrecha beri i ti flino arnynt, trwy dy demtio i dreulio amser anghymedrol ynddynt. Mewn gair, mae gan yr hen dwyllwr hwn gynifer o ddichellion, fel pe bawn yn myned i'w darlunio oll, a rhoddi gocheliadau yn erbyn pob un o honynt, y cymerent lyfr cyfan. Ac efe a'th ganlyn â hwynt hyd ddiwedd dy bererindod; fe gynygir pob peth a fyddo yn debyg i wanhau dy ddwylaw, ac i wneyd dy galon yn alarus; fel (er nas dichon atal dy ddedwyddwch tragywyddol, o herwydd fod Duw yn rasol yn dy amddiffyn,) y bo iddo o leiaf dori dy heddwch, ac atal dy ddefnyddgarwch, yn dy daith i'r gwynfyd bythol.

5. Dyma fel y mae pobl Dduw yn teimlo; a dyma fel y cei dithau deimlo mewn rhyw radd, os bydd i ti

Digitized by Google

gael dy ran a bwrw dy goelbren yn eu plith. Er hyn oll na ddigalona, canys Crist yw Cadpen dy iachawdwriaeth, Heb. 2. 10. Y mae yn hyfryd i edrych arno fel y cyfryw. Pan gymerom olwg ar y lluoedd hyn o elynion, gallwn gyfodi ein penau yn eu mysg hwynt oll, gan ddywedyd, *Mwy yw yr hwn sydd gyda ni, na'r rhai sydd yn ein herbyn*, 2 Bren. 6. 16. Ymddiried yn yr Arglwydd, a thi a fyddi fel mynydd Sïon, *yr hwn ni syflir ond a bery yn dragywydd*, Salm 125. 1. Pan ddelo dy elynion arnat, cofia fod yr Arglwydd gyda thi, Zech. 10. 5. Ymdrecha i fod yn hŷ a dewr; ymdrecha i'w *gwrthwynebu hwynt yn gadarn yn y ffydd*, 1 Pedr 5. 9. Cofia fod *Duw yn rhoddi nerth i'r diffygiol, ac yn amlhau cryfder i'r dirym*, Esay 40. 29. Efe a wnaeth felly fyrddiynau o weithiau cyn hyn, ac a wna felly fyrddiynau o weithiau eto i ddyfod. Pa nifer o weiniaid a orchfygasant eu gelynion cawraidd yn eu harfau mwyaf dychrynadwy, pan aethant allan yn eu herbyn megys heb ddim ond *ffon dafl a chareg, yn enw Arglwydd Dduw byddinoedd Israel!* 1 Sam. 17. 40—45. Pa nifer o wragedd a phlant a sathrasant i lawr eu gelynion, ac o *wendid a wnaethpwyd yn gryfion!* Heb. 11. 34.

6. Yn mysg pob gwrthwynebiad o'r ddaear ac uffern, edrych i fynu, edrych yn mlaen, a chei deimlo dy galon yn cael ei hadfywio trwy yr olwg. Mae dy Flaenor yn agos atat: yn agos i'th gynorthwyo, ac i'th wobrwyo. Pan fyddech yn teimlo y brofedigaeth yn gwasgu drymaf, cofia am dano ef, yr hwn a ddyoddefodd hyd yn oed angau y groes, er mwyn dy wared di! Gwel gadernid dy Arweinydd dwyfol, ac ymdrecha i gerdded yn ol ei draed ef. Gwrando ar ei lais, canys y mae efe yn cyhoeddi yn uchel, gan ddywedyd, *Wele fi yn dyfod ar frys, a'm gwobr sy gyda mi*, Dat. 22. 12. *Bydd ffyddlon hyd angau, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd*, Dat.

Digitized by Google

2. 10. Ac, Oh! pa mor ddisglaer yr ymddengys y goron hon! A pha mor hir y parha ei gogoniant? Pan fo y gemau, pa rai sy yn harddu coronau brenhinoedd y ddaear, trwy amryw oesoedd y byd, yn toddi yn y tân diweddaf, fe fydd hon yn parhau; canys *coron anniflanedig y gogoniant* (1 Pedr 5. 4.) y gelwir hi.

7. Gwir yw, y bydd i'r rhai a *ymdroant i'w trofeydd, gael eu gyru gyda gweithredwyr anwiredd* (Salm 125. 5.) i'r dystryw ofnadwy a barotodd cyfiawnder dwyfol ar eu cyfer; a gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag wedi ei hadnabod, troi oddiwrth y gorchymyn santaidd, 2 Pedr 2. 21. Ond yr wyf trwy ras dwyfol, yn gobeithio pethau gwell am danat ti, Heb. 6. 9. Ac yr wyf yn gweddio o'm calon drosot, O ddarllenydd, ar i ti gael dy *gadw trwy allu Duw*, yn y modd mwyaf diogel, *trwy ffydd i iachawdwriaeth*, 1 Pedr 2. 5.

*Yr Enaid mewn arswyd o herwydd yr anhawsderau uchod, yn ymroddi dan amddiffyniad dwyfol.*

O fendigedig a hollalluog Dduw! Atat ti yr wyf yn ffoi. Gwel fi wedi fy amgylchu ag anhawsderau ac â drygau; ac estyn allan dy hollalluog fraich, ac achub fi: *Dangos dy ryfedd drugareddau, O Achubydd y rhai a ymddiriedant ynot, rhag y sawl a ymgyfodant yn erbyn dy ddeheulaw*, Salm 17. 7. Yr wyf y dydd hwn mewn modd difrifol yn rhoddi fy hun i'th ofal: bydded i'th allu ymegnio ar fy rhan, a *chaniata i mi lechu dan gysgod dy adenydd*, Salm 57. 1. Rho i mi ras digonol, a *pherffeithia dy nerth yn fy ngwendid*, 2 Cor. 12. 9. Nis beiddiaf ddywedyd *na bydd i mi byth ymadael â thi* a'th *wadu*, Marc 14. 31. Eto gobeithio y gallaf, mewn gwirionedd, ddywedyd, O Arglwydd, nid wyf yn ewyll-

Digitized by Google

ysio gwneuthur felly, ac yn ol fy ngolygiadau a'm bwriadau presenol, byddai angau yn llai dychrynadwy i mi, na'th ddigio di trwy un peth yn fwriadol a gwirfoddol. O diwreiddia y llygredigaethau hyn o'm calon, pa rai a allant, mewn awr o brofedigaeth, beri i mi olygu pethau mewn goleuni gwahanol, ac felly fy mradychu i ddwylaw y gelyn! Cryfha fy ffydd a'm gobaith, O Arglwydd! Meddianna fi â bwriadau grymus i wrthwynebu pob peth a ddelo yn fy ffordd i'r nefoedd; a gosod fy ngwyneb fel callestr (Esay 50. 7.), yn erbyn pob gwrthwynebiad o'r ddaear ac uffern. Os pechaduriaid a'm denant, na âd i mi gytuno â hwynt (Diar. 1. 10.); os bydd iddynt fy nirmygu, na âd i mi sylwi ar hyny; neu os bydd iddynt fy mygwth, na âd i mi ofni. Ond yn hytrach bydded i zel santaidd, wresog, a doeth, godi ynof trwy eu malais hwynt, fel y byddo i mi geisio eu hargyhoeddi a'u diwygio. O leiaf, na fydded yn gywilydd genyf ddadleu dy achos yn erbyn y mwyaf halogedig o watwarwyr crefydd! *Pâr i mi glywed gorfoledd a llawenydd yn fy enaid*, ac mi a ymdrechaf *ddysgu dy ffordd i rai anwir* (Salm 51. 8. 13.), a phechaduriaid a droir atat. Ië, Arglwydd, tra byddo fy ofnau yn aros, er ystyried fy hun dan farn, yr wyf wedi fy marnu yn gyfiawn am fy ynfydrwydd fy hun, ac am hyny yr wyf yn foddlon i fod yn ddadleuwr gyda thi yn fy erbyn fy hun.

Cadw fi yn awr, a phob amser! ac na âd i mi feddwl byth, i ba sefyllfa ac oedran bynag y delwyf, fy mod yn ddigon galluog o honof fy hun i ddwyn yn mlaen y frwydr, heb dy gynorthwy di. Ac na âd i mi yn fy mabandod presenol mewn crefydd, dybied fy hun mor wan fel na elli di fy nghynal. I ba le bynag y'm harweiniech, bydded i mi dy ddilyn; ac yn mha sefyllfa bynag y byddo i ti fy ngosod, bydded i mi yn yr

Digitized by Google

unrhyw lafurio er dy ogoniant: bydded i mi allu dwyn yn mlaen y rhyfel santaidd yn erbyn gelynion fy iachawdwriaeth, a syrthio ynddo yn hytrach na throi fy nghefn yn gywilyddus ar y maes.

O Brynwr gogoneddus, Cadpen mawr fy iachawdwriaeth, Awdwr, a Pherffeithydd fy ffydd (Heb. 12. 2.), pan y byddwyf mewn perygl o'th wadu fel Pedr, edrych arnaf mewn modd brenhinol a thosturiol (Luc 22. 61.), fel y bo i mi naill ai cael fy nghadw rhag syrthio, neu fy nwyn yn ol yn fuan at Dduw a'm dyledswydd drachefn! A dysg fi, hyd yn oed trwy fy syrthiadau, i ymostwng yn fwy dwfn am bob peth beius, ac i ail-ddyblu fy niwydrwydd a'm gofal rhagllaw! Amen!

## PENNOD XVII.

### Y CRISTION YN CAEL EI ANOG I, A'I GYNORTHWYO YN, Y WEITHRED O HUNAN-YMRODDIAD I WASANAETH DUW.

Y manteision o'r cyfryw ymostyngiad yn cael eu crybwyll yn fyr, Dosparth, 1. Cyfarwyddiadau am y dull o'i wneuthur; ar iddo fod yn ystyriol, siriol, cyflawn, tragywyddol, 2, 3, 4. ac iddo gael ei wneyd mewn rhyw ddull cyffrous a difrifol, 5. Bod i ysgrifen gael ei pharotoi i gael ei harwyddo, a'i chyhoeddi, ger bron Duw, ar ryw amser o grefyddolder anghyffredin, yn cael ei gynyg, 6, 7. Terfyna y bennod gydag angraifft o'r fath ysgrifen, gyda thalfyriad o honi, i gael ei arferyd gyda y newidiadau priodol ac angenrheidiol.

1. Gan obeithio, er yr holl wrthwynebiad sydd neu a all fod i grefydd, dy fod, o herwydd yr ystyriaeth o'r cynorthwyon, a'r anogaethau rhagorol a soniwyd am danynt, yn y ddwy bennod o'r blaen, yn bwriadu gwasanaethu Duw o'r galon, mi a ddymunwn yn awr dy

Digitized by Google

gymell i wneuthur rhoddiad syml o honot dy hun, i'r unrhyw. Boed i ti nid yn unig ffurfio y fath fwriad yn dy galon, ond hefyd traethu hyny yn eglur o flaen yr Arglwydd. Y mae y modd syml hwn o'i wneuthur, yn sicr yn rhesymol yn natur pethau; a diamheu ei fod yn fuddiol iawn er mwyn rhwymo wrth yr Arglwydd y fath galonau twyllodrus, ag a wyddom fod genym ni. Fe fydd yn hyfryd meddwl am y fath ymroddiad, wedi ei wneuthur yn y cyfryw a'r cyfryw amser, modd, lle, ac amgylchiadau; ac fe fydd hyn yn foddion i effeithio ar y cof a'r gydwybod. Yr ystyriaeth o'th fod dan adduned i Dduw, a gadarnha dy galon mewn awr o brofedigaeth; a choffadwriaeth o hyn, a rydd anogaeth i ti i agoshau ato ef mewn rhyddid a hyfdra gostyngedig, dan yr ystyriaeth o'th berthynas ag ef, fel dy Dduw cyfamodol, yn ol dy angenrheidiau rhagllaw.

2. Boed i ti, gan hyny, wneuthur fel hyn, ac eto mewn modd pwyllog. Ystyria yn fanwl, pa beth yr ydwyt yn myned i'w wneuthur: ac ystyria, pa mor rhesymol yw i ti roddi dy hun yn galonog ac yn llawen; *nid trwy gymell, eithr yn ewyllysgar* (1 Pedr 5. 2.): canys y mae Duw yn hyn, fel yn mhob peth arall, *yn caru rhoddwr llawen*, 2 Cor. 9. 7. Diamheu nad oes un peth ag a ddylem wneuthur gyda mwy o lawenydd a chydsyniad calon, na rhoddi ein hunain i'r Arglwydd, i'r Duw a'n creodd, ac a'n dygodd i'r byd hwn, ag sydd mor hyfryd a chyflawn o bob angenrheidiau; i'r Duw a'n cynhaliodd yn ein dyddiau o fabandod tyner, yn ein dyddiau o blentynrwydd ac o ieuenctyd, pan yn anystyriol; yr hwn a'n cynorthwyodd, a'n cynhaliodd, ac a'n diogelodd bob munud o'n bywyd hyd yn hyn! Ni all fod un peth yn fwy rhesymol nac i ni gyfaddef Duw ein Meddiannydd a'n Penllywydd cyfiawn; nag i ni roddi ein hunain iddo fel ein Cymwynaswr graslonaf, a'i geisio ef, fel ein Da-

Digitized by Google

ioni penaf. Ni all un peth ymddangos yn fwy uniawn nac i ni, y rhai ydym greaduriaid ei allu, a gwerth gwaed ei Fab, fod yn eiddo iddo, ac yn eiddo iddo byth. Os bydd i'r peth hwn ymddangos mewn goleuni cywir, fe fydd yn ofid i'th enaid ddarfod i ti erioed ymadael â'r Duw bendigedig a'i wasanaeth; ac ni bydd i ti ewyllysio aros yn y cyflwr hwn o bellder oddiwrtho, un flwyddyn nac un diwrnod yn hwy. Fe fydd yn llawen genyt allu dwyn yn ol at Dduw ei greadur gwrthryfelgar; ac fel y rhoddaist gynt dy aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod, fe fydd yn bleser genyt roddi dy hunan i Dduw, fel un o farw yn fyw; ac ymarfer dy *aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw*, Rhuf. 6. 13.

3. Fe fydd yr ymroddiad hefyd mor drwyadl a chyflawn, ag yw yn llawen a diatreg. Yr hyn oll ag ydwyt, yr hyn oll sydd genyt, a'r hyn oll ag a elli wneuthur; dy amser, dy feddiannau, a'th lywodraeth dros eraill, a roddir iddo ef; fel y bo i'r cwbl rhagllaw gael eu defnyddio yn hollol yn ei wasanaeth ef, ac er ei ogoniant. Ni chwennychi atal dim rhagddo; ond ti a farni yn ddifrifol dy fod yn eiddo dy hun, yn yr ystyriaeth oreu, pan fyddech yn fwyaf hollol yn eiddo ef. Rhaid i ti hefyd ar yr achlysur hwn, roddi y cwbl oll a feddi i drefniad ei ragluniaeth rasol a doeth; ac nid yn unig addef ei allu, ond hefyd, ei hawl ddiamheuol, i wneuthur â thi, ac a'r oll a roddodd i ti, fel y bo da yn ei olwg; gan ddangos boddlonrwydd calon i'r hyn oll a wnaeth hyd yn hyn, ac i'r hyn oll a wnelo yn mhellach.

4. Caniata i mi ddywedyd eto yn mhellach, fod yn rhaid i'r ymroddiad hwn fod yn barhaus. Rhaid i ti roddi dy hunan i Dduw yn y fath fodd, na byddi byth mwyach i fod yn eiddo i ti dy hun; canys mae hawl Duw fel ei natur, yn dragywyddol ac anghyfnewidiol; ac

Digitized by Google

mewn perthynas i'w greaduriad rhesymol, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd.

5. Heblaw hyn, rhaid ei fod yn ymroddiad wedi ei wneuthur yn y modd mwyaf difrifol ag sy yn bosibl. Gwna felly mewn geiriau eglur a chyflawn. Ac, fel y dywed llawer o dduwinyddion, fe allai ei fod yn gymwys lawer gwaith i'w wneuthur trwy ysgrifen. Gosod dy enw a'th sel wrth yr unrhyw, mai ar y cyfryw ddydd, o'r cyfryw fis, a'r cyfryw flwyddyn, yn y cyfryw le, ar ol ystyriaeth a myfyrdod syml a chyflawn, y daethost i'r penderfyniad hapus hwn, sef, *pa beth bynag a wnelo eraill, y bydd i ti wasanaethu yr Arglwydd*, Jos. 24. 15.

6. Ti a elli, o bosibl, wneuthur y fath ysgrifen dy hun; ond os ewyllysi yn hytrach gael y fath beth wedi ei wneuthur yn barod i'th law, mi a osodaf ger dy fron ryw beth o'r fath; a thi a elli yn hawdd wneuthur gwahaniaeth, fel y bo yn gweddu i'th amgylchiadau, pan fo dim yn neillduol ynddynt. Ond pa beth bynag a wnelech, pwysa hyny yn dda, a dwys fyfyria arno, fel na *fyddech ry brysur â'th enau i draethu dim ger bron Duw*, Preg. 5. 2. A phan osodech hyn mewn grym, boed i hyny gael ei wneyd gyda mwy o neillduedd crefyddol oddiwrth wrthrychau gweledig, nac arferol. Os yw yn bosibl, gwna yr amser hwnw yn ddydd o ympryd a gweddi ddirgel. A phan fo dy galon wedi ei pharotoi, trwy arswyd priodol rhag mawredd Duw, ac ymddiried yn ostyngedig yn ei ddaioni ef, yn nghyd â dymuniad taer am ei ffafr, yna cwymp ar dy liniau o'i flaen ef, a darllain dy ysgrifen mewn modd syml a phwyllog; a phan roddech dy law wrthi, dod hi heibio mewn lle diogel, fel y bo i ti allu edrych arni pan fynech; a gwna hi yn rheol i ti dy hun i edrych iddi ar amserau nodedig yn y flwyddyn, fel y gallech gadw coffadwriaeth o honi.

7. Cymer y drefn hon, o leiaf, hyd oni welych dy



Digitized by Google

ffordd yn rhydd i fwrdd yr Arglwydd, lle y bydd i ti adnewyddu a selio yr unrhyw gyfamod, mewn modd difrifol. A Duw a wnelo i ti allu ei gadw, ac yn dy holl ymarweddaid rodio ar ei ol! Boed yn angor i'th enaid yn mhob profedigaeth, ac yn gordial iddo yn mhob cystudd! Boed i'r coffadwriaeth o'th gyfamod â Duw, roddi hyfdra i ti yn dy weddiau wrth orsedd gras yn awr, ac i chwanegu nerth i'th ysbryd ar ei ymadawiad, trwy gael tystiolaeth fewnol cydwybod, dy fod yn dyrchafu at dy Dduw a'th Dad cyfamodol, ac at dy Brynwr grasol, gallu a ffyddlondeb pa un, a geidw yn ddiogel *yr hyn a roddaist ato erbyn y dydd hwnw!* 2 Tim. 1. 12.

*Siampl o Hunan-gyflwyniad, neu ffurf o adnewyddiad ein cyfamod â Duw.*

Y JEHOFAH tragywyddol ac anghyfnewidiol! Tydi wyt Greawdwr mawr y nefoedd a'r ddaear, ac Arglwydd gogoneddus dynion ac angylion! Yr wyf yr awr hon yn dymuno cwympo i lawr yn dy bresenoldeb ofnadwy, gydag iselder ysbryd a'r gostyngeiddrwydd mwyaf, a gweddio yn daer ar i ti beri teimlad iawn o'th ogoniant annhraethadwy ac anamgyffredadwy i dreiddio trwy fy nghalon!

Fe ddichon dychryn yn gyfiawn ymaflyd ynof (Job. 20. 6.), pan yr wyf fi, abwydyn pechadurus, yn rhyfygu codi fy mhen tuag atat ti, ac ymddangos ar y fath achlysur yn dy bresenoldeb gogoneddus! *Pwy ydwyf fi, O Arglwydd Dduw, neu pa beth yw fy nhŷ?* 2 Sam. 7. 18. Pa beth wyf fi o enedigaeth neu o naturiaeth, o gymeriad, neu haeddiant, fel y byddo i mi lefaru am y peth hwn, a dymuno sefyll yn un blaid yn y CYFAMOD, tra ——ytti, BRENIN y BRENHINOEDD, ac ARGLWYDD

Digitized by Google

yr ARGLWYDDI, yn sefyll o'r blaid arall! Yr wyf yn gwridio ac yn cywilyddio, hyd yn oed pan yr wyf yn son am y fath beth ger dy fron! Ond, O Arglwydd, mae dy drugaredd yn gymaint a'th ardderchogrwydd. Os bydd i ti ddal cyfeillach â neb o'th greaduriaid, rhaid i'th natur dradyrchafedig ymostwng yn anfeidrol isel. Ac yr wyf yn gwybod dy fod yn a thrwy IESU, Mab dy gariad, yn darostwng dy hun i ymweled â dynion pechadurus a marwol, ac yn caniatau iddynt agoshau atat, a chyfeillachu yn gyfamodol â thydi.Ië, gwelaf mai tydi dy hun a drefnodd y ffordd o gymod, ac i ti ddanfon yn rasol y cynygiad o hono at ddynion; canys ni allasai neb na ddysgwyd genyt ti ei lunio, na bod yn dueddol i'w gofleidio, hyd yn oed pan yn cael ei gynyg iddynt.

Atat ti, gan hyny, yr wyf yn awr yn dyfod, wedi fy ngwahodd yn enw dy Fab, gan ymddiried yn ei gyfiawnder a'i ras ef. Gan daflu fy hunan wrth dy draed gyda gwyneb cywilyddus, a chan guro ar fy mron, yr wyf yn dywedyd gyda y publican gostyngedig, *Duw bydd drugarog wrthyf bechadur!* Luc 18. 13. Yr wyf yn cyfaddef, O Arglwydd, fy mod yn droseddwr mawr. *Fy mhechodau a gyrhaeddasant hyd y nef* (Dat. 18. 5.), *a'm hanwireddau a ddyrchafasant hyd y cymylau*, Jer. 51. 9. Tueddiadau afreolaidd fy natur halogedig a dirywiedig, oeddynt mewn miloedd o ffyrdd yn gweithio ynof i ddwyn ffrwyth i farwolaeth, Rhuf. 7. 5. A phe creffit ar fy anwireddau, rhaid fyddai i mi aros yn fud dan faich o euogrwydd, a soddi yn ddiatreg i ddystryw.

Ond yr ydwyt yn rasol yn galw arnaf i ddychwelyd atat, er bod o honof fel *dafad gyfrgolledig*, *mab afradlon*, *neu blentyn gwrthnysig*, Jer. 3. 22. Wele fi, gan hyny, yn dyfod atat, O Arglwydd! Yr wyf yn dyfod dan argyhoeddiad, nid yn unig o'm pechod, ond hefyd o'm

Digitized by Google

ffolineb. Wele fi yn dyfod gyda chalon gywilyddus, gan gyfaddef o'm henaid, mewn modd gwirioneddol a gostyngedig, *i mi wneuthur yn ynfyd, ac i mi gyfeiliorni yn ddirfawr*, 1 Sam. 26. 21. Y mae y coffadwriaeth o'r pethau hyn yn warth i mi fy hun! Eto *bydd di drugarog wrth fy anghyfiawnderau, ac na chofia fy mhechodau a'm hanwireddau mwyach*, Heb. 8. 12. O Arglwydd! Caniata i mi ddwyn yn ol y galluoedd, a'r cyneddfau, pa rai, trwy anniolchgarwch a chysegr-yspeiliad, a gedwais o'th wasanaeth hyd yn hyn; a derbyn, yr wyf yn atolwg arnat, dy greadur tlawd a gwrthryfelgar, yr hwn sy yn awr yn gweled dy hawl ynddo, ac sydd yn dymuno bod yn eiddo i ti, yn fwy nac un peth arall yn yr holl fyd!

O Dduw bendigedig, yr wyf yn gwneyd yr ymroddiad hwn o honof fy hun i ti, yn y modd mwyaf difrifol! Gwrandewch, O nefoedd, a chlyw dithau, ddaear, yr wyf y dydd heddyw yn cymeryd yr Arglwydd i fod yn Dduw i mi (Deut. 26. 17.); yr wyf y dydd heddyw yn addunedu, ac yn cyhoeddi fy hunan i fod yn un o blant ei gyfamod. Gwrando, O Dduw y nefoedd, ac ysgrifena hyn yn llyfr dy goffadwriaeth (Mal. 3. 16.), fy mod o hyn allan yn eiddo i ti, a hyny yn drwyadl. Yr wyf yn ewyllysio, nid yn unig cysegru rhan o'm galluoedd a'm meddiannau i ti; neu ychydig o'm gwasanaeth, neu yr hyn oll a allwyf dros ryw amser byr; ond yr wyf yn chwennych bod oll yn eiddo i ti, ac yn eiddo i ti byth. Yr wyf o'r dydd hwn yn ymwrthod yn syml â'r arglwyddi ereill a arglwyddiaethasant arnaf (Esay 26. 13.) pob nwyd a phob pechod; ac yn dy enw di, rhoddaf hèr dragywyddol i holl alluoedd uffern, y rhai, yn y modd mwyaf anghyfiawn, a deyrnasasant ar fy enaid, ac i'r holl lygredigaethau a ddygodd eu temtasau i'm calon. Holl ranau ac aelodau fy nghorff, a

Digitized by Google

holl gynheddfau fy meddwl, yr wyf yr awr hon yn eu rhoddi ger dy fron, fel aberthau byw, santaidd, a chymeradwy gan Dduw, yr hyn a wn yw fy ngwasanaeth mwyaf rhesymol, Rhuf. 12. 1. I ti yr wyf yn cysegru fy holl feddiannau bydol. Yn dy wasanaeth yr wyf yn ewyllysio treulio fy holl amser sydd yn ol ar y ddaear, gan atolygu arnat fy nysgu a'm llywodraethu, fel pa un bynag ai hir ai byr fyddo fy arosfa ar y ddaear, y byddo i bob blwyddyn, mis, diwrnod, ac awr, gael eu treulio yn y fath fodd ag a allo fod yn fwyaf effeithiol i ddwyn yn mlaen dy anrhydedd di, ac amcanion dy ragluniaeth rasol a doeth. Ac yr wyf yn ymbil yn daer, pa lywodraeth bynag a roddech i mi dros ereill trwy unrhyw berthynas mewn bywyd, neu mewn canlyniad i unrhyw barch neillduol a allo gael ei roddi i mi, i ti roddi i mi hyfdra a gallu digonol i ymdrechu hyd yr eithaf, er dwyn yn mlaen dy ogoniant di trwy hyn oll. Gan fwriadu, nid yn unig y bydd i mi fy hun, ond pawb ereill, mor bell ag y gallwyf fi yn addas a rhesymol beri iddynt, wasanaethu yr Arglwydd, Jos. 24. 15. Yn yr yrfa hon, O Dduw bendigedig, y dymunwn barhau yn sefydlog hyd derfyn bywyd; gan weddio yn daer ar fod pob diwrnod i ddyfod, yn cyflawni diffygion, ac yn diwygio pethau afreolaidd yn y rhai a aethant heibio; ac ar i mi, trwy ras dwyfol, nid yn unig allu cadw yn y ffordd hapus hòno, ond hefyd cynyddu mewn bywiogrwydd, o ddydd i ddydd.

Ac nid wyf yn cyflwyno fy hun a'r cwbl oll a feddaf, i'th wasanaeth yn unig; ond wele fi yn rhoddi fy hun ac oll sydd eiddof, yn y modd mwyaf gostyngedig, i'th ewyllys benarglwyddiaethol a santaidd. O Arglwydd, yr wyf yn gadael oll a feddaf, ag wyf yn ddymuno, i'th drefniad a'th hyfforddiad di, i wneuthur â hwynt fel y byddo da yn dy olwg. Parha neu cym-



Digitized by Google

ymaith yr hyn a roddaist i mi; dyro i mi neu atal rhagof yr hyn wyf fi yn ddychymygu fod yn ddiffygiol, fel y gwelych yn dda, O Arglwydd! Ac er na feiddiaf ddywedyd, na bydd i mi byth rwgnach; eto yr wyf yn gobeithio y gallaf anturio dywedyd, y bydd i mi nid yn unig ymdrechu ymostwng, ond, hefyd, ymfoddloni; y bydd i mi nid yn unig ddyoddef yr hyn a wnelych trwy dy ragluniaethau mwyaf gorthrymus, ond hefyd cydsynio, a diolch i ti am y cwbl oll; gan fwriadu yn y cwbl a drefnech i mi, y bydd fy ewyllys yr un a'th ewyllys di; ac y bydd i mi edrych arnaf fy hun yn ddim, ac arnat ti, O Dduw tragywyddol, yn bob peth; gair pa un a ddylai benderfynu pob peth, a llywodraeth pa un a ddylai fod yn llawenydd yr holl greadigaeth resymol.

Defnyddia fi, O Arglwydd, fel offeryn i ddwyn yn mlaen dy ogoniant; ac anrhydedda fi mor bell, trwy wneuthur neu ddyoddef yr hyn a drefnech i mi, a chael dwyn rhywfaint o deyrnged o glod i ti, ac o les i'r byd yn mha un yr wyf yn byw! A rhynged bodd i ti, o'r dydd hwn allan, fy nghyfrif yn un o'th bobl briodol, fel na byddwyf mwy fel dyeithriad a dyfodiad, ond yn gyd-ddinasydd â'r saint ac yn un o deulu Duw, Ephes. 2. 19.

Derbyn, O Dad nefol, dy fab afradlon hwn, sydd yn dychwelyd atat! Golch fi yn ngwaed dy anwyl Fab; gwisg fi â'i gyfiawnder perffaith; a santeiddia fi yn gwbl oll trwy dy Ysbryd! Dystrywia, yr wyf yn atolwg arnat, allu pechod yn fy nghalon, yn fwy-fwy! A chyfnewid fi yn fwy i'th ddelw dy hun, a gwna fi yn gyffelyb i'r Iesu, yr hwn wyf yn chwennych edrych arno o hyn allan, fel fy ATHRAW, fy ABERTH, fy EIRIOLWR, a'm HARGLWYDD! Cyfrana, yr wyf yn erbil arnat, bob dylanwad angenrheidiol o eiddo dy

Digitized by Google

Ysbryd, at fy santeiddio a'm dyddanu! A *dyrcha arnaf lewyrch dy wyneb*, fel y bo i fy nghalon gael ei llanw o hyfrydwch, ac â'r llawenydd mwyaf rhagorol, Salm 4. 6, 7.

Trefna fy achosion, O Dduw, fel y byddo oreu er dy ogoniant di a'm dedwyddwch inau; a phan ddarfyddo i mi wneyd a dyoddef dy ewyllys ar y ddaear, galw fi oddiyma, y pryd a'r modd y byddo da yn dy olwg: yn unig bydded i mi yn angau, ac yn ngolwg tragywyddoldeb, gofio fy rhwymedigaethau hyn i ti, a threulio fy anadl diweddaf yn dy wasanaeth! Bydded i ti, O Arglwydd, pan welech loesion angau arnaf, gofio hefyd y cyfamod hwn, er gallu bod o honof fi y pryd hwnw yn alluog i'w gofio. Edrych i lawr, O Dad nefol, gyda golwg o dosturi ar dy blentyn llesg a marwol; bydded dy freichiau tragywyddol oddi tanaf, fel y byddo i mi gael fy nghynal; gosod rym a hyder yn fy ysbryd ar ei ymadawiad, a derbyn fi i freichiau dy gariad tragywyddol. Groesawa fy ysbryd i drigfanau *y rhai a hunant yn yr Iesu* (1 Thes. 4. 14.), fel y byddo i mi ddysgwyl gyda hwynt am y diwrnod gogoneddus, yn mha un y bydd i'r addewid ddiweddaf a roddaist i'th bobl gyfamodol gael ei chyflawni, yn eu hadgyfodiad gorfoleddus, a'r mynediad helaeth a roddir iddynt i'r deyrnas dragywyddol (2 Pedr 1. 12.), yr hon a sicrheaist iddynt yn dy gyfamod, ac yn y gobaith o ba un yr wyf yn awr yn gafaelu ynddo, gan ddymuno byw a marw a'm llaw megys ar y gobaith hwnw.

A phan y byddo i mi yn llyn gael fy rhifo yn mysg y meirw, a phob peth perthynol i'r bywyd marwol hwn wedi myned heibio am byth, os bydd i'r ysgrifen syml hon o goffadwriaeth trwy unrhyw ddygwyddiad syrthio i ddwylaw neb o'm cyfeillion a fyddant byw ar fy ol boed yn foddion i wneuthur argraffiadau difrifol ar

Digitized by Google

meddyliau. Boed iddynt ei darllen, nid fel fy iaith i, ond fel eu heiddo eu hunain; boed iddynt ddysgu ofni yr Arglwydd fy Nuw, a chyda myfi, roddi eu hymddiried dan gysgod ei adenydd, dros amser a thragywyddoldeb. Boed iddynt hefyd ddysgu addoli Duw y gras gyda mi, yr hwn sydd yn tueddu ein calonau i ymgyfamodi ag ef, ac sydd yn ymostwng i wneuthur derbyniad o honom, pan yn ewyllysgar i ddyfod ato; gan briodoli hefyd gyda mi, a'r holl brynedigion, i'r TAD, ac i'r MAB, ac i'r YSBRYD GLAN, y gogoniant, yr anrhydedd, a'r clod, sydd ddyledus i bob un o'r personau dwyfol, am yr hyn y maent yn wneuthur er ein iachawdwriaeth! Amen!

## PENNOD XVIII.

### YN NGHYLCH MYNEDIAD Y CRISTION I GYMUNDEB EGLWYSIG, TRWY DDERBYNIAD PARCHUS O SWPER YR ARGLWYDD.

Ystyrir fod y darllenydd eisioes wedi myned i gyfamod â Duw, Dosparth, 1. Yma anogir ef i selio yr ymrwymiad yn gyhoedd wrth fwrdd yr Arglwydd, 2. (1.) O herwydd golwg ar y dybenion er mwyn y rhai y gosodwyd yr ordinhad hòno, 3. Oddiwrth ba rai cesglir ei bod yn ddefnyddiol iawn, 4. Ac, (2.) O herwydd awdurdod gosodiad Crist, yr hyn a wesgir yn ddifrifol ar y gydwybod, ad. 5. Gwrthddadleuon oddiar ofnau am anaddasrwydd, 6. Gwendid gras, &c. yn cael eu hateb yn fyr, ad. 7. O leiaf, gwesgir yn daer ofal difrifol am y mater hwn, 8. Terfynir y bennod gyda gweddi dros un a ddymuna ddyfod at yr ordinhad, eto yn cael ei hun yn cael ei lethu gan amheuon arosol.

1. YR wyf yn gobeithio y bydd i'r bennod hon dy gael yn un o bobl gyfamodol yr Arglwydd; a thrwy y cydsyniad mwyaf eglur, wedi ymroddi yn syml ac yn

Digitized by Google

galonog i'w wasanaeth ef: ac yr wyf yn gweddio o'm calon ar fod i'r cyfamod a wnaethost ti ar y ddaear gael ei sicrhau yn y nefoedd. Ond er mwyn dy addysg a'th adeiladaeth pellach, dyoddef i mi ddwyn ar gof i ti, ddarfod i'n Harglwydd Iesu Grist osod ffordd briodol i amlygu ein cariad tuag ato, ac i adnewyddu yn ddifrifol ein cyfamod ag ef; yr hon er nad yw yn gwahardd unrhyw ddull arall ag fyddo yn addas, ni ellir mewn un modd ei rhoddi heibio, na'i hesgeuluso, er mwyn unrhyw ordinhad ddynol, er mor ddoeth a buddiol y gallo y fath osodiad ymddangos i ni.

2. Fe ddarfu i'n Harglwydd doeth drefnu, fod y manteision a gyfodant oddiwrth gymdeithas dynion â'u gilydd, gydfyned â chrefydd; ac fel y mae cristionogion proffesedig yn ymgyfarfod ar ei orchymyn ef, er mwyn cyflawni dyledswyddau cyhoeddus a berthynant i grefydd; felly efe a drefnodd ordinhad gymdeithasol, trwy ba un y mae yr holl gynulleidfa i ddyfod at ei fwrdd ef, i fwyta o'r un bara ac i yfed o'r un cwpan. Ac y maent i wneuthur hyny, fel arwydd o'u coffadwriaeth serchiadol o'i gariad ef yn marw drostynt, o'u hymroddiad i Dduw, ac o'u gwir gariad at eu gilydd, a phawb o'u cydgristionogion.

3. Ni chaf fi aros yn awr i brofi mai dyma brif ddybenion y gosodiad o swper yr Arglwydd. Boed i ti ond darllen y ddegfed a'r unfed bennod ar ddeg o epistol cyntaf Paul at y Corinthiaid, cei brawf cyflawn o hyn. Canys y mae yn dywedyd yn eglur yno, i'n Harglwydd orchymyn bwyta bara ac yfed gwin, er mwyn gwneuthur coffâ am dano ef (1 Cor. 11. 24, 25.); ac felly, cynifer gwaith bynag y delom i'r ordinhad hon, y dangoswn farwolaeth yr Arglwydd, yr hyn sydd raid ei wneuthur hyd oni ddelo, ad. 26. Ac y mae y cwpan yn cael ei alw yn bendant, *y Testament*

Digitized by Google

*Newydd yn ei waed ef* (ad. 25 ); hyny yw, sel o'r cyfamod hwnw, pa un a gadarnhawyd trwy ei waed ef. Mae yn eglur, gan hyny, y dylem ni agoshau at y bwrdd gyda golwg ar y cyfamod hwnw, gan ddymuno mwynhau ei fendithion, a bwriadu, trwy ras dwyfol, i gydsynio â'i ofynion. Gan ystyried hyn oll, ni a welwn, fel y dywed yr apostol, fod i ni gymundeb yn *nghorff a gwaed Crist* (1 Cor. 10. 16.); a chan ein bod ni yn gyfranog o'i fwrdd ef, ac o'r cwpan, y mae i ni gyfeillach â Christ, ac undeb â'n gilydd fel ei bobl ef: megys yr oedd i'r cenhedloedd eilunaddolgar yn eu defodau, gymundeb â'u duwiau hwynt; ac y rhoddent eu hunain iddynt; ac fel yr oedd yr Iuddewon, wrth fwyta eu hebyrth, yn cyfeillachu â'r JEHOFAH mawr, ac yn rhoddi eu hunain iddo; felly y mae cristionogion dan yr efengyl yn mwynhau Crist, ac yn rhoddi eu hunain iddo ef. Y mae yr apostol yn mhellach yn dwyn ar gof i'r Corinthiaid, er eu bod yn llawer, eu bod yn un bara ac yn un corff, gan eu *bod oll yn gyfranog o'r un bara* (1 Cor. 10. 17.), a chwedi yfed oll o'r un ddiod ysbrydol (1 Cor. 12. 13.); hyny yw, eu bod yn cyfarfod yn nghyd fel un teulu, gan uno mewn coffadwriaeth o'r un gwaed a'u prynodd hwynt oll, ac o'r Arglwydd Iesu, eu Pen cyffredin. Yn awr y mae yn amlwg fod hyn oll yn wir mewn perthynas i'r cristionogion yn mhob oes o'r byd. Caniata i mi gan hyny, yn enw a thrwy awdurdod fy Meistr dwyfol, dy anog di i gyflawni y gorchymyn hwn.

4. Gad i mi dy anog i dderbyn swper yr Arglwydd, oblegid y tuedd sydd yn yr ordinhad hon i ddwyn yn mlaen dy wir lesbad. Yr ydwyt yn awr yn dechreu y fuchedd gristionogol; ac mi a ddangosais i ti yn helaeth y gwrthwynebiadau sydd raid i ti ddysgwyl cyfarfod â hwynt ynddi. Ac nid oes dim ond cariad Crist

Digitized by Google

a all dy galonogi i dori trwyddynt oll. Pa beth gan hyny a all fod yn fwy dymunol nac i ti allu dwyn o'th amgylch bob amser deimlad bywiog o hono? A pha beth a all gyffroi y cyfryw deimlad yn fwy, na'r olwg arno ef yn marw dros bechod, yr hyn a amlygir yn y swper santaidd? Pwy a all edrych ar y bara yn cael ei dori, a'r gwin yn cael ei dywallt, heb ystyried y modd y cafodd corff yr Iesu bendigedig ei ddryllio trwy ei ddyoddefiadau, a'i waed santaidd ei dywallt allan fel dwfr ar y ddaear? Pwy a all feddwl am y loesau torcalonus a deimlodd Mab Duw, fel gwerth ein prynedigaeth a'n iachawdwriaeth ni, heb deimlo ei galon yn toddi o dosturi, ac yn llosgi o gariad a diolchgarwch? Pa fath olwg ddyrchafedig a roddir i ni ar fendithion y cyfamod gras yn swper yr Arglwydd, pan yr ystyriom ei fod wedi ei gadarnhau trwy waed unig-anedig Fab Duw? A phan fyddom yn agoshau at Dduw fel ein Tad nefol, gan roddi ein hunain yn y fath fodd syml i'w wasanaeth, oni fydd yn tueddu yn fawr i sefydlu y grediniaeth hon ar ein calon, nad ydym yn eiddo ein hunain, gan ein bod wedi ein prynu trwy y fath werth? 1 Cor. 6. 19, 20. Y fath duedd sydd yn hyn i osod gwyliadwriaeth ynom yn erbyn pob temtasiwn i'r pechodau, pa rai yr ymwrthodasom â hwynt mewn modd mor ddifrifol, ac i'n gwneyd yn ffyddlon iddo ef, i ba un y rhoddasom ein heneidiau megis trwy lw! Ac onid yw yn iawn fod ein calonau wedi *cyd-gysylltu mewn cariad* (Col. 2. 2.), gan ein bod yn *un yn Nghrist?* Gal. 3. 28. Y mae ei waed ef yn gwlwm y gymdeithas; y mae yn ein huno yn yr ysbryd â'n gilydd; ac nid yn unig â'n gilydd, ond *â phawb sy yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist yn mhob lle, o'r eiddynt hwy a ninau* (1 Cor. 1. 2.), ac yr ydym trwy obaith hyfryd yn rhagachub y diwrnod gogoneddus hwnw, yn mha un y bydd y gymanfa yn

Digitized by Google

gyflawn, ac y cawn fod yn dragywyddol gyda yr Arglwydd, 1 Thes. 4. 17. Trwy y pethau hyn tueddir ni i ymwadu â ni ein hunain, ac i godi y groes i ganlyn ein Harglwydd croeshoeliedig (Mat. 16. 24.): cawn ein rhwymo i wneuthur a allom trwy weddi, a phob rhyw foddion addas, i ddwyn yn mlaen ddaioni ei ganlynwyr a'i gyfeillion; i weini i'r sawl a brynodd efe â'i briod waed, ac a fyddant ei gydymeithion ef a ninau yn y gogoniant am byth.

5. Y mae ein Prynwr bendigedig yn mhellach wedi ordeinio a gorchymyn, i aelodau y fath gynulleidfaoedd fod yn dyner ofalus i geisio dwyn yn mlaen ddaioni ysbrydol y naill a'r llall. Ac i'w eglwysi gael eu cadw yn bur ac yn santaidd; iddynt dynu ymaith oddiwrth bob brawd ag a fyddo yn rhodio yn afreolaidd (2 Thes. 3. 6.); i graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod yn eu plith, yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasant, a *chilio oddiwrthynt* (Rhuf. 16. 17.); ac os bydd neb heb ufyddhau i air Crist trwy ei apostolion, i beidio cymdeithasu ag ef, fel y *cywilyddio* (2 Thes. 3. 14.); na bo iddynt gyd-fwyta â'r sawl sy yn afreolaidd yn eu buchedd; ond i'r gwrthwyneb, bwrw y dynion drygionus hyny *ymaith o'u plith*, 1 Cor. 5. 11, 13. Y mae yn eglur gan hyny, fod y cymanfaoedd a'r gosodedigaethau hyn yn tueddu yn fawr i anrhydedd cristionogaeth, a lles y sawl sydd yn ei phroffesu. Ac am hyny y mae pob ystyriaeth o'n rhwymedigaethau i ufyddhau i'n Harglwydd, ac o'r angenrheidrwydd i ofalu yn ddoeth am ein daioni ein hunain, a lles ein brodyr, yn galw ar bawb sy yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn gwirionedd, i gyduno â chymanfaoedd y saint, yn y weithred syml hon o gymuno wrth y bwrdd santaidd.

6. Yr wyf gan hyny yn atolygu arnat, ac os gallaf anturio dywedyd felly, yn ei enw a'i awdurdod ef, yr

Digitized by Google

wyf yn gorchymyn, na byddo i'r ordinhad hon o eiddo ein Harglwydd croeshoeliedig, gael ei gosod heibio genyt ti fel peth dilës; ond os wyt yn ei garu ef, bydded i ti gadw yn gydwybodol y gorchymyn hwn, fel y lleill o'i eiddo.—Mi a wn dy fod yn barod i ffurfio gwrthddadleuon. Ac fe ddarfu i mi mewn man arall ateb llawer o'r rhai mwyaf grymus o honynt,* ac yr wyf yn gobeithio nid yn ofer.—Y cwestiwn mawr yw, A ydwyt yn gymwys? Ac mewn cydgordiad â'r hyn y soniwyd am dano yn mlaen llaw, yr wyf yn meddwl fod yn hawdd penderfynu y peth hwn yn fuan. A oeddit ti, mor bell ag yr wyt yn adnabod dy galon, yn ddiragrith, pan roddaist dy hun yn bwyllog i Dduw trwy Grist, yr hyn a gymeradwyais i yn y bennod o'r blaen? Os oeddit, (pa un a fu hyny trwy y drefn a roddais ger dy fron, neu ni bu) yr ydwyt yn sicr wedi cymeryd gafael ar y cyfamod; ac am hyny y mae genyt hawl i'r sel a berthyn iddo.—Ac ni elli ddadleu yn erbyn yr ordinhad hon ar unrhyw olwg arall. Os wyt yn chwennych cofio marwolaeth Crist; os wyt yn chwennych adnewyddu dy roddiad o honot dy hun i Dduw trwyddo ef; os ydwyt yn chwennych cofrestru dy hun yn mhlith ei bobl ef; os ydwyt yn ewyllysio eu caru, a gwneuthur y daioni a elli iddynt; ac, ar y cwbl, os wyt yn bwriadu na fyddi byw mewn unrhyw ymarferiad pechadurus, nac yn y gomeddiad o un ddyledswydd, yna anturiaf yn hŷ i ddywedyd, nid yn unig fod i ti roeso i'r ordinhad, ond yn mhellach, ei bod wedi ei gosod i'r fath ag ydwyt ti.

7. Mewn perthynas i wrthddadleuon ereill, y mae ychydig o eiriau yn ddigon mewn ffordd o atebiad. Y mae gwendid egwyddorion crefyddol yn dy enaid, os

* Gwel y bedwaredd bregeth o'm heiddo i bobl ieuainc.

ydynt wedi eu gwir blanu yno, mor bell o fod yn rheswm yn erbyn ceisio eu cryfhau trwy y cyfryw foddion, fel y mae yn hytrach yn dangos, yn y modd cadarnaf, yr angenrheidrwydd o hyny. Yr ystyriaeth o fod yr ordinhad hon yn cael ei hesgeuluso gan gynifer o'r rhai sy yn galw eu hunain yn gristionogion, a ddylai enyn dy zel di yn fwy drosti, gan ei bod fel hyn yn cael ei dibrisio.—Ac am yr ofnau o chwanegu euogrwydd trwy wrthgiliad, paid a'u lletya hwynt. Fe all dy ufudd-dod yn hyn, trwy ras dwyfol, fod yn feddyginiaeth i'r drwg yr wyt yn ei ofni; ac y mae yn sicr, ar ol yr hyn oll a wybuaist ac a deimlaist yn barod, cyn dy ddwyn i'th amgylchiad presenol, (fel y cymerais yn ganiataol,) nad oes dim lle i feddwl am dyniad yn ol; dim lle hyd yn oed i'r gobaith truenus hwnw, o fod yn llai dy boenau, na'r cyffredinolrwydd o'r sawl a gollwyd. Rhaid i ti, gan hyny, wneuthur dy iachawdwriaeth mor sicr, ac mor ogoneddus, ag yw bosibl: ac ni wn i am un gosodiad o eiddo ein Prynwr bendigedig, ag sydd yn tueddu yn fwy cysurus i'r dyben gogoneddus hwn, na'r ordinhad hon, i ba un yr wyf yn dy anog di.

8. Un peth yr wyf o leiaf yn sefyll am ei gael, ac ni allaf weled gyda pha wyneb y gelli ei nacau ef i mi; sef, cymeryd o honot y mater hwn mewn modd difrifol at dy ystyriaeth. Ymofyn, yn gydwybodol, a oes un rheswm i gredu, mai ewyllys Duw yw i ti ddyfod yn awr at yr ordinhad hon, ai nad oes? Ac i ti barhau dy fyfyrdodau, dy ymofyniadau, a'th weddiau, hyd oni chaffech anogaeth pellach i ddyfod, os yw y fath anogaeth yn ddiffygiol hyd yma. Canys bydd sicr o hyn, fod y cyflwr yn mha un yr wyt yn anghymwys i ddyfod i'r ordinhad hon, yn gyflwr ag sydd yn amddifad o'r parotoadau angenrheidiol i angau a nefoedd; yn mha , gan hyny, os nad ydwyt yn ewyllysio huno a hep-

Digitized by Google

ian ar geulan dystryw, ni ddylit orphwys gymaint ag un diwrnod.

*Gweddi i un sydd yn gwir ddymuno dyfod at fwrdd yr Arglwydd, eto dan rai amheuon yn nghylch ei hawl i'r ordinhad hòno.*

O Arglwydd bendigedig, yr wyf yn dy glodfori di am dy osodiadau doeth a grasol, i'r dyben o gynyddu dy eglwys mewn santeiddrwydd a chariad. Yr wyf yn diolch am i ti orchymyn i'th weision ffurfio eu hunain yn gynulleidfaoedd; ac yr wyf yn clodfori yr Iachawdwr graslawn, yr hwn a osododd, megis â'i anadl diweddaf, ei swper santaidd, i fod trwy bob oes yn goffadwriaeth o'i farwolaeth, o gariad at eneidiau, ac yn rhwymyn yr undeb hwnw a ewyllysia ei fawredd i'w bohl gynal yn eu plith. Yr wyf yn gobeithio y gallaf dy alw di, O Arglwydd, yn dyst o'm dymuniad diragrith i allu rhoddi fy hun i ti; ac y gallaf dy alw yn dyst ar fy enaid, os wyf yn awr yn petruso yn nghylch y modd arbenig hwn o wneuthur felly, nad wyf ddim yn gwneuthur hyny o achos fy mod yn chwennych tori un o'th orchymynion, na dibrisio un o'th fendithion. Yr ydwyf yn hyderu dy fod yn gwybod, fod fy oediad hwn yn cyfodi yn unig oddiwrth y diffyg o ddeall fy nyledswydd; ac ofn halogi pethau santaidd, trwy ddyfodiad anghymeradwy. Eto, Arglwydd, y mae yn ddiamheu, gan i ti roddi i mi olwg barchus ar dy orchymynion, a dymuniad i gael cymundeb â thi, yn nghyd â boddlonrwydd i roddi fy hun yn hollol i'th wasanaeth, y gallaf edrych ar hyn fel arwydd er daioni, o'th fod yn foddlon i fy nerbyn i, ac nad wyf yn gwbl anaddas i'r ordinhad, pa un yr wyf yn barchù mor fawr, ac yn ddymuno mor daer. Yr wyf gan hyny, y

Digitized by Google

dydd heddyw, yn dymuno arnat yn ostyngedig, O Arglwydd, i'm dysgu i adnabod fy nyledswydd, ac i ddangos yn rasol y ffordd yn mha un y dylwn rodio. Hola fi, O Arglwydd, a phrawf fi; chwilia fy arenau a'm calon, Salm 26. 2. A oes unrhyw bechod dirgelaidd, i garu a gwneuthur pa un yr wyf yn foddlon? A wyf yn tori un o'th orchymynion o wirfodd ac o egwyddor? Yr wyf yn gobeithio y gallaf dy alw di yn dyst, nad wyf. Na âd i mi, gan hyny, ddrygu fy enaid fy hun trwy absenoli yn bechadurus a diachos oddiwrth dy fwrdd santaidd! Ond par, O Arglwydd, yr ydwyf yn atolygu arnat, i'th air, dy ragluniaeth, a'th Ysbryd, gydweithio i'r dyben o wneyd fy ffordd yn wastad, Diar. 15. 19. Gwasgara yr amheuon sydd yn aros ar fy meddwl, os wyt yn eu gweled yn ddisail! Llanw fi â ffydd sicrach, ac â chariad mwy gwresog; a dadleu dy achos â'm calon yn y fath fodd, fel na byddo hi yn abl i aros yn hwy heb agoshau at dy fwrdd; yr hyn, os wyf yn wasanaethwr i ti, yw fy nyledswydd yn gystal a'm braint! Yn y cyfamser, na âd i hyn fod yn hir allan o'm meddwl ar un pryd; ond bydded i mi allu rhoddi pob diwydrwydd, os oes eto unrhyw achos o amheuaeth, i geisio ei symud, trwy ofal mwy serchiadol i ochelyd pob rhyw beth a fyddo yn annymunol yn ngolwg dy santeiddrwydd, ac i arferyd yn gyflawn bob dyledswydd! Bydded yr olwg ar Grist croeshoeliedig, yn beth mor gynefin i fy meddwl, a boed teimlad o'i gariad yn marw dros bechod, i gymell fy enaid yn y fath fodd galluog, fel y byddo i'm profiad fy hunan, trwy fyned ar gynydd, brofi tu hwnt i bob dadl, fy mod i yn un o'r sawl y trefnwyd y wledd hon o gariad er eu lles!

mi a ddymunwn yr awr hon, gan fy mod yn un lwysi mewn ysbryd, a chariad, er nad wyf trwy

Digitized by Google

y fath rwymyn agos ac eglur ag y chwennychwn, weddio o'm calon, a'r i'th fendith fod ar dy holl bobl. Portha dy etifeddiaeth, a dyrchafa hwynt yn dragywydd! Salm 28. 9. Boed i bob cymdeithas gristionogol gynyddu mewn gwybodaeth, santeiddrwydd, a chariad! Boed i'th holl offeiriaid gael eu gwisgo ag iachawdwriaeth, fel y byddont yn foddion i wneyd dy holl ddewisedig bobl yn llawen! Salm 132. 16. A boed cynydd ar dy eglwysi yn mhob man, trwy fod dynion yn ehedeg atynt, fel cwmwl, ac fel colomenod i'w ffenestri! Esay 60. 8. Boed i'th fwrdd, O Arglwydd, fod yn gyflawn o wahoddedigion (Mat. 22. 10.); ie, boed i bawb a garant dy iachawdwriaeth, a phawb a garant lwyddiant dy weision, ddywedyd, mawryger yr Arglwydd! Salm 35. 27. Ac yr wyf yn gweddio yn daer, a'r fod pawb ag sy yn proffesu iddynt dderbyn Crist Iesu yr Arglwydd, yn gofalu yn iawn am *rodio ynddo* (Col. 2. 6.); a'n bod ni oll yn ymbarotoi erbyn yr amser y caffom fyned at gynulleidfa y rhai cyntafanedig, gyda y rhai y cawn uno yn yr addoliad mwy gogoneddus ac agos hwnw at Dduw, pan fyddo yr holl gysgodau hyn yn cael eu gosod heibio; lle na bydd rhaid wrth yr arwyddion hyn yn mhellach; ond y Prynwr byw a phresenol fydd yn achos o lawenydd tragywyddol y rhai hyny ag a gymerasant bleser, tra yma yn ei absenoldeb, i goffâu ei farwolaeth ef trwy gysgodau! Amen.



Digitized by Google

# PENNOD XIX.

## RHAI HYFFORDDIADAU MWY NEILLDUOL ER MWYN CYNAL CYMUNDEB GWASTADOL A DUW, NEU AROS YN BI OFN AR HYD Y DYDD.

**Llythyr at gyfaill duwiol ar y mater hwn yn cael ei ddwyn i mewn yma, Dosparth, 1. Cynllun cyffredinol yn nghylch cyfarwyddiadau, 2. [I.] At ddechreu y dydd, 3. (1.) Dyrchafu y galon at Dduw wrth ddeffroi gyntaf, 4. (2.) Ymosod at grefyddolderau dirgel y bore; gyda golwg ar ba rai rhoddir cyfarwyddiadau neilldnol, 5—10. [II.] At dreulio ystod y dydd, 11. Rhoddir cyfarwyddiadau yn nghylch, (1.) Difrifoldeb mewn crefyddolder, 12. (2.) Diwydrwydd mewn galwedigaeth, 13. (3.) Callineb mewn difyrwch, 14. (4.) Sylwadau ar raglunlaeth, 15. (5.) Gwyliadwriaeth yn erbyn profedigaeth, 16. (6.) Dibyniad ar ddylanwad dwyfol, 17. (7.) Rheolaeth ar y meddyliau pan mewn unigolrwydd, 18. (8.) Y trefniad o ymadrodd pan mewn cyfeillach, 19. [III.] At derfynu y dydd, 20. (1.) Gyda chrefyddolderau dirgel yr hwyr, 21. Cyfarwyddiadau at hunan-ymholiad yn gyffredinol, 22, 23. (2.) Gorwedd i lawr mewn tymer briodol, 24. Terfyniad y llythyr, 25. ac eiddo y bennod 26. Gyda golwg ddifrifol ar angau, gweddus i'w chymeryd ar ddiwedd y dydd.**

1. YR wyf yn gobeithio fod y darllenydd, erbyn hyn, trwy ystyriaeth difrifol, hunan-ymholiad a gweddi, wedi dyfod i'r penderfyniad o agoshau at fwrdd yr Arglwydd, ac felly i selio ei addunedau yno. Mi a gymeraf yn ganiataol fod y peth syml hwnw wedi ei gyflawni yn barod, neu o leiaf fod rhyw weithred bwyllog wedi ei gwneuthur, trwy ba un y rhoddodd efe ei hun i wasanaeth Duw; ac mai ei ofal presennol yw, pa fodd i rodio yn ol ei addunedau i Dduw. Yn awr, er mwyn ei gynorthwyo yn mhellach yn hyn, heblaw yr olwg gyffredinol a roddais yn barod ar ymarweddiad a

Digitized by Google

thymer y cristion, caf roddi rhai hyfforddiadau mwy neillduol, tuag at gynal yr ymarweddiad duwiol, ysbrydol, a nefolaidd hwnw, ag a elwir, yn iaith yr ysgrythyr, *rhodio gyda Duw, neu aros yn ei ofn ef ar hyd y dydd,* Diar. 23. 17. Ac ni wn i pa fodd i osod allan fy meddwl yn y mater hwn yn well, na thrwy y llythyr a ysgrifenais at wr ieuanc o dduwioldeb mawr, yn y flwyddyn 1727, â pha un yr oedd i mi, y pryd hwnw, gyfeillgarwch enwedigol; yr hwn, er mawr alar i bawb a'i hadwaenent ef, a fu farw yn mhen ychydig o fisoedd wedi ei dderbyn. Er hyny, bu fyw, yr wyf yn gobeithio, yn ddigon hir i osod yr hyfforddiadau mewn ymarferiad; yr hyn wyf yn chwennych, ac yn gweddio, i bob darllenydd allu ei wneuthur, yn ol fel y byddont yn gymwys i'w gyrhaeddiadau a'i amgylchiadau mewn bywyd; gan eu hystyried hwynt wedi eu danfon megys ato ef yn unig.—Yr wyf yn dywedyd, (ac yn dymuno i hyny gael ei ystyried,) fy mod yn chwennych i'm darllenydd weithredu yn ol yr hyfforddiadau hyn, mor bell ag y byddont yn gweddu i'w gyrhaeddiadau a'i amgylchiadau mewn bywyd; canys yr wyf yn mhell o feddwl gosod i lawr y pethau canlynol fel rheolau cyffredin i bawb, neu i un dyn yn y byd, ar bob amserau. Bydded i'r sawl a allant, eu harfer pan gaffont gyfleusdra: a phan na allont eu harfer hwynt oll, eto bydded iddynt arfer y rhai mwyaf eu pwys fel y bo gweddus. Gyda y fath ocheliad, yr wyf yn myned rhagof at y llythyr; yr hwn, fel yr wyf yn gobeithio, ni wna wangaloni hyd yn oed y gwanaf o gristionogion, gan i mi ofalu yn mlaen llaw, yn erbyn y perygl o'i gamddeall ef. Bydded i ni yn ostyngedig ac yn llawen wneuthur ein goreu, a gorfoleddu oblegid fod i ni Dad mor rasol, yr hwn a ŵyr ein gwendidau; a'r fath Arch-offeiriad tosturiol, ag sy yn cyflwyno y gwanaf o'r

Digitized by Google

hymdrechiadau diragrith mewn dyledswydd a chariad, yn gymeradwy ger bron Duw!

*Fy Nghyfaill anwyl,*

Gan i chwi ddymuno cael fy meddyliau yn helaeth ac yn ysgrifenedig ar y peth y buom yn ymddyddan yn ddiweddar yn ei gylch, sef, 'Pa ryw bethau y dylem ni sylwi arnynt mewn modd neillduol yn ein buchedd o ddydd i ddydd, i'r dyben o sicrhau a dwyn yn mlaen fywyd o dduwioldeb ac o ddefnyddgarwch?' Yr wyf yn rhoddi fy hun gyda llawenydd, i adgofio a dosparthu yr ychydig bethau a ddywedais wrthych ar y pryd hwnw; gan obeithio y bydd hyn dan fendith i chwi yn yr achos mwyaf ei bwys; ac y bydd hefyd yn foddion i sefydlu ar fy meddwl fy hun deimlad mwy dwfn o'm rhwymedigaethau i drefnu fy mywyd yn ol y rheolau ag yr wyf yn eu rhoddi o flaen ereill.—Yr wyf yn cyfrif ymdrechiadau o'r natur hyn yn rhai o'r ffrwythau mwyaf dymunol, a'r rhwymau cadarnaf, o gyfeillgarwch; ac fel yr wyf yn gobeithio fod ein cyfeillgarwch ni i bara byth, yr wyf yn credu y bydd i ofal o'r ddau tu feithrin y cyfryw beth, i fod yn foddion i chwanegu at gyfeillgarwch, anwylder tragywyddol.

2. Yr hyfforddiadau a ddysgwyliwch oddiwrthyf fi, ar yr achlysur hwn, ydynt yn ymranu yn naturiol i'r tri phen canlynol; sef, pa fodd y mae i ni ymddwyn tuag at Dduw,—yn nechreu,—trwy gorph,—ac ar ddiwedd y dydd. Mi a ddywedaf fy meddyliau yn eglur yn nghylch pob un o'r penau hyn, gan adael i chwi farnu pa mor bell y bo yr hyn a ddywedwyf yn addas i'ch amgylchiadau chwi; ac mi a geisiaf yn y cwbl, gerdded y ffordd ganol, rhwng manylrwydd coelgrefyddol mewn

Digitized by Google

pethau disylwedd, ar y naill law, ac esgeulusdra diogelyd am bethau pwysfawr, ar y llaw arall; yr hyn, os dyoddefwn iddo i gymeryd lle mewn pethau bychain, a ddwg yn mlaen esgeulusdra mwy pechadurus.

3. [I.] Yn nechreuad y dydd. Diamheu y dylem ofalu,—i ddyrchafu ein calonau at Dduw, cyn cynted ag y deffröom, a thra byddom yn codi;—ac felly i roddi ein hunain yn syml ac yn ddiatreg i gyflawni y dyledswyddau perthynol i'r bore yn y dirgel.

4. Am y cyntaf o'r pethau hyn, ymddengys yn naturiol iawn. Canys y mae cynifer o bethau ag a allant beri llawer o fyfyrdodau a gweddiau dirgel a duwiol, fel y gellid tybied na allai unrhyw feddwl syml lai na'u hystyried. Tawelwch a sirioldeb y meddwl pan ddeffröom gyntaf; y dadebriad a gawsom trwy ein cwsg; y diogelwch a gawsom pan na allasem amddiffyn ein hunain; y gwisgoedd gweddaidd a chynes a drefnodd rhagluniaeth er ein lles; dychweliad goleuni cysurus yr haul; neu hyd yn oed (fel nad yw yn anaddas ei grybwyll i chwi) yr hyn a ddyfeisiodd celfyddyd, a'r hyn a ddysgodd ac a ddarparodd Awdwr mawr ein holl gyfleusderau, er mwyn rhoddi i ni lawer o oriau defnyddiol yn absenoldeb yr haul; y gobaith o gael dychwelyd i gymdeithas ein hanwyl gyfeillion, ac o dreulio un dydd yn chwaneg yn ngwasanaeth Duw, a diwygio ein meddyliau ein hunain; ac uchlaw y cwbl, y gobaith bywiol o adgyfodiad gorfoleddus i ddydd tragywyddol o hapusrwydd a gogoniant. Un o'r pethau hyn, ynghyd a llawer eraill nad wyf yn eu henwi, a allant ein llanw â myfyrdodau cysurus ac â mawl, tra yr ydym yn cyfodi. Ac er mwyn ein cynorthwyo yn mhellach, tra byddom wrthym ein hunain, mae yn bosibl na bydd yn anaddas i ni weithiau lefaru wrthym ein hunain, ac wrth ein Tad nefol, trwy yr ymadroddion naturiol hyn·

Digitized by Google

o lawenydd a diolchgarwch. Caniatewch i mi, Syr, i chwanegu, os bydd i ni gael ein calonau yn y fath hwyl ar ein deffroad cyntaf, fod hyny yn achos cyfiawn o ddiolchgarwch, 'a hyny yn fwy, gan fod y fath hwyl, o bosibl, yn atebiad i'r weddi gyda pha un y gorweddasom i lawr.

5. Tuag at ddwyn yn mlaen grefydd ddirgelaidd yn y bore, yr hyn a obeithiaf fydd ein gwaith cyntaf, ni allaf osod i lawr un rheol berffaith i arall Rhaid i chwi, fy nghyfaill, mewn mesur, sylwi ar eich tueddiad eich hun. Y mae holl ranau ein gwasanaeth yn gynwysedig yn y drefn gyffredinol. A phe bawn i yn gosod i lawr unrhyw drefn neillduol, i'r sawl y mae ganddynt chwarter neu haner awr i dreulio fel y mynont yn y boreu, (yr hyn a all fod gan y rhan fwyaf o ddynolryw, os ymddygant yn ddoeth,) mi a gymeradwywn iddynt yr hyn a ganlyn.

6. Dechreu defosiynau y dydd trwy ddiolchgarwch syml; a hyny ar ein gliniau ger bron Duw, ac yn gyffredin trwy leferydd isel, dealladwy; gan gydnabod y trugareddau y buom yn eu hystyried tra yr oeddem yn codi; heb byth anghofio crybwyll am Grist, yr hwn yw Sylfaen gadarn ein holl fendithion a'n holl obaith; nac anghofio diolch am ddylanwadau yr Ysbryd Bendigedig, pa rai a dynasant ein calonau at Dduw, neu sydd y pryd hwn yn eu rhwymo hwynt i'w geisio ef. Ac y mae yn rhaid i hyn, yn gystal a'r cyflawniadau rhagllaw, gael ei wneyd mewn modd difrifol a diragrith; canys y mae peidio clodfori Duw o'n calon, yn ei olwg ef yr un peth a phe byddem yn byw heb ddiolch iddo oll. Mae yn addas i ddybenu y weithred hon o ddiolchgarwch, gydag adnewyddiad eglur o'n cyfamod â Duw, gan ddangos ein bwriadau i ymroddi

iddo yn barhaus, ac yn neillduol i fyw i'w ogoniant ef trwy y dydd a ganlyn.

7. Wedi hyn, fe fydd yn gymwys cymeryd golwg ar y dydd o'n blaen, mor bell ag y gallom, ar y cwbl, ragweled pa fodd y bydd iddo gael ei dreulio; ac ystyried yn brysur, ac ymofyn, pa beth a allaf wneuthur dros Dduw y dydd hwn? Pa waith sydd yn galw? Pa gyfleusderau a allaf ddysgwyl gael i dderbyn neu i wneuthur rhyw ddaioni? Pa demtasiynau sydd yn debyg o'm cyfarfod, yn unrhyw le, cyfeillach, neu amgylchiad? Ym mha bethau y bum yn feius yr amser a aeth heibio? A pha fodd y diogelaf fy hun oreu yn awr?

8. Ar ol cymeryd y fath olwg, fe fydd yn gymwys cyfeirio gweddi fer at Dduw, a deisyf arno ein bywiocau i gyflawni y dyledswyddau rhagweledig, ac i'n cynorthwyo yn erbyn pob rhyw berygl; atolygu arno ein llwyddo yn mhob gorchwyl a gymerom mewn llaw, er ei ogoniant ef; a'r iddo hefyd roddi nerth i ni i ddefnyddio yn iawn bob cyfleusdra ag nad ydynt eto yn weledig, i wrthwynebu pob profedigaeth, na wyddom eto am danynt; a dyoddef mewn modd crefyddol ac amyneddgar, yr holl drallodion a allant ein cyfarfod ar hyd y dydd.

9. Mi a'th gynghorwn yn mhellach i ddarllain rhyw ran o'r ysgrythyr; nid llawer ar unwaith; na chwaith yr holl Fibl o'i fron; ond rhai rhanau ag a allant fod yn fwyaf defnyddiol; deg neu ddeuddeg o adnodau a fydd, o bosibl, yn ddigon ar y tro, heb achos blino eich hun yn nghylch eu cysylltiad, neu bethau cywrain ereill, pa rai a allant ddyfod yn eich ffordd, (er y cynghorwn i chwi sylwi ar y cyfryw bethau ar amserau ereill, yn ol eich gallu a'ch cyfleusdra,) ond eu hystyried mewn modd defosiynol ac ymarferol yn unig. Cymerwch, yn

Digitized by Google

y modd hwn, y cyfryw addysgiadau a ymgynygiont hawsaf i'ch meddyliau, adroddwch hwynt i'ch cydwybod, a gorchymynwch i'ch calon mewn modd crefyddol eu hystyried hwynt a byw yn eu hol, dan deimlad o'r awdurdod dwyfol sydd yn cydfyned â hwynt. Ac os gweddiwch am fendith ar y cyfryw ran o'r ysgrythyr, gan adael y Bibl yn agored o'ch blaen, fe allai y bydd iddo gael argraff dyfnach ar eich cof, ac ar eich calon; ac felly rhoddi i chwi amrywiol a helaethach meddyliau ac ymadroddion mewn gweddi.

10. Fe ellir yn addas derfynu y crefyddolderau hyn trwy Salm neu Hymn. Ac yr wyf yn cydlawenhau â chwi, fod genym, trwy lafur duwiol y Doctor Watts, a beirdd duwiol ereill, y fath gyflawnder o ganiadau perthynol i'r ystafell ac i'r teulu, ar y fath achosion a hyn, yn gystal ag at wasanaeth y cysegr.

11. [II.] Tuag at dreulio corff y dydd megys y dylem, y mae yr hyfforddiadau canlynol yn ymddangos i mi o bwys mawr: Sef, ein bod yn syml yn ein cyflawniadau crefyddol;—yn ddiwyd yn ein galwedigaethau bydol,—yn ddoeth ac yn gymhedrol yn nifyrwch y dydd;—yn sylwi ar ragluniaethau y dydd;—yn gwylio yn fanwl yn erbyn profedigaethau;—yn cynal ymddibyniad bywiog a gostyngedig ar gynorthwyon dwyfol, yn gyfatebol i bob digwyddiad;—yn llywodrathu ein meddyliau yn iawn,—â'n hymadroddion yn mhob rhyw gyfeillach trwy y dydd. Dyma, Syr, benau y bregeth y clywsoch fi yn ei phregethu yn ddiweddar ar yr achlysur hwn, am ba un y crybwyllasoch yn eich cais, yr hwn wyf yn awr yn geisio ei ateb. Mi a sylwaf yn fyr, gan hyny, ar y pethau mwyaf pwysfawr a berthynant i bob un o'r penau neillduol hyn.

12. [1.] I'r dyben o ddwyn yn mlaen ein cyflawniadau

Digitized by Google

crefyddol gyda symlrwydd, pa un bynag ai cyhoeddus ai teuluaidd, boed i ni gymeryd rhai munudau, cyn yr elom yn eu cylch hwynt, i fyfyrio ar briodoliaethau y Duw yr ydym yn myned i ymddyddan ag ef; ar bwys y gorchwyl yr ydym yn myned yn ei gylch; ar y budd a'r pleser sydd o gyflawniad rheolaidd a difrifol o hono; ac hefyd ar yr euogrwydd a'r ffolineb o ddwyn yn mlaen ryw ffurfioldeb rhagrithiol. Pan fyddom ar y cyflawniad, boed i ni gadw gwyliadwriaeth manwl ar ein hysbrydoedd, a cheisio atal crwydriad cyntaf y meddwl.—A phan bo y ddyledswydd drosodd, boed i ni yn ddiatreg ymofyn, pa fodd y cafodd ei chyflawni, gan ofyn i'n cydwybodau, a oes genym le i benderfynu ein bod yn gymeradwy gyda Duw ynddi? Canys y mae yn bosibl cyflawni y dyledswyddau hyn yn y fath fodd, ag y byddo ein calonau yn ddioed yn dywedyd wrthym, fod yn anmhosibl iddynt ryngu bodd Duw; ac os bu i ni yn ddisylw, gwympo i'r fath gyflwr, ni a ddylem ymostwng yn ddwfn o flaen Duw, rhag bod hyd yn oed *ein gweddi yn bechod ger ei fron*, Salm 109. 7.

13. (2.) Am yr oriau perthynol i achosion bydol, pa un bynag ai gweithio â'n dwylaw, neu ymboeni mewn rhyw ranau o ddysgeidiaeth y byddom, na byddont yn sefyll mewn cysylltiad uniongyrchol â chrefydd; boed i ni fyned ynghylch a dwyn yn mlaen y cyfan, gyda theimlad o awdurdod Duw, a chyda golwg at ei ogoniant. Boed i ni ymgadw rhag tymer freuddwydgar, gysglyd, a swrth, ag a fo yn hepian uwch ben ei gwaith, ac felly ddim yn gwneyd ond megys gwaith awr mewn yspaid dwy neu dair. Ond yn wrthwyneb i hyn, yr hyn sydd megys yn rhedeg trwy holl fywyd rhai dynion, pa rai sy yn tybied nad ydynt byth yn segur, boed i ni geisio gwneyd cymaint ag a allom yn dda, mewn ychydig bach o amser; gan ystyried nad oes gan neb o honom fawr o



Digitized by Google

amser i fyw. A boed ynom deimlad crefyddol o'r angenrheidrwydd o fendith Duw ar y cwbl, er mwyn cael llwyddiant.

14. (3.) Mewn perthynas i'r amserau o ddifyrwch; boed i ni edrych am fod ein digrifwch yn ddibechod; a'n bod yn ymarfer ag ef i ddyben iawn, sef, i'n cymhwyso o newydd i ganlyn ein dyledswyddau mewn bywyd; a dwyn yn mlaen ogoniant Duw; yr hyn a ddylai fod dyben penaf ein holl weithredoedd. Ni a ddylem ofalu rhag iddo beri dyeithrwch yn ein calonau at Dduw; a rhag iddo ddwyn gormod o'n hamser: gan gofio bob amser, nad yw galluoedd y natur ddynol, a rhagorfreintiau y Datguddiad Cristionogol, wedi eu rhoddi i ni yn ofer; ond y dylem bob awr geisio dwyn yn mlaen ryw ddybenion anrhydeddus; ac felly ganlyn digrifwch a phleserau, ddim pellach nac y byddont yn cydfyned â buchedd resymol a gwrol, duwiol, a chymwynasgar.

15. (4.) Yn nghylch sylwi ar ragluniaethau; fe fydd yn fuddiol i ni ystyried ymweliad Duw tuag atom, yn ein cysuron, a'n cystuddiau. Am ein cysuron, dylem sylwi pa un a ydynt yn gyffredin neu yn anghyffredin. Dylem ryfeddu ein bod yn cael ein hunain mewn iechyd gwastadol; fod genym y fath gyflawnder o ymborth i'n cynal; fod genym gynifer o ffyrdd i dreulio ein hamser mor hyfryd; fod genym gynifer o gyfeillion, a'r rhai hyny mor rhinweddol a hapus; fod gorchwylion yn myned yn mlaen mor llwyddiannus; ein bod yn myned allan ac yn dyfod i mewn mor ddiogel; ein bod yn mwynhau cymaint o lonyddwch a sirioldeb ysbryd, heb yr hyn, ni allem fwynhau unrhyw beth arall. Dylem ystyried hyn oll, fel rhoddion rhagluniaeth, gan ddiolch i Dduw am danynt, tra yr ydym yn myned trwy amgylchiadau mor ddymunol. O'r tu arall, dylem ystyried rhaglun-

yn mhob siomedigaeth, colled, a phoen, ac yn

Digitized by Google

mhob ymddygiad angharedig, oddiwrth y sawl ag oeddynt yn proffesu eu hunain yn gyfeillion i ni: ac ni a ddylem geisio dwyn ein hunain i ymostyngiad amyneddgar, trwy yr ystyriaeth hon, sef, fod llaw Duw ynddynt oll bob amser, naill ai yn gyfryngol, neu yn ddigyfrwng; ac os na ellir yn addas eu hystyried hwynt yn weithredoedd rhagluniaeth, eu bod er hyny dan ei llywodraeth. Ni a ddylem yn neillduol, ystyried hyn mewn perthynas i ddigwyddiadau a chroesau bychain, (fel ag yr ydym yn barod i'w galw hwynt,) a'r ffoledd a'r gwendidau hyny yn nhymer ac ymarweddiad ein cyfeillion anwylaf, y rhai, os amgen, a fyddant yn barod i'n terfysgu. Y mae yn fwy angenrheidiol i ni wylio ar ein meddyliau yn yr achos hwn, o herwydd fod llawer o ddynion doeth a da, yn colli y llywodraeth arnynt eu hunain, ar yr achlysuron hyn ag a elwir mewn cymhariaeth yn fychain; pa rai ydynt, trwy gynorthwy rheswm a chrefydd, yn abl i wrthsefyll trallodion mawr, yn eon ac yn gadarn.

16. (5.) Am wyliadwriaeth yn erbyn temtasiynau, y mae yn angenrheidiol, pan fyddom yn newid ein lle, neu ein gorchwylion, i ofyn, pa faglau sydd wedi eu gosod i mi yn y sefyllfa hon? Ac fel y dylem ofalu yn barhaus i sylwi rhag ein peryglon, felly ni a ddylem wylied yn enwedigol rhag y maglau, a ddarfu i ni eu rhagweled yn y bore. A phan fyddom yn myned i'r amgylchiadau hyny, yn mha rai yr ydym yn dysgwyl cyfarfod â'r brofedigaeth, dylem, trwy fyfyrdod, ddywedyd, yn enwedig os bydd mewn peth o fawr bwys,—Wele yn awr yr ymryson yn dechreu: yn awr y mae Duw, a'r angylion bendigedig, yn sylwi pa ryw gadernid a dianwadalwch sydd yn fy enaid i; a pha mor bell y bydd i awdurdod dwyfol, a choffadwriaeth o'm gweddiau a'm bwriadau fy nghynal, pan ddel y profiad.

Digitized by Google

17. (6.) Ac mewn perthynas i ymorphwysiad ar ras dwyfol, rhaid ei fod yn drwyadl: a chan ein bod yn sefyll mewn eisiau o hono, ni ddylem byth anghofio yr eisiau hyny. Fe all munud a dreulir mewn ymofyniad gwresog a gostyngedig am gynorthwy dwyfol, wneuthur mwy o ddaioni na llawer o funudau a dreulir mewn ffordd o ymresymu yn unig. Ac er na ddylai hyn gael ei esgeuluso, gan mai math o lewyrchiad dwyfol yw goleuni y deall; eto dylem ei ganlyn gyda theimlad iawn o'n dibyniad ar DAD y goleuni, rhag pan dybiom ein hunain ddoethaf, i ni fod yn *ofer yn ein rhesymau*, Rhuf. 1. 21, 22. Boed i ni, gan hyny, alw ar Dduw, gan ddywedyd, er angraifft, pan elom i weddio, "Arglwydd! par fod fy meddyliau yn sefydlog! Bywha fy serchiadau santaidd, a thywallt arnaf Ysbryd gras a gweddiau," Zech. 12. 10. Pan fyddom yn edrych yn y Bibl, neu ryw lyfr da arall, ni a ddylem ddywedyd, bob un o honom, "Agor di fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di!" Salm 119. 18. Goleua fy neall, a gwresoga fy nghalon! Boed i ti gadarnhau fy mwriadau iawn, a boed fy holl fywyd yn cael ei drefnu mewn modd addas." Pan fyddom yn myned yn nghylch unrhyw orchwyl bydol, dylem weddio, "Arglwydd, trefna weithred ein dwylaw ynom (Salm 90. 17.), a rho dy fendith ar ein holl ymdrechiadau gonest!" Pan elom i unrhyw ddifyrwch, dylem ddywedyd, "Arglwydd, bendithia ein holl ddigrifwch, ac na âd i ni dy anghofio di ynddynt, ond boed i ni bob amser olygu dy ogoniant!" Pan elom i unrhyw gyfeillach, dylai ein gweddi fod, "Arglwydd, boed i ni yn awr dderbyn a gwneuthur rhyw ddaioni." Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'n genau, ond y ---f--vw ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol, fel y paro gwrandawyr, Eph. 4. 29. Pan fyddom yn

myned yn nghylch un peth anhawdd, dylem lefain, "Arglwydd, dyro i ni ddoethineb ag sydd ragorol i gyfarwyddo (Preg. 10. 10); dysg i ni dy ffyrdd, O Arglwydd, ac arwain ni ar hyd llwybrau uniondeb!" Salm 27. 11. Pan fyddom yn ymladd a themtasiynau, dylem weddio ar Dduw, gan ddywedyd, "Boed i'th nerth di, O Brynwr grasol, gael ei berffeithio yn ein gwendid!" 2 Cor. 16. 9. Mae yr esamplau hyn yn ddigon i egluro dyben yr hyfforddiad hwn, er eu bod yn mhell o gynwys yr holl amgylchiadau, yn mha rai y dylem ymorphwys yn gwbl ar gynorthwy dwyfol.

18. (7.) Mewn perthynas i lywodraethu ein meddyliau yn y dirgel, bydded i ni arfer ein hunain i gadw ein meddyliau dan lywodraeth ddyladwy ar bob rhyw achos. Bydded i ni ymgadw rhag y maglau hyny o eiddo y nwydau; a serch gormodol at unrhyw beth amserol, yr hyn a all ein difuddio ni o'n hawdurdod arnynt. Bydded i ni osod rhyw destunau buddiol ger bron ein meddyliau: megys priodoliaethau y Duw bendigedig, cariad Crist, gwerthfawrogrwydd amser, sicrwydd a phwys angau a barn, yn nghyd â gwae neu wynfyd tragywyddol, ag sydd yn canlyn. Bydded i ni hefyd yn y cyfamser fyfyrio ar yr hyn a wyddom am gyflwr ein heneidiau, fel yn cynyddu neu yn gwywo mewn crefydd; ar y bregeth ddiweddaf a glywsom, neu ar y rhan hòno o'r ysgrythyr a ddarllenasom ddiweddaf. —Yma, Syr, cofiwch yr hyn a ddywedais wrthych yn ein cyfeillach ddiweddaf; sef, y byddai yn fuddiol i ni ddewis rhyw adnod o'r ysgrythyr yn y bore, a'i chadw mewn cof, gan fwriadu myfyrio arni bob amser y byddom ar golled am fater o fyfyrdod duwiol, pan fyddo genym hamdden i hyny. Gall hon fod yn fynych yn ffynon, o ba un y gall llawer o bethau buddiol a dymunol darddu, pa rai, o bosibl, ni welsom o'r blaen,



Digitized by Google

yn y fath rym a chysondeb. Os amgen, mae yn sicr genyf, fod yn llawer gwell i ni adrodd yr un ysgrythyr yn ein meddyliau ganwaith yn y dydd, gyda rhyw weddiau dirgel wedi eu ffurfio oddiwrthi, na'u gadael yn agored i'r amryw bethau disylwedd, pa rai, yn amgen, a allant eu llanw; amrywiaeth pa rai, nis dichon wneuthur iawn am eu gwagedd hwynt.

19. (8.) Yn ddiweddaf, am lywodraethu ein hymddyddanion mewn cymdeithas; dylem gymeryd gofal mawr, na byddo dim yn dianc oddiwrthym ag a'n gwaradwyddo ni, neu ein proffes o gristionogaeth rhagllaw: dim a allo ddrygu y sawl a fyddo naill ai yn bresenol, neu yn absenol; dim maleisus, na chelwyddog; dim a allo lygru, dim a allo gyffroi, na dim a allo gamarwain y sawl a fyddo o'n hamgylch. Ac ni ddylem, mewn un modd, ymfoddloni am fod yr hyn a ddywedom yn ddiniwed; ond dylai fod ynom ddymuniad i'r cwbl fod yn fuddiol i ni ein hunain, ac i ereill. I'r dyben hwn, fe weddai fod genym bob amser, ryw beth defnyddiol yn barod i ymddyddan yn ei gylch; ac fe all yr hyn a ddywedais dan y pen o'r blaen, yn nghylch addurniadau y meddwl, fod o gynorthwy yn y mater hwn. Dylem ddysgwyl am gyfleusderau addas, i ddwyn pethau buddiol i'n cyfeillach; ac os bydd i un cyfaill duwiol gynyg at hyn, dylem geisio bod yn ail iddo yn ddiatreg. Pan na bo ein hymddyddan yn troi yn uniawn yn nghylch pethau crefyddol, dylem, er hyny, ymdrechu ei wneyd yn llesiol trwy ryw ffordd arall: dylem ystyried ymarweddiad, a chymwysderau ein cwmpeini, fel y gallom eu harwain i ymddyddan am yr hyn y maent yn ei ddeall oreu; canys fe all fod ymddyddan am y pethau hyny, yn fwyaf dymunol iddynt hwy, ac yn fwyaf llesiol i ninau. Ac yn yr amser y byddo dystawrwydd yn y gyfeillach, ni byddai yn anaddas anfon

Digitized by Google

gweddiau dirgel a santaidd i fynu at Dduw, am gynorthwyon ei ras ef i ni a'n cyfeillion, yn ein hymdrechiadau yn ceisio gwneuthur daioni, y naill i'r llall.

20. (III.) Yr hyfforddiadau tuag at ddiweddu y dydd mewn modd crefyddol, a gaf fi yma eu henwi, ydynt y ddau hyn yn unig,—bydded i ni yn gyntaf edrych am fod y dyledswyddau dirgel y prydnhawn yn cael eu cyflawni yn iawn,—a bydded i ni orwedd i lawr ar ein gwelyau gyda thymer dduwiol.

21. (1.) Am dduwioldeb prydnhawnol yn y dirgel, sylwaf ar drefn, pa un sydd ryw beth yn wahanol i'r hon y soniais ei bod yn addas yn y bore; gan ystyried yr amgylchiadau hyny ag a allant wneuthur cyfnewidiadau na feddyliwyd am danynt, yn addas rai prydiau. —Mi a gynghorwn, Syr, yn flaenaf, ddarllen rhan o'r ysgrythyr, gyda myfyrdodau addas a gweddi, fel y sylwais uchod: wedi hyny darllen hymn, neu salm: ac ar ol hyn myned yn nghylch y gwaith o hunan-ymholiad, yr hwn a ddylai gael ei ddiweddu gyda gweddi fwy helaeth, na'r hon a ganlynodd y darlleniad o'r ysgrythyr, yn ol yr hyn a ddygwyddodd yn y dydd. Yn y weddi hon at orsedd gras, fe fydd yn addas iawn i ni atolygu ar i Dduw faddeu ein pechodau o omeddiad ac o droseddiad trwy y dydd; diolch iddo am drugareddau tymhorol ac ysbrydol; rhoddi ein hunain i'w ofal dros y nos sydd yn canlyn; gweddio dros ereill, pa rai a ddylem ddwyn ar ein calonau ger ei fron ef; ac yn enwedig, y cyfeillion y buom yn cyfeillachu â hwynt y dydd o'r blaen, pa un ai yn bersonol neu trwy lythyrau. Fe allai y dygwydd llawer o bethau ereill, nas darfu i mi eu crybwyll, ag a fyddo yn addas i'w gwneyd yn fater ein gweddiau y bore a'r hwyr; ond nid wyf yn gweled yn angenrheidiol mewn un modd i enwi y cwbl ar yr achlysur presenol.

Digitized by Google

hyfforddiadau hyn, yn y bennod nesaf, caf ddiweddu hon gyda y MYFYRDODAU hyny, pa rai a addawais i'm cyfaill fel adysgrifen; y rhai y dymunwn i tithau fod mor gyfarwydd â hwynt, ag y gellych gofio y sylwedd o honynt, pa bryd bynag y rhoddech dy hun i gysgu.

*Golwg sobr ar Farwolaeth, addas i'w chymeryd pan orweddom i lawr i gysgu.*

O fy enaid, edrych yn mlaen ychydig gyda sobrwydd, a dysg ddoethineb trwy ystyried dy ddiwedd, Deut. 32. 29. Dyma un o'th ddyddiau eto wedi ei orphen a'i rifo i fynu; ac fel yr wyf wedi dyosg fy nillad a gorwedd ar fy ngwely, felly y bydd i ddydd fy mywyd ddyfod yn fuan i ben, felly y bydd yn rhaid i'r corff ei hun gael ei roddi heibio, a'i roddi i orphwys mewn gwely pridd. Yno boed iddo orphwys; canys ni bydd i mi ofalu mwy am dano nag am fy nillad, pa rai yn awr a ddyosgais. Meddwl, O fy enaid, pan ddel angau, y bydd yn rhaid i ti ddechreu ar y byd tragywyddol, a'th sefydlu naill ai yn y nefoedd neu yn uffern. Holl amcanion, gobeithion, ac ofnau, pleserau a gofidiau y bywyd hwn, a ddarfyddant, a byd yr ysbrydoedd a egyr o'th flaen. Ac O! pa mor gynted y dichon agor! Y mae yn bosibl i hyn fod, cyn dychwelo yr haul oleuni dydd arall. Fe allai na bydd i'r haul y foru oleuo fy llygaid i, ond yn unig llewyrchu oddiamgylch corff dideimlad, yr hwn a all fod yn gorwedd yn lle y corff bywiol hwn. O leiaf, y mae marwolaeth llawer yn mlodau eu hoedran, a llawer ag oeddynt yn fwy eu cymhwysderau, eu duwioldeb, ac mewn golwg am fod yn fwy defnyddiol na myfi, yn fy ..buddio yn uchel, i beidio ymddibynu ar fywyd hir,

Digitized by Google

ac yn galw arnaf yn hytrach i ryfeddu fy mod wedi cael fy nghadw yma cyhyd, nag i synu os bydd i mi gael fy symud yn fuan.

Ac yn awr, O fy enaid, ateb megys yn ngŵydd Duw; A wyt ti yn barod? A wyt ti yn barod? A oes un pechod heb i mi edifarhau o'i blegid, a'i adael, yr hwn a all fy llanw o ofid ar fy ymadawiad, a pheri i mi grynu ar derfyn tragywyddoldeb? Ofna aros dan yr euogrwydd o hono, ac ymofyn y funud hon am waredigaeth trwy drugaredd Duw, a gwaed y Prynwr bendigedig.

Ond os yw y cyfrif mawr wedi ei wneuthur i fynu yn barod; os bu i ti o'th galon edifarhau am dy anwireddau lliosog; os bu i ti gyflwyno dy hun yn ddiragrith, trwy ffydd, i ddwylaw y bendigedig Iesu, heb dori dy gyfamod ag ef, trwy ddychwelyd at y cyflawniad o bechod gwirfoddol, yna na fydded i ti ddychrynu wrth feddwl am farwolaeth: canys ni all angau ddrygu yr enaid a roddodd ei hun i Dduw, ac sydd wedi ei uno â'r Prynwr mawr. Gall dynu ymaith fy nghysuron bydol; a gall ddiddymu fy amcanion yn nghylch gwasanaeth pellach ar y ddaear: ond, O fy enaid, y mae gwleddoedd dwyfol, a gwychach gwasanaeth yn dy aros tu draw i'r bedd. Bendigedig byth a fyddo enw Duw, a chariad Iesu, ag sydd yn peri y golygiadau cysurawl a gorfoleddus hyn! Mewn heddwch, gan hyny, y gorweddaf ac yr hunaf (Salm 4. 8.), heb ofni beth a ddygwyddo yn y nos hon; pa un bynag ai bywyd, ai angau, a drefno Duw i mi. O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy ysbryd (Luc 23. 46.); canys ti a'm prynaist, O Dduw y gwirionedd (Salm 31. 5.), ac am hyny gallaf yn llawen adael ar dy ddewisiad di, pa un a gaffwyf, ai deffroi yn y byd hwn, neu yn y byd arall. Amen.



Digitized by Google

# PENNOD XX.

## ANNOGAETHAU DIFRIFOL TUAG AT DREULIO EIN DYDDIAU YN Y MODD Y DANGOSWYD YN Y BENNOD O'R BLAEN.

**Mae cristionogion yn gosod eu golygiadau yn rhy isel, ac yn mynwesu ysbryd rhy ddiog, yr hyn a wna yn angenrheidiol i gymhell y cyfryw fywyd â'r un sydd dan ystyriaeth, Dosparth 1, 2. Grymusir ef gan hyny, (1.) O herwydd yr ymddengys yn rhesymol, wrth ystyried ein hunain fel creaduriaid Duw, ac fel yn cael ein prynu â gwaed Crist, 3. (2.) Oddiwrth ei duedd eglur i weithredu er ein hapusrwydd mewn bywyd, 4. (3.) O herwydd yr effaith a gaiff i ddwyn yn mlaen ein gwasanaethgarwch i ereill. 5. (4.) O herwydd ei effeithioldeb i wneuthur cystudd yn ysgafnach, 6. (5.) O herwydd ei fod yn barotoad erbyn angau, 7. Ac, (6.) Erbyn tragywyddoldeb, 8. Pan y byddai peidio dymuno gwellhad, yn profi enaid yn ymddifad o grefydd, 9. Gweddi addasedig at gyflwr enaid a ddymuna gyrhaedd y bywyd a gymeradwywyd uchod.**

1. Mi a osodais allan bethau yn y bennod o'r blaen, ag wyf yn ofni yr ymddangosant i rai o'm darllenwyr yn waith rhy galed, fel y mae arnynt eisiau calondid i fyned yn ei gylch; ac yn wir, y mae yn fuchedd, mewn llawer o ystyriaethau, yn mhell uwchlaw yr hyn y mae y cyffredinolrwydd o gristionogion yn arfer, fel yr wyf yn ofni, y bydd llawer ag sydd yn deilwng o'r enw, yn meddwl fod yr hyfforddiadau uchod, ar ol fy holl ragofal trwy ba un y cynygiais hwynt, wedi eu dwyn i radd o fanylrwydd afreidiol. Ond yr wyf yn cwbl gredu fod llawer o anrhydedd a chysur cristionogaeth yn cael eu colli, oblegid fod y proffeswyr o honi yn sefydlu eu hamcanion yn rhy isel; heb ffurfio meddyliau dyrchafedig, a rhagorol, yn nghylch eu *galwedigaeth a santaidd*, fel y mae natur crefydd yn gofyn, a

Digitized by Google

gair Duw yn dangos. Yr wyf yn credu yn gyflawn, fod y dywediadau o *rodio gyda Duw*, o *fod yn ei ofn ar hyd y dydd* (Diar. 23. 17.), ac yn benaf, yr ymadrodd o *garu yr Arglwydd ein Duw â'n holl galon, â'n holl enaid, â'n holl feddwl, ac â'n holl nerth* (Marc 13. 20.), yn gofyn, os nid pob peth ag a gynygiais yn eu holl amgylchiadau, eto y sylwedd o honynt oll, yn ol ein dawn a'n cyfleusdra: ac ni allaf lai na meddwl, y gallai llawer gael mwy o gyfleusdra, a chynyddu, o bosibl, eu doniau hefyd, pe cymerent fwy o ofal i lywodraethu eu hunain yn gymwys; pe rhoddent heibio bob pleser gwâg ac afreidiol, pa rai sydd yn addas, ac yn ddymunol i'r rhan waelaf o ddyn yn unig, ac (i ddywedyd y goreu am danynt) sydd yn ein difuddio ni o bleserau llawer gwell na hwynt eu hunain, os na fyddant yn foddion i'n soddi mewn euogrwydd. Llawer o'r rheolau hyn a ymddangosent yn hawdd i'w harferyd, pe byddai dynion yn dysgu gwerthfawrogi amser, ac, yn neillduol, i'w brynu ef oddiwrth gwsg afreidiol, yr hwn sydd yn gwastraffu llawer o oriau euraidd o'r dydd: oriau, yn mha rai y mae llawer o weision Duw yn ymbleseru ynddo ef, ac yn yfed yn helaeth o ddwfr y bywyd, tra y mae eu brodyr hyn yn hepian ar eu gwelyau, ac yn ymbleseru mewn breuddwydion, pa rai sydd gymaint yn waelach na'r digrifon cyffredin a berthynant i'r natur resymol, ag yw y pleserau a berthynant i'r graddau mwyaf o dduwioldeb, yn rhagori ar bob peth daearol.

2. Yr wyf hefyd yn gwybod, fod y meddyliau yn ansefydlog iawn; a bod yn anhawdd cadw y fath lywodraeth arnynt, ag a fyddai yn ddymunol, a'r fath y mae y drefn a osodais i lawr, yn ofyn. Ond y mae cymaint yn ymddibynu ar hyn, tuag at anrhydedd Duw a'n dedwyddwch ninau, fel yr wyf yn atolygr

Digitized by Google

arnoch i roddi clust-ymwrandawiad amyneddgar ac astud, tra byddwyf yn ymresymu â chwi; ac a'r i chwi ystyried fy rhesymau, ac felly barnu, pa un a ydyw y fath ymddygiad ag a osodais i allan, ynddo ei hun yn rhesymol, neu nad yw; a barnu pa un a ydyw yn tueddu yn fawr er eich cysur a'ch defnyddgarwch mewn bywyd, eich tangnefedd yn angau, ac i ddwyn yn mlaen eich gogoniant tragywyddol.

3. Bydded i gydwybod ateb, onid yw y fath fuchedd ag a osodais i allan, ynddi ei hun yn rhesymol? Edrych dros, a chwilia eto yr hyn a ddywedais; canys yr wyf yn gwybod yn dda, y gall rhyw wrthddadleuon gweinion gyfodi yn erbyn y cyfan, er na byddont yn y canlyniad yn perthyn ond i ryw ranau yn unig, yn erbyn pa rai ni ryfygai un dyn rhesymol godi unrhyw wrthddadl oll. Cofia, O gristion, a dwg hyn yn dy gof ac yn dy galon, tra yr ydwyt yn ystyried y pethau hyn, sef, mai creadur Duw ydwyt ti, a'th fod wedi dy bwrcasu â gwaed Iesu; ac yna dywed, onid ydyw y fath berthynas yn gofyn oddiwrthyt yr holl ddiwydrwydd a'r ymroadau yr wyf yn dy alw atynt. Bernwch i'r holl gynghorion a roddais, gael eu gosod mewn ymarferiad: bernwch i bob dydd gael ei ddechreu a'i ddiweddu gyda y fath anadliad duwiol ar ol Duw, a chyda y fath gyfeillach ddirgel a santaidd ag ef ac â'ch calon eich hun, fore a hwyr: bwriwch i chwi ofalu o ddydd i ddydd, pa fodd i drefnu eich amser, ac edrych pa fodd y cafodd ei dreulio: bernwch fod i'r fath barch i Dduw, y fath deimlad o'i bresenoldeb, a'r fath zel dros ei ogoniant, redeg trwy eich holl ymarferiadau crefyddol, trwy holl amser eich achosion bydol, a'ch difyrwch: bernwch fod y cyfryw ystyriaeth o ragluniaeth, y fath wyliadwriaeth yn erbyn temtasiynau, y fath ymorphwysiad ar Dduw, y fath lywodraeth ar y

Digitized by Google

meddyliau yn y dirgel, ac ar yr ymddyddanion mewn cyfeillach: ïe, yn mhellach, bernwch fod pob rhyw hyfforddiad a roddais yn cael ei ganlyn, oddieithr mewn rhyw achosion neillduol, am ba rai y gellwch mewn cydwybod ddywedyd, Yr wyf yn gadael heibio y ddyledswydd hon, nid o ddiogi ac esgeulusdra, ond oblegid fy mod yn meddwl y byddaf yn rhyngu bodd Duw yn well trwy wneuthur rhyw beth arall yn awr; yr hyn a all ddygwydd yn aml yn ystod bywyd dyn, lle mae rheolau cyffredin wedi eu gosod i lawr yn y modd doethaf: bernwch, meddaf, i hyn oll gael ei wneyd, nid dros ddiwrnod neu wythnos, ond trwy yr hyn sydd yn ol o'r bywyd, pa un bynag ai hir neu fyr; a bernwch i hyn oll gael ei ystyried ar derfyn bywyd, trwy ymarferiad cyflawn o'ch galluoedd rhesymol, a fydd achos i ddywedyd yn y cyfryw olwg, Myfi a gymerais ormod o boen mewn crefydd: nid oedd Awdwr fy mod yn haeddu hyn oll oddiwrthyf fi: buasai llai na hyn o ddiwydrwydd, o ffyddlondeb, ac o zel, yn ddigon o daliad am y gwaed a dywalltwyd i'm prynu. Digon fuasai fod rhan o'm calon, o'm hamser, ac o'm llafur, i'w roddi iddo ef, pa un a roddodd i mi fy holl alluoedd; iddo ef, yr hwn a'm gwaredodd i o'r dystryw hwnw, ag a allasai eu gwneuthur hwynt yn boen tragywyddol i mi; iddo ef, yr hwn sydd yn fy nghodi i wledydd o anfarwoldeb gwynfydedig. A elli di, gydag unrhyw wyneb, ddywedyd fel hyn? Os na elli, yna y mae yn ddiamheu fod dy gydwybod yn tystiolaethu fod y cwbl a osodais ger dy fron, yn rhesymol; fod dyledswydd a diolchgarwch yn gofyn cymaint; ac yn ganlynol, dy fod yn dwyn dy enaid dan euogrwydd, dy fod yn digio Duw, ac yn gweithredu yn anghyson â'th broffes gristionogol, pan yr ydwyt yn wirfoddol yn dyfod yn fyr o gyflawni un o'r dyledswyddau hyn.



Digitized by Google

4. Yr wyf yn mhellach, yn atolygu arnat i ystyried, onid yw y fath ymarweddiad yn tueddu yn fawr er dy gysur a'th ddefnyddioldeb mewn bywyd. Ystyria yn ddifrifol, pa beth yw gwir ddedwyddwch. A ydyw y fath i'w gael mewn pellder oddiwrth Dduw, neu yn hytrach mewn agosrwydd ato? Sicr yw, ni elli fod yn gristion, ni elli fod yn greadur rhesymol, os wyt yn amheu pa un a yw cymundeb â Thad gogoneddus yr ysbrydoedd, yn bleser ac yn ddedwyddwch; ac os yw, yna y mae yn sicr mai y rhai hyny sy yn mwynhau mwyaf o hono, ag sy yn cadw golwg yn fwyaf parhaus arno. Ni elli lai na gwybod, mai hyn sydd yn gwneuthur i fynu hapusrwydd y nefoedd; a pha fwyaf gan hyny a fwynhao unrhyw ddyn o hyn ar y ddaear, mwyaf i gyd o'r nefoedd sydd yn dyfod i lawr i'w enaid. Os gwnaethost un math o brofiad o grefydd, er ond dros rai misoedd neu wythnosau yn unig, y mae dy brofiad yn abl gwneyd i ti farnu pa ryw ddyddiau o'th fywyd oeddynt y rhai mwyaf dedwydd. Onid oeddynt y rhai hyny, ag y gweithredaist ynddynt oddiar yr egwyddorion hyn, a hyny yn y modd mwyaf sefydlog, trwy bob awr o'th amser, a phob amgylchiad o'th fywyd? Yr oedd dy waith yn atal dy dueddiadau, lawer pryd, o bosibl, yn annymunol; ond yr oedd hyn yn sicr o gael ei gyfartalu yn y modd mwyaf hapus, trwy y boddlonrwydd oeddit yn gael oddiwrth feddu hunan-lywodraeth; yn dy waith yn cael y fath awdurdod ar dy feddyliau, dy nwydau a'th weithredoedd, ag sydd yn llawer mwy gogoneddus, nag y gall unrhyw awdurdod dros ereill fod.

5. Yr wyf hefyd yn dymuno arnat i ystyried pa mor bell y dichon y fath ymddygiad a hwn fod yn foddion i ...ddu hapusrwydd ereill. Y mae yn hawdd i ti ... ei fod yn tueddu yn fawr i hyny; gan y bydd

Digitized by Google

i'th galon bob amser fod yn ewyllysgar i ddysgwyl am gyfleusderau i wneuthur daioni, ac hefyd i afaelu ynddynt gydag awydd a phleser. Fe barai hyn i ti ofalu, trwy dy fywyd, am drefnu pethau yn y fath fodd, fel y byddo diwedd un weithred dda, yn ddechreuad un arall. A thydi a elli fyned yn mlaen yn y modd hwn mor naturiol, ag y mae y creaduriaid îs yn dwyn oddiamgylch y pethau hyny ag sydd yn cysuro ac yn cyfoethogi dynolryw; neu mor naturiol ag y mae y ddaear yn dwyn ei chnydau o amrywiol ffrwythau tuag at ein cynhaliaeth. Ac er fod dynolryw yn y cyflwr llygredig hwn, yn tueddu mor anhapus i ganlyn siamplau drwg yn hytrach na rhai da; eto fe ellir dysgwyl, tra y bo dy oleuni yn llewyrchu felly ger bron dynion, y bydd i rai, wrth weled dy weithredoedd da di, ymdrechu eu copio hwynt yn eu bywydau, a thrwy hyny, ogoneddu dy Dad yr hwn sydd yn y nefoedd, Mat. 5. 16. Diamheu y byddai i brydferthwch y fath siampl gael effaith ar rai, a pheri iddynt o leiaf geisio ymdebygu i ti; ac fe fydd i bob ymgais dueddu y meddwl at ymdrech arall. Fel hyn, trwy fendith Duw, gelli gael hawl i ran o'r clod ac o'r gwobr a berthyn, nid yn unig i'r daioni a wnaethost ti dy hun yn bersonol, ond i'r hyn y buost yn foddion i ddwyn ereill i'w wneuthur. Ac ni ddichon un llygad, oddieithr llygad Duw, yr hwn sydd yn treiddio trwy bob peth, weled i ba amser a lleoedd pellenig, y gall y canlyniadau gogoneddus o hyn gyrhaeddyd. Fe fydd i'r effeithiau daionus a ganlynant y fuchedd hon, pa bryd bynag yr ymddangosont, lanw dy galon o lawenydd hael, a mwy gogoneddus, nag a allo unrhyw wrthrych daearol roddi; ïe, y fath lawenydd, ag a fyddo debycaf i'r pleser mawr y mae y Duw bendigedig yn ei brofi, trwy wneuthur, a gweled, ei greaduriaid yn hapus.

Digitized by Google

6. Gwir yw, yn mysg dy holl ofal a'th haelioni duwiol, y dichon cystuddiau ddyfod arnat, ac mewn mesur dy rwystro yn nghanol dy amcanion. Eto diamheu y byddant yn llawer ysgafnach, pan fyddo dy galon yn cael ei lloni trwy adfyfyrdod heddychol a gorfoleddus dy feddwl, a thrwy dystiolaeth mor anrhydeddus o eiddo dy gydwybod, ger bron Duw a dynion. Fe fydd yn beth hyfryd a dymunol i ti fyned yn ol i ail-edrych dy ffyrdd, a meddwl ddarfod i ti nid yn unig ymostwng yn wirioneddol am y pechodau hyny, pa rai a allant gael eu dwyn i'th gof trwy dy gystuddiau; ond, hefyd, i ti roddi prawf sylweddol o'r ymostyngiad hwnw, trwy wir ddiwygio yr hyn a fu yn feius, a thrwy weithredu gyda bwriadau bywiog a nerthol oddiar egwyddorion gwrthwynebol. A thra byddo cymundeb â Duw, a gwneuthur daioni i ddynion, yn orchwyl penaf a dymunol dy fywyd, fe ddaw mwyniant a chysur i mewn trwy filoedd o ffyrdd; ïe, hyd yn oed yn nghanol y cystuddiau hyny, y rhai a'th anghymwysant i fwynhau pleserau daearol gymaint, fel y byddi yn cyfrif hyd yn oed y son am danynt, yn y cyfryw amgylchiadau, yn waradwydd a dirmyg.

7. Ac o'r diwedd fe ddaw angau: fe ddaw yr awr sobr a phwysig hono, trwy yr hon yr aeth miloedd ag a fuchedasant fel hyn ar y cwbl, a myrddiynau o'r rhai ag oeddynt yn dibrisio duwioldeb. A boed i gydwybod ateb, os bu un erioed o'r myrddiynau hyny, yn gweled achos i lawenhau yn angau o herwydd ei ddibrisdod; neu os bu un yn mysg y rhai mwyaf hynod a manol o gristionogion, yn galaru ar awr ei ymadawiad, oblegid iddo roddi ei galon a'i fywyd i Dduw trwy gymaint zel; boed i gydwybod ateb, os oeddynt yn chwennych cael rhan o'r amser a dreuliasant yn ngwasanaeth yr Arglwydd yn ol, er mwyn

Digitized by Google

cydymffurfio yn mhellach â'r byd hwn; er mwyn soddi eu hunain yn ddyfnach yn ei bleserau, neu ganlyn ar ol ei anrhydedd a'i bethau, gyda mwy o awydd nag y darfu iddynt wneyd? Pe byddit ti dy hun yn trengu dan law angau, a rhyw gyfaill, neu blentyn anwyl, yn sefyll yn dy ymyl, ac i'r llyfr hwn a'r benod ddiweddaf ddygwydd dyfod ar dy feddwl, a gynghorit ti y cyfryw blentyn neu gyfaill i beidio byw yn ol y rheolau a roddais i yno? Y mae yn bosibl fod y fath ofyniad yn afreidiol, gan fod yr ateb mor eglur a sicr. Caniata i mi, gan hyny, atolygu arnat ddysgu pa fodd i fyw, trwy ystyried pa fodd yr ewyllysit farw, ac ar ba fath yrfa yr ewyllysi edrych yn ol, pan fyddost ar ymadael â'r byd hwn, a dechreu ar fyd arall. Meddwl yn ddifrifol; beth pe deuai arnat yn sydyn, ac i ti orfod myned i dragywyddoldeb trwy awr neu un funud o rybudd, oni ddymunit fod y dydd diweddaf o'th fywyd wedi ei ddechreu, ac os byddai yn ddydd o iechyd, ei fod wedi ei dreulio yn ol yr hyfforddiadau uchod? Oni ewyllysit i'th Arglwydd dy gael yn y fath feddyliau ac yn nghylch y fath bethau? Oni fyddai dy redegfa a'th daith o'r ddaear i'r nefoedd, yn fwy hawdd ac yn fwy hyfryd trwy y fuchedd hon? Ac o'r tu arall, pe deuai angau arnat yn fwy graddol, oni fyddai i goffadwriaeth o'r fath fywyd duwiol, santaidd, gostyngedig, diwyd, a defnyddiol, wneuthur gwely marwolaeth lawer esmwythach nag y byddai, pe byddit fyw yn wrthryfelwr? Na ato Duw i ti orphwys ar y pethau hyn fel dy sail am hapusrwydd tragywyddol. Ond, dan deimlad o'th aml wendidau, boed i ti syrthio wrth draed CRIST, fel y byddo i ti ymddangos ger bron DUW wedi dy wisgo â'i GYFIAWNDER ef, a'th olchi â'i WAED oddiwrth dy bechodau. Diamheu, fel cristion, y byddi yn angau yn

Digitized by Google

edrych ar bob egwyddor dda a gefaist yn dy galon, ac ar bob gweithred dda a gyflawnaist yn dy fywyd, yn EFFEITHIAU GRAS. Eto oni fydd i'r ystyriaeth, na *dderbyniaist ras Duw yn ofer* (1 Cor. 15. 10), roddi y fath hyfrydwch ag a dalai ei brynu â deng mil o fydoedd? Y fath bleser meddwl, i ti, oddiar egwyddor ostyngedig a diolchgar o gariad, ogoneddu dy Dad nefol ar y ddaear, ac i ti mewn rhyw radd, er nid i'r perffeithrwydd y dymunit, *gyflawni y gwaith a roddasai efe i ti i'w wneuthur?* Ioan 17. 4. I ti, dros lawer o flynyddoedd a aethant heibio, fyw ar gyffiniau y nefoedd, gan ymdrechu ffurfio dy galon a'th fuchedd i'r unrhyw ddull, a thymer, a buchedd ei thrigolion hi?

8. Yn mhellach, yr wyf yn atolygu arnat i ystyried, yr olwg a gai ar y peth hwn pan elych i'r gogoniant, os bydd (fel yr wyf yn gobeithio y bydd) i drugaredd ddwyfol dy ddwyn di yno. A fydd i'th ofal, neu dy esgeulusdra yn y fuchedd santaidd hon, gael dim effaith ar dy dderbyniad yno? A fydd efe yn beth difater yn ngolwg y bendigedig IESU, yr hwn sydd yn cyfranu coronau, ac yn trefnu gorseddfeinciau y nef, pa un ai yn mysg y rhai mwyaf swrth, neu ynte yn mysg y rhai mwyaf gwresog o'i weision, y rhodiaist ti? Diamheu y byddi di yn chwennych cael *mynediad helaeth i deyrnas dy Arglwydd a'th Iachawdwr* (2 Pedr 1. 11.); a pha beth a all fod yn fwy effeithiol i hyny, na bod bob *amser yn helaeth yn ei waith ef*? 1 Cor. 15. 58. Ni elli feddwl mor wael am y cyflwr gogoneddus hwnw, a thybied y bydd i ti edrych o'th gwmpas a dywedyd yn dy galon, trwy ddirgel siomedigaeth, i ti brisio yn ormodol yr etifeddiaeth a dderbyniaist, ac i ti ymofyn ar ei hol gyda gormod o zel. Diamheu na bydd i ti achwyn am i ti ofalu yn ormodol am dani, a rhoddi gormod o'th feddyliau arni: eithr,

Digitized by Google

i'r gwrthwyneb, mae genyt y rheswm cryfaf i gredu, pe bai unrhyw beth yn peri llid a gofid yno, y byddai hyny oblegid na ddarfu i ti, yn mysg cynifer o anogaethau a rhagorfreintiau, ymegnio mwy er mwyn meddiannu y fath etifeddiaeth ragorol.

9. Ond ni ymhelaethaf ar beth mor eglur a hwn; ond dybenaf y bennod hon trwy ddwyn ar gof i ti, fod dy waith yn dyoddef i'th galon ymfoddloni mewn modd pwyllog ar unrhyw gyrhaeddiadau anmherffaith mewn crefydd, ac i edrych ar fwy o gadarnhad a chynydd ynddi, yn bethau afreidiol, ïe, yn bethau ag yr ydwyt yn bwriadu yn ddirgel na bydd i ti ymofyn ar eu hol, yn un o'r arwyddion mwyaf anffaeledig a allaf fi feddwl am dano, dy fod di hyd yn hyn yn hollol ddyeithr i'w hegwyddorion dechreuol hi.

GWEDDI *addas i gyflwr Enaid ag sydd yn chwennych bucheddu yn ol yr hyfforddiadau uchod.*

O DDUW bendigedig! ni allaf wrthddywedyd awdurdod y rhesymau hyn: O na bai i mi deimlo eu heffeithiau parhaus yn fwy nag erioed! Tydi ydwyt y Ffynon fawr o bob bod, ac o bob hapusrwydd; ac megys y derbyniais i fy mod oddiwrthyt ti, oddiwrthyt ti hefyd y mae fy holl ddedwyddwch yn dylifo yn uniongyrchol; a pha agosaf y byddwyf atat, mwyaf pur a melus yw y ffrwd. *Gyda thi y mae ffynon y bywyd, yn dy oleuni di y gwelwn ni oleuni!* Salm 36. 9. Gwrthrych penaf fy ngobaith, yw cael trigo gyda thi yn dragywydd. Cyfrana i mi yn awr flaen-brawf o'r dedwyddwch hwnw! Dyro i mi, yr wyf yn atolygu arnat, brofi *gwynfydedigrwydd y dyn a ofna'r Arglwydd, ag sydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr* (Salm 112, 1.); a ffurfia fy nghalon trwy dy ras yn y fath

Digitized by Google

fodd, ag y gallwyf *rodio yn dy ofn ar hyd y dydd!* Diar. 23. 17. Boed i'm meddyliau gael eu cyfeirio atat ti pan ddeffrowyf; a chyda y paladyr cyntaf o oleuni ag a ymwelo â'm llygaid, O ARGLWYDD, *dercha di arnaf lewyrch dy wyneb!* Salm 4. 6. Pan fyddo i'm cynheddfau gael eu deffroi o'r cyflwr isel hwnw, yn mha un yr oeddent yn aros, tra wedi eu claddu, ac megys wedi eu diddymu, mewn cwsg, boed i mi allu cyflwyno fy ngweithredoedd cyntaf i ti, O DDUW, yr hwn wyt yn rhoddi i mi oleuni; yr hwn wyt yn rhoddi i mi, bob bore, megys, fywyd a deall newydd. Cynorthwya fy nghalon i dywallt allan ei hun ger dy fron di, gyda pharch, rhyddid, ac anwylder mabaidd! A boed i mi allu gwrando ar DDUW, megys yr ewyllysiwn iddo yntau wrando arnaf fi! Nertha fi i ddarllen dy AIR gyda difrifwch a phleser! Boed i'm henaid gael ei ffurfio trwyddo i'th ddelw di; a boed i mi allu ei guddio ef yn fy nghalon, fel na phechwyf yn dy erbyn! Salm 119. 11. Wedi fy nghalonogi trwy yr anogaethau mawrion a esyd o'm blaen, bydded i mi allu bob bore a hwyr, adnewyddu yr ymroddiad o honof fy hun i ti trwy IESU GRIST dy anwyl FAB; a chan dderbyn cynorthwyon newydd oddiwrtho ef, trwy dy Ysbryd bendigedig, dylanwadau pa un sydd yn fywyd i'm henaid, boed i mi ganlyn ôl ei draed.

Gan gael fy mharotoi fel hyn, bydded i ti, O Arglwydd, fy nwyn yn dy law trwy holl ddyledswyddau a rhagluniaethau y dydd! Ac yn yr alwedigaeth i ba un y rhyngodd bodd i ti fy ngalw, bydded i mi rodio gyda thydi, (1 Cor. 7. 20.); a hyny heb fod yn *ddiog mewn diwydrwydd, eithr yn wresog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd!* Rhuf. 12. 11. Bydded i weled gwerthfawrogrwydd amser, ac felly ei ddefnyddio ef yn barhaus i'r dyben goreu, yn y cyfryw

Digitized by Google

ddyledswyddau a drefnaist i mi; pa mor wael bynag y byddont yn ymddangos, ac er mor boenus y gallont fod. Bydded holl lafur fy mywyd er dy ogoniant di, O Arglwydd; a phâr i mi ymofyn am holl gysuron bywyd i'r unrhyw ddyben; fel pa un bynag a wnelwyf, ai bwyta ai yfed, neu pa beth bynag a wnelwyf, y byddo i mi olygu dy ogoniant, 1 Cor. 10. 31. A bydded i mi allu cyrhaedd y dyben hwn; bydded i bob dadebriad a phob gollyngdod oddiwrth orchwylion, fy nghymwyso i'th wasanaethu di yn fwy bywiog a sefydlog.

Bydded i'm llygad fod yn wyliadwrus i sylwi ar y bendithion a ddisgynant oddiwrthyt ti; a bydded i ystyriaeth diolchgar o'th law di ynddynt, chwanegu arogl peraidd a blas i gydfyned â'r cwbl oll! A phan ddel cystuddiau, pa rai mewn byd fel hwn sydd i'w dysgwyl, bydded i mi allu cofio eu bod yn deilliaw oddiwrthyt ti; a bydded i hyny fy nghymodi â hwynt, gan gredu fod yr unrhyw gariad ag sydd yn rhoddi i ni ein bara beunydiol, yn trefnu ein croesau beunyddiol; pa rai yr ydwyf yn ewyllysio eu cymeryd i fynu, fel y gallwyf ganlyn fy Arglwydd (Marc 8. 34.), gyda yr un fath dymer ag a ymddangosodd ynddo ef, pan oedd efe yn myned i Galfaria er fy mwyn i, gan ddywedyd, gydag ef, *Y cwpan a roddes y Tad i mi, onid yfaf ef?* Ioan 18. 11. A phan elwyf i brofedigaeth, bydded i ti, O Arglwydd, *fy ngwared i rhag drwg!* Mat. 6. 13. Gwna fi yn deimladwy, yr wyf yn atolygu arnat, o'm gwendid fy hun, fel y byddo i'm calon gael ei dyrchafu atat ti am gyfraniadau o nerth presenol yn gyfatebol i'm diffygion! Pan fyddwyf yn nghymdeithas ereill, boed hyn fy ngofal a'm dymuniad, sef gallu o honof wneyd a derbyn cymaint o ddaioni ag a fyddo yn bosibl; boed i mi allu bob amser ateb dybenion mawrion bywyd, trwy dy ogoneddu di, a thanu y wybodaeth iesiol a



Digitized by Google

dedwyddwch trwy y byd! Pan y byddwyf wrthyf fy hun, bydded i mi gofio fod fy Nhad nefol yn bresenol gyda mi; a dyro i mi fwynhau y pleser a gyfyd oddiwrth dy bresenoldeb di, a theimlo dy allu bywiol, yn deffroi fy enaid i wir ddymuniad i geisio meddwl a gweithredu fel yn dy olwg di!

Bydded i'm dyddiau gael eu treulio yn y modd hwn; a'u dybenu yn dy ofn, a than ystyriaeth o'th bresenoldeb grasol! Cyferfydd â mi, O Arglwydd, yn fy nefosiwn prydnhawnol o'r neilldu; a bydded i mi allu dewis yr amser mwyaf addas i hyny. Rho nerth i mi i ddarllen a gweddio yn astud ac yn ddiwyd; a phan fyddwyf yn edrych yn ol ar fy muchedd, bydded i mi wneuthur felly yn ddiduedd! Na âd i hunan-gariad dànu lliw twyllodrus dros fy ymddygiad; ond bydded i mi allu barnu fy hun, fel un a fyddai yn dysgwyl cael ei farnu gan yr ARGLWYDD, ac fel un a fyddai yn ofalus iawn am gael ei gymeradwyo genyt ti, yr hwn wyt yn chwilio pob calon, ac na anghofi byth yr un o'm gweithredoedd, Amos 8. 7. Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron o ddydd i ddydd fel arogldarth, a dyrchafiad fy nwylaw fel yr offrwm boreol a phrydnhawnol! Salm 141. 2. Bydded i mi roddi fy ngalluoedd i gysgu mewn tawelwch; gan gael tystiolaeth cydwybod i mi fyw i Dduw ar hyd y dydd, a chan gredu yn llawen fy mod yn gymeradwy gyda thydi trwy IESU GRIST fy ARGLWYDD, a chan obeithio yn ostyngedig yn dy drugaredd trwyddo ef, pa un bynag a fyddo i'm dyddiau gael eu hestyn ar y ddaear, neu ynte i weddill fy mlynyddoedd gael eu tori ymaith, Esay 38. 10. Os daw angau yn raddol ataf, bydded iddo fy nghael yn gwneuthur fel hyn; ac os gelwir fi yn sydyn i newid dau fyd, bydded i'm dyddiau a'm horiau diweddaf gael eu treulio fel hyn; fel y byddo i mi gael mynediad tawel a melus o wasanaeth amser, i

Digitized by Google

wasanaeth anfeidrol well mewn cyflwr o anfarwoldeb! Yr wyf yn gofyn hyn oll trwyddo ef, yr hwn, tra ar y ddaear, oedd y cynllun a'r siampl fwyaf odidog o bob rhinwedd a gras, a'r hwn sydd yn awr yn byw ac yn teyrnasu gyda thi, ac yn *abl i achub hyd yr eithaf*, Heb. 7. 25. Ato ef yr wyf yn chwennych ffoi, gan gyfaddef yn ostyngedig, wedi gwneuthur y cwbl, mai *gwas anfuddiol ydwyf fi* (Luc 17. 10.); iddo ef byddo y gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

## PENNOD XXI.

### Y CRISTION IEUANC YN CAEL EI ANOG I OCHELYD Y TEMTASIYNAU, PA RAI A ALLANT EI ATAL I REDEG YR YRFA A OSODAIS O'I FLAEN.

Mae peryglon yn parhau, wedi i'r anhawsderau cyntaf (y rhai a ystyriwyd, pen. 16.) gael eu gorchfygu, Dosparth 1. Rhybuddion neillduol, (1.) Yn erbyn tymher farwaidd a diog, 2. (2.) Yn erbyn cariad gormodol at bleser anianol, 3. Y rhai a arweiniant ddynion i esgeuluso eu galwedigaeth ac i draul afreidiol, 4. (3.) Yn erbyn maglau cwmpeini ofer, 5. (4.) Yn erbyn brys gormodol gyda gorchwylion bydol, 6. yr hyn a rymusir trwy y canlyniadau a fu i'r pethau hyn lawer gwaith, 7. Terfyna y bennod gyda chyngor i farw i'r byd hwn, a byw i un arall. 8. A gweddi un newydd gael ei ddychwelyd am ddiffyniad dwyfol yn erbyn peryglon yn codi oddiwrth y maglau hyn.

1. Yr wyf yn gobeithio y bydd i'r darluniad uchod a roddais o'r pleser a'r budd sydd yn cydfyned â bywyd o ymroddiad i Dduw, ac o gymundeb ag ef, dy rwymo di, fy anwyl ddarllenydd, i ffurfio rhai bwriadau yn ei gylch, ac ymdrechu, mewn rhyw fesur, i ganlyn y fath fuchedd. Ond wrth ystyried natur, a sylwi ar drefn pethau, y mae yn ymddangos yn eglur,

Digitized by Google

y bydd i ti (heblaw y gwrthwynebrwydd cyffredinol y soniais am dano o'r blaen, ag sydd yn cydfyned â dechreuad y fuchedd gristionogol) hyd yn oed ar ol hyny, gyfarfod â llawer o rwystrau yn dy waith yn ymgais at ddnwioldeb dilynwiw, ac yn dy waith yn canlyn buchedd a fyddo yn hynod fanol a defnyddiol. A thra y mae yn bosibl i ti allu, trwy rai ymdrechiadau grymus, siomi rhai o'r gelynion hyny a fyddo yn ceisio dy atal rhag cymeryd sylw ar grefydd un amser; eto bydd y rhai hyn yn rhuthro arnat o newydd; ac am hyny rhaid i ti ymdrechu yn wrol ac yn barhaus yn eu herbyn. Caniata i mi fod yn fanol yn fy rhybudd yn erbyn ychydig o'r rhai penaf o honynt. Yma rhaid i mi sylwi yn neillduol ar yr anhawsderau a darddant oddiwrth syrthni, cariad at bleserau, at gyfeillion ofer, ac oddiwrth ofalon bydol. Fe ddichon y naill a'r llall o'r pethau hyn fod yn fagl i unrhyw gristion, ond yn neillduol i gristionogion ieuainc, â pha rai y chwennychwn ymddyddan yn awr mewn modd neillduol a pharchus.

2. Yr wyf yn atolygu arnat, gan hyny, yn y lle cyntaf, i wylio yn erbyn tymer fusgrell a dioglyd. Y mae cariad at esmwythder yn dyfod i mewn i'r galon, trwy amryw esgusodion golygus, pa bethau sydd yn cael eu caniatau yn fynych, pan fo temtasiynau mwy yn cael eu gwrthod. Nid yw camdreulio ychydig o amser yn ymddangos i lawer o ddynion doeth a da, ond mater bach; er fod hyn, weithiau, yn eu gyru hwynt i lawer o anghyfleusderau. Y mae hyn yn eu harwain yn fynych i dori ar draws amserau rheolaidd perthynol i ddefosiwn; yn peri iddynt roddi heibio ryw orchwylion, ag a allasent gael eu cyflawni yn ddioed; ond gan eu gosod heibio o ddydd i ddydd, y maent yn aros heb eu cyflawni oll; a thrwy hyny y mae y gwasanaeth

Digitized by Google

mewn bywyd yn brinach, a'r gwobrwyon yn y byd tragywyddol yn cael eu lleihau yn gyfatebol. Fe fyddai yn hawdd profi hefyd, fod hyn yn gwneyd yr enaid yn agored lawer gwaith i demtasiynau pellach, trwy ba rai y clwyfir ef, mewn canlyniad o'i fod yn segur. Gwylia, gan hyny, yn erbyn y temtasiynau cyntaf o'r natur hyn. Cofia, fod enaid dyn yn fôd bywiog, a'i fod yn cael ei wynfyd oddiwrth weithrediadau bywiog. Gwregysa, gan hyny, lwynau dy feddwl, 1 Pedr 1. 13. Ymdrecha i gadw dy hun ar waith da bob amser. Bydd yn fanol, os gallaf gyda gostyngeiddrwydd a pharch ddywedyd felly, i gadw dy amserau gosodedig i gyfarfod â'th Dduw. Cyferfydd âg ef y bore ar y wawr; ac na ddywed gyda y diogyn, pan ddel yr awr gymwys i godi, "ychydig o huno ac o hepian yn mhellach," Diar. 6 10. Rho yr amser a welo callineb yn gymwys i gyfeillach a difyrwch. A phan elo y cyfryw amser heibio, os na bydd i ryw beth pwysfawr na ragwelaist dy atal, cyfod a dos ymaith. Ymâd â chyfeillach dy gyfeillion anwylaf, a dychwel at dy orchwyl, pa un bynag ai yn y maes, y fasnach, neu ynte yn yr ystafell y byddo. Canys trwy weithredu yn groes i ddywediadau dirgel dy feddwl, yn nghylch yr hyn a ymddengys oreu y funud bresenol i'w wneuthur, er na byddo hyny ond megis treulio haner awr, fe fydd i ryw radd o euogrwydd newydd ddyfod i mewn, ac fe fydd i reddf gael ei mheithrin ag a allo ddwyn gyda hi ganlyniadau llawer gwaeth. Ystyria, gan hyny, pa ddyledswyddau sydd i'w cyflawni, ac yn mha amser. Trefna dy ffordd mor ddoeth ag y gellych, a chanlyn hi yn ddiysgog; oni fydd i ryw beth annysgwyliadwy gyfodi ag a baro i ti gredu fod dy ddyledswydd yn galw arnat i ryw ffordd arall. Canys rhaid rhoddi lle i'r fath ataliadau na feddyliwyd am danynt. Ond os mewn canlyniad i



Digitized by Google

hyn, y byddi un amser yn rhwym i adael o'r neilldu ryw beth o bwys, ag y bwriedaist ei wneuthur heddyw, gwna hyny, os yw bosibl, y foru: ac nac ymofyn am waith newydd, nes darfod yr hyn a luniaist yn barod; oddieithr fod lle i gredu y bydd i'r peth newydd fod nid yn unig yn fwy difyrus, ond hefyd yn fwy ei bwys. A chofia, bob amser, y gweddai i wasanaethwr Crist benderfynu yr holl bethau ar bob achlysur, fel yn ngŵydd yr Arglwydd.

3. Gwylia hefyd rhag gormod serch at bleserau cig a gwaed, fel peth a fydd yn rhwystr mawr i ti yn yr yrfa gristionogol y bum yn dy anog i'w rhedeg. Ni elli lai na gwybod i Grist ddywedyd, fod yn rhaid i ddyn ymwadu ag ef ei hun, a chyfodi ei groes beunydd, os myn fod yn ddysgybl iddo ef, Luc 9. 23. Crist, yr hwn yw Awdwr ac Etifedd pob peth, nis boddhaodd efe ei hun (Rhuf. 15. 3.); ond ymostyngodd i newyn, i galedi, ac anhawsdra yn ffordd ei ddyledswydd; a hyny i'r gradd eithaf, rai prydiau, er mwyn gogoniant Duw a iachawdwriaeth dynion. Yn y ffordd hon y mae yn rhaid i ni ei ganlyn ef; ac fel na wyddom pa mor gynted y cawn ein galw i wrthwynebu hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod (Heb. 12. 4.), goreu i ni, mae yn ddiamheu, fyddai ymgynefino â'r ddysgyblaeth hòno, i ymarfer pa un y mae yn bosibl i ni gael ein galw allan, hyd yn oed yn y fath fodd creulon, a gorfod colli ein bywyd. Bywyd esmwyth a moethus a chwanega rym temtasiynau, pa rai a allent gael eu gorchfygu yn hawdd gan un a fyddai wedi ymarfer ei hun i *ddyoddef cystudd fel milwr da i Iesu Grist*, 2 Tim. 2. 3. Efe hefyd a bar y fath serch at y byd hwn, ag a'n gwnelo yn anfoddlon i ymadael ag ef; yr hyn sydd yn anweddaidd i'r sawl sydd yn *ddyeithriaid a phererinion ar y ddaear;* y rhai ydynt yn dysgwyl cael eu galw ar frys i feddiant o

Digitized by Google

wlad well, pa un y maent yn ei cheisio, Heb. 11. 13—16. Ystyria yn mhellach, fod yr hyn y mae y byd yn alw yn fywyd pleserus, yn sicr yn fywyd treulfawr hefyd; yr hyn a all, o bosibl, dy ddwyn di, fel y bu yn foddion i arwain ereill, i fyw uwchlaw yr hyn a drefnodd rhagluniaeth at dy gynal; ac felly syrthio yn fuan i dlodi. Ac er, mewn achosion ereill, y dylai tosturi gael ei ddangos i'r tlawd, eto tlodi yw hwn ag sydd yn gyfiawn ddirmygus, oblegid ei fod yn effaith ynfydrwydd dyn ei hun; a phan *ddelo dy angen arnat fel gwr arfog* (Diar. 6. 11.), cei weled dy hun wedi dy ddyosg o'r cymwysderau hyny, y rhai pe amgen a allasit ddiogelu er mwyn cyflawni y gweithredoedd hyny o elusen, pa rai ydynt y fath harddwch i'r broffes gristionogol, ond hefyd dan demtasiynau cryfion, o bosibl, i arfer rhyw gyfrwysderau, ac i gydsynied â phethau a fyddo yn gwbl anghyson â chymeriad cristion a dyn gonest. Llawer ag a wnaethant broffes hŷ o grefydd unwaith, wedi bod yn euog o res o'r fath ddichellion gwaradwyddus, a syrthiasant o'r diwedd i'r gwarth o fod yn dorfasnachwyr *(bankrupts)*; ïe, i fysg y rhyw waethaf o honynt; sef y rhai a afradlonasant eiddo rhai ereill, ac felly a ddrygasant, ac a dorasant, o bosibl, rai o'u cydgreaduriaid llafurus, er mwyn porthi eu nwydau ynfyd, trythyll, a balch, yr hyn oedd yn gywilydd i'w teuluoedd yn y cyfamser, a phan na allent eu porthi yn hwy, ydynt yn boen iddynt. Y fath beth a fydd yn waradwydd ofnadwy i grefydd: yn fath waradwydd iddi, fel y chwennychai dyn duwiol fyw ar fara a dwfr, ïe, farw o ddiffyg y pethau hyn, yn hytrach na bod yn achos o hono.

4. Gwylia gan hyny, yr wyf yn atolygu arnat, yn erbyn pob peth o allo fod yn tueddu at hyn, yn neillduol trwy fod yn ddiwyd yn dy orchwylion, yn ddoeth

Digitized by Google

ac yn gymhedrol yn dy draul, yr hyn a all, dan fendith Duw, wneuthur dy negesau bydol yn llwyddiannus, dy iechyd yn gryf, a'th feddwl yn esmwyth. Ond ni all hyn byth fod heb gadw gwyliadwriaeth ddiysgog arnat dy hun, gan ymwrthod yn ddewr â llawer o gynygion ag y gall syrthni a thrythyllwch osod ger dy fron mewn modd dengar; dros yr hyn y dadleuant, gan ddywedyd, nad yw y peth y maent yn ofyn ond bychan iawn. Cymer ofal yn yr ystyr hwn, rhag bod o honot yn debyg i'r rhieni calon dyner hyny, pa rai trwy borthi blys eu plant yn mhob peth a chwennychant, ydynt yn eu hanog i fod o'r diwedd yn fwy gormesol ac arglwyddaidd yn eu cais; a thrwy hyn ymddangos fel rhai a fyddai yn dewis cael eu dystrywio gyda eu plant, yn hytrach na'u hatal yn yr hyn a fyddo yn ymddangos yn beth distadl. Cofia ac ystyria y dywediad rhagorol hwnw a seliwyd ac a wiriwyd trwy golledigaeth miloedd; Yr hwn a ddibrisio bethau bychain, a gwymp bob yn ychydig ac yn ychydig.

5. Yn yr olwg hon ar bethau, rho genad i mi, fy narllenydd anwyl, i'th rybuddio yn dyner a difrifol, i ochelyd y maglau a osoder i ti gan gyfeillion ofer. Nid wyf, fel o'r blaen, yn son am gyfeillion a fo yn afreolaidd ac annuwiol cyhoeddus. Mi a obeithiaf fod rhywbeth yn awr yn dy dymer a'th ddybenion, ac a bâr i ti droi ymaith oddiwrth y cyfryw rai gyda ffieidddra a dychryn. Ond yr wyf yn dymuno i ti ystyried y gall fod y cymdeithion hyny yn beryglus, pa rai ar y cyntaf ni roddant i ti fawr o achos i arswydo: yr wyf yn meddwl y sawl, er nad ydynt yn elynion cyhoeddus i grefydd, ac yn ganlynwyr proffesedig o ddrygioni ac afreolaeth, sydd eto yn amddifad o un adnabyddiaeth ymarferol o ras dwyfol ar eu calonau, mor bell ag y gellir barnu trwy eu cyfeillach a'u hymddygiad. Rhaid

Digitized by Google

i ti o angenrheidrwydd fod yn fynych gyda y fath ddynion; ac y mae cristionogaeth nid yn unig yn caniatau, ond yn gofyn, i ti ar bob achlysur, pan gyfarfyddech â'r fath, i ymddyddan â hwynt yn fwynaidd a pharchus: eto gochel ddewis y cyfryw i fod dy gyfeillion mwyaf mynwesol, ac na threulia y rhan fwyaf o'r munudau a fyddo genyt i gyfeillachu, yn eu cyfeillach hwynt. Canys y mae y fath gyfeillach yn eglur yn tueddu i ddenu yr enaid oddiwrth Dduw, ac i'w anghymwyso i bob cymundeb ysbrydol ag ef. Er mwyn i ti gredu hyn, edrych yn ol ar dy brofiad dy hun, wedi bod o honot oriau yn nghyd yn mysg dynion o'r fath ymarweddiad. Onid wyt yn profi dy hun yn fwy annhueddol i'r ymarferiad o ddyledswyddau crefydd? Onid wyt yn cael dy galon yn raddol mewn modd diarwybod yn tueddu i gydymffurfio yn fwy-fwy â'r byd hwn; ac i edrych ar y gwrthrychau a'r ymarferiadau hyny, gyda chasineb dirgel, pa rai y mae rheswm yn ein cyfeirio ni atynt fel y pethau gwychaf a mwyaf dymunol? Dal sylw ar yr arwyddion cyntaf o hyn, a gwylia rhag y fagl mewn pryd: ac i'r dyben hwnw ymdrecha i gael y fath gyfeillach ag a fyddo wedi ei gwreiddio ar dduwioldeb, ac yn cael ei pharhau trwy yr unrhyw. Bydd yn *gyfaill i'r rhai oll a ofnant Dduw, ac i'r rhai a gadwant ei orchymynion*, Salm 119. 63. Ti a wyddost yn dda, mai hwynthwy yw rhai rhagorol y ddaear yn ngolwg Duw; bydded gan hyny, dy holl *hyfrydwch dithau ynddynt*, Salm 16. 3. Ac fel na bo i ti golli y budd rhagorol sydd yn tarddu o'u cyfeillach, ymdrecha i wneyd y goreu o'r amser a dreuliech yn eu mysg. Fe ddywedodd y doethaf o ddynion, er fod *cyngor yn nghalon gwr megys dyfroedd dyfnion*, hyny yw, pan fyddo yn gorwedd yn ddwfn ac allan o olwg, eto *gwr call a'i tyn allan*, Diar. 20. 5. Cais, gan hyny, ar

Digitized by Google

y fath achlysur, mor bell ag y byddo gweddaidd a chyfleus, i droi y gyfeillach i fod yn un grefyddol. A phan byddo pethau defnyddiol a syml yn cael eu crybwyll o'th flaen, cymer afael arnynt, gan ymhelaethu yn eu cylch; ac i'r dyben o hyny preswylied gair Crist ynot yn helaeth (Col. 3. 16.), a gwna ef bob amser yn *wr o'th gyngor*, Salm 119. 24.

6. Trwy ymddwyn fel hyn, ti a ddiogelir, nid yn unig rhag y maglau sydd oddiwrth segurdod a gloddest, ond hefyd rhag yr haint a gyfyd oddiwrth bob siampl ddrwg. Hyn hefyd a bar i ti wylio rhag gormod ffrwst yn nghylch pethau bydol, yr hyn a all fyned â'th holl feddyliau a'th amser, a thrwy hyny dagu gair Duw, a'i wneyd mewn mesur mawr, os nid yn gwbl, ddiffrwyth, Mat. 13. 22. Y mae pobl ieuainc yn gyffredin yn llawn o amcanion. Gan eu bod heb brofi ond ychydig, mewn cymhariaeth, o flinder yn ngorchwylion y byd, nac chwaith fawr o rwystrau na siomedigaethau mewn bywyd, y maent yn hawdd yn llyncu y pethau hyn, ac megys yn eu diddymu yn eu dychymygion; gan feddwl y bydd gwrolder, eu diwydrwydd, a'u hymddyddan hwynt, yn abl i orchfygu pob anhawsdra. Ond y mae profiad yn dangos i'r gwrthwyneb. Mi a'th gynghoraf di, gan hyny, i fod yn ofalus rhag soddi dy hun mewn mwy o negesau nag a allech ddwyn i ben fel y gweddai i ti, a hyny yn gytunol â gofal am dy enaid, ac â gwasanaeth Duw; yr hyn yn sicr ni ddylent gael eu hesgeuluso mewn un modd. Diamheu fod gofal doeth am dy orchwylion bydol, yn galw am y gocheliad hwn; gan fod yn eglur i bob un ag sy yn ystyried yn ddwys, fod tyrfaoedd yn dystrywio eu hunain, wrth eu gwaith yn crafangu mwy nac a allont reoli yn gyfleus. Oblegyd hyn, ni a welwn yn aml, pan y mae dynion a'u bwriad ar fod yn gyfoethog, eu

Digitized by Google

bod yn *gwánu eu hunain á llawer o ofidiau* (1 Tim. 6. 10.); yn dystrywio eu teuluoedd, ac yn anrheithio llawer ereill o'u cwmpas. Y rhai, pe buasent foddlon i orchwylion cymhedrol, ac i ynill cymhedrol, a allasent lwyddo; a thrwy fendith ddwyfol ddyfod yn mlaen yn raddol i gynydd anrhydeddus. Ond pe na byddai unrhyw berygl oll i'w ddysgwyl ar y pen hwn, pe byddit mor sicr o ddyfod yn fawr ac yn gyfoethog, ag wyt o ddyrysu ac o flino dy hun trwy amcanu at hyny, eto ystyria, yr wyf yn atolygu arnat, pa mor ansicr yw y pethau hyn oll. Ystyria pa mor fynych y mae bwrdd bras yn dyfod yn fagl, a'r hyn a ddylai fod er daioni i ddyn, yn dyfod yn *dramgwydd iddo*, Salm 69. 22. Nac anghofia yr addysg fer hòno, ag sydd mor gyflawn o'r doethineb mwyaf: *un peth sy yn angenrheidiol*, Luc 10. 42. Meddwl bob dydd tra mae pethau mawrion a gwychion y bywyd hwn yn disgleirio ger bron dy lygaid, pa mor gynted y daw angau, pa un a'th dloda di ar unwaith; pa mor gynted y bydd iddo dy ddyosg o'th holl feddiannau, ond yn unig y trysorau pa rai a fyddo yr enaid noeth yn eu dwyn gydag ef i dragywyddoldeb, pan fyddo yn ymadael â'r corff yr hwn a gleddir. TRAGYWYDDOLDEB! TRAGYWYDDOLDEB! TRAGYWYDDOLDEB! Dwg yr ystyriaeth o hono gyda thi, os bydd bosibl, trwy bob awr o'th fywyd; gan gwbl gredu nad oes genyt unrhyw neges na budd i ofalu am danynt ar y ddaear, ag sydd yn anghyson â'r fath ystyriaeth. Canys beth bynag a allo rwystro yr olwg syml ar dragywyddoldeb, nid yw yn ddyledswydd arnat, ac ni all roddi un llesâd i ti. Gwir yw, fod y rhan fwyaf o ddynion yn ymddwyn fel pe byddent yn meddwl, mai yr unig beth ag a gais Duw ganddynt i'r dyben o sicrhau ei heddwch ef, yw casglu cymaint ag a fyddo yn bosibl o'r byd yn nghyd; o leiaf,

Digitized by Google

cymaint ag a allont heb fod yn euog o anfoesoldeb gwaradwyddus, ac heb beryglu y cwbl oll, trwy chwanegu ychydig. Ac, mewn trefn i ddwyn yn mlaen yr ymgais hwn, hwy a ddywedant wrth ereill, ac wrthynt eu hunain, o bosibl, nad ydynt ond yn ymofyn am gyfleusderau i fwy o ddefnyddgarwch. Ond mewn effaith, os ydynt yn meddwl dim amgen na gallu i fod yn fwy defnyddiol, yr hyn, pan y maent yn meddu arno, ni ddefnyddiant, y maent yn gyffredinol yn twyllo ei hunain: ac y mae yr hyn a ddywedant, yn rhyw ffordd neu gilydd, yn esgus gwag. Y mae dynion yn ymgais am y byd fynychaf, naill ai i'r dyben o bentyru cyfoeth, er mwyn y pleser gwael a gwaradwyddus o gael edrych arno tra fyddont byw, ac o feddwl y byddir yn dywedyd am danynt ar ol eu marwolaeth, iddynt adael cynifer o gannoedd neu filoedd ar eu hol; a hyny, y mae yn debygol iawn, i fod yn fagl i'w plant, neu ynte i'w hetifeddion, (canys nid yw y gwagedd hwn yn perthyn yn unig i'r sawl ydynt rieni plant,)—neu ynte i gael eu treulio hwynt ar eu meluschwant, ac i'r dyben o drochi eu hunain yn y pydew o drythyllwch, yn yr hwn y mae, os nid rheswm, eto crefydd yn cael ei cholli yn fuan, a'r pleserau gwychaf a allant ddyfod i galon dyn, ynt yn cael eu llyncu i fynu gyda hi. Ar yr olwg hon, y mae y cyfoethogion yn gyffredin yn ymddangos i mi yn wrthrychau o fwy o dosturi na'r tlodion; hyd yn oed pan fyddo y naill a'r llall o honynt, (yr hyn sydd yn beth cyffredin,) yn byw heb ofn Duw o flaen eu llygaid; y mae y cyfoethogion yn camddefnyddio llawer mwy o roddion da yr Arglwydd, ac am hyny y mae yn debygol iawn y cânt deimlo eu trueni yn fwy yn y byd o ddystryw, yr hwn sydd yn aros i bechaduraid anedifeiriol.

Ac, O ddarllenydd anwyl, rhag i ti dybied dy hun

Digitized by Google

yn ddiogel y fath berygl, rho genad i mi ddywedyd wrthyt, fod genym reswm i feddwl fod llawer yn awr mewn cyflwr truenus iawn, pa rai a feddyliasant yn ddifrifol am grefydd unwaith, pan oeddynt yn taro allan mewn amgylchiadau isel mewn bywyd; ond y maent wedi troi eu cefnau ar y Duw byw, a dewis Mammon, ac felly yn ymfalchio yn y cadwynau aur-aidd hyny, pa rai sydd yn debygol iawn o'u dwyn ar frys i gadwynau tywyllwch, a'u gadael yno. Gan fod y fath ganlyniadau dinystriol yn cydfyned â serch at y byd hwn, *na wynfyded dy galon wrth bechaduriaid* (Diar. 23. 17.); ac na fydd, oddiar chwant i feddiannu eu golud hwynt, yn euog o'r fath ynfydrwydd a rhoddi dy hun yn agored i'r perygl dauddyblyg hwn, sef, naill ai siomedigaeth yn yr ymgais, neu ddystryw trwy dy lwyddiant. Cwtoga dy ddymuniadau; ac ymdrecha i fod yn foddlon ar ychydig. Ac os bydd i ragluniaeth dy alw di allan i weithredu mewn cylch mwy ehang, ymostwng mewn ufudd-dod i ragluniaeth, ond cyfrif hyn yn mysg y lleill o brofedigaethau y bywyd hwn, a'i fod yn galw am fwy o ras i sefyll fel milwr da. Canys bydd sicr o hyn, fel y byddo dy achosion bydol yn amlhau, fe fydd dy ofalon a'th ddyledswyddau yn fwy hefyd; ac y mae yn debygol y bydd i siomedigaethau a gofidiau gynyddu yn gyfatebol.

8. Mewn gair, boed i ti, ar y cwbl, ddysgu marw, trwy ddwyfol ras, i'r byd presenol; i edrych arno fel cyflwr isel o fodoliaeth, yr hwn ni ddarfu i Dduw erioed apwyntio i fod yn brif ddedwyddwch, nag yn ofal penaf, un o'i blant: byd, yn mha un y mae rhyw-beth yn wir i'w fwynhau, ond y mwyniant penaf sydd oddiwrth Dduw ei hun. Byd yw hwn, lle y rhaid i ti ddyoddef llawer gydag amynedd ac ymostyngiad; ac yn mha un y mae rhyw ddyledswyddau pwysfawr i gael

eu cyflawni, a gyrfa o ddysgyblaeth i fyned trwyddi, yr hon sydd i'th wneyd yn gymwys i gyflwr gwell; i ba un yr ydwyt yn agos, fel cristion, ac i'r hwn y bydd i Dduw dy alw ar frys, o bosibl; ond yn ddiamheu os cedwi dy ffordd, fe fydd iddo dy alw yn y modd a'r amser mwyaf cymwys. Gad y cwbl, gan hyny, i'w drefniad ef. Boed i'th obeithion a'th ofnau, dy ddysgwyliadau a'th ddymuniadau, yn nghylch y byd hwn, gael eu cadw mor isel ag y gellir; a bydded i'th holl feddyliau gyduno i ymofyn, pa fath un, yn dy amgylchiadau presenol, y myn Duw i ti fod; a pha fath ymddygiad yw hwnw, trwy ba un y gelli yn y modd mwyaf effeithiol ryngu ei fodd a'i ogoneddu ef?

GWEDDI *y Cristion ieuanc am nerth dwyfol i ymgadw rhag y maglau uchod.*

O DDUW bendigedig! Yn mysg y maglau aneirif, a'r peryglon, pa rai a'm cylchynant, caniata i mi allu edrych i fynu atat ti, gan atolygu arnat mewn modd gostyngedig, fy amddiffyn oddiwrth y rhai a ymgyfodant i'm herbyn (Salm 59. 1.), a bod dy olwg arnaf er daioni! Jer. 24. 6. Pan fyddo syrthni a diogi yn dyfod arnaf, boed i ti fy neffroi o bob rhyw freuddwydion ofer, trwy olwg fywiol a serchiadol ar y byd tragywyddol ac anweledig, i ba un yr wyf yn gogwyddo! Boed i mi allu cofio yn wastadol, pa ryw lesâd anfeidrol sydd o ymarferiad diwyd ac iawn o'r munudau darfodedig hyny, pa rai a drefnaist i mi fel amser parotoad erbyn tragywyddoldeb!

Os pechaduriaid a'm denant, na âd i mi gytuno â hwynt! Diar. 1. 10. Boed cyfeillach santaidd â thydi, fy Nuw, yn peri i mi ddiflasu ar gyfeillach y sawl ˋt ddyeithriaid i ti, a'r rhai a chwennychant ysgaru

Digitized by Google

fy enaid oddiwrthyt! Cynorthwya fi i anrhydeddu y rhai a'th ofnant di, O Arglwydd (Salm 15. 4.); a chan rodio gyda y fath ddynion santaidd a doeth, bydded i'm henaid gynyddu mewn doethineb a santeiddrwydd o ddydd i ddydd, Diar. 13. 20. Bywha fi, O Arglwydd, trwyddynt hwy, fel y byddo i ti fywhau ereill trwof finau! Gwna fi yn offeryn dedwydd i enyn fflam o gariad dwyfol, a'i chynyddu, yn mynwesau fy nghydgreaduriaid; a bydded iddi fyned o galon i galon, a chynyddu yn fwyfwy ar bob munud!

Cadw fi, O Arglwydd, rhag cariad at bleserau cig a gwaed! Bydded i mi gofio yn wastadol fod *syniad y cnawd yn farwolaeth!* Rhuf. 8. 6. Bydded da genyt, gan hyny, buro ac adnewyddu fy enaid, trwy ddylanwadau dy Ysbryd santaidd, fel y gallwyf bob amser ymgadw rhag pob rhyw bleserau anghyfreithlon, gyda mwy gofal nag y mae ereill yn eu canlyn hwynt; a boed i mi allu ymarferyd yn sobr â'r pleserau a ganiateaist ti i'r natur ddynol, a'r hyn y mae natur pethau yn wneud yn angenrheidiol yn y fuchedd hon! Nertha fi bob amser i gadw golwg ar ragoroldeb fy rhan resymol ac ysbrydol; a boed i mi allu ymgais ar ol pleserau y dyn a'r cristion, fel fy nedwyddwch penaf! Bydded i'm henaid allu cyfodi ar adenydd myfyrdodau santaidd, tua gwledydd y gogoniant anweledig; a boed i mi allu ymbarotoi trwy ras dwyfol i fwynhau gwleddoedd yr ysbrydion angylaidd sydd yn byw yn dy bresenoldeb di, mewn anghymwysder hapus i'r mwynhad o'r pleserau anmhur hyny, ag ydynt yn fynych yn maglu yr ysbrydoedd a breswyliant yn y cnawd, ac yn peri iddynt anghofio yn aml eu naturiaeth uchel, a'r gobeithion gogoneddus hyny, pa rai yn unig sydd yn gyfatebol i'r fath naturiaeth wych.

Dyro, O Arglwydd, i mi wybod y sefyllfa a drefn-

aist i mi mewn bywyd; ac felly boed i mi allu cyflawni y dyledswyddau a berthynant iddi yn ddiysgog! Eto gwared fi rhag y gofal anghymedrol hwnw am y byd presenol, ag a dyno fy meddyliau a'm amser yn y fath fodd, ag y byddo i mi anghofio yr un peth angenrheidiol! Bydded i'm chwant am drysorau bydol gael ei gymhedroli, trwy yr ystyriaeth o'u hansicrwydd a'u hannigonolrwydd; a thra y byddo ereill yn trysori iddynt eu hunain drysorau ar y ddaear, rho i mi fod yn *gyfoethog tuag at Dduw*, Luc 12. 21. Na fydded i mi fod byth mor brysur yn nghylch pethau y ddaear, fel na byddo genyf amser i ystyried yr achosion pwysig perthynol i'th ogoniant di, a daioni fy enaid fy hun; na âd i mi byth ofalu am y byd hwn, mor bell ag esgeuluso yr hyn a berthyn i'm dedwyddwch tragywyddol! Nertha fi i dramwy trwy y ddaear â'm gobaith a'm calon wedi eu sefydlu ar y nefoedd; a boed i mi deimlo dy ddylanwadau grasol yn tynu yn gryfach gryfach, fel y byddwyf yn tynu yn nes nes i'r canolbwynt dymunol hwnw; hyd oni ddel y munud hapus, yn mha un y bydd i bob gwrthrych daearol gilio o'r golwg, ac i ogoniant y byd nefol lewyrchu ar fy enaid, yr hwn a fydd bryd hwnw wedi ei nerthu a'i gymhwyso i dderbyn y fath amlygiadau, ag na all sefyll danynt yn bresenol! Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XXII.

## Y CYFLWR O DDADFEILIAD YSBRYDOL AC O NYCHDOD MEWN CREFYDD, YN CAEL EI YSTYRIED.

Mae dadfeiliadau mewn crefydd, a chwympiadau i bechod, yn nghyd a'u canlyniadau galarus, yn debyg o gymeryd lle, Dosparth, 1. Cyflwr o ddadfeiliad a nychdod mewn crefydd yn cael ei ddesgrifio, yn nacaol, 2, ac yn gadarnhaol, 3. Fel yn datguddio ei hun, (1.) Trwy balliant yn nyledswyddau yr ystafell ddirgel, 4. (2.) Trwy esgeulusdra o addoliad cymdeithasol, 5. (3.) Trwy ddiffyg cariad at ein cyd-gristionogion, 6. (4.) Trwy serch annyladwy at bleserau anianol, neu ofalon bydol, 7. (5.) Trwy ragfarn yn erbyn rhai egwyddorion pwysig mewn crefydd, 8. Arwydd neillduol o ddrwg a pheryglus, 9, 10. Cyfarwyddiadau at adferiad, 11. I'w dilyn yn ddioed, 12. Gweddi dros un mewn dirywiad ysbrydol.

1. Os byddaf mor ddedwydd a thycio gyda thi trwy y cynghorion a'r rhybuddion a roddais, ti a fyddi yn debygol o fyned yn mlaen mewn crefydd gyda hyfrydwch a chysur; ac fe fydd dy lwybr yn gyffredin fel goleuni y bore, yr hwn a oleua fwyfwy hyd ganol dydd, Diar. 4. 18. Ond ni feiddiaf fi wenieithio i mi fy hun mor bell a disgwyl llwyddo yn y fath fodd, ag y bo i ti gael dy ddwyn uwchlaw yr amrywiol dymherau, yr ymddygiadau, a'r sefyllfaoedd hyny, y bu y goreu o ddynion mewn mesur mwy neu lai yn achwyn o'u plegid yn mhob oes. Yr wyf yn ofni yn fawr, er mor wresog yw dy galon yn bresenol trwy y darluniad a roddais o grefydd, er y bydd i wrthrychau ffydd a gobaith barhau yn anghyfnewidiol, y bydd i'th dymer di tuag atynt gyfnewid. Yr wyf yn ofni yn fawr, y bydd i ti deimlo dy feddwl yn gwanhau ac yn blino yn ffyrdd daionus yr Arglwydd; ie y bydd i rywbeth



Digitized by Google

aiot i mi mewn bywyd; ac felly boed i
y dyledswyddau a berthynant iddi yn
gwared fi rhag y gofal anghymedrol
presenol, ag a dyno fy meddyliau a'n
fodd, ag y byddo i mi anghofio yr un pe
Bydded i'm chwant am drysorau by
bedrolli, trwy yr ystyriaeth o'u hansic
[illegible]; a thra y byddo ereill
eu hunain drysorau ar y ddaear, rho
[illegible] tuag at Dduw, Luc 12. 21. N
byth mor brysur yn nghylch pethau
byddo genyf amser i ystyried yr achos
[illegible] di, a daioni fy enaid
[illegible] am y byd hwn, mor bel
[illegible] i'm dedwyddwch tragyw
[illegible] trwy y ddaear â'm gobaith
[illegible] ar y nefoedd; a boed i mi
[illegible] yn tynu yn gryfach
[illegible] yn tynu yn nes nes i'r canol
[illegible] y munud hapus
[illegible] daearol gilio
[illegible] y byd [illegible] llewyrchu ar fy
[illegible] wedi *ei* nerthu a'
[illegible] ag na *all*
[illegible]! Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XXII.

## Y CYFLWR O DDADFEILIAD YSBRYDOL AC O NYCHDOD MEWN CREFYDD, YN CAEL EI YSTYRIED.

**Mae dadfeiliadau mewn crefydd, a chwympiadau i bechod, yn nghyd a'u canlyniadau galarus, yn debyg o gymeryd lle, Dosparth, 1. Cyflwr o ddadfeiliad a nychdod mewn crefydd yn cael ei ddesgrifio, yn neccaol, 2, ac yn gadarnhaol, 3. Fel yn datguddio ei hun, (1.) Trwy balliant yn nyledswyddau yr ystafell ddirgel, 4. (2.) Trwy esgeulusdra o addoliad cymdeithasol, 5. (3.) Trwy ddiffyg cariad at ein cyd-gristionogion, 6. (4.) Trwy serch annyladwy at bleserau anianol, neu ofalon bydol, 7. (5.) Trwy ragfarn yn erbyn rhai egwyddorion pwysig mewn crefydd, 8. Arwydd neillduol o ddrwg a pheryglus, 9, 10. Cyfarwyddiadau at adferiad, 11. I'w dilyn yn ddioed, 12. Gweddi dros un mewn dirywiad ysbrydol.**

1. Os byddaf mor ddedwydd a thycio gyda thi trwy y cynghorion a'r rhybuddion a roddais, ti a fyddi yn debygol o fyned yn mlaen mewn crefydd gyda hyfrydwch a chysur; ac fe fydd dy lwybr yn gyffredin fel goleuni y ... hwn ... a fwyfwy hyd ganol dydd, Diar. 4. ... ni ... fi wenieithio i mi fy hun ... y fath fodd, ag y bo i ti ... arywiol dymherau, yr ... ynny, y bu y goreu o ... lai yn achwyn o'u ... ofni yn fawr, er mor ... l trwy y darluniad a ... wrthrychau ffydd a ... l, y bydd i'th dymer ... f yn ofni yn fawr, y ... gwanhau ac yn blinu ... ie y bydd i rywbeth

lwyddo gyda thi mor bell a'th dynu ryw gymaint oddi arnynt, a thrwy hyny i ti ddyfod yn ysglyfaeth i rai o'r profedigaethau hyny, ar ba rai yr ydwyt yn awr yn edrych gyda diystyrwch santaidd. Yn y canlyniad o hyn, fe fydd i Dduw guddio ei wyneb oddiwrthyt; fe fydd yn debygol o estyn allan ei law geryddol yn dy erbyn; a thi a gei weled amser gofidus, er bod yn awr yn gysurus, yn llawenhau yn yr Arglwydd, ac yn ymhyfrydu yn Nuw, dy iachawdwriaeth, Hab. 3. 18. Mi a obeithiaf, gan hyny, y bydd o ryw wasanaeth (os bydd i'r fath beth ag sydd yn rhy debygol, ddygwydd) i sylwi ar y pethau hyn yn fwy neillduol: ac yr wyf yn gweddio o'm calon, ar i Dduw wneuthur yr hyn a ddywedwyf yn foddion i adferu, i gysuro, ac i nerthu dy enaid, os bydd iddo ddyoddef i ti wyro oddiwrtho mewn un gradd.

2. Mi a gaf yn flaenaf sylwi ar y cyflwr o ddadfeiliad ac o nychdod mewn crefydd. A chyn yr elwyf yn mhellach, dymunaf arnat ystyried, na chaf fi ddim son dan y pen hwn, am bob rhyw leihad yn y gwres hwnw, ag y mae y cristion ieuanc yn ei deimlo pan fyddo yn dyfod yn brofiadol gydnabyddus o bethau dwyfol. Y mae ein natur wedi ei ffurfio yn y fath fodd, fel y mae gwrthrychau newyddion yn cael effaith neillduol arni: ac y mae ein serchiadau yn cael eu cyffroi yn llawer haws pan yn ieuainc, na phan fyddom wedi cyrhaedd yn mhellach yn ein taith trwy ein bywyd. Nid yw y peth hwn yn cael ei ystyried yn iawn, o bosibl. Yr ydys yn gyffredin yn pwyso gormod ar fywiogrwydd y serchiadau; ac felly o eisiau y pethau hyn, y mae y cristion, yr hwn sydd wedi addfedu trwy ras, ac wedi mawr gynyddu mewn cymhwysder i ogoniant, rai gweithiau yn barod i alaru oblegid dadfeiliad dychymygol yn hytrach nac un gwirioneddol; a dywedyd heb sail

Digitized by Google

gyfiawn, *O na bawn i fel yn y misoedd o'r blaen, fel yn y dyddiau pan gadwai Duw fi,* Job 29. 2. Wrth ystyried hyn, y mae braidd yn anmhosibl dywedyd i chwi yn rhy fynych, "fod crefydd yn gynwysedig yn benaf *yn ymostyngiad yr ewyllys i Dduw;*—yn ein gofal gwastadol i ochelyd pa beth bynag ag a wyddom ei fod yn ei ddigio ef;—yn y cyflawniad o'r hyn a drefnodd efe i ni wneuthur mewn bywyd;—ac yn ein gwaith yn lledu ei ogoniant trwy geisio dwyn yn mlaen ddedwyddwch ein cydgreaduriaid." Dyma y pethau y dylem sylwi arnynt yn fwyaf neillduol, gan edrych, trwy y cwbl, ar fod yr anogaethau oddiar ba rai y byddom yn gweithredu, yn bur a diniwed; canys ni a wyddom mai ar y pethau hyn y mae Duw, yr hwn sydd yn chwilio y galon, yn edrych fwyaf: ac yn hyn oll, ni a ddylem ymostwng ger ei fron ef, dan deimlad o'n haml wendidau, gan ffoi at WAED CRIST, a GRAS yr EFENGYL.

3. Wedi rhoddi y gocheliad hwn, âf rhagof i roddi darluniad mwy neillduol o gyflwr y cristion pa un sydd yn dadfeilio mewn crefydd; a hyny mor bell ag y bo yn addas heb dori ar draws yr hyn a gaf ystyried yn y pennodau canlynol.—Rhaid sylwi fod nychdod mewn crefydd yn gynwysedig yn benaf yn hyn, sef, 'Mewn angof o wrthrychau dwyfol;—mewn byrdra yn y cyflawniad o'r amrywiol ddyledswyddau hyny ag yr ydym yn rhwym i'w cyflawni, mewn canlyniad o'r ymroddiad difrifol o honom ein hunain i wasanaeth Duw.'—Fe fydd llawer o arwyddion o hyn, yn gyfatebol i'r amgylchiadau a'r perthynasau y gosodwyd y cristion ynddynt; eto fe fydd rhai o'r arwyddion hyny yn fwy cyffredin, ac yn hawddach i'w hadnabod. Ac am hyny y mae yn addas iawn i ddal sulw arnynt; yn enwedig pan ystyriom fod y dirywiadau hyn yn dyfod ar ddyn-

Digitized by Google

ion yn fynych fel *penwyni ar Ephraim, heb wybod iddynt*, Hos. 7. 9.

4. Ddarllenydd hawddgar, os digwydd i ti byth syrthio i'r cyflwr hwn, fe ymddengys yn gyntaf o bosibl mewn byrdra yn nghyflawniad o ddyledswyddau yr ystafell. Nid am fy mod i yn meddwl, ac yn penderfynu, y bydd i ti eu cwbl esgeuluso un amser; ond o blegid y byddi yn rhedeg drostynt yn oer a ffurfiol. Diogi, neu ryw un o'r maglau y bum i yn galw arnat i'w gochelyd yn y bennod o'r blaen, a ffyna gyda thi mor bell (er gwybod o honot o bosibl, fod yr amser addas o fod yn yr ystafell, wedi dyfod) a pheri i ti orwedd yn dy wely rai boreau; i aros mewn cyfeillach; neu mewn rhyw orchwylion yn y prydnawnau, fel na bo genyt un cyfleusdra, na chymwysder, i fyned at Dduw yn y dirgel. Bryd arall, er dyfod o honot i'th ystafell mewn amser addas, fe allai y bydd rhyw lyfr a fyddit yn chwennych ei ddarllain, rhyw lythyrau a chwennychit ysgrifenu, neu ryw ddifyrwch yn cynyg ei hun, yn dadleu am gael dy sulw blaenaf. Fe all y fath bethau gymeryd mwy o'th amser nag a dybiaist yn angenrheidiol ar y cyntaf; ac o herwydd hyny ti a gwtogi, ac a ai trwy dy weddi ddirgel ar frys; ac y mae yn bosibl yr esgeulusi yn llwyr ddarllen yr ysgrythyrau. Fe allai y dadleui gan ddywedyd ar y fath achlysur, Nid yw hyn ond unwaith: eto fe fydd i ti arfer yr un rhydd-did yr ail a'r drydedd waith; ac fe fydd hyn yn hawsach o amser i amser, ac yn peri llai gofid, nag ar y cyntaf. A thrwy y fath ymddygiad, fe fydd i Dduw gael ei watwor, a'th enaid dy hun gael ei siomi o'i ymborth ysbrydol; fe fydd gair Duw yn cael ei ddibrisio, a hunan-ymholiad ei lwyr anarfer; fe â gweddi ddirgel yn faich yn hytrach nag yn bleser; ïe,

ddefod ofer, yn hytrach na gwarogaeth *(homage)*

Digitized by Google

ddefosiynol yn gymwys i gael ei derbyn gan ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

5. Os na fydd i ti ymosod yn ddiatreg a gwrol i ddiwygio y pethau hyn, hwy a ymdaenant eto yn mhellach, ac a gyrhaeddant hyd at ddyledswyddau perthynol i grefydd gymdeithasol. Fe fydd i ti ar frys deimlo eu heffeithiau yn y teulu ac yn yr eglwys. Ac os na bydd i ti eu teimlo, fe fydd yr argoelion o gymaint a hyny yn waeth. Meddyliau gwibiog a fwytant ymaith galon y dyledswyddau a gyflawnech. Nid wyf yn credu fod y cristionogion mwyaf rhagorol, yn cael y fraint o fod yn gwbl rydd oddiwrthynt: ond y mae yn debygol na bydd i ti, yn yr amgylchiadau hyn, brofi ond ychydig o astudrwydd, nag o un peth a fyddo yn debyg i dduwioldeb mewnol. A phan gyflawnech y cyfryw ddyledswyddau digalon, ni bydd i ti ystyried ond ychydig pa mor lleied o Dduw a fwynheaist ynddynt, a pha mor lleied o anrhydedd a gafodd efe trwyddynt. Y mae yn bosibl mai yr ordinhad o swper yr Arglwydd, gan ei bod hi yn tueddu mor rhagorol i wneud yr enaid yn sefydlog, ac i ddeffroi ei serchiadau mwyaf santaidd a gwresog, fydd yr ordinhad ddiweddaf yn mha un y bydd i ti deimlo y cyfryw ddadfeiliad. Eto pwy a all ddywedyd y bydd i'r bwrdd santaidd fod yn foddion i'th gadw yn wastadol yn ddeffrous a sefydlog? Gan i ti yn ddiachos esgeuluso ymbarotoi, byddi yn agoshau gyda llai o astudrwydd ac ehangder calon, na chyffredin. Ac y mae yn bosibl, ar ol y fath ddyeithrwch hynod ac annheimladrwydd meddwl, i'r diffyg o fudd dy dueddu i droi dy gefn ar dy le a'th ddyledswydd yno. A phan gaffo dy elynion ysbrydol di i'r man hyn unwaith, tebygol y bydd i ti syrthio trwy raddau cyflymach nac erioed; ac fe fydd i dy wrthwynebiad iddynt fyned yn wanach wanach.

Digitized by Google

6. Pan ddarfyddo dy gariad at Dduw y Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist, fe fydd i'th serchiadau cynes at dy frodyr yn Nghrist, a'th ofal am fod yn ddefnyddiol mewn bywyd, ddarfod yn yr un modd: yn enwedig pan fyddo un peth i gael ei wneyd er budd ysbrydol. Fe fydd genyt ryw esgus neu gilydd am yr esgeulusdra o gyfeillach grefyddol, nid yn unig yn mysg dy gymydogion a'th gyfeillion cristionogol, pan fyddo cyfleusdra addas yn ymgynyg; ond dros dy esgeulusdra o ymddyddan yn grefyddol, hyd yn oed â'r sawl a allant fod yn aelodau o'th deulu di dy hun, a'r sawl, os wyt wedi dy osod yn y fath berthynas uchel mewn bywyd, a roddwyd dan dy ofal.

7. Trwy yr esgeulusdra hwn, fe fydd i'th serch, naill ai at bleserau cig a gwaed, neu ynte at achosion bydol, gynyddu. Rhaid i'r enaid gael rhywbeth i ymarferyd ei hun yn ei gylch, ac i ymbleseru ynddo: ac fel y byddo iddo droi at un neu y llall o'r pethau uchod, fe fydd i ryw demtasiynau neu gilydd ymgynyg. Fe allai y bydd i serch at gyfeillach a'r gwleddoedd a berthynant iddi, beri i ti rai gweithiau dori trwy derfynau dirwest a gosodiadau bywyd. Brydiau ereill, fe ddichon, trwy fod y byd yn myned yn fwy yn dy olwg, i lwyddiant dy gydgreaduriaid, aflonyddu dy feddyliau, a'th daflu i gecraeth a chynen, yn mha bethau, y mae yn anhawdd iawn cadw yr enaid mewn tawelwch a diniweidrwydd. Ac y mae yn bosibl, pan fyddo gweinidogion neu gyfeillion cristionogol ereill yn sylwi arnat, ac yn ymdrechu yn ffyddlon i'th ddwyn i'r iawn, y bydd i uchder meddwl, yr hwn sydd yn fynych yn cydfyned â'r fath gyflwr, wneyd y fath ymdrechion yn annymunol iawn. Ni all cornwyd yr enaid (os gallaf ei alw felly) ddim dyoddef cyffwrdd ag ef, pan fyddo yr eisiau mwyaf am hyny; ac fe fydd

Digitized by Google

i un o'r arwyddion mwyaf haelionus a hunan-ymwadol o gariad cristionogol, gael ei droi yn achlysur o oerfelgarwch a diflasdod; ïe, o bosibl yn achlysur o elyniaeth.

8. Ac, i derfynu y cwbl, y mae yn bosibl i'r fath ddirywiad lanw dy feddwl o ragfarn yn erbyn hyd yn oed yr athrawiaethau hyny, ag a allent fod y mwyaf effeithiol er dy ddychweliad: ac fe ddichon y gelyn lwyddo mor bell a pheri i ti goelio na chollaist ddim mewn crefydd, er dy fod yn agos i golli y cwbl oll. Fe all dy arwain i dybied nad oedd dy zel gynt, ond rhyw wallgofrwydd; ac nad oedd dy rodiad rheolaidd a santaidd ger bron Duw, ond rhyw fanylrwydd afreidiol. Ië, yn mhellach, gelli, o bosibl, edrych arnat dy hun yn myned ar gynydd yn fawr mewn dealldwriaeth, oblegid i ti ddysgu gan ryw athrawon newydd, os bydd i ddyn ymddwyn yn ddynol ac yn dda ei natur tuag at ei gydgreaduriaid, heb farnu na difenwi neb, ond y sawl sydd yn aflonyddu ereill trwy eu daliadau cyfyng, (canys y mae y fath ddynion yn gyffredin yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth y sawl ydynt wrthrychau o'r cymwynasgarwch helaeth, a'r cariad diduedd hyny, am y rhai y sonir mor aml,) ei fod ef o angenrheidrwydd mewn cyflwr diogel, er nad yw yn cyfeillachu ond yn anaml â Duw; eto y mae pob peth yn dda, os bydd iddo ond meddwl yn barchus am dano, a pheidio a'i anog i ddigofaint trwy bechodau gwaradwyddus.

9. Yr wyf yn sylwi ar y peth hwn fel y radd bellaf o ddadfeiliad crefyddol; ac yr wyf yn ofni y ceir gweled trwy brofiad, fod y dyn a ymadawo â bywyd crefydd mor bell â hyn, wedi dyfod i gyffiniau y cyflwr o wrthgiliad i bechod rhyfygus a gwirfoddol, yr hwn y caf ei ystyried dan y pen nesaf. Y mae y cyflwr uchod yn ofnadwy, oblegid ei fod yn tueddu i atal yn y modd

Digitized by Google

mwyaf effeithiol, yr ymarferiad o bob moddion addas, a'r budd hwnw trwyddynt, i'r dyben o gael adferiad; a hyny oblegid y dyb ddinystriol hon, sef, eu bod yn afreidiol. Y mae y radd hon o ddirywiad, yn debyg i'r llewygon a'r cysgadrwydd hyny, y rhai a ragflaenant y parlys mud a marwolaeth.

10. Nid wyf mewn un modd yn bwriadu yn y lle hwn sylwi ar yr amrywiol egwyddorion peryglus hyny, pa rai a allant yn awr ymgynyg i'r meddwl, gan osod sylfaen i heddwch, ag sydd gau a thwyllodrus. Y maent yn ddirifedi, ac yn peri cyfeiliornad weithiau ar bob llaw. Ond os bydd i Dduw dy ddeffroi i ddarllen dy Fibl yn astud, ac i deimlo yr Ysbryd trwy yr hwn yr ysgrifenwyd ef, fe fydd i bob rhan o hono lewyrchu mewn argyhoeddiad ar y meddwl, a thaenu goleuni i'r dyben o wasgaru y cysgodau hyn o dywyllwch.

11. Fy nyben penaf yn ymddyddan â thi dan y pen hwn yw, dy gynhyrfu, os yw bosibl, ar yr ymddangosiad cyntaf o ddadfeiliad, i sefyll ar dy wyliadwriaeth, ac i ymdrechu yn fuan i geisio adferu dy hun. Ac mi a ewyllysiwn ddwyn ar gof i ti, fod yn rhaid i'r feddyginiaeth ddechreu, yn y man y dechreuodd y clefyd, sef yn yr ystafell. Cymer amser i adgofio, a gofyn yn ddifrifol i'th gydwybod, pa fodd y mae rhwng dy enaid a'r Duw bendigedig? A yw pethau fel y buont unwaith, neu fel yr ewyllysit eu bod pe gwelit dy fywyd yn darfod, a'th enaid yn myned yn ddiatreg i'r byd tragywyddol? Fe fydd i un meddwl syml am dragywyddoldeb gywilyddio mil o'n hesgusodion gwag, trwy ba rai yr ydym yn twyllo ein heneidiau yn yr anghof o hono. A phan deimlech dy galon yn ymollwng yn ddirgel, yr hyn fydd yn naturiol ar y fath achlysur, paid a cheisio lleihau dy feiau, gan geisio esgusodi a chuddio yr hyn na elli lai na'i gondemnio

Digitized by Google

yn ddirgel; ond cwymp dan argyhoeddiad, ac ymostwng am dy drosedd. Tywallt dy galon o flaen yr Arglwydd, ac ymofyn am ddylanwadau adnewyddol ei Ysbryd a'i râs. Dychwel gyda mwy o fanylrwydd at hunan-ymholiad, ac at dduwioldeb yr ystafell. Darllain yr ysgrythyrau yn fwy diwyd, yn neillduol y rhan fwyaf ysbrydol a dwyfol o honynt. Ymdrecha i'w gwreiddio hwynt yn dy galon, gan geisio teimlo yr hyn sy yn rhesymol i ti gredu a deimlodd y dynion santaidd a'u hysgrifenodd hwynt, mor bell ag y bo yn gytunol ac amgylchiadau pethau. Agor dy enaid gyda phob symlrwydd i dderbyn pob rhyw addysg o air Duw; a gwylia rhag y pethau ag a allant atal dy feddwl rhag ymbleseru mewn crefydd fewnol, er na bo dim yn bechadurus yn y cyfrw bethau, ynddynt eu hunain. Ar y cwbl, gallant fod yn gyfreithlon; ac o bosibl yn fuddiol i rai; ond os cânt yr effaith uchod ar dy feddwl, diamheu nad ydynt yn fuddiol i ti. Yn yr amgylchiadau hyn, ymofyn, yn benaf dim, am gyfeillach â'r cristionogion hyny, cynydd pa rai mewn crefydd a all ymddangos yn hynod, y rhai ydynt hefyd yn harddu eu proffes mewn modd tra dymunol. —Ymdrecha i allu bod yn gyfranog o'u hegwyddorion a'u tymherau hwynt, a rho dy galon a'th achos yn agored o'u blaen, mor bell ag y bo doethineb yn caniatau. Darllain, ar amserau cyfleus, y llyfrau hyny sy yn cynwys duwioldeb ymarferol, i ba rai y trosglwyddodd yr awdwyr duwiol eu meddyliau a'u calonau, a thrwy ba rai y gelli dithau gael prawf o natur cristionogaeth ddilwgr. Ac i derfynu, cymer afael ar y cyfleusdra cyntaf i agoshau at fwrdd yr Arglwydd; ac nac arbed na phoen nac amser, i'r dyben o ymbarotoi yn sobr at hyny. Yno adnewydda dy gyfamod â Duw; rho dy enaid o newydd i ddwylaw Crist, gan edrych ar ryf-



Digitized by Google

eddodau ei gariad yn marw dros bechaduriaid, hyd oni bo i'r fflam o gariad ag sy yn diffoddi, gael ei hailenyn yn dy enaid, ac hyd oni bo i ti brofi a bwriadu cryfach nac erioed i fyw iddo ef, yr hwn a fu farw drosot ti, 2 Cor. 5. 15. Gwylia ar dy galon, fel y bo i'r argraffiadau da a deimli, gael eu parhau. Na orphwys hyd nes bo i ti gael dy gadarnhau mewn crefydd gymaint ag erioed; ïe, hyd oni bo i ti gynyddu yn fwy nac erioed o'r blaen; canys sicr yw fod lle i gynyddu eto, a zel i geisio myned yn mlaen fwyfwy, yw yr unig foddion i'th ddiogelu rhag y perygl o fyned yn ol, ac o wrthgilio eto fwyfwy.

12. Ni chaf ddim 'chwanegu, ond yn unig dywedyd wrthyt, fod yn angenrheidiol i ti ymarfer â'r moddion hyn ar frys; os amgen fe fydd dy fynediad yn y ffordd lydan ag sydd yn arwain i ddystryw, yn fwy cyflym nac yr ydwyt ti o bosibl yn ystyried: ac fe fydd i ti ysgatfydd gael dy adael gan Dduw, i syrthio i ryw bechodau mawrion a gwaradwyddus, y rhai a lanwant dy gydwybod â'r fath boen a dychryn, fel nad yw y poen o ddryllio esgyrn (Salm 51. 8.) ond cyffelybiaeth anmherffaith o hono.

*Gweddi i un dan ddadfeiliad ysbrydol.*

Y Jehofah tragywyddol ac anghyfnewidiol! Yr un yn dy Fôd, dy briodoliaethau, a'th ogoniant. Mae Iesu Grist dy uniganedig Fab, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd, Heb. 13. 8. Y mae y byd tragywyddol, i ba un yr wyf yn prysuro, o bwys mawr bob amser; ac y mae ystyriaeth dyfnach, a mwy syml o hono yn cael ei sefydlu ar y meddwl astud, yn ol fel y mae yn dyfod yn nesnes. Ond, Och! y mae fy ngolygiadau, serchiadau, a fy mwriadau goreu i yn anwadal bob

Digitized by Google

amser, fel y corff gwael hwn, pa un sydd yn cyfnewid bob dydd ac awr, yn ei gyflwr a'i amgylchiadau. O ba le, Arglwydd, o ba le y mae y cyfnewidiad ag yr wyf fi yn awr yn ei brofi yn nhymer fy meddwl tuag atat ti? Pa beth yw yr achos o'r fath ymadawiad enaid oddiwrthyt ti? Pa fodd nas gallaf agosâu atat gyda yr unrhyw anwylder mabol a chariad, ag y gallaswn gynt? Paham, os wyf yn dy wasanaethu oll, yr wyf mor hwyrdrwm yn dy wasanaeth? A phaham y mae dyledswyddau crefydd, yn y cyflawniad o ba rai yr oedd fy mhrif hyfrydwch gynt, yn awr wedi myned yn faich? Pa le, O Arglwydd, y mae fy nedwyddwch gynt (Gal. 4. 15.), pan yr oedd fy llawenydd ynot ti fel fy Nhad nefol mor eglur, fel y gallasai dyeithriaid sylwi arno: a phan yr oedd fy nghalon megis yn tori drosodd o gariad atat, ac o zel yn dy wasanaeth, fel y buasai yn fater o hunan-ymwadiad i mi atal amlygiadau o'r pethau hyn yn fy enaid, hyd yn oed pan yr oedd doethineb a dyledswydd yn galw arnaf i wneyd felly?

Och, Arglwydd! I ba le y syrthiais! Mae dy lygad di yn fy ngweled bob amser; ond, O! pa mor annhebyg i'r hyn oeddwn unwaith! Er mor oer a dideimlad ydwyf, eto yr wyf yn gorfod gwridio wrth edrych yn ol ar fy ffyrdd.—Ti a'm gweli yn y dirgel (Mat. 6. 6.), a thi a'm gweli, o bosibl, yn difyru fy hun â rhyw deganau, ar y cyfryw amserau ag oeddwn yn arfer eu rhoddi mewn modd syml i'th wasanaeth di. Ti a'm gweli yn dyfod i'th bresenoldeb megis o'm hanfodd; a thra yr ydwyf ger dy fron, yr wyf mor gaeth yn fy ysbryd, fel na allaf wybod yn iawn pa beth i lefaru wrthyt, er mai tydi yw y Duw y mae a wnelwyf ag ef; ac er mai cadw cyfeillach ostyngedig a pharchus â thydi, yw y peth mwyaf llesiol ac angenrheidiol mewn bywyd. A phan yr wyf yn ceisio llefaru wrthyt, O!

Digitized by Google

pa mor oer a ffurfiol yw fy nghalon? Y mae fy nychymygion a'm gwefusau ar waith, o bosibl; ond pa le y mae yr anadliad dwys a'r dymuniadau gwresog hyny ar ol Duw, pa rai a deimlais gynt yn fy ysbryd? Pa le y mae yr orphwysfa hyfryd a deimlais unwaith ynot ti, pan yn yr agosrwydd atat yr oeddwn yn bwriadu, os byddai bosibl, na chaffai dim fy symud o honi? Ond, O! pa mor bell yr wyf yn awr wedi fy symud? Wedi darfod a'm defosiynau byrion, os gellir eu galw yn ddefosiynau, pa mor gynted yr wyf yn dy anghofio di, gan ymroddi mor lleied i'th wasanaeth, ac ymddangos mor lleied dan effaith dy gariad, fel y gallai dyn dyeithr ddal cyfeillach â mi dros hir amser, heb wybod i mi erioed gael adnabyddiaeth arnat, ïe heb allu deall wrth fy ymddyddan â'm hymddygiad, i mi gymaint a gwybod a chlywed fod Duw?—Yr ydwyt, O Arglwydd, yn fy ngalw i'th dŷ ar dy ddydd santaidd; ond pa mor ddigalon yr wyf yn dy wasanaethu yno? Nid wyf yn offrymu ond y corff yn unig! Canys y mae fy meddylian a'm serchiadau yn nghylch gwrthddrychau ereill, hyd yn oed pan fyddwyf yn agosâu atat ti a'm genau ac yn dy anrhydeddu a'm gwefusau, Esay 29. 13.—Yr wyt yn fy ngalw at dy fwrdd; ond y mae fynghalon wedi rhewi yn y fath fodd, fel nad yw hi yn toddi ond ychydig iawn, hyd yn oed wrth droed y groes; nid yw yn teimlo ond ychydig o rinwedd hyd yn oed yn ngwaed yr Iesu, i'w meddalhau! O y fath greadur truenus ag wyf! Yr wyf yn gwbl annheilwng o gael fy ngalw yn eiddo i ti! Nid wyf yn haeddu cael y lle gwaelaf yn mysg dy blant, ac yn mysg dy deulu di; ond yn hytrach cael fy mwrw allan, a'm dystrywio byth!

O Arglwydd, ai dyma y fath wasanaeth a addawais unwaith i ti? Ai dyma y fath daledigaeth wyf yn ei wneuthur am dy ofal rhagluniaethol am danaf bob dydd

Digitized by Google

am aberthu dy Fab, am gyfraniadau dy Ysbryd, am faddeuant o'm pechodau mawrion a dirifedi, ac am y gobaith o ogoniant tragywyddol, pa un nis haeddais, ïe, pa un a fforffedais mor aml? O Dduw, y mae arnaf gywilydd i sefyll, neu i blygu glin ger dy fron. Tosturia wrthyf, yr wyf yn atolygu arnat, a chymorth fi; oblegid yr wyf yn wir yn wrthrych o dosturi! Y mae fy enaid fel yn y llwch o'th flaen, O! *bywha fi yn ol dy air*, Salm 119. 25. Na âd i mi ddiofalhau yn mhellach, canys yr wyf ar geulan dystryw! Meddyliais am fy ffyrdd, O dyro i mi ras i *droi fy nhraed at dy dystiolaethau di; i frysio ac heb oedi i gadw dy orchymynion*, Salm 119. 59, 60. *Chwilia fi, O Dduw, a phrawf fi*, Salm 139. 23. Dos at y gwreiddyn dechreuol o'r afiechyd hwn, ag sydd wedi ymdanu trwy holl alluoedd fy enaid; a meddyginiaetha fi! O Arglwydd dangos bechod i mi yn y fath fodd ag y bo i mi allu edrych arno gyda ffieidd-dra! Boed i mi gael y fath amlygiad o Grist Iesu yr Arglwydd, fel y bo i mi allu edrych arno, a galaru (Zec. 12. 10.) ïe, fel y bo i mi edrych arno a'i garu. Boed i mi gael fy neffroi o'r cwsg i ba un y syrthiais; a dyro i mi, O Arglwydd, fwy o fywyd a bywiogrwydd ysbrydol, nag a dderbyniais oddiwrthyt hyd yn hyn! Ië, boed i mi gael fy mywhau a'm nerthu, nid yn unig i ynill y tir a gollais, ond hefyd i fyned rhagof ar gynydd, gyda mwy o gyflymdra nac erioed. Tywallt i lawr arnaf, O Arglwydd, dy Ysbryd yn ei ddoniau mewn modd tra helaeth; a boed iddo breswylio ynof, megis mewn teml wedi ei chysegru iddo ei hun (1 Cor. 3. 16.); a boed i'r gwasanaeth a fo yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ol ei gyngor, a than ei lywodraeth ef, gael ei dderbyn yn aberth cymeradwy (Rhuf. 12. 1.), ger dy fron bob amser. Boed i'r arogldarth fod nid yn unig yn barhaus, ond hefyd yn beraidd; a llosged y tân



Digitized by Google

santaidd bob amser ar allor fy nghalon, (Lef. 6. 13.); ac na âd i un o lestri teml yr Ysbryd Glân gael ei halogi, trwy gael ei arferyd i wasanaeth aflan a gwaharddedig! Amen.

## PENNOD XXIII.

### CYFLWR GALARUS DYN WEDI SYRTHIO I BECHOD ADNABYDDUS A GWIRFODDOL, AR OL RHODDI EI HUN MEWN MODD SYML I DDUW, AC AR OL MESUR O GYNYDD MEWN CREFYDD.

Gall cwympiadau na feddyliwyd am danynt gymeryd lle, Dosparth 1. A dwyn yr enaid i gyflwr truenus, 2. Eto nid yw y cyflwr yn anobeithiol, 3. Y gwrthgiliwr yn cael ei annog i ddychwelyd yn ddioed, (1.) Trwy ymostyngiad dwfn ger bron Duw am drosedd mor drwm, 4. (2.) Trwy ymwneyd o'r newydd â'r drugaredd ddwyfol, 5. (3.) Trwy broffes gyhoedd o edifeirwch, lle y bu y trosedd yn fai cyhoedd, 6. (4.) Y dylid edrych yn ol ar gwympiadau, er goeheliad yn ol llaw, 7. Terfyna y bennod, 8. Gyda gweddi at wasanaeth un ag a syrthiodd i bechodau gwarthus, ar ol penderfynidau ac ymrwymiadau crefyddol.

1. Rhaid cyfaddef fod y radd hòno o ddadfeiliad, pa un a osodais i allan yn y bennod o'r blaen, yn galw am alarnad dwfn; eto dedwydd a fyddi di, fy anwyl ddarllenydd, os na fydd i ti byth trwy brofiad, wybod am ddirywiad gwaeth. Ti a feddyli o bosibl, yn ol yr olwg sydd genyt yn awr ar bethau, na bydd i ti ar unrhyw ystyriaeth gymeryd dy ddenu yn y peth lleiaf, i weithredu yn groes i lais dy gydwybod, ac i Ysbryd Duw, yr hwn sy yn ei gosod ar waith. Yr wyt yn meddwl o bosibl, mai gwell i ti farw na phechu; a da yr ydwyt yn tybied: ond fe feddyliodd Pedr ac efe

Digitized by Google

a ddywedodd mai gwell oedd marw er mwyn crefydd na gwadu Crist (Mat 26. 35.), ac eto efe a syrthiodd: ac am hyny, *na fydd uchelfryd, eithr ofna,* Rhuf. 11. 20. Nid yw yn anmhosibl i ti syrthio hyd yn oed i'r pechod hwnw, ynghylch pa un y meddyliaist nad oedd y perygl lleiaf, neu i'r hwn y bwriedaist yn ei erbyn yn y modd mwyaf difrifol, ac am ba un yr edifarheaist yn chwerw dost yn barod! Ti a elli gwympo iddo drachefn a thrachefn. Ond, Och! os gwnai, ïe, pe byddi ond unwaith yn syrthio yn fwriadol ac yn rhyfygus, pa mor ddwfn yr archollai hyny dy galon? Pa mor ddrud y gorfydd i ti dalu am bob rhyw bleser, trwy yr hwn y'th dwyllwyd gan y brofedigaeth! Pa ryw alanastra ofnadwy a wnai ar dy holl enaid? Y mae yn alarus i feddwl am dano. Ti a deimli o bosibl yn y cyflwr hwnw fwy o dristwch a phoen yn dy gydwybod, pan ddelech i ystyried pethau yn ddifrifol, nac a brofaist erioed, pan ddeffrowyd ac y dychwelwyd di gyntaf; canys ymddengys y pechod hwn yn llawer mwy pechadurus, na'r pechodau a wnaethost yn dy gyflwr annychweledig gynt. Mi a adwaenwn yn dda yr hwn a ddywedodd, Nad oedd y poenau a'r llewygfeydd a brofodd y pechadur yn ei edifeirwch cyntaf, yn haeddu cael son am danynt ar yr un dydd â'r hyn y mae y gwrthnysig o galon yn ei deimlo *pan gaffo ddigon o'i ffyrdd ei hun,* Diar. 14. 14.

2. Gwir yw ei fod yn ddigon i archolli calon un dyn, i feddwl am y modd y bydd i'th galon di gael ei thrywanu; y modd y bydd i'th gysuron, dy arwyddion o gyfnewidiad, a'th holl obaith, gael eu cymylu. O! pa fath dywyllwch a ymdaena ar bob tu, fel na bydd i haul, lloer, na ser ymddangos yn dy awyr. Fe fydd i'th holl ddyddanwch ysbrydol ymadael; ac fe â dy holl fwyniant amserol yn ddiflas. Ac os daw clefydon arnat, fel

Digitized by Google

y mae yn debygol iawn y daw, i'r dyben o'th adferu, fe fydd i gydwybod euog flaenllymu a gwenwyno pob saeth. Yna fe fydd i Satan, gelyn mawr dy enaid, gyfodi yn dy erbyn yn ei holl ddichellion a'i allu; a chan gymeryd mantais oddiar dy gwymp, efe a ymdrecha i'th sathru i lawr i ddystryw hollol a diobaith. Fe gais dy berswadio i gredu, dy fod yn barod wedi syrthio tu hwnt i bob posiblrwydd o ddychweliad. Fe ddywed na wiw i ti mwyach ymgais am ddychwelyd! ac fe gais genyt goelio na bydd i bob ymdrech, i un radd o ddiwygiad, un weithred o edifeirwch, ond gwneyd dy gyflwr yn llawer gwaeth, a'th soddi yn ddyfnach ddyfnach yn uffern.

3. Fel hyn y bydd iddo trwy ddychryn geisio dy gadw di oddiwrth y feddyginiaeth hòno, sydd yn sicr o fewn dy gyrhaedd. Ond na wrando arno. Fe fydd dy gyflwr yn alarus; ac fe fydd dy waith yn aros yn llonydd ynddo, yn ei wneyd eto yn llawer gwaeth; canys fe fydd i'th galon ymgaledu eto fwyfwy, ac ni's gelli ddisgwyl dim ond distryw ofnadwy a disymwth. Ond bendigedig fyddo yr Arglwydd, nid yw dy gyflwr hyd yma yn ddiobaith. *Dy gleisiau a bydrasant gan dy ynfydrwydd* (Salm 38. 5.); er hyny nid ydynt yn anwelladwy. *Y mae triagl yn Gilead, y mae yno physygwr* (Jer. 8. 22.); na wna dy gyflwr gan hyny yn anobeithiol, trwy ddywedyd, *nid oes obaith* (Jer. 2. 25.), ac felly myned ar ol dy eilunod y rhai a geraist. Gad i mi ddywedyd wrthyt yn ngeiriau Duw wrth ei bobl wrthgiliedig yn yr unrhyw amgylchiad, pan yr oeddent yn meddwl nad oedd obaith, *Dychwelwch, medd yr Arglwydd, ac ni adawaf i'm llid syrthio arnoch,* Jer. 3. 12. Llef am ras adnewyddol, ac ar ei bwys ymdrecha ddychwelyd. Dywed gyda Dafydd, *Cyfeiliornais fel dafad wedi colli; cais dy was, oblegid nid anghofiais dy*

Digitized by Google

*orchymynion* (Salm 119. 176.); ac mi a obeithiaf fod y coffadwriaeth o honynt yn arwydd er daioni. Ond os dychweli oll, dychwel ar frys. Na ddyro gam pellach yn ffordd dystryw i ba un y cyfeiliornaist. Na feddwl chwanegu un pechod yn mhellach at dy gofrestr gynt, ac yna edifarhau; megis pe na bai hyny ond yr un peth ar y cwbl. Fe ddichon yr ail gyfeiliornad fod yn waeth na'r cyntaf; fe ddichon agor y ffordd i lawer mwy, gan dynu ar ei ol y fath ganlyniadau ofnadwy, tu hwnt i'r hyn a allech di ddychymygu yn bresenol. Brysia gan hyny, ac nag oeda. *Dianc am dy einioes* (Gen. 19. 17.), cyn y bo i'r *saeth ddryllio dy afu*, Diar. 7. 23. *Na ddyro gwsg i'th lygaid, na hûn i'th amrantau*, Diar. 6. 4. Na orwedd i lawr ar dy wely dan euogrwydd, rhag i ddrwg dy orddiwes; rhag ofn i gleddyf cyfiawnder dwyfol dy daro, a rhag, tra fyddech yn bwriadu dychwelyd y foru, i ti y nos hon orfod disgyn i uffern.

4. Dychwel yn fuan; a dychwel yn ddifrifol. Y mae rhai duwinyddion godidog a duwiol wedi llefaru ar y pen hwn, mewn dull ag sy yn ymddangos yn agored i gael ei wyrdroi er mawr ddystryw, pan y maent yn anog dynion ar ol cwympo, 'i beidio aros i edrych y tir, ac i ystyried pa fodd y cawsant eu bwrw i lawr, ond i gyfodi yn ddiatreg, gan adnewyddu eu gyrfa.' Mewn pethau o lai pwys, y mae y cyngor yn dda: ond pan y byddo cydwybod wedi dyoddef mor erchyll trwy bechu yn wirfoddol, yn fwriadol, ac yn erbyn gwybodaeth, (yr hyn ni bydd yr wyf yn gobeithio ond yn anaml yn mysg y rhai ydynt yn proffesu crefydd mewn gwirionedd,) ni allaf feddwl fod na rheswm nac ysgrythyr, yn annog y fath ymddygiad. Yn enwedig os bu y weithred mor dra phechadurus yn ei natur, fel y buasai syrthiad iddi, trwy y brofedigaeth fwyaf ddisymwth,

Digitized by Google

yn cywilyddio, yn dychrynu, ac yn gofidio yr enaid yn fawr. Y mae y fath gwymp yn ofnadwy, ac fe ddylai gael ei ystyried yn syml. Os dyma dy gyflwr galarus di, O fy narllenydd, myfi a ddymunwn dosturio wrthyt a galaru drosot; ac mi a atolygaf arnat, fel ag yr ydwyt yn gwerthfawrogi heddwch, iechyd, bywyd, a dychweliad dy enaid, na byddo i ti ddiofalhau un awr yn hwy. Dos yn ddiatreg o'r neilldu, a myfyria yn syml ar dy gyflwr. Tor trwy bob rhyw addewidion a gorchwylion, oddieithr yr hyn na elli mewn un modd yn gydwybodol adael heibio dros ychydig oriau, yr hyn nis dichon ddigwydd ond yn anaml yn yr amgylchiad yr wyf yn awr yn son am dano. Dyma yr un peth angenrheidiol. Ymosod gan hyny yn ei gylch megys ger bron Duw; a gwrando yn amyneddgar ac yn ostyngedig, yr hyn oll sydd gan gydwybod i ddywedyd wrthyt, er y gall hi dy waradwyddo a'th geryddu yn llymdost. Gweddia yn daer ar i Dduw lefaru wrthyt trwy gydwybod, fel y byddo i ti adnabod a theimlo yn fwy trwyadl, pa mor *ddrwg a chwerw i ti ei wrthod ef*, Jer. 2. 19. Ystyria yn mha ryw amgylchiadau yr oeddit yn pechu yn erbyn Duw; yn enwedig cofia am y pechodau hyny, a wnaethost yn ei erbyn ef, trwy gamddefnyddio ei drugaredd a'i ddaioni. Ystyria fawredd dy bechodau, nid yn unig fel y maent yn erbyn dy adduneddau, a'th rwymedigaeth syml i Dduw, ond hefyd fel y maent yn erbyn yr amlygiad a gefaist o gariad Crist, yr hwn a seliwyd hyd yn oed â'i briod waed. Ai dyma y taliad wyt yn roddi iddo? Onid digon oedd i Grist gael ei ddrygu a'i ddiystyru fel hyn gan ei elynion? A raid iddo gael hefyd ei glwyfo yn nhŷ ei garedigion? Zec. 13. 6. A gefaist ti dy *ryddhau i wneuthur y ffieidd-dra hyn oll?* Jer. 7. 10. A fu i'r Iesu bendigedig riddfan a marw drosot, er mwyn rhoddi rhydd-did i ti i bechu yn erbyn Duw yn

Digitized by Google

fwy hŷ, ac i'r fath radd uchel? O! meddwl pa mor gyfiawn y gallasai yr Arglwydd dy fwrw allan o'i olwg, gan dy osod yn un o'r nodau penaf o'i ddialedd! Edrych a *bery dy galon, ac a gryfha dy ddwylaw*, os gwna efe â thi fel hyn! Ezec. 22. 14. Och! fe fydd yr ystyriaeth o'th brofiadau gynt, yn gwneyd dy ddystryw a'th drueni yn drymach, yr hyn sydd raid ei deimlo mewn tragywyddol alltudiaeth oddiwrth Dduw, a phob trugaredd!

5. Portha y fath fyfyrdodau â'r rhai hyn. Saf yn ostyngedig yn wyneb y fath olwg â hon ar dy bechodau. Pa fwyaf ffiaidd a phoenus a fyddo yr olwg arnynt, mwyaf i gyd o le sydd i obeithio y bydd hi yn fuddiol i ti. Ond nac aros yn y pethau hyn. Dyben yr holl fyfyrdodau hyn yw, nid dy ofidio, ond dy feddyginiaethu; nid dy ofidio ddim pellach nag a fyddo yn ddigonol i gael iachad. Rhaid i ti yn wir edrych ar bechod, ond rhaid i ti hefyd yn y fath amgylchiad, edrych ar Grist, os byth yr edrychi arno; edrych arno ef yr hwn wyt yn awr wedi ei wânu yn ddyfnach nac erioed, a galara am dano mewn modd tyner a diragrith, Zec. 12. 10. Y Duw hwnw y pechaist yn ei erbyn, cyfreithiau pa un a doraist, cyfiawnder pa un y bu i ti megys ei annog, trwy dy wrthgiliad truenus ac ynfyd, sydd er hyny yn *Dduw trugarog*, Deut. 4. 31. Nis gelli fod mor barod i ddychwelyd ato, ag yw efe i'th dderbyn. Y mae efe hyd yn oed yr awr hon yn ceisio heddwch, trwy yr argraffiadau tyner y mae efe yn wneuthur ar dy galon di. Ond cofia y ffordd y bydd iddo ymgymodi; sef, trwy yr un ffordd ag y dychwelaist ar y cyntaf ato, yn enw, a thrwy haeddiant ei anwyl Fab. Tyred gan hyny gydag ymorphwysiad gostyngedig arno ef. Dos o newydd at Iesu, gan atolygu arno i daenellu ei waed megys ar dy enaid, fel y byddo i ti

Digitized by Google

gael dy buro; ac i'th euogrwydd trwy hyny gael ei symud ymaith. Fe fu i'r pechod hwn o'th eiddo di, yr hwn a ragwelodd y Duw bendigedig, drymhau dyoddefiadau dy Brynwr santaidd: yr oedd yn achos o dywallt ei waed ef. Dos yn ostyngedig gan hyny, a gosod dy glwyfau megys dan ddiferiad y balm gwerthfawr hwnw, trwy ba un yn unig y gallant gael iachad. Fe fydd i'r Iachawdwr trugarog dy ddychwelyd gyda phleser, pan orweddech fel ymbiliwr gostyngedig wrth ei draed, ac fe gymer ran yn yr heddwch a'r dedwyddwch hyny gyda thi, ag y bydd efe ei hunan yn rasol yn ei gyfranu. Trwyddo ef adnewydda dy gyfamod â Duw; y cyfamod a doraist; yr hwn doriad, y gallasai cyfiawnder dwyfol beri i ti ateb am dano trwy bethau ofnadwy mewn cyfiawnder (Salm 65. 5.): ond wele drugaredd yn caniatau cymod. Bydded i goffadwriaeth o'th waith yn syrthio, dy rwymo i ymgyfamodi o newydd gyda dyfnach ystyriaeth o'th wendid dy hun, ac ymorphwysiad mwy calonog ar ras dwyfol er dy ddiogelwch, nac erioed o'r blaen. Mi a wn y bydd arnat gywilydd i ymddangos yn mysg plant Duw yn ei gysegr, ac yn neillduol wrth ei fwrdd santaidd, pan fyddo dy gydwybod dan gymaint o euogrwydd: eto tor trwy y cywilydd hwnw, os bydd i ragluniaeth ganiatau. Yr wyt yn chwennych ymostwng ger bron dy dad, yr hwn a ddigiaist; ond y mae yn sicr nad oes un lle ag y mae yn debyg i ti ymostwng yn fwy nac yn ei dŷ ef, ac nid oes un ordinhad yn cael ei gweini yno ag a all dy ddarostwng yn fwy, na'r hon sy yn *portreiadu Crist croeshoeliedig o flaen dy lygaid*, Gal. 3. 1. Pechaduriaid yw yr unig ddynion y mae ganddynt neges wrth fwrdd yr Arglwydd; ac fel pechaduriaid y mae y goreu o ddynion yn agoshau. Fel y cyfryw tyred yn mlaen; ïe, fel y penaf o bechaduriaid; fel un sydd yn sefyll

Digitized by Google

dan angenrheidrwydd o waed Iesu, yn gymaint ag un creadur euog ar wyneb y ddaear.

6 Gad i mi ddwyn ar gof i ti un peth yn chwaneg. Os bu dy gwymp o'r fath natur fel y bu yn waradwydd ac yn dramgwydd i ereill, na chais ffoi rhag y moddion ag a arferont er marweiddio dy bechod; ond bydd foddlon i gwympo ger eu bron mewn ymostyngiad dwfn. Canys dyna y moddion rhagorol a drefnodd Duw yn ei ddoethineb a'i ddaioni er dy feddyginiaeth yn y fath amgylchiad. Cyfaddef dy bechod gydá y parodrwydd mwyaf: addef ei bechadurusrwydd eithaf: a chais weddiau, a maddeuant y sawl a dramgwyddaist. Dyna y pryd, ac nid cyn hyny, y byddi yn llwybr heddwch: nid wrth leihau dy fai, nid trwy wneyd esgusodion gwag, nid trwy wrthwynebu y dull a'r modd y byddo ereill yn ymddwyn tuag atat; fel pe byddai y radd leiaf o sarugrwydd wrth geryddu yn ffyddlon, yn gymaint o fai a rhyw anfoesoldeb ag oedd yn achos o'r cerydd. Yr achos o'r pethau hyn yw balchder a hunangariad: y mae y clwyf wedi caledu, chwyddo, a llidio, a'r teimlad o hono a gollwyd, ac y mae yn rhaid ei dyneru a'i oeri, cyn y byddo yn bosibl ei iachau ef. Ni bydd cael ei feio a'i farnu gan ddynion, ond peth bach yn ngolwg enaid wedi ei ddarostwng a'i ddryllio dan yr ystyriaeth o'i fod wedi haeddu barn Duw, a thragywyddol ddystryw. Fe fydd y cyfryw un yn ceisio gogoneddu Duw, trwy ymostwng dan ei fai; ac fe fydd yn ofni rhag i ereill gael eu twyllo i letya meddyliau gwell am dano, nac y mae efe yn wybod yn fewnol ei fod yn haeddu. Dyma y fath feddyliau y mae Duw yn eu rhoddi i ddyn gwir edifeiriol yn y fath amgylchiad; ac felly y mae yn ei ddwyn ef i'r fath barch a derbyniad yn mysg ereill; yr hyn, er nas gŵyr efe pa fodd i'w geisio, y mae Duw yn ei roddi er mwyn


Digitized by Google

ei gysur a'i defnyddioldeb: ac y mae yn anmhosibl cael y fath gymeradwyaeth trwy unrhyw ffordd arall. Ond y mae addefiad rhydd o fai, ac ymostyngiad dwfn am dano, yn bethau mor anrhydeddus, fel y mae pawb yn gorfod eu cymeradwyo. Y mae dynion yn tosturio wrth y pechadur a ddygwyd i'r fath dymer; ac yn ymdrechu ei gysuro trwy ddangos arwyddion nid yn unig o'u cariad, ond hefyd o'u cymeradwyaeth.

7. Esgusodwch fy ngwaith yn myned oddiar fy ffordd i son am y pethau sy yn perthyn mor dda i rai cyflyrau: ïe, pethau a fyddent yn berthynol i lawer mwy, pe byddai dysgyblaeth iawn yn cael ei harfer mewn eglwysi: canys pe felly, ni chai dynion eu derbyn i swper yr Arglwydd wedi cwympo i bechodau amlwg a gwaradwyddus, hyd oni chyfaddefent yn syml eu trosedd, ac hefyd edifarhau am dano. Ar y llaw arall, fe all fod gwrthgiliad ofnadwy mewn llawer, fel y mae y bai yn fawr ger bron Duw, er nad yw wedi ymddangos i ddynion. Yn yr achos hwn, cofia dy fod i ymwneuthur â Duw yn unig, o flaen llygad pa un y mae pob peth yn amlwg, ac yn ei liw priodol: bydded i'th enaid blygu ger ei fron ef, gan ymofyn am gymod trwy haeddiant ei Fab a fu farw. A phan wnelech fel hyn, na thybia, am i ti dderbyn arwyddion o faddeuant, fod yr euogrwydd o'th wrthgiliad i gael ei anghofio ar unwaith. Cadw hyny yn dy gof, fel y byddo yn fater o ocheliad rhagllaw: galara o'i blegyd ger bron Duw yn aml, yn enwedig yn dy weddiau dirgel: ac edrych gyda golwg ostyngedig ar greithiau y clwyfau, pa rai a barodd dy ynfydrwydd, er eu bod, trwy ras dwyfol, wedi eu iachau yn hollol. Y mae Duw yn cadarnhau ei gyfamod, nid i'r dyben o symud yr ystyriaeth o bob rhyw ffieidd-dra gynt, ond fel y *cofiech di dy ffyrdd, ac y cywilyddiech, ac na byddo it' mwy agoryd safn gan dy waradwydd,*

Digitized by Google

*pan ddyhudder fi tuag atat ti, am yr hyn oll a wnaethost, medd yr Arglwydd Dduw,* Ezec. 16. 63.

8. Yn awr os wyt yn chwennych meddiannu y fath dymer, a dychwelyd trwy y fath gamrau â hyn, yna syrthia yn ddioed o flaen Duw, a thywallt dy galon yn ei bresenoldeb yn y fath eiriau â'r rhai hyn.

GWEDDI *i un wedi syrthio i bechodau mawrion ar ol adduneddau a rhwymedigaethau crefyddol.*

Sant, Sant, Sant, Arglwydd Dduw y lluoedd! Pan ystyriwyf yn syml dy burdeb difrycheulyd, a threfniadau manol a diduedd dy lywodraeth sefydlog, ynghyd a'th hollalluogrwydd, ag sy yn abl dwyn i ben yn ddioed bob rhyw feddwl yn dy galon i bob perffeithrwydd, y mae yn gymwys i mi ymddangos yr awr hon o'th flaen gyda chywilydd a dychryn, mewn braw a syndod enaid. Y dydd hwn, O fy Nuw, y dydd tywyll a galarus hwn, mi a ddymunwn edrych yn ol ar y pydew, o ba un y tardd ein heuogrwydd a'n trueni, sef gwrthgiliad ein rhieni cyntaf, gan ddywedyd gyda dy was pechadurus, Dafydd, *Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf,* Salm 51. 5. Mi a ddymunwn allu y dydd hwn alaru oblegid yr holl ganlyniadau dinystriol sy yn cydfyned â'r fath enedigaeth anmhur, fel y maent yn perthyn i mi fy hun. Ac, O! pa mor lliosog ydynt!—Pan yr ystyriwyf bechodau fy nghyflwr annychweledig, a'm gwendidau rhagllaw mewn bywyd, yr wyf yn gorfod synu! Ond pa faint mwy o achos sydd genyf i synu, a chywilyddio oblegyd yr olwg sydd yn awr ger bron fy nghydwybod i, ac o flaen dy lygad dithau, yr hwn sy yn gweled pob peth! *Canys ti, O Arglwydd, a adwaenost fy ynfydrwydd, ac nid yw fy nghamweddau guddiedig rhagot,* Salm 69. 5.

Digitized by Google

fy ngalw, a'th ras yn fy annog, yr ydwyf yn dyfod atat; er cymaint yw fy meiau yr wyf yn atolwg ar i ti eu maddeu hwynt oll yn rhad: canys mi a wn, er fod fy mhechodau i wedi cyrhaeddyd hyd y nefoedd (Dat. 18. 5.), fod dy drugaredd di, O Arglwydd, yn uwch na'r nefoedd, Salm 108. 4. Estyn y drugaredd hon i mi, O dad nefol; amlyga yn awr gyfoeth dy ras, yn nghyd a rhinwedd gwaed dy anwyl Fab! Canys sicr yw, os bydd i'm pechodau i, y rhai ydynt fel y porphor, gael eu gwneyd fel y gwlân ac fel yr eira (Esay 1. 18.), ac os bydd i'r fath wrthgiliwr ag wyf fi gael ei ddwyn i ogoniant tragywyddol, fe fydd i'r ddaear gael ei llanw o ryfeddod, a'r nefoedd o fawl; ac fe fydd i'r pechaduriaid mwyaf ddyfod atat ti yn llawen i geisio maddeuant, gan fy mod i, y penaf o honynt, wedi cael trugaredd. O na byddai i ti (wedi i mi orwedd yn alarus, ac megys yn gwaedu wrth dy draed hyd y gwelech di yn dda) yn y diwedd iachau fy enaid hwn sydd wedi pechu yn dy erbyn (Salm 41. 4.); roddi i mi *ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, a gwisg moliant yn lle ysbryd cystuddiedig!* Esay 61. 3. O na roddech i mi o'r diwedd orfoledd dy iachawdwriaeth! O gwna i mi glywed gorfoledd a llawenydd, fel y llawenycho yr esgyrn a ddrylliaist, Salm 51. 8, 12. Yna pan fyddo teimlad o'th gariad maddeuol yn dywalltedig yn fy nghalon, yn peri llawenydd ynddi, mi a gyhoeddaf dy ras i ereill; *mi a ddysgaf dy ffyrdd i rai anwir, a phechaduriaid a droir atat,* Salm 51. 13. A'r sawl a wrthgiliasant oddiwrthyt ti, a gânt eu hannog i ddychwelyd atat trwy fy mhrofiad cysurus i o'th ras, yr hwn a gyhoeddaf er dy ogoniant, er bod hyny er cywilydd wyneb i mi fy hun. *Bydded llawenydd yr Arglwydd yn nerth gwastadol i mi!*

Digitized by Google

(Neh. 8. 10.), fel y gallwyf rhagllaw dy wasanaethu di, gyda mwy o zel a bywiogrwydd nag erioed!

Yr wyf yn gofyn y pethau hyn gydag ymostyngiad gostyngedig i'th ewyllys di; canys nid anturiaf orchymyn i ti pa beth i'w wneyd. Os wyt yn gweled yn oreu fy ngadael i yn siampl i ereill, trwy wneyd i mi rodio mewn tywyllwch dros fy holl ddyddiau, ac yn y diwedd farw dan gwmwl, dy ewyllys di a wneler! Ond, O Dduw, estyn dy drugaredd i'm henaid pechadurus yn y diwedd, er mwyn dy anwyl Fab; a dyro i mi ryw le, pe byddai hyny wrth draed dy weision ereill, yn ngwledydd y gogoniant! O dwg fi yn y diwedd (er cael o honof fy arwain trwy y dyffryn tywyllaf a rodiodd neb erioed) i'r byd gwynfydedig hwnw, lle ni bydd i mi ymadael â Duw, clwyfo fy nghydwybod, na dianrhydeddu dy enw santaidd byth mwy! Yna bydd i'm tafod gael ei ollwng yn rhydd, er cael ei rwymo yn hir yma gan gywilydd ac euogrwydd; a chlod anfarwol a gaiff ei roddi i'r gwaed hwnw a brynodd y fath adyn ffiaidd, ag oedd gaethwas i bechod, (canys y fath sydd raid i mi gyfaddef fy mod unwaith,) ac a'm dygodd o bob caethiwed ac aflendid, i gael rhan yn anrhydedd a harddwch santeiddrwydd y sawl ydynt *frenhinoedd ac offeiriaid i Dduw*, Dat. 1. 6. Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XXIV.

## CYFLWR Y CRISTION WEDI COLLI LLEWYRCH WYNEB DUW.

**Bod yr ymadrodd yn ysgrythyrol, Dosparth, 1. Arwydda yr ataliad o'r arwyddion o'r ffafr ddwyfol, 2, yn benaf gyda golwg ar ystyriaethau ysbrydol, 3. Gall unrhyw gristion ddyfod i'r cyflwr hwn, 4. A cheir ef yn un galarus iawn, 5. Rhoddir y cyfarwyddiadau canlynol, gan hyny, i'r rhai a dybiant eu bod ynddo: (1.) Chwilio pa un a ydyw yn wir yn gyflwr o gyfyngder ysbrydol, neu a ddichon y prudd-der hwn ddim codi oddiar anhwyldeb corfforol? 6. Neu anhawsderau gyda golwg ar amgylchiadau bydol? Os yn wir y ceir ei fod yn gyfryw ag a noda titl y bennod, cymerer cyngor, (2.) I'w ystyried fel goruchwyliaeth drugarog oddiwrth Dduw i ddihuno a chynhyrfu yr enaid; ac i weithio chwiliad manol yn nghylch y gydwybod, a diwygiad o'r hyn a fu ar fai, 8, 9. (3.) I fod yn ostyngedig ac amyneddgar tra y parhao y trallod, 10. (4.) I fyned yn mlaen yn ddiysgog yn ffordd dyledswydd, 11. (5.) I adnewyddu ymwneyd crediniol â gwaed Iesu, 12. Ymbiliad gostyngedig dros un yn y trallodion trymion hyn yn y meddwl, pan geir y codant oddiwrth yr achos ysbrydol a dybir.**

1. Y MAE amgylchiad, yr hwn a ddygwydd yn fynych yn y fuchedd gristionogol, ag a elwir gan y sawl a arferant eu hunain yn fawr i dduwioldeb, 'Colli wyneb Duw.' Y mae yr ymadrodd wedi ei fenthyca allan o air Duw; yr hyn a'i ceidw ef rhag diystyrwch, yr wyf yn gobeithio, pan fyddo yn cael ei arfer. Fy ngwaith yn y bennod hon a fydd, darlunio y cyflwr hwn mor eglur ag y gallwyf: ac felly rhoddi rhai cyfarwyddiadau i ti pa fodd i ymddwyn pan syrthiech iddo, fel ag y mae yn debygol iawn y bydd i ti syrthio iddo cyn y byddo i ti orphen dy daith trwy y byd anial hwn.

Digitized by Google

2. Gellir deall ystyr yr ymadrodd hwn mewn rhan, trwy ymadrodd cyferbyniol iddo, sef, fod Duw yn peri i'w wyneb lewyrchu ar ei bobl; neu ei fod yn dyrchu llewyrch ei wyneb arnynt. Y mae hyn, debygid yn dwyn cyffelybrwydd i'r ymddangosiad hyfryd a dymunol hwnw yn wyneb cyfaill, (yn neillduol os bydd mewn sefyllfa uchel mewn bywyd,) pan fyddo yn cyfeillachu â'r sawl y mae efe yn garu yn anwyl, ac yn ymhyfrydu yn fawr yn eu cyfeillach. Am hyny dywed Job, pan yn llefaru am y parch oedd ei gyfeillion yn ddangos iddo, *Os chwarddwn arnynt, ni chredent, ac ni wnaent i lewyrch fy wyneb syrthio* (Job 29. 24.); hyny yw, hwy a ofalent yn y fath amgylchiad cysurus, rhag gwneuthur un peth ag a fyddai yn debyg o'm hanfoddloni a pheri gŵg ar fy wyneb. Dafydd, pan yn dymuno cael amlygiad o heddwch Duw, a ddywed, *Arglwydd dyrcha arnaf lewyrch dy wyneb;* ac fel effaith o hyny y mae efe yn dywedyd, *rhoddaist lawenydd yn fy nghalon mwy na'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt,* Salm 4. 6, 7. Ac y mae Dafydd trwy y fath ymadrodd yn meddwl, o bosibl, am lewyrch disglaer y Sechinah; sef y disgleirdeb hwnw yn y cwmwl, fel arwydd gweledig o bresennoldeb Duw yn mysg yr Israeliaid, yr hwn yr oedd yr Arglwydd yn ei amlygu ar rai amserau nodedig, fel tystiolaeth o'i ffafr, ac o'i gymeradwyaeth o honynt ger ei fron.—Ar y llaw arall, gan hyny, mae fod Duw yn cuddio ei wyneb, yn cynwys ataliad o'r arwyddion o'i ffafr; ac felly i gael ei ystyried yn nôd o'i anfoddlonrwydd. Fel hyn y mae y proffwyd Esay yn gwneyd defnydd o'r ymadrodd, gan ddywedyd, *Eich anwireddau chwi a ysgarodd rhyngoch chwi a'ch Duw, a'ch pechodau a guddiasant ei wyneb oddiwrthych, fel na chlywo,* Esay 59. 2. A thrachefn, *Cuddiaist dy wyneb oddiwrthym,* (heb sylwi

Digitized by Google

ar ein cystuddiau,) *difeaist ni o herwydd ein hanwireddau*, Esay 64. 7. Felly hefyd pan y dywedir fod *Duw yn cuddio ei wyneb oddiwrth ein pechodau* (Salm 51. 9.) yr ystyr yw, ei fod ef yn eu maddeu hwynt, heb gymeryd dim sylw pellach o honynt. Yr un peth sydd i'w ddeall wrth fod Duw yn cuddio ei lygaid rhag dynion o ymarweddiad annymunol: pan fyddont yn dyfod â'u herfyniadau o'i flaen, ni all edrych arnynt. Eglur yw mai dyma ystyr ysgrythyrol yr ymadrodd; ac yn yr ystyr hwn yr arferir ef gan gristionogion yn ein dyddiau ni; a phob peth ag sydd yn arwydd o anfoddlonrwydd Duw tuag atynt, a amlygir trwy yr unrhyw.

3. Sylwn yn mhellach, Mai nid bendithion amserol a berthynant i'r bywyd hwn, yw yr unig bethau trwy ba rai y mae y saint yn barnu fod Duw yn dangos ei ddaioni iddynt a'i gariad tuag atynt. Dafydd, er cael addewidion o'r pethau hyn yn barhaus dan y gyfraith, a gafodd ei ddysgu i edrych yn mlaen am fendithion rhagorach; ac felly y mae efe yn eu darlunio yn bethau gwell nac ŷd a gwin (Salm 4. 7.), ac yn fendithion o wahanol natur. Ac os nad ydwyt ti yn teimlo eu bod felly, y mae yn eglur dy fod di yn hollol anwybodus o'r hyn yr wyf fi yn son am dano, a'th fod heb ddysgu y wers gyntaf mewn crefydd. Mae yr hyn oll y mae Dafydd yn ei ddywedyd ynghylch edrych ar brydferthwch yr Arglwydd (Salm 27. 4.), neu gael ei ddigoni â mêl ac â brasder ar ei wely wrth gofio am ei Dduw (Salm 63. 5. 6.), ac ynghylch cael ei ddigoni â daioni ei dŷ, sef ei deml santaidd (Salm 65. 4.), i'w gymeryd yn yr un ystyr; ac nid ydyw y fath ymadroddion yn gofyn am fawr o esponiad i'r enaid profiadol. Ond y mae y sawl ag sydd wedi profi llewyrch wyneb Duw, yn gallu deall, yn ol gradd y profiad hwnw, beth a feddylir wrth ei fod

Digitized by Google

ef yn cuddio ei wyneb, neu wrth ei waith yn tynu yn ol yr arwyddion a roddodd i'w bobl unwaith, o'i bresenoldeb a'i ffafr; yr hyn sydd weithiau yn gwneyd yr enaid yn llawn o ofidiau chwerwon, hyd yn oed dan wenau rhagluniaeth a llwyddiant bydol; megis y mae yr hyn sydd wahanol yn gwneuthur cystuddiau yn felus, ac yn llyncu i fynu y teimlad o honynt.

4. Am hyny dyro genad i mi ddwyn ar gof i ti, fy nghyfaill cristionogol, canys felly y'th alwaf yn awr, fod yn bosibl i tithau golli y teimlad o gariad, ac arwyddion o ddaioni Duw tuag atat, a hyny yn fuan, er ei bod yn awr fel llewyrch haul ar ganol dydd yn dy enaid. Ti a elli golli yr olwg gysurus sydd genyt yn awr ar ogoniant y priodoliaethau dwyfol, wrth fyfyrio ar ba rai yr ydwyt yn teimlo cymaint o foddlonrwydd mewnol. Ti a elli feddwl am ddoethineb a gallu dwyfol, am drugaredd a ffyddlondeb Duw, yn gystal ag am ei gyfiawnder a'i santeiddrwydd, ac heb gael ond ychydig o foddlonrwydd enaid yn yr olwg arnynt. Ti a elli olygu y priodoliaethu hyn ac heb deimlo dim argraffiadau bywiol ar dy feddwl, mwy na phe byddit yn edrych ar ryw wrthrychau cyffredin. Ti a elli weithiau feddwl dy fod wedi colli golwg ar bwys mawr y geiriau hyn, er i'r ystyriaeth o'u cynhwysiad cyn hyn, megis, lyncu i fynu dy enaid mewn gorfoledd, syndod, a chariad. Y mae yn bosibl i ti golli pob teimlad dymunol o gariad a daioni Duw tuag atat. Fe all dy enaid amheu dy berthynas â Duw; ac fe all holl waith ei Ysbryd bendigedig gael ei orchuddio a'i dywyllu yn y fath fodd yn dy galon, fel y bo i'r dull trwy ba un y gellir adnabod llaw y gweithydd hwnw, mewn mesur mawr gael ei golli; a thi a elli fod yn barod i feddwl nad oeddit ond yn twyllo dy hunan trwy dy holl obaith blaenorol. Yn ganlynol i hyn, fe all yr ordinhadau, yn mha rai yr

Digitized by Google

ydwyt yn awr yn gorfoleddu, fyned yn gryn ddifudd; a hyny yn yr amser ag y byddech yn dymuno cael cymundeb â Duw trwyddynt. Ti a elli glywed y gwirioneddau mwyaf efangylaidd yn cael eu hegluro, ti a elli wrando ar freintiau plant Duw yn cael eu gosod allan yn y modd mwyaf serchiadol, ac heb allu gweled fod i ti ran na chyfran ynddynt; ac oddiwrth yr oerfelgarwch a'r annheimladrwydd hwnw ti a elli benderfynu yn mhellach nad oes i ti ddim a wnelech â hwynt. Yn y fath amgylchiad *dy galon a fyfyria ofn* (Esay 33. 18.); a phan wedi dy orchuddio fel hyn gan ofid fe fydd y breintiau mwyaf gwerthfawr yn trymhau dy alar, pan fyddech yn ystyried dy fod unwaith wedi profi blas arnynt, eithr dy fod yn awr wedi ei golli. Ac felly ti a fyddi yn barod i edrych ar y sawl na theimlasant erioed ddim argraffiadau crefyddol ar eu heneidiau, yn fwy hapus na thydi; o leiaf yn llai truenus. Ti a elli, o bosibl, yn yr oriau galarus hyn, amheu pa un a weddiaist ti erioed; a pha un a oedd yr hyn a elwaist yn fwynhad o Dduw, ddim amgen na dedwyddwch gau, wedi ei weithio ynot gan Satan, gelyn mawr eneidiau, i'r dyben i beri i ti dybied fod dy gyflwr yn dda, fel y byddai i ti barhau yn ysglyfaeth mwy sicr iddo ef.

5. Gall hyn fod dy gyflwr dithau dros ryw amser; ac fe all ordinhadau fod yn ddifudd, a'th waith yn ymofyn am bresenoldeb Duw ynddynt, fod yn ofer. Ti a elli o bosibl, dywallt dy enaid o flaen yr Arglwydd yn y dirgel, ac felly dyfod i'r addoliad cyhoeddus, heb brofi ond ychydig foddlonrwydd yn unrhyw ddyledswydd, ond gorfod cwyno gyda y Salmydd, *Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi; y nos hefyd, ac nid oes osteg i mi* (Salm 22. 2.); neu ynte gyda Job, *Wele yn mlaen yr âf, ond nid yw efe yno; yn ol hefyd, ond ni* *...f ei ganfod ef; ar y llaw aswy, lle y mae efe yn*

Digitized by Google

*gweithio, ond ni fedraf ei ganfod ef; ar y llaw ddehau y mae yn ymguddio fel na chaf ei weled*, Job 23. 8, 9. Ac felly fe fydd i'r hyn a ymddangosodd yn debyg i grefydd yn dy feddwl, fod fel wedi toddi ymaith i alar, fferu i ofn, neu ynte fod megis wedi ei falurio i ddwfn deimlad o'th annheilyngdod dy hun; ac mewn canlyniad i hyn, nis beiddi gymaint a chodi dy olygon i fynu ger bron Duw, ac fe fydd arnat gywilydd braidd i gymeryd dy le yn mysg y sawl yr edrychi arnynt yn weision iddo. Mi a wn mai dyma fel y profodd rhai cristionogion rhagorol, y rhai y bu eu cynydd mewn crefydd yn neillduol; ie, rhai ag y bu yn dda gan Dduw eu hanrhydeddu uwchlaw llawer o'u brodyr, trwy yr hyn a wnaeth efe erddynt a thrwyddynt. Wedi gwneuthur darluniad fel hyn o'r cyflwr, caniata i mi osod ger dy fron rai cyfarwyddiadau eglur yn ei gylch ef; ac na fydded i ti edrych ar yr hyn a gaffo ei ddywedyd fel tyb wag, gan ei fod yn tarddu ar y naill law oddiar olwg gywir a mynych ar rai yn y fath gyflwr, ac ar y llaw arall oddiar ddymuniad gwirioneddol a gwresog i esmwythau y galon dduwiol a thyner yn y fath gyflwr anghysurus. Ac, o leiaf, yr wyf yn sicr y bydd i'r ymgais hwn foddio Bugail mawr y defaid (Heb. 13. 20.), yr hwn a orchymynodd i ni ddyddanu y gwan eu meddwl, 1 Thes. 5. 14.

6. Ac yn y lle cyntaf yr wyf yn dy gynghori i chwilio yn fanol, Pa un a yw dy ofid presenol yn tarddu oddiar achosion gwir ysbrydol? Neu a ydyw ddim yn tarddu yn hytrach oddiar ryw anhwylder yn y corff, neu ryw beth yn amgylchiadau dy fywyd, yn mha rai y trefnodd rhagluniaeth dy fod, y rhai a iselant dy ysbryd? Mae yr effaith y mae ein cyrff yn gael ar ein hysbrydoedd anfarwol tra byddom yn y cyflwr hwn, mor eglur, fel nas dichon un dyn ystyriol lai na'i gweled; ac eto fe dybygid nad yw y cyfryw effaith yn cael ei hystyried yn ddigonol yn yr



Digitized by Google

amgylchiadau hyn; a hyn a all fod achos dy dristwch di. Y mae cyflwr y gwaed yn fynych y fath, fel y mae o angenrheidrwydd yn dwyn meddyliau pruddion, hyd yn oed mewn breuddwydion, ac yn anhwylusu yr enaid i gymeryd pleser mewn unrhyw beth: a chan fod y peth felly, paham y meddyliwn ni fod ein tristwch yn cyfodi oddiwrth unrhyw anfoddlonrwydd neillduol o eiddo Duw pan fyddom yn colli ein pleser arferol mewn crefydd? Neu paham y tybiwn fod Duw wedi cilio oddiwrthym, oblegid ei fod ef yn dyoddef achosion naturiol i ddwyn eu heffeithiau priodol, heb dori y berthynas sydd rhyngddynt mewn ffordd wyrthiol? Pan y byddo y peth fel hyn, dylid ymofyn am feddyg, yn hytrach na duwinydd; neu, o leiaf, y naill gyda y llall; canys fe all physygwriaeth, ymborth, ac awyr iachus, yn nghyd ag ysgogiad cymhedrol, wneuthur mwy o les mewn ychydig wythnosau, nag a all y rhesymau cryfaf, y cynghorion a'r cysuron mwyaf gwresog, eu gwneuthur dros fisoedd lawer.

7. Heblaw hyn, fe ddichon tristwch a gwendid y meddwl, darddu oddiwrth rywbeth anghysurus yn dy amgylchiadau bydol; fe all y pethau hyn dywyllu a thrallodi y meddyliau, chwerwi y dymer, ac felly dy wneyd i radd fawr yn anghymwys i gyflawni dyledswyddau crefydd, ac i fwynhau pleser; ac os felly, rhaid ymofyn am feddyginiaeth trwy ymostyngiad i'r rhagluniaeth ddwyfol; trwy neillduo dy feddyliau hyd ag y byddo yn bosibl oddiwrth y byd presenol, trwy ymgais doeth i ysgafnhau y baich o hono hyd ag y gallech: a hyny trwy ochelyd gwastraff ar y naill law, a thrwy ddiwydrwydd yn dy orchwylion ar y llaw arall, mewn ymorphwysiad gostyngedig ar y fendith ddwyfol; gan ymdrechu trwy y cwbl i edrych i fynu trwy ffydd, ar yr hwn sydd yn dyoddef i'w blant gael eu dwyn i

Digitized by Google

gyfyngderau weithiau, fel y byddo iddynt gael eu dwyn i'w garu ef yn fwy trwy ei ffordd ddaionus yn eu dwyn hwynt allan o'u gofidiau.

8. O ystyried y pethau hyn, fe allai wrth chwilio y ceffid gweled fod y gofid yr achwynir o'i blegid, yn tarddu oddiar bethau nad oeddid yn meddwl am danynt ar y cyntaf. Ond pan fyddo y corff mewn iechyd cyflawn, a'r amgylchiadau bydol yn esmwyth; pan fyddo yr ysbrydoedd yn fywiog ac yn tueddu at bleserau cnawdol, a blas ar bleserau crefydd megys wedi darfod; pan fo yr enaid wedi ei lanw o gysgadrwydd ac annheimladrwydd ysbrydol; pan fo wedi ei wanhau fel un yn glaf o'r parlys, fel nad yw gymwys i ymarferiadau crefyddol, er nad yw yn profi y tristwch dwfn a dychrynllyd hwnw ag y soniais am dano o'r blaen fel effaith pruddglwyf; na chwaith y pryder hwnw yn nghylch angenrheidiau bywyd, yr hwn sydd yn naturiol yn cydfyned ag amgylchiadau cyfyng; rhaid i mi roddi cyngor gwahanol yn yr achos hwn, a'th annog yn y modd mwyaf astud a diduedd ag sy yn bosibl, i chwilio beth yw yr achos o'r drwg mawr hwn, dan ba un yr ydwyt yn galaru yn gyfiawn. Y mae yn debygol iawn mai pechod yw yr achos cyffredin; rhyw bechod dirgel anamlwg i'r byd; canys y mae y pechodau hyny ag sy yn amlwg i, ac yn cael eu beio gan, ein cydgreaduriaid, o bosibl yn perthyn i'r hyn y soniwyd am dano yn y bennod o'r blaen, am eu bod o angenrheidrwydd yn adnabyddus ac yn fwriadol. Yn awr y mae llygaid Duw wedi sylwi ar y drygau hyny, pa rai a guddiaist ti rhag dy gyd-greaduriaid; ac mewn canlyniad o'th ofal i'w cuddio rhag eraill, pan na allesit lai na gwybod eu bod yn agored ger ei fron ef, y mae Duw wedi gweled ei hun yn cael ei ddiystyru genyt mewn modd neillduol: ac am hyny y mae efe yn amlygu ei

Digitized by Google

anfoddlonrwydd cyfiawn. O na fydded i'r hyn a ddywed y prophwyd byth gael ei anghofio, yr hyn sydd mor eglur yn cael ei lefaru, mor hyddysg i bawb, eto heb ei brofi yn ddigonol gan unrhyw galon: *Eich anwiredd chwi a ysgarodd rhyngoch chwi a'ch Duw, a'ch pechodau a guddiasant ei wyneb oddiwrthych, fel na chlywo,* Esay 59. 2. Ac y mae Duw trwy hyn yn amlygu ei drugaredd, er fod ei ymweliad yn ymddangos i ni yn sarug; na fydded i ti edrych ar dy brofedigaethau presennol gan hyny yn unig fel dy ddrygfyd, ond edrych ar y cwbl yn foddion i'th ddeffroi di i ymdrechu, fel Josua, i osod ymaith oddiwrthyt yr ysgymyn-beth, beth bynag a fyddo, ac nid tybied ei fod yn ddigonol i ti aros mewn dagrau o ostyngeiddrwydd ger bron yr Arglwydd. Bydded i ti ofalu yn ddiatreg ar fod dy falchder yn cael ei ddarostwng, dy wyliadwriaeth yn cael ei gynal, dy serchiadau gormodol at y byd yn cael eu marweiddio, ac ar y cwbl fod dy barodrwydd i'r nefoedd yn myned ar gynydd yn mhob ystyriaeth. Dyma ddybenion dy Dad nefol yn ymweled â thi trwy ofidiau; a bydded dy ofal penaf dithau i allu ceisio cydweithio â hwynt.

9. Derbyn y cyngor hwn, gan hyny, fel y mwyaf ei bwys ag a ellir ei roddi i ti, sef, dechreu holi dy gydwybod yn ddiatreg, yn y modd mwyaf manol. Gwrando ar yr hyn oll a ddywed wrthyt. Ac os cei achos i amheu fod un peth allan o'i le, ymofyn pa beth ydyw; ac i'r dyben hwnw, chwilia holl ddirgelion y galon: gwna ddefnydd i'r dyben hwn o gynghorion dy gyfeillion, a gwaradwyddiadau dy elynion; cofia am ba beth y ceryddodd dy galon di wrth fwrdd yr Arglwydd, ac am ba beth y'th geryddai pe byddit ar wely angau, ac i fyned yr awr hon i dragywyddoldeb. Pan welech un peth yn feius, gosod ef i lawr, a dos yn mlaen i chwilio hyd oni allech ddywedyd, 'Dyma y llygredig-

Digitized by Google

aethau sy yn aros yn fy nghalon; dyma bechodau ac ynfydrwydd fy mywyd; dyma yr hyn a esgeulusais; a dyma yr hyn a wneuthum allan o'i le.' A phan fyddo y cyfrif mor gyflawn ag y gelli ei wneuthur, ymosod trwy nerth Duw i ddiwygio, neu yn hytrach i ddechreu diwygio pob peth a fyddo yn feius pan welech ef. *Dychwel at yr Hollalluog a thi a adeiledir; symudi anwiredd yn mhell oddiwrth dy luestai. Yna yr ymhyfri yn yr Hollalluog, ac a ddyrchefi dy wyneb at Dduw. Ti a weddïi arno ef, ac efe a'th wrendy; ti a deli dy addunedau iddo ef, a'i oleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd,* Job 22. 23, 26, 27, 28.

10. Bydded i ti yn y cyfamser ddysgwyl wrth Dduw gyda'r gostyngeiddrwydd mwyaf, a phlygu i ddysgyblaeth dy Dad nefol, gan addef ei gyfiawnder, ac ymddiried yn ei drugaredd; hyd yn oed pan fyddo dy gydwybod dawelaf, ac heb osod dim yn dy erbyn yn rhagor na gwendidau cyffredin pobl Dduw: eto bydded i ti blygu ger ei fron ef, a chyfaddef fod dy ddyddiau goreu mor llawn o ddrwg, a'th wasanaeth goreu mor anmherffaith, fel yr ydwyt oblegid hyny yn haeddu y cwbl, a llawer mwy nac yr ydwyt yn ddyoddef; i ti haeddu, nid yn unig i'th haul gael ei gymylu, ond iddo fachlud heb godi byth mwyach, a gadael dy enaid mewn tywyllwch tragywyddol. Tra y mae y cwmwl yn aros, na fydd anamyneddgar. Paid a digofaint, ond yn hytrach bydded i'th enaid mewn modd tawel, santaidd, ac addfwyn, *ddysgwyl wrth yr Arglwydd,* Salm 37. 8, 34. Bydd foddlon i aros ei amser ef, yn foddlon i fod dan ei ŵg ef, mewn gobaith gostyngedig y bydd iddo o'r diwedd *ddychwelyd a thrugarhau wrthyt,* Jer. 12. 15. Nid yw efe wedi hollol anghofio trugarhau, ac ni fwriadodd na byddai efe boddlon mwy, Salm 77. 7, 9. Oblegid *nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd;*

A 2

Digitized by Google

ond er iddo *gystuddio, eto efe a dosturia yn ol amlder ei drugareddau*, Galar. 3. 31, 32. Nid yw efe mewn cymhariaeth wedi dy adael ond megys dros enyd fechan; ond ti a elli obeithio yn ostyngedig y bydd iddo dy gasglu â mawr drugareddau, ac y bydd iddo â thrugaredd dragywyddol drugarhau wrthyt, Esay 54. 7, 8. Nid fy ngeiriau i yw y rhai addas hyn, ond ei eiriau ef; ac y maent yn gwisgo yr athrawiaeth hon fel ar eu hwynebau, sef, y dichon enaid ag sydd yn awr wedi colli llewyrch wyneb Duw, o'r diwedd gael ei gasglu gan yr Arglwydd, ac felly bod yn wrthrych o'i ddaioni tragywyddol ef.

11. Ond tra y parhao y tywyllwch, dos rhagot yn ffordd dy ddyledswydd. Gwna ddefnydd parhaus o foddion ac ordinhadau: darllen a myfyria: gweddia, ïe, cân hefyd foliant i Dduw, er gorfod ei wneuthur â chalon drom. *Dos rhagot ar hyd ôl y praidd* (Can, 1. 8.); a thi a gyfarfyddi o bosibl â Bugail eneidiau. Gosod dy hun o leiaf yn ei ffordd. Ac y mae yn bosibl i ti trwy hyny gael ganddo mewn modd serchog edrych arnat; ac un olwg, ïe, un tro yn y meddwl, yr hyn a all ddygwydd mewn munud awr, a ddichon greu nefoedd yn dy enaid ar unwaith. Dos at fwrdd yr Arglwydd; ac os na elli lawenhau, dos yno i alaru. Dos *a galara am yr Iachawdwr bendigedig, pa un a wânaist trwy dy bechodau* (Zec. 12. 10.); dos a galara am i ti dori y cyfamod, pa un a sicrheaist mor fynych ger bron Duw wrth ei fwrdd. Fe all Crist wneuthur ei hun yn adnabyddus i ti yn *nhoriad y bara* (Luc 24. 35.), ac y mae yn bosibl y cei di weled er syndod i ti dy hun, ei fod ef yn agos atat, pan feddyliaist ei fod bellaf oddiwrthyt; yn agos atat pan feddyliaist dy fod wedi dy fwrw ymaith o'i ŵydd. Ymofyn am dy gysuron yn y fath ymarferiadau â hyn; ac nid yn nigrifon ofer y

Digitized by Google

byd, a phleserau cig a gwaed. Ni allaf byth anghofio yr hyn a ddywedodd dyn duwiol, pan yr oedd ei galon yn mron dryllio dan ofidiau o'r fath hyn! 'Arglwydd,' eb efe, 'os na chaf dy fwynhau DI, na ad i mi fwynhau dim arall; ond bydded i mi fyned i wared i'm bedd mewn galar ar dy ol di!' Ac nid oedd ddim yn rhyfedd genyf glywed i'r baich gael ei symud ymaith, ac i orfoledd iachawdwriaeth Duw gael ei adferyd, cyn gynted ag y darfu iddo anadlu hyn mewn gweddi ger bron yr Arglwydd.

12. Ni chwanegaf ond un cyfarwyddyd arall; sef, gwneuthur o honot gymhwysiad newydd o waed Iesu, trwy yr hwn yr heddychwyd dy enaid â Duw. Efe yw *ein tangnefedd ni, a thrwy ei waed ef y'n gwnaethpwyd yn agos*, Eph. 2. 13. 14. Ynddo ef, fel anwylyd ei enaid, y dywed Duw iddo *gael ei lwyr foddloni* (Mat. 3. 17); ac yn Nghrist y *gwnaeth efe ni yn gymeradwy, er gogoniant ei ras ef*, Eph. 1. 6. Dos, gan hyny, O gristion, trwy ffydd at yr Iachawdwr croeshoeliedig: dos ato ef fel at arch-offeiriad trugarog, *tywallt dy fyfyrdod o'i flaen ef, a mynega dy gystudd ger ei fron ef*, Salm 142. 2. Gosod yn agored o'i flaen ef, ofid ac ing dy enaid, yr hwn a ddywedodd unwaith, (ac, O ryfeddod! iddo ef yn anad neb ddywedyd felly,) *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist*? Mat. 27. 46. Edrych i fynu am drugaredd a gwaredigaeth ato ef, yr hwn ei hunan a ddyoddefodd, a hyny nid yn unig gan gael ei demtio, ond o ran unrhyw deimlad o gysur, ei adael hefyd, fel y byddai iddo ef gael ei ddysgu i dosturio wrth y sawl sydd yn yr unrhyw gyflwr galarus, ac i fod yn ewyllysgar, yn gystal ac yn abl, i'w cynorthwyo hwynt, Heb. 2. 18. Efe yw yr *Emmanuel, Duw gyda ni* (Mat. 1. 23.); a thrwyddo ef yn unig y mae y Tad yn amlygu i ni belydrau tirion ei drugaredd a'i ras. Boed

Digitized by Google

i ti gan hyny, yn ddiatreg, ymofyn am adnabyddiaeth newydd o hono. Edrych ar ei fywyd a'i farwolaeth: gwrando ar ei eiriau ef; a gwel ei weithredoedd; a thrwy hyny, fe fydd i ti yn sicr deimlo cysur melus a santaidd yn ymdanu trwy dy holl enaid. Ti a gei dy ddwyn i dymer ddystaw lonydd, yn mha un y bydd i ffydd a chariad weithredu yn gryf, a gad Duw o bosibl i ti glywed llais dystaw main ei Ysbryd er dy ddyddanwch (1 Bren. 19. 12.), fel y byddo i'th enaid dori allan mewn cân o fawl, ac felly i ti gael dy *lawenhau yn ol y dyddiau y'th gystuddiwyd*, Salm 90. 15. Ac yn y cyfamser fe ddichon iaith y weddi ganlynol fod yn addas i ti.

GWEDDI *ostyngedig i un wedi colli wyneb Duw.*

Y Duw bendigedig! *gyda thi y mae ffynon bywyd* (Salm 36. 9.) a dedwyddwch. Yr wyf yn gogoneddu dy enw am gael o honof erioed brofi o'th ffrydiau; ddarfod i mi erioed deimlo y pleser neillduol ag a dardd oddiwrth lewyrch dy wyneb, a'th gariad yn dywalltedig ar fy enaid. Ond, o'ch! y mae yr amseroedd hyfryd y bum yn profi y pethau hyn, yn awr wedi darfod; ac y mae y coffadwriaeth am danynt, yn peri i mi *dywallt fy enaid ynof*, Salm 42. 4. Mi a ewyllysiwn ddyfod ger dy fron fel cynt, a'th alw gyda yr unrhyw anwylder, Fy Nhad, a'm Duw: ond, och! nis gwn pa fodd i wneuthur felly. Y mae ofn ac euogrwydd yn cyfodi i atal y fath iaith hyfryd a hon. Yr ydwyf yn dy geisio, O Arglwydd! ond, wele, yr wyf yn dy geisio yn ofer. Yr wyf yn chwennych gweddio, ond y mae fy ngwefusau wedi eu cau. Yr wyf yn ceisio darllain dy air, ond y mae dy addewidion wedi eu cuddio oddiwrth fy llygaid. Yr wyf yn agosâu at yr ordinhadau ag oedd-

Digitized by Google

ynt gynt yn faeth ac yn gysur i'm henaid; ond, och! nid ynt yn awr ond megis cysgod: y mae y sylwedd wedi ymadael; y mae yr ysbryd bywiol wedi ehedeg ymaith, ac nid ydynt yn awr ond megis delw ar y goreu o'r hyn oeddynt unwaith i mi.

Ond, O Arglwydd, a ydwyt ti wedi *fy mwrw i heibio yn dragywydd? Ac oni byddi di foddlon mwy?* Salm 77. 7. A fwriedaist ti, trwy farn ofnadwy, i'm henaid gael ei adael mewn gauaf parhaus, fel arwydd galarus o dywyllwch tragywyddol? Gwir yw, mi a haeddais i hyny fod. Yr wyf yn cyfaddef, O Arglwydd, mai fy haeddiant yw cael fy mwrw ymaith o'th olwg gyda diystyrwch; mi a haeddais gael fy ngadael i soddi yn ddyfnach nac yr wyf o lawer: ti a allasit yn gyfiawn beri i *gysgod marwolaeth fod ar fy amrantau* (Job 16. 16.), ac i dywyllwch dudew y carchar tragywyddol fy nghylchynu. Eto oni chyfodaist di dorfeydd i fynu, y rhai fel finau a haeddasant gael eu rhoddi i *gadwynau tywyllwch* (2 Pedr 2. 4.), i fwynhad o'th ogoniant fry, lle nad oes un cwmwl yn alluog byth i dywyllu rhyngddynt a thydi? Trugarha wrthyf, O Arglwydd, trugarha wrthyf! Salm 123. 3. Ac er i'm pechodau yn awr haeddu yn gyfiawn i ti guddio dy wyneb oddiwrthyf (Esay 59. 2.), er hyny bydded da yn dy olwg yn ol dy air grasol, i *guddio dy wyneb oddiwrth fy mhechodau, a dileu fy holl anwireddau,* Salm 51. 9. Llawenha fy nghalon trwy arwyddion o'th ffafr, a dywed wrth fy enaid, *Myfi yw dy iachawdwriaeth,* Salm 35. 3.

Cofia, O Arglwydd Dduw, cofia y dydd dychrynllyd yn mha un y bu i Iesu dy anwyl Fab, ddyoddef yr hyn a haeddodd fy mhechodau i! Cofia yr ing trwy ba un y tywalltodd efe ei enaid o'th flaen, gan ddywedyd, *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?* Mat. 27. 46. O Arglwydd, oni ddyoddefodd efe hyn oll fel y byddai

Digitized by Google

i bechaduriaid edifeiriol a gostyngedig gael eu dwyn yn agos atat ti, ac i edrych arnat gyda chysur, fel eu Tad a'u Duw? Fel hyn yr ydwyf fi yn chwenych dyfod atat. O Iachawdwr bendigedig, oni chefaist ti dy anfon *i roddi i alarwyr Sïon ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, a gwisg moliant yn lle ysbryd cystuddiedig?* Esay 61. 3. O golch ymaith fy nagrau i, eneinia fy mhen ag olew llawenydd, a gwisg fi â gwisgoedd iachawdwriaeth! Esay 61. 10. *O na wyddwn pa le y cawn di!* Job 23. 3. O na chawn wybod pa beth a barodd i ti gilio oddiwrthyf! Yr ydwyf yn *ceisio ac yn chwilio fy ffyrdd* (Galar 3. 40.): O na byddai i ti fy *chwilio i, a gwybod fy nghalon, fy mhrofi a gwybod fy meddyliau; ac os oes ffordd annuwiol genyf, datguddia hi, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol* (Salm 139. 23, 24.); yn y ffordd hòno ag a ddichon arwain fy enaid i gael heddwch a gorphwysdra (Jer. 6. 16.), a phrofi amlygiadau o'th gariad yn Nghrist!

O Dduw! yr hwn a orchymynaist i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch (2 Cor. 4. 6.), llefara y gair, ac fe fydd i oleuni ymdaenu trwy fy enaid inau ar unwaith! *Agor fy ngwefusau, a'm genau a fynega dy foliant* (Salm 51. 15.); ïe, fy enaid a dyr allan mewn cân lawen, ger bron y sawl a allant gael eu digaloni trwy fy nhristwch presennol, fel arwydd o'r pleser a'r cynorthwyon sydd yn cydfyned â chrefydd!

Eto, Arglwydd, yr wyf yn plygu i'th ewyllys di. Os rhaid i'm ffydd gael ei phrofi yn y modd hwn, trwy rodio mewn tywyllwch, tros ddiwrnodau, misoedd, a blynyddoedd eto i ddyfod, er cyhyd y gallont ymddangos, neu y byddont, wele fi yn foddlon i drefniadau dy ewyllys di. Yr wyf yn dymuno dy addoli fel Duw Israel a'r Achubwr, er dy fod yn *Dduw ag sy'n ymguddio*

Digitized by Google

(Esay 45. 15.) yr wyf yn *gobeithio yn enw yr Arglwydd, ac yn ymddiried yn fy Nuw* (Esay 50. 10.); ie, *pe lleddit fi, eto mi a obeithiaf ynot* (Job 13. 15.), ac mi a *ddysgwyliaf am danat yn fwy na'r gwylwyr am y boreu* (Salm 130. 6.); fe allai y *bydd goleuni yn yr hwyr*, Zech. 14. 7. Mi a wn i ti rai gweithiau amlygu dy dosturiaethau i'th weision ar awr eu marwolaeth; gan roddi iddynt, pan oedd hi yn dra isel ar eu hysbrydoedd naturiol, lanw cyflawn o ogoniant dwyfol, a thrwy hyny, cafodd tywyllwch ei droi yn *oleuni o'u blaen hwynt*, Esay 13. 16. Bydded da yn dy olwg i oleuo dyffryn cysgod angau â'th bresenoldeb, pan fyddwyf yn myned trwyddo, ac estyn allan dy *wialen a'th ffon i'm cysuro* (Salm 23. 4.), fel y byddo i'm cryndod ddarfod, a'r tywyllwch roddi adsain caniadau o fawl! Ond os dy ewyllys goruchel yw i ofid a thywyllwch barhau tra parhao y gwaed i gerdded, neu hyd yr anadliad diweddaf, O par i'r pethau hyn ddarfod ar fy ymadawiad oddiyma, a dwg fi i'r goleuni a hauwyd i'r cyfiawn, ac i'r llawenydd sydd yn nghadw *i'r rhai uniawn o galon!* Salm 97. 11. O dwg fi i'r ardaloedd lle nad oes un cwmwl, ond dysgleirdeb a gorfoledd tragywyddol, a lle y bydd i eneiniad dy Ysbryd gael ei dywallt yn gyflawn ar dy bobl, heb guddio dy wyneb oddiwrthynt byth mwy, Ezec. 39. 29. Dyma *iachawdwriaeth, O Arglwydd*, am yr hon yr wyf yn *dysgwyl* (Gen. 49. 18.); a thra y teimlwyf ddymuniadau fy enaid yn cael eu tynu allan ar ei hol, ni anobeithaf byth ei mwynhau hi. Parha a chynydda y dymuniadau hyn; ac yn y diwedd gwna fwy na'u digoni hwynt oll, trwy gyfoeth dy ras yn Iesu Grist. Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XXV.

## Y CRISTION YN DYODDEF DAN GYSTUDDIAU DIRFAWR.

Yma cynghorir, (1.) I ddysgwyl cystuddiau, Dosparth, 1. (2.) I gydnabod llaw gyfiawn Duw ynddynt pan ddelont, 2. (3.) I'w dwyn gydag amynedd, 3. (4.) I gymeradwyo yn wresog yr ymddygiad dwyfol ynddynt, 4. (5.) I gynal teimlad diolchgar yn nghanol trallodau, 5. (6.) I chwilio yn fanol i'r amcan o'r cystuddiau, a chymeryd pob cymorth priodol i'w ddatguddio, 6. (7.) Pan ddatguddir ef, y dylid cydsynio yn ostyngedig âg ef a'i ateb, 7. Gweddi addasedig i'r cyfryw amgylchiad.

1. Yn gymaint a bod *dyn wedi ei eni i flinder, fel yr eheda gwreichionen i fynu* (Job. 5. 7.); ae i Adda sefydlu ar ei holl hiliogaeth yr etifeddiaeth athrist o adfyd yn eu ffordd i angau, diamheu ei fod ef yn beth doeth ac angbenrheidiol i ni oll ddysgwyl cyfarfod â phrofedigaethau yn ein bywyd; ac felly dy ddoethineb di, O ddarllenydd, pwy bynag ydwyt, yw ymdrechu i wregysu dy arfogaeth am danat, a gosod dy hun mewn sefyllfa gymwys i wrthsefyll y cyfryw brofedigaethau ag a allant ddygwydd i'th ran fel Dyn ac fel Cristion. Parotoa dy hun i dderbyn cystuddiau a'u dyoddef yn gyson â'r ddau gymeriad uchod. Gan ystyried, pan welech ereill dan y baich, pa mor bosibl yw i tithau gael dy ddwyn i'r unrhyw anhawsderau, neu y cyffelyb. Gosod dy enaid fel yn eu lle hwynt. Meddwl pa fodd y byddai i ti allu dwyn y baich, dan ba un y maent hwy yn gorwedd; ac ymdrecha ar unwaith i'w cysuro hwynt, ac i gadarnhau dy galon dy hun; neu yn hytrach, gweddia ar i Dduw wneuthur felly. A chan sylwi pa mor ddarostyngedig yw dynion i ofidiau yn y bywyd

Digitized by Google

marwol hwn, bydded i ti gymhedroli dy ddysgwyliadau oddiwrtho; cyfod dy feddyliau uwch ei law ef; a bydded i ti lunio dy amcanion am hapusrwydd yn unig yn y byd hwnw, lle na all fod dim siomedigaeth: ar yr un pryd, clodfora Dduw am dy lwyddiant hyd yn hyn, gan adnabod mai ei ragluniaeth neillduol ef yw yr achos dy fod di cyhyd yn aros heb dy glwyfo, pan y mae cynifer o gawodydd o saethau yn ehedeg o'th gwmpas, a chynifer yn syrthio o'th amgylch, ar dy law ddehau ac ar dy law aswy.

2. A phan ddelo dy dro dithau, fel y mae yn ddiau y daw, o'r awr gyntaf y gafaelo cystudd ynot, edrych ar law Duw yn y cwbl, ac na fydded i ti golli golwg arno trwy unrhyw ail achos ag a allo ei beri yn uniongyrchol. Gofala yn gyntaf am *ymddarostwng dan alluog law Duw, fel y'th ddyrchafo di mewn amser cyfaddas*, 1 Pedr 5. 6. Cyfaddef ei *fod ef yn gyfiawn, yn yr hyn oll a ddygwyddodd i ti* (Neh. 9. 33.), ac iddo ef dy *gospi di yn llai na'th anwiredd*, Ezra 9. 13. Parotoa dy hun i ddyoddef ei law geryddol gydag amynedd, i ogoneddu ei enw ef trwy ymostwng i'w ewyllys, i gwympo i mewn â dybenion grasol yr ymweliad hwn, ac i ddysgwyl yn dawel am y dyben, beth bynag a fyddo.

3. Ac fel y bo i *amynedd gael ei pherffaith waith* (Iago 1. 4.), edrych yn ddwys ac yn fynych ar dy waeledd a'th bechadurusrwydd dy hun. Ystyria, pa gynifer o weithiau y fforffediaist ti bob trugaredd, ac yr haeddaist bob barn. Ac ystyria hefyd hir-amynedd Duw tuag atat, pa un sydd yn gweithredu mor rhyfeddol er dy ddaioni hyd yr awr hon: ïe, ystyria, nid yn unig ei amynedd, ond hefyd ei haelioni. Er mor gystuddiedig ydwyt, (canys yr wyf yn awr yn llefaru wrthyt fel dan y wasgfa,) eto edrych o'th amgylch ar yr aml drugareddau sydd yn dy feddiant, a bydd yn



Digitized by Google

befyd am eu cyfarwyddiadau, yn nghylch yr hyn a all fod dybenion mwyaf tebygol rhagluniaeth yn y fath ymweliad; ac annog hwynt i ddywedyd wrthyt yn rhydd yr hyn a ymddangoso i'w meddyliau ar y pen hwn. Ac os cânt, trwy y fath achlysur, eu harwain i son am ryw bethau anmherffaith yn dy gymeriad a'th ymddygiad, edrych ar hyny yn arwydd o'u cyfeillgarwch, a derbyn ef, nid yn unig yn amyneddgar, ond yn ddiolchgar. Y mae yn beth anaddas iawn i gristion un amser ddigio wrth neb o'i gydgreaduriaid ag a'i hyfforddio ac a'i ceryddo; ond yn neillduol anaddas pan y mae ei Dad nefol yn ei gerydda ef. Efe a ddylai yn hytrach ar y fath amser a hwn, ymofyn am gyfarwyddiadau, a chynyg yn ewyllysgar ei archollion i gael eu chwilio gan feddyg ffyddlon a medrus.

7. A phan gaffech, trwy unrhyw foddion, baladr o oleuni i'th dywys i adnabod dyben y fath ymweliadau o eiddo rhagluniaeth tuag atat, gwylia, rhag i ti mewn un radd, ymgaledu yn erbyn Duw, gan rodio yn wrthwyneb iddo ef, Lef. 26. 27. Y mae anewyllysgarwch gwrthnysig i ymostwng dan ddyrnod rhagluniaeth, pan fyddo y dyben yn hysbys i ni, yn digio yr Arglwydd mewn modd annrhaethol. Cais gan hyny yn y fan, ddiwygio yr hyn wyt yn weled yn feius: a chais ddysgu y gwersi cyffredinol hyn, sef, gostyngeiddrwydd mwy i ewyllys Duw; difaterwch tawel am y byd hwn; a phleser mwy mewn cyfeillach â Duw, ac mewn golwg ar y byd tragywyddol anweledig, yr hwn sydd yn agoshau. A pha gyfatebolrwydd bynag a welech rhwng yr amgylchiad hwn neu arall yn dy gystuddiau, a'th droseddau gynt, bydd yn neillduol ofalus i ymddwyn yn ol y llais enwedigol ac eglur wnw o eiddo y wialen. Ac felly, cei, o bosibl,

Digitized by Google

achos cyflym a hynod i ddywedyd, *da oedd i mi gael fy nghystuddio* (Salm 119. 71.); a chyda lluoedd ereill, ddysgu cyfrif yr amserau hyny, yn y rhai y'th brofwyd dostaf, yn mysg y munudau gwychaf a mwyaf melus o'th holl fywyd. I'r dyben hwn, parha yn ddyfal mewn gweddi; a boed i ti dywallt y fath erfyniadau â'r rhai hyn, os nid yn y geiriau hyn, yn fynych, ac mewn modd gwresog ger bron Duw.

GWEDDI *ostyngedig at* DDUW *oddiwrth un ag sydd yn cael ei wasgu dan gystudd mawr.*

O Arglwydd dyrchafedig! tydi ydwyt Lywydd cyfiawn a grasol yr holl greadigaeth! er mor wael a dystadl y gall y rhan fechan hon o'th lywodraeth ehang ymddangos, nid ydwyt yn dibrisio y ddaear a'i thrigolion; ond yr ydwyt yn sylwi arni yn y modd mwyaf gostyngedig a grasol. Tydi ydwyt yn teyrnasu, ac am hyny yr wyf finau yn llawenhau; canys y mae hyny yn wir yn fater o orfoledd cyffredinol, Salm 97. 1. Yr wyf yn credu fod dy ragluniaeth yn gofalu am, ac yn llywodraethu pob peth; ac yr wyf yn hollol gredu dy fod di yn trefnu pob peth a berthyn i mi, ac i amgylchiadau fy sefyllfa yn y byd hwn, mewn modd doeth, santaidd, a da. Yr wyf yn chwennych edrych trwy bob achosion is atat ti, llygaid pa un sydd ar dy holl greaduriaid; atat ti, yr hwn wyt yn *llunio goleuni ac creu tywyllwch, yn gwneuthur llwyddiant ac yn creu drygfyd* (Esay 45. 7); atat ti, O Arglwydd, yr hwn a elli, pan fynech, newid y naill am y llall; yr hwn a elli droi y canol-ddydd mwyaf disglaer yn ganol-nos, a'r tywyllwch eithaf yn haner dydd.

O Lywydd doeth a thrugarog y byd! llawer gwaith y dywedais, "dy ewyllys di a wneler:" ac yn awr y



Digitized by Google

mae dy ewyllys yn rhy boenus i mi. Ond a fydd i mi, gan hyny, wrthddywedyd yr hyn a ddywedais mor fynych? Na ato Duw! Yr wyf yn dyfod yn hytrach, i daflu fy hun wrth dy draed di, gan gyhoeddi fy ymostyngiad rhydd a chyflawn i'th holl ewyllys santaidd. O Arglwydd, yr ydwyt ti yn gyfiawn yn y cwbl! Yr wyf yn cyfaddef yn dy bresenoldeb ofnadwy ac anrhydeddus, fy mod i wedi haeddu hyn oll, ïe, a deng mil mwy (Ezra 9. 13.); yr wyf yn cydnabod mai dy drugaredd di yw yr achos na ddarfu am danaf (Galar. 3. 22.), a bod gradd o gysur eto yn aros. O Arglwydd! yr wyf yn cyfaddef fod pechodau un dydd o'm bywyd wedi haeddu yr holl geryddon hyn; a bod pob dydd o'm heinioes wedi bod fwy neu lai yn bechadurus. Taro, gan hyny, O Farnydd cyfiawn! ac eto mi a'th foliannaf am na ddanfonaist y cleddyf yn lle y fflangell hon, i wneuthur holl waith ofnadwy cyfiawnder, ac i dywallt allan fy ngwaed yn dy bresenoldeb di.

Ond a gaf fi lefaru wrthyt yn unig fel fy Marnydd? O Arglwydd, ti a ddysgaist i mi enw mwy tyner; ti a ymostyngaist i alw dy hunan fy Nhad, ac i ddywedyd am geryddon, eu bod yn ffrwythau dy gariad. O croesaw, croesaw, i'r cyfryw gystuddiau ag ydynt arwyddion o'th serch tadol, ac yn nodau o fy mabwysiad i i'th deulu di! Ti a wyddost pa ryw ddysgyblaeth sydd yn angenrheidiol arnaf. Ti a weli, O Arglwydd, pa ryw ffolineb sydd yn rhwym yn fy nghalon i, yr hwn wyf dy blentyn tlawd, cyndyn, ac anystyriol; a thi a wyddost pa ryw wialenodau a fflangellau sydd yn angenrheidiol i'r dyben o'i yru ymaith. Mi a chwennychwn ymostwng yn isel i Dad yr ysbrydoedd, yr hwn sydd yn fy ngheryddu er fy llesad, Heb. 12. 9, 10. Mi a ewyllysiwn ddyoddef dy ergydion di, nid yn unig am nas gallaf eu gwrthwynebu hwynt, ond o blegid fy

Digitized by Google

mod yn dy garu ac yn ymddiried ynot ti. Yr wyf yn ymfoddloni yn dawel ac yn gorphwys yn dy ewyllys, yn gystal ag yn ymostwng iddi; gan ddywedyd, *Da yw gair yr Arglwydd* (2 Bren. 20. 19.), ac yr wyf yn ewyllysio, nid yn unig i fy ngenau ymfoddloni dywedyd fel hyn, ond hefyd fy enaid. Ië, Arglwydd, yr wyf yn dymuno dy foliannu am i ti ddangos cymaint o gariad ataf fi, fel y mae y fath foddion wedi eu cymhwyso at wellhau afiechyd fy meddwl, ac am dy fod mor garedigol a gofalus i'm gwneyd i yn gymwys i ogoniant. Nid wyf yn dadleu yn erbyn cael fy nghystuddio, na chael fy nghystuddio yn y ffordd hon yn neillduol. *Y cwpan â roddes y Tad yn fy llaw, onid yfaf ef?* Ioan 18. 11. Hyn a wnaf trwy dy gymorth di. Yn unig bydded da yn dy olwg, O Arglwydd, i sefyll ar fy rhan, ac edrych yn rasol arnaf yn nghanol fy nyoddefiadau! Cynal fy enaid, yr wyf yn atolygu arnat, trwy gymysgu dy gysuron â'm gorthrymderau; ac mi a fyddaf yn llawen yn y fath gystuddiau! Hyn fu profiad llawer; pa rai a edrychasant yn ol ar ddyddiau eu cystudd gyda phleser, gan gyfaddef ddarfod i'w cysuron lyncu i fynu eu holl dristwch. Ac a *ballodd dy drugareddau*? Esay 63. 15. *A fyrhaodd dy fraich* (Num. 11. 25.), fel na elli wneuthur yr un modd â myfi? Os yw fy nghalon yn llai tyner a theimladwy, ti a elli beri i'r cystudd hwn fod yn foddion i feddyginiaethu y cyfryw anhwyl. Boed felly; ac yn dy ffordd a'th amser dy hun, gweithia allan waredigaeth i mi: *Dangos dy ryfedd drugareddau, O Achubydd y rhai a ymddiriedant ynot!* Salm 17. 7. Canys mi a wn yn dda, er mor dywyll y dichon y nos hon o orthrymder ymddangos, os bydd i ti ddywedyd, Bydded goleuni, goleuni a fydd. Ond ni fynwn i fod yn daer am ddim, cyn yr amser y byddo dy ddoeth-

Digitized by Google

ineb a'th ddaioni di yn trefnu ei gyfranu. Canys y mae fy ngofal yn llawer mwy am i'm cystuddiau gael eu santeiddio, nac am iddynt gael eu symud. Bydded i ti, O Dduw, fy nghyfrif i yn mysg y dynion dedwydd hyny, pa rai, tra yr ydwyt yn eu ceryddu, sydd yn cael eu dysgu allan o'th gyfraith! Salm 94. 12. *Gwna i mi wybod*, yr wyf yn atolygu arnat, *paham yr ymryseni â mi* (Job 10. 2); a phaham y'm puri â'r tân, yr hwn sydd mor boenus i mi, tra yr ydwyf yn myned trwyddo! Onid ydwyt yn ceryddu dy blant i'r dyben hwn, sef, *fel y byddont yn gyfranogion o'th santeiddrwydd*? Heb. 12. 10. A thi a wyddost, O Dduw, mai dyma yr hyn yr wyf fi yn ei geisio. Yr ydwyf yn gyfranog o'th ddaioni di bob dydd a munud o'm bywyd. Yr wyf yn gyfranog o'th efengyl, ac yr wyf yn gobeithio fy mod hefyd mewn rhyw fesur yn gyfranog o ras yr efengyl yn gweithredu ar fy nghalon. O! bydded i mi deimlo ei weithrediadau fwy-fwy, fel y byddwyf hefyd yn helaeth gyfranog o'th santeiddrwydd yn yr un modd; fel y byddo i mi gael fy ngwneyd debygach debygach i ti, O Dduw bendigedig, mewn meddwl a thymer, yr hwn wyt y copi mwyaf rhagorol o bob perffeithrwydd! Bydded i'm henaid gael ei doddi, er gorfod o honof ddyoddef megys poethder eithaf y ffwrn danllyd o brofedigaeth, os bydd i mi ond cael fy ngosod yn mold yr efengyl, ac felly ddwyn dy ddelw hawddgar a disglaer di! O Arglwydd, fy enaid a hiraetha am danat ti, ie a waedda am y Duw byw! Salm 84. 2. Yn dy bresenoldeb di, a than nawdd dy gariad, mi a allaf ddyoddef unrhyw drallod; ac yr wyf yn ewyllysgar i ddyoddef pob peth, os bydd i mi trwy hyny gael fy ngwneyd yn fwy hawddgar yn dy olwg, ac yn fwy cymwys i'th deyrnas. Fe dderfydd dyddiau fy ngorthrymder; fe

Digitized by Google

ddaw yr awr o'r diwedd pan *y tychi ymaith fy holl ddagrau* (Dat. 21. 4.): ac *er aros o honi, eto mi a ddysgwyliaf am dani*, Hab. 2. 3. Y mae fy nghalon ffol yn barod i gynyddu mewn cariad at y ddaear, er amled fy mhrofedigaethau, gofidiau, a'm siomedigaethau; ac yr ydwyt ti, O Dduw, yn ymddwyn yn rasol ataf fi, trwy dori y rhwymau ag sydd yn fy rhwymo i yn fwy sefydlog wrthi hi. Boed i'm henaid allu amgylch wregysu ei hun, gan danu ei adenydd megys mewn dysgwyliad am yr awr wynfydedig hòno, yn mha un y caiff efe adael yn ol ar unwaith ei holl ofidiau a'i rwystrau, ac ehedeg ymaith i fyfyrio yn helaeth gyda hyfrydwch anfeidrol yn ardaloedd rhyddid, heddwch, a gorfoledd! Amen.

## PENNOD XXVI.

### Y CRISTION YN CAEL EI GYNORTHWYO YN EI YMOFYNIAD YN NGHYLCH CYNYDD EI RAS.

Y chwiliad yn bwysig, Dosparth, 1. Gau nodau o gynydd i gael eu gochelyd, 2. Gwir nodau yn cael eu cynyg; megis, (1.) Cariad cynyddol at Dduw, 3. (2.) Caredigrwydd at ddynion, 4. (3.) Tueddfryd hynaws, 5. (4.) Addfwynder dan niweidiau, 6. (5.) Sirioldeb yn nghanol pethau ansicr bywyd, 7. (6.) Gostyngeiddrwydd, 8. Yn enwedig fel yn cael ei osod allan mewn ymarferiadau efengylaidd o eiddo y meddwl at Grist a'r Ysbryd, 9. (7.) Brwdfrydedd dros y bri dwyfol, 10. (8.) Parodrwydd parhaus a siriol i newid bydoedd, pa bryd bynag y pennoda Duw hyny, 11. Diweddglo, 12. Y cristion yn hiraethu am gynydd mewn gras.

1. Os wyt ti trwy ras dwyfol wedi dy aileni, *nid o had llygredig, eithr anllygredig* (1 Pedr 1. 25.), sef *trwy air Duw, yr hwn sydd yn aros yn dragywydd*, nid yn

Digitized by Google

unig yn y byd ac yn yr eglwys, eithr hefyd yn y calonau yn mha rai yr hauwyd ef; fe fydd i ti fel plant bychain newydd eni, chwennych didwyll laeth y gair, fel y cynyddech trwyddo ef, 1 Pedr 1. 2. Ac er nad ydym ond plant ar y goreu yn y cyflwr hwn, mewn cymhariaeth i'r hyn yr ydym yn gobeithio fod yn y byd nefol, pan ddelom yn *wŷr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist* (Eph. 4. 13.); eto gan fod genym ryw ymarferiad o reswm wedi ei santeiddio mewn rhan, diamheu ein bod yn chwennych myned yn y blaen ar gynydd. A thithau, fy narllenydd, *os profaist fod yr Arglwydd yn dirion* (1 Pedr 2. 3.), ydwyt yn ddiamheu yn profi y dymuniad hwn. Mi a geisiaf, gan hyny, ymdrechu dy gynorthwyo yn yr ymofyniad hwn, sef, A yw crefydd yn myned ar gynydd yn dy enaid? ac yn y man hwn yr wyf yn dy rybuddio rhag gau arwyddion o gynydd mewn gras; ac felly mi a gaf osod o'th flaen di rai nodau mwy sicr ar ba rai y gelli ymorphwys.—Yn gyntaf mi a ddymunwn sylwi, na ddylit ti ddim mesur cynydd dy ras yn unig wrth dy gynydd mewn gwybodaeth, zel, neu unrhyw nwyd arall o eiddo y meddwl, nac wrth dy wresogrwydd mewn crefyddolder yn unig; ond wrth fwriad a gogwyddiad sefydlog a gwastadol yr ewyllys tuag at Dduw; ac wrth dy dueddiad i ufyddhau i'w orchymynion, i ymostwng i'w drefniadau, ac i fod yn offeryn i ddwyn i ben ei amcanion ef yn y byd.

2. Rhaid addef fod gwybodaeth, a zel mewn crefydd, yn bethau dymunol iawn; canys heb ryw radd o'r gyntaf, nis dichon crefydd fod yn rhesymol, ac y mae yn rhesymol i gredu nas dichon fod crefydd wirioneddol mewn un dyn heb ryw gymaint o zel yn cydfyned â hi. Etto, fe all fod llawer o ddeall pen, a llawer o nwydau poethion, heb ddim gwir grefydd; am hyny llawer fwy lle nad oes cynydd ynddi. Fe all yr ymar-

feriad o'n galluoedd naturiol yn nghylch y prawf o wirionedd y datguddiad dwyfol, a'r cyhoeddiad o hono yn yr ysgrythyr, fod yn foddion i lanw pen y dyn mwyaf drygionus a chorff o dduwinyddiaeth iachus, a'r galon yn cael ei gadael heb na chredu na theimlo un o'r cyfryw athrawiaethau. Darluniad hyawdl o ddyoddefaint Crist, o'r farn a fydd, a llawenydd y saint, ac o drueni y damnedigion, a all gyffroi calon dyn, na chredodd yn iawn am y fath bethau erioed; yn yr un modd ag yr ydym yn fynych yn profi ein serchiadau yn cynhyrfu wrth wrando araeth ragorol, er ein bod yn gwybod ar yr un pryd, ei bod heb ei sylfaenu ar ddim ond dychymyg yn unig. Fe all tynerwch naturiol neu ryw achosion damweiniol, y rhai ydynt yn rhy wael i son am danynt yma, lanw y llygaid o ddagrau, y rhai a redant yn helaeth ar bob rhyw achlysur. Diffyg amynedd, mewn dyn o duedd hollol groes i ysbryd addfwyn cristionogaeth, a all beri i'w waed ferwi, pan fyddo yn clywed yr athrawiaethau pa rai y bu efe yn gyhoeddus ac yn wresog yn eu mynwesu, yn cael eu dadleu a'u gwrthwynebu. Hyn o bosibl a'i harwain ef i dywallt allan ei zel a'i gynddaredd mewn modd digllon ger bron Duw, gan feddwl ei fod ef, fel Duw y gwirionedd, yn Noddwr i'r athrawiaethau hoff hyny, trwy ymddangosiadau teg pa rai y cafodd efe ei hunan o bosibl ei gamarwain. Ac os yw y fath ddiwygiad golygol, neu y fath ruthr gwresog o eiddo y meddwl yn bosibl lle nad oes dim crefydd, y mae yn amlwg y dichon llawer o ddeall ac o zel gyd-sefyll â gradd isel iawn o honi. Mi a ewyllysiwn, gan hyny, O fy nghyfaill, dy arwain di i feddyliau mwy dyrchafedig, ac at arwyddion mwy cywir o gynydd gras; mi a fynwn dy gyfeirio di at ysgrifeniadau ymarferol dynion eraill, ac yn enwedig, at lyfr Duw, er mwyn profi pa

Digitized by Google

mor bwysig ydynt. Yr wyf gan hyny yn atolygu arnat i alw ar dy galon i ateb, megis ger bron Duw, i'r fath ymofynion â hyn:—

3. A ydwyt ti yn gweled fod cariad dwyfol, ar y cwbl, yn myned ar gynydd yn dy enaid? A ydwyt ti yn cael dy hunan yn fwy teimladwy o bresenoldeb Duw; ac a ydyw y fath deimlad yn fwy hyfryd yn awr nac o'r blaen? A elli di, pan fyddo dy ysbrydoedd naturiol yn isel, a phan na fyddech mewn tymer wresog yn dy enaid, ymarfer â duwioldeb, a elli di, er hyn oll, ddywedyd fod dy galon yn profi gorphwysdra tawel a dymunol, yn y meddwl fod Duw yn agos atat, ac yn gweled holl feddylfryd dy enaid; pan fyddech megis yn tynu ar i fynu, gan daflu golwg hiraethlon tuag ato ef, er na elli ddywedyd dy fod yn deimladwy o gyfraniadau ei ras? A ydwyt ti yn foddlon i agor dy galon o'i flaen ef i gael ei chwilio? i'w rhoddi iddo ef yn noeth, ac mewn modd diffuant, gan ddywedyd gyda Dafydd, *O Arglwydd ti a adwaenost dy was*, 2 Sam. 7. 20. A ydyw cyfraith santaidd Duw yn myned yn fwy cymeradwy yn dy olwg, yr hon yw y copi o'i briodoliaethau moesol ef? A ydwyt ti yn y dyn oddifewn yn cyfrif ei orchymynion ef yn uniawn am bob peth? Salm 119. 128. A ydwyt ti yn canfod, nid yn unig yr angenrheidrwydd o ufudd-dod, ond hefyd, y rhesymoldeb, yr harddwch, a'r pleser, sydd ynddo; ac a wyt ti yn profi dy fod yn dirmygu yn fwy y pethau hyny ac a gynygir fel gwerth am dy ddiniweidrwydd, a'r pethau a'th demtiant i beryglu dy hawl yn heddwch a chyfeillgarwch Duw? A wyt ti yn cael ynot dy hun ddymuniad cywir i geisio rhyngu bodd Duw? A hyny nid yn unig oblegid ei fod ef mor alluog, a chanddo gymaint o lywodraeth ar dda a drwg; ond hefyd o barch i'w natur hawddgar? Ac a wyt ti yn cael dy

Digitized by Google

galon yn cymodi yn reddfol ag ef, gan blygu yn y modd mwyaf isel i ewyllys dy Arglwydd, yn yr hyn a orchymynodd i ti ei wneuthur, ac yn yr hyn a drefnodd i'th gyfarfod yn dy daith? A ydwyt ti yn gweled fod dy ewyllys di yn awr yn fwy parod yn mhob rhyw amgylchiad i ddwyn yr iau, ac i ymostwng i'r appwyntiad dwyfol, pa beth bynag a drefno Duw i ti ddyoddef neu i ymwadu ag ef? A elli di *mewn amynedd feddiannu dy enaid*? Luc 21. 19. A elli di ddangos mwy o dawelwch a sirioldeb parhaus, pan fyddo Duw yn ergydio at y pethau mwyaf anwyl genyt yn y byd hwn, ac yn gweithredu yn y modd mwyaf gwrthwynebol i'th fudd presenol, i'th nwydau a'th ddymuniadau naturiol? Os gelli, y mae yn arwydd o'r mwyaf rhagorol a diamheuol, fod gras wedi tyfu i fynu ynot i radd tra neillduol.

4. Ymofyn hefyd, pa serchiadau ydwyt yn brofi yn dy galon yn gweithredu tuag at ddynolryw yn gyffredinol o'th gwmpas.—A yw dy galon yn llifo trosodd o gymwynasgarwch diragrith a pharhaus? A ydwyt ti yn fwy teimladwy nac oeddit unwaith o'r rhwymau, pa rai sydd yn uno holl ddynolryw, yn enwedig cristionogion, yn un gymdeithas, ac yn eu gwneyd hwynt yn frodyr ac yn gyd-ddinasyddion? A ydwyt yn teimlo fod yr holl nwydau angharedig sydd ynot yn darfod, a serchiadau cymdeithasol yn cryfhau ac yn myned ar gynydd? Ac er na bu hunan-gariad yn egwyddor lywodraethol ynot, er pan ydwyt yn gristion, eto, gan fod peth gweddill o hono yn aros o'th fewn, ac yn ymddangos ar rai prydiau yn fwy neillduol, a ydwyt ti yn ymladd yn ei erbyn, ac yn ynnill tir? A wyt ti yn edrych arnat dy hunan fel un o'r rhif liosog hyny, ag sydd yn ystyried eu budd neillduol eu hunain yn beth o ychydig bwys, mewn cymhariaeth i ddaioni a budd



Digitized by Google

cyffredin y gymdeithas i ba un y perthyni; gan gredu y dylit ar bob achlysur, roddi heibio dy fantais dy hun, pan yn gwrthwynebu y lles cyffredin?

5. Chwilia dymer dy galon yn neillduol at y rhai ag yr ydwyt yn teimlo rhyw gasineb dirgel atynt, neu o leiaf bellder oddiwrthynt; y rhai y mynai calon heb ei santeiddio eu cau allan o fysg y sawl a garai hi? Pa fodd y mae dy galon at y sawl sydd o wahanol farn ac ymarferiad mewn pethau crefyddol? Nid ydwyf yn dywedyd fod cariad cristionogol yn dy rwymo i edrych ar bob cyfeiliornad yn beth diniwed. Nid yw ein gwaith yn ofni rhag i afiechyd ein cyfaill brofi yn fwy dinystriol nac y mae efe yn meddwl, mewn un modd yn brawf o ddiffyg cariad ato; ond i'r gwrthwyneb, fe ddichon ein tynerwch ato ar rai prydiau chwanegu ein hofnau: a'n cyffroi i geisio ei feddyginiaethu ef. Ond eto y mae casineb at bersonau dynion, oblegid ein bod ni yn meddwl eu bod hwynt yn camsynied, a'n gwaith yn gosod allan fod pob gwahaniaeth mewn barn a buchedd yn ddinystriol ac yn ddamniol, a thrwy hyny yn tori pob cariad a chymundeb cristionogol, yn arwydd o waeth pethau na'r hyn a gondemnir. A ydwyt ti yn caru delw Crist ar y cyfryw ddyn ag sydd yn barnu yn ei gydwybod y dylai efe addoli Duw mewn modd gwahanol i'th drefn di? Ië, yn mhellach, a elli di garu a pharchu yr hyn sydd yn hardd a rhagorol yn y sawl yr ydwyt yn gweled llawer yn ddiffygiol; yn y rhai y mae cymysgedd o gyndynrwydd a chyfyngder ysbryd, yr hyn a all eu harwain, o bosibl, i'th ddiystyru ac i'th oganu di? A elli di garu y rhai hyny fel dysgyblion a gweision i Grist, er eu bod trwy zel gyfeiliornus, yn barod i fwrw dy enw di allan megis drwg (Luc 6. 22.), ac i rybuddio eraill i'th ocholyd di fel un peryglus? Os felly, y mae yn arwydd nid

Digitized by Google

bychan fod cariad brawdol yn buddugoliaethu ynot, a chrefydd yn myned ar gynydd yn dy enaid.

6. Ystyria yn mhellach ar y pen hwn, pa mor bell y gelli di ddyoddef cam? Y mae math o galedrwydd enaid yn yr ystyr hwn, ag sydd yn profi cyflwr o gadernid mewn rhinwedd a duwioldeb. A yw pob cam ag ydwyt yn gael yn dy derfysgu di, fel ag yr ydwyt yn llunio pa fodd y bydd i ti allu talu y pwyth; neu o leiaf pa fodd y bydd i ti allu gwaradwyddo yr hwn a wnaeth yn anghyfiawn â thi? Neu ynte, a elli di wrthsefyll yr ergyd mewn modd tawel, gan droi dy feddwl yn hawdd at wrthrychau eraill, a chan dosturio wrth, a gweddio dros, y cyfryw rai ag a wnaethant gamwedd â thi gyda y tymerau a'r bwriadau mwyaf mileinig? Dyma yn wir dymer gyffelyb i dymer Crist, ac efe a'i harddel hi fel y cyfryw; efe a'th arddel di fel un o'i filwyr, ïe, fel un o'i filwyr glewaf, yn enwedig os bydd i'r dymer hon dy ddwyn mor bell a *gorchfygu drygioni trwy ddaioni*, Rhuf. 12. 21. Gwylia ar dy ysbryd ac ar dy dafod, pan fo neb yn gwneyd cam â thi; edrych, pa un a ydwyt yn barod i fyfyrio arno, i'w osod yn y goleu gwaethaf i ti dy hun, i achwyn o'i blegid wrth eraill, ac i feio y sawl a fynent dy ddrygu, hyd ag y gelli yn gyfiawn? Neu ynte, a wyt ti yn barod i osod y lliw mwyaf dymunol ar y tramgwydd; i'w esgusodi mor bell ag y mae yn rhesymol; ac er dued y gallo ymddangos wedi y cwbl, a wyt ti yn barod i'w faddeu o'th galon, a hyny cyn y bo ymostyngiad yn cael ei wneyd am dano, na maddeuant yn cael ei ofyn i ti? Ac fel arwydd o'th fod yn gwir faddeu, a ydwyt ti yn ymofyn pa ryw ddaioni a elli wneyd i'r hwn a'th ddrygodd, er mwyn dysgu iddo dymer well?

7. Hola dy hun yn mhellach, mewn perthynas i ddrygau a thrallodion ereill y bywyd hwn, ynghylch hyd

Digitized by Google

yn oed anwadalwch y pethau hyn, pa fodd yr ydwyt ti yn ymddwyn danynt? A ydwyt ti yn profi fod dy enaid yn dyfod yn fwy gwrol yn yr ystyr hwn? A oes ynot lai o ofnau daroganllyd, ac o ddychryn ag sydd yn dy aflonyddu ynghylch yr hyn a allo ddygwydd mewn bywyd, nac oedd ynot unwaith? A elli di ymddiried yn noethineb a daioni Duw, i drefnu dy achosion, a hyny gyda mwy o sirioldeb a boddlonrwydd, nac o'r blaen? A ydwyt ti yn alluog i gasglu dy feddyliau ynghyd yn fwy, wrth sylwi ar dy amgylchiadau presenol, fel ag yr ydwyt yn casglu beth yw dy ddyledswydd yn awr, beth bynag a drefno Duw i ti yn ol llaw? A phan deimlech wýn cystudd, a ydwyt ti yn gwneuthur llai o fater o hono? A yw dy galon di yn myned trwodd yn fwy hawdd at wrthrychau nefolaidd, heb unrhyw ofal trymdriat am gael symud y baich hwn ac arall, os bydd i'r cwbl ond cael eu santeiddio i ddwyn yn mlaen dy gymundeb â Duw, ac i'th addfedu i ogoniant?

8. Hola hefyd, pa ún a ydwyt yn cynyddu mewn gostyngeiddrwydd? Gras dystaw yw hwn, er hyny y mae yn dra rhagorol; a'r sawl sydd wedi cynyddu fwyaf ynddo, ydynt y rhai anwylaf gan Dduw, a'r gwrthrychau mwyaf cymwys i dderbyn amlygiadau o'i bresenoldeb ef. A ydwyt ti yn teimlo dy feddwl yn cael ei waghau fwyfwy o falchder ac o ddychymygion trahaus; ac heb fod mor barod i edrych yn ol ar y gwasanaeth a gyflawnaist, ag i ystyried yr hyn sydd o'r blaen, ynghyd a'r anmherffeithrwydd mewnol ag sydd yn dy galon? A ydwyt ti yn edrych ar dy lithriadau a'th gamymddygiadau o ddydd i ddydd. gyda mwy o ofal, gan alaru ger bron yr Arglwydd am y pethau ag yr oeddit unwaith yn edrych arnynt yn rhy dystadl i wneyd sylw o honynt; eto pan ddeui i'w chwilio fel ger bron Duw, y cei weled nad ydynt yn

hollol wrthwyneb i'th ewyllys, nac yn rhydd oddiwrth euogrwydd? A wyt ti yn teimlo yn dy fynwes ddyfnach ystyriaeth o anfeidrol fawredd y Duw bendigedig, ac o ogoniant ei briodoliaethau naturiol a moesol? Ac a yw y fath olwg yn dy ddiddymu di megis yn ei bresenoldeb, fel yr ydwyt yn cyfrif dy hun *yn llai na dim, ac na gwagedd*? Esay 40. 17. Os dyma dy dymer, Duw a edrych arnat gyda serch neillduol, ac a ymwel â thi a bendithion mwy rhagorol ei ras.

9. Ond y mae cangen ac effaith fawr arall yn tarddu oddiar ostyngeiddrwydd cristionogol, ac fe fyddai fy fy ngwaith yn esgeuluso son am dani yn fai anfaddeuol. Rho genad i mi, gan hyny, i ofyn; a ydwyt ti yn adnewyddu yn fynych dy ddyfodiad, dy ddyfodiad diragrith, at gyfiawnder a gwaed Iesu Grist, gan deimlo pa mor annheilwng ydwyt ti i ymddangos ger bron Duw, mewn unrhyw ffordd arall? A yw yr olwg ar lygredigaethau dy galon yn dy ddwyn yn isel o flaen yr Arglwydd, er bod dy fuchedd mewn mesur mawr wedi ei gwellhau? A wyt ti yn fwy taer am gael profiad o ddylanwadau bywiog yr Ysbryd santaidd; ac a oes genyt y fath adnabyddiaeth o dy wendid dy hun, ag sy yn dy rwymo di i ymddibynu yn hollol ar gyfraniadau ei ras ef i gynorthwyo dy wendid (Rhuf. 8. 26.), yn nghyflawniad dy holl ddyledswyddau? A elli di, ar ddiwedd dy ddyddiau mwyaf defnyddiol a chrefyddol, wridio ger bron Duw oblegid dy anmherffeithrwydd, tra mae ereill o bosibl yn barod i ryfeddu a chlodfori dy ymddygiad? A thra yr ydwyt yn rhoddi y gogoniant o'r hyn oll ag sydd yn uniawn iddo ef, oddiwrth ba un y derbyniaist nerth a gras, a wyt ti yn dyfod at waed y taenelliad, i gael dy wared oddiwrth yr euogrwydd sy yn ymgymysgu hyd yn oed â'th wasanaeth goreu? A wyt ti yn dysgu derbyn pethau da rhag-



Digitized by Google

luniaeth, nid yn unig gyda diolchgarwch, fel y maent yn dyfod oddiwrth Dduw, ond hefyd gyda chymysgedd o gywilydd a syndod, gan gydnabod nad ydwyt yn eu haeddu, a'th fod bob awr yn fforffedu dy hawl iddynt? Ac a ydwyt ti yn cyfiawnhau rhagluniaeth yn dy gystuddiau a'th siomedigaethau, a hyny pan fyddo llawer yn blodeuo o'th gwmpas mewn llwyddiant, pechodau pa rai a fuant, o leiaf, yn fwy cyhoeddus ac erchyll na'th eiddo di?

10. A ydwyt ti hefyd yn mynod ar gynydd mewn sel a bywiogrwydd yn ngwasanaeth Duw, ac yn dy waith yn ceisio dedwyddwch dynolryw? A yw gwirionedd dy gariad yn ymddangos, trwy fod gweithredoedd da yn llifo yn barhaus oddiwrtho? A elli di edrych ar ofidiau rhai ereill gyda thosturi tyner, gan lunio pa fodd y bydd i ti allu eu cysuro hwynt? A oes teimlad yn dy fynwes, dy fod di yn fynychach *yn dychymyg haelioni?* Esay 32. 8. Ac a wyt ti yn cael ynot barodrwydd i ymwrthod â'th fudd ac â'th bleserau dy hun, er mwyn gallu gwneyd daioni i ereill? A wyt ti yn cael dy ddychymygion yn gyflawn o ddyfais, pa fodd y gellych oreu danu yr efengyl, ddwyn yn mlaen achos Crist yn y byd, a gwneyd dy gydgreaduriaid yn fwy dedwydd? A wyt ti nid yn unig yn gweddio am y pethau hyn, ond hefyd yn llafurio am danynt; a hyny yn y fath fodd ag sy yn profi dy fod yn onest yn dy weddiau? Ac a wyt ti yn teimlo ynot barodrwydd i wneuthur yr ychydig a elli yn achos crefydd, er dy fod yn gweled ereill, ag a allent yn gyfleus, pe mynent, wneuthur llawer mwy, yn anewyllysgar i wneuthur dim.

11. Ac i beidio ymhelaethu ar y pen cynwysfawr hwn, ymofyn eto unwaith, Pa fodd y mae dy serchiadau yn sefyll at y byd hwn, a'r hwn a ddaw? A wyt ti yn profi argyhoeddiad dyfnach o wagedd y pethau a

Digitized by Google

welir ag ydynt amserol? 2 Cor. 4. 18. A ydyw dy ddisgwyliad am gysur oddiwrthynt, a'th serch atynt, yn lleihau? Yr ydwyt yn foddlon i aros yn y byd hwn, hyd ag y gwelo dy Dad nefol yn dda; ac y mae hyny yn gymwys: ond a wyt ti, er hyny, yn teimlo dy gadwynau ag sydd yn dy ddal i lawr, yn ymollwng, fel yr ydwyt yn foddlon o'th galon i ymadael â'r ddaear, ar y rhybudd byraf; fel, pe bai da gan Dduw dy alw di yn ddisymwth ymaith, a hyny o ganol dy ofalon, dy bleserau, dy ddysgwyliadau a'th obeithion y byddit yn ewyllysgar i gael dy symud, heb ddywedyd, 'Arglwydd, gâd i mi aros eto ychydig yn hwy, fel y gallwyf fwynhau y wledd ddymunol hon ac arall, fel y bo i mi ddwyn i ben y bwriad hwn neu arall?' A elli di feddwl gyda thawelwch greddfol a boddlonrwydd calon, (pe ewyllys Duw fyddai hyny,) wedi gorwedd i lawr ar dy wely, am beidio cael deffroi byth mwy; neu wedi yr elech allan o'th dŷ, am beidio dychwelyd byth drachefn? Ac ar y llaw arall, pa mor drwm bynag y gallo dy feichiau fod mewn bywyd, a ydwyt ti yn ewyllysgar i'w dwyn hwynt, mewn ymostyngiad i ewyllys dy Dad nefol, er gorfod gwneuthur felly dros lawer o flynyddoedd eto i ddyfod; ac er bod i'r blynyddoedd hyny ddwyn gyda hwynt fwy o orthrymderau nac a welaist erioed o'r blaen? A elli di ddywedyd gyda chalon dawel a sefydlog, os nid gyda y fath serchiadau tyner ac y dymunech, Wele dy wasanaethwr, dy blentyn, yn dy law, gwna â mi fel y bo da yn dy olwg! 2 Sam. 15. 26. Y mae fy ewyllys i wedi ei doddi a'i lyncu i fynu yn dy ewyllys di; yr wyf yn foddlon i gael fy nyrchafu neu fy narostwng, i gael fy nwyn allan neu i mewn, i fod yma neu acw, yn yr amgylchiad hwn neu arall, fel y rhyngo bodd i ti, ac fel y bo yn gweddu oreu i drefn dy lywodraeth fawr ac ehang, yr hon drefn

Digitized by Google

y mae yn anmhosibl i mi, na holl angylion y nefoedd, ei gwneyd yn well.

11. Y rhai hyn, os wyf fi yn deall pethau yn iawn, ydynt rai o'r tystion mwyaf sylweddol o gynydd a chadernid mewn crefydd. Ymofyn ar eu hol: diolch i Dduw am danynt, mor bell ag yr ydwyt yn eu gweled ynot dy hun; ac ymdrecha i gynyddu ynddynt o ddydd i ddydd, dan ddylanwadau gras dwyfol, i ba un yr wyf yn dy orchymyn o'm calon, ac yr wyf yn ymbil arnat i orchymyn dy hunan yn fynych i'r unrhyw.

*Y Cristion yn gweddio yn daer am gynydd mewn gras.*

O Arglwydd, tydi ydwyt y Ffynon fyth fendigedig, o ba un y tardd ein bywyd naturiol ac ysbrydol! Yr wyf yn diolch i ti fy mod i yn fyw, ac yn adnabod rhan o ymarferiadau a phleserau y bywyd crefyddol. Yr wyf yn dy fendithio am i ti anadlu ynof dy anadl bywiol dy hun, er fy mod unwaith yn farw mewn pechodau a chamweddau (Eph. 2. 1.); fel ag yr ydwyf, mewn ystyr neillduol i'th blant di, yn enaid byw, Gen. 2. 7. Eto yr wyf yn dymuno yn daer a'r i mi nid yn unig allu byw, ond hefyd cynyddu; cynyddu mewn gras, a gwybodaeth o'm Harglwydd a'm Iachawdwr Iesu Grist (2 Pedr 3. 18), ar yr adnabyddiaeth o ba un, y mae yn eglur fod fy nghynydd yn dibynu. Gan ystyried hyn, yr wyf yn ymbil yn ostyngedig arnat, i ffurfio fy meddwl i iawn farn mewn crefydd, fel na bo i mi farnu am ras wrth unrhyw gam dybiau yn ei gylch ef, na mesur fy nghynydd ynddo, wrth y pethau hyny ag na allant fod ddim amgen nac effeithiau natur yn unig, ac o bosibl, ei heffeithiau llygredig hefyd. Gwna i mi ymofyn am fwy o gariad dwyfol atat ti, fy Nuw, a'm Tad yn Nghrist, am fwy o ymroddiad, ac o ymostyng-

ad rhydd i'th ewyllys doeth a santaidd di, ac am fwy o gymwynasgarwch at fy nghyd-greaduriaid! Par i mi gynyddu mewn amynedd a chadernid enaid, mewn gostyngeiddrwydd a zel, mewn tueddiad meddwl mwy ysbrydol a nefolaidd, ac mewn gofal, pa un bynag ai gartref y byddwyf ai oddi cartref, fy mod yn gymeradwy gan yr Arglwydd (2 Cor. 5. 9.), fel pa un bynag ai byw ai marw y byddwyf, fod hyny er ei ogoniant ef! Mewn gair, gan y gwyddost fy mod i yn newynu ac yn sychedu am gyfiawnder, gwna fi yr hyn y bo dymunol genyt fy ngweled. Tyn ar fy enaid, trwy ddylanwadau tawel dy ysbryd grasol, y fath ddelw ag y bo i'th lygad di, O Dad nefol, edrych arni gyda phleser; y fath ag a fyddo i ti ei harddel fel dy ddelw dy hun. O Arglwydd, yr wyf yn gwybod nad ydwyf wedi cael gafael; ie, y mae fy enaid yn cael ei orchuddio gan gywilydd wrth feddwl pa mor bell wyf o fod eto yn berffaith: eithr un peth wyf yn ewyllysio (yn ol siampl fawr dy apostol, a siampl mwy perffaith ei Arglwydd) sef, *anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen*, Phil. 3, 12, 13.

O na bai i ti borthi fy enaid â'th air ac â'th Ysbryd! Gan fy mod, fel yr wyf yn gobeithio, wedi fy aileni, nid o had llygredig, eithr anllygredig trwy air Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd (1 Pedr 1. 23.), yr wyf yn chwennych didwyll laeth y gair, fel y cynyddwyf trwyddo ef (1 Pedr 1. 2.); a bydded fy nghynydd yn amlwg i bawb (1 Tim. 4. 15.); hyd nes o'r diwedd y delwyf "*yn wr perffaith, i fesur oedran cyflawnder Crist*;" ac wedi cael o honof fwynhau dedwyddwch y sawl ag ydynt yn blaguro yn dra rhagorol yn dy gynteddau daearol, boed i ti fy sefydlu yn dy baradwys fry! Yr wyf yn gofyn, ac yn gobeithio am hyn, trwyddo Ef yn unig, *o gyflawnder pa un yr ydym oll yn*

*derbyn gras am ras,* Ioan 1. 16. *Iddo ef y byddo y gogoniant yn awr, ac yn ddiddiwedd!* 2 Pedr 3. 18. Amen.

## PENNOD XXVII.

### Y CRISTION, WEDI MAWR GYNNYDD MEWN GRAS, YN CAEL DWYN AR GOF IDDO AMRYW DRUGAREDDAU YR ARGLWYDD, A'I ANNOG I'W GARU EF, AC I LAWENHAU YNDDO.

**Bod llawenydd santaidd yn Nuw, yn fraint i ni yn gystal ag yn ddyledswydd arnom, Dosparth 1. Y cristion yn cael ei wahodd i'r ymarferiad o hono, 2. (1.) Trwy y darluniad o drugareddau tymhorol, 3. (2.) Trwy yr ystyriaeth o ffafrau ysbrydol, 4. (3.) Trwy yr olwg am hapusrwydd tragywyddol, 5. Ac, (4.) Yr olwg ar drugareddau Duw i ereill, y byw a'r meirw, 6. Y bennod a derfyna gyda chyngor i'r ymarferiad nefol hwn, 7. a chydag esampl o wir weithrediad y llawenydd diolchgar hwn yn Nuw.**

1. Mi a gaf yma gymeryd yn ganiataol fod fy narllenydd, wrth hunan-ymholi yn gweled ei fod ef yn myned ar gynydd mewn gras. Ac os wyt yn dymuno i'r cynydd gael ei ddwyn yn mlaen a'i gydnabod, gâd i mi alw ar dy enaid i arfer cariad mwy gwresog tuag at Dduw, a llawenydd ynddo, yr hyn sydd yn cryfhau, yn dyrchafu, ac yn addas i gymeriad y cristion sydd wedi cynnyddu yn fawr mewn gras; ac yr wyf yn atolygu arnat i ystyried y pethau hyn, nid yn unig yn fraint, ond hefyd yn ddyledswydd arnat. Cariad yw yr egwyddor hael a rhagorol o bob rhyw ufudd-dod gwirioneddol a derbyniol; ac â chariad, pan wedi ei sefydlu yn ddoeth, y mae yn angenrheidiol fod llawenydd yn cydfyned, a hyny yn naturiol yn ol y gradd o

Digitized by Google

hono a fyddo yn y galon. Y mae yn achos o alar cyfiawn i ddyn a edrycho i mewn i natur cristionogaeth, feddwl pa ryw fywyd isel a daearol, y mae hyd yn oed y cyffredinolrwydd o gristionogion diragrith yn fyw yn yr ystyr hwn. *Llawenhewch gan hyny, yn yr Arglwydd, y rhai cyfiawn, a moliennwch wrth goffadwriaeth ei santeiddrwydd ef* (Salm 97. 12.), ac yn yr holl ogoniant a'r priodoliaethau ereill ag sydd yn gynwysedig yn yr enw dyrchafedig, rhyfeddol, a dymunol hwnw, yr ARGLWYDD DY DDUW! Na fydded i ti dreulio dy funudau yn unig mewn cyfaddefiadau ac erfyniadau, er bod y cyfryw bethau yn angenrheidiol bob dydd: eithr boed i ti roddi rhan helaeth o'th amser i gyflawni y gwaith nefolaidd o fawl. Ymdrecha i gael dy galon bob amser yn gyflawn o hwn.

2. Onid oes pelydr gwastadol a digonol yn cael eu gwasgaru oddiwrth Dad goleuni a chariad, pa rai a allant enyn fflam o gariad gwresog yn dy fynwes di? Tyred, fy nghyfaill a'm brawd cristionogol, tyred, a chyda mi cymer olwg ar ddaioni dy Dad nefol. Ac, O na roddai efe i mi y fath deimlad o hono, fel y gallwn ei osod ef allan mewn modd cymwys; fel tra byddwyf yn myfyrio, yr enyno tân yn fy nghalon fy hun (Salm 39. 3.), a hwnw i gael ei gyfranu i'th galon dithau. O na byddai iddo trwy yr hyn wyf yn ei ysgrifenu, fyned o enaid i enaid; gan adfywio yn mynwes pob un a ddarlleno y llinellau hyn, feddyliau mwy addas i blant Duw, ac i etifeddion gogoniant, y rhai sydd i fyw yn dragywyddol yn yr ymarferiadau santaidd at ba rai yr wyf yn awr yn ymdrechu eu cyffroi!

3. Onid oes genyt ti achos i fabwysiadu geiriau Dafydd, gan ddywedyd, *Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw, mor fawr yw eu swm hwynt; pe cyfrifwn hwynt, amlach ydynt na'r tywod!* Salm 139. 17, 18. Ti

Digitized by Google

a wyddost yn wir pa le i ddechreu cyfrif, canys dechreuodd daioni Duw i ti pan y cefaist dy fod. Gwna goffà am dano gan hyny, gyda chalon ddiolchgar. Clodfora Dduw am ddarfod i'r llygaid, pa rai a welsant dy ddefnydd anelwig, fod yn ofalus am danat pan y'th wnaethpwyd yn ddirgel, ac am iddynt wylied drosot yn ol llaw; ac am i'r llaw yr hon a luniodd dy aelodau, pan nad oedd yr un o honynt (Salm 139. 15, 16.), nid yn unig eu llunio hwynt, ond o'r amser hwnw, fod yn ofalus i gadw dy esgyrn, fel na thorwyd un o honynt (Salm 34. 20.); ac mai am hyny yr ydwyt yn fyw. Edrych yn ol ar y llwybr a gerddaist er yr amser y dygodd Duw di o groth dy fam, a dywed, onid yw yr holl ffordd megis yn llawn o nodau ac o goffadwriaethau o ddaioni Duw i ti? Cofia y lleoedd y preswyliaist ynddynt, a'r dynion y bu i ti gyfeillach agos â hwynt; a galw i gof y trugareddau a dderbyniaist ti yn y cyfryw fanau, ac oddiwrth y cyfryw ddynion, fel offerynau o ddaioni a gofal Duw. Cofia am yr anhawsderau a'r peryglon a'th gylchynasant; ac edrych yn ol yn astud ar yr hyn a wnaeth Duw er mwyn dy wared oddiwrthynt, neu i'th gynal trwyddynt. Cofia pa mor fynych y buost megis o fewn cam i angau; a meddwl pa mor fuan y darfu i Dduw rai gweithian ymddangos er dy ddiogelwch, a hyny cyn dy fod yn deimladwy o'th berygl. Meddwl am yr ystafelloedd yn mha rai y buost yn gorwedd yn glaf, o ba rai y meddyliaist unwaith, o bosibl, na ddeuit allan mwy; a dywedaist, gyda Hezeciah, yn nhoriad dy ddyddiau, "Af i byrth y bedd, difuddiwyd fi o weddill fy mlynyddoedd," Esay 38. 10. Y mae yn bosibl i Dduw chwanegu llawer o flynyddoedd at dy fywyd wedi hyny; ac ni elli wybod pa faint sydd eto yn ol, na pha faint o ddefnyddgarwch ac o hapusrwydd a all

Digitized by Google

gydfyned â phob un o honynt. Edrych yn ol ar yr amgylchiadau hynod hyny yn rhagluniaeth, ag a fu yn foddion i'th gylymu â rhwymau cariad â rhai o'th gyfeillion, yr hyn yw dy hapusrwydd penaf, oddieithr dy undeb â Duw. Ac nac anghofia yr amryw weithiau pan yr oedd y bywydau gwerthfawr hyny yn cael eu bygwth, bywydau ag oeddynt, o bosibl, yn fwy gwerthfawr yn dy olwg na'th einioes dy hun, y modd y bu i Dduw eu rhoddi hwynt yn ol o gyffiniau y bedd; ac felly peri i anwylder newydd darddu oddiar y fath amgylchiad tyner, yn dy holl gyfeillach â hwynt rhagllaw. Na ollwng yn angof chwaith, y modd y bu i Dduw mewn ffordd o ras gynal ereill o'th gyfeillion yn eu munudau diweddaf, gan eu nerthu hwynt i adael ar eu hol arogl peraidd o dduwioldeb, yr hyn sy'n peri fod coffadwriaeth dymunol am danynt, ïe, yr hyn a'th adfywiodd dithau pan ar lewygu dan ofidiau ag a deimlaist ar eu hymadawiad, ac, ar y cwbl, yr hyn a wnaeth hyd yn oed y coffadwriaeth am eu marwolaeth yn hyfryd.

4. Ond y mae hi yn llawn bryd i mi bellach geisio arwain dy feddyliau i ystyried y trugareddau ysbrydol, pa rai a gyfranodd Duw yn dra helaeth i ti. Edrych yn ol megis ar y graig o ba un y'th naddwyd, ac ar geudod y ffos y'th gloddiwyd o honi, Esay 51. 1. Myfyria yn astud ar y cyflwr yn mha un y cafodd gras dwyfol afael arnat: dan ba ryw euogrwydd a llygredd! Yn mha berygl a dystryw! Meddwl pa fath oedd, ac O! meddwl eto yn fwy neillduol, pa fath a fuasai dy ddiwedd! Llygad Duw, yr hwn sydd yn treiddio i'r byd tragywyddol, a welodd beth ag yr oedd dy feddwl di yn anwybodus ac yn anystyriol o hono, tra yr oeddit yn difyru dy hun â theganau ac â phleserau yr amser presenol: efe a'th welodd di ar



Digitized by Google

gyffiniau tragywyddoldeb, ac a dosturiodd wrthyt; efe a welodd y byddit yn mhen ychydig bach y fath greadur analluog a thruenus, ag yw y pechadur sydd yn awr wedi marw, yr hwn sydd, gyda syndod anfeidrol a dychryn tragywyddol, wedi derbyn ei ddedfryd annysgwyliadwy, ac y buasit megis yntau, yn cael dy daro â braw ac anobaith diddiwedd! Fe welodd Duw hyn, ac a dosturiodd wrthyt ti; a chan fod yn drugaro atat, trwy gyngor ei gariad a'i ras tragywyddol, efe a barotodd Brynwr i ti, ac a'th brynodd iddo ei hun trwy waed ei anwyl Fab: gwerth, os myfyri arno, ac os ystyri yn syml pa beth oedd, diamheu y bydd iddo gael y fath effaith arnat, fel y bydd i ti gwympo i lawr ger bron Duw, gyda chywilydd a rhyfeddod, wrth feddwl iddo erioed gael ei roddi am danat ti! I'r dyben o'th wared di yn mhellach, fe ddanfonodd ei ras i'th galon; ac felly, er dy fod gynt yn dywyllwch, yr ydwyt yn awr *yn oleuni yn yr Arglwydd*, Eph. 5. 8. Efe a weithiodd y cyfnewidiad hapus ag wyt ti yn awr yn deimlo yn dy enaid, a thrwy ei Ysbryd santaidd, yr hwn a roddwyd i ti, efe a dywalltodd ar lêd ynot yr egwyddor hon o gariad, Rhuf. 5. 5. pa un sydd megis yn ailenyn trwy ystyried y pethau hyn, ac yn myned yn fflam boethach nac o'r blaen yn dy galon. Hyd yma efe a'th gynhaliodd di yn dy yrfa gristionogol; a chwedi cael cymorth gan Dduw, wele, yr wyt yn aros hyd y dydd hwn, Actau 26. 22. Efe a'th fendithiodd, ac nid yn unig hyny, ond efe a'th wnaeth yn fendith i ereill (Gen. 12. 2.): ac er na buost mor ddefnyddiol, ag yr oedd yr egwyddor hael a santaidd a blanodd efe yn dy galon yn dymuno, eto ti a wnaethost ryw faint o les yn y sefyllfa yn mha un y'th osodwyd.

Fe gafodd rhai o'th frodyr yn mysg dynolryw eu diwallu genyt, a rhyw greadur anystyriol, o bosibl,

Digitized by Google

a gafodd ei ddwyn yn ol i rinwedd a dedwyddwch, trwy fendith Duw ar dy ymdrechiadau di. Fe allai fod rhai ar y ffordd i'r nef yn moli Duw am danat; a rhai yno yn barod, o bosibl, yn hiraethu am dy weled yn dyfod atynt hwy, fel y gallont ddiolch i ti mewn modd mwy rhagorol am y daioni a dderbyniasant trwyddot, pwys yr hwn a allant yn awr ei ddeall yn gyflawn, er tra yma na allent ei weled.

5. Gristion, edrych o'th gwmpas ar yr amryw, a'r aneirif fendithion, â pha rai y'th amgylchynwyd yn barod; a dyrchafa dy olwg eto yn uwch, at y pethau y mae ffydd yn eu gweled tufewn i'r llen. Meddwl am y llawenydd, er ei fod yr awr hon yn anhysbys i ti, gyda pha un y bydd i ti osod i lawr bob baich yn y bedd, ac y bydd i'th ysbryd anfarwol ddyrchafu yn ysgafn ac yn orfoleddus, yn santaidd ac yn hapus at Dduw, y Ffynon o ba un y mae pob peth yn derbyn ei fod, ei santeiddrwydd, a'i bleser; at Iesu, trwy yr hwn y mae pob bendith yn dylifo i ti, a'r hwn a drefna i ti orseddfainc yn ages i'w orsedd ei hun, fel y byddo i ti allu edrych ar, a bod yn gyfranog o ei ogoniant dros byth. Meddwl hefyd am y gorfoledd mawr gyda pha un y bydd i ti dderbyn drachefn dy gorff gwael llygredig hwn, ar foreuddydd yr adgyfodiad, wedi ei wneuthur ar ddelw Crist; ac wrth feddwl am y pethau hyn, dywed, "Nid myfi yn unig sydd yn gobeithio am y pethau hyn, ond y maent yn wrthrychau gobaith miloedd a myrddiynau gyda myfi. Y mae lliaws y rhai wyf yn gyfrif yn mysg fy nghyfeillion anwylaf ar y ddaear, yn cydlawenhau â mi, wrth feddwl am yr amseroedd hyfryd sydd i ddyfod. Y mae Duw yn rhoddi i mi, rai gweithiau, i weled y gwenau ar eu hwynebau, y gobaith melus a gostyngedig sydd yn sirioli yn eu llygaid, ac yn llewyrchu trwy eu dagrau o

ddiolchgarwch; ac i glywed ychydig o'u boddlonrwydd a'u gorfoledd mewnol, mor bell ag y dichon geiriau eu gosod allan.Ië, y mae torfeydd mwy, ag a fu unwaith mor anwyl yn fy ngolwg â'r rhai hyn, er i mi eu gosod hwynt yn y bedd, ac wylo uwch ben eu llwch, yn byw i Dduw, yn byw mewn meddiant o'r fath ddedwyddwch na ellir ei amgyffred, ac yn yfed yn helaeth o ddwfr y bywyd, yr hwn sydd yn rhedeg yn ffrydiau parhaus ar ei ddeheulaw ef.

6. O Gristion, yr ydwyt mewn undeb a pherthynas barhaus â'r cyfryw rai. Nis dichon angau dori yr anwylder ag sydd a'i sail mewn duwioldeb; ac ni ddylai dy wneuthur dithau yn anystyriol o hapusrwydd y cyfeillion hyny, am ba rai yr ydwyt yn cynal coffadwriaeth barchus. Y maent yn byw i Dduw, fel yn weision iddo ef; y maent yn ei wasanaethu ac yn gweled ei wyneb (Dat. 22. 3, 4.); ac nid ydynt hwy yn gwneyd i fynu ond rhan fechan o'r gymanfa ogoneddus hòno yn y nef. Y mae yno fyrddiynau mor deilwng o'th barch, a'th gariad ag ydynt hwythau, yn rhodio ardaloedd gwynfyd; ac a fydd i ti ddim llawenhau yn eu gorfoledd hwynt? Ac oni fydd i ti fawrhau y Ffynon dragywyddol o santeiddrwydd a dedwyddwch, o ba un y tardd eu holl ffrydiau o gysuron? Ië, yn mhellach, gan fod yr angelion bendigedig yn dy wasanaethu di, O gristion, ac yn dy ddwyn yn eu breichiau fel un o etifeddion iachawdwriaeth (Heb. 1. 14.), onid wyt ti yn llawenhau yn eu dedwyddwch hwythau hefyd? Ac onid wyt ti yn moliannu y Duw hwnw, pa un sydd yn rhoddi iddynt holl ogoniant rhagorol eu natur dra dyrchafedig, yn rhoddi iddynt nefoedd, ag sydd yn eu gwneyd hwynt yn gyflawn o wynfydedigrwydd, a hyny pan y maent megys yn

Digitized by Google

ymadael â hi, i'r dyben o wasanaethu arnat ti ar y ddaear?

7. Yr oedd, y mae, ac fe fydd, y Duw bendigedig ynddo ei hun yn anfeidrol mwy dedwydd na'r creaduriaid mwyaf hapus. Fe fydd i wynfydau yr ysbrydoedd bendigedig, pa rai sydd yn cylchynu ei orsedd ef, a'th ddedwyddwch dithau, barhau yn ddiddiwedd. Y goleuadau hyn a lewyrchant yn fflam anfethedig, a thithau a lewyrchi ac a losgi yn eu plith, pan fyddo haul a ser wedi diffodd. Eto cofia y bydd i'th holl oleuni darddu oddiwrth Dduw, y môr diwaelod o ogoniant. Fe fydd i Dad anghyfnewidiol y goleuni dywallt allan ei belydr ar holl drigolion y nefoedd; ac fe fydd eu llewyrch a'u dedwyddwch hwynt felly yn cynyddu i dragywyddoldeb! Ymostwng i lawr, O blentyn Duw, O etifedd y gogoniant, ymostwng a bydded i'r cwbl sydd ynot uno mewn un weithred o gariad tra diolchgar; a boed i'r hyn oll sydd o'th gwmpas, a'r cwbl sydd mewn golwg yn y tragywyddoldeb diderfyn, gytuno i ddyrchafu dy enaid mewn gorfoledd, fel y byddo i ti allu dechreu ar waith a gwynfydedigrwydd y nefoedd, yn dy waith yn plygu o flaen Arglwydd y nef, trwy agor dy galon i dderbyn ei ddylanwadau grasol ef, a thrwy anadlu allan ger ei fron ef arogldarth o fawl, yr hyn beth y mae pelydr cynes ei bresenoldeb a'i gariad yn tueddu yn fawr i'w ddwyn yn mlaen, a'i wneyd i berarogli yn bynod, fel rhai o ffrwythau ei baradwys fry!



Digitized by Google

*Yr Enaid duwiol a diolchgar yn llawenhau yn y mwynhad o fendithion rhagluniaeth a gras; ac yn tywallt ei hun allan ger bron Duw, mewn ymarferiadau cryfion a gwresog o Gariad ac o Fawl.*

O fy Nuw, digon yw! Mi a fyfyriais, ac wele fe *enynodd tân!* Salm 39. 3. Ond, O! yn mha ryw iaith y dichon y fflam dori allan! Beth amgen a allaf ddywedyd na hyn, sef, fod fy nghalon yn dy ryfeddu di, yn dy foli, ac yn dy garu? Y mae fy llestr bychan mor llawn ag y deil; ac mi a ewyllysiwn dywallt yr holl gyflawnder hwn o'th flaen di, fel yr addaser fy nghalon i dderbyn eto fwyfwy. Tydi ydwyt fy ngobaith a'm cymorth; fy ngogoniant a dyrchafydd fy mhen (Salm 3. 3.); y mae fy nghalon yn llawenhau yn dy iachawdwriaeth; a phan osodwyf fy hun dan ddylanwadau dy Ysbryd daionus, i gyfeillachu â thydi, y mae miloedd o feddyliau tra dymunol yn tarddu ynof yn y fan; a miloedd o ffynhonau cysur yn cael eu hagoryd, ac yn rhedeg i mewn i fy enaid gyda y fath ddadebriad a gorfoledd, fel yr wyf yn profi fod pob munud yn cynwys ynddi gymaint o hapusrwydd ag sydd mewn llawer diwrnod, wythnos, a mis. Yr wyf yn dy foliannu di, O Arglwydd, am fy enaid, yr hwn a greaist; yr hwn a ddysgaist i ddywedyd, a hyny yr wyf yn gobeithio i'r dyben hapusaf, *Pa le y mae Duw yr hwn a'm gwnaeth*? Job 35. 10. Yr wyf yn dy fendithio am y deall â pha un yr harddaist fy enaid; ac am y gras trwy yr hwn, hyderwyf, y'm santeiddiaist; er bod y planhigyn nefol wedi ei blanu mewn tir diffrwyth, ac nad yw yn blaguro i'r gradd y dymunwn.

Yr wyf hefyd yn dy glodfori di am y corff a roddaist i mi, ac am ei gynal hyd yn hyn mewn bywyd a

Digitized by Google

grym; ac am ei fod, nid yn unig yn gymwys i fwynhau y gwleddoedd a barotoaist ti ar gyfer ei amryw synwyrau, ond hefyd (yr hyn sydd yn fwy na'r cwbl) yn gymwys mewn rhan i weithredu yn fywiog yn dy wasanaeth di. Yr wyf yn dy ganmol am symudiad rhydd ac esmwyth fy aelodau, a hyny mewn ufudddod, fel yr wyf yn gobeithio, i gyfarwyddiadau dy Ysbryd, gan gael fy arwain genyt ti. Diolch i ti, nad yw ceidwaid y tŷ eto yn crynu, na'r gwŷr cryfion yn crymu; ac am nad yw y rhai sydd yn edrych trwy y ffenestri wedi tywyllu, na merched cerdd wedi gostwng i lawr. Clod i'th fawredd, O Dduw, na thoraist ti y llinyn arian a'r cawg aur cyn hyn (Preg. 12. 3, 4, 6.); canys dy law di sydd yn cryfhau fy ngewynau, yn cynal, ac yn dadebru fy ysbrydoedd mewn modd anfeidrol ddoeth a helaeth.

Yr wyf yn dy glodfori am dy fawr ddaioni yn cynal dynol ryw yn gyffredinol o ddydd i ddydd, eithr yn benaf, am fy nghynhaliaeth fy hun; am y bwrdd a arlwyaist ger fy mron, ac am fy nghwpan llawn, Salm 23. 5. Yr wyf yn dy fendithio am fy mlys, fel nad yw cyfraniadau daionus rhagluniaeth i mi fel seigiau o fwyd ger bron y marw. Clod i ti na adewaist i mi *fwyta fy mwyd yn unig* (Job 31. 17.), eithr gallu o honof ei rannu i gynifer o gyfeillion dymunol, y rhai sydd yn chwanegu melusdra bywyd cymdeithasol at gysuron y bywyd anifeilaidd, ar yr amserau ag y byddwyf yn bwyta fy ymborth cyffredin. Yr wyf yn diolch i ti am gynifer o berthynasau anwyl gartref, am gynifer o gyfeillion ar led y byd, y rhai a allant fy ngwasanaethu mewn llawer modd, ac am eu bod yn cael eu tueddu i wneuthur felly.

Ac ni chwennychwn anghofio cydnabod dy ddaioni yn fy ngwneuthur i yn alluog i wasanaethu ereill; ac am i ti roddi i mi brofi pa faint mwy o ddedwyddwch sydd

Digitized by Google

mewn rhoddi na derbyn, Actau 20. 35. Diolch i ti am galon i gydymdeimlo â'r anghenus, ac am feddwl, yr hwn sydd gyda phleser yn gofalu yn ebrwydd pa fodd y bydd i mi allu eu diwallu hwynt, yn ol y cymorth bychan a roddaist ti: canys hyn hefyd a ddaw oddiwrthyt ti, O Arglwydd (Esay 28. 29.), yr hwn wyt Awdwr mawr pob tuedd haelionus, pob bwriad doeth, a phob ymdrech llwyddiannus i danu hapusrwydd yn mysg dynolryw, neu i allu mewn un modd leihau eu gorthrymderau.

O Arglwydd, os yw yn gymwys i mi fel hyn i ddiolch i ti am y pleser yr wyt yn ei roddi trwy gydymdeimlad â'r cystuddiedig, diamheu y dylwn dy glodfori yn llawer mwy am y dedwyddwch sydd yn tarddu oddiwrth gydymdeimlad â'r sawl sydd yn hapus, ac yn gyflawn wynfydedig. Diolch i ti am y ffrydiau sydd yn dyfrhau paradwys, ac yn peri iddi flaguro, a chynyddu bob amser mewn ffrwythau dymunol. Yr wyf yn dy foliannu di am y gorphwysdra a'r llawenydd wyt yn ei roddi i lawer ag oeddynt unwaith yn werthfawr yn fy ngolwg ar y ddaear; gofidiau pa rai yr oeddwn yn ceisio esmwytho, a gorfoledd pa rai, yn enwedig ynot ti, yr oeddwn yn ymdrechu ddwyn yn mlaen. Yr wyf yn dy foli am wynfydedigrwydd pob sant a phob angel o gylch dy orseddfainc fry; a chyda phleser neillduol yr wyf yn diolch i ti am y gobaith a blennaist yn fy mynwes, y caf fi, ar fyr, weled a phrofi yn eglur, pa fath yw eu dedwyddwch hwynt, yr hwn sydd yn awr yn unig yn ymddangos i mi o bell trwy ddrych ffydd, yr hwn sydd mewn cymhariaeth yn dywyll. Yr wyf yn awr trwy dy ras yn teimlo fy mod yn cael fy nwyn yn mlaen tuag at yr ardaloedd gwynfydedig hyny. Yr wyf hyd yn oed yr awr hon yn dysgwyl am dy iachawdwriaeth (Gen. 49. 18.) gyda y dymuniad cynes hwnw ar y naill

Digitized by Google

law, yr hwn nis dichon golwg ar ei mawredd lai na'i gyfodi yn mhob enaid crediniol, a chydag ymostyngiad tawel ar y llaw arall i'th ewyllys di, yr hwn sydd yn cael ei barhau ynof trwy anghyfnewidioldeb dy addewidion.

O fy Nuw, pa beth a ddywedaf wrthyt! Pa beth, ond fy mod yn dy garu uwchlaw yr hyn y gall tafod fynegi! Fy mod yn dy garu am yr hyn ydwyt i'th greaduriaid, pa rai yn eu hamrywiol ddulliau ynt yn wastadol yn derbyn oddiwrthyt ti eu bodau, eu deall, a'u dedwyddwch, a hyny mewn rhifedi a graddau tu hwnt i'r hyn a allaf fi ddychymyg. Ond, O! yr ydwyf yn dy garu eto yn llawer mwy, oblegid yr hyn ydwyt ynot dy hun; am y trysorau o berffeithrwydd sydd ynot, yr rhai ni allodd y greadigaeth leihau, na yr effeithiau ag ydwyt yn gyfranu i'th greaduriaid eu dihyspyddu. Mae y cyfryw berffeithrwydd yn dy wneuthur di yn hunan-ddibynol ac yn hunan-ddedwydd; ie, hyn a'th wnelai di yn anfeidrol ogoneddus, pe darfyddai dy holl gyfraniadau o wychder a dedwyddwch. O Arglwydd, tydi ydwyt y mwyaf, y cyntaf, a'r gogoneddusaf o'r holl fodau! O meddianna fy enaid i yn ei holl alluoedd. Diamheu genyf dy fod yn ei feddiannu. Tra yr ydwyf yn teimlo dy Ysbryd santaidd yn anadlu ar fy nghalon ac yn enyn ynddi y fath fflam o gariad atat ti, ni allaf amheu dy ras, mwy nac y gallaf amheu fod ynof fywyd naturiol, tra mae yn weithgar, a thra yr wyf yn teimlo ei effaith. Diamheu os teimlais i newyn erioed, y mae fy enaid yn newynu am gyfiawnder (Mat. 5. 6.) ac yn hiraethu am fwy o gydymffurfiad â'th natur wynfydedig, ac a'th ewyllys santaidd di. Os teimlodd taflod fy ngenau syched un amser, y mae fy enaid yn *sychedu am y Duw byw*, (Salm 43. 2.) ac yn brefu am fwy o gyfraniadau o'i ras ef. Os bu y corff hwn un amser yn

Digitized by Google

flinedig trwy weithio neu deithio, ac felly yn profi hiraeth am fy ngwely, ac yn llawenhau am gael gorphwys yno; yna y mae fy enaid yn gorphwys yn felus ar dy fynwes rasol di, O Dad nefol. Wele fi yn chwennych dychwelyd i'm gorphwysfa, gan gofleidio fy Nuw, yr hwn a fu dda wrthyf, Salm 116. 7. Os gwelaisi wyneb cyfaill erioed gyda chysur a boddlonrwydd, yr wyf yn llawenhau yn yr olwg ar dy wyneb di, O Arglwydd, ac yn fy ngwaith yn dy alw fy Nhad yn Nghrist, canys felly yr ydwyt, a thi a fyddi yn Dad i mi dros amser a thragywyddoldeb. Pa beth sydd genyf i wneuthur mwy, ond cyflwyno fy hun i ti, i wneuthur â mi fel y bo da yn dy olwg, yn y byd hwn ac yn yr hwn a ddaw; gan adael i ti drefnu materion a dethol fy etifeddiaeth i mi, Salm 47. 4. Dy wasanaethu di fyddo fy ngofal penaf i, a'th foliannu di fyddo fy nedwyddwch mwyaf cyflawn. *Fy enaid a lŷn wrth fy Nuw, canys ei ddeheulaw a'm cynal*, Salm 63. 8. Cynhalied dy law fi bob amser, a mi a redaf atat, hyd oni chyflawner fy holl ddymuniadau yn y mwynhad tragywyddol o honot ti yn y byd a ddaw! Amen.

Digitized by Google

# PENNOD XXVIII.

## Y CRISTION SEFYDLOG YN CAEL ANNOGAETH I YMEGNIO, I'R DYBEN O FOD YN DDEFNYDDIOL.

Y gwna gwir gariad at Dduw ddangos ei hun, nid yn unig mewn crefyddolder at Dduw, ond mewn haelioni at ddynion, Dosparth 1, 2. Mai hyn yn orchymyn o eiddo Duw, 3. Mae y gwir gristion yn teimlo ei enaid yn cael ei weithio i gydffurfiaeth santaidd ag ef, 4. Am hyny efe a ddymuna addysg ar y pen hwn, 5. Yn ganlynol rhoddir cyfarwyddiadau at ddefnyddio amrywiol o dalentau. Yn enwedig, (1.) Meddylgarwch a dysgeidiaeth, 6. (2.) Awdurdod, 7. (3.) Rheolaeth yn y teulu, 8. (4.) Bri, 9. (5.) Cyfoeth, 10. Amrywiol o ffyrdd da i'w defnyddio yn cael eu crybwyll, 11. Callineb mewn traul yn cael ei gymheil, er mwyn cynal elusen, 12, 13. Cyfarwyddyd dwyfol yn y mater hwn i'w geisio, 14. Y cristion yn hiraethu am ddefnyddioldeb helaethach.

1. Yr hyn a ddarluniais yn y bennod o'r blaen, yr wyf yn gobeithio, a fydd gweithrediadau mynych dy enaid ger bron yr Arglwydd. Yn y modd hwn bydd i ti anadlu cariad a diolchgarwch allan yn ei bresenoldeb dwyfol, yr hyn a ddaw trwy gyfryngdod Iesu i fynu fel arogldarth yn gymeradwy o'i flaen. Ond rhaid i ti gofio mai nid hyn yn unig a fydd effeithiau cariad at Dduw. Os bydd cariad yn ddiragrith, ni fydd yn treulio ei hun mewn geiriau yn unig, eithr efe a ymddengys mewn gweithredoedd, ac efe a ddwg ffrwythau priodol o wir gariad at dy gydgreaduriaid, ac o ymdrechiadau diflino i allu gwneuthur daioni iddynt.

2. Ti a ddywedi fel hyn, A ddarfu i Dad y trugareddau edrych arnaf fi gyda golwg rasol; a ddarfu iddo ef, nid yn unig faddeu i mi filoedd o bechodau, ond efyd fy nghyfoethogi â'r fath amrywiaeth o roddion da-

Digitized by Google

ionus? O pa beth a dalaf iddo am danynt oll! O bydded i'w wirionedd tragywyddol fy nysgu! Dysgwch fi, O chwi fy mrodyr hynaf yn nheulu fy Nhad nefol! Ac yn neillduol, bydded i ti, O Ysbryd cariad a doethineb, fy nysgu pa beth a allaf wneuthur i ddangos allan fy nghariad at Dduw, yr hwn yw y Ffynon dragywyddol o gariad; pa beth a allaf wneuthur er dangos fy ffyddlondeb iddo ef, yr hwn a wnaeth gymaint eisioes drosof, ag sydd yn fy rhwymo i'w garu, a'r hwn a gydnebydd, ac a wobrwya gyda phleser fy holl ufydd-dod serchiadol iddo ef.

3. Hyn, O gristion, yw y gorchymyn a glywsom o'r dechreuad, ac efe a bery byth mewn grym, sef, bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd (1 Ioan 4. 21.); ac y dylai amlygu y cariad hwnw, nid ar air ac ar dafod yn unig, eithr mewn *gweithred a gwirionedd*, 1 Ioan 3. 18. Rhaid i ti garu dy gymydog fel ti dy hun; garu holl greadigaeth Duw: ac, mor belled ag y cyrhaeddo dy awdurdod, ymdrechu eu gwneyd yn ddedwydd.

4. Ië, ti a ddywedi, Yr wyf yn caru holl ddynolryw. Yr wyf yn teimlo y gadwyn auraidd o gariad dwyfol yn ein cylchynu ni oll, ac yn ein rhwymo ni yn un corff, ac yn gosod ynom megis un enaid. Bydded i hapusrwydd gwirioneddol ac uchel ymdanu yn barhaus ac yn dragywyddol trwy yr holl fyd o greaduriaid ufydd a rhesymol Duw, trwy y nefoedd a'r ddaear! A bydded i bob creadur gwrthryfelgar ag sydd yn gymwys i gael ei ddychwelyd, gael ei wneyd yn ufydd! Ië, bydded i gosp angenrheidiol y rhai anfeddyginiaethol gael ei goruwch-lywodraethu, gan ddoethineb anfeidrol a chariad tuag at gynyddu daioni y greadigaeth yn gyffredinol!

5. Dyma feddyliau cywir iawn; ac os ydynt, O ddarllenydd, yn wir feddyliau a phrofiad dy galon di,

Digitized by Google

fe fydd i ofal syml am weithredu yn mhob peth mewn ymostyngiad i fesurau y Ragluniaeth ddwyfol, hyd y byddo ynot, eu dilyn. Ac i'r dyben hwn, hwy a barant i ti ystyried yn neillduol holl amgylchiadau dy fywyd a'th fodolaeth; fel y gwelech pa gyfleusderau sy genyt i wneuthur daioni, a pha fodd y bydd i'r cyfryw gyfleusderau gael eu defnyddio oreu. Edrych i mewn i'r pethau hyn gan hyny; nid i'r dyben o ymfalchio yn nghyfraniadau neillduol rhagluniaeth a gras dwyfol, neu i orfoleddu fel pe byddit heb dderbyn (1 Cor. 4. 7.); ond i'r dyben o fod yn ffyddlon i'th Arglwydd mawr, goruchwyliwr pa un ydwyt, a thrwy yr hwn yr wyt yn meddiannu pob talent, pa rai, (o ran dim hawl sydd gan dy gydgreaduriaid mewn un modd ynddynt,) a elli alw yn eiddo i ti dy hun. A chan fod i ni yma amryw ddoniau yn ol y gras a roddwyd i ni (Rhuf. 12. 6.), bydded i ni ddal y clorian â llaw ddiduedd, fel y gallom farnu yn iawn pa beth a gais yr Arglwydd genym; sef gwneuthur yr hyn a allom i lunio ac i ddwyn yn mlaen y daioni cyffredin. Ond, O! pa mor anfynych y mae dynion yn dwyn eu hunain i gyfrif fel hyn mewn modd gonest! A pha faint o golled y mae y byd o'n cwmpas a'n heneidiau ein hunain yn gael, o eisiau y ffyddlondeb hwn!

6. A roddodd yr Arglwydd ddysg a dawn i ti? Nid i'r dyben i ti ddifyru a harddu dy hun, ac enyn goleu i'r dyben o beri i ddynion edrych arnat a chael eu dallu, y rhoddodd efe hwynt. Ond fe roddwyd y pethau hyn i ti i dy arwain di ac ereill i adnabod Tad y goleuni. A'th ddyledswydd trwy y pethau hyn, yw, naill ai ceisio harddu a diwygio y natur ddynol, neu ynte troi mewn modd uniawn a mwy neillduol at bethau dwyfol, gan ddadleu achos crefydd, amddiffyn ei gwirioneddau, annog dynion i ymarfer â hi, ceisio troi dynion oddiwrth y cyfryw ffyrdd ag sydd yn eu



Digitized by Google

dwyn i ddianrhydeddu Duw, a dystrywio eu heneidiau eu hunain; i'r dyben hwn dy ddyledswydd yw, profi beth a all y symlrwydd a'r tynerwch mwyaf, â pha rai y gelli wisgo dy ymddyddanion, wneuthur tuag at eu dwyn i rodio llwybrau rhinwedd a hapusrwydd.

7. A roddodd Duw i ti awdurdod a llywodraeth ar ryw gymdeithas fawr neu fechan? Cofia i ti dderbyn hyn fel y byddai i Dduw gael ei anrhydeddu, i wneyd y rhai sydd danat mewn gwlad neu deulu, yn ddedwydd. Bydd ofalus, gan hyny, fel pa un bynag ai y wialen ai y cleddyf a ymddiriedwyd i ti, na bo i ti ei ddwyn yn ofer, Rhuf. 13. 4. Ai swyddog gwladol ydwyt? A oes i ti ran yn y gwaith mawr o osod cyfreithiau: bydded i ti barchu awdurdod y Penllywydd, Ymgeleddwr mawr yr holl gymdeithas, sef, y Duw byw: na fydded i ti wneuthur na chydsynio ag unrhyw gyfraith, ag na bo dy gydwybod yn dywedyd wrthyt, (ac ystyried yr amgylchiadau presennol,) ei bod yn cydsefyll â'i ewyllys ef; ac na bo genyt sail i gredu dy fod wrth sefydlu y cyfryw un, yn *weinidog Duw er daioni*, Rhuf. 13. 4. Ai dy swydd yw gosod mewn grym y cyfreithiau sydd? Gosod fywyd ynddynt, trwy eu cyflawni yn ddewr, yn gyfatebol i natur y swydd arbenig ag ydwyt yn ei dwyn. Nac ymfoddlona ar enw gwag o awdurdod. Na fydded i ti gysgu, megis, ar y faingc. Bydd ddeffrous, bydd weithgar, a sylwa ar yr hyn a wneir o'th amgylch. Diogela yr uniawn a'r diniwed, tor yn ddrylliau holl allu y gorthrymwr. Dwg i'r amlwg y galon anonest hyd y gelli. Bydded i ti ddirmygu yn gystal a gorchfygu, y drygwr ag sydd yn ceisio gwneyd ei gyweinrwydd neillduol yn orchudd neu yn ddiogelwch i'w ddrygioni.

8. A ydwyt ti ddim ond penteulu? Llywodraetha o er gogoniant i Dduw. Bydded i ti drin achosion

Digitized by Google

yr ymerodraeth fechan hòno, gyda yr un fath olwg, a'r un fath egwyddorion, ag a osodais i ger bron y mawrion a'r galluog. Dy blant a'th wasanaeth-ddynion ydynt dy ddeiliaid naturiol. Bydded i ti gadw trefn dda yn eu mysg hwynt, fel y byddont dan ddysgyblaeth reolaidd. Dyro iddynt addysgiadau yn egwyddorion crefydd, fel y deallont pa mor fuddiol a rhesymol yw y fath ddysgyblaeth; a gwna iddynt weithredu yn ol y cyfryw addysgiadau, hyd ag y gelli. Gwir yw, ni elli di gyfnewid eu calon; eto ti a elli gyfnewid eu hymddygiad mewn mesur mawr: a thrwy hyny eu cadw hwynt rhag llawer o faglau; ti a elli wneuthur llawer tuag at eu gwneuthur hwynt yn aelodau defnyddiol o'r gymdeithas wladol, ac felly eu gosod, megis yn ffordd Duw (Salm 85. 13.), fel y byddo iddo, o bosibl, wrth fyned heibio, eu bendithio hwynt â chyfoeth ei ras. Gwna dy oreu i ddangos iddynt eu hanghen o'r fath fendith; ymdrecha i'w dwyn hwynt i werthfawrogi y pethau hyn, ac felly i ymofyn ar eu hol, gan gredu eu bod yn anfeidrol fwy gwerthfawr nac un peth arall.

9. Yn mhellach; a gyfododd Duw di i barch yn mysg dy gyd-greaduriaid, yr hyn nid yw bob amser yn gyfatebol i broffes a sefyllfa dynion mewn bywyd? A yw dy gynghorion yn cael eu gwrando yn astud? A oes ymofyniad am dy gyfeillach? A yw yr Arglwydd yn rhoddi i ti gymeradwyaeth ger bron dynion, fel y maent nid yn unig yn gosod y lliw goreu ar dy eiriau, ond hefyd yn edrych dros dy feiau, y rhai y mae dy gydwybod di yn eu gweled, ac yn ystyried dy weithredoedd di yn y goleu mwyaf tirion a ffafriol? Ti a ddylit edrych ar hyn, nid yn unig fel daioni rhagluniaeth, ac fel annogaeth i ti i gyflawni dy ddyledswydd yn yr amser i ddyfod yn ei hamrywiol ganghenau, eithr yn gyfleusdra i fwy o ddefnyddioldeb, nac y gallasit

Digitized by Google

fod yn dy sefyllfa bresennol heb hyny. Os yw dy gymeriad o bwys yn y byd, gosod hyny yn y glorian iawn. Ymdrecha i gadw i fynu anrhydedd rhinwedd a duwioldeb. Estyn dy law yn serchus i'r sawl sydd deilwng o barch, er eu bod yn cael eu diystyru a'u sathru. Amddiffyn y gwirionedd; bydd yn gyngborwr heddwch; bydd yn siampl mewn hynawsedd; a gwna yr hyn oll sydd yn bosibl i ti i uno calonau dynion, yn enwedig dynion da, â'u gilydd, er gwahaniaethu o honynt yn eu barnau yn nghylch materion ag y geill dynion da ddadleu. Bydded i'th ymddygiad gwyliadwrus a gostyngedig di yn y fath amgylchiadau anrhydeddds, ac yn mysg cynifer o arwyddion o barch cyffredinol, yn ddirgel geryddu balchder a byrbwylldra ereill, nad ydynt yn hynod mewn dim arall; y rhai, er derbyn talentau rhagorol, a ddylent gael eu diystyru, fel rhai diles i'r gymdeithas gyhoeddus mewn mesur mawr, hyd oni bo i'r fath ysbryd o falchder a byrbwylldra gael ei ddarostwng. Na chymer dy attal yn dy yrfa o haelioni ac o rinwedd trwy yr ychydig eiddigedd a chabledd a gyfarfyddi ynddi. Bydded i ti yn astud olygu y daioni cyffredin, gan ymdrechu yn gadarn i'w ddwyn yn mlaen; a gâd i ragluniaeth amddiffyn dy enw da di rhag malais a chelwydd; pa rai yn fynych a wrthwynebant eu gilydd, heb dy ymdrechiadau di, gan ddwyn ar yr awdwyr o honynt fwy o gywilydd, neu, os na weithia hyny arnynt, fwy o waradwydd nac y dichon dy ddynoldeb di ddymuno iddynt.

10. Eto, yn mhellach, mi a ofynaf, A fendithiodd Duw di mor bell a rhoddi i ti gyfoeth? A osododd efe di yn y fath amgylchiadau fel y mae genyt fwy nac sydd yn hollol angenrheidiol i ti ac i'th deulu? Cofia am y cyfrif fydd yn rhaid i ti roddi ar frys. Cofia, pa faint o rwystr yw y pethau hyn yn fynych yn ffordd

Digitized by Google

iechydwriaeth dynion, a pha mor fynych y maent yn gwneyd yn anhawdd iddynt fyned i mewn i deyrnas Dduw, yn ol geiriau ein Harglwydd, Mat. 19. 24. Gweddia, gan hyny, yn ddifrifol ac yn barhaus, na bo cyfoeth yn fagl ac yn gywilydd i ti, fel y mae i'r rhan fwyaf o'r sawl a feddiannant bethau da y byd hwn. Gosod heibio, yr wyf yn atolygu arnat, ryw ychydig o'th feddiannau at elusenau, a hyny yn ol fel y bo Duw yn llwyddo. Trwy hyn fe fydd genyt drysor at haelioni bob amser wrth law: a thi a fyddi, o bosibl, yn fwy rhydd i gyfranu pan fyddost yn edrych ar y peth fel wedi ei roddi eisoes, fel nad yw bellach mewn un modd yn eiddo i ti dy hun, er ei fod heb ei roddi i feddiant unrhyw berson neillduol. Nid fy lle i yw dywedyd pa faint a ddylit osod heibio fel hyn. Fe all y drydedd ran, neu yr haner, fod yn rhy fach i'r sawl sydd yn gyfoethog iawn, ac heb ddim plant. Ac i'r sawl y mae eu cyfoeth yn brin, a'u traul yn fawr, fe ddichon fod y ddegfed ran yn ormod iddynt hwy i'w gyfranu. Eithr gweddia ar Dduw i dywys dy feddwl; gwna brawf dros un flwyddyn yn y fath fodd ag a feddyli yn dy gydwybod fod fwyaf wrth ei fodd ef. Profa y ffordd hon dros un arall. Cofia bob amser fod Duw yn y lle cyntaf yn gofyn cyfiawnder, ac yn ail, elusen yn unig yn ol dy allu. Canys nid oes genyt ddim hawl i roddi eiddo dy gymydog i'r tlawd; eithr tâl yr hyn sy gyfiawn iddo ef, a chyfrana o'th eiddo dy hun. Eto ar yr un amser cymer ofal rhag y dyb fradychus dwyllodrus a dinystriol hon, sef, fod cyfiawnder i'th deulu yn gofyn i ti adael dy blant yn dra chyfoethog; yr hyn a fu o bosibl, yn achos i Dduw gymeryd ymaith fywydau plant anwyl y cyfryw rieni cynil ag oeddynt yn trysori rhan y tlawd ar eu cyfer hwynt; a pha ryw ganlyniadau dinystriol a all ddyfod i gyfarfod y sawl sydd eto yn fyw, Duw ei



Digitized by Google

hunan a wyr; ac yr wyf yn gweddio o'm calon na bo i ti na'th eiddo byth wybod hyny trwy brofiad.

11. Ac fel y byddo i'th galon gael ei hagoryd eto yn fwy, ac fel y byddo i'th haelioni gael bod i'r dybenion goreu, dyro genad i mi sylwi yn fyr ar yr amrywiol ffyrdd da y gelli di ymddangos yn elusengar, y rhai sy yn galw am ystyriaeth y sawl a gyfododd Duw i sefyllfa i wneuthur llawer o ddaioni. Yn gyntaf, edrych o'th gwmpas ar y gymydogaeth yn yr hon yr ydwyt yn preswylio. Ystyria pa nifer o ddynion gonest a llafurus, ac o bosibl, duwiol hefyd, sydd yn ymdrechu yn galed i fyw yn y byd. Meddwl pa faint o gysur iddynt hwy a allai fod yr hyn a ellit ti ei roddi iddynt heb un anghyfleusdra, allan o'r helaethrwydd a roddodd Duw i ti. Dyro glust i bob rhyw alwad anarferol am elusen, yn neillduol os bydd at ryw achos cyffredin a chyhoeddus; cynorthwya trwy dy siampl a'th awdurdod, yr hyn a all fod o lawer mwy o ddefnydd na'r swm a ellych roddi dy hunan. Bydded genyt dafod i ddadleu dros achos yr anghenus, yn gystal a llaw i gyfranu iddynt; ac ymdrecha i gywilyddio yr esgusodion disail ag y mae cybydd-dod yn roddi yn fynych yn ngenau llaweroedd, a rhai trwy eu dyfais a ymdrechant osod barnais teg arnynt, ond y mae efe mor denau fel y mae tir garw yn ymddangos trwyddo. Edrych pa nifer o blant tlodion sydd yn rhodio oddiamgylch, yn noeth ac yn annysgedig; ac felly ar y ffordd i bob math o annuwioldeb a thrueni; ystyria pa beth a elli wneuthur tuag at ddilladu ac addysgu rhai o honynt, o leiaf, yn egwyddorion crefydd. Pe byddai pob teulu ag sydd yn alluog i gyfranu at y fath achosion, yn edrych gyda thosturi ar un teulu tlawd yn eu cymydogaeth, ac yn eu cymeryd dan eu gofal i'w porthi, eu gwisgo a'u dysgu, i'w cynal mewn cystuddiau, i'w hamddiffyn mewn

Digitized by Google

camwedd, ac i gyfarwyddo y sawl a fyddo yn eu llywodraethu, yn ol fel y byddo amgylchiadau yn galw, pe byddai hyn oll yn cymeryd lle, O y fath olwg wahanol a fyddai ar bethau yn ein mysg ni yn fuan! Edrych pwy sydd glaf, fel, os oes rhyw elusendy i'r cleifion yn agos atat, y gelli eu gosod hwynt yno. Ac os na bydd y fath gyfleusdra, cais wneyd y daioni a allot iddynt gartref, trwy eu porthi a'u cynghori, a thrwy roddi iddynt y cyfryw feddyginiaeth ag a fyddo buddiol. Sylwa ar dlodi ysbrydol dynion yn yr un modd; ac i'r dyben o'u cyfoethogi hwynt, mi a ewyllysiwn i ti fod yn helaeth yn dy elusen tuag at ddwyn gwŷr ieuainc, o ddawn a duwioldeb, i fynu mewn dysgeidiaeth i waith y weinidogaeth. Na warafun roddi rhan o'r hyn a roddodd Duw i ti, er cynhaliaeth i'r sawl sydd wedi rhoddi heibio bob golygiad a gofal amserol, er mwyn gweini i ti efengyl Crist; canys diamheu fod ganddynt hawl gyfiawn i ddysgwyl am gynhaliaeth ag a'u gwnelo yn gymwys i'r gwasanaeth poenus, i ba un y rhoddasant eu hunain er dy fwyn di, ac er mwyn yr Arglwydd. A thra yr ydwyt yn cael dy *ddigoni á daioni tŷ Dduw, sef ei deml santaidd* (Salm 65. 4.), tosturia wrth y rhai sydd yn preswylio mewn tir diffaith; a bydded yn llawen genyt allu gwneuthur rhywbeth at anfon ar led yr efengyl ogoneddus i fysg y cenhedloedd yn manau pell y byd, yr hon a fu hyd yn hyn yn guddiedig oddiwrthynt, er bod adnabyddiaeth, a derbyniad parchus o honi, yn fywyd tragywyddol. Dyma rai elusenau o bwys mawr, y rhai a ddymunwn osod ger bron y sawl y darfu i ragluniaeth eu cyfoethogi yn hynod; a dyma ystyriaeth ac sydd yn gwneuthur aur yn fwy gwerthfawr nac yr ymddengys yn un goleu arall, sef, ei fod yn gymwys i gymaint o ddaioni, ac i gael ei ddefnyddio i'r fath ddybenion. Ond os nad oes genyt aur i'w roddi i'r

Digitized by Google

pwrpas hwn, rho dy arian: neu os nad oes genyt arian, cofia nad yw Duw yn diystyru yr hatling, pan yn dyfod o galon elqsengar a hael (Marc 12. 42. 43.); bydded i ti fwrw hono i'r drysorfa yn llawen, os na bydd chwaneg genyt i roddi.

12. Ac fel y gallech ateb y gofynion aml a thaer am elusenau, ystyria yn ddifrifol pa fodd yr wyt yn byw. Nid wyf yn dywedyd y dylit ti ddyfod yn un o'r tlodion sy yn ymddibynu ar dy haelioni di. Mae cynhaliaeth cymdeithas, fel ag y mae pethau wedi eu sefydlu yn bresenol, nid yn unig yn dyoddef, ond hefyd yn gofyn, i rai dynion roddi rhyddid iddynt eu hunain i fwynhau gwychder a phleserau bywyd; ac wrth ddarparu ar gyfer y cyfryw rai, y mae torfeydd o deuluoedd tlodion yn cael eu cynal mewn modd mwy anrhydeddus a chysurus, er mwy o fudd iddynt eu hunain a diogelwch i'r wladwriaeth, nac y gallent fod pe byddai yr arian y maent yn dderbyn am eu gwaith, neu ynte am yr hyn y maent yn werthu, yn cael eu rhoddi iddynt mewn elusen: ac ni allaf fi feddwl fod rhoddion Duw i gael eu gwrthod fel cynifer o faglau neu felldithion, yn hytrach na bendithion. Fe fyddai hyn yn atal dybenion daionus a grasol ein Creawdwr, ac yn fradwriaeth yn erbyn holl drefn natur, pe dygid ef yn mlaen i'r manylrwydd eithaf. Bydded i roddion rhagluniaeth gael eu harferyd; eto rhaid edrych eu bod yn cael eu harferyd mewn modd cymhedrol a doeth, rhag trwy dy ynfydrwydd, iddynt fyned yn fagl, Salm 69. 22. Bydded i gydwybod, fy narllenydd anwyl, ddywedyd, pa faint o'r pethau a roddodd dy Dad nefol i'th feddiant, sydd wedi eu rhoddi er dy fwyn di dy hun, a pha faint er mwyn dy frodyr; ac na fydd byw fel pe na byddai i ti un brawd, megis pe byddit yn meddwl mae y prif ddyben o'th anfoniad i'r byd oedd boddhau dy hun, trwy bob rhyw fawredd a

Digitized by Google

moethau a ellit feddwl am danynt. Yr wyf yn ofni, mai yn hyn y mae yr oes bresenol yn cyfeiliorni, ac nid yn y marwhad llym o'r aelodau sydd ar y ddaear. Sylwa gan hyny ar dy draul, gan ei chymharu â'r hyn wyt yn dderbyn i mewn bob blwyddyn. Fe all fod yr hyn sydd yn ganmoladwy mewn arall o uwch sefyllfa, yn wastraff cywilyddus ynot ti. Ac ni elli yn sicr ddywedyd nad ydwyt yn myned dros y terfyn, am nad ydwyt yn rhedeg mewn dyled, neu oblegid dy fod yn abl gosod heibio ryw ran er mwyn cyfoethogi dy deulu. Os analluogir di i wneuthur dim i'r tlawd, neu ddim or hyn sydd i'w ddysgwyl oddiwrthyt yn ol dy sefyllfa mewn bywyd, trwy dy fywioliaeth fras a boneddigaidd, yna gwybydd nad yw yr Arglwydd yn foddlon i'r fath ymddygiad; a thi a ddylit, fel yr wyt i ateb ger ei fron ef, gaethiwo dy hun. Diamheu y bydd rhagluniaeth yn hael at y sawl y mae gwir egwyddor o ffydd yn Nghrist, a chariad diragrith at Dduw a dynion ynddynt, er na bo y cyfryw egwyddor yn tori allan mewn daioni a defnyddioldeb i'r gradd y gweddai iddi; eto bydd yn sicr o hyn, y bydd i'r hwn sydd yn rhoddi i bob un yn ol ei weithredoedd, sylwi yn fanwl ar raddau dy ddaioni di, yn y dydd y byddi yn derbyn dy wobr: ac am hyny y mae pob esgeulusdra yn dwyn gydag ef y fath golled, na ellir ei gwneud i fynu dros dragywyddoldeb. Gad i mi ddywedyd wrthyt yn mhellach, fod pob rhyw esgeulusdra gwirfoddol yn gwneuthur y meddwl o hyd yn wanach ac yn fwy-fwy dioglyd, ac o'r diwedd yn llai ei duedd i geisio ynill y tir a gollwyd, ac i golli hyd yn oed yr hyn a gadwyd hyd yn hyn.

13. Na fydded i ti achwyn fy mod yn gosod arnat bethau rhy drymion. Nid wyf ond ceisio dy ddwyn di i fwynhau pleserau mewn ffordd fwy rhagorol; ac y mae y cynilwch hwnw, yr hwn yw ffynon yr haelioni y

Digitized by Google

soniais am dano, mor bell oddiwrth ddrygu dy enw da di, fel y mae yn sicr o'th ddyrchafu yn mysg dynion doeth a da. Ond y mae genyt annogaethau llawer mwy rhagorol ger dy fron na chlod dynion. Yr wyf yn llefaru wrthyt ti fel plentyn i Dduw ac fel aelod i Grist; ac am hyny wedi dy rwymo yn y fath undeb agos â'r holl rai mwyaf tlawd ag sydd yn credu ynddo ef. Yr wyf yn llefaru wrthyt ti fel un o etifeddion y gogoniant tragywyddol, yr hwn a ddylai gynwys meddyliau uchel a rhagorol, mewn rhyw radd yn gyfatebol i'w etifeddiaeth.

14. Rho dy feddwl, gan hyny, ar waith i ystyried pa ddaioni a ellit wneuthur; naill ai yn dy berson dy hun, neu trwy eraill o'th gyfeillion a'th gydnabod; a phan wypech yr hyn a ddylech wneuthur, dos yn ei gylch yn wrol, fel yn mhresenoldeb ac yn enw yr Arglwydd. A chan mai yr Arglwydd sydd yn rhoddi doethineb, ac mai allan o'i enau ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod (Diar. 2. 6.), dos at ei orseddfaingc ef, ac ymofyn am yr hyfforddiad a'r gras hwnw, ag sydd yn addas i'th amgylchiadau presenol, ac a allo fod yn effeithiol i ddwyn y ffrwythau hyny o santeiddrwydd ac o ddefnyddioldeb, i'w ragorol ogoniant ef, ac i anrhydedd dy broffes gristionogol.

*Y Cristion cadarn yn gweddio am gymorth i fod yn fwy defnyddiol.*

O Dad y trugareddau, ac Awdwr mawr pob daioni, pa un bynag ai naturiol ai ysbrydol! Yr wyf yn dy fendithio di am bob rhyw dalent, trwy ba un y cyfoethogaist y fath greadur annheilwng ag y mae yn rhaid i mi gyfaddef fy mod i. Y mae fy enaid yn cywilyddio yn fawr ger dy fron, wrth ystyried pa mor lleied o ddefnydd wyf wedi wneuthur o honynt. Och! pa beth

Digitized by Google

a wneuthum mewn cymhariaeth i'r hyn a allasit yn rhesymol ddysgwyl i mi wneuthur, trwy y rhoddion naturiol a roddaist i mi, trwy gymhwysderau bywyd, trwy fy amser, fy meddiannau, a'm hawdurdod ar ereill! Och! oblegid fy esgeulusdra a'm hynfydrwydd, yr wyf yn gorfod edrych yn ol ar ddiffaethwch, lle y gallaswn weled maes ffrwythlon, a chynhauaf cyflawn! Yr wyf yn wir yn gyfiawn yn haeddu cael fy nyosg o'r cwbl oll, i ti fy nwyn i gyfrif buan, a'm heuog-farnu am fy mod mewn llawer modd wedi bod yn anffyddlon i ti, i'r byd, ac i'm henaid fy hun; ac mewn canlyniad i'r farn hòno, i gael fy anfon i garchar y tywyllwch eithaf a thragywyddol! Ond, tydi, O Arglwydd, a faddeuaist yn rhad y ddyled ofnadwy o ddeg mil o dalentau. Gogoniant a fyddo i'th enw am hyny. Derbyn, O Arglwydd, derbyn yr ymroddiad newydd wyf yn awr yn ei wneuthur o honof fy hun a'r cwbl ag a feddaf, i'th wasanaeth! Yr wyf yn cydnabod mai o'th law di dy hun yr wyf yn rhoddi i ti, 1 Cron. 29. 14. Gwna fi, yr wyf yn atolygu arnat, yn oruchwyliwr ffyddlon i ti, fy Arglwydd mawr; ac na fydded i mi feddwl am unrhyw fudd neillduol i mi fy hun, yn wahanol ac yn wrthwyneb i'th ogoniant di!

Yr wyf yn dy glodfori di, O Dduw pob gras, os wyf, tra yn llefaru wrthyt, yn teimlo cariad at dy greaduriaid di yn cyfodi yn fy enaid; os wyf yn teimlo fy nghalon yn agored i gofleidio fy mrodyr yn mysg dynolryw! O gwna fi yn ffyddlon i ddosparthu, yr hyn oll a roddaist yn fy llaw, i'r dyben i esmwythau arnynt! ac fel y gwypwyf pa faint yw fy rhan fy hun, bydded i mi allu dal y clorian â llaw gywir, a barnu yn ddiduedd rhyngof fy hun â hwynthwy! Bydded i mi allu derbyn yr hyn a roddaist i mi a'm heiddo, gyda diolchgarwch! A rho nerth i mi i gyfranu y rhan arall gyda ffyddlondeb a doethineb, ac hefyd gyda llawenydd! Tywys fy

Digitized by Google

llaw, O Dad tragywyddol a thrugarog, tra yr ydwyt yn rhoddi yr anrhydedd i mi o fod yn offeryn i roddi allan ychydig o'th roddion daionus; fel y gallwyf eu cyfrannu lle mae mwyaf o'u heisiau, a lle yr atebont y dyben goreu. Ac, os yw yn ol dy ewyllys rasol, amlha yr had (2 Cor. 9. 10.); llwydda fi yn fy achosion bydol, fel y byddo genyf beth i gyfrannu i'r rhai y mae eisiau arnynt; a bydded i mi fel hyn gael fy arwain i ardaloedd llawnder tragywyddol a chymwynasgarwch tragywyddol. Bydded i mi yno gyfarfod â llaweroedd, i ba rai y bum yn gymwynaswr serchog ar y ddaear; ac os yw yn ol dy ewyllys, bydded i mi gael cyfarfod â'r sawl y bum hefyd yn foddion i'w dwyn i'r llwybr sydd yn arwain i'r drigfan wynfydedig! Bydded iddynt fy nghroesawi yn eu trigfanau o ogoniant. A bydded i ti, O Arglwydd, dderbyn yr holl glod trwy Iesu Grist; wrth draed yr hwn yr wyf yn chwennych plygu; ac wrth draed pa un, ar ol yr yrfa fwyaf defnyddiol mewn bywyd, yr ewyllysiwn yn y diwedd farw, gyda chymaint o ostyngeiddrwydd, a phe bawn yn ymarfer y weithred gyntaf o ffydd ynddo ef, ac megis pe na chawswn unrhyw gyfleusdra, trwy un deyrnged o ufudd-dod a diolchgarwch yn ei wasanaeth yn fy mywyd, i brofi ei chywirdeb!

Digitized by Google

# PENNOD XXIX.

## Y CRISTION YN GORFOLEDDU YN YR OLWG AR ANGAU A BARN.

**Mae angau a barn gerllaw; ond mae gan y cristion reswm i roesawu y naill a'r llall, Dosparth, 1. Eto natur a ddychryna rhag eu harswydolrwydd, 2. Cynyg at gymodi y meddwl, [I.] A'r rhagolwg ar angau, 3. Oddiwrth yr ystyriaeth, (1.) O'r amrywiol ddrygau a'n cylchynant yn y bywyd brau hwn, 4. (2.) O'r gweddill o bechod a deimlwn ynom, 5. Ac, (3.) O'r hapusrwydd sydd yn ddioed i ganlyn angau, 6, 7. Y rhai oll a allant wneuthur y cristion yn foddlon i farw, yn yr amgylchiadau hyfrytaf yn y bywyd dynol, 8. [II.] Mae gan y cristion reswm i lawenhau yn y rhagolwg ar farn, 9. Gan, pa mor arswydus bynag a fyddo hi, y daw Crist bryd hyny, i amddiffyn ei anrhydedd, i ddangos ei ogoniant, a gorfoleddu ar ei elynion, 10. Megys hefyd i berffeithio hapusrwydd pob credadyn, 11. Ac eiddo yr holl eglwys, 12, 13. Myfyrdod cristion, calon yr hwn a gynheswyd â'r rhagolygon hyn.**

1. PAN oedd weledigaethau yr Arglwydd i Ioan y dysgybl anwyl yn ynys Patmos yn terfynu, y mae yn nodedig iddo ef, yr hwn a roddodd y cyfryw weledigaethau, sef Iesu, y tyst ffyddlon a chywir, ddybenu yn y geiriau pwysfawr a bywiog hyn: Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn sydd yn dywedyd, *Yn wir yr wyf yn dyfod ar frys:* ac y mae Ioan yn ateb gyda y parodrwydd â'r pleser mwyaf, *Amen. Yn wir tyred, Arglwydd Iesu!* Dat. 22. 20. Tyred, fel y dywedaist, yn sicr ac ar frys! A chofia, pwy bynag ydwyt O Gristion, ag sydd yn darllain y geiriau hyn, fod dy Arglwydd yn llefaru yn yr un iaith wrthyt tithau; *Wele fi yn dyfod ar frys.* Ië, yn dyfod ar frys trwy angau, i droi yr agoriad, ac i agor drws y bedd i'th dderbyn di yno, ac i'th arwain trwyddo i barthau y byd



Digitized by Google

anweledig, pa rai sydd yn awr yn anhysbys i ti. Ac nid oes fawr o amser hyd oni ddelo y Barnwr ag sydd yn awr yn sefyll wrth y drws (Iago. 5. 9.) i'r farn gyffredinol: ac er y dichon cannoedd o flynyddoedd fod rhwng hyn a'r dydd hwnw, eto nid yw y cwbl ond amser byr iawn yn ei gyfrif ef, yr hwn sydd yn gweled ag un olwg yr holl oesoedd anfesuredig, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. Nid yw mil o flynyddoedd yn ei olwg ef, ond megis un dydd, ac y mae un dydd megis mil o flynyddoedd, 2 Pedr 3. 8. Yn y ddau ystyr hyn, wele efe yn dyfod ar frys; ac yr wyf yn gobeithio y gelli di ateb gan roddi dy Amen yn llawen, nad yw y rhybudd yn ofnadwy ac anhyfryd yn dy glustiau: eithr bod ei ddyfodiad sicr a buan, yn wrthrych dy obaith hyfryd, a'th ddysgwyliad hiraethlon.

2. Yr wyf yn sicr mai rhesymol yw fod y peth felly: er hyny fe all natur, yr hon sydd yn hoffi bywyd, ac yn anewyllysgar i ymadael â hir drigfan adnabyddus, a myned i gyflwr hollol ddyeithr, gilio rhag marwolaeth ; ac arswydo wrth feddwl am y modd ofnadwy y bydd i'r byd ymollwng, ac felly i edrych ar ddydd y farn gyda rhywfaint o ddychryn, am hyny, fy mrawd yn yr Arglwydd, canys felly y gallaf yn awr dy alw, yr wyf yn ewyllysio ymresymu ychydig â thydi ar y pen hwn, ac erfyn ar i ti edrych ar y pethau pwysig hyn yn fwy astud, y rhai yr wyf yn gobeithio fydd yn llai anhyfryd, yn ol yr arferech â hwynt. Ië, yr wyf yn gobeitho y bydd i ti yn lle neidio yn ol wrth feddwl am angau, ymestyn ato gyda hyfrydwch a llawenydd.

3. Meddwl, O gristion, pan ddelo Crist i'th alw di ymaith trwy farwolaeth, y bydd yn dyfod i'th ryddhau o'th holl ofidiau presennol,—i'th wared oddiwrth weddillion llygredigaeth,—ac i'th ddwyn i fyw gydag ef ei hun, mewn santeiddrwydd a gorfoledd perffaith. Ti a

Digitized by Google

fyddi oddicartref o'r corff dros ychydig, eithr gartref gyda yr Arglwydd, 2 Cor. 5. 8.

4. Gwir yw, efe a'th eilw di ymaith o'r byd hwn. Ond, O! pa beth yw y byd presennol fel y carech ef, ac y glynech ynddo gyda y fath awydd? Pa mor ddystadl yw yr holl fwyniant a berthyn iddo; a pha mor aml yw ei helbulon, ei faglau, a'i ofidiau? Edrych ar dy bererindod yn y goleu hwn, a dywed, er i ddaioni a thrugaredd dy ganlyn di holl ddyddiau dy fywyd (Salm 23. 6.), oni fu hyd yn oed trugaredd ei hun yn planu rhai drain yn dy lwybrau, gan ddysgu i ti weled, trwy bethau doeth ac angenrheidiol, er yn boenus rai gweithiau, mai nid dyma dy orphwysfa di, Mica 2. 10. Edrych yn ol ar dy lawenydd a'th obaith, a gwel pa mor wywedig ydynt, a phob arwyddion o honynt yn agos i ddarfod, oddieithr coffadwriaeth galarus am danynt yn dy galon ofidus. Edrych ar feddau y rhai a lyncasant i fynu amryw o'th gyfeillion anwylaf a mwyaf dymunol, a hyny, o bosibl, yn mlodau eu hamser, a phan yr oedd dy gyfeillach â hwynt felusaf; ac os byw a fyddi ychydig yn hwy, fe dor i lawr yr anwylaf ag sydd heddyw yn fyw. Ystyria y byw yn gystal a'r rhai sy wedi marw: gwel gyflwr y natur ddynol dan amryw arwyddion galarus o'i hymadawiad oddiwrth Dduw, a dywed, pa ddyn doeth a da a ewyllysiai drigo yma byth? Mi a debygwn pe bawn fy hun yn hollol ddiogel rhag y saethau sydd yn ehedeg o'm hamgylch, nad allwn lai na galaru, wrth weled y modd y maent yn clwyfo ereill, ac wrth glywed gruddfanau y sawl sydd yn syrthio trwyddynt o ddydd i ddydd. Y mae clefydau a gorthrymderau dynion mor aml, a'r hyn sydd yn waeth, y mae anhwyldeb eu meddyliau mor amrywiol ac ofnadwy, fel y mae y byd yn ymddangos yn debyg i ysbytty (*hospital*): ac ni all y dyn y mae ei galon yn dyner,

Digitized by Google

lai na theimlo ei ysbrydoedd yn pallu, tra y mae yn tramwy ar hyd-ddo, ac yn edrych ar gyflwr galarus ei gydgreaduriaid; yn enwedig, pan ystyrio pa mor lleied a all efe wneuthur er dychweliad y rhai y mae ynddo dosturi atynt. Ai cristion ydwyt ti, ac onid yw yn frath calon i ti feddwl fel y mae y natur ddynol wedi soddi mewn drygioni a gwarth? I weled y rhyfyg trwy ba un y mae rhai yn gwneyd eu hunain yn bechaduriaid cyhoeddus ac aflan; a'r modd y mae enw Crist yn cael ei ddifenwi, gan ormod o'r rhai sydd yn galw eu hunain ei bobl ef? Onid wyt yn galaru wrth weled gweithredoedd ffiaidd ac anghyfreithlon y sawl sydd yn byw yn annuwiol, ac wrth feddwl am wendidau y rhai hyny y mae genym obaith gwell am danynt? Wrth ystyried y pethau hyn, oni ddymunit ymadael â'r fath fyd, yn mha un ni all enaid cyfiawn a thosturiol lai na blino o ddydd i ddydd, trwy weled cymaint o bechod a thrueni, 2 Pedr 2. 8.

5. Ond i ddyfod yn nes; yr wyf yn gofyn, Onid wyt ti yn teimlo rhywbeth o'th fewn dy hun, ag sydd yn peri i ti hiraethu am ymadael; yr hwn, yn ddiau, a wnai hyd yn oed baradwys ei hun yn chwerw? Rhywbeth a wnai, pe byddai yn parhau, beri gofid i'th enaid hyd yn oed yn nghymdeithas y gwynfydedigion? Onid ydwyt yn profi gweddillion pechod; yr hyn sydd yn ganlyniad galarus o ymadawiad gwreiddiol dy natur oddiwrth Dduw? Onid ydwyt yn ymorchestu yn erbyn rhyw lygredd bob dydd, neu o leiaf yn griddfan oblegid gwendid dy ras! Onid wyt yn fynych yn profi dy ysbryd yn hurt ac yn llesg, pan yr ewyllysiech fod fwyaf gwresog yn ngwasanaeth Duw? Onid yw dy galon yn fynych yn annheimladwy o amlygiadau mwyaf cyfoethog ei gariad ef, a'th ddwylaw yn llesg yn ei wasanaeth, hyd yn oed pan fyddo yr *ewyllysio yn barod genyt*? Rhuf.

Digitized by Google

7. 18. Onid yw dy fywyd, ar y goreu, yn ymddangos yn ddifudd, mewn cymhariaeth i'r hyn y gwyddost y dylai fod, a'r hyn wyt yn ewyllysio iddo fod? A wyt ti ddim yn fynych yn dywedyd, *O na bi i mi adenydd fel colomen, fel yr ehedwn ymaith ac y gorphwyswn,* Salm 55. 6.

6. A ddylit ti ddim llawenhau, gan hyny, wrth feddwl fod yr Iesu yn dyfod i'th wared oddiwrth y pethau hyn? Ei fod ef yn dyfod, i ateb dy holl ddymuniadau, pa rai a osododd efe yn dy galon? Ei fod ef yn dyfod i'th ddwyn di i fyd o burdeb a llawenydd, lle y bydd i ti ei wasanaethu ef mewn modd mwy bywiog a rhagorol, a hyny yn ddiflino?

7. O Gristion, pa mor fynych y bu i ti daflu golwg hiraethlon tu a'r porth dymunol, gan ewyllysio croesi y môr garw annymunol a pheryglus, ag sydd rhyngot a'r wlad hyfryd? Pan welodd dy Arglwydd yn dda ymostwng i ymweled â'th enaid mewn ordinhadau ar y ddaear, er nad oedd hyny ond megis dros enyd, O! fel yr oeddit yn bendithio yr amser, a'r lle, gan edrych arno, er ei fod ar lawer o gyfrifon yn annymunol, yn borth y nef ei hun? Gen. 28. 17. A yw yr olwg ar y porth mor ddymunol, ac oni fydd yn llawer mwy dymunol i fyned i mewn iddo? A yw cyfeillach Iesu yn beth mor rhagorol dros awr, ac oni fydd yn anfeidrol fwy o ddedwyddwch i ti gael preswylio gydag ef dros byth? Ti a elli yn addas ddywedyd, Arglwydd, pan breswyliwyf gyda thi mi a gaf fyw mewn santeiddrwydd, canys tydi dy hunan ydwyt santeiddrwydd: mi a gaf fyw mewn cariad, canys cariad ydwyt ti; mi a gaf fyw mewn llawenydd, canys ti ydwyt Ffynon o lawenydd, fel yr ydwyt yn y Tad a'r Tad ynot ti, Ioan 17. 21. Bydded i ti roesawu ei ddyfodiad ef gan hyny, i'th gymeryd ymaith ar dy air, ac i gyflawnu ei addewid ar ba un y gor-



Digitized by Google

phwysodd dy enaid yn fynych gyda heddwch a phleser nefol, sef, Y Tad, yr wyf yn ewyllysio fod i'r rhai a roddaist i mi, breswylio lle yr wyf fi, fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi, Ioan 17. 24.

8. Ac ystyried hyn, ti a elli ddywedyd yn sicr pa gyntaf y delo Crist, goreu oll. Beth os caiff dy ddyddiau eu byrhau? Beth os bydd raid i ti adael llawer o bleserau heb eu profi, a llawer o fwriadau heb eu dybenu? A yw ddim yn ddigon fod yr hyn sydd wedi ei dynu oddiwrth y bywyd marwol hwn, yn cael ei chwanegu at y bywyd tragywyddol a gogoneddus; ac i ti gael treulio y dyddiau a'r blynyddoedd hyny gyda Christ, ac yn ei wasanaeth ef yn y nefoedd, y rhai pe amgen a gawsit dreulio gydag ef, ac iddo ef, ar y ddaear, mewn modd llawer mwy anmherffaith.

9. Rhaid i ti olygu, nid yn unig fywyd yr enaid ar ol marwolaeth, eithr fod amser yn dyfod yn fuan, pan gaiff y corff ei uno ag ef drachefn. Canys pan mai Crist yn son am ei ddyfodiad i farn, fe ddywed, Wele yr wyf yn dyfod ar frys. Ac wrth gymharu yr amser rhwng angau a barn, a'r *tragywyddoldeb* gwynfydedig sydd i ganlyn, neu â'r *oesoedd* a aethant *heibio* er pan ddechreuodd yr h*aul fesur* allan dyddiau a blynyddoedd i'r ddaear, fe ymddengys, nad oes ond ychydig o amser cyflwr gwahanedig. Gan y bydd i'r corff fod me[illegible] farn yn dra buddiol yn yr ystyr hwn dyfodiad Cri[illegible] i ti ganu dy ran yn yr anthem hon, gan hefyd, oni *Amen, yn wir tyred, Arglwydd Iesu!*
ddywedir yw, O gristion, fe fydd yn ddydd arswydus.

10, yn mha un y caiff natur ei thaflu i'r fath gy-Dydd, na all neb ei osod allan eto. Canys nid yw [illegible]grynfäau, mynyddoedd tanllyd, difrodaeth dinasdd trwy dân ysol, neu wledydd yn cael eu gorchuddio an afonydd neu foroedd, ddim i'w cyffelybu i'r dydd

Digitized by Google

ofnadwy hwnw; y pryd hwnw y nefoedd a ant heibio gyda thwrf, a chan losgi a ymollyngant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir, 2 Pedr 3. 10, 12. Y dydd hwnw y ffŷ holl natur mewn syndod oddiwrth wyneb y Barnwr mawr (Dat. 20. 11), ac fe fydd gwaeddi mawr y pryd hwnw, llawer mwy nac a glywyd yn ngwlad yr Aifft, pan nad oedd dŷ a'r nad ydoedd ynddo un marw, Ecsod. 12, 30. Fe all fod dy gnawd yn barod i grynu wrth feddwl am y pethau hyn, eto diamheu fod dy ysbryd yn llawenhau yn Nuw yr Iachawdwr, Luc 1. 47. Ti a elli yn gyfiawn ddywedyd, wele deued y dydd hwnw, ynghyd â'i holl ddychrynfeydd! Ië, fel y cristionogion y mae yr apostol yn son am danynt, (2 Pedr 3. 12.), ti a elli frysio at ddyfodiad dydd goleu-ofnadwy y farn gyffredinol. Canys fe ddaw dy Arglwydd y pryd hwnw, i amddiffyn cyfiawnder yr amrywiol bethau ag oeddynt o'r blaen yn dywyll yn nghamrau rhagluniaeth, ac am eu bod yn dywyll yr oeddynt yn cael eu cablu. Fe ddaw, i amlygu ei ardderchogrwydd, gan ddisgyn o'r nef gyda bloedd a llef yr Arch-angel ac ag udgorn Duw (1 Thes. 4. 16.); gan eistedd ar orseddfainc anfeidrol ragorach na gorseddfeinciau tywysogion daearol na nefol, wedi ei wisgo â'i ogoniant ei hun ac eiddo y Tad (Luc. 9. 26.), ac wedi ei amgylchu â llu aneirif o weision disglaer, fe fydd yn ogoneddus iawn yn ei saint ac yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu, 2 Thes. 1. 10. Fe fydd i'w elynion gael eu dwyn i'r amlwg hefyd, i addurno ei fuddugoliaeth. Fe fydd y ddraig yno i'w gweled yn ymdreiglo yn y llwch, ac yn cael ei sathru ganddo ef a'i holl weision: yno bydd y rhai a'i barnasant ef unwaith, yn crynu ger ei fron; a'r rhai a fu yn plygu eu gliniau mewn gwatwar, a fyddant mewn gwyllt anobaith yn gwaeddi ar y mynyddoedd a'r creigiau i syrthio

arnynt, a'u cuddio rhag wyneb *Oen Duw* (Dat. 6. 16.), yr hwn a ddygasant ymaith unwaith i'r lladdfa yn y modd mwyaf annhrugarog.

11. O Gristion, onid yw dy galon yn llamu wrth feddwl am hyn oll? Ac onid ydwyt ti yn barod yn awr, tra yr ydwyt yn darllen y llinellau hyn, i ddechreu y floedd o fuddugoliaeth, yn yr hon y byddi yn uno y pryd hwnw? Y mae Crist yn dysgwyl fod dy feddyliau yn ymddyrchafu, ac yn cael eu heffeithio trwy olwg ar ei fuddugoliaeth ef; ac y mae efe yn foddlon ar yr un pryd i ti gofio am y rhan bersonol a fydd i ti dy hun, yn ngogoniant a llawenydd y dydd gwynfydedig hwnw: ac y mae efe yn awr yn edrych yn rasol ar yr hyn a gyflawna ei allu a'i gariad er dy iachawdwriaeth. A pha beth ni all efe ei wneuthur? Efe a ddaw i dori barau y bedd, ac i adfywio dy gorff marwol. Gwir yw y rhaid i'th gorff orwedd yn y pridd, ac aros yno dros amser, fel tystiolaeth o anfoddlonrwydd Duw am bechod; ïe y pechod cyntaf a wnaed yn ei erbyn ef, mewn canlyniad o ba un, ni ddianc neb o'i blant anwylaf. Ond y dydd hwnw ti a gei glust newydd i glywed llef Mab Duw, a llygad i weled ei ymddangosiad gogoneddus; a thi a lewyrchi fel yr haul (Mat. 13. 43.) pan gyfodo mewn awyr glir, yr hwn sydd fel gwr priod yn dyfod allan o'i ystafell, Salm 19. 5. Fe wisgir dy enaid megis â dillad newyddion, i'r dyben i harddu ei ddyfodiad gogoneddus; gwisgir di, nid â bratiau marwol, eithr â gwisgoedd gogoniant: canys efe a gyfnewidia ein cyrff gwael ni, ac a'u gwna yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef, Phil. 3. 21. A phan fyddech fel hyn wedi dy frenhinol wisgo, efe a'th anrhydedda di, yn nghyd â'i holl bobl, ger bron yr holl fydoedd. Ti a elli yn awr, o bosibl, gael dy waradwyddo, a dy euogfarnu am bethau y mae dy enaid yn eu ffieiddio: eithr y pryd hwnw Crist a ddwg allan

Digitized by Google

dy gyfiawnder fel y goleuni (Salm 37. 6), a'th iachawdwriaeth fel lamp yn llosgi, Esay 62. 1. Y pryd hwnw, er cael dy ddiystyru gan ddynion, Duw a'th addef yn eiddo iddo ef; ac er cael dy gyfrif fel ysgubion y byd, a sorod pob dim, Iesu a ddengys dy fod yn werthfawr yn ei olwg ef fel ei drysor, yn y dydd y gwnelo briodoledd, Mal. 3. 17. Pan fyddo efe yn gosod heibio holl annuwiolion y tir fel sothach (Salm 119. 119.), efe a'th gyhoedda di yn gyfiawn, ger bron dynion ac angylion; ac er tori o honot y gyfraith ddwyfol, ac felly haeddu yn gyfiawn gael dy euogfarnu, eto gan dy fod wedi dy wisgo â chyfiawnder dy Brynwr mawr, sef, y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd (Phil. 3. 9.), fe fydd i gyfiawnder ei hunan dy ryddhau, ac uno â thrugaredd i roddi i ti goron y bywyd, 2 Tim. 4. 8. Crist a'th addef di ger bron dynion ac angylion (Luc 12. 8.); a chan dy gyhoeddi di yn was da a ffyddlon, efe a ddywed, *Tyred i mewn i lawenydd dy Arglwydd*, Mat. 25. 11. Efe a lefara am danat ti gydag anwylder, fel ei frawd, ac a edrych ar y caredigrwydd a ddangosodd neb tuag atat fel peth a ddangoswyd iddo ef ei hun yn bersonol, Mat. 25. 40. Y pryd hwnw y bydd i ti, O gristion, yr hwn oeddyt, o bosibl, yn eistedd yn y lle gwaelaf yn ein cymanfaoedd ni ar y ddaear, lle nad oedd neb o gyfoethogion a gwŷr mawrion y byd yn ymostwng i edrych arnat, nac yn ymddyddan â thi, gael dy alw i eistedd gyda Christ ar orseddfaingc barn; ac i gydgyhoeddi barn ar ddynion ac angylion gwrthryfelgar.

12. Ond nid yw y fuddugoliaeth hòno i ddarfod mewn un dydd, eithr pan gyfodo y Barnwr oddiar ei orsedd, a dyrchafu i lys ei Dad, efe â'r gwynfydedigion gydag ef; y pryd hwnw y cei di yn mysg ereill dy ddyrchafu gyda dy Iachawdwr at ei Dad ef a'th Dad dithau, at ei Dduw ef a'th Dduw dithau, Ioan 20. 17.

Digitized by Google

Ti a gei ymddangos yn y Jerusalem newydd, yn y ddelw newydd ogoneddus a dderbyniaist; yn gyfatebol i ba un, fe fydd yn ddiamheu ddiwygiad rhagorol ar gynneddfau y meddwl. A a thi a gei breswylio dros byth yn y ddinas hòno, yn mha un y cei ddigonolrwydd llawenydd ger bron Duw, Salm 16. 11. Ti a gei ymadael â'r byd a ymollyngodd, a myned i'r nefoedd newydd a'r ddaear newydd, lle y mae cyfiawnder yn cartrefu byth, 2 Pedr 3. 13. Yno cei weled rhif etholedigion Duw yn llawn; a hapusrwydd pob un o honynt yn gyflawn. Yno yr ymddengys yr holl gynulleidfa o flaen Duw, fel y briodasferch gwraig yr Oen (Dat. 21. 9.), ar yr hon yr edrych ei Phriod gyda phleser annhraethadwy, gan addef nad oes arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw (Eph. 5. 27.); canys hi a fydd y pryd hwnw y fath un, ag y bwriadodd efe ei gwneyd, pan roddodd ei hun drosti i'w phrynu hi i Dduw â'i briod waed, Dat. 5. 9. Fel hyn y bydd i'r saint fod dros byth gyd a'u gilydd, a chyda yr Arglwydd, (1 Thes. 4. 17.), heb ddim cyfnewidiad i oesoedd tragywyddoldeb. Fe fydd eu dedwyddwch yr un, a'r blas arno yr un, neu yn hytrach yn cynyddu, fel y byddo eu heneidiau yn tynu yn nes-nes ato ef, yr hwn yw Ffynon pob hapusrwydd, a chanolbwynt perffeithrwydd anfeidrol.

13. Yn awr edrych o'th gwmpas, a dywed, A oes unrhyw beth ar y ddaear, oblegid ac er mwyn yr hwn y gellit waeddi, Arglwydd, oeda y cyfnewidiad? A oes un peth a all dy atal i ddywedyd, *Amen, yn wir tyred ar frys!*

*Myfyrdod a Gweddi y Cristion, calon pa un sydd yn cynhesu wrth edrych ar y gwynfyd tragywyddol.*

O Arglwydd bendigedig! Y mae fy enaid yn enyn ynof, trwy olwg ar y dedwyddwch sydd yn ol i'th bobl,

Digitized by Google

ac yn dyrchafu atat ti yn y fflam. Ti a ddywedaist, dy fod yn dyfod ar frys: ac yr wyf finau yn ailadrodd fy nghydsyniad llawn, gan ddywedyd, *Amen, yn wir tyred, Arglwydd Iesu*, Dat. 22. 20. Tyred, canys y mae arnaf hiraeth am gael darfod â'r byd hwn; am gael darfod â'i feichiau, ei orthrymderau, a'i faglau! Tyred, canys yr wyf yn hiraethu am gael esgyn i'th bresenoldeb i gael gweled dy lys uchod!

O Iesu bendigedig, y mae angau fel wedi ei gyfnewid, a'i ystyried yn y goleu hwn. Ni welaf mo frenin y dychryniadau mwy fel y cyfryw, gan fy mod mor agos i frenin gras a gogoniant. Yr wyf yn clywed trwst dy draed gyda llawenydd yn dyfod nes-nes: tyn ymaith y llen pan welech yn dda! Agor ddrysau fy ngharchar, fel y delo fy enaid atat, gan daflu ei hunan wrth dy draed, wrth draed yr Iesu, yr hwn er nad ydwyf yn ei weled, yr ydwyf yn ei garu, a chan gredu ynddo, yr ydwyf yn llawenhau, â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus! 1 Pedr 1. 8. Tydi, O Arglwydd, a ddangosi i mi lwybr bywyd; dy law a'm tywys i'r drigfan ddedwydd, i fwynhau digrifwch tragywyddol ar dy ddeheulaw, Salm 16. 11. Ti a roddi i mi drigfan yn mysg dy weision ffyddlon, ysbrydoedd pa rai sydd yn awr gyda thi tra y mae eu cyrff yn cysgu yn y llwch. Fe fu llawer o honynt fy nghydymeithion yn dy lafurwaith yma, ac yn amynedd a chystudd dy deyrnas (Dat. 1. 9.); ïe, fy anwyl gydymeithion a'm brodyr. O dangos i mi, O Iachawdwr, pa mor ogoneddus a hapus y gwnaethost hwynt. Dangos i mi i ba ryw ddull a bywyd gwell y dygaist hwynt, y rhai ydym ni yn alw y meirw! Yn mha ryw wasanaeth gwell ac ehang y gosodaist hwynt, fel y gallwyf dy foliannu yn well nag y gallaf yr awr hon, am dy ddaioni iddynt. Ac, O Arglwydd! dyro i mi ran o'u gwaith ac o'u bendithion, a

Digitized by Google

gallu codi cân o gariad a diolchgarwch, fel y gwnant hwy sydd yna ger dy fron.

O fy Mhrynwr bendigedig! fe fydd i'm henaid ymestyn am obaith gwell a mwy gogoneddus, hyd yn oed yn y nef; gan ddysgwyl am dy ymddangosiad olaf. Yno y bydd i mi hiraethu yn fwy nac yr wyf yn awr, am gael gweled dy ragluniaeth yn cael ei hamddiffyn, ac am amlygiad o'th fuddugoliaeth; am weled llwch dy weision yn cael ei adfywio, ac angau, eu gelyn diweddaf hwy a thithau, yn cael ei lyncu i fynu mewn buddugoliaeth, 1 Cor. 15. 26, 54. Mi a fyddaf yn hiraethu am yr anrhydedd mwy ag ydwyt wedi ei fwriadu i mi, a'r dedwyddwch perffaith i ba un y dygi dy holl bobl. *Tyred, Arglwydd Iesu, tyred ar frys*, a fydd yn ymgymysgu â chaniadau paradwys, ac yn swnio ar dafodau myrddiynau o'th saint, pa rai a blannodd dy ras yno. Ond, O fy Arglwydd, derbyn yn y cyfamser, derbyn y clod ag y mae fy nghalon ddiolchgar am roddi i ti, dan deimlad o'r gobaith gogoneddus a roddaist ynof! Tydi a osodaist y llawenydd hwn ynof, ac a gyfodaist yn fy enaid y fath chwennychiad gogoneddus; pe amgen mi a fuaswn yr awr hon, yn ymdreiglo yn mhleserau natur a theganau y byd hwn, ac yn edrych gyda dychryn ar yr awr, pa un sydd yn awr yn wrthrych fy nymuniad gwresocaf.

O bydd gyda mi bob amser hyd ddiwedd y bywyd marwol hwn! A dyro nerth i mi wneuthur dy orchymynion tra byddwyf yn dysgwyl am dy iachawdwriaeth! Bydded fy llwynau wedi eu hamgylch-wregysu, a'm lamp yn llosgi (Luc 12. 35.); a bydded fy nghlustiau yn agored i wrando am yr arwydd hyfryd o'th ddyfodiad: a phan ddelech, bydded i'm henaid redeg allan i'th gyfarfod gyda phleser, a chael ei nerthu wy farwolaeth i dderbyn yr amlygiadau gogoneddus

Digitized by Google

hyny, dan ba rai ni allai y natur hon sefyll. Caniata yr hyn wyf yn awr yn ei ofyn genyt er mwyn teilyngdod a haeddiant gwaed fy Arglwydd a'm Iachawdwr Iesu Grist. Amen.

## PENNOD XXX.

### Y CRISTION YN ANRHYDEDDU DUW TRWY EI YMDDYGIAD YN MARWOLAETH.

**Adfyfyrdodau ar y didwylledd gyda yr hwn y rhoddwyd y cyfarwyddiadau blaenorol, Dosparth, 1. Mae yr awdwr yn awyddus (os caniata Rhagluniaeth) i allu cynorthwyo y cristion i farw yn anrhydeddus a chysurus, 2, 3. Gyda golwg at hyn, cynghorir, (1.) I ryddhau y meddwl oddiwrth bob gofal daearol, 4. (2.) I adnewyddu ymostyngiad yr enaid ger bron Duw, a'i ymwneyd â gwaed Crist, 5. (3.) I weithredu amynedd dan boen a doluriau corfforol, 6. (4.) Wrth adael y byd, i adael tystiolaeth anrhydeddus dros grefydd, 7. (5.) I anerch cyfeillion gorfucheddol yn ddifrifol, 8. Yn enwedig i gymeradwyo ffydd yn Nghrist, 9. (6.) I gadw addewidion Duw mewn golwg, 10, 11. Ac, (7.) I roddi yr ysbryd ar ei ymadawiad i Dduw, yn y gweithrediad didwyll o ddiolchgarwch ac edifeirwch, ffydd a chariad, 12. y rhai a eglurir yn yr adfyfyrdod a'r weddi wrth derfynu.**

1. Fy anwyl ddarllenydd, mi a ymdrechais fel hyn i'th arwain trwy yr amrywiol amgylchiadau, pa rai sydd yn sicr o gymeryd lle yn y fuchedd ddynol a christionogol; am hyny na fydded i ti edrych arnynt yn bethau dychymygol yn unig. Ac mi a allaf ddywedyd yn llawen ac mewn gwirionedd, i mi nodi allan y llwybr yr hwn a gerddais i fy hun, a'r hwn wyf yn dymuno ei ganlyn hyd y diwedd. Yr wyf wedi ymddiried bywyd tragywyddol fy enaid fy hun, ar y sylfaen, at yr hon y'th gyfarwyddais dithau. Yr hyn a osodais ger dy fron fel yr achos mwyaf ei bwys mewn bywyd yw yr unig beth a ddymunwn i mi fy hun ei wneuthur fy



Digitized by Google

ngorchwyl penaf: a'r pleser mwyaf yr wyf yn ddysgwyl neu yn dymuno yn yr hyn sydd yn ol o'm pererindod ar y ddaear, yw yr hyn y bum yn dy anog di i'w geisio, ac yn ymdrechu dy gynorthwyo i'w feddiannu. Y fath gariad at Dduw, y fath fywiogrwydd parhaus yn ei wasanaeth; y cyfryw olwg hyfryd ar y pethau sydd tu draw i'r bedd, ydynt, Duw yn dyst, yn fy marn i, yn fwy o wynfydedigrwydd nac un peth arall ar y ddaear: ac ni fynwn i, er deng mil o fydoedd, golli fy rhan yn y pethau hyn, neu ymfoddloni i golli y pleser ag a roddant, hyd yn oed tra byddwyf yn preswylio yn y babell hon.

2. Yr wyf yn gobeithio yn ostyngedig y bydd i'r oriau a dreuliech yn myfyrio ar y pethau eglur hyn, dan fendith Duw, droi allan yn amser buddiol mewn rhyw radd i'th enaid; ac y byddant yn foddion naill ai i'th ddwyn i ffordd bywyd a heddwch, neu ynte i'th adfywio fel y rhedech hi yn gyflymach. Fe fyddai yn llawenydd calon i mi pe gallwn fod o ddefnydd i ti hyd ddiwedd dy bererindod. Y mae un amgylchiad eto i ddyfod, ag y bydd i ti orfod myned trwyddo yn anocheladwy; amgylchiad yw hwnw ag y mae rhywbeth mor ddychrynllyd yn cydfyned ag ef, fel na allaf lai na cheisio dywedyd rhyw ychydig er mwyn dy gynorthwyo ynddo: yr wyf yn meddwl am ddyffryn tywyll cysgod angau. Yr wyf yn ewyllysio yn fawr, er mwyn anrhydedd dy broffes a chysur dy enaid, ac er mwyn budd a llawenydd y sawl a fyddant byw ar dy ol, i ti allu marw, nid yn unig yn ddiogel, ond hefyd yn anrhydeddus: ac am hyny mi a geisiaf roddi i ti, ar fy ymadawiad, rai hyfforddiadau pa fodd y dylai cristion ymddwyn i'r dyben hwn. Yr wyf yn cyfaddef y gall rhagluniaeth drefnu amgylchiadau dy farwolaeth yn y fath fodd, ag na chaffech gyfleusdra i ymddwyn yn ol yr hyfforddiadau a gaf yn awr osod ger dy fron. Fe all rhywbeth annys-

Digitized by Google

gwyliadwy oddiallan, neu ynte oddifewn, dy chwyrndroi di i'r nefoedd megys heb wybod i ti; a gelli gael gweled dy hun wedi myned yno yn hytrach trwy drosglwyddiad na thrwy farwolaeth. Y mae yn bosibl i rym cystudd gael y fath effaith ar dy ddealltwriaeth, fel na byddo i ti allu gwybod yn mha ryw amgylchiadau y byddych; ac oblegid hyny gall dy farwolaeth ymddangos i ti yn beth mor rhyfedd, a phe byddit yn marw yn nghanol iechyd; er fod ereill o'th amgylch yn gweled awr dy ymadawiad yn sicr yn agoshau.

3. Ond gan ei fod yn debygol ar y cwbl y bydd i ti gael ymadawiad mwy teimladwy o amser i dragywyddoldeb; a chan fod cymaint yn ymddibynu ar dy ymddygiad yn amser cystudd ac yn awr marwolaeth, dyro genad i mi sylwi ar rai hyfforddiadau eglur pa fodd y dylech ymddwyn ar y fath amser, os bydd i Dduw ond rhoddi cyfleusdra. Ni fydd ddim yn anaddas i ti ddarllen Penned 29 drachefn, pan deimlech arwyddion o ryw glefyd bygythiol: ac yr wyf yn gobeithio y bydd yr hyn wyf yn ei ddywedyd o fendith i ti, gan fy mod yn proffi ynof dueddiad i lefaru wrthyt ti gyda y tynerwch neillduol hwnw ag ydym yn deimlo tuag at gyfaill pan ar ymadael; wrth ba un (gan nad ydym yn dysgwyl cael ymddyddan ag ef byth mwyach) yr ydym yn anfon allan ein holl galon yn mhob gair.

4. Mi a'th gyngheraf di gan hyny, yn y lle cyntaf, i ymdrechu danfon ymaith bob rhyw ofalon bydol mor gynted ag y byddo yn bosibl, trwy sefydlu a threfnu dy feddiannau a'th negesau amserol mewn pryd; a hyny yn y modd mwyaf rhesymol a christionogol ag y gellych. Mi a ddymunwn na byddo i ddim o'r natur hon ffwdanu dy feddwl pan fyddech leiaf galluog i'w ddyoddef; nac i beri cynen a gofid yn mysg y sawl a gaffo dy etifeddiaeth. Gwna yr hyn y byddi yn edrych arno

Digitized by Google

ger bron Duw y peth mwyaf cyfiawn; a'r hyn y byddi yn cael lle i gredu y bydd mewn gwirionedd yn rhyngu ei fodd ef. Trefna dy achosion yn y modd mwyaf doeth a sicr ag sydd yn bosibl; ac yna edrych ar y byd a'i ofalon fel lle nad oes genyt ti ddim neges ynddo, mwy na'r sawl sydd wedi marw; oddieithr i ti allu gwneuthur rhyw ddaioni i'r trigolion sydd ynddo, naill ai trwy air neu weithred, tra fyddech yn teithio tuag adref.

5. Mi a'th gynghoraf hefyd fel y byddech yn barotach i ymddangos ger bron Duw yn y farn, i edrych yn ddifrifol yn mha gyflwr y mae dy enaid anfarwol. Cofia mai peth mawr yw ymddangos ger bron yr Arglwydd; canys rhaid i ti sefyll o'i flaen ef, nid fel ymbiliwr wrth orseddfainc ei ras ef, eithr o flaen gorseddfainc barn, yn ysbryd noeth, a'th amser o brawf wedi darfod, a'th gyflwr tragywyddol i gael ei sefydlu yn y fan. Ymostwng o newydd ger bron yr Arglwydd mewn tristwch duwiol, oblegid holl anmherffeithrwydd dy fuchedd, er i ti yn gyffredinol roddi dy fywyd i'w wasanaeth ef. Ymbil am drugaredd Duw o newydd yn ol ei addewid yn y cyfamod gras yn ngwaed Crist, trwy yr hwn yn unig y mae trugareddau yr Arglwydd yn dylifo. Bydded i ti roddi dy hun o newydd i Dduw, gan fod yn foddlon i'w wasanaethu ef, fel y byddo da yn ei olwg, pa un bynag ai yn y byd hwn, ai yn yr hwn a ddaw. A chan ystyried dy bechadurusrwydd dy hun ar y naill law, a daioni a doethineb Duw ar y llaw arall, galw yn nghyd holl nerthoedd dy enaid i ddyoddef hyd ag y byddo yn bosibl pa beth bynag a osodo ei law geryddol ef arnat yn mhellach, ac i dderbyn yr ergyd diweddaf fel un a fyddai wedi bwriadu ymostwng hyd yr eithaf i Dad gogoneddus yr ysbrydoedd.

6. Pa beth bynag a ddyoddefech, ymdrecha i ddangos hun yn esampl o amynedd. Bydded i'r gras hwnw

Digitized by Google

gael ei berffaith waith (Iago 1. 4.); a chan nad oes ond ychydig gan y cyfryw ras rhagorol i'w wneuthur mwyach, bydded iddo ddybenu dy fywyd mewn modd anrhydeddus. Na fydded i ti ddywedyd un gair grwgnachlyd; ac i'r dyben na byddo, gwylia ar bob meddwl: a phan byddo unrhyw anfoddlonrwydd yn cyfodi ynot, edrych trwy ffydd ar Grist croeshoeliedig, a gofyn i'th galon, Onid oedd y groes, ar yr hon y bu efe farw, yn llawer mwy poenus na'r gwely ar ba un yr ydwyf fi yn gorwedd? Onid oedd ei sefyllfa ef, yn mysg gelynion gwaedlyd, yn anfeidrol fwy ofnadwy na'm hamgylchiad i, yn mysg cynifer o gyfeillion tyner, gofalus, a serchog? Oni phwysodd baich trwm fy mhechodau i arno ef yn llawer trymach nac y mae y cystuddiau hyn yn pwyso arnaf fi? Eto efe a ddyoddefodd y cwbl oll "fel oen a arweinid i'r lladdfa," Esay 53. 7. Bydded i goffadwriaeth o'i ddyoddefaint ef felusu dy orthrymderau di; ie, beri i ti lawenhau pan fyddech yn cael dy alw i ddwyn y groes, dros ychydig cyn cael o honot wisgo y goron. Cyfrif hyn yn bob llawenydd, dy fod yn cael cyfleusdra unwaith eto i anrhydeddu Duw trwy amynedd, pa un sydd yn awr megys ar ei gorchwyl diweddaf, ag a dderfydd o bosibl yn mhen ychydig o oriau mewn cyflawn wynfydedigrwydd tragywyddol. Ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'r pethau hyn, nid yn unig ddystewi pob achwyniad nwydwyllt ynot, eithr llanw dy enau o foliant i'r Arglwydd; ac y bydd i ti lefaru wrth bawb o'th amgylch, nid am ei gyfiawnder yn unig, ond hefyd am ei ddaioni. Mi a hyderaf y bydd i ti amlygu dy lawenydd mewnol yn y cyfryw fodd, ag y gallech roddi esponiad bywiol ac adeiladol o eiriau yr apostol, pan y mae yn dywedyd fod *gorthrymder yn peri dyoddefgarwch; dyoddefgarwch, brofiad; a phrofiad, obaith; y cyfryw obaith ac ni chywilyddia tra*



Digitized by Google

*mae cariad Duw wedi ei dywallt ar led yn ein calonau ni, trwy yr Ysbryd Glân yr hwn a roddwyd i ni*, Rhuf. 5. 3—5.

7. Ac yn awr, fy anwyl gyfaill, yn awr yw yr amser, pan ddysgwylir i ti mewn modd enwedigol i ddwyn tystiolaeth anrhydeddus dros grefydd. Dywed gan hyny, gystal ag y gellych, wrth bawb o'th gwmpas, (canys ni elli byth osod allan yn gyflawn,) pa ryw gysur a chynorthwy a gefaist ynddi. Mynega iddynt pa fodd y bu i Grefydd oleuo arnat yn yr amgylchiadau tywyllaf mewn bywyd: dywed y modd y mae hi yn dy heddychu di ag angau, wrth ei weled ef yn agoshau. Yn yr amser hwnw fe fydd i'r hyn a ddywedech ymddangos yn beth o bwys mawr i bawb o'th amgylch; ac yn nghanol dy wendid, trwy ba un y byddi yn ymorchestu i lefaru, fe fydd i ti gael gwrandawiad tyner, astud, a pharchus. Wrth ystyried y pethau hyn, pan fyddo amser dy ymddatodiad yn agoshau, bydded i ti anadlu allan dy orfoledd mewn modd rhydd, os bydd i ti y pryd hwnw deimlo (fel yr wyf yn gobeithio y bydd) dedwyddwch a llawenydd santaidd yn yr Arglwydd. Bydded i ti o leiaf amlygu dy dawelwch a'th heddwch mewnol, os bydd dy enaid y pryd hwnw yn dawel a heddychol, fel y byddo i ereill gael eu hannog i rodio y ffordd sydd yn arwain i'r fath ddiwedd hapus. Mynega i bawb y modd yr wyt yn teimlo gwagder y byd hwn, fel y byddo iddynt ddysgu ei garu ef yn llai. Dywed hefyd, pa faint o gynorthwy sylweddol ydwyt yn ei dderbyn trwy yr efengyl, fel y delont i'w gwerthfawrogi hi yn fwy; canys ni allant lai na gwybod y bydd yn rhaid iddynt hwythau orfod gorwedd ar wely marwolaeth, ac felly sefyll mewn diffyg o'r holl gynorthwy, ag a fyddo yn bosibl i'r efengyl ei hun ei roddi iddynt, yn yr awr hòno.

8. Ac er mwyn dwyn yn mlaen argyhoeddiad yn fwy, gorchymyn i bawb o'th amgylch yn y modd mwyaf syml,

Digitized by Google

am iddynt drealio eu bywydau yn ngwasanaeth Duw, a llywodraethu eu hunain yn ol egwyddorion gwir grefydd. Y mae yn bosibl dy fod yn cofio i Josuah a Dafydd, yn nghyd a dynion da ereill, wneuthur felly, pan yr oeddent yn gweled eu diwedd yn agoshau. Ni elli wybod pa ryw argraff a all rhybuddion cyfaill neu rïant wrth farw, gael ar y sawl a fuont o'r blaen yn diystyru yr hyn oll a gafodd ei ddywedyd wrthynt genyt ti, a chan ereill. O leiaf, prawf beth a elli wneuthur, ac wrth farw, ymdrecha i ogoneddu Duw ac achub eneidiau; cais yn hynaws hau had dedwyddwch a daioni yn y byd, lle na bydd i ti gael medi mwy. Ac y mae yn bosibl iddo dyfu yn gynhauaf ffrwythlon, pan fyddo dy gorff di yn cael ei orchuddio gan dyweirch; ac os amgen, fe fydd dy ymdrechiadau yn gymeradwy gan Dduw; ac fe fydd i'r angylion a fyddo o gylch dy wely, yn barod i dderbyn dy enaid, edrych y naill ar y llall gyda boddlonrwydd, gan ddywedyd, 'Dyma beth yw marw fel cristion, a gwneyd defnydd iawn o farwolaeth.'

9. Ac yn dy ymddyddan diweddaf hwn â'th gydgreaduriaid, pwy bynag a ddygo rhagluniaeth atat, bydd ofalus i ddywedyd wrthynt, pa mor drwyadl a hyfryd yr wyt yn pwyso, nid ar dy haeddiant a'th ufudd-dod di dy hun, eithr ar yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd dy Brynawr mawr dros bechaduriaid. Dangos i bawb dy fod yn marw megis wrth droed y groes: ac ni fydd dim yn fwy cysurus i ti dy hun, na dim yn fwy addysgiadol i ereill. Bydded enw yr Iesu gan hyny yn dy enau di tra y gelli ei lefaru; a bydded yn dy galon pan na elli ei lefaru mwy, ac ymdrecha a'r fod y weithred ddiweddaf a eiddo dy enaid tra yn y corff, yn weithred o ffydd ostyngedig yn Nghrist. Tyred at Dduw trwyddo ef; dos fel o'r tu fewn i'r llen, megis wedi dy daenellu o'r newydd â gwaed y taenelliad. Y mae yn beth ofnadwy

Digitized by Google

i'r fath bechadur ag ydwyt ti, fy nghyfaill cristionogol, er cymaint dy rinweddau, sefyll o flaen y BOD anfeidrol bur a santaidd, yr hwn a wybu dy holl ffyrdd a'th holl galon, a'r hwn sydd yn berffaith hysbys o bob rhyw gymysgedd o amherffeithrwydd ag oedd yn cydfyned â'th ddyledswyddau goreu: ond os myned a wnai yn enw yr Iesu, ti a gai brofi y ffordd yn ddiogel ac yn dra dymunol.

10. Unwaith yn mhellach, er mwyn meddiannu cysur yn awr marwolaeth, a chael dy gynal tra fyddech yn tramwy y ffordd boenus a thywyll hon, angenrhaid yw i ti gymeryd gair Duw yn ffon yn dy law. Bydded i lyfrau a chyfeillion wneyd eu gwasanaeth diweddaf i ti yn awr. Galw atat, os yw yn bosibl, ryw gristion profiadol, pa un a deimlodd allu gair Duw ar ei galon ei hun; a dyged yr ysgrythyr, a thywysed dy feddwl at rai o'r addewidion gwerthfawr hyny, pa rai a fuant yn ymborth ac yn llawenydd i'w enaid ef ei hun. I'r dyben hwn mi a geisiaf osod ger dy fron di yn y fan hon gasgliad o rai o'r addewidion ysgrythyrol, pob un o honynt sydd yn fwy gwerthfawr na *miloedd o aur ac arian*, Salm 119. 72. Ac er mwyn dangos pa mor werthfawr ydynt yn fy ngolwg i, mi a ddywedaf, mai fy nymuniad yw i mi (os rhydd Duw gyfleusdra) gael clywed eu darllain i mi yn bwyllog ar fy ngwely angau, fel y gallwyf adnewyddu y blas hyfryd, pa un a gefais arnynt lawer gwaith, diolch fyddo i'r Arglwydd. Bydded i'th enaid di a'm henaid inau gael eu gwneuthur yn dawel y pryd hwnw, (pa beth bynag a allo fod terfysg y natur anifeilaidd, tra fyddo Duw yn llefaru wrthym ni yn yr un modd ag y llefarodd efe wrth ei weision gynt; neu yn yr iaith trwy ba un y dysgodd efe hwynt pa fodd i lefaru wrtho ef, a'i geisio ef mewn amgylchiadau tra pheryglus.

Digitized by Google

11. A all unrhyw annogaeth fod yn eisiau tuag at beri i'r cristion fyned yn mlaen yn llawen yn ei ffordd i'r nef, pan y mae yr Arglwydd yn dywedyd fel hyn, "Nac ofna, canys yr ydwyf fi gyda thi; na lwfrha, canys myfi yw dy Dduw: cadarnhaf di, cynorthwyaf di hefyd, a chynhaliaf di â deheulaw fy nghyfiawnder, Esay 51. 10. Ac nid dyn yw efe i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau: a ddywedodd efe, ac nis cyflawna? a lefarodd efe, ac ni chywira?" Num. 23. 19. "Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm iachawdwriaeth, rhag pwy yr ofnaf, yr Arglwydd yw nerth fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?" Salm 27. 1. "Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd: efe a'n tywys ni hyd angau," Salm 48. 14. "Am hyny, er rhodio o honof trwy lyn cysgod angau, nid ofnaf niwed; canys yr wyt ti gyda mi, dy wialen a'th ffon a'm cysurant," Salm 23. 4. "Am dy iachawdwriaeth di y dysgwyliais, O Arglwydd," Gen 49. 18. "Estyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon; canys gyda thi y mae ffynon bywyd, ac yn dy oleuni di y gwelwn oleuni," Salm 36. 9, 10. "Dangosi i mi lwybr bywyd, digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron, ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd," Salm 16. 11. "Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder; digonir fi pan ddihunwyf â'th ddelw di," Salm 17. 15. "Canys mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiameu genyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw," 2 Tim. 1. 12. "Am hyny llawenychodd fy nghalon, ac ymhyfrydodd fy ngogoniant; fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith," Salm 16. 9. "Canys os ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw hefyd gydag ef," 1 Thes. 4. 14. "Yr wyf yn rhoddi i'm defaid fywyd tragywyddol," medd Iesu

Digitized by Google

y Bugail da, "ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i," Ioan 10. 28. "Hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i, caol o bob un sydd yn gweled y MAB, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol; a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf," Ioan 6. 40. "Na thralloder eich calon, yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finau hefyd. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau, pe amgen mi a ddywedaswn i chwi; yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi: ac os myfi a âf ac a barotoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun, fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd," Ioan 14. 1, 2, 3. "Dos at fy mrodyr, dywed wrthynt, yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, at fy Nuw i a'ch Duw chwithau," Ioan 20. 17. Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gweloont fy ngogoniant a roddaist i mi: fel y byddo ynddynt hwy y cariad â'r hwn y ceraist fi a minau ynddynt hwy," Ioan 17. 24, 26. "A'r hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn sydd yn dywedyd, yn wir yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir tyred, Arglwydd Iesu, Dat. 22. 20. "O angau, pa le y mae dy golyn? O uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth? Ond i Dduw y byddo y diolch yr hwn sydd yn rhoddi i ni y fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist," 1 Cor. 15. 55, 57.

12. Fel hyn bydded i'r Duw hwnw, pa un sydd yn adnabod eneidiau ei blant yn eu cyfyngderau (Salm 31. 7.), "yn ngolwg yr hwn y mae marwolaeth ei saint yn werthfawr" (Salm 116. 15.) dy gynal di a minau, pan fo natur mewn cyfyngder ac yn pallu! Bydded iddo ein cyfrif ni gyda y rhai hapus hyny, ag a wnaethpwyd yn fwy na choncwerwyr yn angau! A bydded iddo dywallt arnom y cynorthwyon hyny o eiddo ei Ysbryd

Digitized by Google

ag a'n galluogo ni i anadlu allan ein heneidiau wrth ymadael â'r byd fel y canlyn; er methu o honom ni ddlywedyd geiriau, na'u deall hwynt pe byddent yn cael eu darllain i ni! Bydded i ni fyfyrio ar angau a barn gyda serchiadau addas, a thrysori un weddi yn ychwaneg erbyn amser ofnadwy ein hymddatodiad! Ac, O na byddai i'r weddi hon, yn nghyd â'r holl weddiau ereill a ddanfonasom erioed at orsedd gras, ddyfod mewn coffadwriaeth ger bron Dduw (Actau 10. 4, 31.), yn y pryd y byddo ein cnawd a'n calon yn pallu!

*Myfyrdod a gweddi addas i Gristion pan fyddo ar ymadael â'r byd hwn.*

O Arglwydd, Penllywodraethwr yr holl fydoedd, gweledig ac anweledig! Tydi wyt yn Ben-arglwydd ar fywyd ac angau, ar ddaear a nefoedd! Bendigedig a fyddo dy enw am i mi erioed gael fy nysgu i ymofyn am danat. Wele fi unwaith yn chwaneg yn tywallt allan fy enaid ger dy fron; gostwng dy glust rasol, O Dduw, a deled fy llef yn gymeradwy o'th flaen.

Fe ddaeth yr awr i ti i fy nghymeryd i ymaith o'r byd hwn, â pha un yr wyf wedi bod yn gydnabyddus dros hir amser, ac i'm harwain i fyd arall, pa un sydd eto yn anadnabyddus i mi. Cynorthwya fi, yr wyf yn atolygu arnat, i ymddwyn yn y cyfnewidiad fel y gweddai i un o hâd Abraham, yr hwn wedi ei alw genyt ti i dderbyn etifeddiaeth, a ufuddhaodd, ac a aeth allan, er na wyddai efe yn gwbl i ba le yr oedd yn myned (Heb. 11. 8.); ie, fel plentyn i Dduw, yn gwybod trwy ben-arglwyddiaethol ras, fod yn rhyngu bodd ei Dad i roddi iddo ef y deyrnas, Luc. 12. 32.

Yr wyf yn cydnabod, O Arglwydd, fod y ddedfryd o farwolaeth, dan ba un yr wyf yn trengu, yn farn gyf-

Digitized by Google

iawn; ac yr wyf yn gweled dy ddoethineb a'th ddaioni di, yn trefnu fy nhaith i fyned trwy y dyffryn tywyll, yr hwn sydd yn awr o'm blaen. Nertha fi yn y daith hon i'th anrhydeddu di, ac i harddu fy mhroffes! Ac felly mi a'th fendithiaf am y loesion trwy ba rai y bydd i ti gael dy ogoneddu, a'r rhan farwol a phechadurus hon o'm natur inau gael ei thori ymaith. O Dad grasol, ni ewyllysiwn ymadael a'th ddaear, a'r tŷ hwn o glai, yn mha un y preswyliais cyhyd ar ei hwyneb, heb roddi diolch i ti am yr holl ddaioni helaeth yr hwn a beraist i fyned heibio fel o flaen fy wyneb (Ecsod. 33. 19.), yn fy holl daith trwy yr anial isod. Mi a ewyllysiwn â'm hanadl diweddaf, ddwyn tystiolaeth am dy ofal ffyddlon am danaf, yr hwn, yn ol dy air, *ni ataliaist oddiwrthyf ddim daioni*, Salm 34. 10. Yr wyf yn diolch i ti, O Dduw, am arbed fy mywyd hwn cyhyd, er ei fod yn llawn o euogrwydd, yn ddiffrwyth, a chwedi ei fforffedio filoedd o weithiau: ac am i ti ei gynal trwy y fath gyfraniadau. Clod i ti am wneuthur dechreuad fy mod mor gysurus yma. Diolch i ti, Arglwydd, am dy drugareddau i mi trwy y dyddiau a'r nosweithiau, trwy y misoedd a'r blynyddoedd, pa rai sydd yn awr wedi dirwyn i ben. Yr wyf yn diolch i ti am dy drugareddau i mi trwy fy mabandod, yn nghyd ag ereill a gyfrenaist yn ol llaw; am y cyfeillion dymunol a roddaist i mi yn nhŷ fy mhererindod, y rhai sydd yn awr yn fyw, a'r rhai sydd yn awr wedi marw; am yr holl gymorth a dderbyniais oddiwrth ereill; ac am yr holl gyfleusderau a roddaist i mi i wneuthur daioni i gyrff neu eneidiau fy mrodyr yn mysg dynolryw. Daioni a thrugaredd yn ddiau a'n canlynasant i holl ddyddiau fy mywyd (Salm 23. 6.), ac y mae yn rhesymol i mi gyfodi gyda diolchwch oddiar fy mwrdd, pa un a gafodd ei arlwyo ti â'r fath wleddoedd cyfoethog a hyfryd; ac er

Digitized by Google

hyn oll, ni bydd achos i mi dristâu am fy mod yn gorfod gadael y pethau dymunol hyn; canys, O Dduw, mi a wn fod dy drugaredd i barhau yn dragywydd. Ni wnaf gam â'th ffyddlondeb ac â'th ddaioni mor bell â meddwl fy mod i yn darfod â hapusrwydd, am fy mod yn ymadael â'r ddaear. Yr wyf yn diolch i ti am fy nysgu i olygu pethau gwell trwy dy FAB IESU. Y mae holl alluoedd fy enaid yn dy fendithio, am i mi erioed glywed am ei enw a'i farwolaeth ef: ac mi a ewyllysiwn dy addoli a diolch i ti mewn modd mwy rhagorol nac y gallaf tra yn y corff, am amlygiadau o gyfoeth dy ras ynddo ef; am ei addysgiadau a'i esamplau; am ei waed a'i gyfiawnder; ac am yr Ysbryd bendigedig yr hwn a roddaist i mi, i dynu fy nghalon bechadurus atat ti dy hun, a than rwymau dy gyfamod; ie, i rwymau y cyfamod hwnw ag sydd wedi ei luniaethu yn hollol, ac yn sicr (2 Sam. 23. 5.), a'r hwn, ni all angau, er iddo wahanu fy enaid a'm corff yn awr, byth eu datod. Yr ydwyf yn diolch i ti, O Arglwydd, am nad wyf yn marw mewn cyflwr anedifeiriol ac heb fy aileni; eithr i ti yn rasol fy neffroi a'm hargyhoeddi; am i ti adnewyddu a santeiddio fy nghalon, ac am i ti trwy dy Ysbryd daionus weithio ynof wir ffydd ac edifeirwch, yn nghyd â dechreuad o fywyd dwyfol. Diolch i ti am weinidogion ac ordinhadau, am sabbothau a dyddiau ordinhadau; ac am yr ymborth wythnosol a misol a gefais trwyddynt. Yr wyf yn diolch i ti am ffrwythau gwlad Canaan, pa rai a ddanfonaist i mi yn yr anialwch; ac am y rhai wyt yn awr yn ddanfon i mi ar lan yr Iorddonen. Diolch i ti am dy air, a'r addewidion mawr iawn a gwerthfawr ynddo ef, pa rai sydd fel cysurlyn cynes yn gwresogi fy nghalon yn yr awr hon o oerfelgarwch natur. Tydi a roddaist addewidion o gynhaliaeth yn angau, o ogoniant ar ol hyny, ac o adgyfodiad y corff i fywyd tragy-



Digitized by Google

# LLYFRAU CYMREIG

## AR WERTH GAN E. GRIFFITHS,

### *ABERTAWY.*

---

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Esponiad Hughes ar y Testament Newydd, wedi ei rwymo | 1 | 14 | 0 |
| Geiriadur Charles, yn rhwym | 1 | 18 | 0 |
| ———— Jones yn ddwy gyfrol, mewn rhwymiad hardd.. | 1 | 6 | 0 |
| ———— Gurney | 0 | 15 | 0 |
| ———— Cymraeg a Saesneg Dr. Pughe | 3 | 0 | 0 |
| ———— Saesneg a Chymraeg W. Walters | 2 | 10 | 0 |
| ———— Cymraeg a Saesonaeg | 0 | 5 | 0 |
| ———— Saesonaeg a Chymraeg, W. Richards, | 0 | 5 | 0 |
| ———— Argraffiad arall | 0 | 3 | 6 |
| ———— ———— ———— ———— John Evans | 0 | 3 | 0 |
| Geiriadur, neu Vocabulary, Saesneg a Chymraeg | 0 | 0 | 8 |
| Amseryddiaeth Lloyd o'r Bala | 0 | 9 | 0 |
| Gwaith Gurnal, wedi ei rwymo | 1 | 4 | 0 |
| Cref dd Naturiol a Datguddiedig, gan y Parch. W. Rees, yn rhwym | 0 | 6 | 0 |
| Gwaith yr Ysbryd, gan Dr. Owen | 0 | 5 | 0 |
| Cyfrinach y beirdd | 0 | 4 | 0 |
| Defodau Dwyreiniol, 5s.:—wedi ei rwymo | 0 | 6 | 0 |
| Mynegair Ysgrythyrol gan P Williams, wedi ei rwymo .. | 0 | 6 | 0 |
| Dechreuad a chynnydd crefydd yn yr enaid, gan Doddridge | 0 | 4 | 0 |
| Hanes yr Eglwys, gan y Parch. D. Morgans | 1 | 0 | 0 |
| Traethawd y Parch. T. W. Jenkyn, ar yr Iawn yn rhwym | 0 | 5 | 0 |
| Arweinydd Aelod eglwysig gan James, Birmingham.... | 0 | 2 | 0 |
| Cristion Dystaw, gan Brooks | 0 | 2 | 0 |
| Traethawd ar hawl dyn, &c. i farnu drosto ei hun, gan y Parch. H. Pugh | 0 | 0 | 6 |
| Manteision ac anfant[illegible]n y cyflwr priodasol, &c. | 0 | 0 | 6 |
| Tlysau Aur, gan A[illegible]drach | 0 | 2 | 0 |
| Blodau y Ffigysbren. gan yr un | 0 | 1 | 6 |
| Y Greadigaeth, neu sylwadau ar weithredoedd Duw .. | 0 | 1 | 0 |
| Hyfryd Lais, neu gasgliad o Hymnau | 0 | 0 | 6 |
| Hymnau y Parch. D. Davies, Abetawy | 0 | 0 | 6 |
| Darlithiau y Parch. C. G, Finney ar adfywiadau crefyddol | 0 | 5 | 0 |
| Pregethau Finney | 0 | 2 | 0 |
| Cawell y Bara Croyw, gan y Parch. D. Evans | 0 | 1 | 0 |
| Pregeth ar Dduwdod Crist, gan y Parch. W. Jones .... | 0 | 0 | 3 |
| Yr American, gan y Parch. B. W. Chidlaw | 0 | 0 | 6 |
| Y Cyfeiriadur Ysgrythyrol i Ysgolion Sabbothol, gan Lechie | 0 | 0 | 6 |
| Trysorfa yr Athrawon | 0 | 1 | 6 |
| Addysg Chambers i'r bobl, yn rhanau | | | |
| Rhodd mam, 8c. y dwsin | | | |
| Catecism Everett, 8c. y dwsin | | | |

Llyfrau Ysgol Cymreig a Saesonig; ac unrhyw Seisonig wrth ychydig ddiwrnodau o rybydd.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

MAR 13 1934

Digitized by Google